BX
9225
R44T46
1893

CYF1
C-1



Yr Eiddoch yn ddiffuant
Henry Rees

# COFIANT

Y PARCHEDIG

# HENRY REES,

YN CYNNWYS

## CASGLIAD HELAETH O'I LYTHYRAU.

GAN

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

MEWN DWY GYFROL.

---

CYFROL I.

---

WREXHAM:
ARGRAFFEDIG A CHYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE ST.

1890.

[All Rights Reserved.]

MICROFORMED BY
PRESERVATION
SERVICES
DATE SEP 12 1990

LIBRARY
15
JUL
1976
UNIVERSITY OF TORONTO

CYFLWYNIR Y GWAITH HWN I

**Mrs. Davies, Treborth,**

UNIG FERCH EI WRTHDDRYCH PARCHEDIG, A PHRIOD

RICHARD DAVIES, YSWAIN, U. H.,

AC

ARGLWYDD RAGLAW MON;

GYDA GWIR DDYMUNIAD CALON YR AWDWR,

AR I'R RHAGORIAETHAU YSBRYDOL A NODWEDDENT EI HANWYL DAD,

BARHAU YN ETIFEDDIAETH DROS BYTH

YN Y TEULU.

# RHAGYMADRODD.

WELE y gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn wedi ei chwbleiddio, ac yn awr yn nwylaw y darllenydd; ac y mae y gweddill o hono, oddieithr ychydig gywiriadau a chyflenwadau yn y bennod ar gymeriad Mr. Rees fel Pregethwr, yn barod i'w argraffu,—gan mwyaf, yn wir, wedi ei argraffu,—a gellir dysgwyl y cyfan yn fuan iawn bellach allan o'r Wasg. Y mae yn ddrwg iawn genyf na buasai wedi ei ddwyn allan lawer o amser yn gynt. Y mae nifer dirfawr o hen gyfeillion Mr. Rees, a'r rhai a fuasent yn gwerthfawrogi yn benaf y "Cofiant" am dano, wedi eu cymmeryd ymaith cyn ei ymddangosiad; ac oes arall, erbyn hyn, wedi codi heb wybod dim am dano oddieithr yn unig trwy hanes, fel y mae yn wir resynus na ddaethai allan er ystalm. Nid wyf yn hoffi cyfeirio o gwbl at yr achos o'r hir oediad fu ar hyny; yn unig, oblegid rhywbeth a ymddangosodd mewn rhai Newyddiaduron er ys amser yn ol, fod tegwch yn galw am sicrhâd, ei fod yn hollol groes i ddymuniadau cryfaf ei ferch a'i fab-yn-nghyfraith; a bod yr oediad wedi bod, iddynt hwy, yn achos mwy o ofid meddwl nag odid ddim a'u cyfarfuant erioed. Pan oedd rhyw amgylchiadau wedi dygwydd, ag a barent iddynt hwy ofni nas gallent ddysgwyl ei weled allan byth, hwy a geisiasant yn ddifrifol ac yn daer genyf fi ymgymmeryd â'r gwaith o'i ysgrifenu. Yr oedd hyny, ar y cyntaf, yn wyneb y fath oediad, ac yn nghanol gorchwylion ereill oeddent genyf mewn llaw, yn beth y teimlwn yn dra hwyrfrydig i'w gymmeryd i'm hystyriaeth. Ac, yn annibynol ar yr amgylchiadau, yr oeddwn yn hynod o amheus a allaswn, pe d ymgymmeraswn ag ef, ei barotoi er dim boddlonrwydd i mi fy hunan, ac yn enwedig fel

ag i wneyd dim tebyg i gyfiawnder â rhagoriaethau neillduol ac arbenig ei wrthddrych; ac yr oedd fy mod eisoes wedi ysgrifenu cymmaint yn ei gylch, yn Nghofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, yn peri i mi ammeu y doethineb o amcanu gwneyd dim ychwanegol, newydd,—ar raddeg helaeth arno. Rhwng pob peth, nid wyf yn meddwl y buaswn yn tueddu o gwbl i wrando ar y cais, oni buasai y cymhell taer oedd arnaf ato, nid yn unig gan deulu ei wrthddrych parchedig, ond gan lïaws o gyfeillion ereill, y rhai na chawn lonydd ganddynt heb i mi ymaflyd ynddo. Mae yn rhaid i mi gydnabod hefyd, fy mod fy hunan yn teimlo yn ddwys rhag ofn i'r fath goffadwriaeth bendigedig,—y gwyddwn a allasai, ond ei bortreadu i ryw raddau y fath ag ydoedd, fod mor nodedig o wasanaethgar a bendithiol i Gristionogion ein gwlad, yn enwedig i'n pregethwyr ieuainc,—gael ei esgeuluso, megis ag yr esgeulusasid yr eiddo cynnifer o'r pregethwyr galluocaf a mwyaf defnyddiol a ymddangosasant erioed yn mhlith ein cenedl;—fel, o'r diwedd, yr addewais ymgymmeryd â cheisio ei barotoi. Yr oedd hyny, hyd ag yr wyf yn cofio, yn ngwanwyn y flwyddyn 1883. Ar ol myned gydâ chyfaill o Liverpool,—Mr. Evan Morris, gynt o Lansannan,—i ymweled â lle genedigol ac â golygfeydd boreu oes Mr. Rees, a chasglu cymmaint ag a allwn o Adgofion am ei faboed, mi a ysgrifenais yn ddioed y bennod gyntaf o'r Cofiant, megis ag y mae yn awr wedi ei hargraffu.

Ond nid oeddwn pan yn addaw ymgymmeryd â'r gwaith, yn addaw, nac yn meddwl, y gallwn wneyd fawr iawn gydâg ef nes cael gwaith arall, oedd genyf ar y pryd ar fy nwylaw, allan o'r Wasg. Wedi darfod â hwnw, mi a deimlais yn ddwys tua dechreu y flwyddwn, 1886, y dylaswn, hyd ag y gallwn, brysuro i'w orphen. Wedi hyny, y mae fy meddwl yn gwbl dawel na bu un oediad ar y gwaith o'm plegid i. I'r gwrthwyneb, oddieithr pan y'm hanalluogid gan afiechyd, mi a ymroddais ato gydâ chryn egni, ar bob adeg a'r a allwn gan amrywiaeth gorchwylion ereill. Pan oeddwn i fynu yn Llundain, yn Hydref, 1887, fe'm cymmerwyd yn glaf iawn, o afiechyd tra pheryglus,

yn gymmaint felly fel mai prin y gobeithid am danaf. Bu'm heb allu gwneyd dim gwaith cyhoeddus hyd y Sabboth Rhagfyr 4; ac am rai misoedd ar ol hyny, heb allu ymgymmeryd â dim, ond yr hyn a ddisgynai yn uniongyrchol arnaf. Y peth oedd yn fy mhoeni yn fwyaf yn fy nghystudd, oedd fod y gwaith hwn heb ei orphen. Wedi teimlo fy hunan yn dechreu gwellhau, er yn hollol groes i gynghorion a rhybuddion fy Meddyg, mi a ymdrechais yn egniol ei gwblhau; ac erbyn dechreu Chwefror y flwyddyn hon, yr oedd y Cofiant, fel y cyfryw,—heb y bennod ar gymeriad Mr. Rees fel pregethwr,—yn barod i'r Wasg. Ac yn ddioed fe wnaed trefniadau i'w argraffu.

Yr ydwyf, yn nghorph y gwaith, yn cyfeirio yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, at y rhai yr wyf yn benaf yn ddyledus iddynt am ddim cynnorthwy i'w barotoi. I'w frawd, y diweddar Barchedig William Rees, D.D., yr wyf yn ddyledus am lawer o'i hanes yn moreu ei oes; ac yn enwedig ei lafur gydâ'r Ysgol Sabbothol,—yn y Capel yn Llansannan, yn Hendre Uchaf, ac yn Hafod Elwy. I'w ferch yn *neillduol* yr wyf yn ddyledus am ei Lythyrau teuluaidd gwerthfawr,yn arbenig ei Lythyrau ati hi; ac am gasglu yn nghyd gynnifer o'i Lythyrau at ereill, yn gystal ag am ei Hadgofion hi ei hunan o amryw o'i sylwadau yn y teulu, ac mewn cyfarfodydd eglwysig, ag y cadwasai hi gôf am danynt. Ond y mae corph y llyfr yn cael ei wneyd i fynu o'm hadgofion fy hunan, a'r hyn a allaswn gasglu o bob man o berthynas iddo.

Y mae yn bur bosibl y ceir ynddo rai cam-gymmeriadau, heblaw gwallau cyffredin y Wasg. Nid wyf fi, pa fodd bynnag, wedi cyfarfod ond â dau wall felly o ddim pwys, at y rhai y dymunwn alw sylw yma. Fe nodwyd un o honynt i mi gan gyfaill,—y Parch. Thomas Rees, Cefncoed, Merthyr,—ac yr ydwyf yn nghorph y llyfr, tudal. 758, 759, wedi cyfeirio ato ac wedi ei gywiro. Yn tudal. 111—115, fe ddywedir mai mewn Cymdeithasfa yn y Bala, yn Mehefin, 1855, y cymmerodd yr ymateb cyfeillgar le rhwng Mr. Rees a Mr. Morgan, ag oedd mor ddifyrus i'r rhai oeddent bresennol; tra mewn gwirionedd mai yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi, 1862, pan oeddwn i fy

hunan yn dygwydd bod yn Llywydd, y bu hyny, ac nid yn y Bala. Y mae hyny yn hollol sicr. Yr oedd Dr. Hughes o'r blaen wedi fy hysbysu o hyny, ond yr oeddwn i, gan gymmysgu yn fy meddwl yr hyn a ddygwyddasai yn y Bala, yn mhlith ychydig gyfeillion mewn tŷ yn y dref, a'r hyn a gymmerodd le yn y Gymdeithasfa yn Nghaernarfon, wedi rhoddi y naill am y llall.

Y camgymmeriad arall mi a'i gwelais fy hunan. Y mae yn tudalen 533 o'r Gyfrol hon, yn yr Adroddiad am Gymdeithasfa y Wyddgrug, Rhag. 9, 10, 11, 1856, pan oedd y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, yn Llywyddu. Yr ydwyf yno yn dywedyd fod Mr. Hughes "er ei fod yn Llywyddu yn amrywiol gyfarfodydd neillduol y Gymdeithasfa, eto yn rhy wael i gymmeryd un ran yn ei gwasanaeth cyhoeddus." Y mae hyny yn hollol annghywir. Yr oedd Mr. Hughes yn pregethu yn y Gymdeithasfa hono y nos ddiweddaf oddiar Luc x. 20, ar ol y Parch. John Hughes, Borth y pryd hyny, Dr. Hughes Caernarfon yn awr. Yma drachefn yr oeddwn yn cymmysgu Cymdeithasfa y Wyddgrug 1856, â'r Gymdeithasfa yno yn 1860, y ddiweddaf y bu Mr. Hughes ynddi; pryd yr ydoedd yn rhy wael i gynnyg pregethu, er ei fod yn Llywyddu mewn rhai o'r Cyfarfodydd, yn lle Mr. Hughes, Abergele.

Yr oedd fy nghôf unwaith yn un y gallwn ddibynu yn hollol arno, ond fe'm siomodd y ddwy waith hyn. Ond prin y gellir dysgwyl yn amgen: ar ol nid ychydig gystudd, cryn fesur o ryw fath o lafur, ac yn enwedig wrth gofio fy mod *heddyw* wedi cael pen fy mlwydd yn ddwy-ar-bymtheg-a-thri-ugain oed.

Yn lled hyderus y rhydd y gwaith hwn radd o foddhad i'r rhai sydd eu hunain yn cofio ei Wrthddrych parchedig ac anwyl, a chan obeithio hefyd y gall fod, i ryw fesur, yn fuddiol i'r llïaws mawr nad ydynt yn cofio dim yn bersonol am dano, yn enwedig ein pregethwyr ieuainc, yr wyf yn ei adael i ofal Pen Mawr yr eglwys ei hunan.

OWEN THOMAS.

46, Catharine Street, Liverpool,
*Rhagfyr* 16, 1889.

# Y CYNNWYSIAD.

## PENNOD I.

### BOREU EI OES: 1798—1812.

Ei Enedigaeth—ei Henafiaid—ei Rieni—y plant ereill—ei nodwedd fel plentyn—tuedd grefyddol yn ieuanc—morwyn yn ymadael a'r teulu—ei weddi ar yr achlysur—ei hoffder o forthwyl a hoelion—profedigaeth yr efail a'i fuddugoliaeth arni—cael ei anfon i'r Ysgol ddyddiol Gymraeg—Ysgol Saesonaeg yn Llansannan, yntau yn cael ei anfon iddi—ysgolhaig pryderus a llafurus—yn wylo llawer uwchben ei wersi—o duedd neillduedig, ond ar adegau yn chwareus fel plant ereill—cael ei symmud yn rhy fuan o'r ysgol—gweithio gydâ'i dad ar y tir—llawen o'i ryddid—llygredd ei galon yn cynhyrfu—llithro i ond nid ymollwng i bechu—cydwybod yn cael goruchafiaeth- agwedd grefyddol pentref Llansannan—y Methodistiaid yn adeiladu Capel yno—ei dad yn symmud yno o Danyfron i ofalu am yr achos—yntau yn myned yno gydâg ef—llafurus gydâ'r Ysgol—hoff iawn o wrando pregethau—ei ddull yn gwrando—Adfywiad Crefyddol yn Llansannan—ymuno yno â'r Gymdeithas Eglwysig .. .. .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 1—23.

## PENNOD II.

### BLYNYDDOEDD CYNTAF EI IEUENCTYD: 1812—1816.

Ymroddi i Grefydd—myned i Gymdeithasfa y Bala y tro cyntaf—ei syniadau bachgenaidd am y pregethwyr—ei deimladau wrth wrando ar John Elias—gweddïo yn nghlyw ereill yn fwriadol, am y tro cyntaf, yn ei letty yn y Bala—dychwel adref a dechreu cymmeryd ei ran mewn Cyfarfodydd Gweddïau—doniau hynod mewn gweddi—llafurus gydâ'r Ysgol Sabbothol a chydâ'r canu—Ysgol Sabbothol arall yn cael ei

chodi yn y plwyf—efe yn cael ei bennodi i fyned i hono—arweiniad yr Ysgol yn raddol yn disgyn i'w ofal—yn cael ei bennodi i Holwyddori—y fantais o hyny iddo—teimlo angen am lyfrau—awydd yn enwedig am y Geiriadur Ysgrythyrol—pryder pa fodd i'w gael—corddi i'r fam—y gynog ymenyn—penderfynu myned i weled Mr. Charles, a phrynu y Geiriadur ar goel — Cymdeithasfa y Bala, 1814 — myned yno — Mr. Charles, Mr. Elias, ac yntau, yn cyfarfod a'u gilydd am yr unig dro erioed—cael y Geiriadur—dychwel adref fel un wedi cael ysglyfaeth lawer — marwolaeth Mr. Charles — ei alar mawr ar ei ol — awydd pregethu yn disgyn arno — blas neillduol ar wrando pregethau — pregethu teithiol—Parch. William Morris, Cilgeran—ei ddylanwad ar ddynion ieuainc, ac felly arno ef—ymroddi i ddarllen a myfyrio—sylwi llawer ar natur, a gweled rhyfeddodau Duw ynddi... *Tudalen* 24—49.

## PENNOD III.

### GADAEL TY EI DAD A MYNED I GYMMYDOGAETH Y BETTWS, ABERGELE: 1816—1819.

Amgylchiadau cyfyng y Deyrnas ar derfyniad rhyfel Ffrainc—y cyfyngder yn cyrhaedd Llansannan—Henry Rees, fel y mab hynaf i'w dad, yn penderfynu troi allan i'r byd—y Parchedig Thomas Jones, Dinbych, yn symmud i Syrior—Henry yn clywed am ei fwriad, ac yn myned i Ddinbych i geisio sicrhau lle gydâg ef iddo ei hunan—yn llwyddo yn ei amcan—lle hollol gysurus—teithio llawer dros Mr. Jones—ei brofedigaethau wrth deithio—ymosodiadau annghariedig gan rai ar Mr. Jones oblegid ei syniadau Duwinyddol — teimlo dros ei feistr — chwedl fod ysbryd yn blino yn Syrior—y teulu yn cael eu taflu i ddychryn—yn cysuro Mrs. Jones—manteision rhagorol iddo yn Syrior o ran llyfrau, a hamdden i'w darllen—ei ofid na buasai yn deall Saesonaeg—Mr. Jones yn ceisio ei arfer i'w siarad—awydd pregethu yn parhau—yn pregethu cryn lawer wrtho ei hun—rhywun yn clywed ac yn adrodd hyny i Mr. Jones—cymmeryd rhan arbenig gydâ'r Achos yn y Bettws—yn yr Ysgol Sabbothol—y Cyfarfodydd Ysgolion—dechreu canu—Mr. Jones yn gadael Syrior—yntau yn gweled y byddai raid iddo fyned hefyd—y cyfeillion yn y Bettws yn daer arno aros—lle newydd yn rhagluniaethol yn ymagor iddo—cael drachefn bob mantais a allasai ddysgwyl, ac ymddwyn tuag ato braidd fel mab yn hytrach na gwas—dyfod yn fwy-fwy gwasanaethgar i'r Achos—agoriad Capel newydd yn y Bettws—Mr. Elias yn y Cyfarfod—oedfa hynod—dysgwyliadau cyffredinol yn y bobl am dano i droi allan fel pregethwr .. .. .. .. *Tudalen* 50—69.

## PENNOD IV.

### O'R PRYD Y DECHREUODD BREGETHU NES Y GADAWODD YR YSGOL YN ABERGELE: 1819—1821.

Awydd pregethu yn cryfhau—yn penderfynu dechreu—ei adroddiad ef ei hunan o'r amgylchiadau—y newydd yn cyrhaedd Llansannan—yn pregethu am y tro cyntaf yno—pregethu ar Sabboth yn Llangernyw—dylanwad ei bregeth ar feddwl y Parch. John Jones, Talsarn—ymadael â'r Bettws a dychwel i dŷ ei dad—myned yn gyfaill i hen bregethwr i Gymdeithasfa y Bala—hwnw yn ei gymhell i bregethu allan o'r cylch a bennodasid iddo—yr hen frawd hwnw yn hen dorwr ar reolau—penderfynu myned i'r ysgol i Abergele at y Parch. Thomas Lloyd—ei dderbyniad tra yno yn aelod o'r Cyfarfod Misol—cael ei daro â chlefyd trwm—ar ol ei adfer yn dychwel i'r ysgol—myned ar daith gydâ y Parch. John Davies, Nantglyn—Llangollen a Mrs. Cooper—adgofion am Gyfarfod Misol Sir Ddinbych, pan ymunodd efe âg ef—Cymdeithasfa Llanrwst, 1820—Cyfarfod Misol y Bala, 1821—adgofion am y cyfarfod hwnw—amser ei ymadawiad a'r ysgol yn nesau—dechreu pryderu pa beth a gai at fyw, a chyflawni ei weinidogaeth yn mhlith y Methodistiaid, yn ol y dull cyffredin yn eu plith—cael ei berswadio i fyned i'r Amwythig i ddysgu y gelfyddyd o Rwymo Llyfrau—yn penderfynu myned yno .. .. .. .. .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 70—97.

## PENNOD V.

### O'I FYNEDIAD I'R AMWYTHIG, HYD EI NEILLDUAD I'R HOLL WAITH: 1821—1827.

Ei fynediad yno—lletty cysurus—derbyniad serchog gan yr eglwys fechan yn y lle—pregethu yn gyson iddynt—llythyrau o'i eiddo—Cymdeithasfa y Drefnewydd, 1822—myned i'r ysgol i Dorrington cyn dychwelyd yn ol fel y bwriadai i Sir Ddinbych—cael gwahoddiad i ymsefydlu yn yr Amwythig—yn cydsynio â'r ammodau—cyfarfod â rhai o ysgrifeniadau Dr. Owen—dylanwad daionus y rhai hyny arno fel Cristion, ac fel pregethwr—ei adroddiad ef ei hunan o'r amgylchiad—Cymdeithasfa y Drefnewydd—Mr. Ebenezer Richard yn ei wrando y tro cyntaf—Cymdeithasfa Dolgelleu, 1822—Mr. Elias yn ei wrando am y tro cyntaf—rhoddi cyhoeddiad i Mr. Elias i fyned trwy Sir Fôn—yr awdwr yn ei wrando am y waith gyntaf yn Nghaergybi—ei destyn a'i

bregeth — Cymdeithasfa Llanfyllin, 1823 — cael ei bennodi i fyned i Lundain—Cymdeithasfaoedd Machynlleth, Pwllheli, a Dolgelleu, 1823—ei ymweliad cyntaf â Liverpool, 1824—adgofion Mr. Roberts, Hope Street, am dano—Cymdeithasfaoedd y Bala ac Amlwch, 1824—ei ymweliad cyntaf â'r Deheudir—Cymdeithasfa Llangeitho—oedfa hynod i Mr. Lloyd, Beaumaris, yno—Cymdeithasfaoedd 1825, 1826—ymweliad â Llundain yr ail waith—Llythyrau o'i eiddo oddiyno—adeiladu Capel newydd yn yr Amwythig—agoriad y Capel, y Nadolig, 1826—yn cael ei ddewis i'w Ordeinio gan Gyfarfod Misol Sir Drefaldwyn—ymddyddan âg ef gydâ golwg ar hyny yn Nghymdeithasfa Llanfair Caereinion—ei Ordeiniad yn Nghymdeithasfa y Bala, 1827 .. .. *Tudalen* 98—159.

## PENNOD VI.

### O'I ORDEINIAD HYD EI YMADAWIAD A'R AMWYTHIG: 1827—1836.

Ymroddi i lafurio—astudio y Sacramentau—cael ei anfon dros y Gymdeithasfa i ymweled â Birmingham—dwyn adroddiad i Gymdeithasfa Pwllheli—Cymdeithasfa Beaumaris, 1827—taith trwy Fôn—taith i'r Deheudir—Richard Bumford yn gyfaill iddo—Cymdeithasfa Llanerchymedd, 1829—oedfa hynod iawn yno—taith trwy Siroedd Mynwy a Morganwg—Cyfarfod Ysgolion yn Meifod—ei Annerchiad yno yn cael ei gyhoeddi—myned i Lundain eto—yn priodi—taith i Feirionydd ac Arfon a Môn—adgofion o'i Bregethau yn Mangor y pryd hwn—Ysgrif werthfawr i'r Drysorfa—Cymdeithasfaoedd Llanfyllin â'r Bala, 1832—Urddiad ei frawd yn Heol Mostyn—traddodi y Cyngor iddo ar yr achlysur—ei ysbryd rhyddfrydig—taith eto i Siroedd Môn ac Arfon—Rolant Abraham yn gyfaill iddo—y geri marwol wedi dyfod i'r Deyrnas, ac yn lladd llaweroedd—pregeth arbenig ar yr ymweliad hwn ar y daith hon—Llythyr at ei fam-yn-nghyfraith—traddodi yr Araeth ar Natur Eglwys yn y Bala, 1833—Ysgrif eto yn y Drysorfa—Traddodi y Cyngor yn y Bala, 1834—Cymdeithasfa Llangeitho, 1835—ei ymdrechion yn erbyn annghymedroldeb—cyhoeddiad ei Bregeth ar Gymmedroldeb—Llythyr at Mr. Hughes, Llanrwst—myned i Lundain eto—Cymdeithasfa y Bala, 1836—hysbysu yno ei fwriad i symmud i Liverpool—y Gymdeithasfa yn cymmeradwyo—Cymdeithasfa Twrgwyn—Cymdeithasfa Crughywel—ymosodiad arno gan rywun trwy y Wasg—teimlo dros y cyfeillion yn yr Amwythig wrth feddwl eu gadael—yn edrych ar yr alwad o Liverpool yn llais y Brenhin Mawr—yn symmud yno .. .. .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 160—218.

## PENNOD VII.

### O'I SYMMUDIAD I LIVERPOOL HYD EI YMWELIAD AG AMERICA: 1837—1839.

Derbyniad croesawgar gan y frawdoliaeth yn Liverpool—anghenion neillduol y lle—trem ar amgylchiadau yr Achos—y Parch. Thomas Hughes—yr hen flaenoriaid—y Parch. Richard Williams—yr achos yn cynyddu, ac angen arbenig am ryw un i ofalu ac i arwain—y llafur mawr a ddisgynai arno—ymroddi yn ddyfal i'w waith—ennill cymmeradwyaeth cyffredinol—marwolaeth ei fam—Cymdeithasfa Dinbych, 1837—marwolaeth y Parch. Ebenezer Richard—Cofnodion o'i eiddo ef ei hunau o'i deimladau y flwyddyn gyntaf iddo yn Liverpool—Cymdeithasfaoedd, 1837—Cymun yn Pall Mall, 1838—oedfaon hynod—y diweddar Barch. John Hughes yn symmud i Liverpool—yn cael ei alw yn gyd-weinidog âg ef—cyfeillgarwch mawr rhyngddynt—dylanwad iachusol gan y naill ar y llall—y diweddar Mr. Williams o'r Wern yn gymmydog a chyfaill iddo—meddwl uchel iawn am dano—ei feirniadaeth gyfeillgar arno .. .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 219—245.

## PENNOD VIII.

### EI YMWELIAD AG AMERICA, A'I DEITHIAU YNO: 1839.

Pennodi Mr. Moses Parry ac yntau gan y Gymdeithasfa i ymweled ag America—anturiaeth bwysig y pryd hwnw—dedwydd yn ei gyfaill—Cyfarfod Dinbych—Llythyr oddiwrth Mr. Elias—Llythyr Mr. Rees at gyfaill yn yr Amwythig—eto at Mr. Edwards o'r Bala—Cyfarfod Ymadawol yn Pall Mall—Cyfarchiad hynod Mr. Hughes ar yr achlysur—Adroddiad Mr. Rees ei hunan o'r fordaith—cyrhaedd yr America—Sabboth yn New York—gweddeidd-dra mawr yn yr addoliad—y Parch. William Rowlands—Llythyr at ei wraig—teithio yn yr America—Albany—Utica—Steuben—Remsen—Mr. James Owen—Penycaerau—Webster Hill—Ffloyd—Sabboth eto yn Remsen—Cyfarfod Chwarterol yno—Llythyr eto at Mrs. Rees—un arall at Mr. Samuel Jones, Pall Mall—yr annghydfod yn Remsen—Sylwadau Mr. Rees arno—myned i Ohio—Palmyra—Newark—Welsh Hills—Granville—Radnor—Columbus—Cincinnati—y Parch. Edward Jones—Llythyr eto at Mrs. Rees—Jackson—y Parch. Robert Williams o Fôn—afiechyd ei gyfaill—Philadelphia—Pittsburgh—dychwel i New York—aros yno ddau Sabboth—Cyfarfod Chwarterol yno—Sylwadau ar y wlad ac ar y bobl—ei hanghenion crefyddol .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 246—321.

## PENNOD IX

### O'I DDYCHWELIAD O'R AMERICA, HYD AFLWYDDIANT Y CAIS ARNO I ADAEL LIVERPOOL: 1839—1841.

Llawenydd mawr o'i ddychweliad—ymroddiad newydd i'w waith ac yni newydd yn ei bregethu—Cymdeithasfa y Wyddgrug wedi ei ddychweliad — Cyfarfod Misol Wrexham — Adfywiad Crefyddol yn Kilsyth, Ysgotland—ymweliad â'r lle—Cyfarfod Misol y Bala, 1840—Ordeinio Mr. Thomas Jones yno yn Genhadwr i South Affrica—Adgofion o'r Cyfarfod—cysylltiad Mr. Thomas Jones â Chymdeithas Genhadol Llundain yn cael ei dori—Crynoad o hanes dechreuad ein Cymdeithas Genhadol ni, ar wahan oddiwrth Gymdeithas Llundain—Cymdeithasfa Llanfair—penderfynu yno, yn erbyn Mr. Rees, cefnogi Sefydlu Cymdeithas o'r eiddom ein hunain—teimladau cryfion dros ac yn erbyn—y Deheudir yn dra hwyrfrydig i ymuno—oediad ar ol oediad—llwyddo o'r diwedd i gael yr holl Gyfundeb yn un yn yr achos—Mr. Rees ar ol i'r Cyfundeb benderfynu, yn nodedig o ffyddlawn i'r Gymdeithas—myned i Lundain am dymhor i wasanaethu yr Achos yno—marwolaeth mam Mrs. Rees tra yr ydoedd efe yno—ei Lythyr ati hi ar yr achlysur—Llythyr at Mr. Roberts, Amlwch—Cyfarfod yn y Wyddgrug gydà golwg ar yr ymrysonau yn Sir Fflint—Llythyr oddiwrth Mr. Elias at Mr. Rees yn nghylch y cyfarfod—Mr. Rees yn cymmeryd rhan arbenig, ac yn anmhleidiol a thêg hollol, yn yr ymchwiliad hwnw—y cyhuddiadau bob un yn syrthio i'r llawr—yr ymchwiliad yn rhoddi terfyn hollol ar yr ymryson—Mr. Elias yn marw—teimlad dwys trwy yr holl wlad — Cymdeithasfa y Bala—Cymdeithasfa Bangor — ymddangosiad pethau ar y pryd yn gymylog i'r Cyfundeb — teimladau Deheu a Gogledd yn groes i'w gilydd gydâ golwg ar y Gymdeithas Genhadol a'r Athrofa—y Gogledd yn penderfynu myned yn mlaen yn y Bala—Sir Fôn yn annghytuno—Llythyr Mr. Cadwaladr Williams i Gymdeithasfa Rhuthin—pryder yn Rhuthin yn yr Achos—Mr. Rees ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa yn cael eu pennodi i'w ateb—y llythyr yn ateb y diben, a Sir Fôn yn ymuno â'r Siroedd ereill—Mr. Rees a Mr. Roberts, Amlwch, yn Genhadau dros y Gogledd i'r Deheu—eu taith i Landeilo—awydd ymryddhau ar Mr. Rees oddiwrth ofalon a llafur Liverpool—cyfeillion yn ei berswadio i symmud i Ddyffryn Clwyd—cytuno yn rhy frysiog i Gymmeryd lle yno a myned yno i fyw—cyfeillion Liverpool yn cyffroi—Llythyr oddiwrthynt i Gymdeithasfa Dolgelleu—Cyfoisteddfod yn cael ei bennodi i eistedd ar yr Achos—hwnw yn dyfod i'r penderfyniad i'w gynghori i aros yn Liverpool—Rhagluniaeth yn ymddangos yn pleidio hyny—y bwriad i symmud yn cael ei roddi i fynu *Tudalen* 322—388.

## PENNOD X.

### O AGORIAD ATHROFA TREFECCA, HYD Y CYFFRO MAWR YN NGHYLCH ADDYSG DDYDDIOL 1842—1847.

Y Deheudir yn sefydlu Athrofa yn Nhrefecca—cais i gael un o'r Athrawon o'r Bala i fyned yno—y Gogledd yn gadael y cwestiwn i'w benderfynu gan yr Athrawon eu hunain—Mr. Charles yn myned—Agoriad Trefecca —llafur mawr Mr. Rees gydâ'r Achos Cenhadol—ymweliad oddiwrth y Presbyteriaid â Chymdeithasfa y Bala—marwolaethau y Parch. Richard Williams a'r Parch. Jenkin Davies—Llythyr at y Parch. John Jones, Llanbedr—Araeth ar Natur Eglwys yn y Bala, 1843—Ffurfiad yr Eglwys Rydd—myned i Lundain at y Pasg, 1844—Llythyrau at Mr. Edwards y Bala—y Cynghrair Efengylaidd—Cymdeithasfa Bangor—Araeth ar Undeb Cristionogol—achos poenus yn nglyn â'r Genhadaeth —Cyngor y Cyfarfod Ordeinio yn y Bala, 1845—Cynnadledd yn Liverpool—Erthygyl i'r Traethodydd—marwolaeth y Parch. John Parry, Caerlleon—Sylwadau arno—dyledion ein Capelau—Rheolau Newyddion gydâ golwg ar adeiladu—ymdrechion mawrion i leihau y ddyled—pethau yn raddol yn syrthio megis o'r blaen—Mesur y Llywodraeth gydâ golwg ar Addysg Ddyddiol—cyffro dirfawr yn y Deyrnas —Mr. Rees yn teimlo yn ddwys yn yr achos—pryder mawr gydâ golwg ar Gymru—Llythyrau at Mr. Roberts, Amlwch, a Mr. Hughes, Abergele .. .. .. .. .. .. .. .. .. *Tudalen* 389–455.

## PENNOD XI.

### O GYMDEITHASFA LIVERPOOL, 1847, HYD GYMDEITHASFA CAERNARFON, 1854.

Rhagluniaeth a Gweddi—y Traethodydd—Cymdeithasfa y Bala—John Williams, Llecheiddior—yr Athrofa—cais am gronfa—cyfarfod brwdfrydig yn Liverpool—Cymdeithasfa Bangor—pennodi Mr. Rees a Mr. Edwards i ymweled â'r Cyfarfodydd Misol—ymweled â Môn—Llythyr yn adrodd fel y bu yno—ymweled a'r holl Siroedd—yr amcan ar y pryd yn syrthio i'r llawr—Llythyr at Mrs. Davies, Fronheulog—Cymdeithasfa Caernarfon, 1848—traddodi y Cyngor yn yr Ordeiniad yno—marwolaeth y Parch. Thomas Lloyd, Abergele—achos cyfreithiol poenus yn Llundain—Cymdeithasfa Treffynnon—y Cholera yno ar y

pryd—gweddïo yn arbenig dros y dref—yr haint yn cael ei attal—Cymdeithasfa Llandeilo—myned i Lundain am rai misoedd—Llythyr—awydd mawr mewn llawer am symmud lle yr Athrofa—Rhagdraethawd i'r "Eglwys o Ddifrif"—Cymdeithasfa yr Wyddgrug—yr Arddangosiad mawr yn Llundain—Llythyr at gyfaill ar farwolaeth ei wraig—taith i'r Iwerddon—Erthygl i'r Traethodydd—Annerchiadau i wŷr ieuainc—cynllun newydd i dderbyn ac i Ordeinio Pregethwyr—Arholiad Cymdeithasfaol—pryder yn nghylch yr Athrofa—gwŷr ieuainc yn dechreu pregethu tra yno—Cymdeithasfa Caernarfon, 1854 *Tudalen* 456—555.

---

Ow'n difwynaw! braw briwiawg—diwreiddiwyd
Cedrwydden ardderchawg:
Henry Rees—hyn ŷr y rhawg—iâsau
Miniawl wâniadau am anwyl weinidawg.

Datodiad y tŷ ydoedd—ymadae
A mudo i'r Nefoedd;
Duw, o'i ludded, i wleddoedd,
Anwyl ŵr, yn ei alw oedd.

Aeth ar aden ochenaid—ar unwaith
I'r anedd fendigaid;
Glaniodd, fuddugol enaid,
Yn Seion, a'r goron gaid.

Eryron Gwyllt Walia.

# COFIANT

Y

# PARCH. HENRY REES, LIVERPOOL.

---

## PENNOD I.

*Boreu ei Oes:* 1798—1812.

EI ENEDIGAETH—EI HENAFIAID—EI RIENI—Y PLANT EREILL—EI NODWEDD FEL PLENTYN—TUEDD GREFYDDOL YN IEUANC—MORWYN YN YMADAEL A'R TEULU—EI WEDDI AR YR ACHLYSUR—EI HOFFDER O FORTHWYL A HOELION—PROFEDIGAETH YR EFAIL A'I FUDDUGOLIAETH ARNI—CAEL EI ANFON I'R YSGOL DDYDDIOL GYMRAEG—YSGOL SAESONAEG YN LLANSANNAN, YNTAU YN CAEL EI ANFON IDDI—YSGOLHAIG PRYDERUS A LLAFURUS—YN WYLO LLAWER UWCHBEN EI WERSI—O DUEDD NEILLDUEDIG, OND AR ADEGAU YN CHWAREUS FEL PLANT EREILL—CAEL EI SYMMUD YN RHY FUAN O'R YSGOL—GWEITHIO GYDA'I DAD AR Y TIR—LLAWEN O'I RYDDID—LLYGREDD EI GALON YN CYNHYRFU—LLITHRO I OND NID YMOLLWNG I BECHU — CYDWYBOD YN CAEL GORUCHAFIAETH — AGWEDD GREFYDDOL PENTREF LLANSANNAN—Y METHODISTIAID YN ADEILADU CAPEL YNO—EI DAD YN SYMMUD YNO O DANYFRON I OFALU AM YR ACHOS—YNTAU YN MYNED YNO GYDAG EF—LLAFURUS GYDA'R YSGOL—HOFF IAWN O WRANDO PREGETHAU—EI DDULL YN GWRANDO—ADFYWIAD CREFYDDOL YN LLANSANNAN—YMUNO YNO A'R GYMDEITHAS EGLWYSIG.

GANWYD y PARCHEDIG HENRY REES, Chwefror 15, 1798, yn Chwibren Isaf, yn mhlwyf Llansannan, yn Sir Ddinbych. Y mae anrhydedd neillduol yn perthyn i'r plwyf hwn, yn mhlith

holl blwyfi ein gwlad, gan mai ynddo y ganwyd yr enwog WILLIAM SALESBURY, cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd i'r iaith Gymraeg. Dyna ei dystiolaeth bendant ef ei hunan, yn ei Lysieulyfr. Ac y mae yn ddiammeu mai y *Cae Du*, ar yr ochr orllewinol i'r Aled, tua dwy filltir uwchlaw y pentref, oedd lle ei enedigaeth. Erbyn hyn nid oes ond adfeilion y tŷ hwnw i'w gweled, gan fod yr *hen* Gae Du yn garnedd, a thŷ newydd, o'r un enw, wedi ei adeiladu ychydig yn uwch i fynu. Yr oedd yn yr hen dŷ ystafell gyfyng, ddirgel, mor ddirgel fel nas gallasai neb ddychymygu fod yno ystafell o gwbl, ac nad oedd modd myned i mewn iddi ond trwy ddringo i fynu y simdde; ac y mae y traddodiad yn y gymmydogaeth eto, mai yn yr ystafell hòno yr ymguddiai Mr. Salesbury, o dan deyrnasiad y frenhines Mary, rhag yr erlidwyr pabaidd a geisient ei einioes; ac mai ynddi hi hefyd y cyflawnodd ran fawr o'r gwaith cysegredig, a'i gwnaeth y fath gymmwynaswr i'n cenedl, ac sydd wedi gosod y fath enwogrwydd ar ei goffadwriaeth. Mae yn resyn dirfawr na buasai yr hen dŷ wedi ei adael megis ag yr oedd, er cynnorthwyo yr ymwelydd â'r lle i ffurfio syniad cywirach am, ac i sylweddoli yn fwy effeithiol nag y mae yn bosibl iddo yn awr, yr amgylchiadau anfanteisiol yr oedd y cyfieithydd anrhydeddus ynddynt, pan yn llafurio gydâ'r fath ymroddiad a dyfalwch, ac heb gael ei gymhell gan ddim ond cariad at eneidiau ei gydwladwyr, i'w gwasanaethu yn y peth penaf, trwy roddi yr ysgrythyrau sanctaidd iddynt yn eu hiaith eu hunain.

Y mae pentref bychan Llansannan yn gorwedd mewn glyn isel, cul, naw milltir o Ddinbych, ac un-milltir-ar-ddeg o Lanrwst, ar y ffordd rhwng y naill dref a'r llall. Y mae yr Aled, afon fechan sydd yn tarddu o lyn Aled, ar fynydd Hiraethog, rhyw chwe' milltir uwchlaw y pentref, yn rhedeg gerllaw iddo ar yr ochr ddwyreiniol, ac i lawr i ddyffryn prydferth Aled, ar ei thaith i ymuno â'r Elwy, ac wedi hyny â'r Clwyd, cyn ymarllwys i'r môr gerllaw Rhyl. Pan eloch i fynu o'r pentref am ryw ddwy filltir a hanner neu dair milltir, ar hyd ffordd gul a drwg iawn, gydâ godreu bryndir, rhyngoch â mynydd Hiraeth-

og,—ar y tu dwyreiniol i'r afon, uwchlaw iddi ar ochr y bryn, fe welir amaethdŷ bychan, heb ddim yn hynod yn ei ymddangosiad,—dyna Chwibren Isaf, dyna y tŷ lle y ganwyd ac y magwyd gwrthddrych parchedig ac anwyl ac anrhydeddus ein Cofiant. Mae y tŷ hwn hefyd, ychydig flynyddoedd yn ol, wedi ei ail-adeiladu agos yn gwbl; a mawr oedd ein siomedigaeth, pan aethom i gael golwg arno, wrth weled nad oes odid ddim yn aros o'r hen dŷ, oddieithr y fantell uwchben lle y tân yn y gegin. Y mae rhyw gymmaint o'r tai allan, ac yn neillduol yr hyn a elwir y darllaw-dŷ, yn aros; yn lled-arwyddo fod rhyw fawredd wedi bod unwaith yn eiddo iddo, llawer mwy nag a ganfyddir arno yn bresennol.

Yr oedd Mr. Henry Rees, neu *Rice,* fel y mae ei enw ar ei fedd-faen, taid y Parch. Henry Rees, yn ŵr genedigol o Landeilo Fawr, yn Sir Gaerfyrddin; yr hwn a ddaethai, rywbryd wedi canol y ganrif ddiweddaf, i Lansannan, yn gyllidydd *(excise officer).* Fe ddywedir mai gŵr lled fyr o gorpholaeth ydoedd, ond o gyfansoddiad cadarn iawn; tra chwimwth ei droediad, ac yn hytrach yn boethwyllt ei dymher; eithr o deimladau nodedig o garedig, ac o ddiwyg ac ymddygiad tra boneddigaidd. Yr oedd yn ŵr hollol ddichlynaidd o ran ei ymarweddiad, ac yn wrandawr cyson ac astud gydâ'r Methodistiaid, yn hen gapel Tan-y-fron, er nad ymddengys iddo erioed ymuno â'r eglwys yno. Yr oedd yn hynod am ei brydlonedd yn yr addoliad. Er fod ganddo yn agos i dair milltir o ffordd i fyned i'r capel, eto fe'i gwelid ef bob amser yn ei le cyn dechreu y gwasanaeth; ac yn fynych iawn fe fyddai yn nghylch y capel tua hanner awr cyn yr amser. Cafodd iechyd da ar hyd ei oes, a chyrhaeddodd oedran têg. Fe'i claddwyd ef, Gorphenaf 4, 1796, yn 78 mlwydd oed.

Yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi iddo ddyfod i Lansannan fel cyllidydd, efe a ymbriododd â Miss Gwen Lloyd, yr hon oedd etifeddes Chwibren Isaf. Buasai iddi hi frawd o'r enw Henry Lloyd; gŵr ieuanc a gawsai addysg dda, ac a berchid yn fawr, gan wreng a bonheddig, yn y gymmydogaeth lle y preswyliai, ac yn y wlad oddiamgylch, ond a fuasai farw heb briodi.

Yr oedd iddi hefyd chwaer,—Mrs. Parry, wedi hyny, o'r Foelfre fawr, gerllaw Llangwm; ond i Miss Gwen Lloyd, yr hon oedd yr henaf, y disgynodd yr etifeddiaeth ar ol marwolaeth ei brawd. Yr oedd ei hynafiaid hi wedi bod yn preswylio yn Chwibren Isaf er ys oesoedd lawer, ac yn cael eu cyfrif yn mhlith uchelwyr urddasol y wlad. Yr oeddent yn disgyn oddiwrth Hedd Molwynog, yr hwn oedd bendefig o Isdulas, yn Sir Ddinbych, ac a gyfanneddai tua chanol y ddeuddegfed ganrif yn mhalas Henllys, yn Llanfair Talhaiarn; ac ystyrir ef yn benaeth y nawfed o bymtheg llwyth Gwynedd. Yr oedd etifeddiaeth y Chwibren unwaith wedi bod yn ëang a chyfoethog, yn cynnwys rhanau o gantrefi Archwedlog ac Uch Aled; ond aeth y rhan fwyaf o honi oddiwrth y teulu o bryd i bryd; weithiau oblegyd gwastraff ac afradlonedd, ac weithiau oblegyd dygwyddiadau anffodus; rhwng y naill beth a'r llall, rywsut, pa fodd bynnag, yn gymmaint, fel, pan ddaeth Miss Lloyd i'r etifeddiaeth, nad oedd yn aros o honi yn feddiant iddi ond Chwibren Isaf a Rhydloew; gydâ rhai tai yn mhentref Llansannan, a pheth tir gerllaw y pentref.

Yr oedd Miss Lloyd, fel ei brawd, wedi cael ysgol ac addysg dda yn ei hieuenctyd, pell uwchlaw i'r hyn oedd gyffredin yn y dyddiau hyny, hyd yn nôd i rai o'i hamgylchiadau hi; ac er hyny yr oedd wedi ei harfer ei hunan, bob amser, i bob gwaith cysylltiedig â'r tŷ, ac os byddai angen yn y maesydd hefyd, fel pe na buasai ond gwasanaethyddes gwbl gyffredin. Ei châs beth hi oedd seguryd. Nid oedd dim tuedd ato ynddi ei hunan, ac nis gallai ei oddef yn neb arall. Y mae yn ymddangos oddiwrth ysgrif o eiddo y Parch. William Rees, D.D., yn y *Traethodydd* am Gorphenaf, 1856 (tudal. 277—287), yr hon a gyhoeddŵyd drachefn yn ei *Rydd Weithiau* (Cyfrol II., tudal. 131—145), ei bod hi yn gymeriad tra hynod. Yr oedd yn nodedig o ofalus am, a phryderus yn nghylch, ei phlant a'i hŵyrion; ac yn un dra phenderfynol i weithio allan ei hamcanion ei hun. Pan y gosodai ei meddwl ar unrhyw beth, ofer hollol fyddai ceisio ei throi oddiwrtho. Nid ydym yn deall fod dim hynodrwydd neillduol ynddi o ran ei chrefydd. Yr oedd wedi bod, am flyn-

yddoedd lawer, yn aelod o'r eglwys fechan yn Nhan-y-fron, ac yn arfer bod yn gwbl gyson gydâ'r moddion yno; ond oblegyd rhywbeth, anhysbys i ni, hi a giliodd o'r eglwys, ac i fesur mawr o'r capel, am gryn dymhor. Ymunodd drachefn, pa fodd bynnag, â'r gymdeithas yno ychydig amser cyn ei marwolaeth, a dywedir fod arwyddion dymunol iawn o wir ddwysder crefyddol i'w canfod yn eglur arni. Yr oedd o deimlad tra haelfrydig tuag at achos crefydd; ac yn gofalu, yn neillduol, am gyfranu yn gyson ei gini yn flynyddol, er cynnorthwyo Mr. Charles o'r Bala, yn ei ymdrech i sefydlu ysgolion dyddiol, mewn amrywiol ardaloedd yn ein gwlad. Fe'i claddwyd hi, Hydref 1, 1813, yn 73 mlwydd oed.

Ganwyd i Mr. a Mrs. Rees bedwar o feibion; a'r ieuengaf o honynt, DAFYDD, oedd tad y Parch. Henry Rees. Ganwyd y tad yn niwedd y flwyddyn 1773, ac fe'i claddwyd, Gorphenaf 8, 1828, yn 54 mlwydd oed. Pan ydoedd tuag ugain mlwydd oed, ar ol bod, am hir amser, o dan argyhoeddiad dwfn, ac o ran ei deimladau megis ar fin anobaith cyn cael profi tangnefedd yr efengyl, efe a ymunodd â'r eglwys yn Nhan-y-fron; ac a ddaeth, ar unwaith, yn aelod defnyddiol iawn yno. Yn fuan fe'i dewiswyd yn flaenor; a bu yn gwasanaethu yn y swydd hono, rhwng Tan-y-fron a Llansannan, o hyny hyd ei farwolaeth. Yr oedd efe yn naturiol o feddwl llwfr a phruddaidd, ac ar adegau yn cael ei lethu yn hollol gan ddigalondid: ond yr oedd yn ŵr nodedig mewn duwioldeb; ëang a manwl yn ei wybodaeth ysgrythyrol; tra chydnabyddus â gwirioneddau yr efengyl yn eu hamrywiol gysylltiadau; hynod o fedrus i arwain yr ymddyddan yn y cyfarfodydd eglwysig, ac yn enwedig i ddyddanu Cristionogion profedigaethus a thrallodedig; ac yr oedd, yn neillduol, yn rhagori mewn doniau gweddi. Yr oedd ei hynodrwydd yn hyny y fath, fel mai dywediad cyffredin y bobl, er ei ganmawl ydoedd, fod cystled ganddynt hwy glywed Dafydd Rees yn gweddïo, a chlywed John Elias yn pregethu. Oes led helbulus a gafodd, yn unig oblegyd yr iselder ysbryd yr oedd mor ddarostyngedig iddo; ond, pan ddaeth y diwedd, yr oedd yn llawn tangnefedd.

Bu farw yn y Cae Du, lle y preswyliai er ys amryw flynyddau, yn gwbl hyderus am fuddugoliaeth dragywyddol ar bob gelyn; ac y mae ei goffadwriaeth ag arogl peraidd arno, yn Llansannan, hyd y dydd hwn.

Yn lled fuan wedi i Dafydd Rees ymuno â'r gymdeithas eglwysig yn Nhan-y-fron, efe a ymbriododd âg Anne Williams o Gefn y Fforest,—merch ieuanc landeg a chrefyddol, ac un âg addasrwydd arbenig ynddi i fod yn wraig iddo ef. Yr oedd hi o dymher naturiol dra gwahanol i'w gŵr: yn un mor wrol a chref a chalonog a phenderfynol, fel nad hawdd y gallasai dim ei llwfrhau; ac eto yn llawn cydymdeimlad âg ef yn ei wendid a'i ofnau, ac yn fedrus annghyffredin i yru y pruddglwyf ymaith oddiarno. Trugaredd fawr iddo ef oedd, ei fod wedi ei gymmeryd ymaith o'i blaen hi. Bu hi byw yn agos i naw mlynedd ar ol ei gladdu ef. Cymmerwyd hi yn glaf gan anwyd trwm, yn nechreu mis Mawrth, 1837; yr hwn, yn mhen tuag wythnos, a derfynodd yn ei marwolaeth, pan oedd yn 65 mlwydd oed. Nid yn aml y cyfarfu angeu â neb, â llai o'i ofn arno na hi. Yr oedd wedi cymdeithasu cymmaint, ar hyd ei hoes, â'r hwn a'i diddymodd, ac yn ymddiried mor ddiysgog ynddo, fel yr oedd y gwrolfrydedd ag oedd yn naturiol yn eiddo iddi, ac a'i dygasai yn fuddugol trwy holl brofedigaethau bywyd, yn nghymundeb ei hysbryd â'i Gwaredwr, yn dal yn ei lawn rym yn y cyfyngder mawr diweddaf; ac yn ei galluogi i farw yn gwbl orfoleddus. Claddwyd hi yn yr un bedd â'i gŵr, gerllaw capel Llansannan.

Ganwyd i'r rhïeni hyn bump o blant,—un ferch a phedwar o feibion. Y mae y ferch, Gwen, neu, yn ol ei henw priodasol, Gwen Charles, yr hon oedd yr hynaf o'r plant, yn fyw eto (Hydref 18, 1883), gerllaw Dinbych. Fe'i ganwyd hi, Ebrill 26, 1795; fel y mae yn awr yn wyth-a-phedwar-ugain mlwydd oed. Ac er ei bod, gan amlder dyddiau, wedi teneuo a gwywo llawer yn ei gwyneb, a bod cryndod mawr yn ei phen, â'i braich aswy yn gwbl wywedig: a bod hefyd ryw gymmaint o floesgni yn ei lleferydd, fel nad hawdd i un dieithr ddeall yn dda yr hyn a ddywedir ganddi: eto y mae, ar y cyfan, yn lled iach, ac yn holl-

ol ddiboen; ac y mae ei meddwl yn parhau yn gryf ac yn fywiog. Pan yn nghyflawnder ei nerth, yr oedd cyffelybrwydd mawr ynddi, o ran ei hymddangosiad corphorol, i'w brodyr enwog, yn enwedig i'w brawd William; ac nid oedd yn annhebyg iddynt o ran ei nodweddau meddyliol. Y mae yn wraig dra chrefyddol; ac yn niysgogrwydd ei ffydd yn y Gwaredwr Mawr, y mae yn gallu edrych yn gwbl dawel am awr ei hymddattodiad.*

O'r pedwar mab, bu Dafydd y mab ieuengaf, yr hwn a anwyd Rhagfyr 7, 1807, farw o'r darfodedigaeth, pan nad oedd ond ychydig ddyddiau uwchlaw tair-blwydd-ar-hugain oed. Nid oedd efe, mewn un modd, o alluoedd cyffelyb i'w frodyr. Bu yn gwaelu am dros flwyddyn o'r afiechyd a'i cymmerodd ef ymaith. Yn ystod ei gystudd, rhoddodd brofion amlwg ei fod wedi ei ddwyn i adnabod a theimlo nerth crefydd yn ei enaid; a dangosai hefyd, yn neillduol, fod ganddo ddawn arbenig mewn gweddi; rhywbeth, yn achlysurol, yn adgofio y teulu o ddawn hynod y tad, hyd yn nôd ar ei adegau goreu. Gwnaeth gynnydd cyflym annghyffredin mewn crefydd, ac addfedodd yn fuan iawn i ogoniant. Claddwyd ef wrth ochr ei dad, gerllaw Capel Llansannan. Rhagfyr 20, 1830.

Ganwyd Thomas, yr ail fab, Mai 31, 1800, a bu farw yn mis Medi, 1869, yn 69 mlwydd oed. Yr oedd efe yn ŵr o synwyr cryf iawn; ac yn cael ei gydnabod yn gymmaint felly, fel y dewisid ef yn fynych yn athrywynwr, mewn achosion o annghydweledigad neu ymryson, rhwng rhyw rai yn y gymmydogaeth â'u gilydd; yr oedd yn hynod garuaidd ei ysbryd, ac yn hollol ddiargyhoedd o ran ei ymarweddiad; a pherchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenent. Yr oedd yn athraw rhagorol a nodedig o ffyddlawn yn yr Ysgol Sabbothol, er pan oedd yn ieuanc iawn, er na bu erioed yn aelod eglwysig. Parai ei fod wedi esgeuluso hyny, lawer o ofid iddo yn ei gystudd diweddaf. Yr oedd ei deimladau crefyddol yn ystod ei fywyd, yn neillduol ar rai adegau, yn ddwysion iawn; ond yr oedd yn hynod o'r tawed-

---

* Bu hithau farw yn mhen ychydig ar ol ysgrifenu hyn.

og ei dymher, ac yn dra anmharod, yn enwedig, i siarad dim am dano ei hun; a dyna un rheswm, os nad y prif reswm, paham y parhäodd, ar hŷd ei oes, heb wneuthur proffes gyhoeddus o grefydd. Dywedai, pa fodd bynnag, ychydig cyn marw, fod ganddo obaith lled hyderus na fwrid ef ymaith; gan ymgysuro yn ngeiriau y Gwaredwr Mawr ei hunan,—"Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim."

Ganwyd William, y trydydd mab, Tachwedd 8, 1802. Y mae efe, fel y Parch. William Rees, D.D., ac wrth ei enw barddonol, *Hiraethog*, yn adnabyddus trwy holl Gymru, ac yn mhob parth o'r byd lle y mae Cymry, fel un o'r beirdd godidocaf, un o'r pregethwyr hyawdlaf, ac un o'r ysgrifenwyr mwyaf doniol, a gododd erioed yn ein gwlad. Y mae yn cael ei gydnabod felly, ni a dybiem, gan bawb yn ein plith, o bob enwad crefyddol, ac o bob plaid wladwriaethol. Yn nghyfoeth a ffrwythlonedd ei feddwl, yn ei yni diball ac yn ei weithgarwch difiino, fel y maent yn eu datguddio eu hunain yn amrywiaeth a lliosawgrwydd a rhagoriaeth ei gynnyrchion,—yn y pulpud, ar yr esgynlawr, a thrwy y Wasg; mewn Rhyddiaith a Barddoniaeth; yn ngholofnau ein Newyddiaduron, ar ddalenau ein Cyfnodolion misol a thrimisol, ac mewn cyfrolau wrthynt eu hunain; traethodau Duwinyddol, Esboniadol, Bywgraffyddol, Llenyddol, Gwyddonol, Gwladwriaethol; Darlithiau a Ffug-chwedlau; Awdlau ceinwych, cywrain, rhydd a dilyffethair hyd yn nôd yn hualau y mesurau caethaf, a Chaniadau arwrol, eangfryd, agos yn ddiodl; y Marwnadau tyneraf a mwyaf toddedig, a'r Caneuon mwyaf hoenus a chwareus; Cywyddau, Pryddestau, Englynion, Emynau; cyfansoddiadau gwreiddiol, efelychiadau, cyfieithiadau;—pob math a phob ffurf—yn ffrwythlonedd ei athrylith, ac yn amrywiaeth ei ddawn, y mae yn sefyll yn sier ar ei ben ei hun, yn nghanol holl gawri llenyddol ein gwlad. Ac er ei fod, erbyn hyn, dros bedwar ugain mlwydd oed, ac wedi gweithio yn galed a diorphwys ar hyd ei oes, a chael ei ran yn lled helaeth o drallodau bywyd, nid yw yn dwyn arno ei hunan, mewn cymhariaeth, ond ychydig o arwyddion henaint. Y mae ei feddwl yn parhau yn fywiog, a'i

gorph yn parhau yn gryf; ac y mae defnyddiau gwasanaeth gwerthfawr i'w genedl ynddo, ni a hyderwn, am amryw flynyddoedd eto. Dymuniad ein calon ydyw, ar iddo gael mwynhau yn helaeth, hyd y diwedd, o gysuron cryf y pethau dianwadal; a phan y daw y diwedd, ar iddo gael hwnw yn dangnefedd pur.*

HENRY, gwrthddrych ein Cofiant, oedd yr ail blentyn, a'r hynaf o'r meibion. Nid oes genym ond llawer llai nag a ddymunasem o'i hanes ef yn ei febyd. Ymddengys ei fod, pan yn faban, yn un hynod o ddiddig. Fe ddywedir fod y fydwraig, yr hon a weinyddai ar ei fam ar adeg ei enedigaeth, wedi cymmeryd arni brophwydo, y deuai y plentyn hwnw yn rhywbeth. Dywedodd lawer gwaith wrth y fam,—"*Marciwch* chwi, Anne Rees, chwi gewch chwi gysur mawr oddiwrth y bachgen hwn." Dichon mai diddigrwydd y plentyn oedd sail prophwydoliaeth y fydwraig. Pa fodd bynnag, nid oedd hi yn cael ond ychydig iawn o drafferth gydâg ef, tra y bu o dan ei gofal. Cysgai hi, a chysgai y plentyn ar ei gliniau, yn dawel iawn am oriau bwygilydd; a gallai fod yr hen wraig yn anturio darogan, oddiar y cysur oedd hi yn gael oddiwrtho y pryd hwnw, y cysur a gai ei fam oddiwrtho mewn amser i ddyfod. Nid oedd y fam, pa fodd bynnag, na neb arall a glywodd y brophwydoliaeth, yn sylwi fawr arni y pryd hwnw; ond adgofiwyd hi yn fynych, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, pan y cyflawnwyd hi i fesur helaeth iawn yn nheimladau yr holl deulu. Y mae yn ymddangos ei fod yn parhau yn faban diddig, gan fod genym ei dystiolaeth ef ei hunan, i'w fam, gan gymmeryd mantais, fe ddichon, ar ei natur dda, ei adael am rai dyddiau, pan nad oedd efe eto yn llawn pedwar mis oed, a myned gydâ'i dad i Gymdeithasfa y Bala; yr hon a gynhelid y flwyddyn hono (1798), Mehefin 12, 13, 14. Fel plentyn, yr oedd o duedd a thymher ddistaw a gwylaidd; yn caru bod ar ei ben ei hun; ac yn foreu iawn yn dechreu meith-

* Yn fuan iawn wedi ysgrifenu y llinellau uchod fe fu yntau farw, yn Nghaerlleon, wedi ychydig ddyddiau o gystudd, ar ddydd blwydd ei enedigaeth, dydd Iau, Tachwedd 8, 1883; ac fe'i claddwyd y dydd Mawrth canlynol, Tachwedd 13, yn y *Smithdown Road Cemetery, Liverpool.*

rin y duedd fyfyrgar, a'i nodweddai ar hyd ei oes. Yr oedd hefyd yn ieuanc iawn yn rhoddi pwys mawr ar weddïo, ac yn arfer myned at yr Arglwydd am bob peth a fyddai yn eisiau arno. Adroddwyd i ni gan ei chwaer un enghraifft led ddigrifol o hyny, a gymmerodd le pan oedd efe yn ieuanc iawn. Yr oedd morwyn yn ymadael â'r teulu i le gwell, lle, beth bynnag, yr oedd i gael cyflog mwy. Yr oedd y fam yn teimlo colled fawr ar ol y forwyn, ac yr oedd y plant yn nodedig o hoff o honi. Pan oedd yn ymadael, aeth y plant i hebrwng y ferch ryw gymmaint o ffordd, rhyw led dau neu dri o gaeau; ac yr oeddent yn wylo yn hidl wrth ffarwelio â hi. Pan oeddent yn dychwelyd yn ol tua'r tŷ, gofynai Henry i'w chwaer, a ddeuai hi gydâg ef i'r cae, i gadw cyfarfod gweddi, cyn myned i'r tŷ. Cytunodd hithau i fyned. A'i weddi y tro hwnw oedd, am iddynt gael y forwyn yn ol: a thuag at hyny, ar fod iddi wneuthur rhyw ddrwg yn y lle yr oedd yn myned iddo; cymmaint drwg ag a barai iddi gael ei throi ymaith oddiyno, ond nid drwg mor fawr, fel na chai hi ddyfod yn ol drachefn atynt hwy. "Pa beth oedd ei oedran y pryd hyny?" gofynem ninau i'w chwaer. "Yr oedd o yn rhyw le rhwng pump a chwech oed," meddai hithau. Yr oedd yn hynod o hoff o'r capel, ac yn enwedig o wrandaw pregethau; a phan yn blentyn bychan iawn, yr oedd yn ymhyfrydu mewn ail-adrodd rhyw sylwadau a glywid ganddo o'r pulpud, gan amcanu dynwared llais, a dull, a hwyl y pregethwr. Yr oedd ei gydwybod, hefyd, pan ydoedd yn dra ieuanc, yn dyner iawn yn erbyn pechod, nes ei wneuthur yn wyliadwrus rhag syrthio iddo. Adroddir hanesyn am dano, pan ydoedd yn blentyn tua saith mlwydd oed, yn dangos hyny. Yr oedd y pryd hyny yn hoff iawn o forthwyl a hoelion. Buasai wrth ei fodd yn curo hoelion trwy y dydd, a phob dydd o'r wythnos. Ryw ddiwrnod, fe aeth i'r efail, a gedwid gan hen grefyddwr ffyddlon, adnabyddus iddo ef wrth yr enw, Shôn y Gôf. Yno fe welai liaws o hoelion, dymunol dros ben yr olwg arnynt; a buasai yn dda iawn ganddo gael rhyw nifer o honynt iddo ei hun. Yr oedd y brofedigaeth i wylio am fantais i gymmeryd rhyw nifer o honynt, yn ddiar-

wybod i'r Gôf, yn gref iawn; ond er cael y fantais, ddwywaith neu dair, nid anturiodd gymmeryd yr un o honynt. Eithr teimlai y brofedigaeth yn ennill arno, a rhedodd ymaith o'r efail, nerth ei draed, tuag adref. Wedi cyrhaedd gartref, dywedai wrth ei fam, mor daer fuasai Satan arno i gymmeryd ychydig o hoelion Shôn y Gôf; pe na buasai ond dwy neu dair, na buasai dim drwg mawr mewn peth mor fychan a hyny. "Wel, beth a wnaethost ti?" meddai ei fam wrtho. "Rhedeg i ffwrdd y ngoreu glâs," meddai yntau. "Dyna y peth goreu allasit ti wneyd, fy machgen anwyl i," meddai y fam. "Rhed i ffwrdd dy oreu glâs, bob tro y ceisio Satan genyt wneuthur drygau o'r fath."

Dangosai yn foreu iawn ei fod yn meddiannu teimladau nodedig o dyner, a'i fod hefyd yn cyfranogi cryn lawer o feddwl pryderus ac ofnus ei dad. Gwelid hyny, yn arbenig, os byddai rhyw anhwyldeb ar ryw un yn y teulu. Byddai ar adegau felly mewn tristwch dirfawr; ac yn fynych yn tori allan i wylo yn hidl, gan ofn y byddai y clefyd i farwolaeth. Yr oedd yr un tynerwch a chydymdeimlad, a graddau helaeth o'r un pryder, yn parhau ynddo ar hyd ei oes. Ond er mai gwylaidd a distaw a neillduedig oedd ei nodwedd arbenig, eto fe fyddai, ar adegau, mor fywiog a chwareus a chyfeillgar, ag unrhyw blentyn arall; ac yr oedd rhywbeth neillduol ynddo, ag oedd, er ei holl duedd at unigedd, yn gwneuthur plant ereill yn nodedig o hoff o hono.

Pan ydoedd rhwng saith ac wyth mlwydd oed, fe'i hanfonwyd ef i ysgol ddyddiol Gymraeg,—un o'r ysgolion a sefydlasid gan Mr. Charles,—yr hon a gedwid yn Nghapel Tan-y-fron, gan ŵr o'r enw Richard Davies. Y mae yn ddrwg genym nas gallasom gael dim o hanes y gŵr hwnw, a gafodd yr anrhydedd o fod yr Athraw cyntaf iddo ef. Nid ydym yn gwybod ychwaith pa hyd y bu efe yn yr ysgol hono, na pha gynydd a wnaed ganddo ynddi. Ni a allwn, pa fodd bynnag, fod yn lled sicr na chymmerwyd ef ymaith o honi, cyn ei fod yn alluog i ddarllen Cymraeg yn weddol. Ond tra yr oedd efe yno, fe ddaeth Mr. John Jones, mab i'r hen fardd, Mr. Edward Jones, Maes-y-plwm,—y Parch. John Jones, Rhuthin a Runcorn ar ol hyny,—ac a agor-

odd ysgol ddyddiol Seisonig, yn mhentref Llansannan. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr ieuanc o foes ac ymddygiad boneddigaidd; yn ysgolhaig Saesonaeg llawer gwell na'r cyffredin o athrawon y dyddiau hyny; ac yn ysgol-feistr, yn ol y cynllun oedd ganddo, gofalus a manwl, ac yn amcanu cadw dysgyblaeth a llywodraeth dda ar y rhai oeddent dan ei ofal. Dichon ei fod yn tueddu, yn ol arfer gyffredin yr amser hwnw, at ormod llymder yn ei geryddon. Anfonwyd Henry ato ef i'r ysgol, a bu gydâg ef am o ddwy i dair blynedd, yn dysgu darllen ac ysgrifenu, gydâg elfenau cyntaf Grammadeg, ac ychydig Rifyddiaeth. Yr oedd yn dra ymroddedig ac ymdrechgar i feistroli yn gwbl y gwahanol wersi a roddid iddo, ac yn teimlo yn dra phryderus, ac yn fynych yn drallodedig iawn o'u plegyd. Byddai ganddo, fel plant ysgol yn gyffredin, rywbeth braidd bob nos i'w ddysgu erbyn tranoeth. A phan y byddai y dasg, fel y dygwyddai yn aml, yn cynnwys rhywbeth uwchlaw ei amgyffred, ac nas gallai weled y rheswm am dano, neu ynte mewn geiriau nad oedd efe yn deall eu hystyr, fe fyddai ei brofedigaeth yn fawr iawn. Byddai yn fynych, mewn amgylchiadau felly, yn tori allan i wylo yn chwerw. Ac nid oedd gan y bychan neb i'w gynnorthwyo, na phrin i gydymdeimlo âg ef, yn ei anhawsderau. Nid oedd ei dad erioed wedi cael addysg yn y pethau yr ymboenai efe gydâ hwynt, ac felly nis gallai gael dim cymhorth oddiwrtho ef. Ac, weithiau, fe wnai yn lled ysgafn o brofedigaeth y diniwed. "Dyna," meddai, wrth edrych arno yn crïo uwch ben ei dasgau, "tywallt di ddigon o ddagrau ar eu penau nhw, ac fe ystwytha nhw toc: fe fydd yn haws i ti eu trin nhw, ar ol i ti eu mwydo fel yna yn dda." Eithr pa faint bynnag a wylai efe uwchben y wers, ni roddai byth y goreu iddi nes ei dysgu yn gywir. Ac nid oedd dysgu y geiriau a'r brawddegau yn ddigon ganddo, heb ymgais ei egni i ddeall eu rheswm a'u hystyr. Adroddai y dasg wrtho ei hunan yn ei wely, lawer gwaith cyn cysgu: ac yn aml fe'i clywid yn ei hadrodd drachefn trwy ei gwsg; fel y byddai bob amser yn hollol gyfarwydd ynddi, ac na byddai byth yn methu wrth ei hadrodd dranoeth yn yr ysgol.

Oblegyd y meddwl pryderus oedd yn naturiol yn eiddo iddo, ac yn neillduol yr ofn mawr a deimlai braidd yn wastad rhag syrthio dan gerydd yr athraw, amser lled drallodus, ar y cwbl, iddo ef, oedd yr amser y bu yn yr ysgol yn Llansannan; ac nid yn fynych y byddai yn gallu ymollwng yn rhydd gydâ'r plant ereill yn eu chwareuon. Ac eto, yn achlysurol, fe ddangosai fod digrifwch mor naturiol iddo ef, ag ydyw i blant yn gyffredin o gyffelyb oedran. Adroddwyd i ni, yn lled fuan wedi ei farwolaeth, un chwedl am dano, gan Mrs. Lloyd, hen chwaer oedd yn aelod o'r eglwys yn *Prince's Road, Liverpool,* a chyn hyny yn *Bedford Street,* ag sydd yn dangos hyny yn amlwg. Yr oedd hi yn yr ysgol yr un amser âg ef, ac yn rhyw dair blynedd, neu ychwaneg, hynach nag ef. Byddai y plant yn arfer cymmeryd llaeth gydâ hwynt oddicartref, mewn costreli, at eu ciniaw ganol dydd; ac yn arfer golchi eu costreli yn yr afon, ar eu ffordd gartref yn y prydnawn. "Ryw ddiwrnod," meddai Mrs. Lloyd, "yr oeddem wedi bod yn golchi ein *poteli* felly, ar ein ffordd adref o'r ysgol; ac fel yr oeddwn i yn myned dros ryw gamfa, yn ddisymwth mi a deimlwn rywbeth oer, oeraf a deimlaswn erioed, ar hŷd fy nghefn, nes yr oeddwn i wedi dychryn trwyddof. A beth oedd yno ond efe, wedi llanw y *botel* oedd ganddo â dwfr o'r afon, a dyfod yn ddistaw ar fy ol, a gweled ei gyfle, pan oeddwn i yn myned i lawr y gamfa, i ollwng, am a wn i, cymmaint ag oedd ynddi i lawr fy ngwàr, ac ar hŷd fy nghefn. Pe cawswn i afael arno, mi a'i rhoiswn hi iddo yn o dda, fel y gallaswn i yn hawdd, oblegyd yr oeddwn i gryn lawer yn fwy ac yn gryfach nag ef. Ond fe neidiodd o i lawr a heibio i mi, fel y wiwair, gan chwerthin ei oreu am y *trick* oedd o wedi wneyd â mi." "A fuoch chwi," meddem ninnau, "yn sôn am hyny rywbryd wrtho?" "O do," meddai hithau, "nid rhyw lawer o amser yn ol; ac yr oedd yn cofio yn dda am y tro: ac yr ydwyf fi bron a meddwl ei fod o yn cael llawn mwy o ddifyrwch, pan oeddem ni yn siarad â'n gilydd am y peth, nag oedd o yn gael ar y pryd; oblegyd yr oedd arno dipyn o ofn y pryd hyny y buaswn i naill ai yn ei guro fy hunan, neu ynte yn

achwyn arno wrth y meistr. Ond erbyn tranoeth, yr oedd y peth yn fwy o ddigrifwch gen' innau nag o ddim arall. A bachgen anwyl iawn oedd o."

Prin yr oedd efe yn teimlo, mewn blynyddoedd diweddarach, ei fod wedi cael cymmaint mantais ag a ddylasai gael, er amaethu ei feddwl, yn yr amser y bu yn yr ysgol hono yn Llansannan; a hyny yn gwbl oblegyd y drefn a gymmerid gan yr athraw i addysgu y plant. Nid oedd y drefn hono ond yr un a gymmerid yn gyffredin yn y dyddiau hyny, ac a gymmerir eto, gan amlaf, os nad yn hollol, yn ysgolion dyddiol ein gwlad; sef, cau yr iaith Gymraeg yn gwbl allan o'r ysgol, a gwneyd siarad gair o honi, nid yn unig yn yr ysgol, ond rhwng y plant â'u gilydd hyd yn nôd pan allan o honi, yn drosedd a osodai y sawl a geid yn euog o hono yn agored i gosbedigaeth, a arswydid yn ddirfawr gan rai o duedd led ofnus;—yn lle defnyddio yr iaith, a'r unig iaith a ddeallid gan y plant, yn gyfrwng i'w haddysgu yn yr hyn na ddeallent. Nid ydym yn ammeu dim nad oddiar ystyriaeth o'r anfantais a brofwyd ganddo ei hunan, ac adgof o'i deimladau ei hunan, a chan gyfeirio at amgylchiad a ddygwyddodd iddo *ef* pan ydoedd yn yr ysgol hon, y gwnaeth y sylwadau canlynol, mewn erthygl ragorol o'i eiddo, a ymddangosodd yn y TRAETHODYDD am Ebrill, 1853, ar "*Y Gweinidog a'r Ysgolfeistr—Thomas Lloyd, o Abergele:*"—

"Oni byddai yn fwy buddiol i blentyn o Gymro uniaith, wrth ddysgu Saesonaeg, er esiampl, neu ryw gangen arall o ddysgeidiaeth yn yr iaith hono, gael eglurhad ar bethau yn ei iaith ei hunan? Paham y llwythir ei gôf, ac y gadewir ei ddeall yn ddiffrwyth? A phaham nad allai Cymro ddysgu Saesonaeg trwy gyfrwng y Gymraeg, megis ag y mae y Saeson yn dysgu Lladin, ac ieithoedd ereill, trwy gyfrwng eu hiaith eu hunain? Peth digon annaturiol hefyd, i'n tyb ni, ydyw ceryddu plentyn am siarad iaith ei fam. Mae yn tueddu i wneyd yr ysgol yn fwy o gaethiwed iddo, a'i hen iaith yn fwy dirmygus yn ei olwg. Gwyddom am rai ysgolion, ag yr oedd y ddeddf mor gaeth ynddynt ar y pen hwn, fel ag y byddai y plentyn llwfr yn

petruso ymollwng i ddifyrwch y chwareufa, rhag ofn iddo, drwy gynhyrfiad y fynyd, gael ei fradychu i ddyweyd Cymraeg, ac felly dwyn drwg arno ei hunan. Anfonid bachgen o'r fath, unwaith, i alw ar ryw nifer o'i gydysgoleigion i geisio bwyd; a chan na fedrai un gair ond Cymraeg, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond siarad â hwy drwy arwyddion; megis, codi ei fys arnynt a chyfeirio tua'r tŷ. I ychwanegu at ei flinder, druan, yr oedd y creaduriaid diriaid yn gwrthod deall ei awgrymau mudion ef, ac yn galw arno adrodd ei genadwri yn fwy eglur. Ac o'r diwedd fe gollodd ei amynedd gydâ hwy; ac o herwydd na fedrai ddyweyd yn Saesonaeg, ac na feiddiai ddyweyd o Gymraeg, fe waeddodd allan mewn lled-iaith gymmysglyd a thymher flin,—'*Come to ceisio bwyet, boys.*' Mae profedigaethau o'r fath yma, mae'n wir, wedi troi yn ddifyrwch erbyn heddyw; ond yn eu tymhor, er hyny, yr oeddynt mor chwerwon a llawer o brofedigaethau ereill ag sydd yn cyfarfod â'r dyn yn mhellach ar ei fywyd" (tudalen 238).

Fel y gwnelid â'r nifer amlaf o blant Cymru yn y dyddiau hyny, os nad eto, fe'i cymmerwyd ef o'r ysgol cyn iddo allu gwneuthur ond ychydig gynnydd mewn dysg, a phan, oddiar y cynnydd a wnelsid ganddo eisoes, a'r oedran yr oedd ynddo, y buasai bod yno, neu mewn rhyw le arall cyfaddas, am ddwy flynedd neu dair yn ychwaneg, yn arbed llafur dirfawr iddo mewn blynyddoedd diweddarach, ac yn fantais annhraethol iddo ar hŷd ei oes. Gresyn mawr, yn enwedig i'r fath un ag ef, oedd ei symmud mor fuan o'r ysgol. Yr ydoedd, pa fodd bynnag, wedi dyfod i allu darllen Saesonaeg yn lled rwydd, er nad oedd yn deall ond ychydig iawn o'r hyn a ddarllenai; ac yr oedd wedi dyfod i ysgrifenu, o ran llaw, yn o dda. Eithr nid oedd i aros yno yn hwy. Cyn ei fod yn llawn un-mlwydd-ar-ddeg oed, dechreuodd ar orchwylion gwas bychan i'w dad, ac i gynnorthwyo hyd ag y gallai, yn ngwaith y ffarm. Yr oedd, ar y pryd, yn dalach na'r cyffredin o'i oedran, ac, er yn lled deneu, yr oedd yn fachgen cryf ac iachus a heini; a gobeithiai ei dad am gryn gymhorth oddiwrtho. Yr oedd yntau ei hunan yn hoffi y cyf-

newidiad yn fawr. Edrychai arno ei hunan nid yn unig wedi cael ymwared o gaethiwed yr ysgol, ond wedi cael ei ddyrchafu ryw gymmaint at fod yn llanc; ac yr oedd, yn enwedig, yn gobeithio y byddai bellach yn rhydd i ddilyn y myfyrdodau ag oeddent mor naturiol iddo, ac yr ymhyfrydai gymmaint ynddynt. Yr oedd yn hollol barod, bob amser, i ymgymmeryd â'r hyn a osodid arno i'w wneuthur, pa un bynnag ai gydâ y ceffylau, y gwartheg, neu y defaid; yn yr ystabl, y beudŷ, y maes, neu y mynydd; a phan yr elai at unrhyw orchwyl o ddifrif, fe'i cyflawnai yn gwbl foddlonol. Eithr nid oedd sicrwydd hollol am hyny: oblegyd yn fynych iawn fe fyddai yn ymgolli yn ei fyfyrdodau, neu, fel y byddai efe yn arfer eu galw, mewn rhyw ddydd-freuddwydion, nes annghofio yn llwyr yr hyn oedd i'w wneuthur ganddo, ac nes, weithiau, gwneuthur rhywbeth tra gwahanol. Byddai ar adegau yn prydyddu cryn lawer: ac ambell dro yn gwneuthur Cân, ag a barai iddo obeithio y gallai ddyfod yn fardd, cyffelyb i Tudur Aled, enw yr hwn a fu am beth amser a chryn ddylanwad ganddo ar ei feddwl. Eithr nid llawer o'i amser a roddai i hyny. Ei brif ddifyrwch oedd, adrodd wrtho ei hunan y pregethau a wrandawai, ac yn enwedig, erbyn hyn, ceisio pregethu ei hunan â'i holl egni. Cafodd rai meddyliau, pan gydâ'i orchwylion yn y maes neu yn y beudŷ neu ar y mynydd, a'i cynhyrfent ef ei hunan drwyddo, a *rhai* ag y tybiai am danynt, yn mhen blynyddoedd lawer, pe cawsai drachefn afael arnynt, a fuasent yn cynhyrfu ereill hefyd. Ond, yn ol ei syniad ef, nid oedd y rhai hyny ond ychydig iawn. Am y nifer mwyaf o lawer o honynt, edrychai arnynt, ac arferai eu galw, "yn ddydd-freuddwydion ynfyd a diffrwyth." Eithr prin, dybygem, yr oedd efe yn gwneyd tegwch hollol â hwynt, trwy roddi dedfryd mor galed arnynt. Dichon y buasai yn well pe buasai ganddo ryw lyfr galluog wrth law, i'w ddarllen yn achlysurol, ac yna troi i fyfyrio ar yr hyn a ddarllenasai, fel ag i wneuthur ei gynnwysiad yn eiddo hollol iddo ei hunan. Eithr nid oedd, y pryd hyny, ond ychydig lyfrau o'r fath yn ein hiaith, ac nid ydym yn deall fod yr un o honynt yn ei gyrhaedd

ef. Yn niffyg hyny, yr ydym ni yn tueddu i dybied, fod yr hyn a alwai efe yn "ddydd-freuddwydion," wedi bod yn foddion cryn lawer o ddysgyblaeth arno ef i'r gallu, y daeth ar ol hyny mor hynod ynddo, o gadw ei feddwl yn sefydlog gydâ'r un peth, a pharhau i edrych arno yn ei amrywiol gysylltiadau, nes cael dirnadaeth foddhaol iddo ei hunan am ei ystyr, a'i alluogi i'w egluro yn ddealladwy i ereill. Yn yr amgylchiadau yr oedd efe ynddynt, anhawdd iawn, dybygem ni, fuasai iddo gael moddion mwy effeithiol, er ei barotoi ei hunan i'r gwaith mawr oedd yn ei aros, ac y daeth mor enwog ynddo.

Ond er fod pethau crefydd wedi cael lle mawr yn ei feddwl er pan oedd yn cofio dim, a'u bod yn awr, yn sicr, yn cael mwy o le yn ei fyfyrdod na dim arall; a'i fod bob amser yn gwbl ddichlynaidd ei ymarweddiad, heb fod byth yn canlyn bechgyn drwg ac annuwiol, nac un amser yn arddangos unrhyw duedd i ymollwng i'w harferion pechadurus; eto fe deimlodd yntau, ar brydiau, tua'r adeg hon, fod llygredigaeth ei natur yn rhy gryf i argyhoeddiadau ei gydwybod, er mor dyner ydoedd, allu yn hollol ei wrthsefyll. Clywsom ef fwy nag unwaith, yn nghywirdeb diledrith ei galon, yn cyfeirio yn gwynfanus iawn, a chydâ thristwch duwiol, at rai buddugoliaethau blinion iddo ef, a gafodd y "pethau anwir" arno, tua'r cyfnod hwn. Ond o ddaioni mawr Duw, er ei orchfygu weithiau gan y gelyn, ni chymmerwyd ef erioed yn gaeth ganddo. Ni bu efe erioed yn "*was* i bechod." Er llithro am fynydyn, dan ddylanwad yr hudoliaeth, fe fyddai ei gydwybod ar unwaith yn adennill ei huchafiaeth, ac yn ei daro mor drwm nes peri iddo ofidio yn ddirfawr ger bron yr Arglwydd oblegyd ei ymddygiad, a cheisio gweddïo yn daer am faddeuant, gan benderfynu peidio a phechu mwyach. Pan wedi ei anfon unwaith ar neges, fe deimlodd ei fod yn dipyn o lanc: ond yn yr ynfydrwydd, y mae rhai yn yr oedran yr oedd efe ynddo y pryd hwnw mor ddarostyngedig iddo, fe feddyliodd na byddai yn ddyn iawn os na allai regi rhyw gymmaint, fel y clywsai ryw fechgyn ereill yn gwneyd. Gydâ'r meddwl, fe ddechreuodd regi y ci bychan oedd yn ei ddilyn; gan chwi-

banu, ar ol darfod, fel un wedi gwneyd gwrhydri dirfawr. Eithr fe'i tarawwyd ar unwaith gan ei galon: dychrynodd trwyddo; arswydai rhag i'r ddaear ymagor, yn y fan, i'w lyncu; ac ni ddaeth na rheg na llŵ dros ei wefusau byth ar ol hyny. Unwaith fe'i temtiwyd i wneuthur yr hyn a olygai efe yn halogiad ar ddydd yr Arglwydd: ond yn y fan, dyna fellten ddychrynllyd yn saethu, a tharan ofnadwy yn rhwygo'r awyr,—elfenau natur, i'w feddwl ef, megis ar unwaith yn ymfyddino i amddiffyn hawliau eu Creawdwr; nes creu tymhestl gyffelyb yn ei fynwes yntau, a pheri iddo brysuro tua chartref dan grynu, gan benderfynu "troi ei droed oddiwrth y Sabboth," o hyny allan byth. Unwaith fe gymmerodd ran, gydâ rhyw rai, mewn lladd ci: ac er fod y ci wedi lladd amryw ddefaid, ac felly yn haeddu cael ei ladd, eto yr oedd efe yn teimlo ei fod ef a'i gymdeithion yn gwneyd hyny mewn tymher ddrwg, ac mewn ysbryd creulawn a dialgar; fel y bu y rhan a gymmerwyd ganddo ef yn y gyflafan, yn ofid calon iddo, yn awr ac eilwaith, pan y cofiai am dani, am weddill ei oes. Cyfeiriai at yr amgylchiad hwn, gydâ theimlad dwys, mewn cyfarfod eglwysig cyffredinol, un nos Lun yn nghapel *Fitzclarence Street*, ychydig amser cyn ei farwolaeth. Eithr dedwydd yn ddiau y dyn hwnw, pan, gydâ meddwl puraidd ac â chydwybod dyner, yn adolygu einioes, ac yn adgofio pechodau ieuenctyd, nad oedd ganddo, ar wahan oddiwrth agwedd ac ansawdd y galon, ond y cyfryw weithredoedd a'r rhai hyn i'w gondemnio ei hunan o'u plegyd.

Isel iawn oedd achos crefydd y dyddiau hyny yn mhentref Llansannan. Byddai pregethu yn achlysurol yno gan y Methodistiaid, y Bedyddwyr, a'r Wesleyaid; weithiau mewn tŷ annedd, neu ysgubor, neu ysgoldŷ yn y pentref, ac weithiau allan, ar le a elwid yn Glwt Cogr, gerllaw y pentref; ac yr oedd yno ryw ychydig nifer yn arddel perthynas â'r amrywiol Enwadau a nodwyd. Yr oedd cynnulleidfa dda yn arfer ymgynnull i eglwys y plwyf, yn neillduol ar adeg y Cynhauaf. Yno, yn wir, y cyfarfyddai yr Amaethwyr a'r Gweithwyr â'u gilydd; ac ar y fynwent, ar ol y gwasanaeth boreu Sabboth, y byddent yn cyflogi

gweithwyr i'r cynhauaf. Ac yn y cyffredin, fe fyddai y gweinidog a fuasai yn gwasanaethu yn yr eglwys, yn cymmeryd rhan gydâ hwynt yn y gwasanaeth cyflogi yn y fynwent, fel ag a gymmerasid ganddynt hwy yn y Llan; heb ddychymygu fod dim yn hyny yn annghydweddol â chysegredigaeth y dydd, nac âg urddas ei swydd. Ac yn aml iawn, ar ol i'r cyflogi ddarfod, elent gydâ'u gilydd i'r dafarn, heb ofalu, bob amser, pa hyd yr arhosent yno, nac yn mha agwedd yr ymadawent oddiyno. Yn Llansannan, fel yn y nifer amlaf o blwyfi ein gwlad y pryd hyny, yr oedd yn llythyrenol,—"yr un fath, bobl ac offeiriaid;" a'r math hwnw, ysywaeth! yn hynod o anwybodus am egwyddorion crefydd, yn dra diystyr o'i hawliau hi, ac yn gwbl amddifad o'i hysbryd hi. Yr oedd hen achos cryf, a lled lewyrchus, gan y Methodistiaid yn Nhan-y-fron, rhyw ychydig gydâ dwy filltir o'r pentref; ac yno y byddai pawb braidd, yn y cymmydogaethau hyny, a deimlent raddau o bryder a difrifwch yn nghylch eu mater tragywyddol, yn arfer cyrchu am ymgeledd.

Yn mhen ychydig flynyddoedd wedi i'r diweddar Barch. Peter Roberts ddyfod i drigiannu i bentref Llansannan, fe osododd ei galon ar gael pregethu yn fwy cyson yno, ac a agorodd ei dŷ ei hunan i'r perwyl hwnw. Yn mhen amser cafwyd lle helaethach, a mwy cyfleus na'r tŷ annedd; yn yr hwn y dechreuwyd pregethu yn rheolaidd, y sefydlwyd Ysgol Sabbothol, ac y ffurfiwyd cymdeithas eglwysig fechan, fel cangen o'r hen eglwys yn Nhan-y-fron. Aeth y lle hwnw drachefn yn rhy fychan i'r gynnulleidfa a gyrchai iddo, fel, yn mhen amser, y penderfynwyd ymdrechu cael Capel. Nid oedd rhifedi yr aelodau eglwysig ond ychydig, a'r rhai hyny, gan mwyaf, mewn amgylchiadau lled isel, fel yr oedd amcanu at y fath beth yn gryn anturiaeth iddynt; eto trwy ffyddlondeb ac egni mawr, ar du ychydig nifer o rai tra gweiniaid, fe gafwyd y Capel. Fe'i hadeiladwyd yn ymyl y pentref, ar ran o dir Mrs. Rees, y nain, yr hon, ar y pryd, oedd yn byw yn weddw gydâ'i mab ieuengaf, tad gwrthddrych ein Cofiant, yn Rhydloew, amaethdŷ ychydig yn nês i'r pentref na Chwibren Isaf, i'r lle y symmudasai oddiyno ychydig fisoedd

cyn hyny. Ar daer gymhelliad ei gyfaill, y Parch. Peter Roberts, yn gystal a brodyr ereill o fewn cylch y Cyfarfod Misol, ac yn yr ystyriaeth fod mwy o angen yn awr am ei wasanaeth yn Llansannan nag oedd yn Nhan-y-fron, fe symmudodd y tad, Mr. Dafydd Rees, a'r teulu gydâg ef, o'r hen Gapel i'r Capel newydd. Yr oedd hyny, ar y cyntaf, braidd yn groes i'w feddwl ef ei hunan, ac yn hollol groes i syniad a theimlad y frawdoliaeth yn Nhan-y-fron; eithr, dan yr amgylchiadau, yr oedd yn gweled mai hyny oedd ei ddyledswydd, ac yr oedd hyny, iddo ef, ar unwaith yn ddigon i benderfynu ei ymddygiad. A bendith annhraethol, yn ddiammeu, i'r achos yn Llansannan, a fu ei fynediad yno. Ac fe'i dygwyd yntau, trwy hyny, i sefyllfa a osodai fesur o angenrhaid arno i gymmeryd rhan fwy blaenllaw gydâ'r gwaith, yn ei holl ranau, nag y llwyddasid gydâg ef i gael ganddo gymmeryd yn yr hen Gapel; fel y daeth ei ddefnyddioldeb yn llawer mwy, ac y dygwyd i'r goleu, yn amlycach nag o'r blaen, y doniau hynod a thra annghyffredin, naturiol a grasol, yr ydoedd wedi ei gynnysgaeddu â hwynt. Byddai yn myned yn fynych i Dan-y-fron, ar ol hyny, i'r cyfarfodydd eglwysig; a llawenydd mawr a barai hyny bob amser i'r brodyr yno, eithr Llansannan oedd ei gartref. Wedi symmud i'r Capel newydd, fe ddaeth Henry Rees, ar unwaith, i gymmeryd dyddordeb neillduol yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn mhob gwasanaeth crefyddol a gynhelid ynddo. Y Capel, erbyn hyn, oedd ei bob peth, mewn modd mwy arbenig nag y buasai Tan-y-fron erioed. Yr oedd fel pe buasai yn teimlo fod y cyfrifoldeb a berthynai i'w dad, yn ei gysylltiad â'r achos, wedi disgyn mewn rhan arno yntau; ac nid oedd dim yn ormod ganddo i'w wneuthur er ei fwyn. Nid oedd un cyfarfod, hyd ag y gallai, yn cael ei esgeuluso ganddo, pa un bynnag ai ar ddydd gwaith ai y Sabboth, ond yn unig y cyfarfod eglwysig; a byddai bob amser yn gofalu am fod yno yn brydlawn. Fe sylwir ein bod yn eithro y cyfarfod eglwysig, yr hyn a all ymddangos yn ddieithr i rai o'n darllenwyr. Ond er y gofal mawr a gymmerasid gan ei rïeni i'w ddwyn i fynu yn grefyddol, gan ei "faethu yn addysg ac athrawiaeth yr Argl-

wydd," nid oeddent erioed wedi ei gymmeryd ef, na'r plant ereill, gydâ hwynt i'r cyfarfod eglwysig, yn ol yr hyn sydd yn awr, ag oedd y pryd hyny mewn llawer o fanau, yn drefn arferol yn mhlith y Methodistiaid. Yr ydym yn dymuno galw sylw arbenig at hyn, yn gymmaint a'n bod, oddiar gam-hysbysiad, wedi cyhoeddi fwy nag unwaith, trwy y Wasg, ei fod ef wedi cael ei fagu o'i fabandod yn yr eglwys. Eithr fe sicrhawyd i ni yn bendant, gan ei chwaer, nad felly y bu. Yr oedd yno rai hen bobl yn Nhan-y-fron, yn hollol wrthwynebol i'r plant gael bod yn eu plith; ac felly ni chafodd efe y fraint hono. Ond am bob moddion arall, yr oedd yn ymdrechu peidio a bod byth yn absennol. Yr oedd, yn enwedig, yn cael hyfrydwch dirfawr mewn gwrando pregethau. Yr oedd hyny iddo fel nefoedd ar y ddaear. Ymddangosai, braidd bob amser, wrth ei fôdd. Ac os byddai rhywbeth annghyffredin yn y bregeth, fe fyddai yr olwg arno yn gwrandaw yn tynu sylw pawb. Cyfodai ar ei draed; byddai ei lygaid gloew yn serenu yn siriol ar y pregethwr; a phan y traethid rhyw sylw a fyddai yn ei daro ef â hynodrwydd neillduol ynddo, byddai fel creadur wedi ei wefreiddio, a'i gorph yn ymysgwyd, ac yn edrych oddiamgylch am ryw rai a deimlent yn gyffelyb; ac ymddangosai yn siomedig, a braidd yn hanner digofus, os na châi ryw arwydd o hyny yn y gynnulleidfa. Byddai y bregeth ganddo, gan amlaf, yn gyflawn yn ei gôf; ac elai drosti lawer gwaith wrtho ei hunan, yn ystod yr wythnos, ac weithiau gydâ hwyl fawr. Ac y mae yn ddiammeu mai nid rhywbeth naturiol, yn unig ar y dychymyg a'r dymher, oedd y mwynhad hwnw a brofid ganddo; oblegyd yr oedd yn amlwg i'w rïeni, ac i'w chwaer a'i frodyr, ac i ereill y delai i gyfarfyddiad â hwynt, fod pethau crefydd yn cael argraff ddwys iawn ar ei feddwl, a'i fod yn ymddangos fel yn byw yn gyson dan eu dylanwad. Ac yr oedd dysgwyliadau lled gyffredin eisoes, yn y teulu, ac yn mhlith ei gydnabod, am bethau mawrion oddiwrtho. Yr oedd pawb yn prophwydo y byddai yn bregethwr.

Fel y sylwasom, isel iawn oedd yr achos yn Llansannan pan yr adeiladwyd y Capel yno; nid oedd nifer yr aelodau eglwysig

ond bychan, a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn gwbl gyffredin o ran eu hamgylchiadau. Eithr yr oedd yno gynnulleidfa dda yn dyfod yn nghyd ar y Sabbothau, ac yr oedd teimlad dwys yn yr aelodau eglwysig, yn lled gyffredinol, yn achos eu cymmydogion digrefydd; a byddai rhyw eneinniad hynod, yn neillduol, ar y cyfarfodydd gweddïo yn y lle. A chyn pen hir wedi agoriad y Capel, fe ymwelodd yr Arglwydd mewn modd amlwg iawn â'i bobl, ac fe gafwyd adfywiad grymus a bendithiol iawn ar y gwaith mawr yn eu plith. Fe ddechreuodd hyny un nos Sabboth, mewn cyfarfod gweddïo a gynhelid yn y Capel. Teimlid o'r dechreu fod rhyw dynerwch ac ystwythder hynod yn y cyfarfod, ond pan oedd un brawd yn gweddïo, fe dorodd un ferch ieuanc allan i waeddi ac i lefain am ei bywyd, yr hyn oedd yn beth newydd a dieithr iawn yn yr ardal, a dieithr, yn wir, er ys blynyddoedd lawer, yn yr holl wlad hono. Yr oedd y fath ddwysder yn ngwaeddi y ferch ieuanc, fel y teimlid ei fod yn codi o ddyfnder ei henaid, ac yr oedd yn effeithio ar braidd bawb oeddent yn bresennol; a chyn diwedd y cyfarfod, nid oedd ond ychydig iawn yn y lle heb fod naill ai yn llefain am drugaredd, neu ynte yn diolch am ei chael; ac yr oedd llawer o honynt fel pe buasent wedi colli pob meddiant arnynt eu hunain. Hyn bellach oedd testyn yr ymddyddan trwy yr holl gymmydogaeth, ac nid bychan oedd llawenydd yr ychydig ffyddloniaid oeddent yn Llansannan, yn ngwyneb yr arwydd hwn o bresennoldeb yr Arglwydd gydâ hwynt. Cynhaliwyd amryw gyfarfodydd gweddïau yr wythnos hono, a'r wythnosau canlynol; rhai yn y Capel, a rhai mewn tai yma a thraw yn y gymmydogaeth; ac yr oedd cyrchu cyffredinol iddynt, ac arwyddion yn mhob cyfarfod nad oedd Duw yn bell oddiwrthynt. Aeth yr adfywiad rhagddo am rai misoedd; ac fe ychwanegwyd lliaws o ieuenctyd, yn feibion ac yn ferched, a rhai mewn oedran, yn wŷr ac yn wragedd, at rifedi yr eglwys fechan oedd yn y lle. Ac un o'r rhai cyntaf, a'r penaf o honynt oll, oedd HENRY REES, yr hwn nad ydoedd y pryd hyny, ond pedair-ar-ddeg oed. Yr oedd efe, er ys amryw fisoedd, yn awyddus iawn am roddi ei hunan i'r

eglwys, ond yn oedi y naill wythnos ar ol y llall; mewn rhan, am ei fod yn ofni y gwrthodent ef, am ei fod yn rhy ieuanc; ond, yn benaf, oblegyd ei fod yn ofni nad oedd yr hyn a deimlid ganddo, ond effaith dygiad i fynu, ac nid yn gynnyrch anian sanctaidd yn y galon; ac felly na byddai iddo allu parhau hyd y diwedd, eithr mai syrthio ymaith a wnai, a thynu gwaradwydd, trwy hyny, arno ei hunan ac ar grefydd hefyd. Ond yn awr, er ei ieuenctyd, ac heb ddeall, mwy nag o'r blaen, fod y gwaith da wedi ei ddechreu ynddo, eithr yn hytrach, ar y pryd, yn anobeithiol y deuai byth yn well,—fe benderfynodd ei gynnyg ei hunan, fel yr ydoedd, i'r eglwys; gan adael arnynt hwy y cyfrifoldeb o'i wrthod neu ei dderbyn, fel y gwelent hwy yn oreu. Fe ymddiddanwyd ychydig âg ef gan y Parch. Peter Roberts: ac yr oedd y gŵr hynaws a charuaidd hwnw, yn synu at y profiad rhyfedd a adroddid gan fachgen mor ieuanc, a hyny mor rydd a dirodres. Ymddangosai iddo ef, hyd yn nôd y pryd hyny, yn mhriodoldeb yr atebion a roddid ganddo, ac yn neillduol yn y teimlad gwylaidd a gostyngedig a arddangosai, yn un ag y gobeithiai am rywbeth tra annghyffredin oddiwrtho, mewn blynyddoedd dyfodol. A chafodd fyw i weled ei ddysgwyliadau yn cael eu cyflawni. Rhoddwyd i'r ymgeisydd ieuanc y derbyniad mwyaf croesawgar: yn wir, yr oedd yn llawenydd mawr i'r holl frawdoliaeth ei weled yn dyfod yn mlaen; a theimlai yntau yn gwbl gartrefol yn eu plith. Yr oedd yn awr wedi cyrhaedd un peth ag oedd wedi bod, er pan ydoedd yn cofio dim, yn nôd arbenig o flaen ei feddwl, a pheth oedd, yn enwedig, er ys amryw fisoedd yn ddiweddar, wedi bod yn ddymuniad neillduol ei galon. Teimlai yn wir ddiolchgar i'r Arglwydd am roddi lle iddo yn mhlith ei blant; gweddïai lawer, ac yn daer iawn, ar iddo gael bod yn blentyn mewn gwirionedd ei hunan; a phenderfynai yn nghymorth gras, pa beth bynnag a ddeuai o hono, "aros yn y tŷ byth."

# PENNOD II.

*Blynyddoedd Cyntaf ei Ieuenctyd:* 1812—1816.

YMRODDI I GREFYDD—MYNED I GYMDEITHASFA Y BALA Y TRO CYNTAF—EI SYNIADAU BACHGENAIDD AM Y PREGETHWYR—EI DEIMLADAU WRTH WRANDAW AR JOHN ELIAS—GWEDDIO YN NGHLYW EREILL YN FWRIADOL, AM Y TRO CYNTAF, YN EI LETTY YN Y BALA—DYCHWEL ADREF A DECHREU CYMMERYD EI RAN MEWN CYFARFODYDD GWEDDIAU—DONIAU HYNOD MEWN GWEDDI — LLAFURUS GYDA'R YSGOL SABBOTHOL A CHYDA'R CANU—YSGOL SABBOTHOL ARALL YN CAEL EI CHODI YN Y PLWYF—EFE YN CAEL EI BENNODI I FYNED I HONO—ARWEINIAD YR YSGOL YN RADDOL YN DISGYN I'W OFAL—YN CAEL EI BENNODI I HOLWYDDORI—Y FANTAIS O HYNY IDDO—TEIMLO ANGEN AM LYFRAU—AWYDD YN ENWEDIG AM Y GEIRIADUR YSGRYTHYROL—PRYDER PA FODD I'W GAEL—CORDDI I'R FAM—Y GYNOG YMENYN—PENDERFYNU MYNED I WELED MR. CHARLES, A PHRYNU Y GEIRIADUR AR GOEL—CYMDEITHASFA Y BALA, 1814—MYNED YNO—MR. CHARLES, MR. ELIAS, AC YNTAU, YN CYFARFOD A'U GILYDD AM YR UNIG DRO ERIOED—CAEL Y GEIRIADUR—DYCHWEL ADREF FEL UN WEDI CAEL YSGLYFAETH LAWER—MARWOLAETH MR. CHARLES—EI ALAR MAWR AR EI OL—AWYDD PREGETHU YN DISGYN ARNO—BLAS NEILLDUOL AR WRANDO PREGETHAU—PREGETHU TEITHIOL—PARCH. WILLIAM MORRIS, CILGERAN — EI DDYLANWAD AR DDYNION IEUAINC, AC FELLY ARNO EF—YMRODDI I DDARLLEN A MYFYRIO—SYLWI LLAWER AR NATUR, A GWELED RHYFEDDODAU DUW YNDDI.

WEDI i Mr. Henry Rees ymuno â'r eglwys, a chael ei dderbyn yn gyflawn aelod, efe a ymroddai gydâ mwy o ddyfalwch nag erioed i grefydd. Yr oedd yr adfywiad oedd yn Llansannan, a'r hwn oedd wedi ymledu, i fesur, i Dan-y-fron, a rhai cymmydog-

aethau ereill, yn peri fod cyrchu mawr i'r amrywiol gyfarfodydd a gynhelid yn y Capel newydd, ac yr oedd y cyfarfodydd braidd yn ddieithriad â gwedd lewyrchus iawn arnynt Yr oedd Henry Rees yn ymdrechu bod yn bresennol yn mhob cyfarfod, ac yn cael hyfrydwch mawr ynddynt. Ac yr oedd y teulu i gyd yn deall, mai nid peth yn y gynnulleidfa yn unig oedd ei grefydd ef, ond ei bod yn llanw ac yn llywodraethu ei feddwl, pa le bynnag y byddai. Byddai yn awr yn darllen llawer ar yr ysgrythyrau, a phob amser gydâ difrifwch mawr; a deallid ei fod yn treulio llawer o amser mewn gweddïau personol. Y pryd hyn, ymddangosai y pregethu fel wedi rhoddi y lle i weddïo. Pa bryd bynnag y deuid arno yn ddisymwth wrtho ei hunan, fe geid ei fod yn daer mewn gweddi. Ond nid oedd eto wedi cymmeryd rhan gyhoeddus mewn cyfarfodydd gweddïau, er y cyrchai yn gyson iddynt; ac nid oedd ychwaith wedi gallu gweddïo yn y teulu. Yr oedd arno awydd gwneyd, ond yr oedd yn rhy wan i ymaflyd yn y gorchwyl yn nghlyw ei dad; ac nid llawer llai oedd ei anmharodrwydd i hyny yn mhresennoldeb ei fam, ei chwaer, a'i frodyr. Pa fodd bynnag, yn mhen ychydig wythnosau ar ol iddo gael ei dderbyn yn gyflawn aelod, ac wedi iddo fod unwaith wrth Fwrdd yr Arglwydd, fe ddaeth adeg Cymdeithasfa y Bala, am y flwyddyn 1812. Yr oedd bri annghyffredin ar y Gymdeithasfa hono y blynyddoedd hyny. Cyrchid iddi gan gannoedd lawer o wahanol siroedd Gogledd Cymru, a chan aml un o siroedd y Deheu, yn enwedig Sir Aberteifi; a phrin yr ystyrid un yn Fethodist trwyadl, os na byddai wedi bod unwaith beth bynnag yn "*Sassiwn* y Bala." Nid oedd efe erioed wedi bod ynddi, ac yr oedd yn awr yn awyddus iawn am gael myned. Yr oedd wedi clywed cymmaint o sôn am dani, ac am y pregethwyr enwog a fyddent yn arfer dyfod iddi, ac am yr arddeliad mawr a fyddai yn gyffredin ar y pregethu ynddi, fel nad oedd boddloni arno heb gael caniatâd ei rïeni i fyned yno y pryd hwn. Ac felly fu. Nid oedd ei dad na'i fam yn gallu myned yno y flwyddyn hono, ond yr oedd cymmydog iddo o'r enw David Davies, Saer, yn byw yn Tai bach, a'r hwn a dderbyniasid yn

aelod eglwysig yr un amser âg ef, fel yntau yn awyddus am fyned i'r Bala, ac aethant yno yn nghyd. Yr oeddent yn cydletya â'u gilydd, mewn amaethdŷ gerllaw y dref;—llety a gawsid gan ei dad iddo ef a'i gydymaith. Y mae yn ddrwg genym na buasai genym fwy o fanylion am y Gymdeithasfa hono, y gyntaf erioed iddo ef yn y Bala, a'r gyntaf, yn wir, yn un man. Ond fe'i mwynhaodd hi yn fawr. Cafodd ei hunan megis mewn byd newydd iddo ei hunan fel crefyddwr. Yr oedd lliosowgrwydd y dyrfa oedd wedi ymgynnull yn nghyd, y wedd astud a difrifol oedd ar bawb yn gwrando, y pregethau nerthol a draddodid, ac yn enwedig yr effeithiau grymus ar deimladau y miloedd trwy y gwirionedd,—a hyn oll am y tro cyntaf iddo ef yn y fath le, yn gwneuthur y Gymdeithasfa hono yn un i'w chofio ganddo gydâ dyddordeb neillduol tra y bu byw. Safai wrth ddrws y Capel i wylio y pregethwyr yn myned i gyfarfodydd neillduol y Gymdeithasfa, gan holi rhyw rai a allent fod yno yn adwaen rhai a rhyw hynodrwydd neillduol yn eu hymddangosiad, ond oeddent ddieithr iddo ef. Dyma y tro cyntaf iddo gael golwg ar John Evans o'r Bala, yr hwn y clywsai lawer o sôn am dano, fel un o'r hen dadau Methodistaidd; a'r hwn ydoedd, y pryd hyny, yn wyth mlwydd a phedwar ugain oed, a'r olwg arno yn nodedig o dywysogaidd a pharchedig. Gwelodd ef, wedi hyny, fwy nag unwaith, pan yn y Bala mewn Cymdeithasfaoedd yn y blynyddoedd canlynol; ond yr oedd wedi gwaelu a llesgau yn fawr erbyn iddo ei weled drachefn; fel yr oedd yn dda iawn ganddo ei fod wedi cael golwg arno y pryd hwn. Arferai ddywedyd fod ei ymddangosiad, yn fwy na neb a welsai erioed, yn peri iddo ef feddwl am Abraham, tad y ffyddloniaid. Yr oedd yn sylwi yn arbenig ar Mr. Charles, gan deimlo ei enaid yn llawn parchedigaeth iddo fel prif arweinydd y Cyfundeb, ac fel un y clywsai gymmaint am dano megis awdwr y llyfr mwyaf oedd yn yr iaith Gymraeg; ac, yn neillduol, fel sylfaenydd yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru. Ond yr un y cymmerai efe y dyddordeb mwyaf o bawb ynddo oedd John Elias. Yr oedd wedi clywed ei dad ac ereill yn sôn cymmaint am dano fel y pregethwr mwyaf oedd yn

yr holl wlad, fel yr oedd arno awydd annghyffredin am ei weled a'i adnabod. Ei weled a'i glywed ef oedd y peth penaf braidd yn ei feddwl er ei gymhell i fyned i'r Gymdeithasfa. Yr oedd ganddo gôf o'i weled, a'i glywed yn pregethu, yn y ffenestr yn Nghapel Tan-y-fron, i dyrfa fawr y tu fewn a thu allan i'r Capel, pan nad oedd efe ond plentyn tua naw mlwydd oed; a thrachefn, yn yr un fan, ryw ddwy flynedd neu dair ar ol hyny; ac yr oedd yr effeithiau hynod a ddilynent ei bregethau, y troion hyny, yn fyw yn ei feddwl, ac yn ei wneuthur yn llawn awydd am ei glywed drachefn a'i adnabod yn well, pan oedd yn ei dybied ei hunan ychydig yn fwy cymhwys i ffurfio barn gywirach am dano. Yr oedd yn awr, hyd ag y gallai, yn ei wylio ac yn sylwi arno yn ei holl ysgogiadau. Cerddai yn ol ac yn mlaen, amryw droiau, gyferbyn â'r tŷ yn yr hwn y lletyai,—a thŷ Mr. Charles oedd hwnw,—gan ddysgwyl cael rhyw drem arno, fel ag i'w wneyd yn fwy cydnabyddus âg ef. Iddo ef, yn ol fel yr oedd yn ei gofio yn Nhan-y-fron, ymddangosai fel pe buasai yn hen ŵr; ac un o'r pethau oeddent yn awr yn ei synu fwyaf ydoedd, ei weled yn edrych yn llawer ieuengach nag yr oedd efe yn tybied ei fod pan y gwelsai ef o'r blaen. Yr oedd yn dysgwyl yn awyddus am yr oedfa pan oedd Mr. Elias i bregethu, ac yn synu na buasai yn pregethu yno braidd bob oedfa. Ni a ddodwn i mewn yma yr hyn a allasom gael o'r manylion am wasanaeth cyhoeddus y Gymdeithasfa hono. Y prydnawn cyntaf, ddydd Mawrth, am bump ar y gloch, yr oedd Mr. John Thomas, Aberteifi, yn pregethu, oddiar 2 Tim. i. 9. Nid yw yr adroddiad a gawsom yn dywedyd pwy oedd yn pregethu o'i flaen, neu ar ei ol ef. Am chwech ar y gloch y boreu, ddydd Mercher, yr oedd Mr. Michael Roberts yn pregethu, oddiar 1 Ioan v. 6; a Mr. Lloyd, Beaumaris, oddiar Rhuf. xv. 4. Am ddeg, Mr. John Jones, Edeyrn, oddiar Genesis xlix. 22; a Mr. Jones, Dinbych, oddiar Ran o Weddi yr Arglwydd; Matt. vi. 9—13. Am ddau, yr oedd Mr. Evan Richards, Caernarfon, a Mr. Elias yn pregethu. Ni chawsom eu testynau hwynt. Nid yw yr adroddiad a gawsom ychwaith yn hysbysu i ni pwy oedd yn pregethu yr hwyr, na'r

boreu olaf. Y mae braidd yn sicr, pa fodd bynnag, fod Mr. John Hughes, Pontrobert, Mr. Roberts, Amlwch, Mr. Robert Jones, Rhoslan, a Mr. Richard Jones, o'r Wern, wedi pregethu rywbryd yn ystod y Gymdeithasfa. Y mae argraff ddofn ar ein meddwl i ni glywed Mr. Rees ei hunan yn dywedyd fod Mr. Roberts, Amlwch, yn pregethu yn y Bala, y tro cyntaf y buasai efe yno. Yr oedd gradd o adfywiad ar grefydd mewn amrywiol barthau o Sir Feirionydd a Sir Ddinbych yn adeg y Gymdeithasfa hon; ac yr oedd llïaws mawr unwaith ac eilwaith, yn y gwahanol oedfäon yn tori allan, yn yr hen ddull Cymraeg, mewn hwyl orfoleddus i fendithio yr Arglwydd. Ac yr oeddent felly, yn neillduol, pan oedd Mr. Richards yn pregethu yn gyntaf, yn yr oedfa am ddau. Ond, fel y dywedasom, am Mr. Elias yr oedd dysgwyliad arbenig y bachgen; a phan y gwelodd ef yn codi, ac yn rhoddi pennill i'w ganu, ac yn parotoi at y bregeth, yr oedd bron a chael ei orchfygu gan ei deimladau. Ac yn fuan iawn yr oedd y gwrandawr ieuanc fel wedi ei wefreiddio. Nid oedd wedi clywed dim cyffelyb erioed: ac er cymmaint ag a glywsai gan ei dad ac ereill o sôn am y pregethwr, ei deimlad ydoedd, fel brenhines Seba wedi gweled a chlywed Solomon, na fynegasid iddo yr hanner. Yr oedd y pregethwr, dybygid, yn un o'i hwyliau goreu, a'r holl filoedd ag oeddent o'i flaen, yn ei law megis, i'w trin fel y mynai; ac yr oedd nerth Duw ei hunan yn cael ei deimlo trwyddo ar eu meddyliau. Yr oedd llïaws yn y gynnulleidfa, yn agos i'r lle y safai efe, wedi tori allan i lefain am eu bywyd, ac ereill yn gorfoleddu am ei gael. Yr oedd yntau dan deimladau dwysion iawn; ond fe'i meddiannodd ei hunan fel ag i ymattal rhag rhoddi datganiad cyhoeddus iddynt, fel y gwnelai nifer mawr o'r rhai oeddent yn ei gylch ef. Eithr yr oedd y tro yn un iddo ef i'w gofio byth. Wedi dychwelyd adref nid oedd diwedd ar ei sôn am y "*Sassiwn*," ac yn enwedig am John Elias a'i bregethu rhyfedd. Eithr yr oeddem yn cyfeirio yn arbenig at y Gymdeithasfa hono yn y Bala, am mai dyna y tro cyntaf erioed iddo ef, yn fwriadol, weddïo yn nghlyw ereill. Yn ol yr arferiad gyffredinol y pryd hyny, fe ddysgwylid i'r rhai a

fyddent yn lletya dieithriaid, ofalu am fod addoliad yn cael ei gynnal yn eu tai ar awr neillduol, i weddïo mewn modd arbenig am bresennoldeb yr Arglwydd yn y Gymdeithasfa. Yn gymmaint ag mai David Davies ac yntau oeddent yr unig ddieithriaid yn y teulu lle y llettyent, yr oedd yn disgyn ar un o honynt hwy i ddarllen ac i weddïo ar yr awr bennodedig. Fe nacäodd ei gyfaill yn hollol a chydsynio i wneyd; fel y bu raid iddo ef, er ieuenged ydoedd, ymgymmeryd â'r gorchwyl. Ac fe deimlai David Davies, ac fe deimlai y teulu oll, fod rhywbeth annghyffredin iawn yn ngweddi y bachgen; yn gymmaint felly, fel y bu raid iddo gymmeryd hyny arno ei hunan tra y buant yno. A phan ddychwelodd David Davies adref o'r Bala, yr oedd yn sôn llawn cymmaint am weddïau "Harri Rhys," ag yr ydoedd am y pregethau a gawsai yn y Gymdeithasfa; ac annogai y brodyr i'w alw i weddïo yn y cyfarfodydd gweddio. "Gelwch arno," meddai, "gael i chwi ei glywed o eich hunain." Ac ychwanegai,— "Fe wnaiff Harri, chwi gewch chwi weled, llawn cystal gweddïwr a'i dad." Yn lled fuan fe alwyd arno,—ac fe'i profodd ei hunan yn bob peth a ddywedasid am dano gan ei gydymaith i'r Bala. Wedi iddynt ei glywed unwaith, fe alwyd arno drachefn a thrachefn, nes y daeth i gymmeryd rhan yn amlach nag odid neb oedd yno, oddieithr ei dad, yn y cyfarfodydd gweddïau. Ac os dygwyddai, fel y dygwyddai weithiau, na byddai efe na'i dad yn bresennol yn y cyfryw gyfarfodydd, mawr fyddai siomedigaeth y bobl a fyddent wedi dyfod yn nghyd. Ac y mae yn sicr, yn ol pob tystiolaeth am dano yn yr oedran ieuanc hwnw, fod rhywbeth tra hynod ynddo mewn gweddi. Arddangosai y fath ymdeimlad âg anghenion cyflwr a chalon pechadur; y fath gydnabyddiaeth â chyfoeth ac âg addasrwydd darpariaeth gras ar ei gyfer; y fath gynnefindra â geiriau ac â delweddau yr ysgrythyrau sanctaidd; y fath rwyddineb ymadrodd, ac eto y fath wylder gostyngedig yn mhresennoldeb yr Anfeidrol;—y fath gyfuniad, yn wir, o'r cymhwysderau goreu er arwain defosiwn cynnulleidfa, ag i beri argyhoeddiad dwfn yn meddyliau y rhai mwyaf crefyddol a meddylgar yn yr eglwys a'r gymmydogaeth,

ei fod yn "llestr etholedig" gan yr Arglwydd, i ryw wasanaeth gwerthfawr mewn cysylltiad â'r efengyl am ei Fab.

Yr oedd mesur helaeth o'r un gallu, ac o'r un ysbryd, yn dyfod i'r golwg y pryd hyny yn yr oll a wnelai gydâ'r Ysgol Sabbothol. Byddai ynddi yn gyson: ac yr oedd yn cymmeryd llafur mawr, yn ystod yr wythnos, i'w barotoi ei hunan ar gyfer y bennod a ddarllenid yn y dosbarth, y Sabboth canlynol. Ymroddai hefyd gydâg egni a dyfalwch mawr i draddodi rhanau o'r Llyfr Dwyfol i'w gôf, ac adroddai bennodau o hono allan yn yr ysgol, ac yn achlysurol i'r pregethwr yn nechreu yr oedfäon cyhoeddus; a hyny bob amser gydâ'r fath gywirdeb a phriodoldeb a difrifwch, ag i dynu sylw ac i ennill cymmeradwyaeth cyffredinol. Ac mewn cyfarfodydd arbenig at holwyddori yr ysgolion, yn gystal ag yn yr holwyddori cyffredin bob Sabboth, fe fyddai ei atebion ef mor briodol, ac yn arddangos cydnabyddiaeth mor helaeth a manwl â dysgeidiaeth yr ysgrythyrau sanctaidd ar y pynciau neillduol yr holwyddorid arnynt, fel yr edrychid arno eisoes, mewn gwlad ac ar adeg ag yr oedd cwestiynau duwinyddol yn tynu cryn lawer o sylw, fel un yn meddiannu golygiadau eglurach ac eangach ar wirioneddau yr efengyl nag odid neb yn y cymmydogaethau hyny.

Yr oedd tua y pryd hwn hefyd yn cymmeryd cryn ddyddordeb yn Nghaniadaeth y Cysegr. Yr oedd ei fam yn gantores dda, ac yr oedd yntau bob amser yn hoff iawn o ganu. Byddai Mr. John Ellis, Llanrwst, fel y gelwid ef,—un o'r rhai cyntaf yn mhlith y Methodistiaid, o leiaf yn Ngogledd Cymru, i alw sylw at yr angenrheidrwydd am well trefn yn y rhan yma o'r addoliad dwyfol,—yn arfer myned yn achlysurol i Lansannan, fel i leoedd ereill, i roddi gwersi i'r gynnulleidfa ar ganu, ac i addysgu ieuenctyd ac ereill mewn cerddoriaeth; a bu Henry Rees, am ryw gymmaint o amser, yn un o'i ddysgyblion. Nid ydym yn gwybod pa gynnydd a wnaeth efe mewn cydnabyddiaeth âg elfenau y gelfyddyd, nac i ba raddau y meistrolodd y Nodau Cerdd; ond yr oedd ganddo, pan yn ieuanc, lais da at ganu, ac yr oedd yn hoff iawn o hono; a bu am gryn amser, yn mhen

rhai blynyddoedd ar ol hyn, yn Flaenor y Canu yn yr eglwys yr oedd yn aelod o honi. Yn wir hyd ddiwedd ei oes, efe a gipiai dôn newydd a hollol ddieithr iddo, yn nodedig o gyflym, yn unig oddiwrth ei glust, os byddai dim cymhwysder ynddi i gydio yn ei deimlad. Clywsom ef, fwy nag unwaith, yn adrodd yr effaith a gawsai tôn felly arno, mewn rhyw le yn Lloegr, nid rhyw lawer iawn o flynyddoedd cyn ei farwolaeth. Dysgodd y dôn, wedi ei chlywed ond y tro hwnw; a chyfieithodd yr Emyn a genid arni, ar yr un mesur, i'r Gymraeg; ac ymddifyrai yn awr ac eilwaith yn ei ganu, weithiau yn y Gymraeg ac weithiau yn y Saesonaeg, ond bob amser ar y dôn hono, a phob amser yn ymddangos i ni â rhyw eneinniad hynod ar ei ysbryd gydâ hi. Y mae yn hawdd, gan hyny, genym ni gredu ei fod ef yn gwybod mwy am ganu, hyd yn nôd fel celfyddyd, nag a honid ganddo, a mwy nag yr oedd yn barod i'w gydnabod; ac y mae yn ddiammeu genym ei fod, yn ngwres ei gariad cyntaf gydâ chrefydd, yn ymdeimlo â'i rwymedigaeth i wneuthur a allai gydâ y rhan yma o'i gwasanaeth hi, fel pob rhan arall; a'i fod, yn neillduol yn mywiogrwydd ei ieuenctyd, yn mwynhau hyfrydwch mawr yn hyny.

Yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi agoryd y Capel newydd yn Llansannan, fe ddaethpwyd i deimlo y buasai yn ddymunol, er mwyn llïaws ag oeddent yn byw gryn bellder oddiwrth y Pentref, codi cangen Ysgol Sabbothol mewn rhyw le cyfleus, yn uwch i fynu yn y plwyf. Ac fe gydunwyd ar hyny. Yn gyntaf oll fe'i sefydlwyd yn Chwibren Uchaf; oddiyno fe'i symmudwyd i Chwibren Isaf, lle yr oedd Harri Rees, ewythr i Henry o frawd ei dad, ar y pryd yn preswylio, yn gymmaint a bod y tad a'r teulu wedi symmud i Rhydloew. Fe symmudwyd yr ysgol drachefn i Hendre Uchaf, a thrachefn oddiyno i Felin Gadog. Trodd hon allan yn ysgol werthfawr iawn i'r ardal. Dysgwyd llawer o blant ynddi i ddarllen yn dda, a fuasent, oni buasai hi, heb gael mantais i hyny; a chawsant yno hefyd eu gosod ar ben y ffordd i gael deall da yn egwyddorion yr efengyl, ac mewn gwybodaeth gyffredinol o'r ysgrythyrau. Gan fod yr

ysgol hon yn nês na'r Pentref i Rhydloew, fe berswadiwyd Henry i fyned iddi. Yr oedd y tad, Mr. David Rees, yn gorfod myned i Lansannan, i gymmeryd gofal yr ysgol yno; ac felly fe ddodwyd ar Henry, er ieuenged ydoedd, gymmeryd gofal y gangen ysgol. Yr oedd yn hoff iawn o'r dosbarth yr oedd ynddo yn yr ysgol yn y Capel, ac felly yr oedd yn gryn brofedigaeth iddo ei adael; yr oedd y cyfeillion, pa fodd bynnag, yn ei annog i fyned, a'i dad yr un modd yn ei gynghori, ac felly efe a gydsyniodd i fyned. Y mae yn bosibl hefyd ei fod yn lled-ddysgwyl y gallai gael cyfleusdra yno, yn raddol, i arfer ei ddawn i holwyddori yn gyhoeddus, ac i roddi ambell gyfarchiad, ar y naill fater neu y llall, a hyny heb fod yn nghlyw ac yn ngwydd ei dad. Eithr, er ei fod yn fynych iawn yn cael ei alw i ddechreu neu i ddibenu yr ysgol, trwy weddi, bu am hir amser cyn y galwyd arno o gwbl i gymmeryd unrhyw ran arall arbenig ynddi. Nid oedd dim, yn wir, a wnelai efe â'i harweiniad hi, yr holl amser y cedwid hi yn Chwibren Uchaf, a thrachefn tra yn Chwibren Isaf. Yr oedd ganddo ddosbarth ynddi, o dan ei ofal ei hunan, ac yr oedd yn hynod o lafurus gydâg ef; ac yr oedd teimlad a siarad tra chyffredin yn mhlith aelodau yr ysgol, y dylasai efe gymmeryd mwy o law yn ei harweiniad. Felly, pan y symmudwyd yr ysgol i'r Hendre Uchaf, ar ol ymgynghoriad âg amryw o'r brodyr, fe benderfynodd gŵr y tŷ,—yr hwn oedd yn hen grefyddwr deallus a ffyddlawn, ac yn coleddu syniadau uchel am alluoedd a chrefydd Harri,—y gwnai ei oreu i'w dynu ef allan; ac fe'i galwai gydâg awdurdod i gymmeryd arweiniad yr ysgol i'w law, ac yn enwedig i'w holwyddori ar y diwedd. Yr oedd yno rai hen bobl dda, a dybient, o bosibl, mai hwynthwy a ddylasent gael y gwaith hwnw, ac yn edrych arno ef fel yn rhy ieuanc, ac, yn eu meddwl hwy, yn rhy ddibrofiad i gael y fath le. Yr oedd John Jones, y Gôf, neu "Shon y Gôf," fel y gelwid ef yn gyffredin, yr hwn y cyfeiriasom eisoes ato, yn un o'r rhai oeddent yn lled eiddigus o'r bachgen ieuanc. Ond er ei fod ef yn ŵr da a thra ffyddlawn, eto nid oedd John Roberts, yr Hendre, yn gallu gweled fod ynddo ef ryw lawer o gymhwysder

at arwain ac at holwyddori ysgol, ac felly ar Henry Rees, neu "Harri Rees," fel y galwai efe ef hyd ddiwedd ei oes, y byddai efe yn wastadol yn galw. Ac ni byddai yntau byth yn anufuddhau. Yn wir yr oedd yr hen frawd yn galw gydâ'r fath awdurdod fel ag i wneyd anufuddhau yn beth agos i anmhosibl. Ac y mae yn deilwng o sylw, ac yn cynnwys awgrymiad pwysig i ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth, mai wrth holi yr ysgol, yn yr Hendre Uchaf, y daeth efe yn arbenig i olwg y gymmydogaeth yn y doniau neillduol a berthynent iddo. Yr oedd y sylwadau a wneid ganddo mor briodol, ac yn cael eu traethu mewn dull mor eglur, a chydâ'r fath ysbryd rhagorol, fel y rhoddent, agos yn ddieithriad, y boddlonrwydd mwyaf i'r holl ysgol; ac yr oedd yr angenrheidrwydd a ddodid arno am fesur o barotoad gyda golwg arnynt, yn fanteisiol iawn iddo ef ei hunan, er rhoddi cyfeiriad neillduol i'w lafur meddyliol, yn ystod yr wythnos; yn gystal ag er rhoddi cyfleusdra cyson iddo i arfer ei ddawn i gyfarch cynnulleidfa. Ac, yn gymmaint a'i fod yn gwneuthur hyny yn benaf yn y ffordd o holi, a'r ysgol yn ei ateb, yr oedd yn cael mantais arbenig i'w arfer ei hunan i'r meddylgarwch, y manylder, a'r hunan-feddiant, a fuant mor wasanaethgar iddo yn y gwaith mawr yr oedd ei fryd eisoes arno, ac y daeth, ar ol hyn, mor enwog ynddo.

Yr ydoedd, er pan yn ieuanc iawn, wedi penderfynu bod yn bregethwr, ac nid ydoedd yn cofio ei hunan yn meddwl yn ddifrifol am fod yn ddim arall. Yr oedd yr awydd am hyny yn awr yn fyw, ac yn gryf iawn yn ei feddwl; ac yr oedd yn ymdrechu yn egnïol ac yn ddyfal, yn yr amgylchiadau yr ydoedd ynddynt, er ceisio ei gymhwyso ei hunan at y gwaith. Ond pa fwyaf y meddyliai am dano ac y llafuriai ar ei gyfer, mwyaf oll yr ymdeimlai â'i annghymhwysder iddo, ac yn enwedig â'i anwybodaeth yn ystyr yr ysgrythyrau sanctaidd; ac yn neillduol ystyr yr adnodau hyny a'u cynnygient eu hunain i'w feddwl fel testynau, yn awgrymu rhyw bethau iddo ag y teimlai awydd pregethu arnynt. Yr oedd yn arbenig yn teimlo oddiwrth ddiffyg llyfrau cymhwys ar wahanol ganghenau athrawiaeth yr efengyl, yn

gystal a rhai i esbonio yr ysgrythyrau. Yr oedd ganddo syniad y rhaid fod y fath lyfrau yn bod, er nad ydoedd yn gwybod hyd yn nôd am eu henwau. Ond nid oedd y fath lyfrau yn ei gyrhaedd ef, ac nid oedd ganddo neb i'w gyfarwyddo pa fodd i'w cael. Yr oedd cryn swm o hen lyfrau Chwibren Isaf yn meddiant y teulu ar y pryd, ond nid oeddent ond ffynhonau seliedig iddo ef, gan eu bod, agos oll, yn y Saesonaeg a'r Lladin; a phe gallasai wneuthur defnydd o honynt, nid oedd odid un o honynt yn hollol at ei amcan ef, yn gymmaint ag mai llyfrau hanesyddiaeth gyffredin, neu farddoniaeth, neu hen lyfrau y gyfraith, oeddent braidd i gyd; ac yr oedd yntau yn llawn awydd am rywbeth a allai fod o ryw gymhorth iddo yn y gwaith ag yr oedd ei feddwl arno,—rhywbeth a'i cynnorthwyai i ddeall y Beibl, ac i gael golygiadau ëang a manwl ar ei wirioneddau. Yn rhagluniaethol, yr oedd "*Geiriadur Ysgrythyrol*" Mr. Charles, er ys ychydig flynyddoedd wedi ei gyhoeddi; ac yr oedd ailargraffiad o hono, wedi ei ddiwygio a'i helaethu, tua y pryd hwn yn cael ei ddwyn allan o'r Wasg, yn rhanau, swllt yr un. Yr oedd efe wedi clywed llawer o sôn, er pan oedd yn blentyn bychan, gan y pregethwyr a ddelent agos bob wythnos i letya i dŷ ei dad, am y "*Geiriadur;*" ac yr oedd wedi sylwi y gwneid cyfeiriadau yn fynych ato o'r pulpud, fel awdurdod dros ryw olygiadau neillduol a roddid yn awr ac eilwaith yn y pregethau, fel ag y daeth i goleddu y syniadau uchaf am dano; ac yn awr, yn ei ymdeimlad â'i ddiffygion ei hunan gydâ golwg ar yr hyn ag oedd yn amcan mawr ei fywyd, fe ddaeth awydd annghyffredin arno am ei gael i'w feddiant. Ond nis gwyddai pa fodd i'w gael. Ceisiodd ei oreu gymhell ei dad i'w dderbyn, fel ag y gallai efe gael y defnydd o hono. Ond nid oedd y tad yn teimlo yn alluog i hyny. Yr oedd eisoes yn derbyn "*Merthyrdraeth*" ei gyfaill, y Parch. Thomas Jones, Dinbych, yr hwn oedd hefyd yn cael ei ddwyn allan yn rhanau, ar yr un amser; ac nid oedd y tad yn teimlo fod ei amgylchiadau ef, ar y pryd, yn caniatau iddo dderbyn y "*Geiriadur*" hefyd. Ond yr oedd Henry am fyned yn bregethwr; ac yr oedd arno tuag at hyny eisiau y "*Geiriad-*

*ur;*" a byddai yn cwyno yn fynych nas gallasai ei gael. Un diwrnod, meddai wrth ei fam,—"Nis gwn i ddim beth i'w wneyd i gael y '*Geiriadur*,' ac y mae yn anhawdd iawn yn wir i mi allu gwneyd hebddo." "Mi a ddywedaf i ti," atebai y fam, "beth i'w wneyd: cyfod di yn foreu bob diwrnod corddi, a chordda i mi, ac mi a roddaf i ti bwys o ymenyn o bob corddiad i'w roddi mewn cynog; a phan ddelo hi yn llawn, ti a gei ei gwerthu i brynu y '*Geiriadur*.'" Ni chlywsai well newydd erioed. Derbyniodd y cynnyg yn llawen ac yn ddiolchgar, a dechreuodd ar y corddi yn galonog. Ni bu neb erioed yn fwy awyddus i'w waith. Buasai yn dda ganddo pe buasai eisiau corddi bob dydd, er mwyn y gobaith oedd iddo ef yn gysylltiedig â'r gwaith. Ond "y gobaith a oeder a wanha y galon." Felly gydâg yntau. Elai at y gynog ar ol pob corddiad, ond yr oedd yn ei gweled yn hir iawn yn llanw. "Y mae arnaf fi ofn," meddai, "y byddaf fi yn hir iawn heb y '*Geiriadur*' os rhaid i mi aros wrth yr hen gynog yna; nid ydwyf fi yn ei gweled hi yn llenwi dim." A mawr y dyfeisio yr oedd pa beth a allasai wneyd er cynnorthwyo y gynog i sicrhau y "*Geiriadur*." Daeth i'w feddwl, a chafodd ganiatâd ei dad, i gymmeryd degwm eu tir hwy, Rhydloew, am y flwyddyn hono; gan obeithio y gallai ennill rhywbeth arno tuag at wasanaethu yr amcan hwnw. A dyna lle y bu ganddo lawer o ddyfalu pa fodd y tröai pethau allan; pa faint a allai gael oddiwrth y gynog, a pha faint a allai ddysgwyl oddiwrth y degwm; ac wedi dodi y naill beth at y llall, yr oedd yn dra gobeithiol y câi ddigon i dalu am y "*Geiriadur*." Eithr, wedi hyny, yr oedd yr amser i ddysgwyl am dano yn hir iawn. Yr oedd yn rhaid aros i'r hâf a'r cynauaf fyned heibio, cyn y byddai y gynog yn llawn, ac y dygid y degwm i mewn, ac nid ydoedd eto ond dechreu Mai. Pa fodd bynnag, yr oedd amser "*Sassiwn*" y Bala yn agoshau. Meddyliodd mai y peth goreu a allai wneuthur oedd myned yno, ac adrodd yr holl amgylchiadau i Mr. Charles, a gofyn iddo ef, a wnai efe werthu y "*Geiriadur*" iddo, ar goel y Gynog Ymenyn, a'r Degwm. Pan y cafodd y syniad hwn gyntaf, yr oedd yn

fyw iawn o hono; ond fel yr oedd yr amser yn nesau, yr oedd yn fynych yn petruso gydâ golwg arno; a'i ffydd, weithiau, yn pallu yn hollol. Pa fodd bynnag, i'r Bala yr aeth; nid yn unig, ac nid yn gymmaint, y tro hwn, er mwyn y Gymdeithasfa, ag er mwyn y "*Geiriadur.*" Yr oedd y Gymdeithasfa hono yn y Bala yn un hynod iawn. Fe'i cynhelid, Mehefin 14, 15, 16, 1814. Dyma y Gymdeithasfa y bu yr ail Neillduad yn y Gogledd ynddi, pryd yr ordeiniwyd Mr. John Jones, Edeyrn; Mr. Michael Roberts, Pwllheli: Mr. John Jones, Tremadoc; Mr. John Parry, Caerlleon; a Mr. John Hughes, Pontrobert. A dyma y Gymdeithasfa ddiweddaf a gafodd Mr. Charles. Yr oedd Mr. John Parry, Caerlleon, a Mr. Williams, Lledrod, yn pregethu y prydnawn cyntaf: Mr. Michael Roberts, a Mr. Lloyd, Beaumaris, am chwech ar y gloch y boreu drannoeth: Mr. Jones, Edern, a Mr. Ebenezer Morris, am ddeg; Mr. Jones, Dinbych, a Mr. Elias, am ddau; a Mr. Thomas Richard a Mr. Evan Richardson, Caernarfon, am chwech yn yr hwyr. Yr oedd rhyw ogoniant annghydmarol, fe ddywedir, ar y pregethu yn y Gymdeithasfa hono, ac effeithiau hynod ar y gwrandawyr. Dyma y tro cyntaf i Mr. Henry Rees glywed Mr. Ebenezer Morris; ac fe gafodd ar unwaith y fath feistrolaeth arno, yn neillduol yn yr hunanfeddiant a arddangosai, fel y daeth yn un o'i brif bregethwyr tra y bu byw: ac yr oedd cyfeiriad at Mr. Ebenezer Morris, hyd braidd ddiwedd ei oes, yn ddigon i'w gynhyrfu drwyddo. Eithr drannoeth wedi dydd mawr yr ŵyl, yr oedd raid iddo fyned at Mr. Charles, od oedd am fyned hefyd. Bu yn y diwedd, mewn cymmaint petrusder, fel y bu agos iddo a digaloni. Ond anturiodd fyned. Yr oedd wedi bod heibio y tŷ, amryw weithiau, ddwy flynedd yn ol; ac yr oedd wedi bod heibio iddo rai prydiau eisoes, er pan y daethai i'r Bala y tro hwn. Yn awr, yr oedd eisiau mwy na myned heibio iddo, ac edrych arno, yr oedd raid myned i mewn iddo. Cerddai yn wylaidd ac yn bryderus amryw weithiau, yn ol ac yn mlaen, heibio i'r tŷ; ond yn teimlo yn rhy wanaidd i fyned ato. Yn mhen enyd, safodd gyferbyn â'r tŷ, ac aeth at y drws; ond yn ol drachefn a thrachefn, ddwy-

waith neu dair, yn rhy ofnus i guro. O'r diwedd, yn grynedig, fe estynodd ei law, ac a ymaflodd yn y gnocell, a churodd yn wanaidd. Dyna yr orchest fawr wedi ei chyflawni. Daeth y forwyn, Margaret Edwards,—"ei forwyn rasol Peggy Edwards," —i'r drws. Gofynodd iddi a oedd Mr. Charles i mewn, ac a oedd modd iddo gael ei weled am ychydig funudau; mai bachgen o Lansannan oedd efe, mab i Dafydd Rees, Rhydloew. Aeth y forwyn â'r genadwri at ei meistr; a pharodd yntau iddi ei alw i mewn. Ac i mewn dan grynu yr aeth. Wedi y moes-gyfarchiad goreu a allai, fe agorodd yr achos yn wylaidd o flaen Mr. Charles, gan osod pwys mawr ar yr awyddfryd oedd ynddo, er ys hir amser, i berchenogi y "*Geiriadur*;" ond nad oedd ganddo, ar y pryd, arian i dalu am dano, eithr, gan fyned yn fanwl dros y cynllun oedd ganddo tuag at hyny, fe sicrhai iddo, yn y modd mwyaf hyderus, y byddai efe yn alluog i dalu y cwbl cyn calan gauaf. Gwrandawodd Mr. Charles ar ei adroddiad ac ar ei gais, dan wênu yn fwynaidd arno, ac nis gallai lai na'i gymmeryd yn fachgen didwyll a gonest; ac felly, heblaw ei fod yn dra adnabyddus o'i dad Dafydd Rees, ac o'i nain, yr hon yn ddiweddar a fuasai farw, fe ganiatâodd iddo ei ddymuniad.

Eithr cyn iddo amlygu hyny iddo, pwy a ddaeth i mewn atynt i'r ystafell ond Mr. John Elias, i ffarwelio â Mr. Charles, cyn gadael y tŷ, a gadael y dref, ar ol y Gymdeithasfa. Adroddodd Mr. Charles stori y bachgen i Mr. Elias, yr hwn yntau a'i gwrandawai dan wênu, ac a ddywedodd ychydig eiriau calonogol a charedig wrtho. Ychydig a feddyliodd y ddau ŵr da y boreu hwnw, y byddai y bachgen gwledig gwylaidd oedd ger eu bron, yn mhen blynyddau wedi hyny, yn un o'r dynion mwyaf, ac yn un o'r pregethwyr perffeithiaf, a fagodd Methodistiaeth Cymru erioed; ac yn brif arweinydd y Cyfundeb am flynyddoedd lawer, wedi iddynt hwy gael eu cymmeryd ymaith. Y mae y cyd-gyfarfyddiad hwn, yn sicr, yn un hynod iawn. Dyma y tro cyntaf erioed i Henry Rees gyfarfod â, a siarad â John Elias; a dyma yr unig dro erioed iddo gyfarfod â, a siarad gydâ Thomas Charles; a'r unig dro erioed i'r tri gyfarfod gydâ'u gilydd, a

hyny onid am ychydig funudau: Mr. Charles yn agos i ddiwedd ei oes, ac wedi bod yn arweinydd y Cyfundeb Methodistaidd yn Ngogledd Cymru am tua saith mlynedd ar hugain, ac yn llafurio yn eu plith er ys naw mlynedd ar hugain; Mr. Elias yn awr yn ddeugain oed, ac a ddaeth yntau, wedi marw Mr. Charles, yn arweinydd am y saith mlynedd ar hugain canlynol; a Mr. Rees, yn awr yn fachgen ieuanc un-ar-bymtheg oed, ond a ddaeth yntau, wedi marw Mr. Elias, yn brif arweinydd y Cyfundeb am saith mlynedd ar hugain ar ol hyny. Gwnai y cyfarfyddiad hwn ddarlun rhagorol, naill ai mewn arlun lliwiedig, neu ynte mewn cerfwaith o fynor.

Eithr nid ydym wedi gorphen yn nghylch y "*Geiriadur*." Wedi i Mr. Elias ymadael a'r ystafell, fe ganiatâodd Mr. Charles ei gais i'r bachgen. Ysgrifenodd nodyn iddo i'w gymmeryd at yr argraffydd, Mr. Robert Saunderson, yn erchi iddo roddi y "*Geiriadur*" iddo, gan beri iddo yntau beidio a phryderu yn nghylch y talu, ond gwneuthur hyny pan y câi yr arian i'w law. Yr oedd golwg wahanol iawn ar wedd y bachgen yn myned allan o dŷ Mr. Charles i'r hyn oedd arno yn myned i mewn. Yr oedd yn awr yn llawen fel un wedi cael ysglyfaeth lawer. Aeth adref mewn gorfoledd mawr, a'r pedair cyfrol, mewn rhanau, yn gyflawn ganddo. Aeth â'r rhanau at Mr. Isaac Jones, Tan-y-fron, Nantglyn wedi hyny, i'w rhwymo yn gyfrolau; ac wedi eu cael, efe a fu yn ddiwyd iawn, mewn amser ac allan o amser, yn eu darllen, ac yn gwneuthur eu cynnwysiad, ar y materion neillduol a fyddent dan sylw ganddo, yn eiddo hollol iddo ei hunan. Ystyriai y "*Geiriadur*" a'r "*Merthyrdraeth*" fel llyfrau o werth anmhrisiadwy: ac yr oedd yn synu, wedi iddo, yn mhen llawer o flynyddoedd, gael llyfrau diweddarach, o nodwedd gyffelyb ac i'r un amcan, yn yr iaith Saesonaeg, ac y canmolid cymmaint arnynt, can lleied, o ddim gwasanaeth neillduol iddo ef fel pregethwr, a allai gael ynddynt, nad ydoedd i'w gael, ac nad oedd wedi ei gael yn y "*Geiriadur*" a'r "*Merthyrdraeth*."

Ar foreu dydd Mercher, Hydref 5, y flwyddyn hon (1814), bu farw y Parchedig Thomas Charles o'r Bala. Y nos Sadwrn can-

lynol, yr oedd y diweddar Robert Owen o Lanrwst, i bregethu yn Rhydloew, ac yn nhaith Llansannan a Than-y-fron y Sabboth; ac efe a ddaeth â'r newydd gyntaf i'r gymmydogaeth fod Mr. Charles wedi marw. Fe dorodd Henry allan i wylo a llefain dros y tŷ. Gwaeddai allan, mewn llais cwynfanus, "Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel, a'i farchogion." Bu am hir amser yn methu meddiannu ei hunan, ac yn methu sylweddoli fod y wyneb têg, a welsai mor ddiweddar, wedi ei newid dan ddwylaw angeu, a Chymru wedi ei hamddifadu o'i phrif ddysgawdwr. Yr oedd yn dda iawn ganddo, erbyn hyn, ei fod wedi cael y fraint o'i weled a chael siarad âg ef yn ei dŷ ei hun, ac yn enwedig ei fod megis wedi cael y "*Geiriadur*" ganddo o'i law ei hunan. Yr unig beth poenus iddo mewn cysylltiad â hyny oedd, nad oedd wedi gallu anfon yr arian i dalu am dano cyn ei farwolaeth ef; ond ymgysurai nad oedd yr amser yr addawsai hwynt wedi dyfod i fynu, a chyn i'r amser hwnw ddyfod fe'u hanfonodd hwynt i Mr. Thomas Charles, y mab.

Yn niwedd y flwyddyn hon (1814), fe dorodd clefyd poeth *(Typhus fever)* allan yn Llansannan, yr hwn a ymdaenodd agos trwy yr holl blwyf. Yr oedd amryw deuluoedd cyfain yn gorwedd yr un pryd dano, a llawer yn marw. Yr oedd ofn y clefyd yn fawr ar Henry. Dychymygai, ambell ddiwrnod, lawer gwaith yn y dydd, fod y clefyd yn ymaflyd ynddo; a mynych y dywedai, "Ofn angeu a syrthiodd arnaf." Adroddai yn aml y pennill o'r Psalm:—

"O paid â mi, gad i'm gryfhau,
Cyn darffo dyddiau 'mywyd:
A gwna â mi sy' bron fy medd,
Drugaredd a syberwyd."

Ond trwy drugaredd, gwaredwyd ef, y tro hwnw, o'i holl ofn. Ni chaniatâwyd i'r pla ddyfod yn agos i'w babell. Aeth yr angel dinystriol heibio i'r Rhydloew heb gyffwrdd âg un o'r teulu; a diau iddo ef, wedi i'r aflwydd fyned heibio, ddiolch llawer am yr ymwared, fel ag yr oedd, cyn hyny, wedi gweddïo llawer am dano, iddo ef ac i'w deulu.

Yr oedd y fath lwyddiant wedi bod ar yr ysgol yn yr Hendre Uchaf, o dan ei ofal ef, fel y penderfynwyd codi ysgol arall, mewn lle a elwir Hafod Elwy; ardal yn nghanol mynydd Hiraethog, ar y ffordd rhwng Dinbych a Phentrefoelas, yn mhell oddiwrth gyfleusdra moddion crefyddol. Yr oedd amryw o amaethwyr cyfrifol yn byw, y pryd hwnw, yn y gymmydogaeth fynyddig hono, ac yr oeddent yn awyddus iawn am gael Ysgol Sabbothol yn eu plith. Cynhelid yr ysgol yn nhŷ y "*Llwydiaid,*" fel y gelwid dau neu dri o hen lanciau yn byw gydâ'u gilydd, mewn amgylchiadau tra chysurus, ac yn ddynion o duedd mwy darllengar ac ymofyngar na'r cyffredin yn y dyddiau hyny. Y rhai cyntaf a ddewiswyd i fyned yno, i gymmeryd gofal yr ysgol, oeddent Henry Rees, a Robert Roberts o'r Acrau Isaf, gŵr da, deallus, a thra ffyddlawn. Am dri mis yn unig yr oeddent, yn ol y trefniad cyntaf, i fyned yno; ac yna ereill i'w dilyn. Yr oedd ganddynt, o leiaf, dair milltir o fynydd Hiraethog i'w groesi wrth fyned yno, a thrachefn i ddychwelyd, trwy rûg a mawnogydd a chorsydd, a hyny ar bob math o dywydd; fel yr oedd cryn lafur corphorol yn disgyn arnynt, heb sôn am ddim arall. Ond teimlid yn fwy o anturiaeth wynebu y bobl. canys er fod yn eu plith rai ag oeddent yn proffesu crefydd, ac ereill yn ddynion dichlynaidd, ac yn myned weithiau i wrando pregethau, eto yr oedd yno gryn nifer a ystyrid yn dra anwaraidd, ac yn gwbl ddigrefydd. Pan yn cychwyn tuag yno y Sul cyntaf i ddechreu ar eu gweinidogaeth, gofynai Robert Roberts i Henry,—"Sut yr wyt ti yn teimlo Harri bach? Digon gwangalon ydwyf fi i wynebu ar greaduriaid Hafod Elwy yna." "O," atebai yntau, "ni raid i ni ddim digaloni; y mae mwy gydâ ni nag sydd yn ein herbyn." Ac felly y profasant. Yn mhen ychydig Suliau daeth "creaduriaid Hafod Elwy," yn enwedig y "*Llwydiaid,*" yn nodedig o hoff o Harri Rhys, fel y galwent ef. Ac yr oedd yn gweithio ei ffordd, yn ddiwrthwynebiad, i barchedigaeth yr holl ysgol. Pan y daeth yr amser i ben ag yr oedd efe a'i gyfaill wedi eu pennodi i wasanaethu yn yr ysgol, ac yr oedd eisiau enwi ereill i gymmeryd eu lle, ni fynai y bobl

er dim newid Harri Rhys. Dywedai un o'r Llwydiaid, yr hwn oedd y mwyaf ymadroddus a deallus, ond ei fod yn floesg-dafod, ac yn swnio yr *r* bob amser yn *dd* :—"Ni wiw iddyn' nhw fedd-wl am newid Harri Rhys. Gyran' nhw y neb a fynon' nhw gydâg o, ond y mae yn rhaid i ni ei gael o beth bynnag." Ac felly fu. Bu raid iddo foddloni i fyned yno am dri mis drachefn, yr hyn a wnaeth yn gyson; ac yr oedd ei wasanaeth yn nodedig o gymmeradwy gan y bobl, ac yn gryn fantais iddo ei hunan; gan ei fod yn dyfod yn fwy-fwy rhydd yn y gwaith, yn parhau i ennill hunan-feddiant, ac yn neillduol yn cael ei osod dan angenrheidrwydd i ymroddi i lafur, yn ystod yr wythnos, gydâ darllen a myfyrio ar y gwahanol faterion a ddygid dan sylw yn yr ysgol, er ei gymhwyso ei hunan i fod yn fwy defnyddiol ynddi.

Byddai yn cael llawer iawn o hyfrydwch yn y lle hwn; ac, yn achlysurol, fe ddygwyddai amgylchiadau lled ddigrifol, a roddent lawer o ddifyrwch iddo ar y pryd, ac y câi gryn fwynhad, wrth eu hadgofio, hyd ddiwedd ei oes. Er enghraifft:—Yr oedd amaethwr yn byw yn y gymmydogaeth hono, gŵr lled hunanol, ac yn dra awyddus am gymmeryd rhan go flaenllaw gydâ'r ysgol yno. Yr oedd y gŵr yn aelod eglwysig, ac yn un hollol ddiargyhoedd ei ymarweddiad; ond yr oedd yn nodedig o anwybodus, ac nid oedd ganddo ddigon o synwyr i guddio ei anwybodaeth; eithr siaradai yn hŷf, ac yn benderfynol, ar ba gwestiwn bynnag a ddeuai i sylw. Yr oedd, oblegyd hyny, yn dra annghymmeradwy yn ngolwg yr hen lanciau, y "*Llwydiaid*," yn enwedig gan y ffraethaf o honynt, yr hwn oedd floesg-dafod. Ryw Sabboth, yn niwedd yr ysgol, yr oedd y gŵr hwnw yn cynghori ac yn annog pawb ag oeddent yno i ddarllen llawer ar y Beibl, "ac yn enwedig," meddai, "darllenwch lawer ar Lyfr y Datguddiad. Y mae Llyfr y Datguddiad," meddai, "yn haws ei ddeall nag un ran arall o'r Gair Sanctaidd. Y mae yn datguddio pethau ac yn esboniad ar bethau sydd yn dywyll ac yn ddyrys yn y rhanau ereill o'r Beibl." Methodd yr hen lanc bloesg-dafod a dal wrth glywed y fath athrawiaeth a hon, a gwaedd-

odd allan,—"Wel dyna hi! Yr oeddwn innau yn meddwl yn wastad mai y llyfr mwyaf anhawdd ei ddeall yn yr holl Feibl ydyw y Datguddiad, ac mai ychydig iawn, os oes rhyw un, sydd yn gwybod nesaf peth i ddim yn ei gylch." "O na," meddai y llall, "yr ydych yn cam-gymmeryd yn fawr. Dyna y llyfr hawddaf ei ddeall o'r cwbl, ac efe sydd yn esbonio pob un arall. Chwi allwch weled hyny ond sylwi ar enw y llyfr, *Dat-guddiad* =tynu y peth oedd guddiedig i'r amlwg." "Dyn a'ch helpio," meddai Llwyd, drachefn, "ni wyddoch chwi ddim byd yn wir. Fe fyddai yn dda gen' i glywed Harri Rhys yma yn eich holi chwi yrwan, Beth sydd i'w ddeall wrth yr 'angylion a'r bwystfilod a'r cyrn,' y mae sôn am danyn' nhw yn Llyfr y Datguddiad?" "Ond angylion a bwystfilod a chyrn, sydd i'w ddeall," meddai y llall, "beth arall allwch chwi ddeall?" "Twt, twt," ebai Llwyd, "ni thâl peth fel yna ddim yn y byd, ai dâl o Harri?" "Ni wn i ddim yn siwr," atebai yntau. "Taw, da thi," meddai Llwyd, "ti a wyddost o'r goreu, pe b'ai ti yn hoffi dweyd." "Gwn, mi a wn hyn," ebai yntau, fod yn Llyfr y Datguddiad lawer iawn o bethau uwchlaw fy neall i." "Ië, dyna hi," meddai Llwyd; "ac os nad wyt ti yn gallu eu deall nhw, mi wna i lŵ, unrhyw ddiwrnod, nad ydyw Shon E—— yma yn deall 'monyn' nhw." Fe ddengys y chwedl hon, y dull syml, cartrefol, a rhydd, yn yr hwn y dygid yr ysgol yn mlaen, a'r meddyliau uchel a goleddid am dano yntau, y pryd hyny, yn y gymmydogaeth hono.

Eithr yr oedd myned i ysgol yr Hendre ac i ysgol Hafod Elwy, un y boreu a'r llall y prydnawn, fel yr oedd yn awr wedi bod yn gwneyd am hanner blwyddyn, yn ormod o lafur iddo: ac felly, pan ddaeth yr ail dymhor i derfyniad, fe ddywedodd yn bendant nas gallai efe feddwl am fyned i'r ddwy yn hwy, ond ei fod yn foddlawn i gymmeryd y naill neu y llall, fel y trefnid gan y cyfeillion. Eithr yr oedd yn rhaid ei gael yn yr Hendre, gan mai hono oedd yr ysgol bwysicaf: ac felly fe roddodd i fynu fyned i Hafod Elwy, gan ei gyfyngu ei hunan yn unig i'r ysgol yn yr Hendre, a myned i Lansannan i'r bregeth ac

i'r cyfarfod gweddi; ond os byddai pregethwr lled boblogaidd yn y daith, elai yn awr yn fynych hefyd i Dan-y-fron i'r bregeth, yn gystal ac i Lansannan. Yr oedd yr awydd am bregethu yn cryfhau yn ddirfawr yn ei feddwl y misoedd hyn, ac yr oedd hyny yn peri ei fod yn dra awyddus am wrandaw pregethau, yn enwedig pan y câi y cyfleusdra i wrandaw y rhai a ystyrid yn bregethwyr uwchlaw y cyffredin. Y pryd hyny, ac am flynyddoedd lawer ar ol hyny, yr oedd pregethu teithiol mewn bri mawr yn y wlad, ac ni byddai odid wythnos yn myned heibio na byddai cyhoeddiad gŵr dieithr o'r Deheudir neu o'r Gogledd, yn y capel yn Llansannan ac yn Nhan-y-fron; ac yn fynych fe fyddai dau neu dri o'r fath gyhoeddiadau yr un wythnos; ac yn aml fe fyddai gan y gŵr dieithr ei gyfaill gydâg ef. Daeth i'n llaw ddau gôf-lyfr o eiddo y diweddar Barch. Peter Roberts, Llansannan, yn y rhai yr ydym yn cael cyhoeddiadau amryw o'r pregethwyr a ddelent i'r cymmydogaethau hyny, yn ystod y blynyddoedd 1814—1822. Nid ydyw yn hawdd, yn ol y llyfrau, penderfynu yn hollol ar y flwyddyn neillduol y cyfeiria ati; ond ni a gymmerwn un tudalen, yr ydym yn tybied yn cyfeirio at y flwyddyn 1821, yn rhoddi y cyhoeddiadau tua Llansannan am un wythnos, fel y gallo y darllenydd gael cipolwg ar y teithio oedd yn y wlad gydâ'r efengyl, y dyddiau hyny:—

"Hydref 13—Tan-y-fron, 10; Llannefydd, 2; Llansannan, 7. Hydref 14—Gwytherin, 9.—Daniel Evans (o Harlech a'r Penrhyn ar ol hyny, y mae yn debygol).

Hydref 14—Tan-y-fron, 2; Llansannan, 6. Hydref 15—Llannefydd, 12.—Richard Bumford a Thomas Jones o Sir Drefaldwyn.

Hydref 18—Llannefydd, 7. 19—Gwytherin. 20—Llansannan, 10; Tan-y-fron, 2.—David Davies a Daniel Evans o'r Deheudir.

Hydref 16—Groes, 2; Llansannan, 7. 17—Llannefydd, 12.—Rhys Jones a Mr. Williams, Lledrod."

Ac nid ydyw hyn ond enghraifft o'r modd yr ydoedd yno, i fesur mawr, fel yn siroedd Cymru yn gyffredin, trwy y blynyddoedd: fel y mae yn amlwg nad oedd prinder cyfleusderau yn Llansannan

i wrandaw yr efengyl: a'u bod yn cael, dybygid, eu gwala o amrywiaeth doniau. Yr oedd tad a mam Henry Rees, a'r teulu oll, yn gosod gwerth mawr ar y manteision hyn, ac ni byddent byth, hyd y byddai yn bosibl, yn colli unrhyw wasanaeth yn y Capel, ar ddydd gwaith mwy na'r Sabboth. Yr oedd efe ei hunan fel pe buasai ei holl fywyd yno; a'r brofedigaeth fwyaf iddo y pryd hyny, oedd yr angenrheidrwydd, a ddygwyddai weithiau a osodid arno i golli y cyfleusdra i wrandaw pregethwr poblogaidd, a fyddai yn dyfod trwy y wlad. Yr oedd hefyd yn awr, gydâ'r bwriad oedd yn ymsefydlu yn ei feddwl am fyned yn bregethwr ei hunan, yn cymmeryd pob pregeth a wrandawai megis gwers iddo ei hunan ar bregethu. Yr oedd yn dal sylw manwl iawn ar ddull a llais ac ysgogiadau, pob pregethwr y golygid fod dim rhagoriaeth ynddo, er ceisio ffurfio rhyw syniad am y dull goreu iddo ef ei hunan amcanu ato. Byddai yn cael ei daro yn gymmaint gan ddull ambell un, fel y byddai yn fynych, pan yn pregethu wrtho ei hunan yn yr ysgubor neu yn y maes neu yn y mynydd, yn ceisio ei ddynwared; weithiau yn y geiriau a arferasid gan y pregethwr ei hunan, y rhai a gedwid ganddo ef yn ei gôf, ac weithiau yn ei eiriau ei hun. Bu dynwared y Parch. William Morris, Cilgeran, Tŷ Ddewi wedi hyny, unwaith yn brofedigaeth fawr iddo. Yr oedd Mr. Morris yn llawer mwy adnabyddus yn Ngogledd Cymru nag yr un arall o enwogion y Deheudir. Byddai efe, am flynyddoedd lawer, yn ymweled yn rheolaidd agos bob blwyddyn â Sir Ddinbych yn gystal ag â siroedd ereill y Gogledd, a phob amser braidd ar adeg y cynhauaf ŷd; a mawr fyddai y dysgwyliad am dano yn wastadol. Rhyw ddygwyddiadau achlysurol, fel ymweliadau y sêr gwibiog, fyddai dyfodiad y Parchedigion Ebenezer Morris, John Evans, *New Inn*, ac Ebenezer a Thomas Richard, i le fel Llansannan; ond yr oedd William Morris agos fel planed reolaidd, yn cadw ei chylchdro yn fanwl. Byddai Mr. Elias, Mr. Richardson, Caernarfon, Mr. Jones, Edern, Mr. Michael Roberts, a Mr. Roberts, Amlwch, yn dyfod weithiau, ar eu mynediad i, neu ar eu dychweliad o ryw Gymdeithasfa, neu gyfarfod arbenig i bregethu, a

byddai tyrfäoedd yn heidio i'w gwrandaw, ac yn enwedig i wrandaw Mr. Elias; ond anfynych, a damweiniol, fyddai eu hymweliadau hwythau. Mr. William Morris oedd y teithiwr rheolaidd, ac yr oedd yn hoff-bregethwr yn Llansannan, fel braidd yn mhob man arall; ac yr oedd y fath swyn yn ei ddawn, y fath briodoldeb yn ei sylwadau, y fath ffraethineb yn ei ymadroddion, y fath fywiogrwydd yn ei ysbryd, y fath angerddoldeb yn ei deimlad, ac yr oedd yn codi yn gyffredin i'r fath hwyl hyfryd yn ei draddodiad, fel ag yr oedd bechgyn ieuainc, o duedd bregethwrol, dan fwy o brofedigaeth i'w ddynwared ef nag odid yr un arall. Mynych yr adroddai y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, am y dylanwad a gawsai arno ef, tua'r amser y dechreuodd bregethu; a'r brofedigaeth fawr yr aeth iddi, ryw brydnawn Sabboth, wrth geisio ei ddynwared. Gydâ ei fod o'r pulpud, dywedodd un hen flaenor, oedd yn gyfaill mawr iddo wrtho,—"Pob aderyn ei lais ei hun, John bach, a phob pregethwr hefyd ei lais a'i ddull ei hun." "Ah! tewch sôn," ebai yntau; "yr ydwyf fi wedi deall cyn i chwi ddywedyd wrthyf; ac yr ydwyf wedi cael mwy na digon am byth ar geisio dynwared neb." "Ac nid amcenais," meddai Mr. Hughes, "ddynwared William Morris na neb arall byth wedi hyny." Bu Henry Rees am dymhor dan yr un dylanwad, ac fe'i dygwyd tano y tro cyntaf iddo ef ei wrandaw. Yr oedd hyny ar y daith gyntaf (oddieithr cyhoeddiad trwy Sir Drefaldwyn, yn 1810), i Mr. Morris trwy y Gogledd, yn y flwyddyn 1813; taith a ymestynodd trwy bob un o'r siroedd, ac a barhäodd o Gymdeithasfa Llanidloes, yn mis Ebrill, hyd Gymdeithasfa y Bala, yn nghanol mis Mehefin. Y pryd hyny, ar y dydd Gwener olaf yn Mai, y clywodd Henry Rees ef gyntaf. Yr oedd yn pregethu y boreu yn Llansannan, oddiar Matt. xiii. 47—50; y prydnawn yn Nhan-y-fron, oddiar Hosea iv. 17; a'r hwyr yn Llannefydd, oddiar Ezeciel xvi. 6. Yr oedd y fath newydd-der yn ei ddawn, ac yr oedd yn pregethu gydâ'r fath fywiogrwydd a theimlad, fel y cafodd ar unwaith, afael hollol arno. Dilynwyd ef ganddo trwy y dydd; ac yr oedd ei sŵn yn ei glustiau am ddyddiau ac wythnosau; ac

ymbleserai mewn ail-adrodd ei bregethau, a dynwared ei ddull a'i lais. A phan yn pregethu wrtho ei hunan, yn y caeau ac ar y mynydd, yr oedd yn ceisio gwneyd fel efe; ac ar adegau y pryd hyny, fe syrthiodd, am beth amser, i'r un dull hyd yn nôd pan yn gweddïo yn y cyfarfodydd gweddïau. Ond fe ddarfu i'w synwyr da, ac i'w wir ddifrifwch crefyddol, yn fuan iawn ddwyn ymwared hollol iddo, oddiwrth yr hyn a allasai fod yn gryn fagl; ac ni feddyliodd am geisio ei ddynwared ef na neb arall byth mwyach. Eithr yr ydoedd, yn y blynyddoedd hyny, ac, yn wir, ar hyd ei oes, yn hynod o awyddus am wrandaw Mr. William Morris. Adrodda ei frawd, y Parch. William Rees, am un tro ag yr oedd Mr. Morris yn dyfod trwy y wlad, ar adeg y cynhauaf ŷd, ac i bregethu yn Llansannan, am ddeg ar y gloch, foreu dydd gwaith. Yr oedd hyny, yn ol Côf-lyfr Mr. Morris, yr hwn y dygwyddodd i ni, trwy garedigrwydd y Parch. George Williams, ei gael i'n llaw, ar ryw ddydd Gwener, yn y flwyddyn 1814. Drwg genym nad oes dim yn y Côf-lyfr i benderfynu y mis. Ond yr oedd rywbryd yn adeg y cynhauaf. Yr oedd Mr. Morris yn pregethu y nos flaenorol,—nos Iau,—yn Llannefydd, ar Rhuf. xvi. 7. Aethai Henry a'i chwaer yno i'w wrandaw, a chawsant gyfarfod tra llewyrchus. Eithr yr oedd yn rhaid iddynt hwy eu dau warchod gartref, boreu drannoeth, tra yr elai y gweddill o'r teulu i'r oedfa i Lansannan; y chwaer gartref i barotoi y ciniaw, ac yntau i droi y gwanafau ŷd ar un o'r maesydd, fel y byddai yn barod i'w rwymo yn ysgubau yn y prydnawn. Gobeithiai ef, y nos o'r blaen, y byddai yn wlaw drannoeth, fel y caffai efe fyned i'r bregeth; ond, er ei fawr siomedigaeth, fe drodd yn ddiwrnod têg a hyfryd iawn. Pan oedd y teulu yn cychwyn tua'r oedfa, ac yntau yn myned at yr ŷd, fe ddywedai,—"Fe fyddai yn dda gan fy nghalon i, pe b'ai hi yn gwlawio ar y Ddygynnull" (enw y maes yr oedd yn myned iddo) "yrŵan, ac heb wlawio ar un lle arall." Ond ni fynai y cwmmwl wlawio ar "faes y cyfiawn, na'r anghyfiawn," yn Llansannan y boreu hwnw. Eithr, er nad oedd na gwlith na gwlaw allan ar y maesydd, yr oedd yr athrawiaeth, yn y Capel, yn

diferu "fel gwlith, fel gwlith-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt." Testyn y pregethwr oedd, Matt. ix. 2: "Ha fab, cymmer gysur; maddeuwyd i ti dy bechodau." Yr oedd yno le gogoneddus, a theimladau hyfryd. Sonid llawer am y bregeth yn y boreu, wrth rwymo yr ŷd yn y prydnawn; a pharai hyny iddo yntau ofidio yn fwy o herwydd na chawsai hi. Wedi noswylio, cymmerodd y traed, ac ymaith âg ef i Gapel y Groes, lle yr oedd Mr. Morris i bregethu y noswaith hono; ac felly mynodd geisio gwneyd ei golled y boreu i fynu. Y testyn y noswaith oedd, Salm cv. 41; ac yr oedd yn teimlo, ac yn dywedyd, ei fod wedi cael tâl da am y llafur a gymmerodd, i gerdded yno ac yn ol. Yr oedd yn dangos yr unrhyw awydd i wrandaw pob pregethwr ag y byddai sôn fod dim rhagoriaeth yn perthyn iddo, er mai ychydig a feddent y fath swyn arno ag oedd gan Mr. William Morris.

Ond heblaw astudio y Beibl, a'r "*Geiriadur*," a'r "*Merthyrdraeth*," a'r ychydig lyfrau ereill ag oeddent yn ei gyrhaedd, yn nghyd â gwneuthur y goreu a allai o'r pregethau a wrandawai, er mwyn diwyllio ei feddwl ac ychwanegu at ei wybodaeth ysgrythyrol a chyffredinol, yr ydoedd, yn y blynyddoedd hyn a dreuliwyd ganddo gartref, yn sylwi yn fanwl iawn ar natur o'i amgylch, ac ar nodweddau neillduol yr amrywiol greaduriaid y byddai yn ymwneyd â hwy; ac yr oedd lliaws mawr o'i gymhariaethau mwyaf dedwydd mewn blynyddoedd diweddarach, weithiau o'r pulpud, ac yn enwedig yn y cyfarfodydd eglwysig ac yn ein Cymdeithasfäoedd, yn cael eu tynu oddiar ei sylw a'i brofiad yn yr adeg hon. Mynych yr adroddai i'w gyfeillion hanesyn am y ci, "*Tango*," enw yr hwn, trwy Gân ei frawd ar "*Adgofion Mebyd ac Ieuenctyd*," sydd yn dra adnabyddus trwy holl Gymru, ac a fydd felly yn ddiammeu am oesoedd. Yr oedd Henry ryw ddiwrnod gydâ'i orchwyl yn Ysgubor y Rhydloew, a'r ci gydâg ef. Yr oedd yn ddiwrnod nodedig o wlawog. Oblegyd fod yr ysgubor yn gorwedd mewn pantle, ar dywydd gwlawog fe redai aber o ddwfr heibio i'w drws, ac fe gronai cryn lawer o ddwfr yno. Yr oedd felly y diwrnod hwnw. Yr oedd

y ci, er ys meityn, yn ymddangos yn dra anesmwyth o eisiau myned i'r tŷ; ond yr oedd y dwfr o flaen y drws ar ei ffordd, ac nid oedd yn caru gwlychu ei draed. Dyna lle yr ydoedd, wrth y drws, yn edrych yn awyddus am fyned allan, ond yn amlwg yn anmharod i fyned trwy y dwfr. Yn mhen rhyw gymmaint o amser, dyna yr hŵch fagu yn dyfod i'r golwg, ac yn dyfod heibio, ac yn sefyll gyferbyn â drws yr ysgubor. Gwelodd *Tango* ei gyfleusdra, a neidiodd yn y fan ar gefn yr hŵch. Dychrynodd hono drwyddi, ac ymaith â hi ei holl egni. Can gynted a'i bod hi trwy y dwfr, neidiodd yntau i lawr, ac i mewn ag ef i'r tŷ yn hollol droedsych. Pan yn adrodd hyn, fe ddywedai,—"Mi a feddyliais laweroedd o weithiau am y ci. Yr oedd yn rhaid fod ynddo nid yn unig fesur o wybodaeth a challineb, ond ei fod yn meddu gallu o ryw fath i ymresymu. Yr oedd fel pe buasai yn meddwl ynddo ei hun, 'Yr wyf wedi blino yma, mi a hoffwn fyned i'r tŷ; nid wyf yn caru myned trwy y dwfr yna ychwaith. Dacw yr hen hŵch yn dyfod, mi a arosaf i edrych a ddaw hi ffordd yma; os daw hi, a dyfod yn ddigon agos ataf, mi a neidiaf ar ei chefn hi; y mae hi yn ddigon cref i'm cario, ac mi a gyrhaeddaf y tŷ felly.'" Ac weithiau, wrth adrodd am yr amgylchiad, fe ychwanegai eiriau Elihu: "'Gwrando hyn, Job; saf, ac ystyria ryfeddodau Duw.' Gynnifer o 'ryfeddodau Duw' y gallem ninau eu gweled a'u mwynhau, ped edrychem yn ystyriol ar ei weithredoedd yn mhob man, ac yn mhob peth o'n hamgylch." "Yn wir," meddai unwaith, "y mae ambell gi yn ymddangos yn fwy meddylgar a chall nag ambell ddyn. Y mae y ci yn gwneuthur cyfiawnder â phob gallu ac â phob greddf a roddwyd iddo gan ei Greawdwr: tra y mae lliaws o ddynion yn gwarthruddo eu rheswm, yn serio eu cydwybodau, ac yn eu darostwng eu hunain yn îs nag anifeiliaid, trwy ymwerthu i'w blysiau cnawdol ac i'w gŵyniau dieflig." Y mae yn ddiamheuol iddo gael defnyddiau llaweroedd o addysgiadau cyffelyb, a fuant o wasanaeth gwerthfawr iddo ar ol hyny, trwy ei sylw ystyriol o "ryfeddodau Duw" yn y blynyddoedd a dreuliwyd ganddo gartref, yn nhŷ, ac, yn neillduol pan yn llafurio ar dir ei dad.

Trwy ddyfalwch fel hyn mewn sylw a myfyrdod, er yr amgylchiadau anffafriol yr oedd ynddynt, a'r anfanteision yr oedd tanynt, yr ydoedd, erbyn ei fod yn ddeunaw mlwydd oed, wedi cyrhaedd gwybodaeth helaeth iawn o gynnwysiad ac ystyr yr ysgrythyrau sanctaidd, ac o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; ac wedi arddangos y fath ddoniau i addysgu ei gyd-ddynion yn ngwirioneddau yr efengyl, a chydâ hyny mor gysegredig i grefydd, ac yn gadael y fath argyhoeddiad yn meddwl yr holl gymmydogaeth ei fod yn ŵr ieuanc gwir dduwiol, fel yr oedd dysgwyliad cyffredinol am iddo ddechreu pregethu; ac yr oedd prophwydoliaethau lawer yn cerdded o'r blaen am dano, y byddai, pa bryd bynnag y dechreuai, yn ddiddadl yn un o brif bregethwyr ei genedl. Ac yr oedd yr awydd am hyny yn parhau ac yn cynnyddu yn ei feddwl ef ei hunan.

# PENNOD III.

*Gadael tŷ ei dad a myned i gymmydogaeth y Bettws, Abergele:*
1816--1819.

AMGYLCHIADAU CYFYNG Y DEYRNAS AR DERFYNIAD RHYFEL FFRAINC—Y CYFYNGDER YN CYRHAEDD LLANSANNAN—HENRY REES, FEL Y MAB HYNAF I'W DAD, YN PENDERFYNU TROI ALLAN I'R BYD—Y PARCHEDIG THOMAS JONES, DINBYCH, YN SYMMUD I SYRIOR—HENRY YN CLYWED AM EI FWRIAD, AC YN MYNED I DDINBYCH I GEISIO SICRHAU LLE GYDAG EF IDDO EI HUNAN—YN LLWYDDO YN EI AMCAN—LLE HOLLOL GYSURUS—TEITHIO LLAWER DROS MR. JONES—EI BROFEDIGAETHAU WRTH DEITHIO — YMOSODIADAU ANNGHAREDIG GAN RAI AR MR. JONES OBLEGYD EI SYNIADAU DUWINYDDOL—TEIMLO DROS EI FEISTR —CHWEDL FOD YSBRYD YN BLINO YN SYRIOR—Y TEULU YN CAEL EU TAFLU I DDYCHRYN—YN CYSURO MRS. JONES—MANTEISION RHAGOROL IDDO YN SYRIOR O RAN LLYFRAU, A HAMDDEN I'W DARLLEN—EI OFID NA BUASAI YN DEALL SAESONAEG—MR. JONES YN CEISIO EI ARFER I'W SIARAD—AWYDD PREGETHU YN PARHAU—YN PREGETHU CRYN LAWER WRTHO EI HUN—RHYW UN YN CLYWED AC YN ADRODD HYNY I MR. JONES — CYMMERYD RHAN ARBENIG GYDA'R ACHOS YN Y BETTWS—YN YR YSGOL SABBOTHOL—Y CYFARFODYDD YSGOLION—DECHREU CANU—MR. JONES YN GADAEL SIRIOR—YNTAU YN GWELED Y BYDDAI RAID IDDO FYNED HEFYD—Y CYFEILLION YN Y BETTWS YN DAER ARNO AROS—LLE NEWYDD YN RHAGLUNIAETHOL YN YMAGOR IDDO—CAEL DRACHEFN BOB MANTAIS A ALLASAI DDYSGWYL, AC YMDDWYN TUAG ATO BRAIDD FEL MAB YN HYTRACH NA GWAS—DYFOD YN FWY-FWY GWASANAETHGAR I'R ACHOS—AGORIAD CAPEL NEWYDD YN Y BETTWS—MR. ELIAS YN Y CYFARFOD—OEDFA HYNOD—DYSGWYLIADAU CYFFREDINOL YN Y BOBL AM DANO I DROI ALLAN FEL PREGETHWR.

Yr ydoedd yn awr wedi tyfu i fynu yn llanc tal ond teneu, ac yn deg iawn o bryd. Yr oedd rhywbeth, yn enwedig yn ei lygaid, ag oedd yn tynu sylw uniongyrchol ato. Yr ydoedd hefyd, erbyn hyn, yn mhlith ei gydnabod a'i gymmydogion, wedi dyfod yn nodedig o rydd a chyfeillgar, er mor awyddus ag erioed i sicrhau pob munud, ag oedd bosibl iddo, i neillduaeth a myfyrdod. Ond yr oedd *gweithgarwch* crefyddol yn awr, yn elfen mor amlwg yn ei gymeriad â *myfyrdod* crefyddol, ac i'r bobl yn gyffredin yn fwy amlwg. Efe oedd bywyd yr ysgol yn yr Hendre; ac nid oedd un ran o wasanaeth crefydd yn y gymmydogaeth, nad oedd yn cymmeryd y dyddordeb mwyaf ynddi, ac yn arbenig yn y cyfarfodydd gweddïau. Ac yr oedd ei lafur yn cael ei werthfawrogi yn annghyffredin gan yr holl gyfeillion yn Llansannan a'r cylchoedd, yn enwedig yn ysgol yr Hendre. Yr oedd rhai o honynt hwy, yn wir, er eu holl awydd am iddo ddechreu pregethu, a'u hargyhoeddiad o'r cymhwysder oedd ynddo at y gwaith, yn hytrach yn ofni hyny, oblegyd y golled a dybient a barai hyny iddynt hwy; yn gymmaint ag na chaent, wedi hyny, ei wasanaeth ef yno ar y Sabbothau. Eu dymuniad hwy fuasai, iddo fyw a marw gydâ hwynt. Tra yr oeddent hwy, pa fodd bynnag, yn pryderu yn ei gylch, ac yntau beunydd yn cyfodi yn uwch uwch yn eu meddyliau, fe ddygwyddodd amgylchiad a siomodd eu holl ddysgwyliadau, ac a fu yn achlysur tori yn gwbl, ac am byth, ei gysylltiad uniongyrchol â'r ysgol yn yr Hendre, yn gystal ag â'r Achos yn Llansannan, oddieithr, fel y cawn weled eto, pan y daeth i aros am ychydig fisoedd yn nhŷ ei dad, yn mhen rhyw dair blynedd ar ol hyn.

Ar derfyniad rhyfel Ffrainc yn 1815, yn ganlyniad i'r fuddugoliaeth fawr yn Waterloo, a chyhoeddiad heddwch cyffredinol rhwng gwledydd Europe, fe ddaeth cyfnewidiad dirfawr ar amgylchiadau y deyrnas hon. Yn ystod y rhyfel, yr oedd masnach, yn ei holl ganghenau, yn nodedig o lwyddiannus. Yn wir yr oedd masnach y byd, i fesur mawr, dan reolaeth Prydain; yn gymmaint ag mai hi oedd arglwyddes y moroedd yn gyffredinol, ac nad oedd ond ei llongau hi, neu rai yn hwylio ar yr ammodau

a bennodid gan ei llywodraeth hi, a feiddient gludo eiddo gwledydd tramor i braidd un parth o'r byd. Ac nid yn unig hyny, ond oblegyd ei bod hi, yn wahanol hollol i agos bob gwlad ar Gyfandir Europe, yn gwbl rydd oddiwrth ruthriadau milwraidd ei gelynion, hi a ddaeth, yn ystod y rhyfel, yn brif weithfa nwyddau trafnidiol y byd: fel yr oedd ei chyfoeth hi yn cynnyddu, nid yn unig trwy fasnachu yn, a chludo y nwyddau i wledydd ereill, ond hefyd trwy eu cynnyrchu. Eithr, yn arbenig, yr oedd y rhyfel yn peri llwyddiant i'r amaethwyr, a'r tirfeddiannwyr. Yr oedd y gwenith yn fynych yn codi mor uchel a chwe' phunt y chwarter: ac yr oedd prisiau yr haidd a'r ceirch, a chynnyrchion amaethyddol ereill, yn enwedig anifeiliaid, yn gyfatebol. Mae yn wir fod y llwyddiant hwnw, mewn rhan fawr, ar draul y ddyled ddychrynllyd y suddwyd y deyrnas yma iddi ar y pryd, ac sydd eto yn parhau yn faich anferth ac agos annioddefol arni: ond nid oedd y rhai oeddent yn elwa arno yn gofalu nemawr os dim am hyny: ac y mae yn ddiammeu fod miloedd lawer o honynt heb feddwl dim erioed am yr achos o hono, na'r canlyniad a allai fod iddo. Digon iddynt hwy oedd, fod bywyd yn mhob rhan o fasnach; Prydain yn cadw ei hanrhydedd yn mhlith teyrnasoedd y ddaear: llwyddiant cyffredinol ar amgylchiadau y wlad: a'u bod hwy eu hunain, yn enwedig, yn cael eu gwala a'u gweddill. Ond gydâ therfyniad y rhyfel, a sefydliad heddwch, fe newidiwyd hyn oll, a hyny yn fuan iawn. Ni pherthyn i ni yma olrhain achosion y cyfnewidiad hwnw. Fe ddechreuodd gydâ'r masnachwyr a'r llaw-weithwyr, yn y trefi mwyaf poblog, ac yn mharthau gweithfäol y deyrnas; nes yr oedd cri alaethus i'w glywed o bob cyfeiriad,—miloedd lawer yn cael eu taflu allan o waith, ac heb ddim i syrthio arno ond cynnorthwy plwyfol. Aeth y cyfyngder rhagddo yn gyflym, a chydâ nerth mawr, i blith yr amaethwyr. Yr oedd yr ardrethi yn parhau fel yr oeddent yn mlynyddoedd llwyddiant, tra yr oedd prisiau pob math o gynnyrch amaethyddol wedi gostwng mwy na'r hanner. Yr oedd y gwenith yn niwedd 1815, a dechreu 1816, wedi disgyn i ddwy bunt a deuddeg a chwech y

chwarter, a chynnyrchion amaethyddol ereill yn gyfatebol; nes peri, ar unwaith, i ugeiniau a channoedd, cynnifer ag a allent, roddi i fynu eu tiroedd; ac i gannoedd ereill roddi rhybudd o'u bwriad i hyny. Y canlyniad oedd, gwasgfa a chaledi dirfawr, yn enwedig ar y tir-lafurwyr; yn gymmaint a'u bod hwy, erbyn hyn, heb ddim i'w wneyd, na dim o'r eiddynt eu hunain i syrthio arno, nac un lle i fyned iddo ond at y plwyf. Ond yr oedd hyny, mewn rhai manau, yn rhoddi agos yr holl boblogaeth i ddibynu ar ychydig iawn o nifer; nes peryglu tynu yr ychydig hyny i'r un sefyllfa a hwy eu hunain. Mewn un plwyf yn Swydd Dorset, fe ddywedid, yn y Senedd, fod 419 allan o boblogaeth o 575, yn derbyn cymhorth plwyfol. Yn Swanage, plwyf arall yn yr un Swydd, gydâ phoblogaeth o tua dwy fil, yr oedd chwech o bob saith o honynt ar y plwyf; a threth y tlodion wedi codi i un-swllt-ar-hugain y bunt. Yr oedd un plwyf yn Swydd Caergrawnt, heb ond un dyn o'i fewn, nad oedd naill ai yn feth-dalwr ai ar y plwyf. Yr ydoedd, mewn gwirionedd, yn adeg ddifrifol ar ein teyrnas; yn gymmaint felly, fel y dywedai yr Arglwydd Ganghellydd Eldon, er mor wrol-frydig a phenderfynol ydoedd, "Yr ydwyf yn edrych at y gauaf, gydâg ofn a dychryn."

Nis gallai y cyfyngder hwn, oedd mor gyffredinol trwy y deyrnas, lai na chael ei deimlo i ryw fesur yn Rhydloew, a pheri pryder yn enwedig i'r tad, oedd mor dueddol i iselder ysbryd. Canys er fod y tir yn perthyn i'w frawd, eto ei ddal dan ardreth yr oedd efe; ac yn ngwyneb y cyfnewidiad mawr a gymmerasai le yn amgylchiadau yr amseroedd, teimlad y teulu yn unfrydol ydoedd, fod yn gorphwys arnynt oll wneuthur yr hyn a allent, er eu cadw eu hunain yn ddibrofedigaeth. Yr oedd Henry, yn enwedig, yn teimlo felly. Ac yn gymmaint ag mai efe oedd y mab hynaf, a bod ei frodyr, Thomas a William, yn awr wedi dyfod rhagddynt yn fechgyn cryfion, cwbl alluog i gynnorthwyo eu tad gydâ gwaith y tyddyn, yr oedd efe yn barnu mai ei ddyledswydd ef oedd troi allan i'r byd, i ymladd brwydr bywyd drosto ei hunan. Daeth yn gwbl i'r penderfyniad i wneuthur felly,

can gynted ag y gallai gael lle ag y byddai yn debyg o fod yn gysurus ynddo; ac, yn enwedig, lle na chaethiwid arno gydâ golwg ar ei grefydd, o ran y gwasanaeth cyffredin ar y Sabbothau, a'r cyfarfodydd arferol yn ystod yr wythnos. Yr oedd hyny yn llawer iawn mwy pwysig, yn ei feddwl ef, na chaledi y gwaith a ddysgwylid oddiwrtho, ac na'r cyflog a roddid iddo. Tra yr ydoedd yn meddwl am hyn, fe'i hysbyswyd gan ryw un, fod yn mwriad y diweddar Barch. Thomas Jones, symmud i fyw, er mwyn ei iechyd, o Ddinbych i Syrior, yn agos i'r Bettws, gerllaw Abergele; ac, yn sicr, y byddai arno eisiau gwas yno i ofalu am ei geffyl, a rhyw orchwylion ereill, yn y maesydd ac o gylch y tŷ. Fe feddyliodd Henry, yn y fan, mai dyna y lle iddo ef, os gallai ei gael. Yr oedd ei dad yn gyfeillgar iawn â Mr. Jones; ac yr oedd yntau yn ei adwaen yn dda, a Mr. Jones yn ei adwaen yntau. Wedi ymgynghori â'i rieni, a chael eu caniatâd hwy, fe benderfynodd fyned i Ddinbych i weled Mr. Jones, ac os gallai i sicrhau y lle. Yr oedd yn myned gydâ llawer iawn o bryder, a'i enaid, yr holl ffordd, yn ymbil gydâ Duw mewn gweddi, ar iddo gael bod o dan ei arweiniad ef. Wedi cyrhaedd Dinbych, a chael gweled Mr. a Mrs. Jones, a gosod yr achos ger eu bron, gan ddodi pwys neillduol ar y fantais grefyddol a ddysgwyliai yn y lle, ac iddynt hwythau ddeall fod ei rieni yn hollol foddlawn iddo gymmeryd y lle, fe'i cyflogwyd ef ganddynt, i fyned atynt i Syrior ddechreu Mai, pan y byddent hwy yn symmud yno. Yr oedd hyn, ryw bryd, tua diwedd Mawrth, a phan oedd eira mawr dros y ddaear;—yr hin yn debycach i fis Ionawr, nag yn agos i Ebrill. Daeth y peth yn adnabyddus yn fuan yn Llansannan; ac nid ychydig y tristwch a barodd y newydd i'r holl frawdoliaeth yno, yn enwedig i'r rhai oeddent yn perthyn i ysgol yr Hendre. "Ni wn i ddim, yn ddigon siwr, be' wnawn ni wedi colli Harri," meddai John Roberts yr Hendre, y gŵr y cynnelid yr ysgol yn ei dŷ. Ac yr oedd yr holl gymmydogaeth yn teimlo wrth feddwl ei golli o'r Cyfarfodydd Gweddiau, yn gystal ag o'r Cyfarfodydd crefyddol ereill. Y siarad cyffredin, yn mysg y dosbarth mwyaf anwy-

bodus o'r cymmydogion, oedd, mai myned at Mr. Jones i ddysgu pregethu yr ydoedd. A chan nad oedd Mr. Jones yn rhyw bregethwr mawr yn eu cyfrif hwy, yr oeddent yn synu ei fod yn myned ato ef, ac na buasai yn myned ar unwaith at John Elias, i ddysgu bod yn bregethwr iawn. "Fe wnaethai Harri," meddent, "well pregethwr na Mr. Jones o hono ei hun; ac y mae yn drueni ei fod yn myned ato i gael ei ddifetha." Dyna y syniad oedd ganddynt hwy, druain, am bregethu a phregethwyr. Ond yr oedd eu siarad, er mor ynfyd, yn dangos y lle uchel iawn oedd iddo ef yn eu meddyliau, a'r dysgwyliadau uchel a goleddid ganddynt o berthynas iddo.

Fe ddaeth y diwrnod, o'r diwedd, ag oedd yn ddechreu cyfnod newydd a phwysig ar ei fywyd ef. Ar y dydd cyntaf o fis Mai, 1816, dyna efe yn troi allan o dŷ ei dad, i ddechreu rhodio ffordd na thramwyasai mo honi erioed o'r blaen, ac yn wynebu megis ar fŷd newydd. Chwith, y mae yn ddiammeu, i'w deimlad, oedd gadael hen ysgubor a maesydd a choedydd Rhydloew, a llechweddau Bronllewelyn a Hiraethog, lleoedd y treuliasai gymmaint o amser wrtho ei hunan ynddynt, yn myfyrio ac yn gweddio ac yn pregethu; heb sôn am ymadael â'i dad a'i fam, a'r teulu yr oedd mor hoff o honynt, a'r cyfeillion crefyddol yr ydoedd er yn blentyn mor gynnefin â hwynt, ac yr oedd yntau mor ddwfn yn eu serchiadau. Am yr ymadawiad hwn fe ysgrifenai ei frawd, y Parch. William Rees yn niwedd y flwyddyn 1869, fel y canlyn:—"Y mae tair blynedd-ar-ddeg a deugain, er y cyntaf o Fai diweddaf yn agendor rhwng y dydd yr ymadawodd efe o dŷ ei dad, a'r amser yr ysgrifenir y llinellau hyn, ond nid ymddengys ond megis doe i'r meddwl. Yr oedd brawd iddo, bachgenyn o dair i bedair-ar-ddeg oed, a Tango y ci, yn *cychwyn* i roi tro am y defaid ar fynydd Hiraethog, pan oedd yntau yn cychwyn i'w le newydd. Ac y mae y brawd hwnw yn cofio yn dda y llanerch hono ar Hiraethog, lle y safai y ci ac yntau, pan y torai i wylo wrth feddwl fod Harri wedi gadael ei gartref, hwyrach am byth. A phe dygwyddai iddo gael adeg i ymweled â'r llanerch hono ryw dro, braidd y gallai ymattal rhag eneinnio

â dagrau'r henwr, y fan a eneinniodd â'i ddagrau bachgenaidd, wrth ail fwynhau y munudau hyn, mewn adgofion am danynt."

Ei eiriau ef ei hunan, wrth adrodd am ei ymadawiad â'i gartref ydynt:—"Beth bynag, daeth yr amser i'm diosg o'r cysylltiadau hyn. Pan tua deunaw oed, aethum at y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, i'r Syrior, gerllaw Abergele, a chenais yn iach â Llansannan, ac â hen gyfeillion fy mebyd. Yr oedd hwn yn gyfnewidiad mawr i mi, gan na fûm erioed cyn hyny hwnt i derfynau tyddyn fy nhad." Yr oedd yn "gyfnewidiad mawr" yn sicr, canys, er nad oedd yn myned yn mhell oddicartref, yr oedd yn myned i gymmydogaeth hollol ddieithr iddo ef, a lle nad oedd neb a adwaenid ganddo, oddieithr yr ychydig gydnabyddiaeth oedd rhyngddo a Mr. Jones; ac heblaw hyny yr oedd yn gwybod y byddai rhai o'r gorchwylion a ddisgynent arno i'w cyflawni yn newydd a dieithr hollol iddo, fel nad oedd bosibl iddo beidio bod heb ryw fesur o bryder. Ond yr oedd yn ceisio ymddiried yn dawel yn yr Arglwydd, ac yn benderfynol yr ymdrechai, pa beth bynnag a ddygwyddai, i beidio a cholli dim yn ei grefydd. Yr oedd ei ymadawiad yn gryn brofedigaeth i'w dad a'i fam, oblegyd ei golli o'u golwg; ond yr oeddent yn hollol hyderus nad oedd raid iddynt anesmwytho dim yn ei gylch ef gydâ golwg ar ei grefydd, gan eu bod yn credu fod yr Arglwydd gydâg ef: er nad oedd y naill na'r llall heb beth petrusder rhag iddo, pan yn ymollwng i'w fyfyrdodau, i'r hyn yr oedd wedi arfer bod mor dueddol, adael rhyw bethau pwysig heb eu gwneuthur, neu wneuthur rhywbeth arall, mewn cam-gymmeriad, ag a allai fod yn achlysur profedigaeth iddo ei hunan ac i Mr. Jones hefyd. Eithr yr oedd efe ei hunan yn gwbl benderfynol i ymdrechu am ymgadw yn hollol rhag pob peth o'r fath, ac yn dra gobeithiol na ddygwyddai dim felly.

Yr oedd y lle a gafodd yn Syrior yn un nodedig o gysurus. Buasai braidd yn annhosibl meddwl am le yn fwy felly iddo ef. Nid oedd Mr Jones yn trin ond ychydig o'r tir, dim ond oedd yn angenrheidiol at gadw ceffyl a dwy neu dair o wartheg;

ac yr oedd yno ddyn arall, yn gyffredin, yn cael ei gadw at wneyd y gwaith garwaf. Yn wir, yr oedd llawer o'r gorchwyl a ddisgynai arno ef yn gyfryw, ag a fuasai yn cael ei gyfrif gan laweroedd, yn ei oedran ef, yn fwy o ddifyrwch nag o ddim arall, ac fe fuasai felly, o bosibl, ganddo yntau hefyd, pe buasai ganddo fwy o lywodraeth ar yr anifail a farchogai. Yr oedd Mr. Jones cyn hyn, ac er ys amryw flynyddoedd, wedi dwyn amryw lyfrau allan o'r Wasg, y rhai a gyhoeddasid ganddo yn gwbl ar ei draul ei hun. Heblaw y rhai a ysgrifenasid ganddo yn y Ddadl rhyngddo â'r Parch. Owen Davies, y rhai oeddent yn parhau i gael eu lledaenu yn y wlad, yr oedd yn ddiweddar wedi dwyn allan y "*Merthyrdraeth*," yn llyfr mawr pedwar plyg, mewn tua phymtheg-ar-hugain o Ranau, swllt yr un. Ar ol hynny fe ddygasai allan *Gofiant* i'r Parch. Thomas Charles o'r Bala. Ac yr oedd yn awr newydd ddwyn allan ei argraffiad cyntaf o'i "*Ymddyddanion ar Brynedigaeth.*" Yr oedd cannoedd lawer o bunnoedd o'i eiddo yn gorwedd, yma a thraw ar lêd y wlad, yn nwylaw llyfrwerthwyr ac ereill, yn ddyledus iddo am y llyfrau hynny; ac yr oedd nifer mawr o honynt, yn enwedig o'r "*Merthyrdraeth*," yn aros ar ei law ei hunan heb eu gwerthu: ac un o'r gorchwylion penaf, y pwysicaf yn ddiammeu mewn ystyr arianol, oedd yn disgyn ar Henry Rees, oedd myned ar deithiau dros ei feistr, i gasglu yr arian dyledus iddo oddiwrth y llyfrwerthwyr am y llyfrau hynny; yn gystal ag i gael ganddynt addaw cymmeryd rhyw nifer drachefn. Ei eiriau ef ei hunan ydynt:—"Yr oeddwn bellach yn drafaeliwr go fawr, ar negeseuon fy meistr, a chenyf weithiau gryn lawer o arian dan fy ngofal—am ddiogelwch pa rai y teimlwn yn bur bryderus. Ac i ychwanegu at fy mhrofedigaethau, byddai y ceffyl a farchogwn beunydd yn syrthio danaf. Cefais godymau dychrynllyd oddiar ei gefn; ond, o drugaredd yr Arglwydd, ni chefais ddim niwed o gwbl. '*It takes a great deal to kill us*,' meddai Mr. Moffat. Ac yn wir, y mae yn ymddangos felly weithiau, er mor ansicred ydyw einioes."

Nid ydym yn ammeu dim nad efe ei hunan oedd yn gyfrifol

am y cwympiadau hynny o eiddo y ceffyl, a'r peryglon ag yr oedd yntau yn agored iddynt o'r herwydd. Y mae yn sicr mai syrthio y byddai efe, tra yn marchogaeth, i'r peth a alwai, mewn blynyddoedd diweddarach, yn "ddydd-freuddwydio," ac felly myned yn ddiofal am ben yr anifail, fel yr oedd hwnw yntau yn myned yn ddiofal, ac felly yn naturiol yn cwympo. Ceffyl glâs, mawr a chryf iawn, oedd y ceffyl y marchogai arno; a dyn mawr, corffol, tew a thrwm iawn, oedd Mr. Jones, ei berchenog. A dyna y ceffyl a farchogid bob amser gan Mr. Jones ei hunan. A'r hyn sydd hynod yw, nad oes sôn am iddo erioed syrthio tano ef. Dichon fod a wnelai ei bwysau trwm ef, mewn cymhariaeth â'r eiddo y llanc teneu ac ysgafn, rywbeth a sadio ei gerddediad tano; ond y mae yn ddiammeu mai yr achos penaf ydoedd, fod Mr. Jones yn dra gofalus am ei ben, ac yntau yn rhy ysgyfala.

Byddai yn fynych yn dra phrofedigaethus gan ofn cyfarfod âg yspeilwyr. Yr oedd llawer iawn mwy o sôn y pryd hyny am "ladron pen-ffordd" nag sydd yn awr. Yn wir, nid oedd odid ran o'n gwlad ag yr oedd yn ddiogel ei theithio, wedi iddi dywyllu; ac yr oedd llaweroedd o leoedd lled annghysbell a didai, ag oeddent yn mhell o fod yn ddiberygl gefn dydd goleu. A byddai efe yn aml ar ei deithiau yn gorfod myned trwy leoedd felly. Adroddai ei frawd William am dano, ar ryw ymweliad o'i eiddo, yn ystod y tymhor hwn, â'i deulu yn Rhydloew, ei fod yn dywedyd wrthynt am yr ofn mawr a ddaethai arno, ychydig cyn hyny, pan yn teithio felly. Yr oedd yn marchogaeth adref o'r Wyddgrug, a chryn swm o arian ei feistr gydâg ef. Goddiweddodd y nos ef cyn iddo gyrhaedd Nannerch, ac fe syrthiodd rhyw arswyd dirfawr arno rhag cyfarfod â lladron. "Ond rywfodd," meddai, "fe ymadawodd fy ofnau ar unwaith, a theimlwn fy hunan gan gryfed a Samson. Ac ar y funyd hono, braidd na ddymunaswn i ryw yspeiliwr ymosod arnaf, fel y cawswn gyfleustra i wneuthur prawf o'm nerth arno." "Da iawn," ebai ei dad, "na ddaeth yr un: pe na buasai ond câth yn dyfod i'th gyfarfod, yr wyf yn ofni y pallasai dy nerth a'th wroldeb yn y fan." "Na," meddai yntau, "yr wyf yn ddigon

sicr y buaswn yn trechu Goliath ei hunan, yn yr ymdeimlad o'r nerth a brofwn y pryd hwnw; a meddiennais yr un teimlad ar hŷd yr holl ffordd, hyd nes y cyrhaeddais Syrior." Ac yr oedd ei frawd yn credu y buasai, yn y teimlad hwnw, yn gwneuthur gwrolwaith ar ei ymosodydd, pa fodd bynnag y buasai arno gydâ Goliath.

Ond er nad ymosodwyd arno pan ar y negeseuon hyny gan yspeilwyr pen ffordd, fe ymosodwyd arno fwy nag unwaith, oblegyd ei gysylltiad â Mr. Jones, a hyny gan rai ag y gallasai ddysgwyl rhywbeth amgen oddiwrthynt. Yr oedd yr adeg honno yn adeg frwd iawn ar y Dadleuon Duwinyddol yn ein gwlad, ac yr oedd Mr. Jones, fel y mae yn hysbys, yn cymmeryd y rhan fwyaf blaenllaw ynddynt. Yr ydoedd y pryd hwnw, ac er ys rhai blynyddoedd, yn arbenig yn dadleu yn erbyn y golygiad Uchel-Galvinaidd, masnachol, ar Brynedigaeth, ac yn neillduol yn erbyn y syniad am "iawn cyd-bwys;" ac yr oedd wedi tynu arno ei hunan trwy hyny ŵg mawr nid yn unig y rhai yn mhlith Enwadau ereill a ddadleuent dros y golygiad, ond, yn enwedig, y rhai yn y Cyfundeb y perthynai ei hunan iddo a'i cofleidient. Un o'r rhai hyny, ac un o'r rhai chwerwaf yn erbyn Mr. Jones, oedd y Parch. Robert Ellis o'r Wyddgrug; gŵr da, ond cyfyng iawn ei feddwl, ac yn hytrach yn bigog ei ysbryd a brathog ei eiriau. Mwy nag unwaith y clywsom Mr. Rees yn dywedyd mai un o'r pethau mwyaf poenus iddo ef, yn ei holl fywyd, oedd ymosodiad a wnaeth y gŵr hwnw ar Mr. Jones, ac arno yntau mewn rhan yn ei gysylltiad âg ef, yn ei dŷ ei hunan yn y Wyddgrug. Yr oedd efe wedi galw yno ar ryw neges dros Mr. Jones, a chydâ ei fod i mewn, ebai Mr. Ellis wrtho,—"Pa wenwyn y mae dy feistr yn ei gymmysgu i'r wlad yrwan?" Yr oedd y cwestiwn yn ei daro ef yn un mor anngharedig ac annghristionogol, ac yn neillduol yn un mor anmhrïodol oddiwrth hen weinidog i lencyn ieuanc, am un o'r gweinidogion mwyaf parchus yn yr un Cyfundeb âg ef ei hunan, fel nas gwyddai yn iawn pa ateb i'w roddi iddo. Fe anturiodd, pa fodd bynnag, ddywedyd, "Nid ydyw fy meistr i ddim yn arfer, yr

wyf yn gobeithio, cymmysgu gwenwyn, nac yn arfer delio a neb sydd yn gwneyd." "Cymmysgu, ydyw," ebai yntau, "ac yr wyt tithau yn ei gymhell o ar y wlad;" gan gyfeirio at yr "*Ymddyddanion ar Brynedigaeth.*" "Wel," meddwn innau, "os gwenwyn ydy' o, gwenwyn ag y mae Sassiwn Rhuthin wedi gymmeradwyo ydyw, ac nid ydwyf fi ddim yn meddwl ei fod o yn wenwyn i ddim ond i gyfeiliornad." "Ah, mi a welaf ei fod o wedi dy wenwyno di." "Beth bynnag," meddai Mr. Rees wrthym, "am olygiadau Mr. Jones, ac yr wyf fi yn credu eu bod yn gywir,—yr wyf yn sier fod ei ysbryd yn well nag ysbryd Mr. Ellis." "Rhyfedd," fe ychwanegai, "yr eithafion annymunol yr â dynion da iddynt, pan yn gŵyro oddiwrth ysbryd yr efengyl." Y mae efe yn ei adgofion am y tymhor hwn o'i fywyd, yn crybwyll am un dygwyddiad a barodd gryn fraw i'r teulu yn Syrior. Gadawn iddo ef ei hunan adrodd yr hanes:—

"Byddai sôn y pryd hwnw fod ysbryd, ar amserau, yn aflonyddu Syrior. Pan oeddem yn dyfod adref o'r bregeth un nos Sabboth, cawsom y forwyn, oedd wedi ei gadael i warchod y tŷ, yn sefyll allan yn ddychrynedig. Yr oedd yr ellyll wedi dyfod i mewn, a gwneyd trwst enbyd yn y seler. Yr oeddem oll, erbyn hyn, wedi ein taro â syndra. Yr oedd Mrs. Jones yn frawychus iawn, ond Mr. Jones dipyn yn fwy oer ac amheus yn nghylch y mater. Ac eto nid ymddangosai yntau fel un yn annghredu yn mhosiblrwydd y peth: oblegyd 'ar ddyledswydd,' y noswaith hono, gofynai yn ddifrifol am i ni gael ein cadw '*rhag pob drwg, o uffern ac o'r ddaear.*' Pa fodd bynnag, yn mhen ychydig ddyddiau caed allan, os oedd ysbryd o gwbl wedi aflonyddu arnom, mai yspryd Mr. Jones ei hun, yr hwn a daflasai gynt i'r hen 'Ferthyrdraeth," wrth ei ysgrifenu, ydoedd efe; oblegyd cruglwyth mawr o'r llyfr hwnw oedd wedi syrthio, ac wedi peri y cynhwrf i gyd.

"Fel bechgyn Cymru yn gyffredin, ysywaeth, teimlwn innau yn fy ieuenctyd ormod o ryw ffôl awydd am fod yn brydydd. Collais aml i awr yn y ffordd hono. Mae yn gofus genyf, ar yr achlysur a grybwyllwyd, i'm teimladau barddonol ddeffroi ynof,

a thorais allan i ganu yn bur hyderus, i gysuro fy hen feistres oedd wedi ei chythryblu mor fawr gan yr ysbryd y nos o'r blaen. A chan fod yn iawn i blant gael tipyn o ddifyrwch cystal ag addysg, a bod yr hen yntau, fel yr wyf yn profi heddyw, yn teimlo rhyw fath o ddyddordeb hyd yn nôd yn ei ffolineb a'i blentynrwydd, wrth edrych yn ol arnynt dros ben hanner can' mlynedd, rhoddaf bennill neu ddau o'r rhimynau a wnaethum y pryd hwnw, i chwi, i'w dangos, os mynwch, i blant eich TRYSORFA. Mae yn dda genyf allu dywedyd nad wyf yn cofio i mi gamdreulio ond ychydig o amser yn y ffordd hono byth wedi'n :—

'Fy meistres dyner, na ddychrynwch,
Ac er ei gynhwrf byth nac ofnwch ;
Nid chwi aiwodd yma am dano,
Am hyny pa'm yr ofnwch rhagddo ?
Mae'i holl lywodraeth wedi d rysu,
A thyna pa'm mae'n aflonyddu ;
Ac yma mae mewn mawr iselder,
'Does ganddo, sylwch, ond y seler.'

"Digon tebyg yr edrychwn ar hwn fel cyfansoddiad rhagorol yr amser hwnw, ond y mae wedi gwaethygu cryn lawer erbyn hyn. Ac felly yr wyf fi yn gweled y cwbl. Os meddyliaf am ambell un o bregethau fy ieuenctyd, a chofio y zêl gydâ pha un y traddodwn hi, byddaf yn barod i synu, a gofyn, beth a allasai fod yno i gynnyrchu y fath deimladau? Byddai yn anmhosibl ei thraddodi yn yr un ysbryd yn bresennol. Fel hen ŵr y gofynwyd iddo pa'm na fuasai yn dywe'yd 'Amen' pan oedd ei frawd yn gweddio, a atebai, 'Wel, welwch chwi, nid oeddwn i yn gweled yno ddim byd yn galw am dano fo.'"

Ar hyn fe sylwa ei frawd :—"Na, nid llawer o amser a 'gamdreuliodd,' fel y dywed efe, yn nghymdeithas yr awen, ond byddai ei bŷs hi yn ei oglais yntau weithiau, hyd yn nôd yn ei hen ddyddiau. Pe cymerasai i'w feddwl droi rhai o'r syniadau goruchel ac efengylaidd a glywid yn ei bregethau yn emynau mawl, gadawsai yn ddiau ar ei ol bennillion a fuasent yn aros i gartrefu byth yn nghalonau ac ar dafodau ein cynnulleidfaoedd Cymreig. Yr oedd yn beth hynod hefyd mai yr ysbryd drwg a ddigwyddodd fod yn destyn i rai o'r pennillion cyntaf a

gyfansoddodd, pennillion o duchan iddo ef oeddynt. Ac eto nid rhyfedd; canys ni fuasai dim da rhwng y ddau a'u gilydd erioed. Ond mi dybiwn nad oedd yr ysbryd drwg yn prisio dim llawer am ei bennillion, ond cafodd ei deyrnas deimlo, wedi hyny oddiwrth ei bregethau."

Yn ystod ei arosiad gydâ Mr. Jones, yr oedd yr awydd am bregethu yn parhau, ac yn cryfhau beunydd yn ei feddwl; ac yr oedd yn ceisio gwneuthur y defnydd goreu o bob hamdden a gaffai, er ei gymhwyso ei hunan at hyny, gan edrych yn awr arno fel gorchwyl mawr ei oes. Ac yn ffodus iddo, yr ydoedd mewn lle nodedig o fanteisiol i hyny. Yr oedd yn nghanol digonedd o lyfrau, gydâ chyflawn groesaw iddo i'w defnyddio fel pe buasent yn eiddo iddo ei hun; ac yr oedd ganddo hefyd gryn lawer o amser at hyny. Yr oedd Mr. Jones yn rhoddi pob cefnogaeth iddo i ddarllen, ac weithiau yn ei gyfeirio at ryw lyfrau neillduol. Teimlai yntau yn dra gofidus oblegyd ei fod yn analluog i ddefnyddio y cannoedd cyfrolau, yn y Saesonaeg ac mewn ieithoedd ereill, ag oeddent yn awr yn ei gyrhaedd: ac wrth ganfod enwau Dr. Owen a Dr. Goodwin, a Charnock a Flavel a Matthew Henry, a llawer ereill ag y clywsai am danynt, fel awdwyr y llyfrau oeddent o flaen ei lygaid, ac yntau heb fedru eu defnyddio, yr oedd yn cywilyddio ynddo ei hunan, ac yn methu maddeu iddo ei hunan, oblegyd y llawenydd a deimlai pan yn fachgen, ei fod yn cael ei dynu o'r ysgol Saesonaeg, yn Llansannan, i weithio ar dyddyn ei dad; ac yn penderfynu yr ymdrechai, yn mhob modd ag y gallai, tuag at wneuthur ei golled i fynu. Eithr yr oedd yno amryw lyfrau da, yn y Gymraeg, nad oedd efe wedi eu gweled erioed o'r blaen, a rhai na welwyd ganddo byth wedi hyny; o'r rhai y gwnaeth y defnydd goreu a allai, tra yr oeddent yn ei gyrhaedd.

Tra yr ydoedd yn Syrior y dechreuodd hefyd gyntaf ysgrifenu ei fyfyrdodau ar y testynau neillduol a ddelent i'w feddwl, gan geisio cyfansoddi pregethau ffurfiol a chyflawn, ac mor fanwl ag y gallai arnynt. Byddai yn eu llunio wrtho ei hunan, pan gydâ'i wahanol orchwylion, yn yr ystabl, neu yn y beudy, neu pa le

bynnag arall y dygwyddai fod pan y disgynai yr ysbryd arno; ac yn eu pregethu allan, ac weithiau gydà hwyl fawr, a hyny heb gymeryd gofal digonol bob amser, pa un a fyddai rhyw rai yn ei glywed ai peidio. Syrthiodd unwaith i gryn brofedigaeth oblegyd diofalwch felly, am yr hyn y mae genym yr adroddiad canlynol o'i eiddo ef ei hunan:—"Yn y misoedd hyn yr oedd fy awydd am bregethu yn cryfhau o hyd. Mae yn gofus genyf un diwrnod, pan oeddwn wrthyf fy hun yn y beudŷ, ac yn myfyrio ar ryw bwnc, ddarfod i mi syrthio yn ddifeddwl i adrodd fy syniadau allan, a hyny gydâ gradd o egni, dybygid. Ond yn anffodus i mi, yr oedd rhyw un yn fy nghlywed, ac aeth y gair yn ebrwydd i glustiau Mr. Jones fy mod yn pregethu i'r gwartheg. Pan aethum i'r tŷ, daeth yntau yn y man o'r parlwr i'r gegin; a chan rodio yn ôl a blaen yn ol ei arfer, gofynai i mi toc, mewn dull lled dawedog, rhwng difri a chwareu, 'Pa fath oedfa oeddwn wedi gael yn y beudŷ? A oeddwn wedi pregethu yn o dda?' Crebychai fy holl natur dan y cwestiynau. Gwridais, ac ni ddywedais ddim. 'Wel, wel,' ebe yntau yn y man, mewn tôn nid anfwynaidd, 'mae y meddwl a'r dychymyg yn gweithio yn o gryf weithiau, onid ydynt, Harri?'"

Ni a allem ychwanegu cryn lawer yn nghylch y "*rhywun*," yn y dyfyniad blaenorol; eithr gan ei fod ef ei hunan wedi bod mor ddistaw, dichon mai gwell i ni ymattal. Yn unig ni a allwn ddywedyd, mai y "*rhywun*" hono, oedd yr unig elfen dim annghysur iddo ef, yr holl amser y bu yn Syrior.

Tra fel hyn yn ymbarotoi ei oreu ar gyfer y gwaith mawr oedd yn ei olwg yn y dyfodol, yr oedd yn ymroddi â'i holl egni i lafurio gydâg amrywiol ranau yr achos crefyddol yn y Bettws; ac yr oedd ei wasanaeth, yn mhob cylch, yn cael ei werthfawrogi yn annghyffredin gan yr holl frawdoliaeth, a chan y gynnulleidfa. Yn fuan iawn wedi ei symmudiad yno, fe'i dewiswyd yn arweinydd y canu: ac fe gyflawnodd y swydd hono gydâ ffyddlondeb mawr, a mesur helaeth o deimlad, tra yr arhosodd yn y gymmydogaeth. Efe hefyd oedd bywyd y cyfarfodydd gweddiau: ac, yn y cyffredin, fe fyddai rhyw eneinniad hyfryd ar ei ysbryd

ef ei hunan, ac ar y gynnulleidfa, pan y byddai yn enau drosti gerbron gorseddfainc y gras. Ac os byddai ar y pregethwr angen brawd i ddechreu y cyfarfod, arno ef, gan amlaf, y disgynai hyny. Yn y cyfarfodydd eglwysig drachefn, yr oedd yn barod bob amser i gymmeryd ei ran tuag at eu gwneuthur mor adeiladol ag y gallai i'r holl aelodau, ac, os na byddai Mr. Jones yn bresennol, fe fyddai y Blaenoriaid yn arbenig â'u dysgwyliad wrtho. Eithr gydâ'r Ysgol Sabbothol yr oedd yn llafurio yn benaf. Ystyrid ef, gan ei ddosbarth ei hunan, yn athraw digymar; ac fe ddaeth yr holwyddori, yn niwedd yr ysgol, yn rhywbeth hollol newydd dan ei ddwylaw ef. Yr oedd ganddo ddawn neillduol i lunio ei gwestiynau, yn y fath fodd ag i gynnyrchu meddylgarwch yn yr holl ysgol; ac yr oedd y meddylgarwch hwnw yn cynnyrchu llafur cyffredinol, yn ystod yr wythnos, tuag at fod yn barod i'w gyfarfod ef y Sabboth canlynol. Fe'i dewiswyd hefyd, yn mhen amser, yn un o gynnrychiolwyr yr ysgol yn y Cyfarfod Chwech-wythnosol perthynol i'r Dosbarth: yn cynnwys, y pryd hwnw, heblaw y Bettws, ysgolion Abergele, Brynllwyni, Cefn, Dyserth, Llanelwy, Rhuddlan, a'r Towyn. Fe ddilynodd y cyfarfodydd hyny yn ffyddlawn, hyd nes y dechreuodd bregethu, gan gymmeryd rhan arbenig yn fynych yn yr ymdriniaeth ar yr amrywiol byneiau a ddygid i sylw yn Nghyfarfod Neillduol yr Athrawon; fel, y daeth yn adnabyddus yn lled fuan, yn mhlith y rhai a gymmerent y flaenoriaeth gydâ gwaith yr ysgol yn y rhan hono o'r wlad, megis gŵr ieuanc o allu pell iawn uwchlaw y cyffredin. Fe fyddai yn fynych iawn hefyd yn cael ei anfon gan Mr. Jones i arwain y pregethwr teithiol dieithr, a ddygwyddai fod yn y Bettws, i'r lle nesaf yr ydoedd i fod ynddo; ac ar achlysuron felly fe fyddai, yn y cyffredin, yn cael ei alw i ddechreu yr oedfa; ac fe wnai hyny bob amser gydâ'r fath ddeheurwydd a phriodoldeb a theimlad, fel ag i adael argraff ddofn ar feddyliau pawb a fyddent yn bresennol o'i fod wedi ei fwriadu i ryw wasanaeth arbenig gydâg achos crefydd. Yn wir y mae yn ymddangos fod ei ddoniau gweddi, i ba le bynnag yr elai, yn tynu sylw neillduol.

Y mae amryw hanesion wedi eu hadrodd i ni yn cadarnhau hyny. Cymmerer yr un a ganlyn, a anfonwyd i ni o Wytherin, fel engraifft. Fe symmudodd ei rieni yn Mai, 1817, o Rydloew, i le a elwir Tyddyn Dafydd, yn mhlwyf Gwytherin. Ni buant yno ond yn unig am flwyddyn, eithr symmudasant drachefn yn Mai, 1818, i'r Cae Du, yn mhlwyf Llansannan, lle sydd am yr afon a Chwibren Isaf, eu hen gartref. Rywbryd, yn ystod y flwyddyn y buant yn Nhyddyn Dafydd, fe gafodd Henry ganiatad i fyned drosodd am Sabboth i ymweled â'i deulu, ac i aros gydâ hwynt am ychydig ddyddiau. Aeth i'r Capel nos Lun i'r Cyfarfod Gweddio, a gofynwyd iddo gymmeryd rhan ynddo, yr hyn a wnaeth yn rhwydd. A deallwyd ar unwaith fod y gŵr ieuanc tal, teneu, lled gyffredin ond hollol lanwaith ei wisg, yn dra chydnabyddus â'r ffordd i'r nefoedd. Fe gynnyrchwyd rhyw deimladau rhyfedd, trwy ei weddi, yn yr holl gynnulleidfa. Torodd allan yn waeddi cyffredinol trwy y lle. Erbyn hyn yr oedd holi mawr, pwy allai y gŵr ieuanc fod? "Pwy bynnag ydyw," meddai un hen ŵr go anystyriol, "y mae yn ddigon tu hwnt i bawb y sydd yma." Yr oedd siarad yn yr ardal, wrth ei fod mor dal, ei fod yn cael myned yn un o "*Life Guards*" y brenhin. "Na choeliai fawr," meddai un hen Gristion, "y mae rhywbeth mwy yn aros y gŵr ieuanc yna; fe fydd e yn un o '*Guards*' Brenhin y nefoedd."

Yn mis Mai, 1818, fe roddes Mr. Jones Syrior i fynu, ac a aeth yn ei ol i Ddinbych i gartrefu. Nid ydoedd wedi cael fod y lle, ac yn enwedig y teithio yn misoedd y gauaf, yn ateb cystal i'w iechyd ag y dysgwyliasai; ac heblaw hyny, yr oedd yn awr wedi penderfynu dwyn allan gyfieithiad newydd o'r Rhan gyntaf a'r ail o waith Mr. Gurnal, yn gystal ag argraffiad newydd diwygiedig o'i gyfieithiad ei hunan o'r drydedd a'r bedwaredd Ran; ac yr oedd yn gweled na byddai yn gyfleus iddo wneuthur hyny, heb fod yn nes i'r Argraff-wasg nag yr ydoedd yn Syrior. Ac felly fe symmudodd i'w hen drigle, fel nad oedd arno mwyach angen am wasanaeth Henry Rees. Yr oedd hyny, fel y buasai yn naturiol disgwyl dan yr amgylchiadau, yn gryn brofedigaeth

iddo ef. Yr oedd yn gwybod mai anhawdd iawn, os nad anmhosibl, fuasai iddo gael lle mor ddymunol i un o'i dueddfryd ef,—lle y cawsai gymmaint o amser iddo ei hun, a'r fath fanteision i hunan-ddiwylliant,—ag oedd yn gael yn Syrior. Yr oedd yn hôff iawn o Mr. a Mrs. Jones, ac yr oedd yn hollol sicr eu bod hwythau yn hôff o hono yntau. Ac nid hyny yn unig, ond wrth weled yr awydd oedd ynddo ef am wybodaeth a'i hoffder o ddarllen, ac wrth sylwi ar y doniau neillduol a ddangosid ganddo wrth weddïo, yr oedd Mr. Jones wedi dyfod yn gwbl argyhoeddedig fod defnydd pregethwr rhagorol ynddo; ac yr oedd, er ys peth amser, wedi dechreu rhoddi gwersi yn achlysurol iddo yn y Saesonaeg, ac yn ceisio ei arwain iddi, trwy siarad ynddi yn gyffredin âg ef. Yn awr yr oedd yn myned i golli hyn oll. Bu am yspaid mewn cryn betrusder, yn methu penderfynu pa beth fyddai oreu iddo wneyd. Yr oedd ei dad wedi cael hanes lle da iawn iddo yn Ngwytherin, yn y Bryntan, yr amaethdŷ agosaf i Dyddyn Dafydd, lle yr oedd efe ei hunan yn byw. Pe buasai ei dad yn aros yn Ngwytherin, y mae yn debyg mai i Bryntan yr aethai; ond gan fod ei dad yn ymadael oddiyno ac yn myned i'r Cae Du, yr oedd y cymhelliad mawr i fyned yno yn colli, ac felly fe benderfynodd nad âi yno. Yr oedd yn cael ei gymhell yn fawr gan Mr. Thomas Lloyd, un o'i gyfeillion mwyaf mynwesol, oedd yn byw gydâ'i fam yn y Tŷ Mawr, i fyned yno; ond oblegyd rhyw amgylchiadau fe fethodd Mr. Lloyd a chael ei amcan i ben. Yr oedd ei dad yn awr, wrth weled nad ydoedd yn tueddu i fyned i Bryntan, ac yn lled feddwl fod yr awydd am bregethu yn gymmaint yn ei fryd fel mai anhawdd iawn a fuasai iddo gael lle cyfaddas iddo,—yn tybied mai y peth goreu iddo, ar y pryd, fyddai dychwelyd adref, ac aros gydâ'i deulu yn y Cae Du, i edrych pa fodd y troai pethau allan, ac hyd nes y tarawai ar le ag a fyddai yn gymmeradwy ganddo. Yr oedd yntau ei hunan yn teimlo fel ei dad, ac felly y cytunwyd. Yr oedd i gyfarfod ei rieni yn eu lle newydd, ar eu mynediad hwy yno. Yr oedd y symmudiad i'r Cae Du yn arwyddo felly bod iddynt hwy yn un dedwydd iawn, yn gymmaint ag y caent eu "Harri"

gydâ hwynt yno, ac y byddent unwaith drachefn gydâ'u gilydd yn deulu cyfan. Eithr nid oedd hyny i fod. Pan y clybu y cyfeillion crefyddol yn y Bettws am y penderfyniad hwn o'i eiddo, hwy a aethant i drallod dirfawr. Nid oeddent ond ychydig o ran nifer, isel gan mwyaf o ran eu hamgylchiadau, ac heb nemawr neb yn eu plith yn gymhwys iawn i gymmeryd yr arweiniad. Efe oedd enaid ac yni y canu, y cyfarfodydd gweddïau, a'r Ysgol Sabbothol; ac yn absennoldeb Mr. Jones, er nad oedd wedi ei alw yn Flaenor, arno ef y syrthiai y gwaith, yn benaf, yn y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yn ddigon iddynt golli Mr. Jones o'u plith; ond yr oedd y meddwl am ei golli yntau hefyd, yn rhywbeth annioddefol iddynt. Nis gwyddent, yn wir, pa fodd y gallent fyned yn mlaen hebddo, a thaer erfynient arno beidio eu gadael. Wedi hir gymhell, fe addawodd yntau yr arhosai, ond iddo gael lle, yn rhywle yn y gymmydogaeth, ag y gallai obeithio y byddai i raddau yn gysurus ynddo, ond nad oedd efe byth yn disgwyl am le tebyg i'r lle oedd ganddo yn Syrior. Yn rhagluniaethol, yr oedd ar amaethwr parchus yn y gymmydogaeth, Mr. David Lloyd, y Cefn, gerllaw y Bettws, eisieu pen-gwas neu hwsmon, ac fe gyflogodd yntau i fyned yno yn Mai, 1818. Nid oedd yn cael y fath ryddid yno ag oedd wedi arfer gael yn Syrior, ac yr oedd y llafur corphorol a ddisgynai arno yn llawer trymach; ond yr oedd y lle yn lle rhagorol, ac yn raddol fe ennillodd iddo ei hunan braidd gymmaint o ryddid ag oedd ganddo yn Syrior. Yr oedd i fesur mawr yn cael ei adael i'w drefniadau ei hunan gydâ golwg ar fyned i'r amrywiol gyfarfodydd yn y Capel, ar ddyddiau yr wythnos yn gystal a'r Sabboth, am y gofalai fod gwaith y ffarm yn cael ei wneyd. Dyna y cwbl a ofynai Mr. Lloyd. Ac fe roddodd y fath foddlonrwydd i'w feistr nid yn unig o ran ei gymeriad crefyddol a'i ymddygiadau gweddaidd, ond fel un yn gwir ofalu am yr hyn a ymddiriedasid iddo ac oedd yn gorphwys arno, fel yn mhell cyn ei ymadawiad oddiyno, yr ymddygid tuag ato yn y teulu yn fwy fel pe buasai yn fab yno nag fel gwas.

Yr oedd yn teimlo chwithdod mawr ar ol colli Mr. Jones, nid

yn unig yn yr hyn oedd yn perthyn iddo ef yn bersonol, ond mewn cysylltiad â'r Achos yn y Bettws, ac yn neillduol y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd Mr. Jones yn hynod iawn yn y cyfarfodydd hyny. Yr oedd ei feddwl mor gyfoethog yn ngwirioneddau yr efengyl, a'i brofiad mor ddwfn o'u dylanwad ar ei galon ei hunan, ac ar yr un pryd yr oedd wedi arfer gwyliadwriaeth mor fanwl ar y galon hono yn ei gogwyddiadau dirgelaf i adael y Duw byw, fel yr oedd yn nodedig o fedrus, oddiar ei brofiad personol, i olrhain gweithrediadau llygredigaeth yn ei gyd-aelodau, yn gystal ag i'w harwain at y wedd neillduol ar ddarpariaeth gras ag addasrwydd arbenig ynddi i'w hamgylchiad hwy er ei farweiddio. Wedi colli y fath un, a gweled fod dysgwyliad y cyfeillion yn gymmaint bellach wrtho ef, fe benderfynodd wneuthur a allai, yn ol ei amgylchiadau, i beidio siomi eu dysgwyliadau. Yr oedd yn parhau yr un mor ffyddlawn a chyson ac egniol gydâ phob rhan o'r gwasanaeth yn y Capel, ac yn amlwg yn dwysâu o ran ei deimladau crefyddol. Yr oedd y flwyddyn hono, a'r blynyddoedd canlynol, yn rhai hynod iawn ar grefydd yn Ngogledd Cymru. Yr oedd yr Adfywiad grymus a dorasai allan yn 1817, yn SirGae rnarfon, a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw, "Diwygiad Beddgelert," am mai yno y dechreuodd, wedi ymdaenu, i raddau mwy neu lai, trwy yr amrywiol siroedd, ac nid oedd odid fan heb deimlo rhyw gymmaint oddiwrth ei effeithiau. Ac er na bu dim annghyffredin yn y Bettws, nac yn yr un o'r Capelau cyfagos, eto fe gafodd rhai personau braidd yn mhob lle ryw adnewyddiad hynod. Yr oedd tri neu bedwar yn y Bettws wedi cael rhyw beth tra neillduol, yn enwedig Henry Rees. Ryw bryd cyn diwedd y flwyddyn 1818, fe agorwyd Capel newydd yn y Bettws, ac yr oedd y Parch. John Elias yn pregethu yno ar yr achlysur, y boreu a'r prydnawn, a nerthoedd y nefoedd yn cael eu teimlo trwy ei weinidogaeth. Yr oedd y cyfarfod am ddau ar y gloch, yn enwedig, yn un hynod iawn, nifer mawr wedi tori allan i waeddi am eu bywyd. Yr oedd Henry Rees, fel arweinydd y canu, yn sefyll ar risiau y pulpud; ac fe sylwid arno ei fod, yn ystod y bregeth, dan deimladau

dwysion, ac o'r braidd yn gallu ei feddiannu ei hunan. Fe lwyddodd pa fodd bynnag i hyny. Eithr pan yn canu y pennill ar ddiwedd yr oedfa,—"Anturiaf ato yn hyderus, &c.,"—fe'i gorchfygwyd mor lwyr gan ei deimladau, nes yn lle canu, y torodd allan i orfoleddu mewn hwyl nefolaidd annghyffredin. Ac yr oedd y fath eneinniad ar ei ysbryd, y fath dynerwch yn ei lais, ac yn enwedig y fath ardderchawgrwydd yn y pethau a draethid ganddo, fel yr oedd Mr. Elias yn y pulpud yn ymddangos fel wedi ei lyncu gan syndod, a phawb ag oeddent yn y Capel ac heb fod eu hunain yn gorfoleddu, yn gwrandaw yn astud arno ef. Yr oedd ei frawd, William, yn y cyfarfod hwnw, wedi myned yno yn fachgen o'r Cae Du; ac yr oedd yn cofio yn dda clywed un hen ŵr crefyddol, ag oedd yn gwrandaw arno, yn dywedyd wrth un arall pan yn myned allan o'r Capel,—"Marciwch chwi na bydd y gŵr ieuanc yna, oedd ar risiau y pulpud yn gorfoleddu, yn mhen ychydig amser, yn bregethwr llawn mor enwog a John Elias ei hunan." Gwelwyd ef rai prydiau ereill, ond nid yn fynych, yn ngwres tanbaid y dyddiau hyny, yn cael ei feistroli mor hollol gan ei deimladau, fel ag i ymollwng gydâ hwynt yn y gynnulleidfa. Eithr y mae yn ddiammeu genym ei fod ef y pryd hwnw, fel ag yr oedd yn arbenig yn mlynyddoedd diweddaf ei oes, yn dra gofalus i wahaniaethu rhwng y dylanwadau naturiol hyny nad ydynt ond yn unig yn goglais y tymherau, a dylanwad pur y gwirionedd ac Ysbryd Duw trwy y gwirionedd, yn cyffwrdd yn uniongyrchol â'i galon, ac yn sancteiddio holl ansawdd yr enaid. Pa fodd bynnag, y mae yn amlwg fod yr argraffiadau ar ei feddwl ef, a gynnyrchent y fath effeithiau, yn hollol sanctaidd o ran eu natur, oblegyd yr oeddent yn cael eu dilyn gan sancteiddrwydd cyffredinol yn ei holl ymarweddiad; yn gymmaint felly, fel ag yr oedd yn enghraifft nodedig o'r cymeriad a osodir allan yn un o'i destynau cyntaf ef fel pregethwr:—"Y mae i Demetrius air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun" (3 Ioan 12).

# PENNOD IV.

*O'r pryd y dechreuodd bregethu nes y gadawodd yr Ysgol yn Abergele:*—1819—1821.

AWYDD PREGETHU YN CRYFHAU—YN PENDERFYNU DECHREU—EI ADRODDIAD EF EI HUNAN O'R AMGYLCHIADAU—Y NEWYDD YN CYRHAEDD LLANSANNAN—YN PREGETHU AM Y TRO CYNTAF YNO—PREGETHU AR SABBOTH YN LLANGERNYW—DYLANWAD EI BREGETH AR FEDDWL Y PARCH. JOHN JONES, TALSARN—YMADAEL A'R BETTWS A DYCHWEL I DY EI DAD—MYNED YN GYFAILL I HEN BREGETHWR I GYMDEITHASFA Y BALA—HWNW YN EI GYMHELL I BREGETHU ALLAN O'R CYLCH A BENNODASID IDDO—YR HEN FRAWD HWNW YN HEN DORWR AR REOLAU—PENDERFYNU MYNED I'R YSGOL I ABERGELE AT Y PARCH. THOMAS LLOYD—EI DDERBYNIAD TRA YNO, YN AELOD O'R CYFARFOD MISOL—CAEL EI DARO A CHLEFYD TRWM—AR OL EI ADFER YN DYCHWEL I'R YSGOL—MYNED AR DAITH GYDA Y PARCH. JOHN DAVIES, NANTGLYN—LLANGOLLEN A MRS. COOPER—ADGOFION AM GYFARFOD MISOL SIR DDINBYCH, PAN YMUNODD EFE AG EF—CYMDEITHASFA LLANRWST, 1820—CYFARFOD MISOL Y BALA, 1821—ADGOFION AM Y CYFARFOD HWNW—AMSER EI YMADAWIAD A'R YSGOL YN NESAU—DECHREU PRYDERU PA BETH A GAI AT FYW, A CHYFLAWNI EI WEINIDOGAETH YN MHLITH Y METHODISTIAID, YN OL Y DULL CYFFREDIN YN EU PLITH—CAEL EI BERSWADIO I FYNED I'R AMWYTHIG I DDYSGU Y GELFYDDYD O RWYMO LLYFRAU—YN PENDERFYNU MYNED YNO.

ER y cyfarfod hynod yn y Bettws ar Agoriad y Capel, yr oedd y cyfeillion yno, yn gwbl argyhoeddedig fod cymhwysderau arbenig ynddo at y weinidogaeth, yn ei annog yn gryf i ddechreu pregethu; ac yr oedd yr awydd am hyny yn cryfhau beunydd yn ei feddwl ef ei hunan. Yr oedd yn hollol dawel yn ei deim-

lad, mai ewyllys yr Arglwydd oedd iddo ymgyflwyno i'r gwaith; ac yr oedd yn awr yn sicr y câi bob cefnogaeth i hyny gan yr eglwys fechan y perthynai iddi. Yr unig beth a barai iddo betruso dim, oedd, yr amgylchiadau neillduol yr ydoedd ynddynt: canys er ei fod, ar ryw ystyr, yn cael pob rhyddid a allasai ddymuno, pob rhyddid yn sicr ag oedd bosibl yn y fath le, eto yr oedd yn teimlo mai gwas ydoedd; ac nas gallasai, fel y cyfryw, ddysgwyl cael myned, yn ol trefn y Cyfundeb y perthynai iddo, ar deithiau am filldiroedd bob Sabboth, a dyledswyddau uniongyrchol ei sefyllfa yn gorphwys arno i'w cyflawni gartref. Pa fodd bynnag, fel yr oedd amser ei arosiad yn y Cefn yn tynu tua'r terfyn, a chan gymmeryd mantais ar yr annogaethau a roddid iddo gan y cyfeillion yn y Bettws, a'r teimladau caredig a ddangosid tuag ato gan yr holl eglwys, fe benderfynodd ymaflyd yn y gorchwyl. Ni a adawn iddo ef ei hunan adrodd yr hyn a roddir ganddo o'r hanes:—"Rywbryd yn y flwyddyn gyntaf ar ol ymadael â Mr. Jones, pan rhwng un a dwy-ar-hugain oed, y dechreuais bregethu; ac, os wyf yn cofio yn iawn, yn Llaneilian, pentref bychan rhwng Bettws, Abergele, a Chonwy, y bu hyny. Dechreuais yn debyg i ddyn yn priodi yn ieuanc, heb fawr o reswm i'w roddi dros hyny, ond yn unig fod ynof ryw hoffder mawr at y gwaith. Gallaswn ddyweyd am y weinidogaeth yn debyg i Samson wrth ei dad am y wraig o Timnath, 'Cymmer hi i mi, canys y mae hi wrth fy modd i.' Yr oedd y cariad yn blentynaidd ac arwynebol, mae'n wir, ond yr oedd ef yma. Yr wyf yn cofio yn dda y prydnawngwaith, wrth ddyfod adref o dŷ y crydd gydâ phar o esgidiau newydd, fy mod yn gobeithio yn weddïgar y cawn ddechreu pregethu cyn eu gwisgo allan; ac mi a gefais fy nymuniad hefyd."

Yr oedd hyn, fel y sicrhawyd i ni gan y diweddar Barch. Hugh Hughes, Abergele, yn nechreu Ebrill, 1819. Dywedai Mr. Hughes wrthym fod Mr. Rees wedi dechreu pregethu flwyddyn union ar ei ol ef, ac mai yr ail Sabboth yn Ebrill, 1818, y dechreuasai efe. Yr ydym wedi methu, er pob ymdrech o'r eiddom, a chael allan y manylion yn gysylltiedig â'r cychwyniad

cyntaf arno: megis pwy a anfonwyd dros y Cyfarfod Misol yn genhadau i ymddiddan âg ef, ac i gymmeryd llais yr eglwys ar yr achos; a pha fodd yr oedd yntau yn ateb ar yr amgylchiad; yr hyn, erbyn hyn, a fuasai yn dra dyddorol. Dichon mai Mr. John Davies, Nantglyn, a Mr. Peter Roberts, Llansannan, oeddent y gweinidogion; ond nid oes genym un amcan gydâ golwg ar y Blaenoriaid. Ni chlywsom ddim ychwaith am y modd yr oedd yntau yn ateb. Y cwbl sydd sicr yw, iddo gael cymmeradwyaeth unfrydol yr eglwys; ac iddo bregethu y tro cyntaf, yn ol yr adroddiad odditan ei law ef ei hunan, yn y lle a nodwyd. Cyrhaeddodd y newydd ei fod wedi dechreu pregethu yn mhen ychydig ddyddiau i glustiau ei rieni, a pharai iddynt lawenydd a phryder. Yr oeddent yn gweled ei fod yn awr wedi cyrhaedd dymuniad uchaf a phenaf ei galon, er ys blynyddau lawer, ac felly nis gallent lai na llawenhau; ond yr oeddent yn dra phryderus yn nghylch ei lwyddiant, ac yn enwedig gydâ golwg ar y modd y byddai arno yn y dyfodol. Yn mhen diwrnod neu ddau wedi clywed o honynt y newydd, fe anfonwyd ei frawd, William, gan ei fam, gydâ rhyw ddillad iddo i'r Cefn, gan orchymyn iddo beidio a chymmeryd arno wrtho eu bod wedi clywed dim am ei bregethu, oni soniai efe ei hun am hyny. Ac y mae Dr. Rees yn rhoddi i ni yr adroddiad canlynol am ei ymweliad âg ef:—"Aethum i'r Cefn a chefais y teulu ar eu ciniaw yno. Wedi y ciniaw, aethom yn nghyd ein dau i'r maes: ac ar ol cwrs o ymddyddan. gofynai, 'A glywsoch chwi rywbeth am danaf fi acw?' 'Do,' meddwn innau, 'ni a glywsom eich bod wedi dechreu pregethu.' 'Beth oedd fy nhad a'm mam yn ddyweyd am hyny?' 'Ni chlywais i mo honyn' nhw yn dyweyd fawr, ond mi a wn o'r goreu, eu bod yn falch o'r newydd.' Ac mi a ychwanegwn, 'Y mae Shon o'r Hendre yn dyweyd, mai yno y dylech, ac mai yno y rhaid i chwi, bregethu y bregeth gyntaf yn Llansannan.' 'Wel, dywedwch wrtho,' ebai yntau, 'mai felly y dymunwn innau iddi fod, ac mai felly y caiff hi fod.' Wedi hyny, pennodwyd yr amser. 'Mi a ddeuaf adref,' meddai, 'y dydd a'r dydd yr wythnos nesaf,' gan enwi y diwrnod, 'ac mi a

bregethaf yn yr Hendre y noson hono.' Dychwelais adref yr hwyr hwnw, yn llawen fy nghalon, gydâ chyhoeddiad fy mrawd; a thrannoeth fe anfonwyd y newydd da i Shon o'r Hendre, yr hwn oedd lawen iawn o'i blegid. Cyhoeddodd Shon y newydd trwy yr holl ardal. Yr oedd llais Shon fel llais taran; a phan fyddai dan ryw gynhyrfiad, ac achos yn galw, rhoddai floeddiadau a seinient trwy yr holl fro. Yr oedd Shon yn dysgwyl am y pregethwr mor awyddus ag y dysgwyliai Cornelius y Canwriad am Simon Petr gynt, ac 'wedi galw ei geraint a i gymmydogion yn nghyd;' y rhai, pan ddaeth yr adeg, a ymgasglasant yn fwy na llonaid y tŷ o gynnulleidfa. Gosodwyd y pregethwr i sefyll ar gadair, a daliai Shon ei ysgwydd gref fel astell pulpud iddo Y testyn oedd 3 Epistol Ioan, 12 adnod: '*Y mae i Demetrius air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun.*' Cafodd oedfa bur hwylus. Yr oedd Shon o'r Hendre, beth bynnag, yn barnu nad oedd y fath bregethwr yn Nghymru, os yn y byd, a Harri Rees. Ar ol ei wrando y tro cyntaf hwnw, dywedai ei dad, 'ei fod yn meddwl y gwnai efe well pregethwr na dim arall.' Pan ofynid i'w fam, pa fodd yr oedd hi yn teimlo wrth ei wrando? 'Teimlo,' meddai hithau, 'yn union yr un fath a Shon o Frynanllach, wrth wrando ar ei fab, Peter Roberts, yn pregethu y tro cyntaf.' 'Wel,' fe ofynid iddi, 'pa fodd yr oedd Shon yn teimlo?' 'Dyna fel y dywedai Shon,' ebai hi, 'yr oeddwn yn ofni iddo fo daflu y drol o hyd; a minnau yn cydio yn y gornel i geisio ei dal hi ar ei holwyn.' ''Doedd dim tebyg i daflu y drol yn yr Hendre neithiwr,' ebe y llall. 'Hwyrach nad oedd,' atebai hithau, 'ond yr oedd arnaf fi ofn rhag i hyny ddigwydd.' Wedi'r cwbl, purion peth i bregethwr ieuanc fyddai iddo ddigwydd '*taflu* y drol' ambell waith, yn enwedig os bydd yn ŵr ymadroddus, i fod yn 'swmbwl yn ei gnawd' i'w gadw rhag tra-ymddyrchafu, ac i ddysgu gwylder, gwyliadwriaeth, a gofal iddo.

"Daeth yn fuan wedi hyny i Lansannan i bregethu ar nos Sabboth, yn y Capel. Nid ydwyf yn cofio beth oedd ei destyn y tro hwnw, ond yr wyf yn cofio fod yno dyrfa fawr yn gwrando, a bod canmoliaeth mawr i'r pregethwr."

Yn mhen ychydig Sabbothau wedi iddo ddechreu pregethu fe aeth i Langernyw i bregethu. Y mae yn rhaid fod hyny yn mis Ebrill, neu y Sul cyntaf yn Mai: oblegid y mae genym dystiolaeth bendant y diweddar Barch. John Jones, Talsarn, ei fod ef yn gwrandaw arno yno, ac yr oedd efe yn ymadael â Llangernyw i fyned i Ddolyddelen, yn yr hen Galanmai, 1819. Llawer gwaith y clywsom ef, gydâ theimlad dwys ac mewn hwyl happus, yn cyfeirio at yr oedfa yn Nghapel y Cefn Coch, a'r argraffiadau a deimlodd ar ei feddwl ynddi,—"pan oedd Henry Rees yna yn newydd danlli o'r *mint*, ac argraff ei Frenhin yn dysgleirio arno." Ni a ddodwn i mewn yma yr hyn a ysgrifenwyd genym yn Nghofiant Mr. John Jones am dano gydâ chyfeiriad at yr adeg hon:—"Ryw bryd yn yr adeg yma, tua dechreu y flwyddyn 1819" (yr ydym yn gweled yn awr y dylasem ddywedyd, tua dechreu yr haf), "fe ddaeth Mr. Henry Rees, y pryd hyny o Lansannan, i Langernyw i bregethu. Yr oedd hyn yn fuan iawn, yn wir yn mhen ychydig wythnosau, wedi iddo ddechreu ar y gwaith oedd eisoes wedi llyncu ei holl fryd, ac yr arddangosai y fath gymhwysderau iddo. Yr oedd y fath ddifrifoldeb yn null, y fath danbeidrwydd yn ysbryd, y fath ireidd-dra yn nheimlad, a'r fath briodoldeb yn sylwadau y pregethwr ieuanc, fel y cafodd ei bregeth argraff annghyffredin ar feddwl John Jones. Daeth i deimlo pwys cadwedigaeth ei enaid ei hun i'r fath raddau dan ei weinidogaeth, fel y penderfynodd ymroddi yn gwbl yn eiddo i'r Gwaredwr; a phenderfynodd hefyd, yn yr un oedfa, y cysegrai weddill ei oes i bregethu y Gwaredwr hwnw i'w gydwladwyr" (tudal. 58, 59).

Calanmai, 1819, fe ymadawodd Henry Rees â'r Cefn, ac â'r Bettws, ac a ddychwelodd adref i dŷ ei dad,—y Cae Du erbyn hyny. Yr oedd yn teimlo yn anhawdd iawn ganddo ymadael â'i gyfeillion yn y Bettws, y rhai a ddangosent y fath ymlyniad wrtho, ac a gawsai bob amser mor garedig iddo. Yr oedd yn neillduol yn teimlo drostynt oblegid eu bod yn dra amddifad o neb i'w harwain yn eu cyfarfodydd eglwysig. Ond nid oedd ganddo ddim arall i'w wneuthur. Yr oedd ei amgylchiadau ef

y fath erbyn hyn, fel yr oedd, er ei holl serch tuag atynt a'i holl bryder yn eu cylch, dan angenrheidrwydd i ddychwelyd at ei rieni, er cael ei hunan yn hollol rydd at y gwaith mawr yr oedd wedi cysegru ei oes iddo. Ac o'r tu arall, yr oedd yn llawen iawn o'i gael ei hunan drachefn yn nhŷ ei dad, ac yn nghanol hen gyfeillion ei febyd a'i ieuenctyd, y rhai yr oedd mor adnabyddus o honynt, ac y gwyddai eu bod yn teimlo yn garedig iawn tuag ato, ac yn barod i roddi pob cynnorthwy iddo. Pa fodd bynnag, ni chafodd lonydd i aros gartref ond byr amser. Yn mhen ychydig wythnosau wedi iddo ddychwelyd, daeth y diweddar Mr. John Williams, o Meidrim, Sir Gaerfyrddin, i Lansannan, ar ei daith trwy y wlad, rhyngddo a Chymdeithasfa y Bala y flwyddyn hono. Yr oedd efe yn bregethwr tra chymmeradwy, ac, yn achlysurol, yn cael oedfäon tra nerthol. Eithr nid oedd dim a'i boddlonai, yn awr, heb iddo gael Henry Rees yn gydymaith iddo hyd Gymdeithasfa y Bala, yr hon oedd i fod yn mhen tua phythefnos. Beth oedd i'w wneyd? Yr oedd efe eto heb ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol; ac afreolaidd oedd i bregethwr ieuanc fyned i un lle allan o amgylchoedd ei gartref, cyn iddo gael y derbyniad hwnw. Ond dadleuai John Williams y gallai pregethwr ieuanc felly fyned yn gydymaith i hen bregethwr, i'w arwain o fan i fan, ac i ddechreu yr oedfäon iddo. Boddlonodd Mr. Peter Roberts o'r diwedd iddo fyned, os mynai, ond iddo ddeall y byddai raid iddo gymmeryd y cyfrifoldeb arno ei hun. Ac felly fu. Cydsyniodd i fyned. Rhoddodd ei dad fenthyg un o'r ceffylau iddo, ac ymaith âg ef, drannoeth, gydâ John Williams; a chawsant bythefnos o daith dra chysurus. Yn mhen diwrnod neu ddau, ni foddlonai yr hen bregethwr ar i'w gydymaith ieuanc ddechreu yr oedfäon yn unig, ond mynai iddo bregethu. Cydsyniodd yntau i wneyd mewn rhyw le, nad oedd yn mhell iawn y tu allan i'r cylch a roddasid iddo ef. Eithr wedi gwneyd unwaith, bu raid iddo wneyd drachefn; ac felly ddwywaith neu dair bob dydd, hyd nes y cyrhaeddasant i'r Bala, i'r Gymdeithasfa; y tro cyntaf iddo ef fod yno fel pregethwr. Daeth fel hyn yn adnabyddus fel pregethwr, mewn

rhan helaeth o'i Sir ei hunan, a rhai rhanau o Sir Feirionydd cyn ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod Misol, a phan nad oedd eto ond ychydig wythnosau er y pryd y dechreuasai bregethu; ac yr oedd yn mhob man yn ennill cymmeradwyaeth mawr. Yr un pryd, y mae yn amlwg fod yma gryn afreoleidd-dra; ac ychydig oedd John Williams yn ystyried o'r helbul, a allasai ddwyn ar y gŵr ieuanc, trwy ei dynu felly oddicartref, ac yn enwedig trwy ei gymhell i bregethu. Yn wir, ni a gawn weled yn fuan na ddiangodd y pregethwr ieuanc ddim heb ryw gymmaint o fflangellau, ac na wyddis pa faint mwy a allasai gael, oni buasai fod ganddo gyfaill yn y llys, ac yn enwedig bod ei Dduw gydâg ef. Eithr yr oedd John Williams yn hen adnabyddus, fel un tra esgeulus o Reolau y Cyfundeb y perthynai iddo. Bu agos iddo unwaith ei hunan a chael ei ddiswyddo, os nad ei ddiarddel, oblegyd hyny. Rhyw ddeg neu ddeuddeng mlynedd cyn hyn, a rhai blynyddoedd cyn yr Ordeiniad cyntaf ar Weinidogion yn y Cyfundeb i weinyddu yr Ordinhadau, yr oedd John Williams, ar ei awdurdod ei hunan, wedi bedyddio plentyn. Nid ydym yn hollol sicr o'r amgylchiadau dan y rhai y gwnaeth hyny, ac y mae yr adroddiadau am hyny yn gwahaniaethu. Yn ol un adroddiad, yr oedd y baban wedi ei ddwyn i'r Capel i'w fedyddio, oddiar y dybiaeth mai yr hen Offeiriad, Mr. John Williams, Pantycelyn, oedd wedi ei gyhoeddi i fod yno yn pregethu, ac i John Williams ryfygu gwneyd yr hyn a fwriedid iddo ef. Y mae hyny yn lled annhebyg: canys prin y buasai Blaenoriaid y Capel, yn ol y syniadau a ffynent yn gyffredin y pryd hwnw, yn caniatau hyny. Yr adroddiad arall ydyw, fod y plentyn yn glaf, a bod y rhieni yn ofni iddo farw; ac felly, yn gymmaint a bod Offeiriad y plwyf yn adnabyddus fel dyn meddw ac annuwiol iawn, eu bod wedi gofyn i John Williams fedyddio y baban. Y mae yr amddiffyniad a wneid iddo gan y diweddar Mr. Charles o Gaerfyrddin, oddiwrth y caniatâd a roddir yn Eglwys Loegr i wragedd a meddygon fedyddio mewn amgylchiad felly, yn hytrach yn profi mai dyna yr amgylchiad dan ba un yr oedd efe wedi bedyddio y plentyn;

tra o'r tu arall, y mae yn rhyfedd os felly, pa fodd y parodd y peth y fath gynhwrf. Pa fodd bynnag fe barodd gynhwrf anghyffredin trwy yr holl wlad; ac yr oedd yr offeiriaid, y rhai oeddent ar y pryd yn blaenori yn y Cyfundeb, ac yn edrych ar Weinyddiad yr Ordinhadau fel eu gwaith arbenig hwy, wedi cyffroi yn aruthr. Fe ddygwyd yr achos i sylw yn y Gymdeithasfa, yr hon a gynnaliwyd yn Aberteifi, yn nechreu y flwyddyn 1807: ac ymosodwyd yn dost ar John Williams gan yr holl offeiriaid oeddent yn bresennol, oddieithr Mr. Williams o Ledrod, yr hwn a geisiai ei esgusodi, ac a ddadleuai am dynerwch tuag ato. Yr oedd efe yn cydnabod fod yn ddrwg ganddo ei fod wedi gwneuthur dim ag oedd yn digio ei frodyr urddasol, ond nis gwnai mewn un modd gydnabod ei fod wedi gwneuthur dim oedd yn digio Duw, neu yn annheilwng o'r efengyl. Ar hyny yr oedd Mr. Jones, Llangan, a Mr. Griffiths, Nefern, a'r offeiriaid ereill, gydâ'r eithriad a nodwyd, am ei ddiarddel ar unwaith. Wedi i Mr. Ebenezer Morris, ac un neu ddau ereill, siarad yn gryf am dynerwch tuag ato, a phan oedd Mr. Jones, Llangan, ar godi i roddi y peth i'r Cyfarfod i'w ddiswyddo, fe gododd Mr. James, Pen Blaen, Abergavenny ar ol hyny, ac a ddywedodd, gydâ gwedd hollol ddifrifol, ac eto yn amlwg yn wawdus iawn,—"Wel, Jacki bach, druan o honot ti! y mae yn ddrwg, yn ddrwg iawn, genyf fi drosot! Pa beth a ddaw o honot ti? Pe buasit ti wedi pechu yn erbyn yr Arglwydd,—ond yr wyt ti yn dyweyd na wneist ti ddim,—eithr pe buasit wedi gwneyd, ti gawsit faddeuant ganddo ef, ond i ti edifarhau. Pe buasit ti wedi pechu yn erbyn dynion cyffredin, ti gawsit faddeuant ganddynt hwythau, ond i ti ddyweyd fod yn edifar genyt. Ond druan o honot ti, Jacki bach! yr wyt ti wedi pechu yn erbyn yr offeiriaid; ni chei di ddim maddeuant yn y byd hwn, na'r hwn a ddaw." Ar hyny fe dorodd cryn nifer i chwerthin dros y lle, ac fe gollodd Mr. Jones ei dymher, gan wylltio, ac ateb, mewn llais a dull hollol wahanol iddo ei hunan:—"Nage, nage, Mr. James; peidiwch gwneyd cam â'r offeiriaid ychwaith; yn erbyn Duw yr ŷm ni yn credu y mae

wedi pechu." "Na, na, Mr. Jones; y mae eich bod chwi yn gwylltio, yn ngwyneb fy nhipyn digrifwch i, yn profi mai yn erbyn yr offeiriaid y mae efe wedi pechu, canys nid ydych yn arfer gwylltio fel yna wrth y rhai sydd yn pechu yn erbyn yr Arglwydd." "Y mae yn debyg yn wir, eich bod chwi yn iawn, Mr. James bach," ebai Mr. Jones, mewn dull tra gwahanol, ac mewn ysbryd tra addfwyn; "y mae yr hen hunan yma yn fy nilyn i yn barhaus, ac i bob man." Fe welodd Mr. Jones, a'r offeiriaid ereill, fod y teimlad yn rhy gryf yn mhlaid John Williams, iddynt feddwl am feiddio ei ddiarddel; ac felly fe ddiangodd, yn unig ar gael ei attal i bregethu am fis. Ac fe ddywedir fod Mr. James a Mr. Jones yn cyd-bregethu yn happus â'u gilydd, yn yr oedfa am ddeg, yn y Gymanfa drannoeth. Fe wnaeth y cynhwrf hwn John Williams yn boblogaidd iawn, fel y gŵr oedd wedi herio yr offeiriaid, ac wedi cael mewn ystyr fuddugoliaeth arnynt; ac y mae yn ddiammeu iddo hefyd wasanaethu i gryfhau y teimlad, ag oedd eisoes yn dra chyffredinol, am gael Neillduo Pregethwyr, o'n plith ni ein hunain, i weinyddu y Sacramentau. Ond yr oeddem yn adrodd yr hanes yna, er rhoddi rhyw gip-olwg i'r darllenydd ar gymeriad y gŵr a berswadiodd Henry Rees i'r afreoleidd-dra, a allasai droi allan yn gryn brofedigaeth iddo yntau; afreoleidd-dra, ag yr ydym erbyn hyn yn synu, pa fodd, ac yntau y fath un, yr hudwyd ef iddo.

Wedi dychwelyd o Gymdeithasfa y Bala, fe fu yn aros gartref yn y Cae Du am ychydig wythnosau, ac yn myned i bregethu ar y Sabbothau i ryw leoedd o fewn y cylch yr oedd ynddo, a phob amser gydà chymmeradwyaeth mawr. Eithr fel yr oedd yn ymarfer â'r gwaith, yr ydoedd yn dyfod yn fwy-fwy argyhoeddedig o'i bwysigrwydd, ac yn fwy-fwy ymwybodol o'i ddiffygion ei hunan gydâ golwg arno. Yr oedd yn cofio braidd beunydd am y llyfrau a welsai yn Syrior; ac yr oedd yn meddwl pe cawsai afael ar y rhai hyny, ac yn gallu gwneuthur defnydd o honynt, y cawsai ynddynt lawer iawn o'r cymhorth a deimlai oedd yn eisiau arno; ac felly yr oedd yn llawn awydd am gael

ychydig ysgol, fel ag i ddysgu cymmaint o leiaf o Saesonaeg ag a'i galluogai i ddefnyddio Awdwyr Duwinyddol yn lled rwydd ynddi. Wedi cryn lawer o siarad â'i rieni, ac ymgynghori â Mr. Peter Roberts, a chael ei gymhell, yn enwedig, gan ei gyfaill, Mr. Thomas Lloyd, Tŷ Mawr,—ond yn gwbl groes i feddwl John Roberts, yr Hendre, a'r nifer mwyaf o'r hen bobl yn Llansannan, —fe benderfynodd fyned i'r ysgol at y Parch. Thomas Lloyd, Abergele; ac ar agoriad yr ysgol, wedi gwyl-ddyddiau yr Haf, 1819, fe symmudodd yno. Fe gafodd yn Mr. Lloyd athraw ffyddlawn a charedig, ac fe goleddai y dysgybl y parch mwyaf, hyd ddiwedd ei oes, i'w enw ac i'w goffadwriaeth; fel y dengys yr Erthygl a ysgrifenwyd ganddo arno, yr hon a ymddangosodd yn y Traethodydd, am Ebrill, 1853. Yr oedd yn dueddol iawn i siarad am dano, a phob amser yn arwyddo teimladau cynhes iawn tuag ato. Cafodd letty cysurus iawn yn Abergele, "mor gryno," meddai ei fam, yr hon a aethai yno i chwilio am y lle, "a nyth aderyn;" ac fe ymroddodd, ar unwaith, i'w wneuthur ei hunan mor ddefnyddiol ag y gallai gydâ'r achos crefyddol yno. Er fod yr aelodau eglwysig, gan mwyaf, yn hollol ddieithr iddo, eto yr oedd ganddo rai cyfeillion anwyl yn y lle; ac yr oedd Mr. Thomas Lloyd, Tŷ Mawr, ei brif gyfaill ar y pryd, yn un o'r Blaenoriaid yno. Y mae ger ein bron yn awr, Lyfr Coffadwriaeth am y Cyfarfodydd eglwysig, yn Abergele, am bob wythnos, yn y blynyddoedd 1819, 1820, ac 1821; yn cynnwys dyddiad neu amseriad pob Cyfarfod; pwy oedd yn dechreu y Cyfarfod; y materion neillduol a fyddent dan sylw, ac â phwy yr ymddiddenid, yn mhob Cyfarfod; a phwy fyddai yn gweddïo ar y diwedd. Y mae y Cofnodion yn llawysgrifen Mr. Lloyd, Tŷ Mawr. Y mae enw "Henry Rees," yn y Cofnodau hyn, i'w gael gyntaf, yn terfynu y Cyfarfod trwy weddi, nos Iau, Mai 13, 1819; ac yn nesaf, yn dechreu y Cyfarfod, nos Wener, Mai 28. Yr oedd y ddau dro, fe welir, yn fuan iawn wedi iddo ddechreu pregethu; a'r cyntaf, fe allai, pan ar ymweliad â Mr. Lloyd, Tŷ Mawr, cyn dychwelyd i dŷ ei dad, ar ei ymadawiad â'r Bettws. Y mae yn bosibl fod yr *ail* dro, ar ymweliad cyffelyb. Yna yr

ydym yn ei gael, nos Iau, Gorphenaf 6; ac yna bob mis, ac am un mis ddwywaith, hyd ddiwedd y flwyddyn; ond yn unig nad ydym yn cael ei enw o gwbl yn y misoedd Hydref a Tachwedd. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, am amryw o'r cyfarfodydd a gofnodir yma, pan y mae ei enw ef i lawr fel un oedd yn gweddïo ar y diwedd, mai "*Pregeth*" a fyddai o flaen y Cyfarfod eglwysig, yn dangos fod y gynnulleidfa yn Abergele yn ei gael ef, y pryd hyny, i bregethu yn lled fynych iddi.

Wedi iddo symmud i Abergele i'r ysgol, yr ymddiddanwyd âg ef gyntaf yn y Cyfarfod Misol. Yr oedd y Cyfarfod Misol hwnw yn cael ei gynnal yn Ninbych; ac, yn anffodus iddo ef, yr oedd yr hen weinidog, y Parch. John Roberts, Llangwm, yn digwydd bod yno. Yr oedd efe yn ddiammeu, ar lawer cyfrif, yn un o'r gwŷr blaenaf yn y Cyfundeb: wedi bod yn un o'r pregethwyr mwyaf grymus, ac yn parhau mewn awdurdod uchel yn nghynnadleddau y Gymdeithasfa: ond yr oedd yn adnabyddus, ac yn ddiarebol, am ei lymder at bregethwyr ieuainc. Yr oedd ei ewinedd wedi bod yn ddyfnion iawn yn nghnawd Mr. Elias, a Mr. Roberts, Amlwch, pan oeddent yn ieuainc; er, wedi iddynt trwy eu gweinidogaeth ei orchfygu, nad oedd ganddynt neb oedd hoffach o honynt, na mwy ffyddlawn iddynt. Oblegyd ei fod ef yn perthyn i Gyfarfod Misol arall, ac yn ŵr o safle mor uchel yn y Cyfundeb, fe alwyd arno ef i ymddiddan a'r pregethwr ieuanc; ac wedi iddo gael y cyfleusdra, fe'i triniodd â gerwindeb dirfawr. Yn awr yr oedd y llanc, druan, yn gorfod dioddef canlyniadau y daith afreolaidd a gymmerasai gydâ'r hen bregethwr o Feidrim. Yr oedd y ddau, ar y daith hono, wedi bod yn Llangwm, ond nid oedd yr hen weinidog gartref. Yr oedd wedi clywed, pa fodd bynnag, fod yno ryw bregethwr ieuanc, hynod iawn, wedi bod yn gyfaill i hen bregethwr o'r Deheudir. Eithr yn awr y deallodd, yn ol fel y dywedai, mai pregethwr ieuanc heb ei dderbyn erioed i'r Cyfarfod Misol oedd hwnw, ac felly heb ddim awdurdod ond i gynghori ychydig o gylch ei gartref; ac fe ymosododd arno yn ddiarbed. Ceisiai Mr. Peter Roberts egluro pa fodd y bu: mai wedi myned yn gyfaill i John Williams yr oedd

y gŵr ieuanc, i ddechreu yr oedfäon, heb un meddwl am bregethu dim; ond i John Williams, mewn rhyw fan, ei gymhell i bregethu ychydig, ac iddo gael y fath foddhâd ynddo fel y bu raid iddo bregethu bob tro ar ol hyny; ac felly fod y bai, i fesur mawr, ar John Williams; ac eto nad oedd efe am gyfiawnhau Harri Rees yn gwbl, gan y dylasai yntau wybod nad oedd yn gweithredu yn rheolaidd. "Ond wedi y cwbl," meddai, "nid oes llawer o niwed wedi ei wneyd; ni chlywsom ni neb yn achwyn ei fod, yn un lle, wedi ymddwyn yn anaddas i'r efengyl, na cheisio gwneuthur dim ond cannol ei oreu ar Iesu Grist, a chymhell pechaduriaid ato." Eithr ni wnaeth hyny ond gyru Mr. John Roberts yn hytrach yn waeth; ac fe ruthrodd eilwaith yn ddidrugaredd ar y pregethwr ieuanc, ac i fesur ar Mr. Peter Roberts hefyd. Yr oedd hen feistr Henry, y Parch. Thomas Jones yn bresennol, ond mewn gwendid a gwaeledd mawr o ran ei iechyd; ac yr oedd pob peth a dueddai i'w gyffroi yn peri iddo deimlo yn waeth. Yr oedd, er ys meityn, yn ymddangos yn dra anesmwyth, wrth glywed Mr. John Roberts yn curo mor ddychrynllyd ar y pregethwr ieuanc; ac, yn mhen ychydig, fe gododd ar ei draed, ac mewn llais cyffrous ond tyner, ac ar fin tori i wylo, fe ddywedodd:—"Harri bach, paid di a thori dy galon; ond dos yn mlaen gydâ'r gwaith mawr yn rymus, yn nerth Ysbryd yr Arglwydd, pwy bynnag a safo yn dy erbyn di, a pha faint bynnag fydd raid i ti ei ddioddef." A chydâ'r geiriau, efe a aeth allan, yn amlwg mewn cryn deimlad. Pan welodd Mr. John Roberts fod Mr. Jones yn teimlo cymmaint drosto, fe newidiodd ar unwaith ei dôn tuag ato; datganai fod yn dda ganddo glywed ei fod yn ymddwyn yn addas i'r efengyl, a'i fod yn rhoddi y fath foddlonrwydd yn ei bregethu, i'r cyfeillion oeddent wedi ei glywed; gan ei annog i fod yn fwy gwyliadwrus a gochelgar rhagllaw, gydâ golwg ar Drefniadau y Cyfundeb, ac i beidio rhoddi achlysur i neb, a allai geisio achlysur yn ei erbyn. Ac yna, wedi peth ymddyddan, fe dderbyniwyd y pregethwr ieuanc, gydâg unfrydedd hollol, i gylch y Cyfarfod Misol. Dywedodd yntau ychydig eiriau, yn hollol ddirodres, o

ddiolchgarwch iddynt am y derbyniad a roddasent iddo, a'i fod yn gobeithio ac yn gweddïo, na chaent byth achos edifarhau o'r herwydd.

Y mae yn ddiammeu fod geiriau caredig ei hen feistr, ar y fath adeg a hono, yn disgyn fel balm tyner ar ei deimladau clwyfedig, ac y bu yn felus ganddo, gannoedd o weithiau ar ol hyny, gofio am ei garedigrwydd. A dysgodd yntau hefyd,—fel y dysgasai y gwŷr enwog ereill y cyfeiriasom atynt, a ddioddefasent yn gyffelyb, os nad yn waeth, oddiwrth yr un gŵr,—fod yn dyner iawn byth wrth ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth. A daeth Mr. John Roberts ei hunan, ar ol hyny, ac yn wir yn fuan iawn, i weled ac i deimlo, mai nid dyn cyffredin oedd yr un ag y buasai ei law mor drom arno yn Ninbych, ac i'w gyfrif ei hunan yn mhlith ei edmygwyr penaf. Ac er fod y gwahaniaeth oedran, a phellder y lleoedd y cartrefent oddiwrth eu gilydd, yn peri na bu dim llawer o gyfeillgarwch byth rhyngddynt, eto yr oedd yr hen frawd yn coleddu y meddyliau uchaf am dano ef; ac yr oedd yntau yn credu fod yr hen ŵr yn hollol onest, er yn hytrach yn chwerw o ran ei dymher, ac yn rhy dueddol i dra-arglwyddiaethu.

Rywbryd wedi ei fynediad i'r ysgol i Abergele, ac wedi ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod Misol, fe fu yn glâf iawn, yn gymmaint felly fel ag y bu mewn enbydrwydd mawr am ei einioes. Nid ydym yn gwybod amseriad y cystudd yn hollol; ond yr ydym yn tybied iddo ddechreu yn niwedd Medi, 1819, a pharhau am y misoedd canlynol. Dyna, debygem ni, y modd y mae cyfrif paham nad ydym yn cael ei enw o gwbl yn llyfr Cofnodau y cyfarfodydd eglwysig yn Abergele, fel y crybwyllasom eisoes, am y misoedd Hydref a Tachwedd, y flwyddyn hono. Yr oedd, pa fodd bynnag, wedi myned i'w gyhoeddiad Sabbothol, i daith Prion a'r Bontuchel, pan y tarawyd ef gan anwyd a chryndod annghyffredin, a droes allan yn glefyd trwm iawn,—yn rhyw fath o *Typhoid Fever*. Bu yn gorwedd tano am tua mis yn y Porth, Llanrhaiadr, Dyffryn Clwyd; lle yr oedd y diweddar Barch. John Wynne, a'i frawd, Mr. Richard Wynne, ar y pryd yn

cartrefu. Cafodd yno bob gofal ac ymgeledd, a allai caredigrwydd calonau cynhes y teulu cymmwynasgar hwnw eu gweinyddu iddo; am yr hyn hefyd y teimlai yntau yn wir ddiolchgar iddynt, hyd ddiwedd ei oes. Pan y daeth yn ddigon cryf i oddef ei symmud, aeth ei dad i'w gyrchu adref i'r Cae Du, lle y bu am rai wythnosau drachefn yn analluog i fyned i un cyhoeddiad, ac o dan ofal tyner ei fam a'i chwaer. Effeithiodd y cystudd hwn yn ddwys iawn ar ei feddwl, er ei ddwyn i ystyriaeth fwy difrifol nag erioed o freuolder ac ansicrwydd einioes, ac o'r pwys mawr o fod bob amser yn barod i gyfarfod angeu, pa bryd bynnag, ac yn mha wedd bynnag, y deuai. Yr oedd yn gweddïo llawer hefyd, ac yn uchel yn nghlyw y rhai oeddent o'i amgylch, os caniatâi yr Arglwydd, ar i'w fywyd gael ei arbed, ac i'w ddyddiau gael eu hestyn, fel ag y gallai wneuthur rhywbeth gydâ'i waith mawr, ac er iachawdwriaeth eneidiau dynion, cyn cael ei alw ymaith. Ac fe ganiatâwyd iddo ei ddymuniad. Gwelläodd yn dda iawn, a dychwelodd i Abergele i'r ysgol. Fe barodd y cystudd hwn gryn attaliad arno gydâ'i waith yn yr ysgol; ond yr oedd yn benderfynol, hyd ag y daliai ei iechyd, i ymdrechu â'i holl egni i wneyd y golled i fynu.

Yr oedd yn pregethu yn Abergele, y nos Lun, Rhagfyr 27, 1819; ac oddi yno, gan fod yr ysgol yn cael ei thori am tua thair wythnos neu fis, ar wyliau y Nadolig, fe aeth i Gymdeithasfa Llanrwst, a gynhelid yr wythnos hono. Yn Llanrwst, fe gydsyniodd â chais y Parch. John Davies, Nantglyn, ac a aeth yn gyfaill gydâg ef, ar Daith trwy ranau o Sir Ddinbych, a rhanau o Sir Fflint. Yr oedd gradd o gysylltiad y pryd hyny rhwng y ddwy Sir â'u gilydd yn eu Cyfarfod Misol, ac yr oeddynt yn cynnal Cyfarfod Undebol, os ydym yn cofio yn iawn, bob pedwar mis. Felly nid oedd dim afreolaidd yn y Daith hon o'i eiddo, er nad ydoedd eto wedi ei dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa. Gwnaeth y Daith hon gydâ Mr. John Davies, a'r Daith o'r blaen gydâ Mr. John Williams, ef yn boblogaidd iawn fel pregethwr, yn mhob lle y buant ynddo. Ac yn ol pob tystiolaeth, a chôf rhai sydd eto yn fyw, yr ydoedd o'r dechreuad yn bregethwr

annghyffredin a hynod o boblogaidd. Fel ag y dywedir genym yn Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn:—"Yr oedd yn cymmeryd golwg mor eang a chynnwysfawr ar drefn yr efengyl, ac yn gosod y fath arbenigrwydd ar ei gwirioneddau neillduol hi,—yr oedd ei gymhariaethau mor briodol a naturiol a phryd-ferth, a'r defnydd yn enwedig, a wnelid ganddo o'r amgylch-iadau a'r dygwyddiadau a gofnodir yn yr ysgrythyrau mor ddeheuig a dedwydd,—ac, yn arbenig, yr oedd y fath wres-awgrwydd yn ei dymher a'i ysbryd, fel y teimlid, i ba le bynnag yr elai, fod pregethwr newydd, braidd digyffelyb, wedi codi yn y wlad." Yr oedd yn pregethu gydâ nerth a dylanwad mawr ar y daith hon gydâ Mr. John Davies. Yr oedd yn fynych mor effeithiol, fel nad oedd yr hen weinidog yn cael nemawr neu ddim hwyl ar ei ol. Ac yr oedd hyny, y mae yn ddrwg genym ddywedyd, yn creu mesur o eiddigedd ynddo yntau tuag ato, nes yr oedd ei dymher yn chwerwi, ac nes peri iddo, weithiau, fyned yn lled atgas yn ei ymadroddion. Ac nid oedd odid neb yn ei oes a allai ddywedyd geiriau fel brath cleddyf, yn fwy miniog nag ef, pan fyddai yn y dymher hono. Dygwyddodd fod yn y fath dymher rai gweithiau ar y daith hon, ac yn neillduol felly pan y dygwyddent fod yn Llangollen. Yr oeddent yn lletya yno yn nhŷ Mr. a Mrs. Cooper, rhieni y diweddar Mr. Ebenezer Cooper, un o'r teuluoedd parchusaf yn y dref. Yr oedd Mrs. Cooper yn wraig nodedig am ei synwyr a'i challineb, yn gystal ag am ei charedigrwydd a'i hynawsedd. Yr oedd y cyfaill ieuanc wedi pregethu gydâ nerth annghyffredin y noswaith hono, a'r gynnull-eidfa wedi ei chodi i hwyl hynod wrth wrando arno. Dygwydd-odd fod i raddau yn wahanol ar yr hen frawd ar ei ol. Beth a wnaeth un o'r cyfeillion, mewn ychydig ddigrifwch, ond, feallai, heb ddigon o ofal am ei deimladau ef, ond dywedyd wrtho, ei fod wedi dyfod a gwell pregethwr o lawer nag ef ei hunan yn gyfaill iddo y tro hwnw. Yn lle cymmeryd y peth yn ysgafn a chwareus, ond gan gredu, yn hytrach, fod y gŵr yn dywedyd ei wir feddwl, a meddwl, fe allai, y lleill oll, a chydâ mesur o ar-gyhoeddiad, fe ddichon, fod y peth hefyd yn wirionedd, fe aeth i'r

dymher afrywiog ac anfwyn y gallai fyned iddi weithiau; gan siarad yn ddreng, ac ymddwyn yn hytrach yn angharedig tuag at ei gyfaill ieuanc, yr hwn nad oedd wedi dywedyd yr un gair i beri hyny. Yr oedd Mrs. Cooper, er ys meityn, wedi sylwi ar y geiriau pigog a ddefnyddiai yr hen weinidog, ac yn teimlo yn ddwys dros y gŵr ieuanc: o'r diwedd, gan gymmeryd mantais ar ei absennoldeb ef am ychydig funudau o'r ystafell, hi a fethodd ymattal, ac megis rhwng difri a chwareu, hi a ddywedodd ei meddwl yn bur groyw wrtho. Dywedodd wrtho nad oedd yr amser yn mhell, pan na feiddiai ymddwyn fel yr oedd yn gwneyd y noswaith hono, tuag at y gŵr ieuanc oedd gydâg ef, a phan y byddai raid iddynt oll edrych i fynu ato. Teimlodd yr hen bregethwr yn y fan ei fod wedi gwneuthur ar gam; cyfaddefodd hyny yn rhwydd i Mrs. Cooper, ac i Henry ei hunan yn yr ystafell wely; a bu yn dirion a charedig iawn tuag ato, yn nodedig felly, am y gweddill o'r Daith. Ac yr ydym braidd yn tueddu i dybied fod Mr. John Davies wedi newid at bawb, o hyny allan. Cofus iawn genym, pa fodd bynnag, i ni fod yn lletya unwaith yn yr un tŷ âg ef yn Liverpool, am tua thair wythnos, yn nechreu y flwyddyn 1838, ac ni welsom ni neb erioed mwy hynaws a chyfeillgar nag ydoedd y pryd hwnw; ac yr ydym yn teimlo byth yn ddyledus iddo am lawer o'r hanesion sydd genym am yr hen Fethodistiaid, nad ydym yn gwybod am neb arall, y daethom ni i gyfarfyddiad âg ef, a allasai eu hadrodd i ni. Ac yr ydym yn cofio yn dda fod Mr. Rees y pryd hwnw, fel hyd ddiwedd ei oes, yn siarad bob amser am Mr. John Davies gydâ'r parch mwyaf.

Buasai yn dda genym pe gallasem roddi darluniad lled fanwl o'r hen frodyr, yn Weinidogion a Phregethwyr a Blaenoriaid, a gymmerent ran arbenig yn Nghyfarfod Misol Sir Ddinbych, pan y derbyniwyd Mr. Rees yn aelod o hono, ac am yr amser byr y bu mewn cysylltiad âg ef. Ond nid ydyw y defnyddiau at hyny yn ein cyrhaedd; ac nis gwyddom, erbyn hyn, am neb a allai roddi odid ddim cymhorth i ni. Y mae yn dda iawn genym, gan hyny, allu dodi i mewn yma yr Adgofion canlynol,

o'i eiddo ef ei hunan, am rai o honynt, a ysgrifenwyd ganddo fel rhan o'r Erthygl yn y "TRAETHODYDD," ar y diweddar Barch. Thomas Lloyd, Abergele, at yr hon y cyfeiriasom eisoes:—

"Pe meddyliem am yr hen frodyr a flaenorent Gyfarfod Misol Sir Ddinbych yn ein dyddiau cyntaf ni, yr oeddynt oll yn dra amrywiol eu galluoedd; ac yn hyny yr oedd eu gogoniant a'u defnyddioldeb fel corph o weinidogion yn gynnwysedig. Yr oedd un wedi ei wneyd yn fwy i bregethu, a'r llall i lywodraethu. Un â thuedd ei weinidogaeth yn hytrach at argyhoeddi a dychwelyd y byd, a'r llall at gysuro ac adeiladu yr eglwys; y naill â'i gyfeiriad yn benaf at y deall, a'r llall at y gydwybod a'r serchiadau. 'A'r holl bethau hyn,' medd yr Apostol, 'Y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu, megis y mae yn ewyllysio.' Mr. Thomas Jones, o Ddinbych, a draddodai ei genadwri mewn ffordd o gynghor sylweddol a dwys, ac mewn iaith gref a phriodol. Peter Roberts, er nad oedd mor hynod am ddyfnder nac eangder meddwl, eto a deimlai ddyddordeb yn ei bwnc, ac a'i trinai yn bert ac eglur. John Davies, o Nantglyn, yntau, yn fwy difrifddwys ei dymher. Byddai ei deimladau ef yn delwi ei lais a'i wyneb-pryd, ac yn ffrydio allan bron yn mhob dull o siarad; o'r dywediadau cyrch, a'r bratheiriau cyrhaeddgar, i lawr hyd at gwynfanau meddalion serchawgrwydd. Os cyfarfyddai y dewryn hwn a gelyn i eglwys Dduw yn ei waith yn cynllwyn i'w herbyn, ceid ei glywed ef weithiau yn sarug wrtho; ac weithiau yn ymgomio âg ef yn drahaus a sychlyd, ac wrth ei droi a'i drosi ef ol a blaen, ymröai megis i fwrw dirmyg arno yn mhob ffordd, gan ei watwar-foli a'i bwmpio bob yn ail, nes o'r diwedd, wedi olrhain llaw yr Arglwydd yn troi ei falchder a'i draha yn ddinystr iddo ei hun, ac yn lles i'w bobl, y dybenai y cyfan yn y dolefiad toddedig—'Gogoniant iddo.'

"Nid dwl ychwaith oedd yr hen Evan Lewis. Wedi astudio y Dr. Owen a'r hen Buritaniaid yn lled ddyfal, yr ydoedd yn ddyfnach duwinydd na llawer ag oeddynt yn fwy eu talentau yn y cyhoedd. Os na fedrai draethu a gosod allan ei feddwl yn

gampus, eto fe fyddai yn wastad â chanddo rhywbeth teilwng mewn golwg, ac yn caffio yn gywir ato. I ni ymddangosai, wrth ymdrin â'i fater, yn gyffelyb ag y gwelsom y morgrugyn weithiau, pan yn edrych arno yn llusgo at rywbeth ag a fyddai yn rhy drwm iddo. Byddai yn troi o'i gwmpas ef yn drafferthus ddigon, yn ymaflyd ynddo ac yn ei ollwng, yn cynnyg ato drachefn, ac yn methu; ac ambell waith, yn nghanol ei ffwdan a'i drwstaneiddiwch, fe gyrhaeddai ei amcan yn gynt ac yn fwy happus na'n dysgwyliad, nes ein taflu i ffrwd o grïo a chwerthin ar yr un pryd. Mae yn gofus iawn genym am ei ddull yn dyfod ar draws y gair yn Zech. xii. 8, wrth osod allan ogoniant yr eglwys a'i swyddogion o dan dywalltiadau o'r Ysbryd yn y dyddiau diweddaf. 'Dyn hynod,' meddai, 'oedd Dafydd; cantwr annghyffredin ydoedd; peraidd ganiedydd Israel y gelwid ef. Ond am yr amser yr ydym ni yn sôn am dano yn bresennol, fe —fydd y—fydd y—fydd *y llesgaf* o honynt y dydd hwnw *fel Dafydd*; a thŷ Dafydd fel Duw, fel angel yr Arglwydd yn myned yn mhell iawn *o'u blaen hwynt* drachefn.' Yr oedd hyn mewn Cyfarfod Misol, yn y Cefn Coch; ond y mae y cyfan ag oedd ynddo wedi myned ar ddifancoll gydâ ni, ond yn unig sylw yr hen bererin profedigaethus hwnw. Fe ddaeth allan o'i enau yn ddisymwth fel ergyd o ẁn; ac am ei fod ef drwy ei ffwdan a'i attal dywedyd blaenorol megis wedi misio tân rai gweithiau, yr oedd yr effaith arnom yn fwy nerthol yn y diwedd. Parch i goffadwriaeth yr hen bererin! ni a'i clywsom ef yn cwyno ei golled am ei astudgell a'i lyfrau, pan dros bedwar ugain mlwydd oed.

"Nid heb hiraeth am dano ychwaith y bu farw William Jones, o Ruddlan. Talentau y pulpud yn unig oedd ei brif dalentau ef. Ychydig heblaw pregethwr ydoedd i'r byd nac i'r eglwys; ond yr oedd ef yn bregethwr. 'Mae rhai dynion,' medd y Dr. Owen, 'wedi eu cymhwyso o ran doniau i weinyddu yn y gair a'r athrawiaeth, mewn ffordd o borthi fel bugeiliaid, pa rai nad oes ganddynt ddim talentau buddiol i lywodraethu; ac ereill wedi eu cymhwyso i lywodraethu nad oes ganddynt ddim doniau i waith y fugeiliaeth mewn ffordd o bregethu.' 'Ië, pur anaml,' medd efe, 'y mae y ddau

fath yma o ddoniau yn cyd-ymgyfarfod i ddim enwogrwydd yn yr un personau, neu o leiaf, heb rhyw ddiffyg nodadwy.' I'r dosbarth cyntaf yma, yn ol ein barn ni, y perthynai ein hen gyfaill o Ruddlan. Ychydig, mewn cymhariaeth, oedd ei gymhwysderau ef i gymmeryd gofal dros, a llywodraethu eglwys Dduw. Nid efe fuasai y dyn i'w anfon i Corinth i wastadâu eu hymrafaelion yno, nac i'w adael yn Creta i iawn drefnu y pethau oedd yn ol, ac i osod henuriaid yn mhob eglwys. Ac eto yr oedd ganddo air i'w ddywedyd wrth bechadur. Y pulpud oedd ei elfen. O ran ei gyfansoddiad corfforol, ei lais, a'i ddoniau poblogaidd, yr ydoedd wedi ei dori allan i fod yn bregethwr, ac yn bregethwr teithiol. Ac nid pregethwr cyffredin ychwaith oedd William Jones, ond diwygiwr hefyd; pregethwr milwraidd. Yr oedd sŵn brwydr yn ei ysbryd a'i weinidogaeth ef. Byddai yn annelu bob amser at lygredigaethau ei genedl; ac er, o bosibl, y byddai naws ei feddwl ar y pryd yn ei gario i'r naill ochr weithiau, eto, ar y cyfan, yr oedd ei amcan yn ddifrifol. Clywsom iddo rai gweithiau yn ei oes fyned i gyfarfodydd llygredig ar hyd y wlad, megis cadfäau ceiliogod, gwylmabsantau, a'r cyffelyb, gan godi baner yn enw ei Dduw, ac ymosod ar yr hen *Syrs*, fel eu galwai, yn eu gwedd fwyaf anfad, ac ar eu tiriogaeth eu hunain; ac nid yn gwbl aflwyddiannus ychwaith. Cofus ydyw genym am ei ddull yn gweddïo. Ymddangosai rhywbeth ynddo, mae'n wir, tebyg i ddiofalwch yn y cyflawniad, ac o'r bron, fe allasid meddwl, yn ymylu a bod yn rhy gyffredin—ond eto am fod dull felly, dybygid, yn naturiol iddo ef, ac ysbryd defosiynol yn ffrydio trwyddo, byddai y cyfan yn arogli yn esmwyth. Yn y pulpud drachefn yr ydoedd fel yr aderyn mwynlon. Nid na byddai yn auaf arno yn aml, a'i enaid yn chwerw ynddo, yn trydar yn hytrach na chanu. Ond unwaith, er hyny, wedi yr ymsefydlai yn deg ar bren y bywyd, a rhoi heibio bigo at yr adar o'i amgylch, byddai yn lloni trwyddo, gwnelai tôn ei ysbryd a'i lais beroriaeth hyfryd; ac y mae lliaws eto yn Nghymru heb annghofio yr hyfrydwch a fwynhaent wrth wrando arno yn lleisio oddi rhwng ei gangau. I ni,

pa fodd bynnag, yn awr, pan y mae pob blwyddyn, agos, yn ein hamddifadu o ryw un neu gilydd o arweinyddion ein hieuenctyd, y mae colli cathlau bychain y durtur yma o'r goedwig Fethodistaidd yn ychwanegu at ein hiraeth.

"Ond ni waeth tewi. 'Ein tadau, pa le maent hwy? a'r prophwydi, a ydynt hwy yn fyw byth?' Nac ydynt, nac ydynt! maent wedi disgyn i ddistawrwydd. Ond cofiwn mai o ras yr oeddynt yr hyn oeddynt. Gras a'u cododd i waith yr efengyl; a gras a'u cynhaliodd cyhyd ynddo, gan eu nerthu i orphen eu gyrfa mewn tangnefedd. Bydded yr ystyriaeth o hyny yn foddion i gynhyrfu ein meddyliau ninnau, i obeithio yn ein hachos ein hunain, ac i ogoneddu Duw ynddynt hwy.

Mae fy nhadau wedi huno,
  Cu eu cofio genyf fi;
A fy ngado'n drist a synllyd,
  Alltud ydwyf gydâ Thi:
Yma ac acw'r wyf yn chwilio,
  Ac o'r byd yn cilio'n brudd;
Hiraeth am fy hen gyfeillion,
  Draw ar fryniau Sïon sydd."

(TRAETHODYDD, Llyfr ix. *tudal.* 258—260, Ebrill, 1853).

Yr oedd amryw ereill y pryd hwnw yn Sir Ddinbych, ag oeddent yn wŷr da a defnyddiol yn eu cylch, a rhai o honynt, yr ydym yn tybied, yn rhai a gawsant fesur o ddylanwad ar ei feddwl ef, ond nad ydyw efe, yn y dyfyniad uchod, yn crybwyll dim am danynt. Un o'r rhai hyny, yn ddiammeu, oedd yr hen bregethwr, John Llwyd, Llansannan. Yr oedd efe yn gymeriad hynod iawn. Fe'i ganwyd yn mis Gorphenaf, 1751, ac fe fu farw Ionawr 7, 1826; wedi bod yn pregethu am tua phymtheng mlynedd a deugain. Yr ydym ni yn ei gofio ef yn pregethu amrywiol weithiau. Efe, bob amser, a fyddai "*cyfaill*" y diweddar Barch. John Parry, Caerlleon, ar ei ymweliadau â Sir Fôn, yn mlynyddoedd ein mebyd ni. Er nad oedd dim rhagoriaeth yn ei bregethau o ran trefn eu cyfansoddiad, ac na byddai byth yn codi i ryw hwyl fel ag i ddylanwadu ar deimladau y gynnulleidfa, eto yn gymmaint a'i fod yn siaradwr naturiol a rhwydd, gydâ llais

dymunol, a bod ei sylwadau, yn y cyffredin, â rhyw briodoldeb a newydd-deb a ffraethineb ynddynt na cheid ond yn dra anfynych eu cyffelyb, yr oedd yn tynu sylw, ac yn cael gwrandawiad astud, y rhai mwyaf meddylgar; a byddai ei ddywediadau yn cael eu hadgofio, a'u hail adrodd am fisoedd bwygilydd, yn y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yn hynod gyfarwydd yn yr ysgrythyrau; ac yr oedd ganddo ddawn arbenig i ddefnyddio yr hanesion sanctaidd er egluro yr hyn a fyddai ganddo dan sylw. Yr oedd hefyd yn dra dedwydd yn y cymhariaethau a dynid ganddo oddiwrth bethau cyffredin mewn natur, ac yn enwedig oddiwrth dueddiadau ac arferion gwahanol anifeiliaid, a bwystfilod, ac ehediaid, ac ymlusgiaid, er gwasanaethu yr un amcan. Yr oedd Mr. Rees wedi ei ddwyn i fynu yn yr un gymmydogaeth ac yn yr un gynnulleidfa âg ef; yn ei gofio yn dda er pan oedd yn cofio neb; ac nid oes un amheuaeth na chafodd gryn ddylanwad arno. Fe ddywedodd y diweddar Barch. John Foulkes wrthym, ei fod ef wedi ei glywed yn defnyddio llawer o'i sylwadau, ond eu bod ganddo ef wedi eu cyfnewid, eu haddurno, a'u perffeithio i'r fath raddau, fel na buasai yr hen frawd ei hunan byth yn dychymygu mai efe a allasai fod wedi eu hawgrymu iddo.

Yr oedd ei gysylltiad â Chyfarfod Misol Sir Ddinbych, tra y parhäodd, yn hynod o gysurus iddo, ac yn un ag y byddai yn felus ganddo ei adgofio ar hyd ei oes. Yn wir, fe fu am amryw flynyddoedd yn rhyw ddirgel ddyheu am ddychwelyd yno drachefn, ac unwaith ar fin myned yno. Ac er i hyny gael ei attal, fe barhäodd i goleddu y meddyliau mwyaf tyner am ei hen gyfeillion yno, hyd ddiwedd ei oes.

Y mae yn ddrwg genym nas gallwn roddi ond ychydig fanylion o'i hanes, am yr amser y bu yn Abergele. Yr ydym yn gwybod, pa fodd bynnag, ei fod yn nodedig o ymroddedig i lafur yr ysgol, gan ymdeimlo yn fwy fwy â gwerth addysg, er cynnorthwy iddo yn y gwaith mawr, yr oedd yn awr wedi ymgysegru iddo. Yr ydym yn cael hefyd, yn Llyfr Cofnodau yr eglwys, y cyfeiriasom ato eisoes, ei fod, yn ei dro, yn dechreu

neu yn diweddu y cyfarfodydd eglwysig, yn gystal ag yn pregethu yno yn achlysurol. Heblaw hyny, yr oedd yn myned bob Sabboth i bregethu, yn ol yr alwad a gâi, i un neu arall o'r amrywiol deithiau, o fewn cylch y Cyfarfod Misol; ac yr oedd yn gwneuthur hyny, yn mhob man, gydâ chymmeradwyaeth mawr. Ymdrechai hefyd, hyd y gallai, am fod yn bresennol yn y Cyfarfodydd Misol; a daeth yn fuan iawn yn un a bennodid i bregethu yn gyson ynddynt. Yn ystod y tymhor hwn hefyd, fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Gymdeithasfa. Methasom, er pob ymchwil, a chael sicrwydd hollol am yr adeg y gwnaed hyny; ond yr ydym yn sicr y rhaid ei bod, ryw bryd yn ystod y flwyddyn 1820. Y mae y manylion am 1821, yn ein cyrhaedd, yn Nghoflyfr Ysgrifenydd y Gymdeithasfa ar y pryd, ac nid oes un crybwylliad am hyny yn y Cofion am y flwyddyn hono. Y tebygolrwydd ydyw, i'r derbyniad gymmeryd lle yn Nghymdeithasfa Llanrwst, yn niwedd Rhagfyr, 1820. Er nad oedd y Gymdeithasfa flynyddol hono yn briodol yn Gymdeithasfa Chwarterol, eto yr oedd, fel Cymdeithasfa flynyddol Môn, yn meddu holl awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol gydâ golwg ar dderbyniad pregethwyr yn aelodau, yn ol y drefn y pryd hyny, yn gystal a chydâ golwg ar rai cwestiynau ereill. Ac y mae yn dra thebygol mai yno, ar yr amser a nodwyd genym, yr ymddiddanwyd âg ef, ac y derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithasfa.

Pa fodd bynnag, y mae genym sicrwydd ei fod, yn nechreu Ionawr, 1821, yn pregethu mewn Cyfarfod Misol yn y Bala,—y tro cyntaf erioed iddo bregethu yno. Y mae yn ymddangos fod yr hen flaenoriaid yn y Bala, y rhai oeddent yn y blynyddoedd hyny yn hynod o gefnogol i bregethwyr ieuainc gobeithiol, yn bresennol yn Nghymdeithasfa Llanrwst, ac iddynt yno gael cyhoeddiad ganddo ef i ddyfod i'w Cyfarfod Misol hwy, oedd i'w gynnal yn nechreu Ionawr. Fe anfonodd ei gyfaill, Mr. Thomas Lloyd, Tŷ Mawr, lythyr yn ei law, ar ei fynediad i'r Bala, at Miss Jones, Llawr y bettws, gerllaw Corwen, yr hon wedi hyny a ddaeth yn Mrs. Lloyd, yn ei hysbysu fod y gŵr ieuanc ag oedd yn ddygiedydd i'w lythyr ati hi y tro hwnw, yn

gyfaill anwyl iddo ef; a'i fod, er ei ymddangosiad lled wledig, ac nad oedd wedi cael llawer o fanteision addysg, eto yn bregethwr annghyffredin, ac yn un yn sicr, os câi fyw, a ddelai i enwogrwydd mawr yn mhlith ei genedl. Y mae llythyr Miss Jones at Mr. Lloyd, yn atebiad i'w lythyr ef, yn awr ger ein bron, ac ni a ddodwn i mewn yma gyfieithiad o'r rhan o hono ag sydd yn cyfeirio at Mr. Rees a'r Cyfarfod Misol. Y mae wedi ei ddyddio, "Llawr y bettws, Ionawr 11, 1821." Ynddo hi a ddywed,—"Bydd yn hyfrydwch genych glywed fod Henry Rees wedi pregethu yn dra rhagorol yn y Cyfarfod Misol, oddiar Caniad Solomon iv. 12. Y mae canmoliaeth uchel iawn yn cael ei roddi iddo yn mhob modd. Pregethodd i ninau hefyd yn Glan-'rafon. Ni a gawsom Gyfarfod lliosog iawn yn y Bala, ac yr oedd y pregethu yn dda iawn. Rhoddodd Mr. J. Hughes un bregeth i ni." Y mae yn ymddangos, felly, fod ei gyfaill a'i gyd-weinidog ar ol hyny, yn pregethu yn yr un Cyfarfod Misol: a dichon mai dyma y tro cyntaf iddynt gyfarfod â'u gilydd, ac mai dyma y tro cyntaf i Mr. Hughes ei glywed ef yn pregethu. Y mae yn eithaf posibl, ac yn dra thebyg, ei fod ef wedi clywed Mr. Hughes cyn hyny, gan ei fod ef, er nad oedd ond dwy flynedd o wahaniaeth rhyngddynt o ran oedran, eto wedi dechreu pregethu tua chwe' blynedd o flaen Mr. Rees. Fe ddywedodd Mr. Hughes wrthym rywbryd, pan yn ymddiddan â'n gilydd yn nghylch Mr. Rees fel pregethwr:—"Mi *ildiais* i i Rees am byth, y tro cyntaf erioed i mi ei glywed." Dichon mai y tro yma yn y Bala oedd hwnw. Yr oedd y tro hwn, pa fodd bynnag, yn dro hynod iawn. Cafodd fuddugoliaeth mor lwyr ar deimladau yr holl gynnulleidfa, fel y gelwid ef ei hunan, byth ar ol hyny, gan yr hen gyfeillion yn y Bala, wrth yr enw, "*Ffynnon y gerddi.*" Yr ydym yn cofio ein bod, yn lled fuan wedi symmud o honom o Lundain i Liverpool, yn dygwydd bod mewn rhyw Gyfarfod yn y Bala: ac i'r foneddiges garedig, y ddiweddar Mrs. Turnbull, ofyn i ni,—"Sut y mae '*Ffynnon y gerddi*,' acw?" "'*Ffynnon y gerddi*,'" ebem ninau, "pwy ydyw hono, neu hwnw?" "Wyddoch chwi ddim," ebe hithau, "pwy ydyw '*Ffynnon y gerddi?*'

ond Mr. Rees: dyna yr enw sydd genym ni arno byth ar ol ei bregeth gyntaf ef yma, yr hon oedd ar y testyn, '*Ffynnon y gerddi,*' mewn Cyfarfod Misol yma." Rywbryd wedi cyrhaedd adref, a chyfarfod â Mr. Rees, ni a ofynasom iddo,—" A wyddoch chwi pa beth y maent yn eich galw chwi yn y Bala?" "Na wn i: a ydyn' nhw yn fy ngalw i yn rhywbeth heblaw fy enw fy hun?" "Ydynt," ebem ninau; "'Ffynnon y gerddi,' y maent yn eich galw." "Wel, yn wir, yr ydwyf fi yn cofio fy mod i, er's amryw flynyddoedd bellach, wedi myned i'r lle yna yn Ninbych, i edrych am bregethwr i ni o'r Bala, oedd yno ar y pryd, brawd i'r gŵr yna sydd yn weinidog dros yr afon yna; a chydâ fy mod i yn yr ystafell lle yr oedd efe, dyna fo yn rhedeg ataf, ac yn gwasgu fy llaw, ac yn gwaeddi yn fy ngwyneb,—'Ffynnon y gerddi; Ffynnon y gerddi; Ffynnon y gerddi!'" "Ië," meddem ninnau, "yr oedd y truan yn cofio am yr oedfa." "Y mae yn debyg ei fod: ac oedfa go hynod oedd hi." Yr ydym yn adrodd yr hanesyn hwn, nid yn unig oblegyd ei gysylltiad â'i bregeth gyntaf ef yn y Bala, ond hefyd oblegyd y cawn ynddo enghraifft o ryw neillduolrwydd arbenig a berthynai i'w feddwl ef, ag y cam-gymmerwyd ef gan rai o'i herwydd;—rhyw fath o anallu, mewn ymddyddan cyffredin, ac mewn cynnadleddau crefyddol, i gofio enwau *personau* a *lleoedd*, oddieithr y byddent yn hollol gynnefin iddo, ac weithiau hyd yn nod pan y byddent felly. Nid oedd dim pellach oddiwrth ei feddwl ef na thaflu dim diystyrwch ar neb trwy hyny, yn hytrach byddai yr annghof, bob amser, yn peri gradd o annghysur iddo ef ei hunan; ac ni a'i gwelsom fwy nag unwaith, wedi adgofio enw brawd, y cyfeiriasai ato megys "y gŵr yna," neu "y brawd yna," yn myned megis o'i ffordd, i gyfeirio ato drachefn dan ei enw ei hunan.

Yr ydym wedi derbyn "*Adgofion*" un hen frawd o gymmydogaeth y Bala, am yr oedfa gyntaf hon i Mr. Rees yno. Yr oedd yn lletya, dybygid, y pryd hyny, gydâ John Roberts, Cwmtylo, yr hwn oedd yn cadw masnachdŷ bychan yn y dref. Yr oedd Mrs. Roberts, y wraig a'i lletyai, yn ei glywed yn gweddïo mewn teimlad dwys, dybygasai hi, trwy y nos, fel yr

oedd yn meddwl nad oedd braidd wedi gallu cysgu dim. Am ddeg ar y gloch yr oedd Mr. Rees yn pregethu, o flaen y Parch. John Davies, Nantglyn. Y pennill a roddes efe allan i'w ganu, cyn darllen ei destyn, oedd,—

"Mae 'ngolwg am holl obaith i,
Duw arnat ti dy hunan :
O bydd di 'n unig yn fy mhlaid,
Na fwrw f' enaid allan."

Gan ddeall "Caniad Solomon" mewn ystyr gyfriniol, ac wedi ei bwriadu i ddarlunio y gymdeithas nefolaidd sydd rhwng y saint a Christ, fe edrychai ar ei destyn yn iaith yr eglwys am Grist; ac a'i defnyddiai, er sylwi ar yr eglwys, dan y gymhariaeth o "*ardd;*" ac ar Crist, fel "*ffynnon,*" i'w dyfrhau hi. Yr oedd yn pregethu gydà nerth ac effeithiolrwydd mawr, fel yr oedd teimladau dwysion yn cael eu cynnyrchu, a wylo cyffredinol trwy y lle. Yn yr oedfa yn y prydnawn, fe'i cyhoeddwyd ef i bregethu yn yr hwyr, y diwrnod hwnw, yn Rhiwaedog; ac yr ydoedd wedi cael y fath ddylanwad yn y boreu, fel y darfu i amryw o bobl y Bala, yn enwedig o'r ieuenctyd, adael y Cyfarfod Misol, a myned ar ei ol, y noswaith hono, i wrando arno. Ei destyn yn Rhiwaedog oedd, Rhuf. xvi. 7:—"Annerchwch Andronicus a Junia, fy ngheraint a'm cyd-garcharorion, y rhai sydd hynod yn mhlith yr apostolion, y rhai hefyd oeddent yn Nghrist o'm blaen i." Ac fe gafwyd yno gyfarfod hynod iawn. Fe dorodd yn orfoledd mawr a chyffredinol trwy y lle, fel yr attaliwyd ef i fyned rhagddo gydâ'i bregeth. Yr oedd yr hen bobl, fwyaf pwyllog ac arafaidd a hunan-feddiannol, wedi eu llwyr orchfygu; a'r pregethwr ei hunan dan ddylanwadau tra anghyffredin. Prin y mae eisiau dywedyd, na bu raid arno ef byth "wrth lythyrau canmoliaeth" iddo, ar ol y diwrnod hwnw, yn y Bala a'r cymmydogaethau.

Wedi gorphen y gwyliau, dychwelodd drachefn i'r ysgol i Abergele; gan ymroddi yn egnïol i feistroli y Saesoneg, fel ag i allu defnyddio awdwyr Duwinyddol ynddi gydâ gradd o hyfrydwch iddo ei hunan. Ac yr ydoedd yn awr, braidd bob

wythnos, yn cael ei hunan yn medru gwneyd hyny yn rhwyddach. Erbyn dechreu yr haf, 1821, yr oedd yn teimlo fod yn llawn bryd iddo bellach feddwl o ddifrif, pa beth a wnelai gydâ golwg ar y dyfodol. Yr oedd un peth wedi ei hen benderfynu ganddo, pa beth bynnag a ddeuai o hono, sef, mai gorchwyl mawr ei oes fyddai pregethu yr efengyl; ond yr oedd mewn cryn bryder yn nghylch pa fodd i fyw; pa beth a gâi at ei gynhaliaeth, fel ag i'w alluogi i ymroddi i'r gwaith, yr oedd ei fryd yn gwbl arno. Yr oedd yn rhaid pregethu; ond tuag at hyny yr oedd yn rhaid byw: a pha beth a wneid at hyny? Nid oedd prin un syniad y pryd hwnw, yn mhlith y Methodistiaid, yn nghylch cynnaliaeth y weinidogaeth: ac nid oedd y gydnabyddiaeth a roddid i'n gweinidogion a'n pregethwyr galluocaf a mwyaf poblogaidd, am eu llafur Sabbothol, prin yn werth ei derbyn; ac yn fynych yn annigonol i gyfarfod eu treuliadau. Ac ysywaeth! nid oedd y cynnulleidfäoedd lliosocaf a chyfoethocaf yn y trefi, y rhai rhagoraf o honynt, ond ychydig iawn ar y blaen i'r cynnulleidfäoedd lleiaf, yn y lleoedd mwyaf gwledig; a rhai o honynt, y mae yn ddrwg genym ddywedyd, a hyny hyd yn dra diweddar, yn mhell ar ol i rai manau llawer iawn llai. Y mae yn wir y gallasai pregethwr, hyd yn nod y pryd hwnw, a ymroddai i deithio, gan bregethu dair gwaith yn y dydd, a hyny bob dydd o'r wythnos, dderbyn cymmaint ag a wasanaethai er cynnaliaeth gyffredin i'w deulu, am y cyfryw amser; ac yr oedd cryn nifer, yn y blynyddoedd hyny, yn teithio llawer, a rhyw ychydig yn teithio agos yn wastadol; a chan belled a hyny, gellid dywedyd eu bod hwy yn byw ar y weinidogaeth. Eithr yr oedd corph mawr y pregethwyr yn dibynu ar ryw alwedigaeth neu fasnach; a lliaws o honynt ar rywbeth, ag y gallai y gofal mwyaf am dano orphwys ar eu gwragedd. Dyna wedd gyffredinol pethau yn y Cyfundeb ag yr oedd Mr. Henry Rees ynddo. Yn awr yr oedd yn gwestiwn pwysig iawn iddo ef pa beth a wnai. Nid oedd ganddo yr un grefft ag y gallasai droi ei law ati; ac nis gallasai feddwl am ddychwelyd i'r sefyllfa yr oedd ynddi cyn myned i'r ysgol. Bu

am gryn amser yn pryderu, ac yn methu gwybod pa beth i'w wneyd; ac nid oedd neb o'i gyfeillion yn gallu rhoddi unrhyw gyfarwyddyd eglur iddo. Yr oedd ei rieni am iddo ddychwelyd adref, a byw gydâ hwynt yn y Cae Du; gan weithio yr hyn a allai ar y tir ddyddiau yr wythnos, a myned oddiamgylch ar y Sabbothau i bregethu i'r gwahanol leoedd y gelwid ef iddynt. At hyny yr oedd efe ei hunan yn tueddu; a hyny a wnelsai, ond fel yr oedd yn gweled fod ei frodyr, erbyn hyn, wedi tyfu i fynu, ac yn gwbl alluog i wneyd yr hyn oll oedd yn angenrheidiol er cynnorthwyo eu tad; a bod amgylchiadau gwasgedig y wlad ar y pryd yn gyfryw, fel nad ystyriai yn iawn ynddo ei daflu ei hunan i bwyso dim ar ei rieni. Yr oedd ei gyfaill, Mr. Thomas Lloyd, Tŷ Mawr, yn y syniad uchel oedd ganddo am ei alluoedd ef, a'i ddysgwyliadau mawrion wrtho fel pregethwr, yn gryf o'r farn y dylasai aros yn hwy yn yr ysgol, er mantais iddo ei hunan yn y dyfodol; ac yr oedd efe yn rhyw obeithio, y gallesid trefnu rhyw foddion iddo i gael manteision ysgol uwch na'r hon yr oedd ynddi yn Abergele. Gresyn dirfawr na buasai yno ryw rai ereill o'r un meddwl a Mr. Lloyd, i weithio allan ei syniad ef. Dichon pe buasai Mr. Jones, Dinbych, eto yn fyw, mai hyny a wnaethid. Pa fodd bynnag, pan oedd y pregethwr ieuanc yn pryderu fel hyn, a rhai hefyd yn pryderu yn ei gylch, fe ddygwyddodd i'r diweddar Mr. Owen Williams, Towyn, Meirionydd, ddyfod i Abergele, ar gyhoeddiad trwy Sir Ddinbych. Ar ol yr oedfa, y noswaith hono, yn nhŷ ei athraw, y Parch. Thomas Lloyd, gofynodd Mr. Owen Williams iddo,—Pa beth oedd am wneyd, ac i ba le yr oedd ar fedr myned, wedi gadael yr ysgol? Atebodd yntau, nad oedd yn gwybod yn iawn; nad oedd wedi dyfod i un penderfyniad gydâ golwg ar hyny; a'i fod, yn wir, mewn cryn betrusder yn ei gylch. Wedi cryn lawer o ymddiddan, dywedodd Mr. Owen Williams wrtho, "Beth a fyddai i chwi wneyd fel y gwnaethum i, a myned i'r Amwythig, at Lyfr-rwymydd parchus yno, i ddysgu y gelfyddydd o rwymo llyfrau? Nid ydyw y gwaith mewn un modd yn anhawdd, at wasanaeth cyffredin gwlad; ac ni chymmerai lawer o amser i

chwi i'w ddysgu, ond i chwi ymroi o ddifrif ato. Chwi a allech, ar ol darfod yn yr Amwythig, ddyfod yma i Abergele, neu fyned i ryw le arall a fyddai fwy dewisol genych, ac ymsefydlu gydâ'r alwedigaeth o rwymo llyfrau, a gallech yn hawdd iawn ychwanegu gwerthu llyfrau at hyny; ac nid oes dim amheuaeth na allech chwi wneyd bywioliaeth gysurus. Chwi a allech fyned i'r lleoedd a fynech ar y Sabbothau i bregethu, ac ar ambell daith yn awr ac yn y man, trwy y gwahanol Siroedd. Ac nid oes dim gwaith llawer mwy cydweddol â'r weinidogaeth, oni b'ai i chwi fyned i gadw ysgol, fel Mr. Llwyd yma. A chwi a fyddech yn llawer iawn mwy rhydd nag ydyw efe." Fe'i cymmerwyd ef ei hunan i fynu ar unwaith gan yr awgrymiad; ac yr oedd Mr. Lloyd, ei athraw, yntau hefyd, yn tybied yn sicr fod yr hyn a ddywedid yn teilyngu sylw. Cytunasant â'u gilydd, pa fodd bynnag, mai y peth goreu a allai efe wneuthur oedd, myned ei hunan i'r Amwythig, ac ymgynghori â'r cyfeillion yno, a chael gweled a barnu drosto ei hun. Fe dynwyd cyhoeddiad iddo, yn y fan a'r lle, i bregethu mewn rhyw leoedd ar hyd y ffordd i'r Amwythig, ond gan gadw y bwriad oedd ganddo mewn golwg yn hollol iddo ei hunan, hyd nes y gwelai y cyfeillion yno, ac y byddai wedi dyfod i benderfyniad arno. Yn mhen ychydig ddyddiau efe a aeth adref, i'r Cae Du, i ymgynghori â'i dad ac â'i fam; ac yr oeddent hwythau yn edrych gydâ chymmeradwyaeth ar yr amcan, ac annogent ef i wneyd y prawf. Ac felly fe aeth i'r Amwythig. Yr oedd yr hysbysrwydd a gafodd yn nghylch y gŵr y cyfeiriasid ef ato, mor foddlonol, fel y penderfynodd ymsefydlu yno, er mwyn yr amcan oedd ganddo ar y pryd mewn golwg. A dyna Henry Rees yn gadael Sir Ddinbych, ac yn wir, o ran trigiannu ynddi, yn gadael *Cymru* am byth! Yr oedd yn anmhosibl i Gyfarfod Misol Sir Ddinbych gael colled fwy, er na feddylid nemawr am hyny, fe allai, ond gan ychydig ar y pryd, nag a gafodd trwy ei ymadawiad ef; tra, o'r tu arall, nas gall fod dim amheuaeth na throes hyny allan yn fendith annhraethadwy i Gymru i gyd, ac yn wir i genedl y Cymry, i fesur mawr, dros wyneb yr holl ddaear.

# PENNOD V.

*O'i fynediad i'r Amwythig, hyd ei Neillduad i'r holl waith:—*
1821—1827.

Ei fynediad yno—Lletty cysurus—Derbyniad serchog gan yr eglwys fechan yn y lle—Pregethu yn gyson iddynt—Llythyrau o'i eiddo—Cymdeithasfa y Drefnewydd, 1822—Myned i'r ysgol i Dorrington cyn dychwelyd yn ol, fel y bwriadai, i Sir Ddinbych—Cael gwahoddiad i ymsefydlu yn yr Amwythig—Yn cydsynio a'r ammodau—Cyfarfod a rhai o ysgrifeniadau Dr. Owen—Dylanwad daionus y rhai hyny arno fel Cristion, ac fel pregethwr—Ei adroddiad ef ei hunan o'r amgylchiad—Cymdeithasfa y Drefnewydd—Mr. Ebenezer Richard yn ei wrando y tro cyntaf—Cymdeithasfa Dolgelley, 1822—Mr. Elias yn ei wrando am y tro cyntaf—Rhoddi cyhoeddiad i Mr. Elias i fyned trwy Sir Fon—Yr awdwr yn ei wrando am y waith gyntaf yn Nghaergybi—Ei destyn a'i bregeth—Cymdeithasfa Llanfyllin, 1823—Cael ei bennodi i fyned i Lundain—Cymdeithasfaoedd Machynlleth, Pwllheli, a Dolgelley, 1823—Ei ymweliad cyntaf a Liverpool, 1824—Adgofion Mr. Roberts, Hope Street, am dano—Cymdeithasfaoedd y Bala, ac Amlwch, 1824—Ei ymweliad cyntaf a'r Deheudir—Cymdeithasfa Llangeitho—Oedfa hynod i Mr. Lloyd, Beaumaris yno—Cymdeithasfaoedd 1825, 1826—Ymweliad a Llundain yr ail waith—Llythyrau o'i eiddo oddiyno—Adeiladu capel newydd yn yr Amwythig—Agoriad y capel, y Nadolig, 1826—Yn cael ei ddewis i'w ordeinio gan gyfarfod misol Sir Drefaldwyn—Ymddyddan ag ef gyda golwg ar hyny yn Nghymdeithasfa Llanfair Caereinion—Ei ordeiniad yn Nghymdeithasfa y Bala, 1827.

PETH poenus iawn i ni ydyw methu penderfynu, gydâ manylder, amseriad neillduol y gwahanol amgylchiadau a gofnodir genym; ac yr ydym yn fynych yn gorfod teimlo felly, gydâ golwg ar ddygwyddiadau bywyd gwrthddrych parchedig ein Cofiant, yn y blynyddoedd hyn. Yr oedd efe ei hunan yn nodedig o ddiofal yn nghylch cofnodi dyddiad pennodol unrhyw symmudiad o'i eiddo; ac nid oes genym ninnau ddim i'w wneuthur, yn niffyg gwybodaeth fanylach, ond dyfalu goreu y gallwn, oddiar yr hyn sydd adnabyddus i ni. Felly y rhaid i ni wneyd gydâ golwg ar y cyfnod presennol. Nid oes genym un sicrwydd am yr adeg neillduol y gadawodd Abergele, ac y symmudodd i'r Amwythig. Yn ol "Llyfr y Cofnodau," y cyfeiriasom ato fwy nag unwaith, yr ydym yn cael mai nos Iau, Mehefin 14, 1821, oedd y tro diweddaf iddo ddechreu y cyfarfod eglwysig yn Abergele. Ac wrth lythyr o'i eiddo ef ei hunan, a ddodir i mewn genym yn fuan, yr ydym yn cael ei fod Hydref 30, 1821, yn yr Amwythig, ac wedi bod yno, dybygid, am beth amser; fel y *rhaid ei fod wedi symmud yno,* rywbryd *rhwng* Mehefin 14, a Hydref 30. Yr oedd y cyfarfod Mehefin 14, yr wythnos o flaen Cymdeithasfa y Bala, yr hon a gynhelid y flwyddyn hono, Mehefin 18, 19, 20, 21. Y mae braidd yn sicr iddo fyned i'r Bala, canys ni a'i clywsom ef ei hunan yn dywedyd, na byddai byth yn colli yr un o'r Cymdeithasfaoedd yno, y blynyddoedd hyny; ac y mae yn lled debyg iddo ddychwelyd oddiyno i Abergele hyd nes y byddai yr ysgol yn tori dros wyliau yr haf. A dichon mai rhyw bryd yn Gorphenaf, y daeth Mr. Owen Williams ar ei daith i Abergele, ac y cymmerodd yr ymddyddan le a arweiniodd i'w ymadawiad ef i'r Amwythig. Yr ydym yn cael fod ei dad yn Abergele, ac yn dechreu y cyfarfod eglwysig yno, nos Iau, Medi 6, 1821. Nid ydyw yn anmhosibl, yn sicr, nas gallai efe fod wedi myned yno ar ymadawiad ei fab oddiyno, fel ag i wneyd adeg ei ymadawiad yn ddiweddarach na'r hyn a nodwyd genym eisoes: ond yr ydym yn tueddu i dybied fod tôn y llythyr cyntaf sydd genym o'i eiddo at ei gyfaill yn Abergele, yn hytrach yn arwyddo fod mwy o amser wedi myned heibio, er pan y symmudasai, nag a allwn gael rhwng y dyddiau a nodir yn Medi a Hydref.

Pa fodd bynnag wedi cyrhaedd yno, fe gytunodd, ar ryw ammodau, â'r gŵr y cyfeiriasid ef ato i'w addysgu yn y gelfyddyd o rwymo llyfrau, gydâ'r dealltwriaeth o'i fod i gael ei ryddhau oddiwrth yr angenrheidrwydd o fod yn y gweithdŷ, oddieithr pan y byddai yn dewis ei hunan, ar y dyddiau Sadwrn a'r Llun. Y mae'n ymddangos iddo hefyd, yn lled fuan ar ol ei fynediad yno, ddyfod i ryw gytundeb â'r cyfeillion crefyddol yno, i bregethu iddynt am ddau Sabboth yn y mis, a bod gydâ hwynt yn y cyfarfodydd eglwysig wythnosol; a'u bod yn addaw iddo ei gynhaliaeth a'i letty, tra y byddai yno, yn gydnabyddiaeth am y gwasanaeth hwnw. Nid oedd hyny, y mae'n wir, ond ychydig iawn; eto wrth ystyried nad oedd yr eglwys ond bechan, tua 35 o aelodau, a chan mwyaf mewn amgylchiadau lled gyffredin; ac yn enwedig pan y cofiwn am y syniadau isel a ffynent braidd yn gyffredinol y pryd hyny yn ein plith, gydâ golwg ar gynhaliaeth y weinidogaeth, yr oedd yn well nag a allesid braidd ddysgwyl. Yr oedd o'r dechreu yn lletya gydâ Mr. Hugh Griffiths, yn Barker-street; yr hwn a ddaethai i'r dref tuag ugain mlynedd o'i flaen ef, ac oedd yn un o flaenoriaid yr eglwys, ac yn gwneuthur ei ran yn dda yn mhlaid yr achos yn y lle. Cafodd yno y lletty mwyaf cysurus a allasai gael. Yr oedd Mr. a Mrs. Griffiths yn teimlo y serchawgrwydd mwyaf tuag ato, ac yn gofalu am dano fel pe buasai yn fab iddynt eu hunain. Buasai yn dda iawn genym, pe gallasem ddodi ger bron y darllenydd adroddiad manwl a llawn o'i hanes, y misoedd cyntaf hyn yn yr Amwythig;—ei deimladau gydâ golwg ar y gelfyddyd newydd yr oedd yn awr yn ceisio ei dysgu, ac yn enwedig ei brofiad fel pregethwr, wedi ei gael ei hunan dan yr angenrheidrwydd, yn ngwyneb y fath anfanteision, i bregethu mor fynych i'r un bobl, a'i deimlad yn enwedig yn y cysylltiad newydd yr oedd mewn rhan wedi ei ddwyn iddo â Chyfarfod Misol Sir Drefaldwyn. Eithr nid oes genym ddefnyddiau at y fath adroddiad, ac felly nis gallwn gynnyg arno. Pa fodd bynnag, yn nghanol y tywyllwch sydd yn awr am rai misoedd yn ei gylchynu, y mae yn dda genym gael y llythyr canlynol, yr hwn sydd odditan ei

law ef ei hunan, yn taflu pelydryn o oleuni ar ei hanes ac ar ei brofiad, yn y cyfwng presennol. Dyma y llythyr cyntaf sydd ar gael a ysgrifenwyd ganddo erioed. Fe'i cyfeiriwyd at ei gyfaill mwyaf mynwesol y pryd hwnw, ac un o'i gyfeillion anwylaf tra y bu byw,—Mr. Thomas Lloyd, Ty Mawr, gerllaw Abergele. Wele y llythyr:—

"Barchus frawd yn yr Arglwydd,

"'Trugaredd i chwi, a thanguefedd, a chariad, a liosoger.'

"Yr ydwyf, oddiar hen fwriad a hiraeth, yn ysgrifenu hyn o "linellau atoch, wedi hir ddisgwyl am lythyr oddiwrthych chwi. "Yr ydwyf yn barnu, oddiar amryw bethau, y buasai yn haws i "chwi ysgrifenu na myfi. Mae eich dawn yn rhwyddach, a'ch "llaw yn gyflymach; ond myfi, yn y diwedd, a gâdd flaenori yn "hyn o weithred dda. Am helynt fy amgylchiadau, a'r mater "rhyngof â'm cyfeillion yma, yr ydwyf yn hyderu eich bod yn "wybyddus. Ni ddywedaf fwy am hyny yn bresennol, ond fy "mod yn gobeithio i'r Arglwydd fy nghyfarwyddo yn mhob "peth. Yr ydwyf yn gweled angenrheidrwydd am adnewydd-"iad yr Yspryd Glân ar fy enaid yn barhaus. O! fel y mae fy "llygredigaethau yn cynyddu, gwrthgiliad yn ymdaenu fel pen-"wyni ar hyd-ddof, pan y bydd fy yspryd yn ddidriniaeth. Pa "ddaioni a wnaf, pa ddrwg nis gwnaf, os gedy Ysbryd yr Ar-"glwydd fi? Ië, pe gadawai fi yn hollol, byddai yn drugaredd i "Gymru gael ymadael â mi; ac ni byddwn ond cwmwl a niwed, "lle bynnag y byddwn. Ond y mae edrych ar yr addewidion am "dano, a'r cyffelybiaethau trwy ba rai y mae, yn ei oruchwyl-"iaethau, yn cael ei osod allan yn y gair, yn ddymunol gan fy "enaid weithiau.

"Cyffelybir ef i *Dân*. O! y mawr angen sydd ar fy enaid "am gael profi ei oruchwyliaethau tanllyd, i wresogi fy nghalon "oer, ac i ddifa fy llygredigaethau cryfion. Nid wyf yn "cyflawni un ddyledswydd grefyddol nad ydyw y pryfaid yma "yn cerdded ar hyd-ddynt oll, fel yr adar yn disgyn ar aberth "Abraham gynt; ac yr ydwyf fi, yn wir, yn rhy euog o "esgeuluso eu tarfu. Ond o na byddai i'r Lamp Danllyd yma

"dramwyo trwy fy holl enaid. Diolch iddo am addaw 'carthu "budreddi (ië, synwn! y fath berson yn addaw 'carthu "*budreddi*!) merched Sion, mewn ysbryd barn, ac mewn ysbryd "llosgfa.' Nis gallaf ddefnyddio Crist os byddaf yn ddieithr i "oruchwyliaethau yr Yspryd Glân; ac nis gallaf fyw yn dduwiol "heb ddefnyddio Crist. 'Byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu.' "Bod ynddo ef yw gwreiddyn byw yn dduwiol; a thrwy fyw "arno a gwneuthur defnydd o hono, y daw grym i'r enaid i fyw "iddo. 'Ni all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys "yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch "ynof fi. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, "hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer.' Edrychwn ar fywyd yr "Apostol Paul. O'r fath zel a chariad oedd yn ei enaid ef at "Grist a'i achos; y fath rym a gwroldeb i dori trwy rwystrau a "pheryglon; ïe, nid gwerthfawr oedd ganddo ef ei einioes ei "hun. O! y fath oes goronog a ffrwythlawn oedd ei oes ef. "Ond pa fodd yr oedd hyny yn bod? Efe a ddywed i ni ei "hunan:—'Yr hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, "ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw.' Gweddïwch trosof. "Cofiwch fi at eich teulu, yn nghyd a'm holl gyfeillion. Hyn o "linellau a ysgrifenwyd o'r Amwythig, Henry Rees.

"Hydref 30, 1821. Ysgrifenwch ataf ar frys, i ofal Mr. Hugh "Griffiths, Barker Street."

Fe welir fod y llythyr hwn, er yn llawer llai addfed na'i gyfansoddiadau diweddarach ef, eto yn amlwg yn dwyn delw yr awdwr: ac yn arbenig felly yn ei ymdeimlad dwfn â llygredigaeth ei galon, a'r argyhoeddiad, â'i meddiannai yn wastadol, o'r angenrheidrwydd am ddefnydd ffydd o Grist Iesu fel unig foddion ei farweiddiad. Y mae yn hawdd iawn gweled ynddo hefyd fod sylw wedi bod ar ei ddyfodol ef, a bod Mr. Lloyd wedi arwyddo awydd, fel yr ydym yn gwybod y teimlai yn ddwys, am iddo ymsefydlu yn Nghymru.

Yr oedd yn awr yn lled ddyfal, yn ystod yr wythnos, yn dysgu y gelfyddyd yr oedd wedi dyfod i'r Amwythig o'i herwydd, ac yn pregethu yno am ddau Sabboth yn y mis; gan

fyned am y Sabbothau ereill i Groesyswallt, a rhanau isaf Sir Drefaldwyn, ac, weithiau, i rai lleoedd, yn y cyrau agosaf ato o Siroedd Dinbych a Fflint. Nid rhyw lawer o gynnydd a wnaeth fel llyfr-rwymydd. Fel y dywedodd ei frawd, yn ei bregeth angladdol iddo,—"Yn lle iddo ef rwymo llyfrau, rhwymodd y llyfrau ef." Ni a glywsom fod y gŵr yr aethai ato yn dywedyd am dano, y gallasai ddysgu y gwaith yn bur dda, pe buasai yn rhoddi ei feddwl arno; ond nad oedd modd ei gael i hyny; na wnïai yr un ddalen wrth y llall, yn y llyfr a fyddai ganddo i'w rwymo, heb iddo ei darllen yn gyntaf. Yr ydym yn tueddu i dybied mai dyna y gwirionedd, ond ei fod yn cael ei osod allan mewn gwedd braidd yn eithafol. Yr oedd holl feddylfryd ei galon ef ar bregethu, ac nid oedd ganddo feddwl i'w ddodi ar ddim arall. Pa fodd bynnag, erbyn tua canol Mawrth, 1822, yr oedd efe yn tybied ei fod wedi gwneyd y fath gynnydd yn y gelfyddyd fel ag y gallai fyned rhagddo gydâ hi, yn ngwaith cyffredin gwlad, yn Abergele, neu yn mha le bynnag arall yr ymsefydlai. Y mae yn ddigon tebyg fod rhyw ddirgel feddwl na byddai iddo byth ymroddi llawer iddi, na dibynu llawer arni, yn dylanwadu rhyw gymmaint arno er ei ddwyn i'r fath benderfyniad. Ac felly yr oedd ar ddychwelyd i Gymru. Eithr cyn hyny yr oedd yn awyddus iawn am gael ychydig ychwaneg o ddysg yn enwedig yn yr iaith Saesonaeg, fel ag i fod nid yn unig yn alluog i'w darllen a'i deall, ond i allu ei siarad ac ysgrifenu ynddi. Yr ydoedd, er pan y daethai i'r Amwythig, wedi gorfod ei siarad, fel y gallai, â'r gŵr yr oedd yn aros gydâg ef, yn gystal a chydâ'r gweithwyr ereill ag oeddent yno; ac yr oedd Mr. a Mrs. Griffiths, gydâ y rhai y lletyai, pan yn siarad âg ef, yn cadw braidd yn gwbl at y Saesonaeg tra y byddent gydâ phethau cyffredin, eithr can gynted ag y trïai yr ymddyddan at grefydd, yr oeddynt hwythau yn teimlo yn gwbl oddicartref ond yn yr hen Gymraeg. Yr oedd y Saesonaeg, trwy yr ymarferiadau hyny, wedi dyfod yn llawer rhwyddach iddo nag ydoedd pan y daethai i'r Amwythig gyntaf; ac eto, gan ei fod yn awr yn Lloegr, ac ar fin ei gadael, fel y tybiai, am byth, yr

oedd yn teimlo fod yn resyn iddo golli y cyfleusdra, i ennill meistrolaeth lwyrach a hollol ar ei hiaith. Yn ffodus, yn Dorrington, lle tua deng milldir tu hwnt i'r Amwythig, ar y ffordd i Ludlow, yr oedd Cymro o'r enw Mr. Beynon, yn weinidog gydâ'r Annibynwyr, ac yn cadw ysgol hefyd yn y lle. Yr oedd cymeriad da i'r ysgol, a byddai rhai pregethwyr ieuainc yn myned yno, er eu parotoi eu hunain i fyned i ryw Athrofa, neu, ynte, am yr holl addysg a fwriadent gael. Fe benderfynodd Mr. Henry Rees fyned yno dan addysg Mr. Beynon, am ryw gymmaint o amser cyn ymadael am Gymru, yn ol y bwriad oedd ganddo ar y pryd. Yr oedd yn gallu gwneuthur hyny a pharhau i bregethu yn yr Amwythig, am y Sabbothau y dysgwylid ef; ac, yn achlysurol, fe elai yno i'r cyfarfod eglwysig wythnosol. Oddieithr hyny nid oedd yn llafurio dim ar y Sabbothau tra y bu yn Dorrington. Nid ydym yn hollol sicr o'r amser yr aeth yno, ond yr oedd yn niwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill, 1822. Y mae y llythyr nesaf, pa fodd bynnag, sydd genym o'i eiddo, yn un a ysgrifenwyd ganddo oddiyno. Fe gyfeiriwyd y llythyr hwn hefyd, fel yr un blaenorol, at Mr. Thomas Lloyd, Ty Mawr, Abergele. Rywfodd fe argraphwyd y llythyr yn hen "*Oleuad Cymru,*" am Gorphenaf, 1822, Llyfr ii., tudalen 474. Nid ydym yn gwybod pa fodd y dodwyd ef yn y *Goleuad.* Y tebygolrwydd ydyw i'r Parch. John Parry, Caerlleon, dan olygiad yr hwn y dygid y *Goleuad* allan, ddygwydd ei weled pan yn Abergele, a deisyf ei gael i'w gyhoeddi. Y mae yn sicr, pa fodd bynnag, iddo gael ei argraffu yn hollol ddiarwybod i'r awdwr; canys yr ydym yn ei gael mewn Ol-ysgrif i'w lythyr nesaf, yn dywedyd ei fod yn teimlo y dylai fod yn lled ochelgar pa beth a ysgrifenai, yn gymmaint a'i fod yn gweled fod perygl hyd yn nod i lythyrau cyfeillgar ymddangos ar wyneb y Llawn Leuad. Ond ni a ddodwn y llythyr i mewn yma, megis ag y cawn ef yno:—

"GAREDIG GYFAILL,—Yn ol fy addewid, yr wyf yn anfon hyn "i'ch hysbysu fy mod yn gysurus iawn yn fy sefyllfa bresennol, "yr hon sydd fro brydferth a dymunol. Mae fy Ysgol-feistr yn

"Weinidog yr efengyl. Am fy nghyrhaeddiadau yn yr iaith "Saesoneg, bydd yn ddigon buan i mi eich hysbysu pan welwyf "chwi. Pan edrychwyf o'm hamgylch yn y wlad harddwiw "hon, a sylwi ar dyfiad cyflym llysiau a ffrwythau y ddaear, yr "wyf yn cywilyddio gan mor lleied yw fy nghynnydd i yn fy "ngorchwylion presennol, a'm hastudiaeth; ond yn enwedig "mewn pethau ysbrydol; sef sancteiddrwydd, gostyngeidd-"rwydd, a zêl dros ogoniant Duw. Mi a ddymunwn i'r ystyr-"iaethau hyn am danaf fy hun, gael effeithiau daionus arnaf, a "chynhyrfu fy meddwl i fod yn fwy diwyd yn yr ymarferiad "o bob moddion appwyntiedig; ac i fod yn fwy difrifol wrth "orsedd gras am i'r Arglwydd roddi ei fendith i gyd-fyned a'm "hymdrechiadau, fel y byddo'm cynnydd yn eglur i bawb. Mae "yn gweddu i ni roddi pob diwydrwydd yn wastadol, er na b'o "ein cynnydd ond bychan, a'n tŵf ond anamlwg. Fe'm dysgir "yn y wers bwysfawr hon, pan edrychwyf ar y gwenyn sydd ar "gyfer ffenestr fy myfyrgell; nid ydynt yn pallu yn eu llafur, "er nad ydynt yn gallu adeiladu eu tŷ, a'i lenwi o luniaeth "mewn ychydig amser; ond y maent, ddydd ar ol dydd, yn "gwibio o'r cŵch i'r blodau, ac o'r blodau i'r cŵch. Dymunwn "allu ystyried eu ffyrdd, a bod yn ddoeth.

"Y mae yn ddrwg genyf glywed am gynnifer o siamplau o "anwadalrwydd a chyfnewidioldeb y byd hwn. O na ba'i "yr hyn oll yr ydym yn ei glywed, yn ei weled, ac yn ei brofi, "o'i wagter a'i ddiddymdra, yn diddyfnu ein meddyliau a'n "serchiadau yn fwy oddiarno, ac yn eu sefydlu ar Grist a'i "lawnder anhysbydd. Mae bywyd y Cristion, medd Philip "Henry, yn fywyd 'yn Nghrist, ar Grist, drwy Grist, i Grist, "dros Grist, gydâ Christ.' Ac O, mor ddedwydd ydyw yn mhob "sefyllfa! Y mae yn mwynhau Duw yn mhob peth; ac yn "absennoldeb pob cysur daearol, y mae pob diffyg yn cael ei "gyflenwi gan ac yn Nuw; ac y mae yn gallu dywedyd gydâ'r "prophwyd Habaccuc:—"Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na "byddo ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olewydd a balla, a'r "maesydd ni roddant fwyd; torir ymaith y praidd o'r gorlan, ac

"ni bydd eidion yn eu beudai; eto mi a lawenychaf yn yr "Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth.'— "Gydâ'm gwasanaeth at fy holl gyfeillion, Ydwyf yr eiddoch, &c.,

"Mai 22, 1822. HENRY REES."

Arhosodd yn Dorrington hyd Gymdeithasfa y Bala, yr hon a gynhelid y flwyddyn hono, Mehefin 10, 11, 12, 13; i'r hon yr aeth. Yn hono y pregethodd y diweddar Barch. John Hughes, o Wrexham y pryd hyny, am y tro cyntaf yn Nghymdeithasfa y Bala, a hyny y nos ddiweddaf, yn y Saesonaeg, oddiar Actau viii. 39; o flaen y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, a'r Parch. Thomas Jones, Caerfyrddin. Fe aeth Mr. Henry Rees o'r Bala i Lansannan, i ymweled â'i rieni, lle hefyd y pregethodd y Sabboth canlynol, Mehefin 16; a'r wythnos hono fe ddychwelodd i'r Amwythig. Yr oedd wedi llawn fwriadu, ac wedi addaw, myned i Abergele, i ymweled â'i gyfeillion yno, cyn dychwelyd i'r Amwythig, ond fe'i lluddiwyd yn ei amcan. Ymddengys fod hyny wedi peri peth pryder iddo, gan ofn ei fod wedi tristau ei gyfeillion yno. Y mae y llythyr nesaf sydd genym o'i eiddo, yn ymesgusodiad am y siomedigaeth a barodd iddynt; ac yn arwyddo ei fod yn dra anmhenderfynol gydâ golwg ar y dyfodol, ac eto yn ymddiried i arweiniad ei Dad nefol. Fe ysgrifenwyd y llythyr yn y Saesonaeg; ac y mae yn dangos ei fod wedi gwneuthur cynnydd da iawn yn yr iaith hono, ac yn gallu ysgrifenu yn lled gywir ynddi. Yr un pryd, yr ydym yn tybied mai gwell i ni yma roddi cyfieithiad o hono, gan y cawn eto ddigon o gyfleusderau i'w gyfarfod yn y Saesonaeg, pan wedi ennill meistrolaeth lwyrach arni. Wele y llythyr:—

"Amwythig, Gorphenaf 13, 1822.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf yn awr yn cymmeryd fy ysgrifell "i anfon atoch ychydig linellau, gan obeithio y cyfarfyddant â "chwi ac â'r eiddoch yn iach ac yn gysurus. Chwi a wyddoch "fy mod wedi llawn fwriadu dyfod o'r Bala i Abergele, fel yr "addewais i chwi; ac yr wyf yn ofni yn fawr fy mod wedi dol-

"urio eich teimladau chwi a theimladau fy nghyfeillion ereill "yna, trwy dori yr addewid hono. Fy amcan penaf yn y llythyr "hwn yw hysbysu i chwi pa fodd y bu. Chwi a wyddoch nas "gallaswn aros am Sabboth arall, gan nad oedd gan fy nghyfeill-"ion yn yr Amwythig neb i'w gwasanaethu am y diwrnod "hwnw. Ac hefyd yr oedd y cyfeillion yn Llangollen wedi "addaw i mi, os arhoswn yno am noswaith wrth ddychwelyd, yr "ymdrechent gael rhydd-gludiad i mi oddiyno, gydâ'r cerbyd i'r "Amwythig, yr hon addewid ni's cyflawnwyd, mwy na'r eiddof "finnau i chwithau. Yr oeddwn yn meddwl dyfod i Abergele "ddechreu yr wythnos hono, ac oddiyno i Langollen. Ond ni "fynai fy rhieni o gwbl i mi eu gadael mor fuan. Trwy hyn "chwi a welwch fy mod yn teimlo yn anhawdd gwybod pa gam "i gymmeryd, neu pa beth a wnawn. Yr ydwyf yn gobeithio, "gan hyny, yr esgusodwch fi; a byddaf yn dra diolchgar i chwi, "os byddwch mor garedig a gwneuthur a alloch i symmud "ymaith bob teimlad a allai fod wedi ei achlysuro yn mhlith fy "nghyfeillion. Os arbedir fi i ddyfod i Gymru unwaith eto, mi "a ymdrechaf wneyd llawn iawn am y cwbl. Byddaf bob "amser yn teimlo mwy o ofid a thrallod, pan yn ofni y byddaf "wedi gwneuthur rhywbeth i ddolurio cyfaill, nag a fyddaf byth "yn deimlo pan wedi fy nolurio gan gyfaill.

"Y mae genyf lawer o bethau ag y byddai yn dda genyf gael "ymgynghori â chwi o berthynas iddynt, yn enwedig yn nghylch "fy amgylchiadau presennol. Yr wyf yn parhau yn awyddus i "gyrhaedd yr amcan oedd genyf mewn golwg yn nechreu fy "ngorchwylion presennol a'm hastudiaeth. Eto nis gwn beth "fydd y canlyniad: ac, yn wir, pan edrychaf yn mlaen, y mae "yn ymddangos yn dywyllwch hollol. Nid ydwyf yn gwybod "pa beth i'w wneuthur, na pha le i fyned. Eto yr ydwyf, "weithiau, yn cael fy ngalluogi i ddywedyd, 'Nid fy ewyllys i, "ond yr eiddot di a wneler.' Yma yr wyf yn cael fy meddwl "yn dawel. Mi a ddymunwn, yn mhob amgylchiad, fod yn fwy "marw i'm hewyllys fy hun, ac yn fwy ewyllysgar i gymmeryd "fy arwain gan law Duw, a dilyn olwynion ei ragluniaeth ef, y

"rhai sydd yn llawn llygaid oddiamgylch. Mi a sylwais, "weithiau, ar rai dynion deillion, yn ymddangos yn foddlawn "ac yn siriol, pan nad oedd ganddynt ond eu cŵn i'w harwain; "pa faint mwy boddlawn a thawel, ynte, a ddylem ni fod, y "rhai y mae genym addewid am ddoethineb anfeidrol i'n har-"wain? 'Cyfarwyddaf di' (medd yr Arglwydd), 'a dysgaf di yn "y ffordd yr elych: â'm llygad arnat y'th gynghoraf.' 'Arwein-"iaf y deilliaid ar hyd ffordd nid adnabuant; a gwnaf iddynt "gerdded ar hyd llwybrau nid adnabuant; gwnaf dywyllwch "yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn.' Gan "hynny, fy anwyl gyfaill, gadewch i ni, yn mhob amgylchiad, "ac yn ngwyneb pob profedigaeth, wneuthur Duw ein prif "gynghorwr; ei Air ein prif Rëol; ei Ogoniant ein prif ddiben; "a gweddi ein prif ymarferiad.

"Byddwch cystal a rhoddi fy nghofion caredicaf i'm holl "gyfeillion.

"Yr eiddoch yn gywir, HENRY REES."

Nid oes genym unrhyw sicrwydd am yr amser yr arhosodd yn Dorrington yn yr ysgol; ond yr ydym yn tybied na fu yno ond ychydig, os dim, wedi ei ddychweliad o'r wlad ar ol Cymdeithasfa y Bala y pryd hwn: ni bu yno, pa fodd bynnag, ond yn dra annghyson, gan ein bod yn gallu ei ddilyn ar ol hyn, yn fynych iawn, i Gymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Pregethu, trwy wahanol Siroedd Gogledd Cymru, yr hyn a fuasai yn anmhosibl iddo pe yn gyson yn yr ysgol. Yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynnal yn y Drefnewydd, Gorph. 30, 31, 1882. Yr hyn a elwid yn Gymdeithasfa Gynnorthwyol oedd hono; yr hon a gynhelid yn flynyddol y pryd hyny, ac am flynyddoedd ar ol hyny, yn y naill le neu y llall, ac a feddiannai holl awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol. Yr ydym yn cael ei fod ef yn y Gymdeithasfa hono yn y Drefnewydd, ac yn pregethu ynddi, am chwech ar y gloch y boreu; y tro cyntaf erioed iddo bregethu mewn Cymdeithasfa. Gan fod yn ein cyrhaedd Adroddiad am Drefn y Moddion cyhoeddus yn y rhan fwyaf o'r

Gymdeithasfa hono, a bod arbenigrwydd neillduol yn perthyn iddi yn ei chysylltiad â gwrthddrych ein Cofiant, dichon mai nid annyddorol gan ein darllenwyr fyddai cael golwg arno, ac felly ni a'i dodwn i mewn yma:—Y nos gyntaf, dechreuwyd gan Mr. Evan Evans, Llangeitho, a phregethodd Mr. John Jones, Treffynnon, oddiar Matt. v. 20, a Mr. Ebenezer Richard, oddiar Matt. xxii. 5. Drannoeth, am chwech ar y gloch y boreu, dechreuwyd gan Mr. Richard Williams, Bryn Engan, a phregethodd Mr. Henry Rees, oddiar Nehemiah iii. 5. Am ddeg ar y gloch, dechreuwyd gan Mr. Foulk Parry, Croesyswallt, a phregethodd Mr. William Roberts, Clynnog, oddiar Genesis xxxix. 9, a Mr. John Roberts, Llangwm, oddiar Hosea xi. 9; a Mr. David Morgan (Trallwm wedi hyny) yn y Saesonaeg rhyngddynt, oddiar Pregethwr xii. 1. Am ddau ar y gloch, dechreuwyd gan Mr. David Morgan, a phregethodd Mr. John Prytherch, Môn, oddiar Deut. xxii. 8, a Mr. Ebenezer Richard, oddiar Matt. xxii. 7; a Mr. Owen Jones, Gelli, yn y Saesonaeg rhyngddynt, oddiar Phil. i. 6. Nid ydyw ein hadroddiad yn cyrhaedd yn mhellach, ac felly nis gwyddom pwy a bregethent yn yr oedfa yr hwyr. Y mae genym ryw adgof i ni glywed mai Mr. John Jones, Treffynnon a Mr. John Roberts, Llangwm, oeddent. Eithr y cyfarfod arbenig yn y Gymdeithasfa hono oedd y cyfarfod am chwech ar y gloch y boreu. Ac yn ol pob tystiolaeth, yr oedd hwnw, mewn gwirionedd, yn gyfarfod hynod iawn. Yr oedd y fath sôn am y pregethwr fel ag yr oedd y Capel, yr hwn oedd wedi ei agor yr Ebrill cyn hyny, yn orlawn; ac yr oedd y pregethwyr, yn hen ac yn ieuainc, wedi gofalu am fod yno yn brydlon i'w wrandaw. Ac yr oedd pawb o dan y teimladau dwysaf, a wylo cyffredinol trwy y lle; a rhai wedi colli pob meddiant arnynt eu hunain, yn tori allan i waeddi dros y Capel. Dyma y tro cyntaf i Mr. Ebenezer Richard ei glywed, ac fe'i gorchfygwyd yn hollol ganddo. Wrth fyned tua'r tŷ yn yr hwn y lletyai, yr oedd fel gŵr wedi synu, ac ni ddywedai ddim, ond "Dyna bregethwr! dyna bregethwr!" a thra y bu byw yr oedd iddo y lle uchaf yn ei feddwl.

Yn mhen ychydig wythnosau ar ol hyn, tua diwedd mis Awst, yr oedd mewn Cyfarfod Pregethu yn Llanbrynmair, ar ei ffordd i Gymdeithasfa Machynlleth. Pregethodd yn Llanbrynmair oddiar Ioan xvii. 18. Y mae y bregeth, fel ag yr ysgrifenwyd hi mewn llaw fer wrth ei gwrando, i'w gweled yn yr ail gyfrol o'r "*Gofadail Fethodistaidd*," tudal. 339—349. Er na cheir ynddi yr un eangder a manylder a choethder, ag a geir yn ei bregethau diweddarach, eto y mae yn arddangos mesur helaeth o'r un dwysder teimlad. ac o'r un difrifoldeb ysbryd, ag a'i meddiannai hyd ddiwedd ei oes. Nid oes genym ddim o hanes y Gymdeithasfa yn Machynlleth y flwyddyn hono, fel nas gwyddom pa un a oedd yn pregethu ynddi ai nid ydoedd. Y tebygolrwydd, pa fodd bynnag, ydyw ei fod.

Tua mis Medi, y flwyddyn hon (1822), fe ddarfu i'r cyfeillion, yn yr Amwythig, wneuthur cais ffurfiol arno i ymsefydlu yn eu plith hwy fel gweinidog iddynt. Yr oedd hyny yn eu meddwl hwy er ys amryw fisoedd, ac yn enwedig felly yn meddwl Mr. a Mrs. Griffiths, gydâ y rhai y lletyai. Yr oeddent hwy wedi cael digon o brofion, er pan y daethai atynt, nad oedd ganddo ond ychydig flas ar rwymo llyfrau, a bod ei holl fryd ar bregethu ac ar yr efrydiau gwasanaethgar i hyny; ac yr oeddent yn teimlo yn wir awyddus am iddo gael ei holl amser at yr hyn yr oedd ei hyfrydwch ynddo, a'r hyn yr oeddent hwy mor argyhoeddedig fod ynddo y fath gymhwysderau ato. Eithr yr oeddent yn gwybod fod eu rhifedi a'u hamgylchiadau hwy fel eglwys yn gyfryw, fel nas gallent roddi iddo y gydnabyddiaeth a deilyngai, a'r hyn a gredent hwy a ddylasai gael: ac felly yr oeddent yn ofni crybwyll am y peth wrtho ef, er ei fod wedi bod, amrywiol weithiau, yn destyn ymddyddan ganddynt yn eu plith eu hunain, a'u bod yn arswydo wrth y meddwl am y posiblrwydd iddo eu gadael. Rhyw noswaith, pa fodd bynnag, fe ddywedodd ef ei hunan wrth Mr. a Mrs. Griffiths fod yr amser wedi dyfod iddo ef ymadael â hwynt; ei fod wedi penderfynu dychwelyd i Gymru, ac ymsefydlu yn Abergele fel Llyfr-rwymydd, yn ol y bwriad oedd ganddo pan ddaethai gyntaf i'r

Amwythig; er ei fod yn teimlo nad oedd ganddo ond ychydig iawn o allu at y fath waith, a llai na hyny o awydd; ond fod yn rhaid iddo, yn ol trefn y Methodistiaid, wneuthur rhywbeth at ei gynhaliaeth, ac nad oedd ganddo ef ddim arall i syrthio arno. Fe welodd Mr. Griffiths ei gyfleusdra, ac a ddywedodd wrtho, yn syml a dirodres, yr hyn yr oeddent hwy eu dau, a'r brodyr blaenaf yn y Capel, wedi bod yn meddwl ac yn siarad am dano er ys amryw fisoedd, a'r hyn a fuasent wedi gynnyg iddo ef, ond fel yr oeddent yn gweled ei fod yn llawer iawn llai na'r hyn a allasai efe ddisgwyl, er fod eu hamgylchiadau hwy ar y pryd, y fath, fel nas gallent gynnyg ychwaneg. Yr oedd y cynnygiad, pa fodd bynnag, mor gydnaws â'i dueddfryd ef, fel ag yr ydoedd ar unwaith yn barod i'w dderbyn, a rhoddi y meddwl i fynu am ddychwelyd i Gymru. Eithr nid oedd yn gweled yn iawn iddo wneuthur hyny, heb ymgynghori â'i rieni, ac â'i gyfeillion yn Abergele, y rhai oeddent eisoes wedi dechreu gwneuthur rhyw ddarpariadau gydâ golwg ar ei sefydliad yno. Y diwedd, er siomedigaeth fawr iddynt hwy, yn gystal ag i'w rieni, eithr heb ddim drwg-deimlad, fu iddo benderfynu cyd-synio â chais y cyfeillion yn yr Amwythig, ac ymsefydlu yno.

Yn ol y cytundeb rhyngddo â hwynt, yr oedd i bregethu yn y cyffredin iddynt am dri Sabboth yn y mis, ac unwaith yn yr wythnos; a gofalu am y cyfarfod eglwysig wythnosol, ac ym-weled, fel y gallai, â'r cleifion. Eithr yr ydoedd yn hollol at ei ryddid ei hunan, gydâ golwg ar fyned ar gyhoeddiad, am yr amser a fynai, i wahanol Siroedd Cymru, neu i'r trefi yn Lloegr; ac yr oeddent yn neillduol yn ei gymhell, hyd ag y gallai, i fyned i'r holl Gymdeithasfaoedd. Y cwbl a addewid iddo, am ei wasanaeth iddynt hwy, oedd *ei fwyd, ei ddillad, a'i lety.* Yr ydym yn dymuno galw sylw neillduol at y "*dillad*" a'r "*llety,*" fel rhan o'r hyn a addewid iddo, yn gymmaint a'n bod, yn ein Herthygl arno yn *Nghofiant* y Parch. John Jones, yr hon hefyd sydd yn y "*Gwyddoniadur,*" wedi dywedyd mai ei *fwyd* yn unig a addewid iddo. Yr ydym yn cofio unwaith mewn Cym-deithasfa yn y Bala, Mehefin, 1855, a Mr. Rees ei hunan yn

Llywyddu, pan oedd cenadwri wedi dyfod o Gyfeisteddfod y diaconiaid, yn galw sylw at yr angenrheidrwydd am fod mwy o ffyddlondeb a haelioni yn cael eu dangos gan yr eglwysi gydâ golwg ar gynhaliaeth y Weinidogaeth, fel ag i alluogi y pregethwyr a farner yn gymhwys i ymryddhau oddiwrth bob peth arall ac ymgysegru yn llwyr iddi,—fod y diweddar Barch. Edward Morgan wedi cymmeryd y mater i fynu, ac wedi siarad arno, gydâ'r brwdfrydedd a'r hyawdledd a hynodent ei gyfarchiadau ef ar y testynau hyny ag y teimlai eiddigedd mawr drostynt. Datganai ei fod yn llawenhau fod y fath genadwri wedi dyfod oddiwrth y Blaenoriaid: eu bod hwy yn rhy fynych, beth bynnag mewn rhai manau, wedi bod fel pe buasent yn bwriadu defnyddio eu holl ddylanwad yn erbyn pob ymdrech at hyny; ac felly yn dirymu, hyd y gallent hwy yr hyn a "ordeiniodd yr Arglwydd;' yn amddifadu yr eglwys o'u breintiau; ac yn yspeilio "y rhai sydd yn pregethu yr efengyl" o'u hiawnderau. Ond yr oedd yn gobeithio, o hyn allan, y cymmerid yr achos i fynu gan yr holl Gyfarfodydd Misol, a chan yr holl eglwysi, yn ol y penderfyniad a ddaethai oddiwrth y Blaenoriaid, ac y ceid diwygiad cyffredinol. Yr oedd Mr. Rees braidd yn ofni rhag y camgymmerai rhyw rai ystyr sylwadau Mr. Morgan, ac yn neillduol yn ofni rhag i rai o'r pregethwyr eu hunain dynu cam-gasgliadau oddiwrth y cyfeiriad a wnaethai at rai blaenoriaid, fel yn "eu hysbeilio" hwy o'u "hiawnderau;" ac felly fe gododd, ar unwaith, ac a ddywedodd mewn ysbryd a thôn tra difrifol, ac eto yn hynod o dyner, rywbeth i'r ystyr a ganlyn:—"Y mae gwirionedd mawr, a phwysig iawn i ni fel Cyfundeb, yn yr hyn sydd wedi ei draethu eisoes ar y mater hwn: ac y mae yn dda genyf fi fod sylw fel hyn, yn achlysurol, yn cael ei alw ato. Y mae yn nodedig o dda genyf fod y Blaenoriaid yn gwneyd hyny. Yr ydym ni wedi bod, am hir amser, yn rhy esgeulus o hono. Yr oedd ein pobl ni, rywfodd, fel wedi myned i feddwl nad oedd dim ond un adnod ar hyn yn yr holl Feibl: 'Derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad.' Eithr y mae yn rhaid i ni gydnabod fod cryn welliant wedi cymmeryd lle ragor nag a fu, ac mi a

obeithiaf mai parhau i wella a wnawn. Y mae y genadwri hon, a'r siarad sydd wedi bod arni, yn ymddangos i mi yn arwyddo hyny. Ond y mae ochr arall ar y mater: ac mi a ddymunwn yn arbenig i ninnau, fel pregethwyr, gofio yr hyn sydd yn ddyledus arnom ni, pa gydnabyddiaeth bynnag a wneir i ni gan yr eglwysi am ein gwasanaeth. Os ymddiriedwyd i ni am yr efengyl, y mae angenrhaid wedi ei osod arnom, a gwae fydd i ni oni phregethwn hi. Meddyliwch chwi, frodyr ieuainc, yn enwedig am hyn. Peidiwch a siarad na meddwl llawer am y tâl a roddir i chwi. Yr ydwyf fi yn gobeithio nad oes neb o honoch wedi dyfod i'r 'offeiriadaeth hon, i gael bwyta tamaid o fara.' Nid yw y Beibl yn llefaru am ddim gydâ mwy o ddirmyg nag y mae am hyny. Nid oes yr un elw, hyd ag yr wyf fi yn cofio, yn cael ei alw yn '*fudr-elw*' ond elw pregethwyr a blaenoriaid,—ïe, *blaenoriaid*, os y blaenoriaid ydyw y diaconiaid,—sydd yn gwasanaethu yn unig er mwyn arian, neu y rhai y mae dim a wnelo arian â'u cymhell at y gwaith. Cofiwch am y rhai a fuant yn yr ymddiried o'ch blaen chwi, ac o dan anfanteision lawer. 'Ereill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt.' Yr ydwyf fi yn cofio yn eithaf da, pan y sefydlais i yn yr Amwythig, nad oeddent yn addaw dim i mi ond fy mwyd a'm dillad. Oeddwn, yr oeddwn yn cael llety ganddynt. Nid ydwyf fi yn gwybod y gallasent, yn yr amgylchiadau yr oeddent ynddynt, addaw llawer ychwaneg. Eithr mi syrthiais i i mewn â'u cynnygiad, y fath ag oedd; ac nid yw yn edifar genyf. A phe gofynai y Meistr i mi heddyw, fel y gofynodd i'r dysgyblion gynt,—'Pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chôd, nac esgidiau, A fu arnoch eisieu dim?' fe fyddai raid i minnau ateb fel hwythau, 'Na ddo ddim.' Ymddiriedwch chwithau ynddo, a gofelwch yn benaf am eich gwaith, a chwi a gewch weled y gofala yntau am danoch chwithau."

Yr oedd Mr. Morgan, fel pawb ag oeddent yn bresennol, yn mwynhau y cyfarchiad hwn yn fawr; ac eto nid ydoedd heb ofni rhag i'r rhan ddiweddaf o hono fyned, yn meddyliau rhyw

rai, yn erbyn dylanwad daionus y rhan flaenaf o hono, yn gystal ag yn erbyn yr hyn a ddywedasid ganddo ef ei hunan; ac felly, er yn lled anewyllysgar i ateb y llywydd, yn enwedig pan mai Mr. Rees oedd hwnw, fe gododd drachefn, ac mewn dull lled chwareus, ac eto yn amlwg yn teimlo, fe ddywedodd rywbeth i'r perwyl a ganlyn:—"Nid oes dim dau feddwl i fod yn nghylch ein rhwymedigaethau ni y pregethwyr, ac yr wyf yn hyderu y cedwir ni oll byth yn ystyriol o honynt. Yr wyf fi fy hunan, beth bynnag, wedi gwneyd fy meddwl i fynu, er pan y dechreuais bregethu, y mynaf fi bregethu, pa beth bynnag a rodder fel cydnabyddiaeth, neu, yn iaith Paul, fel '*cyflog*,' i mi am hyny. Eithr y mater dan sylw heddyw, yn ol y genadwri a ddaeth o Gyfeisteddfod y Blaenoriaid eu hunain, ydyw, Dyledswydd yr eglwysi gydâ golwg ar Gynhaliaeth y Weinidogaeth; ac yr wyf yn gobeithio y bydd i'r holl Flaenoriaid ag sydd yma yn bresennol, yn eu gwahanol gylchoedd, ymdrechu cario allan eu hawgrym eu hunain, a gwneuthur rhywbeth mwy effeithiol tuag at hyny, nag sydd yn cael ei wneuthur yn awr, oddieithr mewn ychydig iawn o leoedd. Yr wyf fi fy hunan yn ofni nad ydyw pethau wedi gwella llawer, er yr amser yr aeth Mr. Rees i'r Amwythig, os ydynt, yn mhob man, yn llawn cystal. Yr oedd y cyfeillion yno, yn sicr, yn anturus iawn, ac yn haeddu canmoliaeth uchel, yn enwedig ac ystyried yr amser a'r amgylchiadau. Nid bychan o beth oedd addaw '*bwyd*' i un mawr fel Mr. Rees yma, ragor i beth bychan fel fi; ac y mae eisiau llawer iawn o frethyn i wneyd '*dillad*' i un tàl fel efe, ragor i ryw beth bach fel fi. Ac, yn wir, wedi cael sicrwydd am '*fwyd*' a '*dillad*' a '*llety*,' nid oedd eisiau rhyw lawer iawn o ffydd, i wneyd yn o dda heb na '*phwrs*' na '*chôd*;' ac nid oedd ychwaith eisiau llawer o '*esgidiau*,' ac yntau agos yn sefydlog yn yr Amwythig. Ond y mae yr amseroedd, erbyn hyn, wedi newid yn fawr, ac amgylchiadau pethau yn dra gwahanol. Ac yr ydwyf fi braidd a meddwl fod y Meistr yn dywedyd wrthym ninnau yn awr, fel y dywedodd wrth y dysgyblion, yn ngwyneb y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn eu hamgylchiadau

hwy:—'Y neb sydd ganddo bwrs, cymmered; a'r un modd gôd;' er y gobeithiaf na bydd raid i ni byth 'brynu cleddyf,' er mwyn amddiffyn ein hiawnderau." Yr oedd yr araeth hon yn cael ei thraddodi gydâ'r fath fywiogrwydd a hyawdledd, ac mewn tymher mor dda, fel ag yr oedd Mr. Rees yn chwerthin yn galonog, ac y gadawodd argraff nodedig o ddymunol ar deimladau yr holl frawdoliaeth. Cymmeradwywyd y cynnygiad yn unfrydol i sylw yr amrywiol Gyfarfodydd Misol.

Pa fodd bynnag, ar yr ammodau yna yr ymsefydlodd Mr. Rees yn yr Amwythig. Bu am ryw gymmaint o amser, ar ol ymsefydlu yno fel Gweinidog, yn rhwymo ambell i lyfr, ac yn ennill ychydig sylltau felly. Eithr ni chyrhaeddodd unrhyw ragoriaeth yn hyny. Gwelsom, flynyddoedd yn ol, mewn tŷ yn Llanrhaiadr Mochnant, rai llyfrau a rwymasid ganddo ef; ac er nad oedd eu hymddangosiad ond lled anolygus, eto nid ychydig y dyddordeb a deimlid genym ni ynddynt, fel rhai wedi bod tan ddwylaw y fath un. Yn mhen ychydig flynyddoedd, rhoddodd heibio yn hollol bob ymwneyd â'r alwedigaeth hono, ac ymroddodd yn gyfan-gwbl i'r weinidogaeth. Ac yr oedd y lle yr oedd ynddo yn nodedig o fanteisiol iddo i'r amcan hwnw. Er nad oedd y gydnabyddiaeth, fel y gwelsom, a addewid iddo am ei lafur ond ychydig iawn, ac nad ydym yn tybied iddo gael, mewn gwedd arianol, tra y bu yno, nemawr yn ychwaneg, eto fe gafodd yno rywbeth annhraethol werthfawrocach na dim arian a allasai gael,—hamdden a chalon i fyfyrio ar wirioneddau mawrion yr efengyl, a chynnulleidfa fechan yn ei werthfawrogi yn gymmaint, ag i foddloni iddo ei gwasanaethu yn hollol yn y modd y gwelid yn oreu ganddo ef ei hunan. Yr oedd yno yn feistr perffaith ar ei amser ac ar ei lafur. Ac ni bu neb erioed yn fwy ymroddedig gydâ dim nag yr oedd efe, tra y bu yno, i'r efengyl. Rhoddai ei hunan yn drwyadl iddi. Yr oedd, mewn gwirionedd, "yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth." Cymmerai y drafferth fwyaf er gwneyd ei bregethau yn gyfansoddiadau mor berffaith, ag oedd bosibl iddo. Pregethai ran o'r bregeth y boreu, a rhan arall y nos; rhan drachefn y boreu Sabboth can-

lynol, ac un arall y nos; ac felly, fe allai, am ddau neu dri o Sabbothau. Yna, yn mhen ychydig Sabbothau, caent y bregeth yn gyflawn; a hyny drachefn a thrachefn, yn achlysurol, cyn iddo gychwyn i ryw Gymdeithasfa, neu i un o'i deithiau i rai o Siroedd Cymru. Bu am beth amser yn pregethu iddynt unwaith yn yr wythnos, ar noson waith; eithr yr oedd yr oedfa hono wedi ei rhoddi i fynu yn hollol, am rai blynyddoedd, cyn iddo ymadael oddiyno: ond arferai hyd y diwedd, pan y byddai gartref, roddi cyfarchiad ar ryw fater neu gilydd yn y Cyfarfod Gweddïo; yr hwn yn fynych iawn a chwyddai dan ei law, nes bod cyhyd a phregeth gyffredin. Ac yr oedd y cyfeillion yno yn tybied na byddai braidd byth yn fwy dedwydd, nag y byddai, ar rai adegau, yn ei gyfarchiadau yn y Cyfarfodydd Gweddïo. A bydd yn hawdd iawn gan bawb cydnabyddus âg ef, mewn blynyddoedd diweddarach, yn ei gyfarchiadau rhydd a difyfyr, yn y cyfarfodydd eglwysig cyffredinol yn Liverpool, neu yn ein Cymdeithasfaoedd, ganiatau hyny. Er ei fod yn hynod o hwyrfrydig i gyfodi i siarad ar unrhyw fater, os na byddai i fesur wedi parotoi arno, eto pan y gwnai hyny, ac i'w feddwl gael ei gyffroi, naill ai trwy ryw sylw a ddywedid gan un arall, neu gan rywbeth a'i tarawai ef ei hunan, fe deimlid fod rhyw fywyd a mîn yn ei sylwadau, ag na cheid, i'r fath raddau, yn y cyfansoddiadau a fyddent wedi eu parotoi yn y modd mwyaf gofalus ganddo. Ond yr ydym yn awr yn crwydro at yr hyn sydd i ddyfod o dan ein sylw yn helaethach eto.

Tua'r pryd hwn fe ddaeth, yn nghylch ei efrydiaeth, am y tro cyntaf dybygid, i gyfarfyddiad â rhai llyfrau o waith y Parch. Dr. Owen, y rhai a gawsant ddylanwad dirfawr ar ei feddwl a'i galon ef. Fel y canlyn y dywed efe ei hunan ar hyn:—

"Yn fuan wedi dyfod i ddeall yr iaith Saesoneg yn lled dda, dechreuais ymgydnabyddu âg amryw o'r hen Buritaniaid a'r Annghydffurfwyr; a chefais lawer o ymgeledd i'm henaid fy hun, ac o help yn ngwaith y weinidogaeth, trwy ddarllen ac astudio ysgrifeniadau y dynion sanctaidd hyny. Bu cyfarfod â'r Dr. Owen, yn ddiau genyf, yn foddion i ffurfio cyfnod

newydd yn fy mywyd, fel cristion ac fel pregethwr. Disgynodd rhyw ranau o'i waith i'm dwylaw yn amserol iawn; pan oedd temtasiynau wedi ymaflyd ynof, a llygredigaeth fy natur yn dygyfor o'm mewn; yr ymdrechfa—y fyth-barhäol ymdrechfa â drygau ysbrydol, trwy ryw fanteision neu gilydd, wedi cyrhaeddyd i'w huchder a'i nerth. 'O mor dda yw gair yn ei amser!' y fath amser a hwn yn arbenigol. A'r cyfryw ydoedd yr eiddo Dr. Owen i mi yn y tymmor hwnw, yn enwedig ei draethodau ar breswyliad a marweiddiad pechod mewn credinwyr. Yr oedd yr hen ddifeinydd yn deall fy nghlefyd yn dda; a chydâ medrusrwydd y profiadol a'r dwfn ei wybodaeth o'r galon ddynol, tynai ef allan i olwg fy meddwl yn fanylaidd, yn ei wreiddyn, ei weithrediadau, ei achlysuron, ei effeithiau, a'i holl nodau marwol. Dywedai yn gymhwys fel y teimlwn, gan olrhain y ffyrdd pechadurus trwy ba rai y daethwn i'r ansawdd hono. Dangosai fy sefyllfa, er nad yn ddiobaith, yn un dra pheryglus, ac yn gofyn am egni buan a difrifol i geisio meddyginiaeth. Gallaswn ddychymygu, pe na buaswn yn bechadur condemniedig, y buasai pla anaele fy nghalon yn fy argyhoeddi o'm hangen am Grist, a'r gwaed yr hwn sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod. Ac yma y dŵg *Dr. Owen* ei efrydwyr am sancteiddrwydd fel am gyfiawnder. Bob amser y darllenaf ef câf feddyliau uwch am Grist,—fy nghyffroi i ymdrech adnewyddol yn erbyn pechod, a'm cyfarwyddo hefyd pa fodd i ymdrechu yn gyfreithlawn a llwyddiannus." *(Trysorfa y Plant,* Cyfrol vi. 1867, tudal. 13, 14).

Cyfarfod dedwydd iawn iddo ef ei hunan, a chyfarfod a droes allan yn fendithiol iawn i Gymru yn gyffredinol, oedd y cyfarfod hwnw yn yr Amwythig, rhwng yr hen Dduwinydd parchedig ac enwog, a'r pregethwr ieuanc. Cymro trwyadl o genedl, er nad o iaith, oedd Dr. Owen: ei "genedl yn ol y cnawd," y geilw efe y Cymry, yn un o'i bregethau o flaen y Senedd; ac y mae yn debyg mai y Cymro hwn o Lansannan, a aeth bellaf a dyfnaf i'w gyfrinach a'i athrawiaeth, o bawb erioed y cyfarfuasai efe â hwynt yn ei ysgrifeniadau. Bu y ddau, mewn ystafell

fechan yn *Barker Street*, Amwythig, yn dal cymdeithas agos iawn â'u gilydd, ar adegau, dros flynyddoedd lawer. Ychydig a feddyliai y lliaws, oeddent yn tramwy yn ol ac yn mlaen ar hyd yr hëol hòno, fod yn un o'r tai, am y pared â hwy, ŵr ieuanc ac ysbryd hen Buritan duwiol, a fuasai farw agos i gant a haner o flynyddoedd cyn hyny, yn dal y fath gymdeithas â'u gilydd, yn ngwirioneddau yr efengyl ac yn mhrofiadau y saint, ag a gynnyrchai yr effeithiau mwyaf bendithiol ar feddyliau cannoedd a miloedd o drigolion ein gwlad. Fe deimlodd ac fe ddadleuodd DR. OWEN lawer yn ei ddydd dros Gymru. Yn ei bregeth gyntaf o flaen y Senedd, Ebrill 29, 1646, yr ydym yn ei gael yn appelio yn ddifrifol dros Gymru, yn ei hangen mawr y pryd hyny am freintiau yr efengyl (*Works, Vol.* viii. *pages*, 30, 40. Goold's *Edition)*. Ac mewn pregeth drachefn o flaen y Senedd, Hydref 30, 1656, y mae yn appelio mewn modd mwy neillduol atynt, ac yn erfyn arnynt wneyd sylw o Gymru:—"Na thybier," meddai, "fy mod allan o le, os galwaf eich sylw yn arbenig at ran o'r genedl. Y mae esiampl y saint yn caniatau i ni deimlo gofal neillduol am ein cenedl ein hun, ein brodyr yn ol y cnawd. Dros Gymru yr wyf fi yn dadleu"—ac yna y mae yn myned rhagddo i roddi dysgrifiad alaethus o agwedd isel crefydd yn ein gwlad, oblegyd esgeulusdra, diofalwch, ac annghymhwysder ei dysgawdwyr crefyddol (*Works, Vol.* viii. *page* 452). Fel hyn yr oedd yr hen Dduwinydd yn llawn awydd am i oleuni yr efengyl lewyrchu ar ein gwlad, yr hon y pryd hwnw oedd fel yn eistedd mewn tywyllwch, ac megis bro a chysgod angeu. Eithr er na chafodd efe weled yn ei ddyddiau ei hunan yr hyn a ddymunai ei galon ar ran Cymru, cafodd fod yn offeryn trwy gyfrwng ei ysgrifeniadau, i ffurfio nodwedd gweinidogaethol un o'r pregethwyr mwyaf a fagodd Cymru nac un wlad arall yn ei oes ef; fel ag y bu hefyd i'r rhan fwyaf o bregethwyr hynotaf Cymru yn yr un tymhor, a chyn ac wedi hyny.

Yr oedd "y cyfnod newydd yn ei fywyd fel cristion," y cyfeiria ato yn y dyfyniad a wnaethom o'i Adroddiad ef ei hunan, yn ddirgelwch cuddiedig yn ei deimlad a'i brofiad ef ei

hunan, a'r profiad personol hwnw a esgorodd ar y cyfnod newydd yn ei bregethu, yr hwn a ddaeth yn adnabyddus i ac a deimlid gan yr eglwysi a'r gwrandawyr i ba le bynnag yr elai. Yr oedd rhyw ysbryd a thôn arall bellach yn ei weinidogaeth. Yr oedd yn mhob pregeth fel yn gwthio i'r dwfn,—i ddyfnder cyflwr a chalon y pechadur, ac i ddyfnder profiad ac ymwybyddiaeth y credadyn. Yr oedd yn dwyn pethau dirgel y fynwes allan i oleuni: yn chwilio, yn difynu, ac yn barnu bwriadau a gweithrediadau cuddiedig y meddwl; ac ar gyfer y cwbl, yn dwyn allan o ddyfnder calon yr efengyl bethau newydd a hen, a phethau hen mewn dull newydd, oeddent gyfaddas i anghenion ysbrydol y pechadur argyhoeddedig, ac i galonogi a chyfnerthu y credadyn gwan a thrallodedig. Fel y dywedodd y Parch. Robert Roberts, Tan-y-clawdd rywbryd am dano,—"Nid oes neb o honom yn gallu myned mor ddwfn i galon y pechadur, i galon y cristion, ac i galon yr efengyl, â Henry Rees."

Ac nis gall fod un amheuaeth nad ei astudiaeth o ysgrifeniadau y Puritaniaid, yr eiddo Dr. Owen yn arbenig, a fu yn foddion rhoddi y nodwedd yna ar ei weinidogaeth. Cafodd afael hefyd, yn lled fuan, ar rai o draethodau Dr. Goodwin, a John Flavel, a Matthew Henry; am y rhai y siaradai bob amser gydâ'r parchedigaeth mwyaf. Yn llawer iawn diweddarach y daeth i gyfarfyddiad âg ysgrifeniadau John Howe, yr hwn yn unig a gydnabyddai yn teilyngu ei gystadlu â Dr. Owen; er ei fod, i'r diwedd, yn rhoddi y flaenoriaeth o ddigon i Owen. Yr oedd effaith cymundeb â Dr. Owen yn gymmaint arno, ac mor amlwg yn ei bregethau, fel y byddai rhyw rai, nad oedd ganddynt eu hunain ond cydnabyddiaeth arwynebol â Dr. Owen, yn siarad am dano fel un yn cymmeryd ei bregethau yn gyfain o hono, ac nad oedd yn gwneyd dim ond ail-adrodd yr hyn a ddarllenasai ynddo ef. Ond ni wnaed cyhuddiad annhecach erioed, ac nis gallasai neb ei wneuthur yn ddidwyll, a wyddai ddim yn fanwl am y naill na'r llall. Yr ydym yn ddigon parod i gydnabod fod amryw o'i bregethau y pryd hwnw, yn gystal ag mewn blynyddoedd diweddarach, ag y gallesid cael eu defnydd-

iau, gan mwyaf, yn Dr. Owen, a rhai awdwyr ereill a ddarllenid ganddo; eithr byddent bob amser, ac arfer ei ddywediad ef ei hunan, "wedi eu berwi ganddo yn ei grochan ei hun;" nes ymsylweddu megis â'i gyfansoddiad, a dyfod yn feddiant hollol iddo; ac yn cymmeryd yn wastadol, yn ei *bregethau*, y ffurf neillduol a berthynai i'w feddwl ef ei hunan. Ac fel y clywsom ein hanwyl gyfaill, y diweddar Dr. Parry o'r Bala, fwy nag unwaith yn dywedyd, wrth gyfeirio at y rhai a ddygent y cyfryw gyhuddiadau yn ei erbyn: "Y mae Dr. Owen a Dr. Goodwin mor agored iddynt hwy ag ydynt iddo yntau; a phaham na wnant hwy yr un defnydd o honynt ag a wneir ganddo ef, a rhoddi i ni bregethau tebyg?"

Yn ei gyfathrach â'r hen Buritaniaid, efe a ddysgodd un peth oddiwrthynt ag y buasai yn llawer gwell iddo fel pregethwr fod heb ei ddysgu, a hyny oedd, y *dull* neillduol a arferid ganddynt hwy o gyfansoddi eu pregethau. Yr oedd mesur o hyny ynddo o'r dechreuad, a chyn iddo ymgydnabyddu â hwy; fel yr oedd mewn rhai ereill o'r pregethwyr, ag yr oedd efe o'i febyd, wedi arfer eu gwrandaw; ond wedi i'r gydnabyddiaeth hono ddechreu, ac iddo ddyfod yn gymmaint dan eu dylanwad, fe ddaeth yn llawer amlycach. Yr oedd ei bregethau yn y cyfnod hwnw, yn gyffredin yn cynnwys tri neu bedwar o benau cyffredinol, a dau neu dri, ac weithiau ychwaneg, o raniadau dan bob pen; y rhai a renid drachefn yn benau, ac weithiau yn ad-benau: nes y byddent, cyn diwedd y bregeth, wedi lliosogi yn dyrfa fawr. Yr oedd y dull hwn yn drafferthus iawn iddo ef ei hunan, ac yn ei arwain yn gyffredin i gryn feithder: ac weithiau i'r fath feithder ag a barai i'r gynnulleidfa deimlo drosto, rhag ofn iddo, oblegid yr yni mawr a arferid ganddo yn y traddodiad, ei niweidio ei hunan. Yr oedd yr un dull yn peri fod yn anhawdd iawn i gorph y gwrandawyr allu cadw y bregeth yn gyflawn yn eu meddyliau; er ein bod yn cofio yn dda y byddem ni, y bechgyn a arferem ysgrifenu y pregethau, yn edrych ar y cyfryw gyfansoddiadau, o'i eiddo ef a rhai ereill, yn arddangos rhyw gywreinrwydd a rhagoriaeth, a'u dyrchafent yn mhell

uwchlaw y cyffredin. Yr oedd efe, pa fodd bynnag, rai blynyddoedd cyn iddo adael yr Amwythig, wedi ymryddhau i fesur mawr oddiwrth y dull hwnw, ac wedi ymgymmeryd â threfn fwy diweddar, symlach, a gwell, o gyfansoddi. Yr oedd ei bregethau, am braidd yr holl amser y bu yn yr Amwythig, yn costio iddo lafur caled, yn y cyfansoddiad a'r traddodiad o honynt. Rhoddai holl nerth ei feddwl ar waith i'w myfyrio, a byddai ei gorph a'i feddwl ar eu llawn egni wrth eu traddodi. Gosododd nôd uchel iawn iddo ei hunan fel pregethwr, a dododd ei feddwl dan ddysgyblaeth lem a manwl iawn, er mwyn cyrchu ato. Cadwai ei lygad yn ddiysgog, ar hyd ei oes, ar y nôd uchel hwnw: ac yr oedd yn hawdd i'r craffus ganfod ei fod bob blwyddyn, ac hyd y diwedd, yn ymberffeithio fel pregethwr. Yr oedd yn arbenig yn cynnyddu mewn coethder a llymder chwaeth, ac yn nhlysni ei gyfansoddiadau. "Chwiliodd y pregethwr am eiriau cymmeradwy:" ac ni chymmerodd, ni a dybiem, un pregethwr erioed fwy o drafferth i "chwilio am eiriau cymmeradwy," nag a gymmerodd efe. Costiai ambell frawddeg iddo oriau o fyfyrdod, er ceisio ei hystwytho a'i llyfnhau, cyn y gollyngai hi allan o'i law. Y mae yn hynod, ar un olwg, fod y fath ofal am ddestlusrwydd cyfansoddiad, a'r fath goethder chwaeth, yn gysylltiedig yn ei feddwl ef â'r fath hoffder o Dr. Owen,—awdwr mor amddifad o'r rhagoriaethau hyny; eithr, erbyn edrych yn fanylach, fe welir fod hyny yn cyfodi yn hollol oddiar ei gariad cryf at yr efengyl, fel datguddiad o'r unig drefn am fywyd pechadur, a'i argyhoeddiad trwyadl o'i haddasrwydd hi, fel moddion, er marweiddiad llygredigaeth ein natur, ac adnewyddiad ein heneidiau yn gwbl mewn sancteiddrwydd; gwirioneddau ag y rhoddir arbenigrwydd neillduol arnynt yn ysgrifeniadau Dr. Owen. Ac mewn blynyddoedd diweddarach, wedi iddo ymgydnabyddu âg awdwyr llawer coethach eu chwaeth, a pherffeithiach eu harddull, a dyfod ei hunan can bured ag yr un o honynt, nid ymadawodd â'i gariad cyntaf tuag at yr hen Dduwinydd. Yr ydym yn tybied fod cyfarfod tua y flwyddyn 1833, â rhai o bregethau Robert Hall, ac wedi

hyny, ychydig yn ddiweddarach, a Thraethodau John Foster, ac yn enwedig â'r gyfrol o eiddo Isaac Taylor, a elwir "*Saturday Evening*," wedi bod yn fwy effeithiol na dim arall, y tu allan i'w feddwl ei hunan, er dwyn oddiamgylch y cyfnewidiad amlwg a ddaeth ar ffurf ei bregethau ef, i raddau mwy neu lai, ar ol hyny, hyd ddiwedd ei oes. Clywsom ni ef ei hunan yn dywedyd, fod darllen y "*Saturday Evening*," ac yn neillduol y bennod, "*The Means of Mercy*," wedi bod o les mawr iddo ef; ac yr ydym yn sicr, oddiwrth natur ein hymddyddan ar y pryd, mai mewn ystyr *lenyddol*, yn arbenig, y bwriedid y sylw ganddo.

Yn mhen ychydig wythnosau wedi ymsefydlu o hono yn gwbl yn yr Amwythig, yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfa Flynyddol Dolgelleu, yr hon a gynhelid Hydref 28, 29, 30, 31. Yr oedd yn pregethu yn y Gymdeithasfa hòno, nos Fercher y 29, o flaen Mr. John Hughes, Pont Robert. Ei destyn yma drachefn oedd Nehemiah iii. 5; yr un bregeth ag a draddodasai yn y Drefnewydd. Cafodd oedfa hynod iawn yn Nolgelleu. Yr oedd Mr. Elias yn y Gymdeithasfa hòno, ac yn pregethu yno y nos Fawrth, ac am ddau ar y gloch, ddydd Iau. Dyma y tro cyntaf i Mr. Elias ei glywed ef; ac fe'i hargyhoeddwyd, ar unwaith, o'i ragoriaethau annghyffredin fel pregethwr. Yr oedd ei fab, y diweddar Mr. John Elias, yn adrodd ei fod ef, a dau neu dri o rai tua'r un oedran âg ef, yn eu tŷ hwy yn Llanfechell, yn holi ei dad wedi ei ddychweliad adref o Ddolgelleu, pa fath "*Sassiwn*" oeddent wedi gael yno. "O," meddai yntau, "ni a gawsom *Sassiwn* hynod iawn. Yr oedd yno un gŵr ieuanc yn enwedig, nid llawer hŷn nag un o honoch chwithau, yn pregethu yn anarferol; ac yr ydwyf fi braidd a meddwl na ŵyr yr un o honoch chwi fod y fath adnod yn y Beibl ag oedd ganddo yn destyn, na wyddoch chwi ddim, beth bynnag, yn mha le y mae hi." Yna fe adroddodd y testyn. "Ac nid oedd," meddai y mab, yr un o honom yn gwybod. Ac ar ol ychydig siarad am y bregeth, fe ddywedodd,—"Dyna y pregethwr i Gymru." Ac fe barhäodd Mr. Elias i feddwl yn fwy-fwy o hono tra y bu byw.

Yn y Gymdeithasfa hon yn Nolgelleu, fe'i perswadiwyd gan

Mr. Elias i roddi cyhoeddiad trwy Sir Fôn, yn niwedd y flwyddyn hono, a dechreu y ganlynol. Yr oedd Mr. Elias, fe ddichon, yn cofio am Mr. Ebenezer Morris yn taro arno ef, ac yn ei berswadio, pan yn bregethwr ieuanc iawn, i fyned ar Daith i'r Deheudir; pa fodd bynnag, fe benderfynodd y câi Môn, hyd ag y gallai efe, y cyfleusdra i glywed Henry Rees. Ac felly fu. Ar y daith hòno fe ddaeth i Gaergybi, ar nos Fercher, Ionawr 8, 1823. Yr oedd yn pregethu yn Nghaergeiliog y boreu, yn Rhosgolyn y prydnawn, ac yn Nghaergybi yr hwyr. A dyna y tro cyntaf i ni ei weled a'i glywed. Er nad oeddem, y pryd hyny, ond newydd gael ein pen blwydd yn ddeg oed, yr ydym yn cofio yn dda am yr oedfa, ac y mae genym gôf lled fyw am y bregeth. Yr oedd y diwrnod wedi bod yn dra gwlybyrog; ond yr oedd y gwlaw wedi myned heibio cyn yr hwyr, ac yr oedd y capel yn llawn iawn. Yr oedd efe yn ymddangos i blentyn yn ddyn tàl iawn, ond yn deneu; ei wyneb-pryd yn hawddgar iawn, ond yn dra gwelw; yr oedd rhywbeth cwynfanus, trydaraidd braidd, yn ei lais, ac yn gadael argraff ar ein meddwl o ryw brudd-der mwy na chyffredin, os nad llwfrdra, yn ei ysbryd. Rhoddes bennill i'w ganu, cyn dechreu pregethu, nad oeddem ni yn ei wybod cyn hyny, ac nid ydym yn cofio i ni ei glywed yn cael ei ganu ar ol hyny:—

"Fe drefnwyd draw, mewn arfaeth bell,  
I gadw myrdd, a'u gwneyd yn well;  
'D oedd dim oedd well i'w wneyd â hwy,  
Na'u cuddio yn ei farwol glwy."

Ni a glywsom y Parch. David Griffiths, gweinidog yr Annibynwyr yn Nolgelleu, yn dywedyd fod y Parch. William Rees, D.D., wedi cymmeryd y pennill yna yn destyn, a phregethu arno, nid rhyw lawer o amser cyn ei farw, mewn Cyfarfod yn Nghaergybi. Yr oedd Mr. Griffiths yno yn gwrandaw arno. Yr oedd Mr. Henry Rees, y tro cyntaf hwn i ni ei glywed, yn pregethu gydâ nerth a dylanwad mawr. Nid oedd yn arbed dim arno ei hunan; ac am fod y noswaith yn lled fwll, a'r gynnulleidfa yn fawr iawn, yr oedd efe yn chwys diferol, yn mhell cyn gorphen y

bregeth. Ei destyn oedd Esaiah lxii. 12:—"Galwant hwynt hefyd yn Bobl Sanctaidd, yn waredigion yr Arglwydd: tithau a elwir, yr hon a geisiwyd, Dinas nis gwrthodwyd." Nid ydym yn cofio dim o'r Rhagymadrodd; ond y penau cyffredinol oeddent:—I. Etholedigaeth Bersonol: "Galwant hwynt hefyd yn Bobl Sanctaidd." II. Prynedigaeth Neillduol: "yn waredigion yr Arglwydd." III. Galwedigaeth Effeithiol: "tithau a elwir, Yr hon a geisiwyd." IV. Parhad mewn Gras: "Dinas nis gwrthodwyd." Nid ydym yn cofio dim o'i sylwadau ar yr un o'r penau. Fe welir fod y bregeth yn gwisgo gwedd dra Chalfinaidd, yr hyn oedd i fesur mawr, yn nodweddu llawer o'i bregethau yn y blynyddoedd hyny. Yr oeddem yn ymddiddan âg ef, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, am y bregeth hon, ac yn adrodd iddo y testyn a'r penau. "Da chwi," meddai, "annghofiwch hi. Yn Eliseus Cole y cefais i hi. Ond pregeth go dda oedd hi hefyd. Mi gefais i, beth bynnag, lawer oedfa gysurus gydâ hi." Yn ol barn pobl Caergybi, yr oedd nid yn bregeth "go dda," ond yn dda *iawn*; ac fe sefydlwyd ei gymeriad ar unwaith yno, fel yn mhob man arall yn Môn, megis pregethwr o'r dosbarth blaenaf.

Ar ol y daith hon, y mae yn ddiammeu iddo ddychwelyd i'r Amwythig, ac ymroddi i'r gwaith mawr yr oedd ei fryd yn hollol arno, a'i amser, yn awr, yn cael ei roddi yn gwbl iddo. Y mae yn sicr hefyd ei fod yn myned, hyd ag y gallai, i Gyfarfodydd Misol Sir Drefaldwyn, yn enwedig pan y byddent yn y rhan isaf o'r Sir; ac am un Sabboth o bob mis os nad yn amlach, i ryw daith neu arall yn ei gyrhaedd. Eithr nid oes genym ni yr un hanes pendant am dano hyd y Gymdeithasfa Chwarterol, a gynhaliwyd yn Llanfyllin, y Mercher a'r Iau, Ebrill 22, 23, 1823. Yr ydym yn cael ei fod yn dechreu yr oedfa yno, am ddau ar y gloch, ddydd Iau, a Mr. Parry, o Gaer, a Mr. Lloyd, Beaumaris, yn pregethu. Yr oedd Mr. John Thomas, Aberteifi, a Mr. John Roberts, Llangwm, wedi pregethu am ddeg. Yr oedd hòno yn Gymdeithasfa led gynhyrfus. Darllenid ynddi yr Erthyglau yn y Cyffes Ffydd, fel ag yr oeddent wedi eu cymmeradwyo yn y Deheudir, yn y Gymdeithasfa a gynhaliesid yn Aberystwyth,

Mawrth 11, 12, 13, 14; lle yr oedd cynnrychiolwyr o'r Dê a'r Gogledd wedi cyfarfod i'w parotoi, ac i gytuno arnynt. Ni wnaed, yn Llanfyllin, unrhyw wrthwynebiad i ddim yn y Rheolau Dysgyblaethol, nac yn yr Erthyglau Ffydd, hyd nes y daethpwyd at yr Erthygl ar Brynedigaeth. Wedi darllen hòno, fe gyfododd Mr. Robert Roberts, Rhosllanerchrugog, i fynu, ac a wnaeth ymosodiad cryf yn erbyn y "cyfyngiad," fel y galwai efe ef, yn y geiriau, "a hwy yn unig;" gan ei alw yn "gyfyngiad anysgrythyrol," a chyhuddo yr Erthygl o "fod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd." Yr oedd yr un wrthddadl wedi ei chodi yn erbyn y geiriau yn Aberystwyth, er nad mewn dull mor gryf; ac yr oedd rhai, megis Mr. Ebenezer Morris, Mr. Ebenezer Richard, a Mr. Michael Roberts, yn tueddu i'w gadael allan. Ond yr oedd y nifer amlaf yn cytuno â Mr. Elias, mai geiriau oeddent a ddefnyddiasid, er ys amryw flynyddoedd yn y Bala, pan yr ymdrinid yno, yn amser Mr. Charles a Mr. Jones, Dinbych, ar y pwnc o Brynedigaeth; ac nad oedd yr Erthygl ond talfyriad o'r ymdriniaeth yno, yn ol fel yr oedd wedi ei gyhoeddi, gan Mr. Charles, yn yr ail lyfr o'r hen Drysorfa. Dadleuid yr un modd yn eu plaid yn Llanfyllin, ac yr oedd Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. Parry, Caer, ac yn enwedig Mr. John Hughes, Pont Robert, yn gryf iawn drostynt. Eithr dadleuai Mr. Roberts nad ydoedd ond talfyriad hannerog o'r Adroddiad yn y Drysorfa; oblegyd fod yn hwnw dystiolaeth bendant i holl-ddigonolrwydd yr iawn ar gyfer hyd yn nod y rhai nad ydynt yn cael eu cadw trwyddo; ond nad oeddent, yn yr erthygl wedi gwneyd un talfyriad o'r dystiolaeth hòno, eithr wedi ei gadael allan yn gwbl; "ac wedi dwyn oddiarnom," meddai, "ein hen Gyffes, yn Erthygl Rydd Eglwys Loegr ar Brynedigaeth, y mae yr erthygl yma yn ein gadael heb un datganiad o'n ffydd yn holl-ddigonolrwydd yr Iawn ar gyfer y byd yn gyffredinol." Siaradodd mor rymus, a chydâ'r fath effaith, fel yr oedd yno lawer yn teimlo y dylasai y geiriau gael eu gadael allan; ac yr oedd yr hen frawd o Langwm yn foddlawn i ychwanegu y geiriau o'r Drysorfa, a adewsid allan, at yr Erthygl. Ond pan

yr oedd Mr John Hughes, Pont Robert, a Mr. John Humphreys, Bodfari, yn gweled gogwydd at hyny, hwy a gynnygiasant ar ohirio yr ystyriaeth hyd y Gymdeithasfa nesaf yn y Bala; â'r hyn y cytunwyd. Yno, fel y mae yn hysbys, fe benderfynwyd gadael y geiriau i mewn. Yr oedd Mr. Rees yn rhy ieuanc i gymmeryd unrhyw ran yn yr ymdriniaeth yn Llanfyllin, ond yr oedd, ar y pryd, yn teimlo yn gryf yn erbyn cynnygiad Mr. Roberts; er y daeth, mewn blynyddoedd diweddarach, i dybied y buasid yn rhag-flaenu blinder mawr i ni fel Cyfundeb, pe gwnaethid yr hyn yr oedd efe yn dadleu drosto.

Yn y Gymdeithasfa hon yn Llanfyllin, fe'i pennodwyd ef, am y tro cyntaf, i fyned i wasanaethu yr Achos yn Llundain. Yr oedd myned i Lundain, y pryd hyny, yn beth pwysig iawn, ac nid oedd neb yn myned yno ond trwy drefniad y Gymdeithasfa, yn y Gogledd neu yn y Deheu. Yr oedd felly yn cael edrych arno fel gradd o ddyrchafiad ar bwy bynnag a bennodid; ac, yn y cyffredin, ni byddai neb yn cael ei anfon yno, oddieithr ei fod wedi ei neillduo i'r holl waith: er yn awr, yn gymmaint a bod Mr. James Hughes, ac efe yn unig y pryd hyny o'r rhai a breswyliant yno, wedi ei neillduo felly, y dewisid weithiau, fel y tro hwn, un heb gael hyny. Yr oedd Mr. Elias wedi myned i fynu i Lundain at y Pasg, 1823, i Agoriad y Capel newydd yn Jewin Crescent, ac i wasanaethu yno, fel arferol, hyd y Bala. Yr oedd rhyw amgylchiadau teuluaidd yn peri nas gallasai efe aros yno i orphen ei dymhor fel y bwriadasai, ac felly, ar gais y cyfeillion yno, fe ymgymmerodd â cheisio cael gan Mr. Rees gymmeryd ei le, a gwasanaethu yno beth bynnag hyd y Bala. Wedi cael addewid ganddo ef, fe ysgrifenodd y brodyr yn Llundain, yn nghydâ Mr. Elias, at y Gymdeithasfa; ac fe gytunodd y Gymdeithasfa â'u cais, ac fe'i pennodwyd i fyned. Y mae y llythyr nesaf sydd genym o'i eiddo yn cyfeirio at hyn, ac yn un a ysgrifenwyd ganddo ar fin ei fynediad i Lundain. Fe'i hanfonwyd, fel y llythyrau ereill a ddyfynasom, at ei gyfaill, Mr. Thomas Lloyd, Tŷ Mawr, gerllaw Abergele.

"Amwythig, Mai 16, 1823.

"ANWYL SYR,—Y mae fy esgeulusdra o ysgrifenu atoch wedi "peri cryn lawer o boen a gofid meddwl i mi, yn arbenig gan "nad wyf wedi cydsynio â'ch dymuniad chwi nac wedi cyflawni "fy addewid fy hunan. Y mae y boreu wedi dyfod o'r diwedd, "pa fodd bynnag, i mi ymdrechu gwneyd y naill a'r llall. Nid "oes genyf unrhyw newyddion i'w hysbysu i chwi. Y mae yn "ddiammeu genyf eich bod wedi clywed am y clefydau lawer "sydd wedi cludo nifer mor fawr o drigolion y dref hon a'r "gymmydogaeth i'r distaw fedd. Yn ystod y gauaf diweddaf, "yr oedd lliaws o angladdau yn y gwahanol eglwysi bob dydd; "ac yn aml fe ellid gweled y gweinidogion yn sefyll yn nghanol "y beddau agored, ac yn darllen y gwasanaeth claddu uwch ben "pump neu chwech o gyrph yr un amser. Yr ydym yn cael ein "rhybuddio yn fynych, ac y mae galwad uchel arnom i ym-"barotoi. Y mae ein hamser yn fyr, ein hangeu yn sicr, a Mab "y dyn yn dyfod ar yr awr na thybiom ni.

"Mi a welais Charles Mellish a John Foulkes yn Nghym-"deithasfa Llanfyilin. Y mae yn debyg eich bod wedi clywed "ganddynt hwy fy mod i, mewn cydsyniad â chais y cyfeillion "yno, yn bwriadu myned i Lundain am ychydig amser. Yr "wyf yn meddwl cychwyn yn gynnar yr wythnos nesaf. Nid "wyf yn gwybod yn hollol pa bryd y dychwelaf, ond yn "gobeithio y deuaf oddiyno mewn pryd i fyned i Gymdeithasfa "y Bala; ac os caniateir i mi fyned yno, yr wyf yn gobeithio "cael yr hyfrydwch o'ch gweled unwaith eto, a'm holl gyfeillion "parchus yn Abergele.

"Mi a gyflwynais eich llythyr yn ol y cyfarwyddyd oedd "arno; ac yn yr holl ymddyddan a fu rhyngwyf â———, ym-"ddangosai i mi mewn gwirionedd eich bod yn raslawn yn cael "eich arwain yn yr achos. Yn ol fy meddwl i, y mae wedi ei "chyfoethogi a'i haddurno i raddau annghyffredin, â'r holl "rinweddau a'r rhagoriaethau a ellid eu dymuno mewn————. "Pe byddwn i yn gymhwys i roddi cynghor, mi a ddywedwn, "Yr hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys. Cofiwch fi yn

"garedig at bawb o'm cyfeillion, eich mam a'r teulu; teulu Pen-"y-Bryn; Nant; Parch. T. Lloyd; Mr. Edward Evans a'i deulu. "Nid gwiw dechreu enwi. Cofiwch fi yn neillduol at Edward "Edwards a'i wraig. Yr wyf yn dymuno pob llwyddiant "iddynt. Dibenaf gydâ dymuniad am ran yn eich gweddïau.

"Ydwyf, eich cyfaill, HENRY REES."

Ni a glywsom yr hen chwaer, anwyl a chall a duwiol, Mrs. Jones, *Rose Mary Lane*, yn awr *Royal Mint Street*, Llundain, fwy nag unwaith, yn adrodd ei theimlad ei hunan gydâ golwg arno, ar ei ymweliad cyntaf hwn â'r Brif-ddinas. Yr oedfa gyntaf iddo yno oedd yn Jewin Crescent, ar y nos Iau; ac yr ydym yn awr yn deall mai Mai 22, ydoedd. "Yr oeddwn i," meddai yr hen chwaer, "wedi myned i'r Capel, ac yn fy lle ychydig cyn amser dechreu. Yr oedd yno gynnulleidfa dda iawn wedi dyfod yn nghyd, a llawer iawn o ddysgwyl wrth y pregethwr; oblegyd yr oedd John Elias wedi bod yn siarad yn uchel iawn am dano. Ond fe aeth tipyn o amser heibio cyn bod na phregethwr na blaenor yn y golwg, nes yr oeddwn i wedi dechreu ofni nad oedd y pregethwr ddim wedi dyfod. Eithr, o'r diwedd, dyna y pregethwyr a'r blaenoriaid yn dyfod o'r *Vestry*, a dyn ieuanc, tàl, pur deneu, a golwg braidd wledig arno, yn eu plith, ac yn myned i fynu i'r pulpud. Mi a deimlais yn dra siomedig. 'Wel, wel' meddwn wrthyf fy hunan, 'ai hwn sydd wedi dyfod yma yn lle John Elias? Ac a raid i ni fyw arno am fis neu ychwaneg?' Nid oedd ei waith yn dechreu yr oedfa, yn enwedig yn darllen, yn cael un effaith well arnaf. Yr oedd yn darllen yn undonaidd ac yn drymaidd iawn. Ac nid oedd dim hynod yn ei weddi, y noswaith hono. Yr oedd fel pe buasai wedi penderfynu peidio ceisio creu *dim dysgwyliad* yn y bobl wrtho. Fe ddarllenodd ei destyn, ac a ddechreuodd bregethu yn yr un dôn, ac yn llusgo ei eiriau, a braidd yn drymaidd. Ond yn mhen ychydig, dyna fo ei hunan dan ryw gynhyrfiad, yn siarad yn fwy bywiog ac yn colli y dôn; ac yn mhen ychydig funudau, yr oedd yn feistr perffaith ar y gynnulleidfa i gyd.

Yr oedd pawb yno yn teimlo, ac agos bawb yn wylo. Yr oeddwn i, erbyn hyn, ac er ys meityn, yn ddigon boddlawn, ac yn fwy na boddlawn, i'w gael yn lle John Elias. Fe ddaeth i'n tŷ ni drannoeth i gael tê, ac fe fu yma laweroedd o weithiau ar ol hyny." Ni a glywsom amryw o'r hen gyfeillion yn Llundain yn sôn am ei ymweliad cyntaf hwn â hwynt. Cafodd yno, y pryd hyny, rai cyfarfodydd hynod iawn; ac fe'i sefydlodd ei hunan yn uchel yn marn, ac yn ddwfn yn serchiadau, yr eglwys a'r gynnulleidfa tra y bu byw. Y mae ei frawd Dr. Rees, yn rhoddi i ni y dyfyniad canlynol o lythyr, a ysgrifenwyd ganddo at ei rieni i Lansannan, pan oedd yn Llundain y tro hwn:—"Dyma y lle pellaf oddi cartref y bum i ynddo erioed. Yr oeddwn yn ei weled mor bell, nes oeddwn yn barod i feddwl, weithiau, na chyrhaeddwn yma byth. Bu'm ar ben y cerbyd o chwech ar y gloch y boreu hyd hanner awr wedi deg yn y nos; ac yr oeddem yn teithio nerth traed y ceffylau yr holl amser. Wedi dyfod yma, a threulio rhai dyddiau yma bellach, nid oes genyf fawr iawn i'w ddywedyd am y lle, ond ei fod yn fawr, yn fawr iawn; llawer iawn o dai, a llawer mwy o bobl; a phobl o bob lliw, a llwyth, ac iaith. Yr wyf yn meddwl na chefais fy ngadael i mi fy hun, er pan wyf yma. Cefais rai oedfäon pur lewyrchus: ac y mae yma rai conglau ag y bydd yn felus genyf gofio am danynt byth."

Nid ydym yn gwybod yn hollol pa hyd yr arhosodd y tro cyntaf hwn yn Llundain. Ni a welsom, yn ei lythyr at Mr. Lloyd, ei fod yn gobeithio gallu dychwelyd oddiyno mewn pryd i fyned i Gymdeithasfa y Bala. Y mae yn ddiammeu ei fod yn awyddus am fyned i'r Bala y flwyddyn hono, oblegyd bod cwestiwn cymmeradwyad y "*Cyffes Ffydd*" i gael ei benderfynu yno. Y mae yn ymddangos i ni, pa fodd bynnag, nas gallodd efe fyned yno. Yr oedd y Gymdeithasfa yn cael ei chynnal y flwyddyn hono, ddydd Llun, ddydd Mawrth, a dydd Mercher, Mehefin 16, 17, 18. A chan mai ar ol y Sabboth, Mai 18, yr oedd efe yn myned yno, pe buasai yn myned i'r Bala, fe fuasai dan angenrheidrwydd o adael Llundain heb fod yno ond dros dri

Sabboth, gan nas gallasai gyrhaedd y Gymdeithasfa mewn pryd, ped arosasai dros y Sabboth, Mehefin 15. Y mae yn anhawdd genym feddwl hefyd, pe buasai yn y Bala, na buasai yn cael ei enwi i gymmeryd ryw ran yn y gwaith cyhoeddus, i ddechreu un o'r oedfäon, os nad i bregethu. Ac heblaw hyny, yr oedd Mr. James Hughes, Llundain, yn bresennol yn y Gymdeithasfa, ac yn pregethu y nos olaf, ar ol Mr. Evan Harris; ac y mae hyny yn gwneuthur yn annhebycach fyth, y gallasai cyfeillion Llundain ei ollwng ef mor fuan oddiyno.

Yn mhen ychydig wythnosau wedi ei ddychweliad o Lundain, yr ydym yn ei gael, Awst 21, 22, 23, mewn Cymdeithasfa yn Machynlleth, ac yn pregethu yno y prydnawn cyntaf, oddiar Luc xvii. 21, o flaen Mr. David Evans, Aberaeron. Yr oedd Mr. Ebenezer Morris yn y Gymdeithasfa hono, ac yn pregethu am ddeg y boreu dranoeth, ar ol Mr. John Thomas, Aberteifi, a Mr. Lloyd o'r Bala; a thrachefn y boreu olaf, yn y Capel, am saith ar y gloch. Byddai Mr. Rees yn arfer sôn yn fynych am y Gymdeithasfa hono, ac yn enwedig am bregethau Mr. Ebenezer Morris ynddi. Yr ydym yn cofio, wrth ymddyddan âg ef ryw bryd am Mr. Morris, ein bod yn ceisio ganddo roddi i ni "ryw ddarluniad o hono." "O," meddai yntau, "beth pe buasech chwi yn ei glywed o mewn *Sassiwn* yn Machynlleth, pan oedd o yn pregethu ar y testyn,—'Ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych.' O! yr oedd o yn rhyfedd iawn." "Beth oedd ganddo?" meddem ninnau. "O! 'yr hyn bethau!' '*yr hyn bethau!!*' 'YR HYN BETHAU!!!' 'YR HYN BETHAU!!!!' Nid 'y pethau hyn:' 'yr *hyn* bethau!' Ni chlywsoch chwi erioed y fath floedd. Yr oedd gogoniant y 'pethau' o flaen llygaid y bobl." "Yr oedd ganddo," ychwanegai Mr. Rees, "ryw allu annghyffredin i gydio mewn rhyw air; ac fe'i gwaeddai laweroedd o weithiau drosodd; a byddai rhyw lewyrch gydâ'i floedd, fel y byddai y peth ei hunan yn dyfod i olwg y bobl. Yr ydwy'i yn cofio ei fod yn pregethu y tro hwnw yn Machynlleth, y boreu olaf, ar y geiriau yna yn yr Actau, am y morwyr yn tybied 'eu bod yn nesau i ryw wlad.'

A rhyfedd yr effeithiau oedd gydâ'i waedd,—'Rhyw wlad!' 'rhyw wlad!!' 'rhyw wlad!!!' laweroedd o weithiau, nes yr oedd pawb yn y lle fel yn eu teimlo eu hunain yn ymyl tragywyddoldeb."

Ni a glywsom y diweddar Mr. Richard Jones, Chatham Street, Liverpool, yn adrodd hanesyn dyddorol gydâ chyfeiriad at yr un Gymdeithasfa, ac yn dangos yr effaith oedd wedi gael ar feddwl Mr. Rees. Ryw noswaith, mewn cyfarfod eglwysig yn Nghapel Chatham Street, yr oeddid, fel arferol, yn ymddyddan â rhai o'r cyfeillion; ond yr oedd y cyfarfod yn drymaidd iawn, a Mr. Rees yn ymddangos fel heb geisio ei gyffroi ei hunan na neb arall. Fel yr oedd yr ymddyddan yn myned yn mlaen, fe ddywedodd un brawd fod y geiriau hyny ar ei feddwl ef,—"Ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwennychu edrych;" a'i fod yn synu ato ei hunan, fod y pethau sydd yn tynu sylw angylion y nefoedd, yn cael can leied sylw ganddo ef. Fe wnaeth Mr. Rees ryw sylwadau, ond heb ddim neillduol ynddynt, ar yr hyn a ddywedasai y brawd, ac yr oedd ar fyned heibio at un arall. "Ar hyny," meddai Mr. Richard Jones, "mi godais innau, ac a ddywedais fy mod yn cofio *Sassiwn* yn Machynlleth, er ys dros ddeugain mlynedd cyn hyny, pan oedd Mr. Ebenezer Morris yn pregethu gydâ nerth ac effeithiolrwydd mawr ar y geiriau a adroddasid gan y brawd, ac yn bloeddio,—'*yr hyn bethau*,' gydâ'r fath rym,—gan osod allan eu mawredd a'u gogoniant a'u gwerth yn y fath oleuni, nes yr oedd pawb oeddent yn y lle, fel pe buasent yn cyd-edrych â'r angylion arnynt. Gyda hyny, meddai Mr. Jones, "dyna Mr. Rees i fynu, ac wedi ei gyffroi drwyddo,—'Yr oeddwn innau,' meddai, 'yn y *Sassiwn* hono, ac yr wyf yn ei chofio yn dda, ac mi gofiaf yr oedfa hono byth; yr oedd gogoniant y pethau yn sicr yn dyfod i'r golwg y pryd hyny nes oedd ein heneidiau yn addoli.' Ac yna fe aeth rhagddo i draethu ei hunan ar ogoniant y pethau, gydâ rhyw lewyrch a dylanwad annghyffredin, fel y terfynodd y cyfarfod yn un o'r rhai goreu a gawsom erioed."

Y mae yn debyg mai y tro hwn yn Machynlleth, oedd y tro

cyntaf i Mr. Ebenezer Morris ei wrandaw ef: ac er nad oes genym unrhyw dystiolaeth bendant o'r hyn a feddylid ganddo ef y pryd hwn am dano, eto oddiwrth yr ymdrech neillduol a gymmerodd, gydâ Mr. Ebenezer Richard, i'w gael i Gymdeithasfa Llangeitho y flwyddyn ganlynol, ni a allwn gasglu ei fod, fel y buasem yn dysgwyl, wedi cael boddlonrwydd mawr ynddo. Y mae yn hawdd gweled fod yr alwad am dano, erbyn hyn, yn fynych ac yn uchel iawn i'n Cymdeithasfaoedd; oblegyd yr ydym yn ei gael, yn nesaf, yn Nghymdeithasfa Pwllheli, yr hon a gynhelid Iau a Gwener, Hydref 2, 3, 1823; lle y pregethodd am bedwar ar y gloch y prydnawn cyntaf, oddiar Daniel ix. 24. Yr oedd Mr. Daniel Evans, Capel Drindod, yn pregethu ar ei ol, a Mr. Edward Jones, Borth (Aberystwyth wedi hyny), yn dechreu yr oedfa. Yr oedd Mr. Lloyd, Beaumaris, a Mr. Ebenezer Richard, yn pregethu am ddeg drannoeth, a Mr. Humphrey Gwalchmai, yn dechreu: a Mr. William Morris a Mr. Elias yn pregethu am ddau, a Mr. John Peters yn dechreu; a Mr. Richard Jones, y Wern, a Mr. John Roberts, Llangwm, yn pregethu yn yr hwyr. Dyma y tro cyntaf i Mr. Rees bregethu yn Nghymdeithasfa Sir Gaernarfon, a'r tro cyntaf yn wir iddo bregethu mewn Cymdeithasfa Chwarterol, yn briodol felly, o gwbl. Ac fe bregethodd y pryd hyn gydâ rhyw lewyrch hynod iawn, fel yr oedd effeithiau anghyffredin ar yr holl gynulleidfa. Fe ddywedir fod golwg hyfryd iawn ar yr hen bregethwyr,—Robert Jones, Rhoslan, John Roberts, Llangwm, Robert Dafydd, Bryn Engan, ac ereill,—yn gystal a'r pregethwyr ieuangach oll, yn mwynhau y bregeth, ac yn wylo fel plant. Ac yr oedd yn ddymunol iawn gweled gŵr ieuanc, dim ond pump ar hugain oed, wedi cyrhaedd y fath safle, ac yn cael y fath ddylanwad ar y miloedd oeddent o'i flaen.

Ni chafodd ond ychydig iawn o hamdden ar ol dychwelyd o Bwllheli, cyn iddo fyned drachefn i Gymdeithasfa Dolgellau, yr hon a gynhelid y Mercher a'r Iau, Hydref 29, 30; lle y pregethodd am ddau ar y gloch ddydd Iau, o flaen Mr. Elias, oddiar Numeri xxxii. 23. Yr oedd y bregeth hon, fe ddywedir, yn un

nodedig o ddifrifol. Yr oedd yn gosod allan, mewn dull mor eglur a grymus, y cysylltiad anocheladwy rhwng pechod a chosbedigaeth, nes oedd y gwrandawyr megis wedi eu cau i fynu, o ran eu teimladau, i golledigaeth; fel yr oedd y cyhoeddiad o ffordd diangfa, cyn terfynu y bregeth, megis bywyd iddynt o safn marwolaeth; a llaweroedd yn methu ymattal rhag tori allan i ddiolch yn gyhoeddus am yr ymwared.

Nid oes genym ddim o'i hanes am rai misoedd ar ol iddo ddychwelyd o Bwllheli. Y tebygolrwydd ydyw ei fod wedi eu treulio yn yr Amwythig, gydâ'i lafur arferol, gan fyned yn achlysurol, ar y Sabbothau, i'r lleoedd cyfleus iddo yn Sir Drefaldwyn ac fe allai i rai o'r Cyfarfodydd Misol yno. Dichon hefyd, er nad oes genym ddim hanes am hyny, ei fod wedi bod rywbryd yn ystod y gauaf ar daith trwy un o Siroedd y Gogledd. Eithr amser o fyfyrdod caled, a llafur dirfawr, oedd y misoedd hyny arno gydâ'r weinidogaeth; ac fel yr oedd yn gweled fod y galwadau arno yn lliosogi, ac yntau yn dyfod i fwy-fwy o gyhoeddusrwydd yn y Cyfundeb, y mae yn ddiammeu ei fod yn teimlo mwy-fwy o rwymau arno, i wneuthur a allai ar gyfer y gwaith yr oedd ynddo, ac er cyfarfod dysgwyliadau y wlad wrtho.

Yr ydym yn ei gael yn nesaf yn Nghymdeithasfa Chwarterol y Wyddgrug, y Mercher a'r Iau, Mawrth 3, 4, 1824. Yr oedd yn pregethu yno am ddeg ddydd Iau, oddiar Psalm xxxvi. 2, o flaen Mr. John Roberts, Llangwm, a Mr. Robert Griffith, Dolgelleu, yn dechreu yr oedfa. Yr oedd Mr. Humphrey Gwalchmai, a Mr. Elias yn pregethu am ddau, a Mr. John Davies, Nantglyn, yn dechreu yr oedfa. Yr oedd Mr. Elias yn pregethu hefyd am bump y prydnawn cyntaf, ac am saith ar y gloch y boreu olaf. Yn y Gymdeithasfa hon yr oedd Mr. Parry, o Gaer yn Llywydd; ac ynddi hi yr ymddiddanwyd â, ac y derbyniwyd y diweddar Mr. Hugh Parry, Llanarmon, yn aelod o'r Gymdeithasfa. Yr oedd dau ereill, o Sir Fflint yn cael eu derbyn yr un pryd—un Edward Jones, nad ydym yn gwybod dim o'i hanes, ac Edward Roberts, Cilcen, uchel-Galvin tra eith-

afol, yr hwn a fu o flinder dirfawr i'r Cyfundeb, hyd nes y diarddelwyd ef, mewn Cymdeithasfa arall yn y Wyddgrug, yn y flwyddyn 1836. Ond yr oedd Mr. Hugh Parry yn wenithyn pur, ac y mae ei goffadwriaeth yn anwyl iawn. Mr. John Roberts, Llangwm, oedd yn ymddyddan â hwynt am eu profiad a'u hanes crefyddol; Mr. Elias am eu golygiadau athrawiaethol; a Mr. Thomas Hughes, Liverpool, am eu cymhelliadau i bregethu. Gwrandawr distaw oedd Mr. Rees ar bob ymdriniaeth, yn y Gymdeithasfa hono.

Yn mhen tua chwech wythnos, Mawrth a Mercher, Ebrill 20, 21, 1824, yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol drachefn yn Llanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn. Ac er fod y lle hwn o fewn cylch ei Gyfarfod Misol ef ei hunan, ac yn y rhan o hono ag y byddai efe yn myned amlaf iddi, eto yr ydym yn ei gael yn dechreu yr oedfa am ddeg ar y gloch, ddydd Mercher, a Mr. John Jones, Tremadoc, a Mr. John Roberts, Llangwm, yn pregethu. Yr oedd Mr. Ebenezer Richard yn pregethu y prydnawn cyntaf, ar ol Mr. Wm. Jones, Rhuddlan, a Mr. Roberts, y Rhos yn dechreu yr oedfa, a Mr. Richard, drachefn am ddau ar y gloch, ar ol Mr. Daniel Jones, a Mr. John Peters yn dechreu. Mr. Jones, Tremadoc, oedd yn Llywydd yn y Gymdeithasfa hon; ac ynddi yr ymddiddanwyd â, ac y derbyniwyd y diweddar Mr. Richard Evans, Llanidloes, a'r diweddar Mr. Richard Willams, Llanbrynmair (Liverpool wedi hyny), yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Ymddiddanwyd â hwy am eu profiadau, gan Mr. John Roberts, Llangwm; am eu Hegwyddorion, gan Mr. Ebenezer Richard: ac am eu cymhelliadau i waith y Weinidogaeth, gan Mr. John Jones, Tremadoc. Y mae yn ddiammeu nad oedd Mr. Rees yn cymmeryd unrhyw ran yn y Gymdeithasfa hon ychwaith, yn ei chyfarfodydd neillduol hi.

Yn Nghyfarfodydd y Sulgwyn y flwyddyn hon, y Gwener, y Sadwrn, y Sabboth, a'r Llun, Mehefin 4, 5, 6, 7, y bu efe gyntaf erioed yn Liverpool. Yr oedd Mr. Lloyd y Bala, Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. John Jones, Treffynnon, Mr. Edward Jones, Borth, Mr. Edward Hughes, Borth, Mr. Thomas Owen,

Llangefni, a Mr. Humphrey Gwalchmai, yn bresennol hefyd yn y Gymmanfa y flwyddyn hono. Nid oedd genym yma y pryd hyny ond dau Gapel,—Pall Mall a Bedford Street; eithr yr oedd Capel arall, a adeiladasid i'r Bedyddwyr Seisnig, yn *Great Cross Hall Street,* yn cael ei ddal dan ardreth genym, a'r hwn y bwriedid ei brynu, ond fel y cafwyd nad oedd gan yr Ymddiriedolwyr hawl i'w werthu i unrhyw Enwad arall; ac felly, yn mhen rhyw ddwy flynedd, fe adeiladwyd Capel *Rose Place.* Yr oedd pregethu yn y tri Chapel yn y Gymmanfa hono yn 1824, a chynnulleidfäoedd lliosocach, meddir, nag a welsid cyn hyny, yn mhlith y Cymry erioed yn y Dref; ac fe ddywedir hefyd fod rhyw eneinniad hynod ar yr holl gyfarfodydd. Yr oedd Mr. Rees, yn enwedig, yn nodedig o effeithiol. Ei bregeth gyntaf yn Liverpool oedd yn hen Gapel Bedford, y nos Wener o flaen y Sulgwyn, sef Mehefin 4. Ei destyn ydoedd Psalm cxix. 130: "Agoriad dy eiriau a rydd oleuni: pair ddeall i'r rhai annichellgar.' Yr oedd Mr. Roberts, *Hope Street,* y pryd hyny yn llanc ieuanc, deunaw mlwydd oed, ac yn cymmeryd dyddordeb mawr mewn pregethu a phregethwyr; ac y mae efe yn cofio yn dda am yr oedfa, ac am y siarad oedd am dani. Ond gwell i ni ddefnyddio ei eiriau ef ei hunan:—

"Y peth cyntaf," meddai, "wyf fi yn gofio am Mr. Rees, ydyw ei ymweliad cyntaf ef â Liverpool, yn y flwyddyn 1824, pan y pregethodd yn Nghymmanfa y Sulgwyn, ar nos Wener, yn hen Gapel Bedford, oddiar Psalm cxix. 130. Yr oedd y pryd hyny yn ddyn ieuanc tàl, yn hytrach yn deneu a main, a difrifwch mawr yn ei wedd. Nid wyf yn deall fod, cyn ei ddyfodiad, un dysgwyliad mawr wrtho, nac udganiad udgorn o'i flaen, yr hyn sydd, yn aml, yn gryn anfantais i bregethwyr ieuainc. Ond yr wyf yn cofio iddo wneuthur argraff ar feddyliau llawer ar y pryd, yn enwedig y rhai a gyfrifid fel Beirniaid, ac a ystyrid y rhai mwyaf goleuedig, ei fod yn mhell uwchlaw y cyffredin. Clywais rai o honynt, wrth fyned allan o'r oedfa, fel mewn syndod yn cyfarch eu gilydd, trwy ofyn, 'Pwy ydyw hwn? Pwy ydyw hwn?' yr hyn oedd yn dangos ei fod yn cael ei olygu

ganddynt yn rhyw un tra gobeithiol. Ond nid oeddent wedi rhagweled y safle uchel a gyrhaeddai Mr. Rees yn ein Cyfundeb, ac mewn modd arbenig yn ei gysylltiad agos ac anwyl âg eglwysi Liverpool."

Y mae yn debyg, er nad oes genym hanes am hyny, iddo fyned, yn ol y drefn y pryd hwnw, i'r Cyfarfod Blynyddol a gynhelid yn Manchester, yn ystod wythnos y Sulgwyn. Y mae yn sicr, beth bynnag, iddo fyned i Gymdeithasfa y Bala, yr hon a gynhelid yr wythnos ganlynol, Mehefin 15, 16, 17. Yn y Gymdeithasfa hono yr oedd Mr. Elias yn Llywydd. Yn Nghyfarfod y Pregethwyr, yr oedd yr hen frodyr, Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. David Cadwaladr, a Mr. William Hugh, yn adrodd eu profiadau, yn nghyd â'r brodyr ieuengach, Mr. John Peters a Mr. Foulk Evans. Yr oedd Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, am ddau, yn cael ei dreulio yn gwbl, y tro hwnw, gydâg achos yr Ysgol Sabbothol; ac Annerchiadau yn cael eu rhoddi gan y Llywydd, a chan Mr. Humphrey Gwalchmai, Mr. Lloyd, Beaumaris, Mr. Michael Roberts, Mr. John Jones, Tremadoc, Mr. Owen Jones, Gelli, Mr. Cadwaladr Williams, Mr. Moses Parry, Mr. John Jones, Rhuthin, Mr. Richard Jones, y Wern, Mr. Ebenezer Richard, a Mr. Thomas Jones, Caerfyrddin. Testyn yr ymddyddan yn y Cyfarfod am wyth, boreu drannoeth, oedd Llywodraeth Eglwysig. Yn y gwasanaeth cyhoeddus, am bump y prydnawn cyntaf, yr oedd Mr. Morris Davies, Llanfair Muallt, yn dechreu, a Mr. William Morris, Capel Newydd (Llanelli wedi hyny), a Mr. David Evans, Aberaeron, yn pregethu. Am chwech, boreu drannoeth, yr oedd Mr. Thomas Jones, Caerfyrddin, yn pregethu. Am ddeg, dechreuwyd gan Mr. Peter Roberts, Llansannan; yna rhoddwyd cyfarchiad byr ar yr Ysgol Sabbothol, gan Mr. Ebenezer Richard, a phregethodd Mr. Michael Roberts a Mr. Elias. Am ddau, dechreuwyd gan Mr. Roberts, Amlwch; yna cafwyd cyfarchiad drachefn ar yr Ysgol Sabbothol gan Mr. Elias, a phregethodd Mr. Lloyd, Beaumaris, a Mr. Richard. Yr oedd yr hîn wedi bod yn dra anfanteisiol trwy y dydd, ac at yr hwyr yr oedd yn gwlawio cymmaint fel y penderfynwyd myned

i'r Capeli. Yn Nghapel y Methodistiaid, fe bregethodd Mr. Edward Jones, Borth, a Mr. Humphrey Gwalchmai; ac yn Nghapel yr Annibynwyr, Mr. Rees a Mr. Edward Goslet. Am chwech y boreu olaf, fe bregethodd Mr. John Jones, Treffynnon, a Mr. John Hughes, Pont Robert. Testyn Mr. Rees y pryd hwn oedd, 2 Chron. xxx. 6—12. Ni a glywsom ein hanwyl frawd, y diweddar Barch. Rees Jones, Felinheli, yn dywedyd ei fod ef, pan yn fachgen rhwng deuddeg a thair ar ddeg oed, wedi cael myned gydâ'i fam, y flwyddyn hono, i'r Bala, a'i fod ef yn gwrandaw ar Mr. Rees y tro hwn. Nid oedd yn gallu cofio llawer o'r bregeth, ond yr oedd yn cofio yn dda fod effeithiau hynod ar y gynnulleidfa pan oedd yn pregethu; a bod rhyw ddifrifwch annghyffredin yn ei ysbryd a'i ddull, pan yn cymhell ei wrandawyr i "roddi llaw i'r Arglwydd." Dywedai hefyd ei fod yn pregethu mor egniol, ac yn rhoddi y fath bwysau arno ei hunan, fel rhwng hyny, a bod y Capel yn annghyffredin o lawn, na welsai neb erioed yn chwysu cymmaint, ac mai ofn llawer oedd nas gallasai fyw yn hir. Dyma y tro cyntaf iddo bregethu yn Nghymdeithasfa y Bala; ac fe bregethodd ynddi bob blwyddyn ar ol hyny, os byddai yno, tra y bu yn cael ei chynnal yno yn flynyddol, neu yn mha le bynnag arall y byddai, hyd ddiwedd ei oes. Yn wir yr oedd, erbyn hyn, wedi ei sefydlu ei hunan yn hollol, yn marn y wlad yn gyffredin, megis pregethwr o'r dosbarth blaenaf, fel ag y gwahoddid ef braidd i bob Cymdeithasfa, ac y pennodid ef, gan amlaf, i bregethu ar un o'r adegau mwyaf cyhoeddus.

Efe a aeth rhagddo o'r Bala, y tro hwn, tua Sir Fôn, lle yr oedd Cymmanfa i'w chynnal yr wythnos ganlynol, y Mawrth a'r Mercher, Mehefin 22, 23, yn Amlwch. Yr oeddem ni yn bresennol yn y Gymmanfa hono, wedi cael myned iddi gydâ'n mam; a dichon yr esgusodir ni am ddodi i mewn yma rai o'n hadgofion am dani. Yr attyniad mawr ar ein mam i'r Gymdeithasfa oedd, fod Mr. Ebenezer Richard yn cael ei ddisgwyl iddi; ac yr oeddem ninnau wedi ei chlywed hi yn sôn cymmaint am dano, fel yr oeddem yn awyddus iawn am ei weled a'i

glywed. Yr oeddem wedi clywed fod ei gyhoeddiad yn Llanerchymedd y nos Lun o flaen y Gymmanfa; ac felly fe benderfynodd ein mam fyned yno, ar y ffordd iddi. Cerddasom o Gaergybi yno, gan orphwys a chael cwppanaid o dê, yn nhŷ yr hen bregethwr, Mr. John Evans, yn Modedern; gan fod Mrs. Evans a'n mam yn hen gyfeillesau. Erbyn i ni gyrhaedd y Capel yn Llanerchymedd, yr oedd yr oedfa wedi dechreu, a rhyw un yn pregethu yn rhwydd ac yn lled danbaid. Fe'n harweiniwyd ni i eisteddle gyferbyn a'r pulpud, mewn lle nodedig o fanteisiol i weled a chlywed. Ond, ar unwaith, fe'n taflwyd i brofedigaeth fawr. Yr oedd ein mam wedi gadael argraff ar ein meddwl fod Mr. Richard yn bregethwr annghyffredin o effeithiol, bod ganddo lais nodedig o dyner, a'i fod yn ŵr tew iawn. Yr oedd yr hwn oedd yn awr yn pregethu yn ŵr lled dew; ac yr oedd ganddo lais mwynaidd; ac yr oedd rhyw hen ŵr, teneu, ac mewn diwyg lled gyffredin, yn sefyll yn y pulpud yn lled agos ato. Gwnaethom ni ein meddwl i fynu, naill ai nad oedd Mr. Richard yn llawn cystal pregethwr ag y darluniasid ef i ni gan ein mam, neu nad oedd wedi dyfod i'w gyhoeddiad, ac mai yr hen ŵr, a welem yn y pulpud, oedd wedi dyfod yn ei le. Tòc, pa fodd bynnag, fe ddywedai y pregethwr fod yn bryd iddo ef ddibenu, "i roddi lle i was yr Arglwydd;" ac yn fuan iawn fe derfynodd. Ar hyny dyna ŵr tew iawn, llonaid pulpud o ddyn, yn dyfod i'r golwg, o bryd du, a gwallt du lled deneu, ac o ymddangosiad tra boneddigaidd. Cyn iddo roddi pennill i'w ganu, dyna yr hen bregethwr, Mr. Griffith Davies, yn annog y bobl i wthio yn mlaen oddiwrth y drysau; ac yn cymhell y rhai a allent, i neidio i mewn i'r eisteddleoedd oeddent weigion yn y *gallery*, gan fod eu drysau wedi eu hoelio fel na ellid eu hagor, "am fod y bobl," meddai, "yn myned iddynt heb dalu am danynt." Yr oedd y Capel yn ymddangos yn lled newydd. Tra yr oeddem ni yn synu wrth glywed hysbysiad o'r fath, a lliaws yn neidio i'r lleoedd gweigion, dyna Mr. Richard yn rhoddi pennill i'w ganu;—"Deuwch hil syrthiedig Adda, &c.;" a hen ŵr Hafod y Mŷn yn arwain y gân. Yr oedd yno ganu

gwresog, a braidd ormod o hono genym ni, yn ein mawr awydd am glywed y pregethwr. Ei destyn oedd, 2 Cor. ix. 15: "Ac i Dduw y byddo'r diolch am ei ddawn annhraethol." Nid ydym yn cofio nemawr ddim o'r bregeth, heblaw ei fod yn esbonio fod y "ddawn annhraethol," yn y testyn, yn golygu Iesu Grist, Mab Duw; y rhodd benaf a roddodd Duw, a'r rheswm am bob rhodd arall; a'i fod hefyd yn llefaru yn helaeth iawn ar ein rhwymau i ddiolch i Dduw am dano. Ond yr ydym yn cofio yn dda ei fod yn pregethu yn hynod o effeithiol. Yr oedd y pregethwr yn wylo, a'r gynnulleidfa yn wylo; a'r lle drwyddo yn un Bochim. Yr oeddem, yn mhell cyn gorphen y bregeth, yr un farn yn hollol â'n hanwyl fam am y pregethwr, ac ni chollodd byth ei ddylanwad arnom. Yr oedd holl flinder y cerdded o Gaergybi wedi myned ymaith wrth wrandaw arno; ac yr oeddem yn edrych yn mlaen, gydâ hyfrydwch, at y wledd oedd yn ein haros yn Amlwch, pan y caem ei glywed ef drachefn, yn gystal â'r gwŷr enwog ereill a ddysgwylid yno. Dylasem hysbysu mai Mr. David Jenkins, Llanilar, cyfaill Mr. Richard ar ei daith, oedd yr hwn a bregethodd gyntaf; ac mai rhyw hen ŵr, trwm ei glyw, o Lanerchymedd neu y gymmydogaeth, oedd yr un a safai gerllaw iddo yn y pulpud, ac yr ofnem ni ei fod wedi dyfod yno yn lle Mr. Richard.

Drannoeth ni a aethom tuag Amlwch. Ac y mae yn fyw iawn yn ein côf y dyddordeb mawr a deimlid genym yn y pregethwyr, a'n meddyliau bachgenaidd am danynt. Yr oedd Mr. Elias, Mr. Lloyd, Beaumaris, Mr. Roberts, Amlwch, a Mr. Prytherch, yn cael edrych arnynt genym, yn enwedig y cyntaf, gydâ pharchedigaeth yn terfynu ar hanner addoliad. Eithr gan eu bod hwy yn hollol adnabyddus i ni, yr oeddem yn sylwi yn neillduol ar y dieithriaid. Ni a gawsom lawn olwg ar Mr. Ebenezer Richard,—ac yr oedd yn edrych yn nodedig o barchedig, ac yn ymddangos i ni megis gŵr oedranus, er nad oedd y pryd hyny ond dwy a deugain oed. Yr oedd Mr. Richard Jones o'r Wern, yn ymddangos yn ŵr tàl, nid llawer os dim dan chwech troedfedd, gydâ gwyneb nodedig o hardd a gwrid iachus arno, ac

mewn du drosto ar ol ei briod, a gollasai yn ddiweddar. Yr oedd Mr. Hughes (Wrexham y pryd hyny) yn ŵr ieuanc, wyth ar hugain oed, hynod o brydferth ac annghyffredin o heinyf. Tarawyd ni gydâ pheth syndod, ar ol yr oedfa ar y maes y noswaith gyntaf, pan yr oedd rhyw rai yn araf yn defnyddio yr ysgol i ddisgyn oddiar *stage* y pregethwyr, wrth ei weled ef yn neidio fel bachgen oddiarni ar y llawr, gan adael i'r lleill ddisgyn fel y gallent. Yr oedd Mr. Rees, pa bryd bynnag y gwelem ef, yn ymddangos yn nodedig o ddifrifol, ac yn edrych fel pe buasai wedi ei lyncu i fynu gan ei fyfyrdodau. Nid ydym yn cofio pwy oedd yn dechreu yr oedfa y prydnawn cyntaf, ond dyna ŵr lled ieuanc, yn hytrach yn fyr o gorpholaeth, a golwg iachus iawn arno, yn dyfod at yr astell, ac yn rhoddi pennill i'w ganu. Yr oedd pobl Caergybi, ac yr oedd yno gryn lawer o honom, wedi cyd-ymgrynhoi, yn lled agos i'w gilydd, yn yr un cŵr o'r maes, nid yn mhell oddiwrth y pulpud. Gydâ bod y pregethwr yn y golwg, fe ddywedai Mr. Robert Roberts, awdwr y Daearyddiaeth,—"Dyma hen ysgolhaig i mi, Mr. Richard Jones, Trawsfynydd,"—(Bala wedi hyny). Ac efe a bregethodd gyntaf, oddiar Gal. iii. 20, a Mr. Ebenezer Richard ar ei ol, oddiar 2 Cor. vi. 18. Nis gallwn aros gydâ'r pregethau. Am chwech ar y gloch, boreu dranoeth, dechreuwyd gan Mr. David Roberts, Bangor, a phregethodd Mr. Edward Goslet, oddiar Ioan iii. 36. Pregeth effeithiol iawn. Nid ydym yn cofio pwy a ddechreuodd am ddeg, ond Mr. Hughes, Wrexham (Liverpool wedi hyny), a bregethodd yn gyntaf, oddiar Esaiah lv. 3, rhan yn Gymraeg a rhan yn Saesonaeg; a Mr. Rees ar ei ol, oddiar Deut. xix. 4. Ni ddarfu i ni erioed sylwi ar gymmaint ymdrech rhwng dau bregethwr am gael myned yn gyntaf, ag oedd rhwng Mr. Hughes a Mr. Rees y boreu hwnw; ac nis gwyddom pa hyd y parhasai, pe na buasai i rai o'r pregethwyr, ag oeddent yn agos atynt, dynu yn Mr. Rees, a gwneyd iddo eistedd i lawr. Ac nid oedd dim rhodres yn yr ymryson hwnw. Yr oedd y naill a'r llall yn hollol ddiffuant. Yr oedd Mr. Rees yn gwybod fod Mr. Hughes yn pregethu er ys tua chwe' blynedd o'i flaen

ef; ei fod yn ŵr a ystyrid yn ddysgedig, ac yn cadw ysgol yn yr hon yr oedd cryn nifer o bregethwyr, o bryd i bryd wedi bod dan ei addysg, ac y mae yn dra thebyg ei fod ef ei hunan wedi bod lawer gwaith yn dymuno cael bod yn un o honynt; ac heblaw hyny, yr oedd yn gwybod ei fod yn bregethwr o nodwedd uchel iawn, ac yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel un o'r rhai blaenaf, o'i oedran ef, yn yr holl wlad, ac er ys rhai blynyddoedd cyn hyny yn cael ei ddodi i bregethu yn y prif Gymdeithasfaoedd, y byddai yn bresennol ynddynt, ar yr adegau mwyaf cyhoeddus;—rhwng pob peth, yr oedd yn teimlo yn nodedig o anfoddlawn i feddwl pregethu ar ei ol. O'r tu arall, yr oedd Mr. Hughes yn benderfynol y mynai efe bregethu yn gyntaf; ac yr oedd ganddo reswm neillduol dros hyny y tro hwnw, yn annibynol ar ei deimlad gydâ golwg ar Mr. Rees, gan y dysgwylid iddo ef bregethu mewn rhan yn y Saesonaeg; ac yr oedd yn gwybod yn dda mai goreu po cyntaf, gan gorph y gynnulleidfa, fyddai i hyny fod trosodd. Pa fodd bynnag, yr oedd y ddau bregethwr yn eu hwyliau goreu. Cafodd Mr. Hughes, er yr holl anfantais oddiwrth newid yr iaith, feistrolaeth hollol ar y gynnulleidfa; a phan yn gwaeddi, "*a bydd byw eich enaid,*" ac yn gosod allan werth bywyd "*enaid,*" yr oedd yn hynod o effeithiol. Yr ydym yn cofio ymddyddan â Mr. Rees, rywbryd, yn nghylch yr oedfa y boreu hwnw, yn Amlwch: "Nid oes genyf fi," meddai, "ddim llawer o gôf am dani; ond yr ydwyf yn cofio yn eithaf da fy mod i yn barnu fod Mr. Hughes yn pregethu, y tro hwnw, yn llawer gwell na mi, fel y gwnaeth o laweroedd o weithiau ar ol hyny." Yr oedd Mr. Hughes yn *dda*, yn dda *odiaeth;* ond nid ydym yn ammeu dim nad teimlad y dorf yn gyffredinol ydoedd, mai Mr. Rees oedd pregethwr mawr y Gymmanfa hono. Nid ydym yn cofio llawer o'i bregeth ef; ac y mae yn ddrwg iawn genym fod y pregethau o'i eiddo, am y blynyddoedd hyny, yn gwbl o'n cyrhaedd. Yr ydym yn cofio, pa fodd bynnag, fod yr holl gynnulleidfa wedi ei dwyn i ryw ddifrifwch arswydlawn, pan yr oedd yn dysgrifio perygl cyflwr pechadur megis llofrudd, a'r dialydd ar ei ôl, ac heb ddim

ganddo i'w ddysgwyl ond syrthio yn ysglyfaeth iddo, a chael ei ladd byth ganddo. Nid oedd yno neb yn cellwair, neb yn gwamalu, neb yn gwenu; yr oedd yr holl dorf fel â'i hanadl yn ymattal, mewn ymdeimlad â'r perygl, ac wedi ei llanw â braw gan ofn y dialydd, fel pan ddaeth at ddarpariaeth yr efengyl ar gyfer ei amgylchiad, yr oedd yr ymwared megis bywyd o feirw. Yr ydym yn cofio, pan y gwaeddai allan laweroedd o weithiau, mewn llais tyner, treiddgar,—"Noddfa! *Noddfa! !* NODDFA! ! ! NODDFA ! ! ! !" fod yr effeithiau yn hynod iawn; yr oedd yr holl dorf fel pe buasai wedi ei gwefreiddio ar unwaith. Dyna y pregethwyr gydâ'u gilydd ar y *stage,* fel un gŵr ar eu traed. Dacw Mr. Elias yn ymwthio yn mlaen at ochr Mr. Prytherch, â gwên nefolaidd ar ei wyneb. Dacw Mr. Ebenezer Richard yn wylo fel plentyn. Y mae rhai yn y dorf yn gwaeddi,—"*Diolch!*" Eithr dyna y pregethwr fel yn attal y cynhyrfiad, ac yn myned rhagddo, yn fwy hamddenol, i ddarlunio y ddarpariaeth er diogelwch y pechadur, gydâ goleuni a manylder a nerth a dylanwad mawr. Yr oedd y drefn yn cael ei dwyn allan ganddo ger bron y gynnulleidfa, yn ei haddasrwydd, ei graslonrwydd, a'i chadernid, gydâ'r fath lewyrch, fel yr oedd rhai wedi tori allan yn gyhoeddus i ddiolch am dani; ac y mae yn anhawdd genym feddwl na ennillwyd yno rai o'r newydd i wneyd defnydd o honi am eu bywyd. Er fod yn awr yn agos i ddwy flynedd a thriugain er y Gymdeithasfa hono, y mae ein hadgofion am dani, o leiaf am ein teimladau ein hunain ynddi, yn fyw iawn yn ein meddyliau, ac yn hyfryd iawn genym. Nid ydym yn cofio pwy a ddechreuodd yr oedfa am ddau, ond Mr. Richard Jones, y Wern, a bregethodd yn gyntaf oddiar Act. xxiv. 25, a Mr. Ebenezer Richard, yn nodedig o effeithiol ar ei ol, oddiar Ioan xiv. 23. Mr. Robert Evans, Roewen, a Mr. John Jones, Treffynnon, oeddent yn pregethu yn yr hwyr: ond yr oeddem ni yn ymadael am Gaergybi ar ol yr oedfa ddau; a chan gerdded yr holl ffordd, ac ail-fyned dros y pregethau gydâ'n gilydd, cyrhaeddasom y cartref tuag un ar y gloch y boreu.

Ni chafodd Mr. Rees lawer o hamdden gartref wedi ei ddych-

weliad o Amlwch, oblegyd yr ydym yn ei gael yr Iau a'r Gwener, Awst 5, 6, yn Nghymdeithasfa Machynlleth, lle y pregethai y nos ddiweddaf oddiar 1 Bren. xvi. 30, 31, ar ol Mr. Edward Jones, y Borth. Y pregethwyr ereill yn Machynlleth oeddent Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. Lloyd, Beaumaris, Mr. Richard Jones, y Wern, Mr. Daniel Jones, Mr. William Jones, Rhuddlan, Mr. Griffith Solomon, Mr. Foulk Evans, a Mr. John Hughes, Llangollen. Yr oedd Mr. Lloyd o'r Bala hefyd yno, ac yn pregethu yn Machynlleth y Sabboth canlynol. Mr. Richard Jones, o'r Wern, oedd Llywydd y Gymdeithasfa. Nid ydym yn gwybod yn mha le yr oedd Mr. Rees y Sabboth canlynol, Awst 8; ond gan ei fod ar ei ffordd tua Llangeitho, y tebygolrwydd ydyw ei fod am ran o hono o leiaf yn Aberystwyth, ac yn myned rhagddo fel ag i gyrhaedd Tregaron nos Lun. Pa fodd bynnag, yr oedd yn y Gymdeithasfa yn Llangeitho, y Mawrth a'r Mercher, Awst 10, 11, ac yn pregethu yno ar y maes am bedwar ar y gloch y prydnawn cyntaf oddiar 2 Chron. xxx. 6—12, o flaen Mr. Thomas Richard; a Mr. John Jones, Treffynnon, yn dechreu yr oedfa. Am chwech boreu drannoeth, dechreuwyd gan Mr. Lewis Morris, a phregethodd Mr. David Griffiths, Llantwd, a Mr. John Prytherch. Am ddeg, dechreuwyd gan Mr. Robert Griffith, Dolgelleu, a phregethodd Mr. Charles, Caerfyrddin, a Mr. John Roberts, Llangwm. Am ddau, dechreuwyd gan Mr. Henry Jones, Llaneirwg, a phregethodd Mr. Evans, New Inn, a Mr. Lloyd, Beaumaris. Am chwech, pregethodd Mr. William Jones, Rhuddlan, a Mr. Humphrey Gwalchmai. Yn y Gymdeithasfa hon, Mr. Charles, Caerfyrddin, oedd yn Llywydd; ac yn hon y neillduwyd Mr. Morgan Howell, Mr. William Griffith, Browyr, a Mr. David Howell, i holl waith y Weinidogaeth; ac yr oedd y Cyfarfod Ordeinio hwnw yn un hynod iawn. Mr. John Roberts, Llangwm, oedd yn darllen y rhanau arferol o'r Ysgrythyrau, ac yn gweddïo; Mr. Thomas Richard, yn traethu ar Natur Eglwys; Mr. Lloyd, Beaumaris, yn gofyn yr Holiadau cyffredin; a Mr. Ebenezer Morris yn rhoddi y Cyngor. Ni a glywsom Mr. Rees, amrywiol weithiau, yn cyfeirio at y

Cyngor hwnw fel un o'r pethau mwyaf awdurdodol ac effeithiol a wrandawsai efe erioed, ac yn gofidio yn fawr na buasai yno ryw un yn ei ysgrifenu, air am air, fel ag yr oedd ar y pryd yn cael ei draddodi. "Ac eto," meddai, "yr oedd ei nerth mawr yn cyfodi, yn ddiammeu, o'r bywyd a'r teimlad oedd yn yspryd Mr. Morris ei hunan. Ni welais i neb erioed yn fwy fel 'gŵr Duw' nag yr oedd efe yn y Cyngor hwnw." Yr ydym yn ei gofio yn gwneuthur cyfeiriad effeithiol iawn ato, mewn Cyngor o'i eiddo ei hunan, mewn Cyfarfod Ordeinio yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi 14, 1859. "Yr wyf yn cofio," meddai, "clywed Ebenezer Morris, unwaith, yn rhoddi Cyngor i dri o bregethwyr ieuainc, pan oeddent yn cael eu hordeinio, mewn cyfarfod fel sydd genym ni yma heddyw; a phan yr oedd yn darlunio y peryglon yr oeddent yn agored iddynt, ac yn dangos fel yr oedd yn bosibl iddynt, er eu hordeinio, os gadewid hwynt iddynt eu hunain, syrthio yn ysglyfaeth i'w chwantau ac i faglau y diafol, dyna ei enaid ynddo fel yn ymgynhyrfu, a chan edrych tua'r nefoedd, efe a waeddodd, gydâ bloedd sydd fel yn fy nghlustiau i heddyw, ac nas gallaf byth ei hannghofio,—'O! yr Eiriolwr Mawr, pâr na ddygwyddo hyn byth, i'r rhai sydd yn cael eu neillduo yma heddyw!' Ac yr wyf finnau o'r galon, fy mrodyr anwyl, yn dymuno ar i'r weddi hono, o eiddo y gweinidog enwog hwnw, ar ran y gwŷr ieuainc hyny, gael ei hateb ar eich rhan chwithau hefyd. Y Duw mawr a'ch cadwo byth fel canwyll ei lygad!" Yr oedd y cyfeiriadau mynych a wneid ganddo at y Cyngor hwnw yn Llangeitho, yn profi ei fod wedi gwneuthur argraff ddofn ac arosol ar ei feddwl ef.

Buasai yn dda genym pe gallasem ddodi ger bron ein darllenwyr ryw adroddiad am bregeth Mr. Rees y tro hwn,—y tro cyntaf iddo bregethu mewn Cymdeithasfa yn y Deheudir, a'r tro cyntaf, yn wir, iddo ymweled â'r Deheudir. Y mae yn amlwg ei fod ef ei hunan yn meddwl rhywbeth o'r bregeth, oblegyd yr un un ydoedd ag oedd ganddo, fel y gwelsom, yn Nghymdeithasfa y Bala, y Mehefin blaenorol. Y mae Mr. Henry Richard, yr Aelod Seneddol dros Ferthyr Tydfil, yn garedig iawn wedi anfon

i ni ei adgof ei hunan o'r ymweliad hwn:—"Yr wyf yn cofio yn bendant ymweliad cyntaf Mr. Henry Rees â Deheudir Cymru. Yr oedd fy nhad wedi bod ar gyhoeddiad yn y Gogledd, ychydig amser cyn hyny, ac wedi gweled a chlywed Mr. Rees; ac wedi ei daro yn neillduol ac yn ddwfn iawn gan ei allu fel pregethwr. Wedi ei ddychweliad adref efe a wnaeth yr hyn a allai i daenu ei glodydd yn Sir Aberteifi, fel ag y byddai yn wastad yn ymhyfrydu mewn gwneuthur, gydâ golwg ar wŷr ieuainc galluog, a gwir addawol, y cyfarfyddai â hwynt yn ei Deithiau. Ac fe grewyd dysgwyliadau mawrion am dano trwy yr adroddiadau hyny.

"Yr oeddwn i yn bresennol yn y Gymdeithasfa yn Llangeitho, ac yn ei glywed yn pregethu. Yr oeddwn i yn meddwl yn sicr mai ei destyn oedd Matt. xxvii. 42: 'Efe a waredodd ereill, ei hunan nis gall efe ei waredu.' Y mae genyf gôf pendant am dano yn pregethu ar y geiriau yna, ac yn cynnyrchu effeithiau mawrion ar y gynnulleidfa. Ac yr oeddwn yn wastad yn teimlo yn sicr mai yn Nghymdeithasfa Llangeitho yr oedd hyny. Ond os yw eich adroddiad chwi am y testyn yn gywir, dichon mai y testyn yn Nhregaron oedd hwn, er nad ydwyf yn cofio yn hollol pa ddiwrnod yr ydoedd yno." Nid oes un amheuaeth nad yr adnod a nodasom ni oedd y testyn yn Llangeitho. Dyna y testyn a roddir yn yr Adroddiad am y Gymdeithasfa, yn hen "Oleuad Cymru," Llyfr iii. tudal. 549; dyna y testyn a roddir gan Mr. Humphrey Gwalchmai, yn y Cofnodau a ysgrifenid ganddo ar y pryd, y rhai sydd yn awr ger ein bron; a dyna y testyn a roddwyd i ni, er ys llawer o flynyddoedd bellach, gan hen chwaer, o'r enw Mrs. Solomon Williams, yn y Cei Newydd, yr hon oedd yn bresennol yn y Gymdeithasfa, ac yn cofio yn dda am dani. Yr oedd yr hen chwaer hono, pan oeddem ni yn ymddyddan â hi, wedi colli ei golwg ac yn hollol ddall, ond yr oedd ei chôf yn fywiog iawn. Dywedai fod Mr. Rees yn ŵr ieuanc, tàl, teneu, ac â gwyneb anwyl iawn ganddo, "heb gymmaint ag un blewyn arno." Dyna ei geiriau hi. Dywedai ei fod yn pregethu yn ogoneddus, ac wedi cael y gynnulleidfa yn gwbl i'w law, a

bod golwg ryfedd ar y pregethwyr i gyd, "yn enwedig," meddai, "Mr. Ebenezer Morris, a Mr. Ebenezer Richard, a Mr. Evans, New Inn, yn gwrandaw arno. Pan yn appelio, yn agos i ddiwedd ei bregeth at y dyrfa i 'roddi llaw i'r Arglwydd' yr oedd yn effeithiol iawn." Gan ein bod wedi crybwyll am yr hen chwaer hon, dichon yr esgusodir ni am roddi ychwaneg o'i hadgofion am y Gymdeithasfa hono:—Dywedai mai y bregeth fwyaf effeithiol ynddi o lawer ar y bobl, oedd yr eiddo Mr. Lloyd, Beaumaris, oddiar Luc. xxiv. 47. Yr oedd yr hen chwaer yn myned i hwyl hollol wrth adrodd hono:—"'Edifeirwch a maddeuant pechodau.' Nid edifeirwch i haeddu maddeuant, ond edifeirwch i roddi gwerth arno yn meddwl y pechadur; nid edifeirwch i wneuthur Duw yn fwy parod i faddeu, ond edifeirwch i'n parotoi ni i'w dderbyn; edifeirwch i wneyd lle i faddeuant. Nid oes gan yr anedifeiriol ddim lle i faddeuant. Y mae edifeirwch yn myned o flaen maddeuant i wneyd lle iddo, fel y mae y nodwydd yn myned o flaen yr edau, ac yn gwneyd lle iddi. 'Dos di,' meddai yr edau wrth y nodwydd, 'trwy y plygiau tewaf, trwy y darnau caletaf, ac mi ddof fi ar dy ol di; gwna di le i mi, mi fyddaf yn sicr o dy ddilyn di.' Felly y mae maddeuant yn dywedyd wrth edifeirwch:—'Dos di, mi ddof fi ar dy ôl di; gwna di le i mi, ac mi fyddaf fi yn sicr o dy ddilyn di. Dos di trwy y tyngu a'r rhegi a'r cablu, ac mi ddof fi ar dy ôl di; dos di trwy y meddwi am ugain mlynedd, ac mi ddof fi ar dy ôl di; dos di trwy y gwrandaw ac heb gredu er dyddiau yr hen Rowlands, ac mi ddof fi ar dy ôl di. Gwna di le i mi, ac mi fyddaf fi yn sicr o dy ddilyn di.' A thoc," meddai yr hen chwaer, "fe waeddodd mewn llais mwyn,—'Y mae y gŵr sydd yn gorchymyn pregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw, wedi ei ddyrchafu yn Dywysog ac yn Iachawdwr i'w rhoddi. Y maent i'w cael heddyw. A oes arnoch chwi eu heisiau? Y maent i'w cael; y maent i'w cael am *ddim*. Y mae yn eu *rhoddi*. I bwy? Pwy sydd â'u heisiau? A wnewch chwi eu derbyn? Nid oes neb yn rhy dlawd i'w cael; neb yn rhy hen; neb yn rhy anwybodus; neb yn rhy ddrwg; nid oes neb

yn cael ei gau allan; neb yn cael ei wrthod. *Tywysog* sydd yn rhoddi; nes yr aeth hi yn orfoledd mawr trwy y dorf i gyd." Dyna adgofion yr hen chwaer o'r Cei Newydd, am y Gymdeithasfa gyntaf y bu Mr. Rees ynddi yn y Deheudir.

Nid ydym yn gwybod pa faint o daith a gymmerodd efe yn Sir Aberteifi y pryd hwnw, ac nid oes genym ddim yn mhellach o'i hanes am y flwyddyn hòno, hyd nes yr ydym yn ei gael yn *Manchester*, yn Agoriad Capel *Cooper Street*, ar ddydd Nadolig a'r Sabboth canlynol, Rhag. 25, 26, 1824; lle y pregethodd foreu y Nadolig, oddiar Esaiah lii. 3, a boreu y Sabboth oddiar Ioan xiii. 31. Nid oes genym ddim o'i hanes ychwaith y flwyddyn ganlynol, 1825, ond yn unig ein bod yn ei gael yn pregethu yn Nghymdeithasfa Dinbych, Mawrth 3, 4, am ddeg, oddiar Esaiah lii. 3, gydâ Mr. Elias; yn Llanidloes, Ebrill 27, 28, am ddeg, oddiar Preg. v. 4, 5, yn Nghapel y Bedyddwyr, gydâ Mr. Ebenezer Richard; yn y Bala, Mehefin 14, 15, 16, am chwech y nos olaf, oddiar Diar. vi. 20—22, gydâ Mr. Michael Roberts; yn Nolgelleu, Hydref 26, 27, 28, lle y pregethodd ddwywaith; am ddau, oddiar 1 Ioan i. 7, a'r boreu olaf oddiar Diar. vi. 6—11; ac yn Llanrwst, Rhag. 26—29, lle y pregethodd gydâ nerth a dylanwad mawr, oddiar Deut. iv. 7, gydâ Mr. John Roberts, Llangwm. Y flwyddyn ganlynol drachefn (1826), nid oes genym ryw lawer o'i hanes, oddieithr mewn Cymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Pregethu: ac yr oedd, erbyn hyn, y fath alwad am dano trwy y gwledydd, fel nad oedd prin un cynnulliad o'r fath, yn un lle yn Ngogledd Cymru, na wneid ymdrech i'w gael ef iddo, ac yr oedd yntau yn nodedig o ffyddlawn i fyned. Yr ydym yn ei gael Mawrth 1, 2, yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, ac yn pregethu yno am ddau, oddiar Heb. iii. 14; pregeth a barhäodd am flynyddoedd ganddo, fel un o'i brif bregethau y dyddiau hyny. Ar ddydd Gwener y Croglith, Mawrth 24, yr oedd yn *Liverpool*, yn Agoriad Capel *Rose Place*, ac yn pregethu yno y nos Wener, oddiar Esaiah lii. 3. Arosodd yn *Liverpool* y pryd hwn dros rai Sabbothau ar ol hyny. Cafodd oedfa nodedig iawn y tro hwn yn hen Gapel *Bedford Street*, oddiar

Luc xvii. 21: "Canys teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." Yr oedd yr effeithiau y fath fel ag y torodd yn orfoledd mawr trwy y gynnulleidfa. Ni a glywsom hen chwaer yn Nghapel *Netherfield Road, Liverpool,* yn mhen mwy na dwy flynedd a deugain ar ol hyny, yn adrodd ei phrofiad mewn cyfarfod eglwysig, a'r bregeth yn fyw yn ei meddwl. Yr oeddem ni wedi dygwydd bod yn pregethu ar yr un testyn, y Sabboth blaenorol. "Fe ddarfu i'ch testyn y Sabboth," meddai yr hen chwaer, "ddwyn yn newydd iawn i fy meddwl i bregeth a glywais i gan Mr. Rees ar y testyn yn *Bedford,* pan oedd o yma yn amser Agoriad Capel *Rose Place.* O! yr oedd o yn pregethu yn effeithiol iawn. Yr oedd o yn dyweyd am bethau crefydd mai pethau teyrnas ydyn' nhw; a'u bod nhw i gyd oddimewn; a'u bod nid yn unig o fewn y deall, ond o fewn y galon; fod cyfreithiau y deyrnas yn nghalonau yr holl ddeiliaid, a bod hyny yn eu gwneyd nhw i gyd yn ffyddlawn iddi. Yr oedd o yn dyweyd hefyd mai oddimewn y mae y rhyfeloedd, ac mai oddimewn y mae y gwleddoedd: 'Mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swpperaf gydâg ef, ac yntau gydâ minnau.' Yr oeddwn innau yn wir," meddai yr hen chwaer, "yn cael gwledd heddyw wrth gofio am y bregeth." Dygwyddem gyfarfod â Mr. Rees drannoeth, ac yr oeddem yn adrodd iddo brofiad yr hen chwaer; ac yr oedd yn cael boddhâd mawr wrth glywed fod yr hyn a ddywedasid ganddo wedi aros, am gyhyd o amser yn ei chôf a'i chalon. "Y mae y bregeth," meddai, "wedi myned o fy nghôf i yn gwbl yrwan; ond wedi i chwi adrodd, yr ydwyf yn cofio fy mod i yn dyweyd rhywbeth fel yna."

Yn mhen ychydig wythnosau wedi gadael *Liverpool,* yr ydym yn ei gael Mai 2, 3, yn Nghymdeithasfa Llanfyllin; ac er fod y lle hwnw nid yn unig o fewn cylch y Cyfarfod Misol yr oedd efe yn aelod o hono, ond yn y rhan agosaf o hono ato ef, eto y fath oedd yr alwad am dano fel ag y cawn ef yn pregethu yno y nos ddiweddaf, oddiar Heb. iii. 14, ar ol Mr. Richard Jones, Trawsfynydd. Yr oedd Mr. Elias, Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. Cadwaladr Williams, Mr. John Jones, Treffynnon, Mr. Robert

Roberts, Rhos, Mr. David Cadwaladr, Mr. William Morris, Cilgeran, Mr. Richard Davies, Caio, ac amryw ereill o'r hen frodyr yn y Gymdeithasfa hono. Yn hono y derbyniwyd Mr. David Davies, Cywarch, yn aelod o'r Gymdeithasfa; ac yno y cymmeradwywyd y dewisiad o Mr. John Lewis, Llundain, i'w ordeinio yn y Gymdeithasfa ganlynol, yn y Bala. Yr oedd y cyfeillion yn yr Amwythig, y pryd hwn, ar ganol adeiladu Capel newydd, ar yr un tir, ond yn un llawer mwy cyfleus na'r un oedd ganddynt pan aethai Mr. Rees atynt; ac yn awr yn Llanfyllin, yr oedd y Gymdeithasfa yn enwi Ymddiriedolwyr arno; ac yn eu plith, ni a gawn enwau, Mr. Evan Griffiths, Mr. Owen Jones, Mr. Humphrey Gwalchmai, Mr. Henry Rees, Mr. Hugh Griffiths, ac ereill, sydd erbyn hyn oll, ac er ys blynyddoedd bellach, wedi cyd-gyfarfod yn y Gymmanfa fawr. Yn y Gymdeithasfa hon hefyd, fe benderfynwyd fod Mr. Rees i fyned i Lundain, i wasanaethu yr Achos yno, am rai wythnosau. Yr oedd Mr. Elias wedi bod yno, yn eu Cyfarfod Blynyddol, y Croglith a'r Pasg blaenorol, Mawrth 24—26, ac wedi aros yno am amryw Sabbothau ar ol hyny; ac oddiyno yr ydoedd wedi dyfod yn awr i Lanfyllin. Yn ei le ef, ac yn y cyfwng hyd ddyfodiad y brawd a ddysgwylid yno o'r Deheudir, yr oedd Mr. Rees yn myned i fynu. Yr oedd efe wedi bod yn gysurus iawn yn Llundain, pan fuasai yno ddwy flynedd cyn hyny, ac felly yr oedd yn hoffi myned yno drachefn; ond yr oedd yn flin ganddo y byddai, trwy hyny, yn gorfod colli Cymdeithasfa y Bala y tro hwn eto, fel ag y buasai raid iddo y tro o'r blaen. Aeth i fynu, pa fodd bynnag, erbyn y Sulgwyn, Mai 14, ac arhosodd yno hyd ddiwedd Mehefin, wedi eu gwasanaethu am saith wythnos. Yr oedd yn pregethu yno bob tro gydâ nerth annghyffredin. Dywediad un hen frawd wrthym ydoedd, "fod ei bregethau yn annioddefol i gnawd." "Yr oedd ôl," meddai drachefn, "'myfyrdod dwfn a dwys' ar bob pregeth, o draethodau mwyaf ysbrydol Dr. Owen, ag oedd yn eu gwneuthur yn gyfansoddiadau llawn o'r Dduwinyddiaeth oreu; gydâ rhyw enneiniad nefol, priodol iddo ei hunan, ag oedd yn eu gwneuthur yn dra effeithiol ar

deimladau pawb." Bu ei weinidogaeth yno hefyd, y pryd hwn, yn llwyddiannus er ychwanegu rhyw nifer at yr eglwys, ac y mae lle i obeithio at yr Arglwydd.

Y mae genym ranau o ddau lythyr o'i eiddo, a ysgrifenwyd ganddo tra yn Llundain y tro hwn, at ei gyfeillion yn yr Amwythig. Yr oeddent hwy, fel y crybwyllasom eisoes, yn adeiladu eu Capel newydd: ac yn y llythyrau hyn, y mae efe, fel Haggai a Zechariah gynt, yn eu hannog ac yn eu cysuro yn eu gwaith yn adeiladu Tŷ eu Duw; ac, ar yr un pryd, yn amlygu y gofal calon a deimlid ganddo rhag i hyd yn nod i'w prysurdeb a'u trafferth gydâg adeiladaeth y Capel, fod yn achlysur iddynt esgeuluso dygiad yn mlaen adeiladaeth y deml ysbrydol oddimewn i'w heneidiau eu hunain. Y mae yn ymddangos, fel ysywaeth! y dygwydd yn rhy fynych yn y cyfryw amgylchiadau, fod yno radd o annghydolygiad ar ryw bethau mewn cysylltiad â'r Capel newydd; ac y mae yn hawdd canfod, er nad oedd arno ryw ofn mawr, eto nad ydoedd yn gwbl ddibryder gydâ golwg arnynt yn hyny. Cyfeiriwyd y ddau lythyr at ei gyfaill hoff, a'i letywr caredig, Mr. Hugh Griffiths, *Barker Street*; a rhaid edrych arnynt mewn rhan yn llythyrau personol ato ef, ac mewn rhan yn Annerchiadau at yr holl eglwys. Ond ni a ddodwn i mewn yma gymmaint o'r llythyrau ag a ddaeth i'n llaw ni :—

"Llundain.

"ANWYL GYFAILL,—Gobeithiaf eich bod yn myned yn mlaen "gydâ'r Capel yn gysurus ac yn heddychol, ac y bydd pob an- "nghydfod wedi myned i lawr, a'r Capel agos a dod i fynu, "erbyn y gwelwyf fi chwi. . . . . . Gobeithiaf eich bod yn iach, "a'ch cleifion yn gwellhau yn *Castle-forgate* a *Barker Street*. Gan "nad ydych yn sôn am Sarah bach (merch Mr. Griffiths), yn eich "llythyr diweddaf, gobeithiaf ei bod wedi gwella. Byddai yn "dda genyf i Mrs. Griffiths a hithau fyned yn ddioed i'r Aber- "maw, fel y byddont gartref tua'r amser y byddaf finnau yn "d'od adref; neu aros heb gychwyn hyd nes y deuaf.

"Yn olaf, gobeithiaf nad yw eich trafferthion bydol, a'ch

"helyntoedd gydâ phethau amgylchiadol y gwaith, yn tynu y "meddwl oddiwrth Dduw a phethau ysbrydol. Mae yn hawdd "iawn colli ysbrydolrwydd, a myned yn ffurfiol yn y dirgel: ac "er y gallwn fod yn ofidus y munudau hyny o'r herwydd, eto "cymmerwn ein difyru gan ryw bethau wedi hyny, fel ag i beri "i ni annghofio y cwbl. Eithr ni ddaw pethau yn ddim gwell "wrth eu hesgeuluso. Rhaid ymosod at y gwaith o ddifrif, neu "fod mewn nychdod trwy ein hoes. 'Y mae dechreuad crefydd "yn anhawdd,' medd fy hoff awdwr; 'ond fel y cynnydda y "Cristion mewn gras, y mae pob rhan o honi yn do'd yn fwy "pleserus iddo, a'i holl ddyledswyddau yn d'od yn haws i'w "cyflawni. Ond y mae llawer o broffeswyr' medd efe, 'o her-"wydd eu diogi a'u difaterwch, yn aros yn yr anhawsderau trwy "eu hoes, oblegyd nad ydynt byth yn ymosod i wneyd *thorough* "*work* o farweiddio pechod, a chadw'r grasau mewn ymarferiad, "a d'od i gysondeb o rodiad gydâ Duw. Y maent yn cym-"meryd eu maeddu gan ryw lygredigaethau trwy eu hoes, "ac felly yn wastadol mewn nychdod ac eiddilwch.' . . . . . ."

Y mae y llythyr arall yn fwy uniongyrchol at yr eglwys, er wedi ei anfon ati trwy law Mr. Griffiths.

"Llundain.

"ANWYL GYFEILLION,—Gan fod cyfleusdra yn cael ei roddi i "mi i anfon ychydig linellau atoch gydâ Mr. J., yr ydwyf yn ei "gymmeryd gydâ phleser. Gobeithiaf eich bod yn dangnefedd-"us, brawdol, a siriol, yn myned yn mlaen gydâ'r Capel newydd, "gan gael aml ddyfodfa at bethau ysbrydol crefydd, wrth dra-"fferthu gydâ ei phethau amgylchiadol hi. Nid yn aml y mae "neb yn symmud o'r naill dŷ i'r llall, na chlywir hwy yn cwyno "fod y symmudiad wedi dryllio llawer o'u dodrefn, wrth eu tynu "i lawr, a'u hail osod i fynu. Peth mawr fydd os cedwir "dodrefn yr Achos bach yn yr Amwythig oll yn gyfan. Y "moddion tebycaf i hyny ydyw, cael pawb i ymhel â hwy â "chalon ddrylliog. Ni thŷr y rhai hyny mo honynt hwy.

"Yr ydwyf fi yn gweled yn hawdd iawn myned i wrthgiliad, "ac yn anhawdd iawn dyfod o hono; yn hawdd iawn gadael i

"ryw eilun ddyrysu y serchiadau, ac yn anhawdd iawn diffodd "eu hennynfa. Os na bydd pob pechod dan barhaus farweidd-"iad, a'n grasau—ffydd, cariad, edifeirwch—mewn parhaus "weithrediad, yr ydym yn sier o fyned i ddirywiad. Mae yr "Arglwydd Iesu yn edrych, gydâ'r *concern* mwyaf, i mewn i "agwedd ein hysbryd bob dydd, ac y mae ei lygaid fel y fflam "dân, yn treiddio i gelloedd y bòl,—barna feddyliau a bwriadau "y galon; ac y mae y gradd lleiaf o wrthgiliad yn beth a rydd "yn erbyn pawb sydd yn ei afael. Cofiwch fi at bawb o'm "cyfeillion. Gobeithiaf eu bod oll yn parhau mewn gweddi, ac "yn parhau i'm cofio innau yn eu gweddïau.

"*Your unworthy friend*, H. REES."

Aethant yn mlaen yn gysurus gydâg adeiladu y Capel, ac Agorwyd ef y Nadolig, 1826, pryd yr oedd Mr. Elias yno yn gwasanaethu.

Nid ydym yn cael golwg arno wedi ei ddychweliad o Lundain, hyd yn Nghymdeithasfa Caernarfon, yr hon a gynnaliwyd Medi 27, 28, 1826; lle y pregethodd yn hynod iawn, am ddau ar y gloch, oddiar Ioan xv. 4, 5. Aeth rhagddo o Gaernarfon tua Chaergybi, lle yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynnal, y Llun a'r Mawrth, Hydref 3, 4. Cawsom ni y fraint a'r hyfrydwch o wrandaw arno ddwywaith y pryd hyny. Yr oedd yn pregethu am ddau, oddiar 2 Sam. xxiii. 5, o flaen Mr. Daniel Evans, Capel Drindod; ac am chwech, ar ol Mr. John Jones, Talsarn, oddiar Diar. vi. 10, 11. Yr oedd rhyw arddeliad anngyffredin ar ei bregethau yn y Gymdeithasfa hono. Yn enwedig yr oedd ei bregeth y nos ddiweddaf, ar "*Ddiogi Ysbrydol*," yn ymaflyd yn nheimladau dyfnaf ei holl wrandaẅwyr,—yn cyrhaeddyd trẅodd, hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymmalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau eu calonau, nes yr oedd rhyw ddifrifwch arswydlawn wedi meddiannu pawb. Cafodd y bregeth ddylanwad arbenig ar feddwl Mr. John Jones, Talsarn, fel y penderfynodd ymroddi gydâ mwy o ddyfalwch nag erioed i grefydd bersonol, yn gystal ac i ymgysegriad llwyrach byth i

wasanaeth yr Arglwydd. Er nad oeddem ni y pryd hwnw ond ieuanc iawn, eto y mae genym gôf eithaf da ein bod, y noswaith hono, wedi sylwi yn neillduol ar y gallu annghyffredin a arddangosid ganddo i olrhain gweithrediadau llygredigaeth yn ei wahanol ffurfiau yn y galon, a'i ddylanwad rhyfedd ac ofnadwy ar y meddwl, er dallu dyn i'w nodwedd ddinystriol; ac felly ei gadw yn ddiofal a dibryder yn nghylch ei berygl.

Y mae yn ymddangos na ddychwelodd yn uniongyrchol o Gaergybi i'r Amwythig cyn Cymdeithasfa Dolgelleu, ond iddo gymmeryd ychydig daith, yn y cyfwng, trwy ranau o Sir Fôn, a Sir Gaernarfon, a Sir Ddinbych, gan ymweled a'i gyfeillion yn Abergele, ac â'i rieni yn Llansannan. Mewn côf-lyfr a gedwid gan y diweddar Barch. John Jones, Wrexham, o'r pregethau a wrandewid ganddo ef pan yn ŵr ieuanc, y mae genym hanes pendant am Mr. Rees yn pregethu ddwy waith yn Henllan, ar ddydd Gwener, Hydref 20, oddiar 2 Sam. xxiii. 5, a Deut. iv. 7; ac yn Nantglyn ddydd Sadwrn, oddiar Preg. xii. 1. Nid oes genym hanes pa le yr oedd y Sabboth, Hydref 23; dichon mai yn Ninbych, neu, fe allai, Llansannan. Y mae yn bosibl ei fod yn y Bala nos Lun; pa fodd bynnag, yr ydym yn ei gael yn Nolgelleu, yn y Gymdeithasfa yno, y Mawrth a'r Mercher, Hydref 25, 26, lle y pregethodd ddwy waith: y prydnawn cyntaf, oddiar Deut. iv. 7, o flaen Mr. Daniel Jones, a thrachefn, am ddau drannoeth, oddiar Psalm lxxxv. 9—12, ar ol Mr. John Jones, Tremadoc.

Yr ydym wedi methu cael dim o'i hanes ar ôl hyn, hyd Gymdeithasfa Llanfair Caereinion, Mai 9, 10, 1827. Eithr yn y cyfamser, yr oedd Cyfarfod Misol Sir Drefaldwyn wedi ei ddewis ef, fel un ag y dymunent iddo gael ei neillduo i'r holl waith; ac yr oedd ei enw, fel y cyfryw, wedi ei ddwyn i'r Gymdeithasfa flaenorol, yr hon a gynnaliesid yn Ninbych, yn mis Mawrth; pryd y cymmeradwywyd y dewisiad yn unfrydol gan yr holl frawdoliaeth, gydâ datganiad arbenig gan amryw o'r rhai blaenaf yn y Cyfundeb, o'u llawenydd wrth glywed am y dewisiad. Y mae yn ymddangos i ni yn dra hynod, ac y mae

yn ddiammeu genym fod ein darllenwyr yn teimlo yn gyffelyb, fod y dewisiad hwn wedi ei oedi cyhyd. Yr oedd efe, er ys rhai blynyddoedd bellach, yn cael ei gydnabod yn gyffredinol yn un o'r pregethwyr blaenaf a mwyaf poblogaidd yn y Cyfundeb; yr oedd yn wastadol yn cael ei wahodd braidd i bob Cymdeithasfa, a Chyfarfodydd cyhoeddus ereill yn y Gogledd; yr oedd yn cael ei drefnu yn y cyffredin i bregethu, ac weithiau fwy nag unwaith, ar yr adegau mwyaf arbenig ar y fath achlysuron; ac yr oedd yn gwneuthur hyny bob amser, yn y fath fodd ag i roddi y boddlonrwydd mwyaf i'r cynnulleidfäoedd, a chydâg arwyddion amlwg, yn fynych, o bresennoldeb y Meistr mawr ei hunan. Heblaw hyny, yr oedd wedi ei ddewis yn weinidog i eglwys ag ydoedd, yn enwedig pan ystyrier anfanteision cyfleusderau teithio y pryd hyny, yn mhell o gyrhaedd y gweinidogion ereill o fewn cylch y Cyfarfod Misol ag y perthynai iddo; ac eglwys ag yr oedd efe mor gymmeradwy ganddi, ac mor awyddus am ei Neillduad, fel ag yr ydoedd, er ys dwy flynedd cyn hyny, wedi gwneuthur cais arbenig am i hyny gael ei wneyd. Y mae yr oediad yn fwy hynod drachefn, pan y cofiwn mai y Cyfarfod Misol ag yr oedd efe mewn cysylltiad âg ef, oedd yr un a ddaeth wedi hyny, ac yn mhen ychydig amser, i gymmeryd y blaen i alw brodyr a fernid yn gymhwys, nid yn unig yn ngwyneb yr hyn a elwid yn "*angen neillduol*" am hyny, ond pa bryd bynnag y caent rai, ar ol prawf digonol, yn arwyddo eu bod wedi derbyn y cymhwysderau angenrheidiol at y gwaith. Nid ydym ni yn gwybod pa fodd i roddi cyfrif am yr oediad gydâ golwg arno ef, oddieithr y gallai ei fod yn lled ddieithr i lawer iawn o'r eglwysi o fewn cylch y Cyfarfod Misol; y gallent fod yn petruso rhyw gymmaint oblegyd ei oedran; a hwyrach hefyd yn gweled fod ganddynt eisoes fwy o nifer wedi eu galw i'r holl waith nag a berthynai i'r un Cyfarfod Misol arall yn y Gogledd, tra nad oeddent ond un o'r rhai lleiaf o ran rhifedi yr aelodau eglwysig cysylltiedig â hwynt, a'u bod yn lled-ofni i'r Siroedd ereill fyned yn eiddigus o honynt. Eithr nid oes genym ond dyfalu. Pa fodd bynnag, am ryw reswm

neu arall, neu ynte heb reswm o gwbl, oedi a wnaed hyd yn hyn. Ond yn awr yr oedd y dewisiad wedi ei wneyd, ac wedi ei gymmeradwyo gan y Gymdeithasfa; ac yn y Gymdeithasfa hon yn Llanfair yr ydoedd i gael ymddyddan âg ef, yn ôl y drefn arferol, gydâ golwg ar hyny. Yr oedd Mr. John Peters, Trawsfynydd, wedi ei ddewis hefyd gan Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, ac i gael ymddyddan âg ef yr un modd. Mr. John Roberts, Llangwm, oedd y Llywydd yn Llanfair. Yr oedd Mr. William Morris, Cilgeran, Mr. William Havard, Mr. Evan Evans, Aberyffrwd, Mr. William Jones, Rhuddlan, ac amryw hen frodyr ereill yn bresennol, heblaw y cyfeillion o Sir Drefaldwyn, a brodyr ieuangach amryw, megis Mr. John Jones, Talsarn, Mr. Morris Roberts (America wedi hyny), ac ereill. Cafodd Mr. John Jones oedfa hynod iawn yn y Gymdeithasfa hon, pryd y pregethai y prydnawn cyntaf o flaen Mr. Evan Evans, Aberyffrwd, fel y ceir yr Adroddiad yn ei Gofiant ef, tudal. 180, 181. Am ddeg drannoeth pregethwyd gan Mr. William Morris a Mr. John Roberts; ac am ddau gan Mr. William Jones a Mr. William Havard. Nid oes genym hanes am y nos, ond y mae yn debyg mai Mr. John Peters a Mr. Rees oeddent yn pregethu. Yn nghyfarod y Pregethwyr am ddeg, Mai 9, yr ymddiddanwyd â'r ddau frawd gydâ golwg ar eu Neillduad; Mr. William Morris yn ymddyddan â Mr. John Peters, a Mr. William Havard â Mr. Rees. Yn ol Adroddiad yr Ysgrifenydd, Mr. Humphrey Gwalchmai, yr hwn sydd yn awr ger ein bron, yr oedd Mr. Rees yn cwyno oblegyd agwedd ei ysbryd; yn gweled angen am fwy o ysbrydolrwydd gydâ chrefydd, gwybod am gael dyfodfa at Dduw wrth weddïo, cymdeithasu â Duw wrth fyfyrio, &c. Sylwid yn yr ymddyddan y rhaid i ni gael diangfa mewn Iawn, onide y daw y cwbl yn ein herbyn. Eithr yn ol y darluniad a roddir gan Paul, yn y seithfed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, profiad y duwiol ydyw, er ei fod yn ewyllysio gwneuthur da, fod y drwg yn bresennol gydâg ef; fel nas gall ddysgwyl, tra y byddo yn y byd hwn, bod yn gwbl rydd oddiwrth weithrediadau llygredigaeth. Wrth ymddyddan âg ef fe wnaed un

sylw, a goffeir gan Mr. Gwalchmai, sydd yn dangos y meddyliau uchel a goleddid gan yr hen frodyr am dano:—"Y mae rhai ag arwyddion o brofiad da, a dim talentau neillduol; ereill a chanddynt dalentau mawrion, ond yn ddiffygiol mewn profiad ysbrydol; ond fod rhai, ac y dylem fod yn ddiolchgar am danynt, a chanddynt brofiad da, a thalentau mawrion hefyd." Y mae yn ddiammeu mai yr argyhoeddiad oedd yn eu meddyliau o'r hyn a'i nodweddai ef, a dynodd allan y sylw yna. Cymmeradwywyd y ddau frawd yn unfrydol i'w neillduo yn y Gymdeithasfa ganlynol yn y Bala.

Cynnaliwyd y Gymdeithasfa hono, y Mercher a'r Iau, Mehefin 13, 14, 1827. Llywyddid ynddi gan Mr. Lloyd, Beaumaris. Yr oedd cyfarfod y Neillduad am un ar ddeg, boreu dydd Mercher. Dechreuwyd gan Mr. Robert Griffith, Dolgelleu. Darllenwyd y rhanau arferol o'r Ysgrythyrau, a gweddïwyd gan Mr. Ebenezer Richard. Traethwyd ar Natur Eglwys, gan Mr. Michael Roberts. Holwyd y Cwestiynau gan Mr. Thomas Richard. Traddodwyd y Cyngor gan Mr. Elias. Ni a glywsom laweroedd o weithiau, fod y cyfarfod hwn yn un hynod iawn: ac erbyn gweled pwy a gymmerant ran neillduol ynddo, y mae yn hawdd credu hyny. Fe ddywedid fod Atebion Mr. Rees yn nodedig felly; mai prin yr oedd neb oedd yno wedi clywed dim cyffelyb erioed. Yr oeddent yn amlwg yn rhoddi y fath foddlonrwydd i'r holl frawdoliaeth, fel y cymmerodd Mr. Richard ei ryddid i ofyn ei feddwl ef nid yn unig ar yr Holiadau oeddent yn naturiol yn dyfod iddo yn eu trefn, eithr hefyd ar rai o'r rhai a atebasid eisoes gan Mr. John Peters; a'i Atebiad ef i un o'r rhai hyny,—"Am Barhâd mewn Gras,"—oedd un o'r pethau mwyaf effeithiol yn yr holl Gymdeithasfa. Fe ddywedwyd wrthym hefyd fod y Cyngor a roddwyd ar yr achlysur gan Mr. Elias, yn un o'r rhai mwyaf difrifol ac effeithiol a draddodwyd ganddo erioed. Yr oedd Mr. Rees ei hunan yn ei ystyried felly. Y mae ger ein bron ddau adroddiad o sylwedd y Cyngor hwnw; a dichon mai nid annerbyniol gan ein darllenwyr fydd cael y crynodeb canlynol a wnaed genym allan o'r ddau. "Dechreuai gan gyfeirio

gydâ theimlad dwys at y Neillduad cyntaf a fuasai erioed yn y Bala, a'r cyntaf oll yn ein plith ni fel Cyfundeb, un-mlynedd-ar-bymtheg cyn hyny, pan yr oedd efe, a phump o frodyr ereill oeddent ar y pryd yn bresennol, gydâ dau ereill, parchedig ac anwyl, Mr. Jones o Ddinbych, a Mr. Richards o Gaernarfon, oeddent wedi eu galw adref at eu gwobr, yn cael eu gosod yn yr un gwaith ag yr oeddent hwythau eu dau yn cael eu gosod ynddo y diwrnod hwnw. Galwai eu sylw at yr ymddiried mawr oedd yn cael ei roddi iddynt, a thynghedai hwynt i fod yn ffyddlawn iddo, a gwneuthur yr hyn a allent hwy er sicrhau undeb a llwyddiant y Corph hyd ddydd y farn, hyd nes y llosgo'r byd. Er mwyn hyny, a thuag at ei gadw rhag Adfeilio, fod eisieu gofal a manylder mawr wrth dderbyn rhai i'r eglwysi, rhag i ddynion cnawdol ddyfod i mewn i'n plith; ac yn enwedig fod eisieu bod yn ochelgar iawn wrth ddewis a derbyn rhai i swyddau eglwysig. Dychrynai wrth feddwl am ddynion yn cael eu gosod mewn swyddi sanctaidd, megis gweinidogion Crist a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw, yn unig oblegyd talentau naturiol, neu ddysgeidiaeth ddynol, neu amgylchiadau bydol; na: os cawn y pethau hyn, da iawn; ond *mynwn* ddynion o Brofiadau Efengylaidd, o Egwyddorion iachus, ac o Dduwioldeb personol diamheuol. Os collwn ni hyn ni a gollwn ein gogoniant, ac heb y pethau hyn ni byddwn yn werth ein cadw yn fyw; nis gallwn wneyd dim daioni i'r byd.

"Gyda golwg ar y gwaith neillduol yr oeddent yn awr yn cael eu galw iddo, sef, Gweinyddu yr Ordinhadau, dywedai (1.) Ymofynwch am ddirnadaeth eglur a chywir o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau am eu natur. (2.) Gwyliwch arnoch eich hunain rhag syrthio i ysbryd cyffredin wrth ymarfer â hwynt. Y mae eisieu cryndod Sanctaidd wrth ymdrin â Seliau Cyfammod Duw. (3.) Peidiwch boddloni ar fyned trwy y gweinyddiad o honynt yn unig gydâ rhyw rwyddineb esmwyth i chwi eich hunain, a dymunol gan y bobl, heb fod mewn gwasgfa enaid am i bawb gael lles. (4.) Cedwch mewn côf yn wastadol eich angen am les personol i chwi eich hunain drwyddynt. (5.) Pa ddoniau bynnag

a roddwyd i chwi, pa mor gymmeradwy bynnag fyddo eich gwasanaeth, pa lwyddiant bynnag fyddo ar eich llafur, gochelwch rhag pob ymchwydd a balchder ysbryd; a byddwch heb chwennych y blaen mewn dim ar eich brodyr, oddieithr mewn gostyngeiddrwydd a gofal a dwysder a sobrwydd."

Y mae yn amlwg iawn oddiwrth y braslun anmherffaith yna o'r Cyngor, mai nid un cyffredin ydoedd; ac y mae mor amlwg, dybygem ni, mai Mr. Rees oedd yn arbenig ger bron meddwl Mr. Elias ynddo, a'i fod hefyd yn coleddu dysgwyliadau mawrion ac uchel wrtho. A phrin y mae eisieu dywedyd, fod y cyngor wedi cael argraff ddofn ac arosol ar ei feddwl yntau.

Yr oedd Mr. Rees yn pregethu am ddau ar y gloch drannoeth, gydâ difrifwch a nerth mawr, oddiar Heb. iii. 14, o flaen Mr. Ebenezer Richard. Yr oedd Mr. William Morris, Capel Newydd (Llanelli wedi hyny), a Mr. Michael Roberts, wedi pregethu y prydnawn cyntaf; Mr. John Jones, Talsarn, a Mr. Jeffrey Davies, am chwech y boreu; Mr. Thomas Richard a Mr. Elias am ddeg; a phregethodd Mr. John Hughes, Pontrobert a Mr. Thomas Richard, yn yr hwyr. Mr. Roberts, Amlwch, oedd wedi ei enwi, ond fe orfu arno ef fyned adref; a chymmerodd Mr. Richard ei le. Dyma y tro cyntaf i Mr. John Jones, Talsarn, bregethu yn Nghymdeithasfa y Bala, ac fe gafodd oedfa hynod iawn. Yr oedd sôn mawr hefyd am bregeth Mr. Michael Roberts, y prydnawn cyntaf, ar yr "aml a'r blin gystuddiau." Y mae yn ymddangos yn wir, yn ol pob peth a glywsom, fod rhyw lewyrch neillduol ar braidd bob un o'r pregethau yn y Gymdeithasfa hono.

Fe aeth Mr. Rees rhagddo o'r Bala tuag Amlwch, lle yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynnal y Mercher a'r Iau canlynol, Mehefin 20, 21. Yr ydym yn ei gael yn dechreu yr oedfa yno y prydnawn cyntaf, pryd yr oedd Mr. John Davies, Nantglyn, a Mr. John Roberts, Llangwm yn pregethu. Am chwech y boreu drannoeth yr oedd Mr. Morris Roberts yn pregethu. Am ddeg, Mr. Rees a Mr. Michael Roberts; am ddau Mr. John Jones, Talsarn, a Mr. James Hughes, Lleyn; ac am chwech Mr. Morris

Roberts a Mr. Elias. Yr oedd effeithiau hynod, a gofir gan rai hyd heddyw, dan bregeth Mr. John Jones, y tro hwn. Testyn Mr. Rees yno oedd 1 Ioan i. 7. Yr oedd y bregeth oedd ganddo ar y testyn hwn yn un o'i rai mwyaf hynod yn y blynyddoedd hyny; er na chlywsom am ddim neillduol gydâ golwg arni y pryd hyn yn Amlwch, ond fod pawb yn ymddangos yn ei mwynhau. Yr oedd efe ei hunan, yn wir, yn yr adeg yma, braidd yn wastadol dan raddau mor helaeth o'r "eneinniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw," fel y byddai ei gynnulleidfäoedd agos yn ddieithriad yn teimlo felly, a llawer o honynt, y mae lle i obeithio, yn derbyn llesâd gwirioneddol i'w heneidiau.

# PENNOD VI.

*O'i Ordeiniad hyd ei ymadawiad â'r Amwythig:*—1827—1836.

YMRODDI I LAFURIO—ASTUDIO Y SACRAMENTAU—CAEL EI ANFON DROS Y GYMDEITHASFA I YMWELED A BIRMINGHAM—DWYN ADRODDIAD I GYMDEITHASFA PWLLHELI—CYMDEITHASFA BEAUMARIS, 1827—TAITH TRWY FON—TAITH I'R DEHEUDIR—RICHARD BUMFORD YN GYFAILL IDDO—CYMDEITHASFA LLANERCHYMEDD, 1829—OEDFA HYNOD IAWN YNO—TAITH TRWY SIROEDD MYNWY A MORGANWG—CYFARFOD YSGOLION YN MEIFOD—EI ANNERCHIAD YNO YN CAEL EI GYHOEDDI—MYNED I LUNDAIN ETO—YN PRIODI—TAITH I FEIRIONYDD AC ARFON A MON—ADGOFION O'I BREGETHAU YN MANGOR Y PRYD HWN—YSGRIF WERTHFAWR I'R DRYSORFA—CYMDEITHASFAOEDD LLANFYLLIN A'R BALA, 1832—URDDIAD EI FRAWD YN HEOL MOSTYN—TRADDODI Y CYNGOR IDDO AR YR ACHLYSUR—EI YSBRYD RHYDDFRYDIG—TAITH ETO I SIROEDD MON AC ARFON—ROLANT ABRAHAM YN GYFAILL IDDO—Y GERI MARWOL WEDI DYFOD I'R DEYRNAS, AC YN LLADD LLAWEROEDD—PREGETH ARBENIG AR YR YMWELIAD HWN AR Y DAITH HON—LLYTHYR AT EI FAM-YN-NGHYFRAITH—TRADDODI YR ARAETH AR NATUR EGLWYS YN Y BALA, 1833—YSGRIF ETO YN Y DRYSORFA—TRADDODI Y CYNGOR YN Y BALA, 1834—CYMDEITHASFA LLANGEITHO, 1835—EI YMDRECHION YN ERBYN ANNGHYMEDROLDEB—CYHOEDDIAD EI BREGETH AR GYMMEDROLDEB—LLYTHYR AT MR. HUGHES, LLANRWST—MYNED I LUNDAIN ETO—CYMDEITHASFA Y BALA, 1836—HYSBYSU YNO EI FWRIAD I SYMMUD I LIVERPOOL—Y GYMDEITHASFA YN CYMMERADWYO—CYMDEITHASFA TWRGWYN—CYMDEITHASFA CRUGHYWEL—YMOSODIAD ARNO GAN RYW UN TRWY Y WASG—TEIMLO DROS Y CYFEILLION YN YR AMWYTHIG WRTH FEDDWL EU GADAEL—YN EDRYCH AR YR ALWAD O LIVERPOOL YN LLAIS Y BRENHIN MAWR—YN SYMMUD YNO.

Yr oedd Mr. Rees yn awr wedi ei neillduo i'r holl waith ag yr oedd ei fryd wedi bod arno o'i febyd, a'r gwaith ag yr oedd, er ys amryw flynyddoedd bellach, wedi rhoddi profion neillduol o'i gymhwysderau arbenig iddo. Yr oedd y rhai hyny mor amlwg, fel ag yr oedd yn cael edrych arno yn gyffredinol fel un o brif bregethwyr ei wlad. Ac nid oedd yn sefyll mor uchel yn meddwl neb ag ydoedd yn ngolwg ei frodyr yn y weinidogaeth, yn enwedig y rhai penaf o honynt. Wedi ysgrifenu o honom y llinellau diweddaf, ni a gyfarfuasom â'n hen gyfaill, Mr. Daniel Mortimer, gynt o Gaerfyrddin, ond yn awr, er ys rhai blynyddoedd, yn aros yn Liverpool,—ac fe ddywedai wrthym fod Mr. Ebenezer Richard yn meddwl mor uchel am dano, fel wedi iddo gael ei gyhoeddiad i'r Gymdeithasfa yn Llangeitho, y cyfeiriasom ati eisoes, ei fod yn ei arganmol trwy y wlad, fel un o'r pregethwyr hynotaf a godasai erioed yn mysg ein cenedl, nes peri i'r bobl yn mhob man heidio yn dyrfäoedd llïosog ar ei ol: "ac yr oedd yn pregethu," meddai Mr. Mortimer, "gydâ'r fath oleuni a gwres ac arddeliad, fel nad oeddent yn un man yn cael eu siomi ynddo." Ac fel y teimlai Mr. Richard, yr oedd gwŷr blaenaf y Cyfundeb y perthynai iddo yn teimlo yn gyffredin. Ac mewn un peth, yn ddiammeu, yr oedd eisoes yn hynod yn mhlith ei holl frodyr; nid oedd yr un o honynt yn cymmeryd cymmaint gofal er ymdrechu perffeithio ei gyfansoddiad cyn ei draddodi. Ni byddai efe byth yn foddlawn i esgyn i'r pulpud heb fod y bregeth wedi ei pharotoi yn fanwl a'i hysgrifenu yn gyflawn ganddo, ac wedi hefyd ei thrysori mor lwyr ganddo yn ei gôf, fel ag y teimlai ei hunan yn feistr hollol arni. Ac er y byddai yn fynych dan angenrheidrwydd, yn enwedig pan gartref yn yr Amwythig, i fyned i'r pulpud, gydâ'r hyn a ystyrid ganddo ef yn barotöad anmherffaith iawn, ac weithiau ar nos Sadwrn yn teimlo fel pe na buasai ganddo ddim ar gyfer y Sabboth, eto eithriadau oedd y rhai hyny, ac eithriadau a barent iddo ef deimlo yn dra annghysurus. Ei reol gyffredin ef oedd, parotoi bob amser yn ofalus. Yn awr yr oedd y Neillduad a fuasai arno wedi ychwanegu yn ddirfawr at ei lafur yn y

golygiad hwn, yn gymmaint ag y teimlai angenrheidrwydd hollol arno i ddarpar yn ffyddlawn yn ei fyfyrgell at y gweinyddiad cyhoeddus o'r Sacramentau. Ac felly efe a ymroddodd i gylch eang a manwl o astudiaeth ar eu natur, ar y gwirioneddau a ddysgir ynddynt, ar yr agweddau priodol yn yr ymarferiad â hwynt, ac ar y dyledswyddau cysylltiedig â'r ymarferiad,—pob peth a dybid ganddo yn angenrheidiol er ei gynnorthwyo i'w gweinyddu yn briodol,—nes yr oedd ei feddwl wedi ei drwytho â hufen y pethau goreu a ellir gael arnynt yn ysgrifeniadau yr hen Buritaniaid, yn gystal ag amryw Dduwinyddion diweddarach. Yn ganlynol yr oedd ei sylwadau arnynt pan yn eu gweinyddu, bob amser yn nodedig o gyfaddas er dyrchafu meddyliau y gwrandaẅwyr i ddirnadaeth gywirach o'u hystyr, i argyhoeddiad dyfnach o'u hawdurdod, i ymdeimlad dwysach â'u pwysigrwydd, ac i ymdrech mwy egnïol am yr ysbrydolrwydd cyfatebol i'w hamcan. Yn arbenig, yr oedd yr eneinniad rhyfedd oedd mor gyson ar ei ysbryd ef ei hunan, a'r gymdeithas bersonol agos a gadwai yn wastadol â Christ Iesu yn ei ddioddefiadau a'i angeu, yn peri fod rhyw arogledd nefol ar ei weinyddiad o'r Swpper Sanctaidd, a effeithiai ar dymherau, os nad ar galonau, y rhai caletaf, ac a deimlid mewn gwirionedd gan y Saint, yn adfywiol a bendithiol i'w hysbrydoedd. Eithr ni a gawn ddyfod at hyn yn helaethach eto.

Wedi ei ddychweliad adref i'r Amwythig, ar ol Cymdeithasfa Amlwch, efe a aeth, yn ol pennodiad Cymdeithasfa y Bala, i Birmingham, i wneuthur ymchwiliad i gais ag oedd ar y pryd yn cael ei wneuthur i sefydlu Achos Cymraeg yno. Gan mai dyma y gorchwyl cyntaf o'r fath a ymddiriedwyd iddo, a'n bod yn gwybod am rai manylion o berthynas iddo, dichon mai nid annymunol fyddai i ni roddi ychydig o'r hanes yma. Yr oedd cryn nifer o Gymry y pryd hyny yn Birmingham yn aelodau mewn gwahanol eglwysi Saesonig yn y dref, ond gan mwyaf, pan yn Nghymru, yn aelodau gyda'r Methodistiaid. Y mae yn ymddangos fod y rhai hyny yn gwybod am luaws o'u cyd-wladwyr ag oeddent yn y dref, a rhai o honynt wedi bod yn proffesu

crefydd cyn gadael Cymru, ond yn awr wedi syrthio i esgeulusdra hollol o foddion gras, a rhai o honynt i ddrwg-fuchedd amlwg. Rywfodd neu gilydd fe lwyddodd rhai o honynt i gael cyhoeddiad Mr. Elias yno i bregethu, ar ei ddychweliad o Lundain, yn nechreu Mai 1826; ac fe gafwyd pregeth Gymraeg ganddo yn Nghapel y Parch. John Angell James, y bregeth Gymraeg gyntaf erioed y mae yn debyg yn y dref. Yr oedd nifer mor fawr o Gymry wedi dyfod yn nghyd nes peri i bawb synu fod cynnifer o honynt i'w cael yn y dref a'r amgylchoedd. Ac fe bregethodd Mr. Elias gydâ nerth mawr. Y canlyniad a fu i rai o honynt, heb ond ychydig ymbwylliad, benderfynu ar unwaith cychwyn Achos Cymraeg yno. Cymmerasant ystafell i hyny mewn rhyw barth o'r dref, a dechreuasant gynnal addoliad yno ar y Sabboth, ac unwaith neu ddwy yn yr wythnos. Cawsant gyhoeddiadau rhai pregethwyr oddiyma ac oddidraw yn Nghymru i ddyfod i'w gwasanaethu, y rhan amlaf yn Fethodistiaid, ond weithiau yn perthyn i rai o'r Enwadau ereill. Pan na byddai pregethwr o Gymru, byddai un neu ddau o honynt hwy eu hunain yn ymgymmeryd â rhoddi gair o gyngor, neu geisio pregethu iddynt. Nid hir, pa fodd bynnag, y bu pethau yn eu plith heb syrthio i wedd dra annghysurus; a darfu i rai o'r rhai oeddent yn fwyaf zelog dros gychwyn yr Achos, ac yn neillduol y ddau a gymmerent arnynt bregethu, droi allan yn dra anfucheddol. Yr oedd yno ryw nifer, pa fodd bynnag, o ddynion da, cywir, yn teimlo yn ddwys yn Achos eu cyd-genedl, ac yn wir awyddus am wneuthur a allent yn eu plaid. Fe ddarfu i'r rhai hyny, gan mwyaf ond nid oll yn Fethodistiaid, anfon cais at y Gymdeithasfa a gynhelid yn Llanfair, Mai 9, 10, 1827, yn dymuno arni gymmeryd yr Achos yn Birmingham dan ei nawdd, ac anfon rhyw un yno i ofalu am danynt. Yr oedd Mr. Humphrey Gwalchmai, Mr. Richard Newell, a rhai ereill o gyfeillion Sir Drefaldwyn, yn gryfion iawn yn dadleu ar iddynt gael eu cais. Y diwedd fu pennodi Mr. Rees i fyned yno, i wneuthur ymchwiliad i'r holl amgylchiadau, a gweled pa obaith oedd am sefydlu Achos a cheisio cael pethau i drefn yn

eu plith. Eithr yr oedd yn anmhosibl iddo ef fyned, yn y *cyfwng byr* rhwng Cymdeithasfa Llanfair a'r un yn y Bala, ac felly fe ddaeth yr Achos i sylw drachefn yn y Bala.

Erbyn hyn, yn ol a glywid, yr oedd gwêdd fwy annymunol ar bethau yn Birmingham, ac angen gwneuthur rhywbeth ar unwaith. Cadarnhawyd y penderfyniad a wnaethid yn Llanfair, gan ddymuno ar Mr. Rees ymdrechu myned yno yn ddioed, a rhoddwyd llawn awdurdod iddo i weithredu fel y gwelai yn oreu, a dwyn adroddiad i'r Gymdeithasfa ganlynol yn Mhwllheli. Felly efe a aeth yno ryw Sabboth, yn Gorphenaf, 1827. Pregethodd iddynt ddwy waith ar y Sabboth, ac arosodd yno am ddwy noswaith yr wythnos hono. Wedi gweled, ar ol ymchwiliad manwl, y wêdd oedd ar bethau yn eu plith, ac ymgynghori â'r Parch. J. A. James, ac â'r Parch. John Jones, gweinidog yn Nghapel *Lady Huntington*,—Cymro, a mab i'r hen weinidog, Mr. Thomas Jones, Caerfyrddin,—fe ddaeth yn hollol i'r penderfyniad, nad oedd yr Achos Cymraeg, fel ag yr oedd yn cael ei ddwyn yn mlaen yno, yn un anrhydedd i grefydd, nac o un anrhydedd i ni fel cenedl; ac felly fe'u hannogodd i roddi yr ymgais ar hyny o bryd heibio, hyd oni ddelai pethau i fwy o addfedrwydd yn eu plith. Ac fe weithredwyd ganddynt ar unwaith yn ol y cyngor hwnw. Dygodd yntau adroddiad i'r Gymdeithasfa ganlynol o'r penderfyniad y daethai iddo, yr hwn a gymmeradwywyd yn unfrydol. Bu laweroedd o weithiau ar ol hyny yn cael ei anfon i geisio penderfynu rhyw achosion dyrys, ond dyma y tro cyntaf iddo; ac fe gyflawnodd y gwasanaeth a ymddiriedasid iddo y tro hwn mor foddhäol, fel ag i brofi y gellid dysgwyl ynddo ef, yn y dyfodol, drefniedydd medrus, a chynghorwr ffyddlawn a doeth, yn gystal a phregethwr ardderchog.

Yn mis Medi, 1827, efe a aeth am ychydig daith trwy Leyn ac Eifionydd, yn flaenorol i'r Gymdeithasfa a gynnelid yn Mhwllheli, y Mercher a'r Iau a'r Gwener, Medi 26, 27, 28. Yr oedd yn pregethu yn y Gymdeithasfa hono am ddau ar y gloch o flaen Mr. William Morris, Cilgeran. Yr oedd Mr. Morgan

Howell a Mr. Evan Harris yn pregethu y prydnawn cyntaf; a Mr. Ebenezer Richard a Mr. Elias am ddeg. Dyma y tro cyntaf i Mr. Morgan Howell ddyfod i'r Gogledd; a mawr oedd y sôn am dano. Yr oedd ei bregeth yn Mhwllheli, y tro hwn, yn gwefreiddio yr holl gynnulleidfa.

Aeth Mr. Rees rhagddo o Bwllheli tua Beaumaris, lle yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynnal, y Mercher a'r Iau yr wythnos ganlynol, Hydref 3, 4. Yr oedd yn pregethu yno am ddau ar y gloch ddydd Iau, oddiar Amos iv. 12, o flaen Mr. Richard Davies, Caio. Yr oeddem ni yno yn gwrandaw arno, ac y mae genym gôf neillduol am y difrifwch a'r nerth oedd yn ei weinidogaeth. Fe allesid meddwl fod pawb oeddent ar y *Green*, ar y pryd, fel yn teimlo fod adeg y "cyfarfod" â Duw megis wedi dyfod. Ni chlywsom ddim neillduol am yr effeithiau a ddilynasant y bregeth; ond y mae yn anhawdd genym feddwl nad oedd yno lïaws mawr o'r newydd yn penderfynu, o hyny allan, ymbarotoi i gyfarfod â Duw. Y mae braidd yn anmhosibl meddwl am y fath bregethu yn aflwyddiannus. Aeth Mr. Rees o Beaumaris, ar daith led fanwl trwy Sir Fôn; gan dynu cynnulleidfäoedd dirfawr ar ei ol yn mhob man, a phregethu braidd bob tro gydâg arddeliad mawr. Pan ar y daith hon, ac yn niwedd yr oedfa yn Llanerchymedd, fe fedyddiwyd baban ganddo, o ryw bythefnos oed, a adnabyddir yn awr, ac ni a obeithiwn a adnabyddir am flynyddoedd lawer eto, fel y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool. [Erbyn hyn, Caernarfon.]

Nid oes genym ni un hanes am dano ar ol hyn, hyd nes ydym yn ei gael, y flwyddyn ganlynol, Chwefror 27, 28, 1828, mewn Cymdeithasfa yn y Wyddgrug, lle y pregethodd am ddau ar y gloch, oddiar Luc ix. 62, o flaen Mr. Michael Roberts. Ni a glywsom fod rhyw ddylanwad hynod gydâ'i bregethu y tro hwnw yn y Wyddgrug. Yr ydym yn gwybod fod y bregeth wedi bod, am flynyddoedd, yn cael ei hystyried ganddo fel un o'i brif bregethau; ac fe fu, fe allai, mor llwyddiannus i ateb amcan mawr pregethu, yn nychweliad pechaduriaid at yr Arglwydd, ag odid un a draddodwyd ganddo erioed. Y tro nesaf y gwelsom

ac y gwrandawsom ni arno oedd yn Mangor, yn y Gymdeithasfa flynyddol a arferid gynnal yno y pryd hyny ar Ddydd Iau y Dyrchafael. Yr oedd efe yn pregethu yn y Capel y nos Fawrth, Mai 13, oddiar 1 Ioan i. 7, ar ol Mr. John Jones, Tremadoc; a thrachefn am ddeg ddydd Iau, allan, mewn lle a elwid Cae'r *Dean*, oddiar 1 Sam. xxv. 31, o flaen Mr. Elias. Yr oedd ei bregethau yn hynod, ac yn hynod iawn, yn Mangor y pryd hwn. Yr oedd ei bregeth y nos Fawrth yn gyfoethog o'r efengyl, yn y ddarpariaeth sydd ynddi ar gyfer sancteiddio pechaduriaid; ac mor effeithiol ar y gynnulleidfa fel nad oedd odid neb yn ymddangos heb fod yn teimlo, a gwelid llïaws yn wylo dagrau yn hidl; tra yr oedd ei bregeth ddydd Iau, yn dwyn ei wrandaẅwyr i'r fath gyfarfyddiad difrifol â chanlyniadau bywyd pechadurus ac annuwiol, fel yr oedd arswyd uffern, a'r "*ochenaid*" ofnadwy sydd yno, yn ymddangos fel yn meddiannu y dorf i gyd.

Y mae yn debygol, er nad oes genym sicrwydd hollol am hyny, iddo fyned o Fangor tua Liverpool i'r Gymdeithasfa flynyddol y Sulgwyn, Mai 25; ac oddiyno, fe ddichon, i Manchester, yr wythnos hono i'r Cyfarfod blynyddol yno. Pa fodd bynnag, yr ydym yn ei gael, yn mhen ychydig wythnosau, Mehefin 17, 18, 19, 1828, yn Nghymdeithasfa y Bala, ac yn pregethu yno am ddau ar y gloch ddydd Iau, oddiar 2 Cor. v. 14, 15, o flaen Mr. Evans, New Inn. Yr oedd ei bregeth y tro hwn yn y Bala yn nodedig o rymus, ac yn dra effeithiol. Daeth yn un o'i hoff bregethau am flynyddoedd lawer. Ni a'i clywsom hi amrywiol weithiau. Fe'i cyhoeddwyd ganddo yn y "*Pregethwr*," a ddygid allan yn Liverpool, dan olygiad Mr. Richard Williams a Mr. John Roberts. Yn mhen rhai blynyddoedd fe gyfansoddodd bregeth arall ar yr un testyn, yr hon hefyd a draddodwyd ganddo laweroedd o weithiau. Y mae hono hefyd wedi ei hargraffu, yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, a ddygwyd allan wedi ei farwolaeth ef: a thrwy gymharu y ddwy â'u gilydd, fe geir mantais neillduol i weled y cynnydd amlwg a wnelsid ganddo yn mherffeithiad ei arddull, pa beth bynnag a ddywedir am ei effeithiolrwydd ar y llïaws fel pregethwr, yn

y blynyddoedd rhwng cyhoeddiad y naill a chyfansoddiad y llall. Er mwyn cynnorthwyo ein darllenwyr i gael rhyw syniad am y difrifwch, y tynerwch, a'r eneinniad, heb sôn am yr hyawdledd a'r prydferthwch, a hynodent ei weinidogaeth y blynyddoedd hyn, ni a ddodwn i mewn yma rai dyfyniadau o'i bregeth gyntaf ar y testyn hwn, a'r hon a bregethwyd ganddo y tro hwn yn y Bala:—

"Nid peth naturiol i'n natur ni ydoedd marw. Mae'n wir fod dyn yn ei greadigaeth, o'r fath gyfansoddiad ag y *gallasai* farw; ond wrth ystyried y cyfammod a wnaed âg ef, a'r addewid oedd yn y cyfammod hwnw, y mae'n amlwg na buasai byth yn marw, oni buasai iddo bechu yn erbyn Duw. Nid peth o ganlyniad i'n *bod*, ond peth o ganlyniad i'n *cwymp* ni yw marwolaeth; nid peth a berthyn i ni fel *creaduriaid*, ond fel pechaduriaid; nid peth o ddamwain, ond peth o osodiad, a gosodiad yn ol eithaf cyfiawnder fel cosb am bechod. Bywyd trwyddo oedd dyn cyn pechu. Yr oedd delw Duw yn fywyd yr enaid,—a'r enaid hwnw yn fywyd y corph, a'r Duw mawr i fod yn fywyd a dedwyddwch i'r oll byth! Yr oedd gan y dyn fywyd mewn meddiant, a bywyd mewn addewid. Yr oedd bywyd yn ffynnon bur o'i fewn, a bywyd tragywyddol fel môr di-drai o'i flaen. Yr oedd y bywyd oedd ganddo i gael ei gynnal trwy allu Duw tros dymmor ei ufudd-dod ar y ddaear, ac yn y diwedd, yr oedd yr ufudd-dod tros dymmor i gael ei wobrwyo â bywyd o ogoniant a dedwyddwch byth. Ond pan oedd bywyd fel hyn yn ei amgylchu, torodd gyfammod â Duw, a gwrthryfelodd yn ei erbyn, a thrwy hyny collodd y bywyd oedd ganddo mewn gafael, ac mewn gobaith; trôdd bygythiad y cyfammod yn ddedfryd sicr ar ei berson, ac ymaflodd ei heffeithiau yn ei holl natur. Dan effeithiau y ddedfryd, 'Gan farw ti a fyddi farw,' ni a welwn yr enaid yn crino yn ei holl sancteiddrwydd,—y corph yn malurio i lwch angau,—y pechadur (corph ac enaid) yn suddo i ddistryw tragywyddol, heb obaith ymwared. O! fy ngwrandawyr, edrychwch ar bechod tan bob cymhariaeth y caffoch ef yn y Beibl, *marwolaeth yw y pen draw iddo!* Os

*ffordd*, y mae yn arwain i farwolaeth; os *gwasanaeth*, y cyflog yw marwolaeth; os *croth*, y mae yn esgor ar farwolaeth; os *trosedd*, ei gosb yw marwolaeth. 'Diwedd y pethau hyny yw marwolaeth.' Nid diwedd *rhyw beth* yn yr India,—neu ryw beth mewn byd arall; ond diwedd *y pethau hyn:* diwedd y pethau ag y mae'r Cymry yn *Liverpool* yn eu caru, eu gweithredu, ac yn treulio eu hoes gydâ hwy, diwedd *y pethau hyn* yw marwolaeth! Diwedd y meddwi yw marwolaeth; diwedd caru y byd yw marwolaeth; diwedd gwrthod Crist yn y *seati* yna, yw marwolaeth; diwedd y gwrandaw i foddloni cywreinrwydd heb gredu, yw marwolaeth; diwedd treulio'r Sabbothau yn gysglyd, &c., yw marwolaeth; diwedd y byw y mae cannoedd o'r Cymry yn ei fyw, fydd marwolaeth, os na ddaw gwaredigaeth!"

Eto:—"Y farwolaeth anhawsaf ei hesbonio o bob marwolaeth yw marwolaeth Crist, heb edrych arno fel yn lle ereill. Os gofynwch i mi paham y mae'r baban yn marw, gallaf ateb am ei fod yn bechadur! Os gofynwch paham y mae'r credadyn yn marw, gallaf ateb, 'Y mae'r corph yn farw o herwydd pechod.' Ni a wyddom hefyd paham y mae'r annuwiol yn marw byth; ond ar y groes wele y diniwed, y cyfiawn odiaeth, yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau, yn marw! Pa beth, 'a ddyfethir y cyfiawn gydâ'r annuwiol? Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? Ai ni wneir rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus?' Ah! y mae rhyw reswm dirgel allan o'r golwg yn bod; un yn lle ereill oedd efe! Fel Merthyr y bu ef farw, medd y *Socinian:* os felly, merthyr distadl ydoedd Crist,—nid oedd dim yn enwog ynddo felly. Yr oedd yr hen ferthyron yn marw tan ganu; ond O! y teimladau oedd yn ei enaid ef wrth farw! Tywyllwch, ofn, tristwch angeuol, gofidio yn ddirfawr, syrthio, wylo, llefain, toddi, a chwysu defnynau o waed! Ah! fel *Aberth* yr oedd Crist yn marw; cosbedigaeth pechod oedd ei farwolaeth ef. Mi a ddywedaf i ti sut y bu, fy enaid; dy weled di a ddarfu y Meichiai, a môr terfysglyd digofaint yn cynhyrfu am danat, a dyfod i'r *dock* o râs, a dweyd, 'Cymerwch fi a

bwriwch fi i'r môr, a'r môr a ostega!' Dy weled di a wnaeth, a dy ben ar y blocyn, a bwyell cyfiawnder wedi ei chodi i'th daro, a dyfod yno a rhoddi ei hun i dderbyn yr ergyd yn dy le! Sefyll a wnaeth wrth orsedd Duw, a gwaeddi, 'Os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu os ydyw yn dy ddyled, cyfrif hyny arnaf fi, —myfi a dalaf!'

Unwaith eto:—"O! pe buasai genyf ysbryd, mi a roddaswn floedd uwch ben marwolion—Bywyd, bywyd trwy yr hwn a fu farw! Pa beth sydd genych (meddwch chwi) i'w ddywedyd wrthym, bechaduriaid? Duw a ddanfonodd ei Fab i farw, fel y caem ni fyw trwyddo ef! Beth sydd genych i'w gyhoeddi! Mab Duw yn nghanol marwolion, mewn llawn awdurdod i fywhau y neb y myno. Beth sydd genych i fyned i fro y dwyrain? Afon bywyd! Beth sydd genych i fyned i ganol dyffryn o esgyrn sychion? Anadl bywyd! Beth sydd genych i'w ddyweyd wrth y *criminal* dan ddedfryd marwolaeth? Af ato i'r *drop* ac agoraf ddrws iddo, i fyned o farwolaeth i fywyd! Beth sydd genych ar gyfer yr euog? Cyfiawnhad bywyd! Beth sydd genych i gysuro y Cristion yn nghanol ei ryfeloedd? Bywyd wedi ei guddio! Beth a ddywedech pe gwelech ef yn marw? O! mi a waeddwn uwch ei ben, 'Er iddo farw, efe a fydd byw!' Beth sydd yn ei aros yr ochr draw? 'Teyrnasu mewn bywyd, trwy un, Iesu Grist!'" (*Y Pregethwr*, Cyfrol I., tudal. 347, 351, 352. Rhifyn am Hydref, 1836).

Nid oedd yn rhyfedd fod y fath bregethu, gydâ'r yni a'r gwres oeddent yn ei draddodiad, a'r ireidd-dra hynod oedd braidd yn ddieithriad ar ei ysbryd, yn gwefreiddio y cynnull-eidfäoedd, ac yn peri fod torfeydd llïosog, i ba le bynnag yr elai, yn heidio ar ei ol.

Yn Medi neu Hydref y flwyddyn hon (1828), efe a aeth ar daith, am rai wythnosau, trwy ranau o Sir Aberteifi a Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, gan bregethu gydâ nerth a dylanwad mawr. Yr oedd yn hollol ddieithr yn y rhan fwyaf o lawer o'r lleoedd yr oedd yn awr yn myned iddynt, yn gwbl felly yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin; ond yr oedd ei glod yn mhob man

wedi ei ragflaenu, ac yr oedd tyrfäoedd dirfawr yn cyrchu i'w wrandaw, ac yn cael, gan amlaf, eu swyno yn hollol ganddo. Heblaw y rhagoriaeth ag oedd yn taro pawb yn nghyfansoddiad ei bregethau, yr oedd difrifwch neillduol ei ymddangosiad, ac yn arbenig yr eneinniad nefol oedd fel yn wastadol ar ei ysbryd, yn peri i'w wrandaŵwyr deimlo ei fod yn llefaru wrthynt megis cenad dros Dduw, ac mewn llawn awdurdod oddiwrtho i'w galw i gymmod âg ef. Yn *Nghofiant* y Parch. Ebenezer Richard, mewn dyfyniad o un o'i Lythyrau at ei feibion, y rhai oeddent ar y pryd yn aros yn Nghaerfyrddin, yr ydym yn cael cyfeiriad hynod o'i eiddo at Mr. Rees, pan ar y daith hon. Fel hyn yr ysgrifena :—"Aeth Mr. Henry Rees heibio i ni ar ei ffordd i lawr i Sir Benfro. Yr oedd yn ymddangos fel Seraph cyflym yn ehedeg yn nghanol y nefoedd, a'r efengyl dragywyddol ganddo i efengylu i'r rhai sydd yn preswylio ar y ddaear. Pregethodd yma prydnawn Sadwrn diweddaf oddiwrth Luc ix. 61, a boreu Sabboth yn Llangeitho, oddiwrth Diar. xxii. 17—21. Yr oedd y gynnulleidfa yn fawr anarferol yn Llangeitho, a'r addoldy, er ei fod yn llawn, nis gallai gynnwys yn agos y dorf lïosog: yr oedd llawer wedi dyfod o bellder mawr, ac yr wy'n credu na chafodd neb ei siomi" (*Bywyd y Parch. Ebenezer Richard*, tudal. 110, 111).

Ei gydymaith, neu, ac arfer gair cyffredin Cymru, ei gyfaill, yn y daith hon, fel yn ei holl deithiau y blynyddoedd hyny, oedd Mr. Richard Bumford, o Lanwyddelen, Sir Drefaldwyn. Yr oeddem ni yn dra chydnabyddus âg ef yn ystod y blynyddoedd y trigiannem yn y Drefnewydd. Difyr iawn fyddai ei glywed yn adrodd hanes ei deithiau gydâ Mr. Rees, ac, yn enwedig, yr oedd yn ddyddorol sylwi ar yr argraff ddofn o barchedigaeth oedd yn ei feddwl iddo, yn enwedig i'w grefydd. Unwaith, wedi ei hir ganmol fel pregethwr, dywedai,—"Ond nid ydyw yn ddim byd fel pregethwr, wrth ydyw fel Cristion." Yr oedd Bumford ei hunan yn ŵr mwynaidd, serchog, siriol, ac o dymher nodedig o foddlongar a dedwydd, fel ag i'w wneyd yn gyfaill tra diddan. Yn moreu ei oes yr oedd yn gwbl ddi-

grefydd; ac yn ymroddi, yn neillduol, i'r campau ofer ac ynfyd a ffynent y pryd hyny yn ei gymmydogaeth ef, fel yr oeddent yn gyffredin braidd yn mhob rhan o Gymru. Cyn ei droedigaeth, ystyrid ef fel prif arwr y campau hyny, yn y wlad hono; ac yr oedd—un flwyddyn, wedi ei ddewis, yn ol y drefn oedd gyffredin yn eu plith, yn brif swyddog er eu harolygu am y flwyddyn hono, yn mhlwyf Llanwyddelen. Yr oedd efe y pryd hyny tua phedair ar hugain oed. Yn ystod blwyddyn ei arolygiaeth ef ar y campau, fe ddygwyddodd fod cyhoeddiad i'r pregethwr enwog, Robert Roberts o Glynnog, trwy Sir Drefaldwyn; ac yn mhlith lleoedd ereill i Lanwyddelen. Oddiar y sôn mawr oedd am dano, fe aeth Bumford, ac ereill o'i gyfeillion ofer, i wrandaw arno. Ac fe lynodd y gair yn ei galon ef. Dan y bregeth hono fe gafodd y fath gyfnewidiad, ag a'i gwnaeth, yn holl ystyr y gair, yn ddyn newydd am y gweddill o'i oes. Ymadawodd yn gwbl ac am byth â'i hen gyfeillion ac â'i hen arferion, ac ymunodd â'r gymdeithas eglwysig yn yr Adfa, Llanwyddelen, lle y cafodd dderbyniad caredig a chynhes. Yn mhen rhai blynyddoedd fe ddechreuodd bregethu. Nid oedd ei wybodaeth yn helaeth, na'i ddoniau yn ddysglaer; ond yr oedd yn deall trefn yr efengyl yn dda; yr oedd ei gwirioneddau, yn ei feddwl, yn fwy trefnus a rheolaidd, ac yn cael eu gosod allan ganddo yn fwy felly, na chan y nifer amlaf o'r hen bregethwyr o'r gradd neu y dosbarth y perthynai efe iddo; yr oedd ganddo ddawn siarad naturiol a rhwydd; llais tyner a pheraidd; a rhyw eneinniad hyfryd ar ei ysbryd, a barai i'w weinidogaeth bob amser fod yn dra chymmeradwy. Parhäodd yn ffyddlawn yn y gwaith hyd ei farwolaeth, Ionawr 17, 1861, yn 85 mlwydd oed. Yr oedd yn nodedig o gyfaddas fel cyfaill i Mr. Rees. Er ei fod, fel y cyfryw, yn ei gael ei hunan yn fynych mewn teuluoedd llawer uwch o ran eu hamgylchiadau, ac yn gwahaniaethu yn eu dulliau oddiwrth y rhai yr oedd efe wedi arfer troi yn eu plith, eto yr oedd mor gall a gwyliadwrus a distaw, fel na byddai byth yn datguddio unrhyw ddiffyg gwybodaeth; ac mor sylwgar ar ymddygiadau rhai ereill, wrth y bwrdd ac mewn cymdeithas, fel

ag y gallasai un dieithr dybied ei fod wedi cael y dygiad goreu i fynu. Yr oedd yn y pulpud, drachefn, yn mhob modd yn dra boddhäol. Yr oedd yn gallu dechreu yr oedfa yn fyr ac yn llawn teimlad, eto yn weddus a phriodol. Yna efe a bregethai gydâ blas a bywiogrwydd, am o ugain i bum' munud ar hugain; ac a derfynai bob amser gan adael y gynnulleidfa mewn tymher hyfryd i wrandaw ar Mr. Rees. Ar adegau ymddangosai fel yn cael mwy o hwyl gydâ'r bobl nag a gâi efe ar ei ôl, gan adael argraff ar feddyliau amryw y buasai yn gwneuthur grymusder, pe buasai yn dyfod ar daith wrtho ei hunan, ac yn cael yr holl amser iddo ei hunan. Fe'i perswadiwyd ef i fyned unwaith felly ar daith trwy Sir neu ddwy yn y Deheudir. Ond yn hytrach yn siomedig y troes y daith hono allan: nid oedd y bregeth yn parhau odid ddim yn hwy na phan y pregethai yn un o ddau,—ac wedi cael hwyl go dda am tua phum' munud ar hugain, dyna y cwbl drosodd. Eithr yr oedd yn gwneyd yn rhagorol megis cyfaill, yn enwedig i'r fath un a Mr. Rees. Yr oedd yn cymmeryd arno ei hunan yn hollol ofal y ceffylau, yr amser i gychwyn, cyflymder neu arafwch a holl amgylchiadau y teithio; gan ei adael ef yn gwbl ddibryder yn eu cylch, ac mewn llawn hamdden i feddwl am ei bregeth. Ac yn y serchawgrwydd a'r sirioldeb oeddent naturiol iddo, y dymher dda oedd yn wastadol yn ei lywodraethu, a'r digrifwch diniwed yr oedd yn llawn o hono, yr oedd ganddo ryw ffordd effeithiol iawn i dynu Mr. Rees o ryw iselder ysbryd ag y byddai yn achlysurol, ar ei deithiau, yn dueddol i syrthio iddo. Anfynych y byddai hyny, ond fe ddygwyddai weithiau; a phan y dygwyddai, fe barai i'r bregeth fod yn llawer llai bywiog ac effeithiol nag y byddai yn arfer bod. Byddai y *pethau*, weithiau, fel yn cael eu hannghofio; ac yn neillduol yr oedd yn syrthio i ryw ddull undônol o draddodi, ag oedd yn tueddu i adael argraff hollol wahanol ar feddwl y bobl am dano, i'r hyn ydoedd mewn gwirionedd Y mae yn ymddangos iddo, am ryw gymmaint o amser, syrthio i brudd-der felly pan yn Sir Benfro, ar y daith y cyfeiriasom ati eisoes, yn 1828, ac i Bumford, trwy ei ddigrif-

wch, lwyddo i'w dynu allan o hono. Ond ni a roddwn yr hanes yn ngeiriau Bumford ei hunan, fel ag yr adroddwyd ef ganddo i fam Mr. Rees, pan oeddent eu dau ar daith, yn haf y flwyddyn 1829, trwy Sir Ddinbych, ac y daethant ar ddydd gwaith i Lansannan. Yr oedd ei fam, erbyn hyny yn weddw, wedi symmud o'r Cae Du, ac yn byw yn mhentref Llansannan. Ar ol y bregeth aeth Mr. Rees i ymweled â'i fam, a Bumford gydâg ef. Yn mhen amser fe aeth Mr. Rees allan i ymweled â rhai o'i hen gyfeillion, gan adael Bumford gydâ'i fam. Adroddai yntau iddi lawer o hanes eu teithiau, ac yn neillduol eu taith y flwyddyn o'r blaen, yn Siroedd y Deheudir. "Fe fu rhywbeth arno," meddai, "am ryw ran o'r daith hono, rhyw iselder meddwl na fuaswn i yn fy myw yn gallu ei ysgwyd o hono, ac yr oedd yn effeithio yn niweidiol iawn ar ei bregethu. Nid oedd o ddim yn debyg iddo ei hunan. Nid oedd fawr iawn o'r nerth a'r llewyrch, a arferent fod yn ei bregethau. Yr oedd y materion yno, yn y cyffredin, yn lled debyg; ond yr oedd y rhywbeth ag a fyddai yn arfer rhoddi *bywyd* a *myn'd* ynddynt yn eisieu. Ni wyddwn i ddim yn iawn pa beth i'w wneyd. Ond pan oeddem un diwrnod ar y ffordd, ar ol yr oedfa y boreu, yn teithio tuag Abergwaen at yr hwyr, mi droais i ato, ac a ofynais iddo, beth oedd arno? 'Wyddoch chwi,' ebe fi, 'ni thâl hi ddim byd fel hyn; mi a'ch curais i chwi o ddigon yr oedfa y boreu heddyw. Rhaid i chwi naill ai ymroi ati hi, neu fe fydd yn rhaid i ni newid y drefn, ac i chwi bregethu tipyn o fy mlaen i?' Ar hyny fe chwarddodd allan yn galonog, ac fe ymadawodd y prudd-der âg ef yn hollol ar unwaith. A'r noson hono! bobl anwyl! dyna bregethu. Fe bregethodd na chlywais i na neb arall oedd yno y fath bregeth a phregethu o'r blaen. Yr oedd Mr. Thomas Richard yn ymddangos fel dyn wedi hurtio yn lân. Wedi myned i'r tŷ, gofynai Mr. Richard i mi, 'A ydyw e yn pregethu fel yna yn mhob man, Richard?' 'Nac ydyw, Syr,' ebe finnau,' mi curais i o y boreu heddyw.' 'Da iawn, Da iawn, Richard, chwi wnaethoch yn dda iawn. O'wn i yn meddwl, os oedd e wedi pregethu yn mhob lle fel y gwnaeth e yma heno, na buasai o un diben i

neb geisio pregethu yn un man ar ei ol e. Ië, chwi a'i cur'soch e, do fe?' 'Do greda i yn sïwr,' meddwn innau. 'Ond a gredodd e, Richard?' 'Mi ddywedais i wrtho.' 'Ië, chwi 'wedsoch wrtho; ond a gredodd e chwi?' 'Wel, ni allaf fi ddim dweyd hyny; ond ni ddywedodd o ddim yn erbyn.' 'Ië, ni 'wedodd e ddim yn erbyn; ond nid credu yw hyny, Richard. Nid oes neb o'ch gwrandaẅwyr, ar hyd y wlad yma, yn dweyd dim yn erbyn y peth y'ch chwi yn bregethu, ond ychydig sy'n credu serch hyny.'" Y mae yr adroddiad hwn yn rhoddi mantais i ni i weled y mesur helaeth o gymhwysder oedd yn yr hen frawd Bumford, i fod yn *Gydymaith Teithio* i'r fath un a Mr. Rees.

Wedi y daith hon yn y Deheudir nid oes genym ddim o'i hanes yn mhellach hyd Gymdeithasfa y Bala, y Mercher, yr Iau, a'r Gwener, Mehefin 17, 18, 19, 1829, pryd yr ydym yn ei gael yn pregethu y prydnawn cyntaf, o flaen Mr. Richard Davies, Caio, oddiar 2 Cor. v. 21. Yr oedd y bregeth hon yn un o'r rhai mwyaf hynod ac effeithiol o'i eiddo; ac wedi ei chywiro a'i choethi gydâ gofal mawr unwaith ac eilwaith, yn un a bregethwyd ganddo, yn achlysurol, am flynyddoedd lawer. Y mae i'w chael yn argraffedig, fel y gadawwyd hi ganddo ef mewn ysgrifen, yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 414—426. Ni a'i clywsom hi amrywiol weithiau, a dylanwadau nerthol iawn gydâ hi. O'r Bala efe a aeth rhagddo i Gymdeithasfa Môn, yr hon a gynhelid y flwyddyn hono yn Llanerchymedd, yr Iau a'r Gwener, Mehefin 25, 26. Yr oedd yn pregethu yno am ddeg ar y gloch ddydd Gwener, o flaen Mr. Thomas Richard, oddiar Esaiah lix. 19. Yr oeddem ni yn Llanerchymedd yn gwrandaw arno; ac yn sier yr oedd ei bregeth y pryd hyny, yn un o'r rhai mwyaf difrifol a gafaelgar a glywsom ni ganddo ef na chan odid neb arall erioed. Yr oedd Mr. Thomas Richard wedi cael oedfa hynod, a hynod iawn, y prydnawn cyntaf. Yr oedd wedi tori yn orfoledd mawr trwy y dorf i gyd. Nid oedd dim felly pan oedd Mr. Rees yn pregethu drannoeth, ond yr oedd rhyw deimlad rhyfedd, dwfn a dwys, yn treiddio trwy yr holl gynnulleidfa. Yn wir yr oedd y difrifwch, ar rai rhanau o'r bregeth,

yn rhywbeth ofnadwy. Yr ydym yn gweled ein bod yn Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn, wedi cyfeirio at y bregeth hon, fel y canlyn:—"Yr oedd hono yn bregeth braidd ddigyffelyb. Nid ydym yn meddwl i ni erioed glywed hyd yn nod Mr. Rees ei hunan, gydâ mwy o ddwysder a gafael a grym a dylanwad. Darluniai nerth ac ystrywiau a malais y gelyn, gydâ'r fath fywiogrwydd ac effeithiolrwydd, nes yr oedd arswyd myned yn ysglyfaeth iddo yn ei ymosodiadau yn ymddangos fel yn meddiannu pob meddwl yn y gynnulleidfa; a phan ddaeth at yr oruchafiaeth a addewir yn y geiriau, yr oedd yn ymwared gwirioneddol i deimladau pawb. Mae yn gofus iawn genym, pan y daeth at y gair 'ymlid,' fel yn arwyddo fod y frwydr wedi ei hymladd, a'r fuddugoliaeth wedi ei hennill, fod Mr. Elias wedi codi ar ei draed, a chan sefyll yn ymyl y pregethwr, yn codi ei fraich, ac yn ysgwyd y bŷs blaenaf, fel pe buasai arno ef ei hunan flys cael siarad. Ond dyna Mr. Rees yn gwaeddi,—'Beth ydyw ymlid? Gwaith y blaid gryfaf yn erlid y blaid wanaf, wedi ennill y fuddugoliaeth. Bobl, y mae y fuddugoliaeth wedi ei hennill ar y groes; y mae *flag* uffern wedi ei chymmeryd rhwng y lladron. I ba beth y daethoch chwi i Lanerchymedd ynte? I'w ymlid o.' Ar hyny, yr oedd Mr. Elias â gwên ar ei enau, ac â'i holl galon yn mwynhau; ac yn ymddangos fel yn teimlo fod y pregethwr wedi dywedyd yn hollol yr hyn a ddymunasai efe ddywedyd ei hunan" *(Cofiant*, tudal. 901, 902). Y mae y bregeth hon hefyd fel yr ysgrifenasid hi gan yr awdwr, yn argraffedig yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 495—512.

Ychydig cyn diwedd Medi, y flwyddyn hon, fe aeth ar daith am amryw wythnosau i'r Deheudir, yn neillduol i Siroedd Mynwy a Morganwg, a Mr. Richard Bumford eto yn gyfaill iddo. Nid ydym wedi gallu llwyddo i gael dim neillduol gydâ golwg ar y daith hono, heblaw ei fod yn pregethu yn nerthol iawn, ac yn fynych gydâ dylanwad mawr, a bod torfeydd dirfawr yn cyrchu i'w wrandaw agos yn mhob lle. Nid ydoedd erioed wedi bod yn y parthau hyny o'r blaen, ond yr oedd ei

enw yn hollol adnabyddus, a sôn mawr am dano; fel yr oedd dysgwyliadau mawrion wrtho, y rhai oeddent, braidd yn ddieithriad, yn cael eu llanw yn hollol. Daeth i'n llaw ranau o lythyr a ysgrifenwyd ganddo pan ar y daith hon, wedi ei gyfeirio at Mr. Hugh Griffiths, ei gyfaill hoff a'i letywr caredig, yn yr Amwythig; eithr wedi ei fwriadu, dybygid, mewn rhan i'r holl eglwys. Y mae, fel pob peth odditan ei law, yn arddangos yr ysbryd duwiol-frydig a'i meddiannai, a'i gysegredigaeth hollol i'r gwaith mawr a ymddiriedasid iddo. Nid oes genym ddim i benderfynu y lle neillduol o'r hwn yr oedd yn cael ei anfon, yn mhellach nag y ceir hyny yn yr arysgrifen i'r llythyr ei hun, fel ag y dodir ef i lawr yma:—

"Swydd Forganwg, Hydref 1, 1829.

"Anwyl Gyfeillion,—Yr ydwyf yn defnyddio yr adeg "gyntaf a gefais i ysgrifenu ychydig o'm hanes i chwi, yn ol fy "addewid. . . . . . . Mae ein taith wedi bod hyd yma yn weddol "gysurus; y tywydd yn dda, y gaseg fach yn gwella bob dydd, y "cyfeillion yn garedig, yr Arglwydd yn dirion; pregethu ddim "yn anhawdd. Ond oh! y mae llafur mawr yn angenrheidiol "i gadw y meddwl yn fywiog gydâ phethau yr efengyl, wrth "fod gydâ hwynt bob dydd, yn enwedig pan y mae y corph yn "blino: yr ydwyf yn aml dan demtasiwn naill ai i ddigaloni, "neu ynte i ddifateru. Yr ydwyf yn parhau i ofyn eich "gweddïau oll droswyf. . . . . . . .

"Y mae Richard Bumford yn cofio atoch, ac yn dymuno "arnoch anfon *copy* o'r cyhoeddiad i'w deulu. Cofiwch fi at Mrs. "Griffiths, os yw gartref. Gobeithiaf ei bod yn gwella, ac yn "gysurus ei meddwl, mor bell ag y gellir dysgwyl bod felly "mewn anialwch blin o'r fath ag yw y byd hwn. Llawer o "ddyddanwch yr Ysgrythyrau i chwi oll; llawer o gymhorth i "fyw yn dduwiol; llawer o gymdeithas â Duw mewn gweddi. "Yr ydwyf ar ol chwysu, mewn ystafell oer yn teimlo anwyd, "felly rhaid eich gadael.

"Ydwyf yr eiddoch, H. Rees."

Y mae y cyfeiriad at y "*blino*" a'r "*chwysu,*" yn y llythyr blaenorol, yn gwbl ddealladwy i'r rhai sydd yn ei gofio yn y blynyddoedd hyny, a'i ddull tanbaid a llafurus o draddodi. Ni bu neb erioed mwy diarbed o hono ei hunan: a chan y byddai yn pregethu yn y cyffredin yn faith, a'r cynnulleidfäoedd yn fawrion fel ag i orlenwi y Capeli, fe fyddai yn chwysu yn llymaid braidd bob tro. Ofnid, yn wir, gan lawer y pryd hyny nas gallai ddal ond ychydig,—y byddai ei fawr lafur yn ormod iddo. Eithr, yn raddol, efe a newidiodd lawer iawn yn ei ddull, gan bregethu yn fwy tawel a hamddenol; ac fe'i harbedwyd am flynyddoedd lawer.

Yr ydym yn ei gael ddydd Gwener, Rhagfyr 11, 1829, yn Meifod, yn Nghyfarfod Blynyddol Ysgolion Sabbothol Sir Drefaldwyn, lle y traddododd Araeth ar y testyn neillduol a bennodasid iddo,—"*Yr Ysgol Sabbothol fel Llaw-forwyn i Weinidogaeth yr efengyl.*" Fe ddygwyd allan Adroddiad byr am y Cyfarfod hwnw, yn llyfryn bychan, gan y diweddar Barch. John Hughes, Pont Robert; yn yr hwn y mae Araeth Mr. Rees i'w chael yn gyflawn, wedi ei pharotoi ganddo ef ei hunan i'r Wasg. Dyma y peth cyntaf erioed o'i eiddo a gyhoeddwyd felly, ac y mae yn sicr, yn mhob modd, yn dra rhagorol. Ni a glywsom, ac y mae yn hawdd iawn genym gredu, fod effeithiau hynod i'r cyfarchiad hwn pan yr oedd yn cael ei draddodi ganddo; ac nis gall neb, ni a dybiem, ei ddarllen yn ystyriol heb deimlo fod gwerth gwirioneddol a pharhaus ynddo. Y mae wedi ei ad-gyhoeddi yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 524—533.

Yr oedd y flwyddyn ganlynol, 1830, fel y cawn weled, yn flwyddyn bwysig iawn yn ei hanes, er mai ychydig iawn o gofion sydd yn ein cyrhaedd ni am dano. Yr oedd yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, y Mercher a'r Iau, Mawrth 3, 4, ac yn pregethu yno am ddeg ddydd Iau, o flaen Mr. Elias, oddiar Heb. xii. 15; pregeth a glywsom ni ein hunain ar ol hyn, ac un ag yr ydoedd y blynyddoedd hyny, yn dra hoff o honi, ac un ag oedd braidd yn ddieithriad yn dra effeithiol. Y pryd hwn, yn y

Wyddgrug, y cafodd Mr. Lloyd, Beaumaris, yr oedfa hynod, ag y bu cymmaint o sôn am dani, ar y geiriau, "A'r Sabboth oedd y diwrnod hwnw." Yn mhen ychydig wythnosau wedi dychwelyd o'r Wyddgrug, fe aeth Mr. Rees i fynu i Lundain at Gyfarfod y Pasg, ac i wasanaethu yr achos yno am yr wythnosau dilynol. Pregethodd yn Jewin ddwy waith ddydd Gwener y Croglith, Ebrill 9, oddiar Amos iv. 12 a Luc ix. 61; dwy waith Sabboth y Pasg, Ebrill 11, oddiar Dat. xvi. 15 a Heb. vii. 19; a dwy waith y Llun canlynol, oddiar 1 Ioan i. 7 a 1 Tim. ii. 5. Arosodd yn Llundain y pryd hwn hyd dros Mehefin 6, am naw o Sabbothau, ac a bregethodd bedair-ar-ddeg-ar-hugain o weithiau, a chan mwyaf ar destynau gwahanol. Ac yr oedd hyn oll heblaw ei lafur mewn cyfarfodydd ereill yno. Yr wythnos ganlynol i'w ddychweliad o Lundain aeth i Gymdeithasfa y Bala, y Mercher a'r Iau a'r Gwener, Mehefin 16, 17, 18, ac yr oedd yn pregethu yno am ddeg, o flaen Mr. Ebenezer Richard, oddiar Eph. iii. 18, 19. Oedfa neillduol iawn iddo oedd hon. Y mae y bregeth i'w chael yn argraffedig yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 201—214.

Yn y flwyddyn hon, ar ddydd Mercher, Hydref 20, yn eglwys St. Chad, yn yr Amwythig, efe a ymbriododd â Miss Mary Roberts, merch ieuanc wir grefyddol, yr hon oedd yn aelod o'r eglwys oedd tan ei ofal ef, ac yn cartrefu, ar y pryd, gydâ modryb iddi yn yr Amwythig. Yr oedd hyn yn ychwanegiad mawr iawn at ei gysur, er yn gryn ychwanegiad at ei bryder. Ond bu efe yn ddedwydd iawn yn ei briodas. Yr ydym yn dymuno rhoddi pwys neillduol ar hyn. Cafodd yn Mrs. Rees wraig ddoeth, dawel, dyner, a thra darbodus; un a wir ofalai am dano, ac un a fu, yn holl ystyr y gair, yn ymgeledd gymhwys iddo. Cymerai hi ei holl ofalon bydol arni ei hunan, gan ei adael ef yn gwbl rydd i gysegru ei holl feddwl, a'i holl amser, at y gwaith mawr ag yr oedd ei holl galon arno, ac yr oedd y fath gymhwysder ynddo iddo. Ganwyd iddynt, os ydym yn iawn gofio, bedwar o blant; ond ni chaniatâwyd iddynt fagu oddieithr un,—ei anwylaf a'i hoffusaf Anne,—sydd eto yn fyw, ac yn

briod i Richard Davies, Ysw., yr Aelod Seneddol dros Fôn, ac Arglwydd Raglaw y frenhines dros y Sir. Bu Mrs. Rees byw ychydig dros ddeng mlynedd ar ol Mr. Rees, gan ymostwng yn dawel i'r ewyllys ddwyfol, yn ngwyneb y brofedigaeth fawr a'i cyfarfuasai trwy ei golli ef, er yn hiraethlawn iawn ar ei ol. Hi a fu farw, Mawrth 20, 1879, yn 83 mlwydd oed; ac fe'i claddwyd yn yr un bedd â'i gŵr.

Yn niwedd y flwyddyn 1830, efe a gychwynodd ar daith o rai wythnosau, trwy ranau o Sir Feirionydd a Sir Gaernarfon a Sir Fôn, a Mr. Richard Bumford drachefn yn gyfaill iddo. Bu yn Mangor y pryd hyny ddwywaith, ar ei fynediad i ac ar ei ddychweliad o Fôn; a chawsom ni yr hyfrydwch mawr o wrandaw arno y ddau dro. Ar ei fynediad, yr oedd yn Mangor ar foreu Sabboth, Ionawr 2, 1831, ac yn pregethu oddiar Heb. xii. 15. Pregeth ddifrifol ac effeithiol iawn ydoedd hon. Yr oedd wedi ei chyfansoddi i fesur mawr yn ol yr hen ddull Puritanaidd, y cyfeiriasom ato eisoes, ag oedd yn nodweddu ei bregethau y blynyddoedd hyny; gydâg amrywiol raniadau, ac îs-raniadau, a rhaniadau drachefn ar y rhai hyny, fel ag i beri fod yn lled anhawdd ei chofio yn fanwl. Wedi esbonio y testyn, yn ei gysylltiad â'r adnodau blaenorol, ac âg amcan yr holl Epistol, fe nododd dri pheth i sylwi arnynt:—I. Fod holl drefn iachawdwriaeth pechaduriaid wedi tarddu o Râs Duw. II. Fod yr iachawdwriaeth yma sydd wedi tarddu o Râs, yn cael ei gosod allan o flaen dynion yn yr efengyl. III. Fod arwyddion pallu oddiwrthi,—syrthio yn fyr o honi,—ar gannoedd sydd yn gwrandaw am dani. Cymmerodd y rhan fwyaf o'r amser gydâ'r pen cyntaf: ac yr oedd llewyrch a blas annghyffredin ar ei sylwadau, a'r gynnulleidfa yn ymddangos yn fyw o deimlad. Tua diwedd y bregeth, yr oedd ganddo sylw i'r ystyr a ganlyn, gydâ'r hwn y terfynodd:—"Dau gerbyd a fu erioed yn rhedeg o'r ddaear tua'r nefoedd. Un oedd cerbyd y Cyfammod gweithredoedd. Dymchwelodd hwnw yn dra buan ar y ffordd gan adael y rhai oeddent ynddo mewn cyflwr anobeithiol, o'u rhan eu hunain, i gyrhaedd y nefoedd byth. Ond yn fuan daeth un ar-

all i'r golwg,—Cerbyd Rhad Râs,—i godi i fynu gwympedigion o'r cerbyd cyntaf; ac y mae hwn yn un na ddymchwelir mo hono byth, ac y mae pob un a fyddo ynddo yn sicr o gyrhaedd y nefoedd yn gwbl ddiogel. Yr oeddwn i," meddai, "ychydig amser yn ol, yn dychwelyd o Lundain i'r dref acw, lle yr ydwyf yn byw; ac yn rhyw le ar y ffordd, dyna y cerbyd yr oeddwn i ar ei ben yn sefyll wrth ryw dŷ cyhoeddus, a elwid, '*Old Adam's Inn.*' O! y mae yn dda genyf gael dywedyd,—Y mae Cerbyd Rhad Râs, y boreu heddyw yn Mangor, yn sefyll wrth ddrws '*Gwesty yr Hen Addu,*' ac y mae digon o le ynddo, a modd i bwy bynnag a ewyllysio fyned i mewn iddo, a chyrhaedd y nefoedd yn ddiogel byth." Gan y cyfnewidiad mawr a gymmerasai le yn ei chwaeth, prin feallai, y buasai yn ei flynyddoedd diweddaf yn cymmeradwyo yn hollol y fath gymhariaeth; ond oblegyd yr angerddolder oedd yn ei deimlad, a'r eneinniad rhyfedd oedd ar ei ysbryd, yr oedd, o'i enau ef, yn gwneuthur grymmusderau y boreu hwnw yn Mangor.

Ar ei ddychweliad o Fôn, yr oedd yn Mangor drachefn, nos Fawrth, Ionawr 11, 1831, ac yn pregethu oddiar Hosea x. 12. Yr oedd hon yn oedfa hynod, a hynod iawn. Yr oedd y Capel yn orlawn o wrandaẅwyr, a'r pregethwr, yn ddiammeu, yn un o'r hwyliau goreu y bu ynddynt erioed. Yr oedd yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo oddiwrth yr Arglwydd ei hunan, gydâ llymder a nerth mawr, ac eto mewn teimlad dwfn a dwys a llawn tosturi, yn erbyn pechodau ei genedl. "Darllenwch," meddai, "yn yr Hen Destament, bob cofrestr o eiddo y prophwydi o bechodau yr Iuddewon, a chofrestrau yr Apostolion, yn y Testament Newydd, o bechodau y Cenhedloedd, ac yr wyf yn ofni y cewch rai tebyg iddynt yn Nghymru:—Dirmyg ar Air Duw; anmharch i'w Sabbothau; celwydd, twyll, rhagrith, a phob anghyfiawnder; balchder, cybydd-dod, meddwdod, anniweirdeb; llygredigaethau yn mhob ffurf, y maent yma, ysywaeth! i'w cael. O! Gymru! Gymru! Gymru! Nid ydyw adar pob gwlad yn ehedeg yn dy awyr, na physgod pob gwlad yn nofio yn dy afonydd, na phrenau pob gwlad yn tyfu yn dy

goedwigoedd, na mwnau pob gwlad i'w cael yn dy fynyddoedd; ond y mae bron bob math o bechodau pob cenedl, yn cael eu coledd ynot." Eithr wedi aros yn hir ar y "Dyledswyddau a gymhellir" yn y geiriau, a dangos yr angenrheidrwydd am Ddychweliad, Diwygiad, a Duwioldeb, fe ddaeth at y "*Bendithion a addewir;*" ac yr oedd yr ymwared i'r gynnulleidfa megis bywyd o feirw. Yr ydym yn cofio yn dda yn awr, yn mhen pymtheng mlynedd a deugain, yr ysbryd nefolaidd yr oedd ynddo, pan y gwaeddai, fel yr oedd yn tynu at y diwedd, "'hyd oni ddelo a gwlawio cyfiawnder.' 'Ceisiwch hyd oni ddelo.' Oni ddaw y Sabboth nesaf, ceisiwch hyd yr ail; oni ddaw yr ail, ceisiwch hyd y trydydd; oni ddaw y pryd hyny, ceisiwch hyd farw. Hwyrach mai ar wely angeu y daw, wedi i'r Meddyg dy roi di i fynu: ond fe fydd ei gael yno, a'i glywed am un munudun yn llefaru heddwch, yn fwy na digon o dâl am ei geisio a dysgwyl am dano ar hyd yr holl oes."

"'A *gwlawio* cyfiawnder.' Dyma sŵn *rhadlonrwydd.* Na adewch i'ch tlodi beri i chwi anobeithio. Rhad, rhad ydyw: yn y trefniad a'r gwneuthuriad; yn y taliad a'r cymhwysiad. Dyma sŵn *helaethrwydd.* Nid rhyw fân ddefnynau, fel a roddir gan y Meddyg ar y llwy dê; o nage: iachawdwriaeth a chyflawnder Duw ynddi. Mae y cwmmwl yn codi o'r môr mawr, ac nid oes prinder byth yno."—Ond y mae yn rhaid i ni ymattal. Yr oedd y bregeth hon hefyd yn dwyn yr un nodwedd, o ran ffurf ei chyfansoddiad, a'r un flaenorol y cyfeiriasóm ati; ond yr oedd y fath fywyd a nerth ac eneinniad, yn ac ar y traddodiad o honi, ag i roddi rhyw unoliaeth o'i heiddo ei hunan iddi yn nheimladau y gwrandaẅwyr.

Ni ddygwyddodd i ni ei glywed o gwbl ar ol hyn y flwyddyn hon, ac nid oes genym ddim o'i hanes yn pregethu yn un lle yn ystod y flwyddyn, oddieithr mewn dwy Gymdeithasfa, sef yn Nghymdeithasfa Rhuthin, yr hon a gynhelid yr Iau a'r Gwener, Mawrth 3, 4, 1831; lle y pregethai am ddeg ddydd Gwener, ar ol Mr. Thomas Elias, oddiar Esaiah liii. 1. Yr oedd Mr. Parry o Gaer a Mr. Lloyd, Beaumaris, yn pregethu y prydnawn cyntaf;

a Mr. John Charles, Gwalchmai, a Mr. Elias am ddau yr ail ddydd; a Mr. Daniel Jones a Mr. John Hughes, Pont Robert, yr hwyr. Ni ddygwyddodd i ni erioed glywed y bregeth oedd gan Mr. Rees y pryd hwn; ond y mae wedi ei chyhoeddi yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 25—44, ac nid oes eisieu dywedyd ei bod yn un ragorol iawn.

Y Gymdeithasfa arall iddo, y flwyddyn hon, oedd yn y Bala, Mehefin 14, 15, 16, 17, lle y pregethai am ddau ar y gloch ddydd Iau, Mehefin 16, ar ol Mr. William Morris, Llanelli, oddiar 1 Ioan v. 15. Yr oedd Mr. Hughes, Wrexham, a Mr. Elias, yn pregethu am ddeg; a Mr. William Prytherch a Mr. Michael Roberts, y prydnawn cyntaf. Ni ddygwyddodd i ni ychwaith erioed glywed y bregeth oedd ganddo y pryd hwn yn y Bala, ac y mae yn ddrwg genym nad ydyw i'w chael yn mhlith ei bregethau argraffedig; yn neillduol oblegyd ein bod yn cofio yn dda clywed Mr. Elias yn dywedyd, yn Mangor, pan ydoedd yno noswaith ar ei ddychweliad o'r Bala, eu bod "wedi cael pregeth annghyffredin iawn gan Mr. Henry Rees," yn y Gymdeithasfa hono.

Yn y blynyddoedd hyny yr oedd y "*Dadleuon Duwinyddol,*" ag yr ydym wedi rhoddi hanes mor helaeth am danynt yn Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn, yn peri cyffro mawr yn Nghymru, a llawer iawn o ysgrifenu arnynt yn yr amrywiol Gyhoeddiadau Misol, yn gystal ag mewn mân draethodau, neu lyfrau bychain, a gyhoeddid wrthynt eu hunain. Yr oedd y dadleu yn neillduol, y pryd hwn, rhwng Calfiniaid a'u gilydd, gydâ golwg ar yr hyn a elwid yn "*System newydd,*" ac yn arbenig yn nghylch yr *Iawn* a'r *Prynedigaeth.* Mae yn wybyddus fod amryw yn mhlith y Methodistiaid, er yn annghymmeradwyo llawer o'r ymadroddion a ddefnyddid gan bleidwyr y golygiadau a ystyrid yn newyddion, eto yn tueddu yn gryf at olygiadau llawer eangach nag a gymmerid gan y nifer amlaf o'u brodyr, ar Helaethrwydd yr Iawn, ac yn enwedig dros ddefnyddio yn gwbl ddifloesgni iaith eang yr Ysgrythyrau, heb amcanu at eu hesbonio, pan yn traethu ar y pwnc. Ond yr

oedd Mr. Rees, y pryd hwnw, yn gryf iawn dros yr hyn a ystyrid yn hen olygiadau; ac yn awr yr ydym yn ei gael yn dyfod allan, trwy y wasg, yn eu plaid. Eithr nid ydym yn gweled y gallwn wneuthur dim yn well na dyfynu yr hyn a ysgrifenwyd genym eisoes, yn y Cofiant y cyfeiriasom ato ar hyn:—

"Mewn cysylltiad â'r pwnc y dadleuid cymmaint arno yn y wlad ar y pryd, er nad gydâ chyfeiriad pennodol at unrhyw awdwr neillduol, fe ymddangosodd traethawd, annghyffredin o werthfawr, yn y '*Drysorfa*' am Hydref, 1831 (*tudal.* 294—298), '*Crist yn Dioddef Cosbedigaeth ei Bobl*'—gydâ pharhâd o'r unrhyw yn y Rhifyn am Tachwedd (*tudal.* 326—329). Awdwr y traethawd hwn oedd, S. L. P. N.—SALOPIAN,—sef Mr. Henry Rees, yr hwn oedd y pryd hyny, yn byw yn yr Amwythig. Amcan y traethawd hwn ydyw profi, yn ol geiriad y testyn, 'fod Crist wedi dioddef nid rhyw fath o gospedigaeth, er attal yr hon a fygythiasid ar y troseddwr,' ond 'iddo ddioddef y gospedigaeth, ddyledus i'w bobl, yn eu prynedigaeth oddiwrth bob anwiredd.' Y mae yn dwyn y rhesymau canlynol yn mhlaid ei osodiad. 1. Fod Crist wedi myned 'tan y gospedigaeth hono, ag oedd yn ol cyfiawnder a barn Duw yn ddyledus i bechod.' 2. Fod 'y gosb ag ydoedd yn nghyfiawnder Duw yn ddyledus i bechod, yn cael ei chynnwys a'i gosod allan yn melldith y ddeddf,' a bod Crist wedi ei wneuthur dan y ddeddf a dioddef ei melldith. 3. Fod 'Crist yn ol ei fechnïaeth yn dioddef tan gyfrifiad o'n pechodau ni.' Er cysylltu y rheswm hwn â'i osodiad, y mae yn dangos fod 'rhoddi anwiredd ar un, yn iaith y Beibl, yn arwyddo ei roddi i'w erbyn mewn trefn i'w gospi am dano, a dwyn anwiredd, yn wastad yn arwyddo dioddef y gospedigaeth hono.' 4. Fod 'yr Arglwydd Iesu yn dioddef ac yn marw trosom ni: ac y mae dioddef tros un, yn ol yr arferiad cyffredinol o'r ymadrodd yn mhlith dynion, ac yn y Beibl, yn arwyddo dioddef yn ei le, y gosp ddyledus iddo, er ei ryddhau.' 5. 'Megis y sonir yn mhob man am newidiad personau, y cyfiawn dros yr annghyfiawn, y meichnïydd yn lle y troseddwr;

felly hefyd dangosir yn mhob man fod y gospedigaeth yr un; heb air o grybwylliad yn y Beibl am unrhyw gyfnewidiad ynddi, gydâ golwg ar y meichnïydd, o'r peth oedd, neu a fuasai gydâ golwg ar y pechadur.' Er prawf o hyn, y mae yn dangos yn helaeth fod 'y gosb a fuasem ni yn ei dioddef, a'r peth a ddioddefodd yntau, yn aml yn cael eu gosod allan trwy yr un ymadroddion.' Mae yn terfynu y traethawd, trwy ateb y gwrth-ddadleuon a gyfodir yn erbyn ei osodiad, oddiwrth rai o'r elfenau a dybir sydd yn nghospedigaeth pechod yn uffern, ac oddiwrth yr annghysondeb, a dybir gan rai, sydd rhwng maddeuant rhâd i'r pechadur, a llawn daliad hollol o'r un peth ag oedd yn ofynol oddiwrtho.

"Mae y traethawd hwn, fel y gallesid dysgwyl oddiwrth ei awdwr, yn nodedig o alluog, ac o nodwedd llawer uwch nag odid ddim a ymddangosasai o'r blaen ar y dadleuon hyn yn ein hiaith. Mae yr awdwr ynddo yn cymmeryd yr un tir ag a gymmerir gan y Dr. Owen, yn ei '*Death of Death*,' ac, yn ei amddiffyniad i'r llyfr hwnw, yn erbyn Mr. Baxter (*Works*, Goold's *Edition*, *Vol.* X., *pages* 267—273; 280—282; 437—449); a'r un tir ag a gymmerir gan y Dr. Goodwin '*Christ the Mediator*,' *Works*, Nichol's *Edition*, *Vol.* V., *pages* 184—192; 280—295), sef, fod Iesu Grist wedi dioddef, yn lle ei bobl, yr *un* a'r *unrhyw* gospedigaeth ag oedd ddyledus i, ac a ddioddefasid ganddynt hwy eu hunain: er nad ydyw yn myned mor bell, yn enwedig â Dr. Goodwin, gydâ golwg ar *raddau* ei ddioddefiadau. Ond y *mae* yn dadleu, ac yr oedd hyny ar y pryd yn bwysig iawn yn ei feddwl ef, fod dioddefiadau Crist o ran eu *natur*, yn briodol yn gospedigaeth pechod, ac nid yn rhywbeth yn lle y gospedigaeth hono: ac y mae yn dadleu hefyd eu bod, yn eu cysylltiad â'r Duw Mawr, 'yn hollol o'r un natur â'r hyn a ddioddefir byth yn uffern.' Fel y dywedasom, y mae ei ymresymiad yn mhlaid y gosodiad hwn yn nerthol iawn, ac y mae rhyw ireidd-dra sanctaidd, priodol i'r awdwr ei hunan ar yr holl gyfansoddiad; ond y mae yn amheus iawn genym ni a fuasai efe ei hunan, yn ystod y pum' mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes, yn dewis, nae yn

cymmeradwyo yn *hollol* yr un geiriad, ag a ddefnyddir ganddo yma; ac, er ei fod yn ddiddadl yn parhau i dderbyn sylwedd y traethawd, yr ydym braidd yn meddwl mai efe ei hun a fuasai y cyntaf i ddywedyd, ei fod ynddo yn llefaru yn rhy gryf a phenderfynol, am yr hyn y mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd, mewn cymhariaeth, yn ddistaw arno, yn nghylch *natur* a graddau dioddefiadau ein Gwaredwr Mawr. Pan y cofiwn fawredd anfeidrol y person oedd yn dioddef, nis gallwn ammeu nad oedd rhyw elfenau, yn ei feddwl ef, i osod mawredd ar ei ddioddefiadau pell uwchlaw pob amgyffred creaduriaid meidrol fel ni: eto pan y cofiwn fod *tragywyddoldeb* yn perthyn i ddioddefiadau uffern, nid oes, dybygem ni, un gymhariaeth yn briodol i'w gwneuthur rhwng *graddau* ei ddioddefiadau ef, â'r hyn a ddioddefasid yno, yn eu personau eu hunain, gan y rhai a gynnrychiolid ganddo: ac y mae yn amheus iawn genym ni, a ydyw yr ysgrythyrau yn angenrheidiol yn ein rhwymo i olygu, fod yr un *dioddefiadau,* o ran *natur,* yn hanfodol i *gosbedigaeth* pechod, pan yn cael ei dwyn gan berson dihalog ac anfeidrol fel meichnïydd dros yr euog, ag sydd *naturiol* a *hanfodol* i'r *gospedigaeth hono,* pan yn disgyn, yn uniongyrchol, ar yr euog ei hunan. Ai nid cysylltiad y *dioddefiadau* â *phechod,* yn cael ei roddi megis mewn cyfraith yn erbyn y dioddefydd, pa un bynnag fyddo ai ei bechod ei hunan ai pechod un y byddo yn dioddef drosto, sydd yn cyfansoddi hanfod y gosbedigaeth, neu yn gwneyd y *dioddefiadau,* pa beth bynnag fyddo eu *natur,* neu eu *graddau,* yn gyfryw ag y gellir yn briodol eu hystyried felly." (*Cofiant y* Parch. John Jones, *tudal.* 514—516)?

Nid oes genym ond ychydig o'i hanes y flwyddyn ganlynol, 1832; eithr yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfa Llanfyllin, Mai 1, 2, ac yn pregethu yno yn olaf y prydnawn cyntaf. Ni chawsom y testyn oedd ganddo yno. Yr ydym yn ei gael hefyd yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 19, 20, ac yn pregethu yno drachefn, yn olaf y prydnawn cyntaf, oddiar 1 Petr iv. 17. Pregethodd lawer iawn ar y testyn hwn; ac yr ydoedd, yn ddiammeu, yn un o'i bregethau mwyaf effeithiol.

Ar yr ugeinfed o Ebrill, dydd Gwener y Croglith, y flwyddyn hon, 1832, yr oedd cyfarfod urddiad ei frawd, Mr. William Rees, yn weinidog ar yr eglwys Annibynol yn Heol Mostyn, Sir Fflint. Yr oedd y gweinidog ieuanc, fel yr oedd yn dra naturiol, yn hynod o awyddus am i'w frawd gymmeryd rhan yn yr Ordeiniad, ac yn enwedig, o byddai bosibl, am gael ganddo draddodi y Cyngor iddo ef, ar yr achlysur. Ac wedi ymgynghori â Mr. Williams o'r Wern, Mr. David Roberts, Dinbych, ac ereill, fe anfonodd ato i'w daer gymhell i ddyfod. Oblegyd y dadleu brwd oedd yn bod y pryd hyny rhwng rhai o'r Methodistiaid a'r Annibynwyr, yn nghylch yr Iawn a'r Prynedigaeth, ac yn gwybod fod ei frawd yn teimlo yn dra gwrthwynebol i'r syniadau a ddysgid gan rai o'r Annibynwyr, yr oedd Mr. W. Rees yn ofni mai nid hawdd fyddai ganddo gydsynio â'i gais, yn enwedig gan y gwyddai hefyd nas gallai lai nag ystyried, pa fodd yr edrychid gan rai o'i frodyr ei hunan, y Methodistiaid, ar ei waith yn cydsynio. Pa fodd bynnag, yn gwbl groes i'w ofnau, fe gafodd addewid rwydd ganddo y byddai iddo ddyfod i Gyfarfod ei Neillduad, ac y traddodai y Cyngor iddo. A mwy nag unwaith y clywsom Dr. Rees yn cyfeirio at y Cyngor hwnw. Ar un achlysur neillduol fe ddywedai,—"Mi a'i cofiaf tra byddaf fi byw, ac y mae yn sicr genyf y byddaf yn ei gofio yn y byd arall; ac y mae yn anhawdd genyf fi feddwl y gall neb oedd yno ei annghofio byth. Yr oedd yno lïaws mawr wedi ymgasglu yn nghyd, a nifer mwy nag arferol o Weinidogion o'r gwahanol Enwadau. Yr oedd y cyfarfod wedi myned rhagddo yn hwylus iawn o'r dechreuad, gradd mwy na chyffredin, yn wir, o lewyrch arno. Pan y cyfododd efe i draddodi y Cyngor, yr oedd golwg ddifrifol iawn arno, a dysgwyliadau mawrion wrtho. Darllenodd yn destyn, Ioan xix. 34, 35:—'Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaëwffon: ac yn y fan daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth; ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi.' Yr oedd yno rai yn ymddangos yn siomedig pan y darllenodd ei destyn, ac fel

yn meddwl ynddynt eu hunain, nad oedd efe yn gynnefin iawn â thraddodi Cyngor mewn gwasanaeth ordeinio, onide y darllenasai ryw destyn gwahanol. Eithr nid aeth ond ychydig amser heibio cyn eu bod wedi eu llwyr argyhoeddi o'u camgymeriad. Prin y clybuwyd dim mwy effeithiol erioed." Dyna yr adroddiad a roddwyd gan Dr. Rees am y Cyngor hwn, yn Nghyfarfod y Pregethwyr, yn ein Cymdeithasfa ni yn Nghastellnedd, yn Sir Forganwg, am wyth, ddydd Iau, Awst 2, 1860. Y mae Sylwedd y Cyngor, wedi ei gymmeryd o ysgrifen yr awdwr ei hunan, i'w gael yn y rhifynau o'r Drysorfa am Ionawr a Chwefror, 1884, tudal. 10—13 a 52—55.

Yn niwedd y flwyddyn hon, 1832, efe a aeth ar daith am amryw wythnosau trwy Sir Fôn a Sir Gaernarfon. Nid ydym yn cofio yn hollol y diwrnod yr ydoedd yn Mangor, ond yr oedd ryw bryd yn mis Tachwedd. Yr oedd Mr. Richard Bumford, o herwydd gwaeledd iechyd, wedi methu myned gydâg ef y tro hwn, fel yr arferai fyned, ac felly aeth Rolant Abraham o'r Ysgoldy, Llanddeiniolen, yn gyfaill iddo. Yr oedd cymhwysderau annghyffredin yn yr hen frawd i fod yn gyfaill i'r fath un ag ef. Yr oedd wedi bod yn flaenor, am flynyddoedd lawer, cyn dechreu pregethu, ac ystyrid ef yn un o brif flaenoriaid y Sir; ond ni chyrhaeddodd byth i'r fath hynodrwydd fel pregethwr. Nid oedd yn bregethwr agos mor hwyliog a Bumford, ond yr oedd llawer iawn mwy o feddwl yn ei bregethau; ac yr oedd ganddo fwy o allu nag odid neb a glywsom ni erioed i grynhoi ei sylwadau, fel ag i ddywedyd llawer mewn ychydig amser. Yr oedd yn gwneuthur pobpeth yn fyr ac yn drefnus. Pan yn pregethu ei hunan, ar Sabbothau cyffredin, ni byddai yr holl wasanaeth byth yn parhau yn hwy nag awr, ac yn anfynych yr ymestynai i hyny; ac megis cyfaill i Mr. Rees, yr oedd yn dechreu y cyfarfod, yn pregethu ychydig ei hunan, ac yn darfod y cwbl mewn tua hanner awr. Ychydig o bregethau a arferid gan Mr. Rees pan ar daith, ac yr oedd y tro hwn yn cyfyngu ei hunan i lai o nifer nag arferol; ond yr oedd gan yr hen frawd bregeth newydd bob tro. Wedi pregethu am dros wythnos,

ddwy waith ac weithiau dair gwaith yn y dydd, croesasant drosodd o Fôn i Gaernarfon. Gan fod yr hen frawd yno yn agos i'w gartref, a thyrfa fawr wedi dyfod yn nghyd i wrandaw Mr. Rees, a llawer o honynt o Landdeiniolen, fe fynai e beidio pregethu, a pheidio gwneuthur dim ond dechreu yr oedfa yn unig. Eithr ni chaniateid hyny iddo gan Mr. Rees, a bu raid iddo bregethu. Ac fe bregethodd y tro hwnw yn nerthol iawn. Gwnaeth ychydig sylwadau a ymaflent gyda grym mawr yn meddyliau ei wrandaẅwyr. Yr oedd hon hefyd yn bregeth newydd, nad oedd wedi ei phregethu unwaith o'r blaen yn nghlyw Mr. Rees. Yn nhŷ y Capel, ar ol yr oedfa, gofynai Mr. Rees iddo yn nghlyw y cyfeillion oeddent yn bresennol,—"Mewn difrif, Rolant Abraham, pa sawl pregeth sydd genych chwi? Nid ydwyf fi wedi clywed yr un un ddwywaith genych chwi o gwbl." "Pa sawl pregeth sydd genyf?" ebai yntau: "pregeth debyg bob tro y byddaf fi yn ceisio pregethu." Ac y mae yn ymddangos mai dyna fel y byddai efe yn arfer: ymdrechu galw sylw y gynnulleidfa heb unrhyw rag-barotöad manwl blaenorol, at y gwirionedd neillduol a fyddai yn uchaf ar y pryd yn ei feddwl ef ei hunan, oddiwrth ryw adnod y byddai ei fyfyrdod arni. Ni bu dau erioed mwy annhebyg i'w gilydd yn hyny, na Mr. Rees a'r hen frawd oedd yn gyfaill iddo ar y daith hon.

Yr oedd y flwyddyn hon yn flwyddyn dra difrifol yn ein teyrnas ni, ac felly i fesur mawr yn Nghymru. Yr oedd y Geri Marwol, fel y gelwid ef, y *Cholera*, wedi gwneuthur ei ymddangosiad, am y tro cyntaf yn ein gwlad: ac yr oedd dynion wrth y cannoedd, mewn llïaws o fanau, mewn ychydig oriau, yn cael eu lladd ganddo. Fe effeithiodd y newydd am ymddangosiad yr haint dinystriol yn y deyrnas, ac yn enwedig ei fod wedi cyrhaedd Cymru, yn ddwys ar feddyliau nifer mawr o drigolion ein gwlad, yn enwedig yn Sir Gaernarfon. Yr oedd rhyw deimlad crefyddol annghyffredin wedi ei ddeffro yno trwy bregeth hynod i Mr. Elias yn Nghymdeithasfa Pwllheli, Medi 16, 1831, oddiar Psalm lxviii. 1, "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion; a ffoëd ei gaseion o'i flaen ef." Yr oedd yr holl gynnull-

eidfa yn teimlo, dan y bregeth hono, fod Duw *wedi* cyfodi. Bu yn gychwyniad adfywiad nerthol ar grefydd mewn llïaws o fanau yn y wlad oddiamgylch. Ond yn nechreu Ionawr, 1832, y torodd y Diwygiad allan yn y Sir yn gyffredinol; ac, yn neillduol, ar y dydd Mercher, Mawrth 21, o'r flwyddyn hono, y diwrnod a bennodasid gan y Llywodraeth i Ympryd a Gweddi, yn achos yr Haint dinystriol oedd yn ymdaenu, gydâ'r fath gyflymder, trwy yr holl deyrnas. Yr oedd rhyw ysbryd rhyfedd wedi disgyn ar ddynion. Yr oedd cyfarfodydd gweddïau yn cael eu cynnal braidd bob nos; cyfarfodydd gweddïau yn y boreuau cyn i bobl gychwyn at eu gwaith; yr awr giniaw yn cael ei throi yn awr i weddïo. Yr oedd crefydd yn ymddangos fel yn meddiannu meddwl yr holl wlad. Dyma agwedd pethau yn Sir Gaernarfon, ar adeg ymweliad Mr. Rees â hi ar y daith hon. Ei destyn yn Mangor ydoedd Zephaniah ii. 1, 2, 3; a dyna y bregeth oedd ganddo gan amlaf, ar ddiwedd y dydd, yr holl daith. Yr oedd wedi ei chyfansoddi yn neillduol ar gyfer amgylchiad y wlad, pan oedd yr haint dinystriol wedi ymddangos ynddi, a rhai manau eisoes yn Nghymru wedi dioddef oddiwrtho. Gellir gweled y bregeth yn argraffedig, fel yr ysgrifenwyd hi ganddo ei hunan, yn y drydedd gyfrol o'i *Bregethau*, tudal. 153—167. Yr oedd yr oedfa yn Mangor yn un o'r rhai mwyaf difrifol y buom ni ynddynt erioed; a bu, y mae genym le i obeithio, yn ddechreu cyfnod newydd yn hanes amryw oeddent yno yn gwrandaw. Ac yr oedd effeithiau hynod, yr ydym yn deall, yn dilyn ei weinidogaeth braidd yn mhob man ar hyd y daith.

Y mae genym lythyr gwerthfawr iawn o'i eiddo, a ysgrifenwyd ganddo rywbryd yn y flwyddyn hon at ei fam-yn-nghyfraith; gwraig grefyddol iawn, ond mewn cryn drallod o eisieu sicrwydd cadarnach yn ei meddwl o'i bod yn blentyn i Dduw, ac yn meddiannu gwirionedd crefydd. Y mae y llythyr fel ei lythyrau ef yn gyffredin, heb yr un dyddiad wrtho, ond y mae yn perthyn i'r flwyddyn hon.

"ANWYL FAM,—Dywedodd Mary wrthyf eich bod yn drallodus "eich hysbryd, o eisieu bod yn fwy cadarn eich meddwl am eich "hawl bersonol yn Nghrist, a gwybod a ydych yn gadwedig; "yr hyn a alwn yn gyffredin, yn 'sicrwydd ffydd.' Mae hyn yn "beth mawr a phwysig iawn. Ac y mae llawer a garent ei "fwynhau, ac eto heb lafurio fawr am dano yn y ffordd a drefn-"odd Duw i'w gael.

"Dylem wybod yn gyntaf beth yw ffydd gadwedigol; yna pa "fodd i gael 'sicrwydd ffydd.' Gelwir gwir ffydd, weithiau, yn "y Beibl, yn 'edrych' ar Grist—'dyfod at' Grist—'ymaflyd' yn "Nghrist—'bwyta' Crist—'credu y dystiolaeth a dystiolaethodd "Duw' am Grist. Felly, gwelwn mai yr Arglwydd Iesu ydyw "yr unig wrthddrych i gredu ynddo, ac i weithredu ffydd arno. "Efe, a'i ufudd-dod perffaith i'r ddeddf a droseddwyd genym ni, "a'r Iawn digonol a dalodd dros ein pechodau ni, ydyw yr unig "wrthddrych ag y mae pechadur colledig, trwy ffydd yn *mentro* "ei hun arno dros byth. Nid yw ffydd byth yn myned â'r dyn "iddo ei hun, i ymorphwys ar ddim daioni sydd ynddo, nac a "wnaed ganddo; ond y mae yn cario yr enaid, megis allan o "hono ei hunan at Grist; ac yn ei ddysgu i gyfrif y cwbl yn "dom, i ennill Crist.

"Dylem fyned at Grist bob dydd, fel y byddwch yn gweled y "forwyn yn myned i'r ffynnon. Nid oes ganddi yr un diferyn o "ddwfr yn y tŷ, a dim ond llestr gwâg yn ei llaw, eto nid yw "hyny yn un tristwch iddi: na—y mae yn myned dan ganu, "oblegyd y mae digon yn y ffynnon. Felly dylem ninnau fyned "at Grist, pan fyddom yn ein gweled ein hunain heb ddim, ac "heb haeddu dim, na gallu dim; y mae digon ynddo ef, 'ffynnon "y dyfroedd byw,' i'r penaf o bechaduriaid. 'Od oes ar neb "syched, deued ataf fi, ac yfed,' medd Crist. Yr unig wrth-"ddrych sydd yn dyfod fel hyn at Grist ydyw pechadur, ag "sydd wedi ei ddwyn i ryw raddau, i weled ei golledigaeth, a'i "analluedd i'w achub ei hun, trwy ddim daioni sydd ynddo, nac "a wnaed ganddo erioed. Pechadur cystuddiedig ei ysbryd "o herwydd pechod ydyw, ac nid yr iach ei galon; oblegyd 'nid

"rhaid i'r rhai iach wrth feddyg.' Nid dyn a'i hyder arno ei "hun ei fod yn gyfiawn ydyw; oblegyd ni ddaeth Crist i alw y "rhai cyfiawn. Ei lais ef, yw, 'Deuwch ataf fi bawb sydd yn "flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.' Ein "sylfaen ni i gredu yn Nghrist yw tystiolaeth Duw am Grist yn "yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

"A ydych chwi yn credu fod y Beibl yn Air Duw? Mi a wn "eich bod yn credu. Wele, os gair Duw ydyw y Beibl, y mae "yn amlwg fod y Duw mawr ynddo yn tystiolaethu, drachefn a "thrachefn, fod Crist yn bob peth ac yn mhob peth yn iach-"awdwriaeth pechadur. Nid pob peth yn rhyw beth o'n hiach-"awdwriaeth yw Crist, ac nid rhyw beth yn mhob peth o honi; "ond pob peth yn mhob peth yw efe, ac efe yw y cwbl, nid yw "pob peth arall yn ddim ynddi.

"Yn awr, os gofynwch, Beth yw ffydd yn nhystiolaeth Duw "am Grist? yr ateb goreu a allaf fi roddi yw yr hyn a ganlyn:— "Goleuni dwyfol ydyw, yn cael ei ddwyn i feddwl tywyll y "pechadur, gan yr Yspryd Glân, trwy ba un y mae yn gweled, "yn wyneb tystiolaeth y gair, addasrwydd a digonolrwydd "Crist, a'i gyfiawnder a'i Iawn i'r penaf o bechaduriaid; ac yn "wyneb ei weled ef felly, y mae yn ymroddi iddo, ymorphwys "arno, a rhoddi ato gorph ac enaid i'w cadw byth.

"Ac os gofynwch, Pa fodd y deuaf fi i sicrwydd fy mod wedi "rhoddi fy hun iddo, a chredu fel hyn ynddo? Atebaf, nad oes "ond yr Arglwydd, yr hwn a'n dygodd i gredu, a all chwalu ein "hofnau, a dwyn sicrwydd i'n henaid ein bod wedi credu. Mae "yr Yspryd Glân, medd Paul, 'yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd "ni, ein bod ni yn blant i Dduw.' Felly cawn Dafydd dduwiol, "pan oedd ei enaid yn terfysgu ynddo mewn amheuon ac ofnau, "yn nesâu at yr Arglwydd mewn gweddi, ac yn dywedyd, "Dywed wrth fy enaid, Myfi yw dy iachawdwriaeth. Fel pe "dywedasai, yr ydwyf fi yn dywedyd wrtho, ac y mae fy "mrodyr yn dywedyd wrtho, mai ti yw fy iachawdwriaeth; "ond nid yw yn coelio, nac yn cael ei lenwi â thangnefedd a "gorfoledd.

"Dylem gofio hefyd nad yw yr Arglwydd yn dwyn y sicr-
"wydd hwn i eneidiau ei bobl yn ddisymwth, megis trwy lef o'r
"cymmylau, ac yn dyweyd wrthynt unwaith am byth eu bod yn
"credu, fel y gallent hwy fyw yn ddiofal a chysglyd yn nghylch
"y peth byth mwy. Nage: nage; ni cheir sierwydd ffydd byth,
"ac ni chedwir ef ar ol ei gael, ond trwy fyw ar Grist bob dydd
"a rhodio gydâ Duw yn holl ddyledswyddau crefydd. Felly,
"os bydd y Cristion â'i feddyliau yn ddaearol, a'i weddïau yn
"ffurfiol, heb ddyfal farweiddio pechod yn ei galon, a rhodio yn
"nghymdeithas â Duw trwy Grist bob dydd, er nad yw yn colli
"ei râs, y mae yn colli y sicrwydd a'r cysur o wybod fod ganddo
"râs.

"Felly cynnydd ffydd a ddwg i'n henaid sicrwydd ffydd. Y
"sicrwydd cyntaf y mae yn ei ddwyn i'r enaid ydyw sicrwydd
"fod Crist yn Geidwad digonol i bechadur tlawd a cholledig.
"Nis gallaf ddyweyd, medd y Cristion gwan, fy mod i wedi
"credu; ond yr ydwyf yn sicr fod Crist a'i gyfiawnder yn addas
"iawn i'm bath i. Pwy a ŵyr na wisgir fi ynddo, ac na chedwir
"fi drwyddo. Mae yr hyder hwn yn Nghrist yn peri i'r enaid
"nesâu ato mewn darllen, gwrando, myfyrio, gweddïo, cymuno,
"a thrwy y cwbl y mae yn sychedu am adnabod Crist yn llawn,
"ac ymorphwys arno yn llwyr.

"Ac fel hyn, o radd i radd, y mae ei adnabyddiaeth ef o Grist
"yn cynnyddu, ei ffydd ynddo yn chwanegu, ei gariad ato yn
"ennynu, a'i brofiad o faddeuant a heddwch â Duw trwyddo, yn
"cryfhau; ac felly yn dyfod yn sicrach sicrach, oleuach oleuach,
"hyd ganol dydd; nes y delo i allu gwaeddi, o'r hyn lleiaf ar
"brydiau, 'Mi a wn i bwy y credais;' 'mi a wn fod fy Mhrynwr
"yn fyw.' Ië, y mae yr Yspryd Glân yn rhoi y fath olygiadau
"i enaid y Cristion, weithiau, ar Grist a'i gyfiawnder, nes y mae
"yn barod i waeddi allan, fel un gweinidog duwiol yn Llundain
"wrth farw, 'Pe byddai genyf filiwn o eneidiau colledig, mi a'u
"rhoddwn hwynt oll i Grist i'w cadw.'

"Bellach, nid oes genyf ond cofio atoch oll, a dymuno i chwi
"wir adnabyddiaeth o Grist, a'i Iawn anfeidrol werthfawr; a

"gras i rodio bob dydd yn agos ato, fel ag i gael byw a marw "yn y profiad o'i heddwch, ac yn y goleu am eich hawl ynddo. "Amen.

"Ydwyf, yr eiddoch, HENRY REES."

Nid oes genym ond ychydig iawn o'i hanes am y flwyddyn ganlynol, 1833, ac ni ddygwyddodd i ni ei glywed yn pregethu o gwbl y flwyddyn hono. Ni a wyddom ei fod yn pregethu yn Nghymdeithasfa y Bala, am ddau ar y gloch, ddydd Iau, Mehefin 13, oddiar Luc xx. 34—36, ar ol Mr. Roberts, Amlwch. Yr oedd ei bregeth y pryd hyn yn un hynod iawn. Yr oedd yn tori i dir oedd yn dra newydd i'r pulpud Cymraeg, yn y blynyddoedd hyny; ac yr oedd rhyw eneinniad annghyffredin ar ysbryd y pregethwr, ag oedd yn peri ei fod yn effeithio yn ddwys ar yr holl gynnulleidfa. Y mae y bregeth, fel yr ad-gyfansoddwyd hi ganddo yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol hyny, i'w chael yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 113—136.

Yr oedd hefyd yn y Gymdeithasfa hon yn traddodi yr Araeth ar Natur Eglwys, yn y Cyfarfod Ordeinio pan yr oedd y diweddar Mr. Richard Humphreys o'r Dyffryn, a dau ereill o Sir Feirionydd, yn cael eu neillduo i'r holl waith. Dyma y tro cyntaf iddo gael ei bennodi i wneuthur dim yn ngwasanaeth yr Ordeinio; ac y mae yn ymddangos mai Araeth fer iawn a draddodwyd ganddo ar yr achlysur. Nid ydym yn gwybod fod dim o honi ar gael odditan ei law ef ei hunan; ond ceir crynöad o'i sylwedd, odditan law yr hwn oedd ar y pryd yn Ysgrifenydd, yn y Drysorfa am Hydref, 1833, tudal. 307. Traddodid y Cyngor y pryd hwnw gan Mr. Elias, o'r hwn hefyd y ceir crynöad yn yr un rhifyn o'r Drysorfa.

Yn ystod y flwyddyn hon, fe anfonodd Mr. Rees draethawd gwerthfawr iawn i'r Drysorfa, a elwid ganddo yn "*Annerchiad at y Cristion yn Nhrafferth y Byd.*" Fe'i ceir yn y rhifynau am Hydref a Tachwedd, tudal. 294—297 a 324—326. Y mae yn seiliedig ar Psalm xxxvii. 25, ac yn amlwg yn sylwedd pregeth o'i eiddo ar y testyn. Er nad yw yn arddangos cymmaint

coethder a'i gyfansoddiadau diweddarach, eto y mae yn gyflawn o'r addysgiadau ymarferol goreu, y rhai ydynt yn gorwedd ar hanfod yr efengyl, ac yn amlwg yn ffrwyth meddwl wedi ei drwytho drwyddo â'i gwirioneddau arbenig hi. Yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 349—367, y mae genym bregeth ardderchog ar yr un testyn gydâ'r adnod ganlynol, yn cynnwys yn gwbl o ran sylwedd yr un materion, a'r un rhaniadau, ac yn cael eu gosod allan yn yr un drefn ag yn yr "*Annerchiad*," ond wedi ei chyfansoddi gyda'r holl fanylder a'r coethder a'r prydferthwch, ag a'i nodweddent ef yn ei flynyddoedd diweddaf. Ac y mae dyddordeb neillduol i ni yn yr "*Annerchiad*," yn gymmaint ag y gellir, trwy ei gymharu a'r *Bregeth*, cael rhyw syniad am y cynnydd mawr a wnelsid ganddo, yn y cyfwng rhwng y ddau gyfansoddiad, at y perffeithrwydd llenyddol hwnw ag oedd wedi ei osod fel nôd iddo ei hunan, ac yr oedd hyd ddiwedd ei oes yn ymestyn ato.

Yn y Bala, y flwyddyn ganlynol, 1834, yr oedd yn traddodi y Cyngor ar yr achlysur o neillduad y diweddar Mr. David Jones, Caernarfon, Mr. John Davies, Nerquis, ac ereill i'r holl waith. Yr oeddem ni yn bresennol yn y cyfarfod, a dyna y Gymdeithasfa gyntaf i ni yn y Bala. Llywyddid gan Mr. John Jones, Tremadoc. Darllenwyd y rhanau arferol o'r Gair a gweddïwyd gan Mr. Michael Roberts. Traethwyd ar Natur Eglwys gan Mr. John Hughes, Pont Robert. Holwyd y Gofyniadau gan Mr. William Morris, Cilgeran. Gofynwyd cymmeradwyaeth y Gymdeithasfa gan Mr. Elias. Terfynwyd trwy weddi gan Mr. David Cadwaladr. Yr oedd y cyfarfod yn nodedig o dda drwyddo, ond ei goron oedd y Cyngor. Yr oedd hwnw yn cael ei deimlo gan bawb ag oeddent yn bresennol, fel peth newydd a hynod ac effeithiol iawn. Nid ydym yn meddwl fod yno gymmaint ag un heb fod wedi ei gwbl feddiannu ganddo, a mwy nag unwaith, yn ystod ei draddodiad, yr oedd y dagrau yn llanw llygaid llaweroedd. Yr ydym yn cofio yn neillduol fod golwg ryfedd ar Mr. Ebenezer Richard wrth wrandaw arno. Yr ydoedd, ar adegau, yn wylo fel plentyn. Clywsom Mr. Rees

amrywiol weithiau ar ol hyny yn traddodi y Cyngor ar achlysuron cyffelyb, a phob amser yn hynod iawn, eithr ni chlywsom ef byth yn hollol fel y tro hwn. Yn y cyfarfod am ddau yn y prydnawn, fe ddymunwyd arno, yn unfrydol, anfon y Cyngor i'r Drysorfa, yr hyn a addawodd wneuthur. Yn unol â'r penderfyniad hwnw, fe'i cyhoeddwyd yn y rhifyn am Hydref, 1834, tudal. 297—306; ac oddiyno fe'i had-argraffwyd yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 273—293. Y mae yn deilwng yn sicr o ddarlleniad manwl a mynych, yn enwedig gan y rhai sydd yn gwasanaethu mewn pethau Sanctaidd; ac nid hawdd, ni a dybygem, i neb ei ddarllen yn ystyriol, heb deimlo i fesur yr hyn a deimlid gan yr holl frawdoliaeth, pan oedd yn cael ei draddodi ganddo ef ei hun.

Yr oedd wedi ei enwi i bregethu y pryd hwn, am ddau yn y prydnawn, Mehefin 12, gydâ Mr. John Jones, Talsarn: ond oblegyd ei bod wedi tori yn wlaw mawr gydâ bod Mr. Jones wedi darfod pregethu, a bod yr amser eisoes wedi myned yn lled bell, ni phregethodd Mr. Rees ar ei ôl. Ond gan i'r gwlaw yn lled fuan fyned heibio yn hollol, ac i'r prydnawn droi allan yn hynod o gysurus, fe anfonwyd y crïwr trwy y dref i hysbysu y byddai oedfa yr hwyr yn dechreu am bump ar y gloch, ac y byddai Mr. Rees yn pregethu, yn gystal a Mr. John Phillips a Mr. Thomas Elias, y rhai oeddent eisoes wedi eu cyhoeddi. Ac felly fu. Dechreuwyd yr oedfa gan Mr. Lewis Edwards (Dr. Edwards o'r Bala yn awr); a phregethodd Mr. Rees ychydig yn mlaenaf gydâ blas annghyffredin, oddiar 1 Pedr i. 19. Er fod ganddo awr o amser iddo ei hunan, eto yr oedd yn hollol anfoddlawn i gymmeryd dim o amser y brodyr oeddent wedi eu trefnu yn flaenorol i bregethu yr oedfa hono, ac felly ni phregethodd efe ond ychydig gydâ hanner awr, ar "*Werthfawr Waed Crist.*" Ni a gawsom y bregeth ganddo yn ei llawn hŷd drannoeth, yn y Cyfarfod Pregethu yn Ngherrig y Druidion, a phregeth ogoneddus ydoedd. Dyma y tro cyntaf, yr ydym yn tybied, iddo ei dwyn hi allan mewn Cymdeithasfa. Hi a barhäodd am flynyddoedd lawer, ac yn achlysurol agos hyd

ddiwedd ei oes, yn un o'i hoff bregethau. Y mae yn argraffedig, fel ag y gadawyd hi ganddo ef ar ol llawer o adolygiadau a chywiriadau, yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 217—243.

Nid oes genym ond ychydig o'i hanes yn y flwyddyn 1835. Ni ddygwyddodd i ni ei glywed yn pregethu o gwbl y flwyddyn hòno. Yr ydym yn cael pregeth o'i eiddo, wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hun, yn y rhifyn cyntaf o'r "PREGETHWR," cyhoeddiad newydd y dechreuasid ei ddwyn allan yn Ionawr, 1835, dan olygiad Mr. Richard Williams a Mr. John Roberts. Bu Mr. Rees yn dra chefnogol iddo, ac yr ydym yn cael tair o'i Bregethau yn y gyfrol gyntaf. Pregeth ardderchog ydyw yr hon a geir yn y rhifyn cyntaf, tudal. 12—20, oddiar Psalm cxix. 3. Yr ydym yn ei chael wedi ei hail argraffu, gydâg ychydig gyfnewidiadau ac ychwanegiadau, yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 138—152. Fe fu yn ystod y flwyddyn hon mewn amryw Gymdeithasfaoedd, ac yn pregethu gydâ nerth mawr. Yr oedd felly yn Rhuthin, Mawrth 5, 6; Llanfyllin, Ebrill 27, 28; Aberystwyth, Mai 1, 2. Nid oedd yn gallu bod yn y Bala y flwyddyn hòno. Yr oedd Mr. Ebenezer Richard yn y Bala yn daer iawn yn gwahodd i Gymdeithasfa Llangeitho yr Awst canlynol. Yr oeddent wedi dyfod i benderfyniad yn y Deheudir i Gymdeithasfa Awst fyned yn ei thro, yn gystal â'r Cymdeithasfaoedd ereill, i'r amrywiol Siroedd, o leiaf i Siroedd Caerfyrddin a Morganwg, ac nid fel yr ydoedd wedi bod o'r dechreuad bob amser, yn Sir Aberteifi, a chan amlaf yn Llangeitho. Yr oedd Mr. Richard yn siarad am hyny fel y Diwedd. "Dowch acw," meddai, "i weled y '*Diwedd;*' nid oes neb yn fyw welodd y 'Dechreu;' dowch acw i gyd; byddai yn resyn i chwi golli y Diwedd." Yr oedd yn enwedig yn daer iawn ar Mr. Elias i addaw myned. Ond yr oedd efe yn sicrhau fod hyny yn anmhosibl iddo ef. Pa fodd bynnag, fe benderfynodd Mr. Richard ymdrechu cael Mr. Rees yno, ac fe lwyddodd. Buasai yn dda genym pe buasai llythyr Mr. Richard ato ef ar gael, ond nid ydyw. Y mae atebiad Mr. Rees wedi ei gadw, ac wedi ei ddodi i mewn gan feibion Mr. Richard yn

ei Gofiant (tudal. 175 — 177), ac oddiyno ni a'i dyfynwn yma:—

"Amwythig, Gorph. 29, 1835.

"FY NGHYFAILL ANWYL A HOFF,—Yr ydwyf yn ofni fod fy
"ngwaith yn oedi ateb eich llythyr wedi hanner-fferu y cariad
"gwresog a weithiai mor nerthol yn eich mynwes pan oeddych
"yn ei ysgrifenu. Ond gallaf sicrhau i chwi nad o herwydd
"diffyg parch, cariad, a chyfeillgarwch, y bum cyhyd heb
"ysgrifenu, ond methu penderfynu pa un a wnawn, ai dyfod i
"Langeitho ai peidio. Yr ydych yn peri i mi ro'i heibio bob
"rhesymau gweiniaid yn erbyn dyfod; wrth yr hyn yr wyf yn
"casglu y boddlonwch i mi beidio a dyfod ond rhoddi i chwi
"resymau *cryfion* am hyny. Yn awr, fy anwyl gyfaill, onid yw
"pellder y ffordd yn rheswm cryf? Onid yw y draul o ddyfod
"gydâ y cerbyd yn rheswm cryf? Onid yw byrdra'r amser y
"gallaf aros yn y wlad, ar ol myned i'r draul i'm cyrchu iddi,
"yn rheswm cryf i aros gartref? Onid yw'r ystyriaeth y bydd
"cyflawnder o frodyr i'r gwaith yn Llangeitho, a degau na bydd lle
"iddynt wneyd dim, yn rheswm cryf i beidio myned i draul anar-
"ferol yn achos un brawd? Onid yw'r ystyriaeth fy mod yn hen
"ysglodyn sychlyd, heb na phregethau nac ysbryd i'w traddodi pe
"byddent genyf, yn rheswm cryf a digonol i beri i mi wrthod
"gadael i'm brodyr fy nghyrchu o bellder anarferol, trwy draul
"anarferol, a hyny i gyfarfod anarferol, lle o bosibl y gallaf fyned
"a lle rhyw frawd a fyddai yn fwy buddiol a chymhwys uwchben
"y dorf? Ger bron fy Ngwneuthurwr, y mae y pethau hyn yn
"ymddangos yn rhesymau cryfion yn fy ngolwg i. Ond gan fod
"yr Arglwydd yn peri i mi beidio ymddiried i'm deall fy hun, a
"bod Paul, wedi gweled gŵr o'r fan yn deisyfu arnynt ddyfod
"trosodd i'w cymhorth hwy, wedi cwbl gredu alw o'r Arglwydd
"hwynt yno; minnau, rhag ofn pechu, a ymdrechaf ddyfod i
"Langeitho. O na weddïech drosof! Os gofynwch am beth,
"mi ddywedaf wrthych,—Am i mi gael y weledigaeth, yr ar-
"gyhoeddiad, y cyffyrddiad, yr ymadawiad anwiredd, a'r glanhâd

"oddiwrth bechod, a'r holl ymgeledd a ddysgrifir yn Esaiah "chweched bennod. Yna y d'wedwn, 'Wele fi, anfon fi.' O fe "fyddai y flwyddyn hon yn flwyddyn ryfedd, nid yn unig ar "gorph y Methodistiaid ac ar Langeitho, ond arnaf finnau hefyd, "pe cawn hyn. O! yr ydwyf bron meddwl y caf hwy. Mae fy "nychymyg yn ehedeg i Dregaron, mi a'ch gwelaf yn darllen fy "llythyr, a'm cais tlawd yn dechreu cyffroi tannau brawdgarwch "yn eich mynwes, y llygaid parod i wylo yn dechreu llenwi,— "mi a'ch gwelaf yn myned i fynu i'r *study*, yn troi at y "chweched o Esaiah, ac yn ei darllen mewn dagrau; mi a'ch "gwelaf yn myned ar eich gliniau, a'r fynwes oedd yn gronfa o "gymmysg deimladau yn ymarllwys mewn llefau cryfion a "dagrau ar fy rhan. O mi a'u caf, mi a'u caf; fy mrawd ar y "ddaear yn eu ceisio troswyf, a'm Brawd yn y nef yn cyflwyno "ei gais, i'w Dad ef a'i Dad yntau, ei Dduw ef a'i Dduw yntau. "O fe ddaw y bendithion, a minnau, os deuant, a ddeuaf yn "llawn i Langeitho. Mae yn dda genyf ddyfod i WELED Y "DIWEDD; bron na ddysgwyliwn rywbeth mawr. Caf *settlo* y "Sabboth ar ol dyfod.

"Gydâ yr un serchawgrwydd yr ydwyf fi a'm gwraig, Mr. a "Mrs. G., yn cofio atoch chwi a'ch anwyl Mrs. Richard, a'ch "hoffus blant.

"Yr eiddoch yn Nghrist Iesu, HENRY REES."

Efe a aeth i Langeitho, ac a bregethodd yno gydâ nerth mawr. Yr oedd gweddïau Mr. Richard, a gweddïau yr eglwysi, a'i weddïau ei hunan, wedi eu hateb ar ei ran, ac yntau yn llaw ei Arglwydd dan arddeliad annghyffredin. Yr oedd dysgwyliad mawr am dano i Gymdeithasfa Bangor, yr hon a gynhelid, Medi 9, 10, o'r flwyddyn hon; ond oblegyd ei daith i Langeitho, ac am rai dyddiau yn Sir Aberteifi, nis gallodd fyned yno; ac yr ydym yn cofio yn dda mor siomedig oeddem ni, a llïaws ereill, o'r herwydd.

Ychydig flynyddoedd cyn hyn yr oedd sylw y deyrnas hon wedi ei alw yn arbenig at gynnydd meddwdod yn ein plith, ac

at yr angenrheidrwydd am wneuthur rhyw ymdrech egniol ac uniongyrchol yn ei erbyn. Yn America y dechreuodd hyny, ac oddiyno fe ddaeth i'r deyrnas hon; ac yn fuan fe gynnyrchwyd teimlad cryf yn Nghymru yn yr un achos, yn gyntaf trwy Gymdeithas Cymmedrolddeb, ac yn mhen ychydig trwy y Gymdeithas Ddirwestol. Yr oedd Mr. Rees, er ys blynyddau, yn teimlo yn ddwys oblegyd cynnydd meddwdod yn y wlad, ac wedi pregethu llawer yn ei erbyn; ac felly yr oedd yn hollol barod i syrthio i mewn ar unwaith yn mhlaid y Gymdeithas newydd ag oedd yn ennill cymmaint sylw, ac yn llwyddo mewn cynnifer o fanau. Cymmerai ei ran mewn cynnal cyfarfodydd i areithio ar yr achos, ac fe bregethodd fwy nag unwaith arno, yn y flwyddyn 1835, yn Nghyfarfodydd Misol Sir Drefaldwyn. Nid oedd yr ymdrech eto wedi cymmeryd y ffurf neillduol sydd iddo yn y Gymdeithas Ddirwestol, er ei fod yn gogwyddo yn brysur at hyny, a gwelwyd yn fuan nad oedd dim arall yn gwbl gyfaddas i amgylchiadau Cymru. Y mae yn ymddangos fod Mr. Rees yn nghanol y llafur hwn, pan y derbyniodd lythyr a llythyrau oddiwrth y diweddar Mr. John Jones, Llanfyllin, yn ei wahodd yn daer iawn i Gyfarfod Misol, y mae yn debyg, oedd i'w gynnal yno yn Chwefror, 1836. Yr oedd Mr. Jones ac yntau yn gyfeillion mawr iawn. Efe oedd "gwas priodas" Mr. Jones, a Mr. Jones oedd ei "was" yntau; ac y mae yn ddiammeu fod lliaws mawr o lythyrau wedi eu hanfon ganddynt y naill at y llall. Y mae yn ddrwg genym fod y rhai hyny oll, dybygid, wedi myned ar ddifancoll, oddieithr yr un canlynol, yr hwn a gadwyd, ac a ddaeth yn ddamweiniol i'n llaw. Fel y nifer amlaf o lythyrau Mr. Rees, nid oes yr un dyddiad wrtho; ond y mae ei gynnwysiad, yn ol yr hyn a wyddom am yr amgylchiadau, yn penderfynu ei fod wedi ei ysgrifenu rywbryd yn Ionawr neu Chwefror, 1836.

"ANWYL GYFAILL,—Mae yn ofidus i mi eich bod yn trafferthu "cymmaint gydâ chreadur mor wael. Yr ydwyf yn meddwl eto "mai fy lle yw aros gartref hyd nes y cychwynaf i Gymdeith-

"asfa'r Wyddgrug. Chwi a ddywedwch, fod yn ddiammeu "genych fod genyf fi ddigon o ddefnyddiau fel y gallaf yn "hawdd hebgor amser o ran hyny. Oh! na b'ai fodd chwalu y "dychymyg hwn o'ch meddwl. Nis gellwch byth gydymdeimlo "â mi nes y llwyr newidiwch eich meddwl. Yr ydwyf er's "wythnosau bellach yn chwilio am air i'w ddyweyd, ïe, er's "wythnosau yn *puzzlo* gydâ'r un adnod, ac yn awr wedi gorfod "ei rhoi i fynu yn y diwedd. Llawer nos Sadwrn yr ydwyf "yn myned i'm gwely heb wybod yn y byd pa beth a ddy-"wedaf y boreu Sabboth. Ond yr wyf yn cael hyny o fudd o "lafurio trwy yr wythnos, er methu cael pregeth: mi a fyddaf "wedi gweled rhywbeth mewn adnod,—wedi cael esponiad ar "ryw air nad oeddwn yn gwybod ei feddwl o'r blaen. Ac fe "allai, yn fy ngwely nos Sadwrn, y byddaf yn gallu *patchio* yn "nghŷd o'r rhai hyny air i'w ddyweyd boreu Sul. Ond am na "byddaf wedi gosod dim o honynt yn nghŷd mewn trefn ar "bapur, ni bydd genyf ddim i feddwl am ei ail-adrodd byth ar "ol hyny. Felly, ar ol bod yma am chwech wythnos, mi a fum "lawer gwaith yn cychwyn i gyhoeddiad i Gymru yn dra isel a "thlawd.

"Mi a fum mor ffol ag addaw, yn Llanfair, argraffu y bregeth "y soniech am dani yn eich llythyr o'r blaen. Yr ydwyf heb "ddechreu ei pharotoi. Y maent hefyd wedi anfon ataf eu bod "yn ymddibynu am bregeth yn y rhifyn nesaf o'r 'PREGETHWR,' "a bydd ei heisiau erbyn y Wyddgrug. Yn awr yr ydwyf wedi "penderfynu treio parotoi pregeth y 'Meddwdod' erbyn hyny, "i'w rhoddi iddynt hwy, canys yr wyf wedi digaloni i feddwl "am ei hargraffu yr un ffordd arall. Nid wyf yn meddwl yr "etyb yr un diben.

"Y mae hyn o orchwyl, yn nghyd â phethau ereill, yn peri "nas gallaf gael ar fy meddwl gychwyn oddicartref i un man "cyn y Wyddgrug. Yr ydwyf yn gobeithio na phoenwch fi, ac "yn enwedig na phoenwch fi y tro hwn. . . . . . . . . . . . . . . .

Yr eiddoch, HENRY REES."

Yr ydym yn hyderu na chamgymmerir y llythyr uchod gan neb o'n darllenwyr, fel pe byddai yn ddarluniad o'r hyn oedd gyffredin iddo ef. Byddai hyny yn gam-gasgliad dirfawr. Y mae yn wir mai trwy drafferth fawr y byddai efe bob amser yn arfer cyfansoddi; ond yr oedd hyny yn sicr yn cyfodi nid oddiar dlodi meddwl, neu ddiffyg defnyddiau a fuasent, fe ddichon, yn cael eu cymmeradwyo gan ereill, ond oddiar yr anhawsder gwirioneddol a deimlid ganddo ef i'w foddio ei hun. Y mae yn bosibl nad oes unrhyw bregethwr o chwaeth led goeth, gydâ mesur o ofal hefyd am barotöad priodol ar gyfer y pulpud, heb fod ar adegau yn teimlo yn gyffelyb, ac heb fod yn y perygl o fod heb bregeth o gwbl, yn ei bryder yn nghylch ei chael yn deilwng o'r testyn, ac yn cyfateb i'w syniad ef o'r hyn a ddylai fod. Y mae meddwl pob dyn hefyd, ar rai amserau, yn fwy anystig ac anystywallt nag ar amserau ereill. Yr ydym yn cofio clywed Dr. Chalmers yn adrodd am dano ei hunan, y byddai efe pan oedd yn Kilmany neu yn Glasgow, er parotoi ar gyfer y Sabboth, yn dechreu ar ei bregeth, ac yn ysgrifenu yn lled helaeth, ddydd Llun; ond weithiau, wedi darllen yr hyn a ysgrifenasid ganddo, mor anfoddlawn arno, nes ei daflu ar unwaith i'r tân. Dechreuai drachefn ar yr un gorchwyl ddydd Mawrth, eithr nid yn fwy llwyddiannus, fel y câi hwnw fyned i'r tân yr un modd. Ac felly, ambell dro ddydd Mercher a dydd Iau, yn ysgrifenu ac yn llosgi; nes y byddai dydd Gwener wedi dyfod, a'r Sabboth yn ymyl, ac y byddai raid cael rhywbeth ar ei gyfer. "A mwy nag unwaith," meddai, "y bu raid i mi yn y diwedd foddloni ar beth llawer gwaelach fel pregeth, nag a daflesid genyf i'r tân yn ystod yr wythnos." Dyna yn sicr fel y byddai Mr. Rees. Nid ydym yn ammeu dim na byddai yntau yn fynych, "yn ysgrifenu ac yn llosgi." Un o'i brofedigaethau mawrion ef fel pregethwr, yn ddiammeu, oedd, yr anhawsder a deimlai i gadw gallu *cynnyrchiol* ei feddwl, rhag cael ei niweidio a'i grebachu gan gynnydd ei *goethder llenyddol.* Ni a adwaenem rai pregethwyr o gryn allu, a rhai fuant unwaith beth bynnag yn dra phoblogaidd, wedi methu llwyddo i ymgadw rhag hyny.

Trwy esgeuluso llafurio mewn cyfansoddi, a pharhau yr un pryd i ddarllen, a chynnyddu cryn lawer felly mewn coethder chwaeth a chraffder beirniadol, collasant ryw fodd bob ymddiried ynddynt eu hunain, fel, yn raddol, y daeth yn ormod o beth iddynt ymgais, gydà dim egni, am gael pregeth newydd. Y cwbl a allent oedd, cywiro a chyfoethogi a choethi yr hen rai: ond trwy fynych adrodd y rhai hyny, yr oeddent, y naill dro ar ol y llall, yn myned yn waelach waelach yn eu golwg; nes, o'r diwedd, wedi colli eu ffydd ynddynt fel cyfansoddiadau, nas gallent eu traddodi ond yn ddiflas ac yn ddiegni, ac felly o angenrheidrwydd yn gwbl ddiddylanwad ar eu gwrandaẅwyr. Fel yna fe welwyd ambell bregethwr, a fuasai unwaith yn dra phoblogaidd, ac y gallesid dysgwyl pethau mawrion oddiwrtho, yn syrthio, cyn diwedd ei oes, braidd yn hollol ddisylw. Ond gan ei gydwybodolrwydd i'w waith a'i hoffder o hono, fe gadwyd Mr. Rees ar hyd ei oes yn fywiog a llafurus yn ngwirioneddau yr efengyl; ac nid y prawf lleiaf i ni o nerth a ffrwythlonedd ei feddwl oedd, fod ei allu i gynnyrchu cyfansoddiadau newyddion, yn cyfateb, hyd y diwedd, i'r cynnydd parhaus a wneid ganddo mewn coethder a chraffder llenyddol.

Y mae yn amlwg mai Pregeth ar "*Feddwdod*" oedd yr un y rhoisai addewid i'r cyfeillion yn Llanfair y byddai iddo ei hargraffu, oblegyd yr ydym yn gweled, yn ol y llythyr blaenorol, ei fod yn meddwl anfon hono i'r "*Pregethwr*," gan ei fod "wedi digaloni i feddwl ei hargraffu yr un ffordd arall." Y mae yn dra thebyg ei fod wedi pregethu hòno yn Nghyfarfod Misol Llanfair, yr hwn a gynhelid, fe ddichon, yn mis Rhagfyr, 1835. Pa fodd bynnag nid hòno a anfonodd i'r "*Pregethwr*," i'r rhifyn am Hydref, 1836, ond un oddiar 2 Cor. v. 14, 15, fel y gwelsom eisoes, yn tudal. 169. Ond yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, y prydnawn cyntaf, Mawrth 9, 1836, fe draddododd bregeth anghyffredin ar Gymmedroldeb, oddiar Psalm cxix. 106. Ystyrid y bregeth hon mor gyfaddas i amgylchiadau y wlad ar y pryd, yn darlunio y llygredigaeth a ymdaenai drosti gydâ'r fath fywiogrwydd a theimlad, yn gosod allan mor eglur y

moddion mwyaf effeithiol i'w glanhau oddiwrtho, a chydweddiad hollol y moddion hwnw â hanfod yr efengyl ac âg egwyddorion Cristionogaeth, fel y cytunwyd gan y frawdoliaeth yn unfrydol yn y Gymdeithasfa, ar fod iddi gael ei hargraffu a'i chyhoeddi a'i lledaenu, hyd ag y gellid, trwy Gymru i gyd. Cydsyniodd yntau â'r annogaeth, ac yn mhen ychydig amser fe'i cyhoeddwyd. Nid ydym yn gwybod i ba raddau y gellir edrych ar y bregeth hon fel yr un un a'r hon yr addawsai i'r cyfeillion yn Llanfair y byddai iddo ei hargraffu. Yr ydym yn tueddu i dybied mai yr un un ydoedd, ac mai wrth ei pharotoi, fel y meddyliai ef ar y pryd ar gyfer y "*Pregethwr,*" y penderfynodd ei phregethu drachefn yn y Wyddgrug, lle y rhoddes llais y Gymdeithasfa ddiwedd ar ei bryder yn nghylch y modd y byddai iddi gael ei chyhoeddi. Fe geir y bregeth yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 103—137; ac y mae, yn ein bryd ni, yn un o'r pethau goreu ar ei mater a gyhoeddwyd erioed. Cymmerer yr hyn a ganlyn fel dysgrifiad o'r modd y mae cellwair â'r achlysuron yn arwain i'r pechod:—

"Edrychwn ar ddyn yn dechreu ei yrfa mewn annghymedroldeb. Ar ol cadw noswyl ryw brydnawngwaith annedwydd, denwyd ef gan ei gyfaill i'r dafarn; cafodd flas ar y tân, a blas ar y bibell, a blas ar y ddadl, a blas ar y ddiod. Yr oedd cywilydd ac ofn ar y cyntaf yn peri ei fod yn eistedd yno yn lled anesmwyth, ac yn addaw cychwyn adref o hyd wrth ei gydwybod, ac eto y pleser yn ei ddal yno. Fel yr aderyn bach, mae pob ysgogiad i'r adarwr yn ei ddychrynu, nes y mae ar gymmeryd ei aden bob munudun, ac eto mae ei awydd am yr abwyd yn ei gadw i chwareu o gwmpas y fagl, nes o'r diwedd myned iddi. Ar ol myned adref, darluniai y diafol y pleser a gafodd yn ei ddychymyg; aeth yno drachefn, a thrachefn—arhosai yn hŵy—yfai ychwaneg—yr oedd yr ofn a'r cywilydd yn lleihau, a'r pleser yn cynnyddu; tlodi, yr hwn sydd yn sicr o ddilyn meddwdod, yn gwneuthur ei dŷ ei hun yn fwy-fwy annghysurus iddo, a hyny yn gwneyd y dafarn yn fwy hyfryd. Mae ei gyfeillion anrhydeddus yn cefnu arno, a hyny yn peri

iddo ymgysylltu yn fwy wrth y meddwon. Wrth ildio ac ildio i'r temtasiynau, yr oeddynt hwy yn myned gryfach gryfach, ac ymroddiad ei feddwl yntau i'w gwrthwynebu yn myned yn llai lai. O'r diwedd y mae yn colli pob llywodraeth arno ei hun; ac fel llestr a gipid gan y gwynt y mae yn myned rhagddo, rhagddo, i ddannedd pob dinystr, nes gwneyd llong-ddrylliad am ei ffydd, ei garitor, ei amgylchiadau, ei gorph a'i enaid, am amser a thros byth. O ieuenctyd, gochelwch yr achlysuron!"

Tua'r pryd hwn yr oedd gradd o gyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn ei amgylchiadau,—rhagluniaeth wedi gwenu ychydig arno; ac eto wrth ei weled ei hunan yn awr yn myned yn deulu, yr oedd yn dechreu teimlo a oedd yn gwneuthur tegwch â hwy, wrth aros, fel yr ydoedd, heb ddim y gallasai ei alw yn gyflog, mewn cysylltiad mor agos â'r eglwys yn yr Amwythig, yr hon er hyny, nas gwyddai pa fodd i'w gadael. Yr oedd cyfeillion Liverpool hefyd, erbyn hyn, wedi gwneuthur eu meddyliau i fynu na byddai i ddim a allent hwy ei wneuthur, fod heb ei wneuthur, er ei gael ef yno i fyw, ac ymsefydlu yn eu plith fel gweinidog iddynt. Nid oedd eto wedi penderfynu dim; ac nid oedd yn gwybod yn iawn pa beth i'w wneyd: ond yr oedd wedi rhoddi ar ddeall i'r cyfeillion yn yr Amwythig pa fodd yr oedd yn teimlo, ac wedi dywedyd wrthynt nad oedd yn debyg y gallai aros ryw lawer o amser yn hwy yno gydâ hwynt. Mynai rhai o honynt wneuthur ymdrech i sierhau rhyw gymmaint o gyflog iddo; ond yr oedd efe yn gweled y syrthiai hyny o angenrheidrwydd ar ddau neu dri o deuluoedd, ac felly fe safodd yn benderfynol yn ei erbyn. Yr oedd wedi gwneyd ei feddwl i fynu na byddai unrhyw newidiad ar ammodau ei gysylltiad ef â'r eglwys fechan, tra y parhâi i aros yn eu plith.

Yn mhen ychydig ddyddiau wedi ei ddychweliad o Gymdeithasfa y Wyddgrug, fe ysgrifenodd y llythyr canlynol at y Parch. Hugh Hughes, Llanrwst, wedi hyny Abergele. Yr oedd Mr. Hughes ac yntau yn gyfeillion mawr, ac wedi bod felly er y troion cyntaf iddynt ddyfod i gyfarfyddiad â'u gilydd. Yr oedd Mr. Hughes, fel y gwelsom, tudal. 71, wedi dechreu pregethu

flwyddyn union o'i flaen ef; ac am ei fod, yn ei ieuenctyd, wedi cael mwy o lawer o fanteision addysg nag a gawsai efe, yr oedd wedi bod, tra y parhäodd ei gysylltiad â Chyfarfod Misol Sir Ddinbych, yn un ag y teimlai efe lawer iawn o rwymedigaeth iddo. Nid oedd dim yn blino Mr. Rees mewn cysylltiad â'i gyfaill, ond na buasai yn ymroddi yn fwy i'r Weinidogaeth deithiol, yn ol yr arferiad y pryd hyny, ac yn gwneuthur ei hunan yn fwy adnabyddus i'r Cyfundeb yn gyffredinol. Yn y llythyr hwn ato, y mae gydâ y difrifwch a'r dwysder mwyaf, yn ei argymhell i fyned i wasanaethu yr Achos yn Llundain:—

"Amwythig, Mawrth 15, 1836.

"FY ANWYL GYFAILL,—Y mae anesmwythder fy meddwl yn "achos Llundain yn peri i mi ymhyfhau i ysgrifenu y llinell hon "atoch. Fe adawodd y brodyr yn y Wyddgrug ar Sir Ddin- "bych, i anfon gweinidog yno y tro hwn; ac y mae Moses "Parry yn dyweyd na ddeallodd y Sir mo hyny ar y pryd, ac na "ŵyr efe yn y byd pa beth i'w wneyd, am fod arno ofn na bydd "neb yn foddlawn i fyned. Fe gafodd Mr. Elias lythyrau o "Lundain yn y Gymmanfa, yn dymuno yn fawr arno eich anfon "chwi, neu John Jones o Ruthin, yno erbyn y Pasg. Nid oedd "neb yn cael eu henwi yn y llythyrau hyny, dybygaf, ond chwi "eich dau, a Mr. Roberts o Amlwch. Yn awr yr ydwyf yn "deall fod John Jones newydd agor Ysgol, ac y mae M. Parry "yn meddwl na bydd efe yn foddlawn, ac na byddai yn ddoeth- "ineb ychwaith iddo daro yr Ysgol yn ei phen, i'r diben o fyned "i Lundain y tro hwn. Y mae M. Parry hefyd yn cydnabod y "gallai fod yn anhawdd i chwithau fyned yno; ond y mae efe "yn meddwl hefyd y gallech chwi fyned, heb fod eich amgylch- "iadau yn ddim gwaeth; ac mai yn eich meddwl y mae y "rhwystr mwyaf yn debyg o fod. O, fy nghyfaill, nac ym- "gynghorwch â chîg a gwaed; aberthwch eich teimladau, eich "cysur, eich lleshâd eich hun, er mwyn Achos yr Arglwydd, a "lleshâd llaweroedd, am unwaith. Y mae yn gyfyng iawn ar "bobl Llundain. Nid oes yno neb dieithr yn bresennol, ac y

"mae Mr. James Hughes yn glaf. Nid yw yr Achos mawr yn "ddim mwy i mi nag ydyw i chwithau, ac nis gwn yn iawn "paham y mae fy meddwl yn anesmwyth yn ei gylch. Eto nis "gwn yn nghylch pa achos y dylwn fod yn anesmwyth, nac i ba "achos y dylwn fod yn fwy ymroddgar nag Achos yr Arglwydd "Iesu Grist. Y mae cadw ein cyd-greaduriaid rhag colled an-"mhrisiadwy, a'u gwaredu rhag poenau sydd y tu hwnt i bob "dirnadaeth, a'u dwyn i afael dedwyddwch sydd uwchlaw pob "dychymyg yn gysylltiedig wrth yr Achos hwn. Cyn pen ugain "mlynedd eto, fe fydd llawer o'r rhai y caech bregethu iddynt "yn Llundain yn awr, wedi myned i'r byd ag y bydd eu cysur "neu eu gwae ynddo i barhau byth! Fy anwyl frawd, y mae "gwynfyd tragywyddol y nef, trueni diamgyffred y dynion sydd "eisoes wedi eu damnio, perygl arswydus cannoedd o'n cyd-"genedl yn Llundain sydd yn rhedeg heb ystyried tua'r un "ddamnedigaeth,—a marwolaeth Mab Duw, yn ei holl ddibenion "goruchel, yn cyd-alw arnoch i ymroddi ac ymgysegru y tro "hwn. Os bydd J. Jones yn myned, chwi a fyddwch rydd i aros "gartref, ond os bydd ef yn methu, nis gwn pa fodd y gallwch "adael i'r fath Achos gymmeryd ei *siawns*. Os deuwch trwy yr "Amwythig, i fod yn Llundain erbyn dydd Gwener y Croglith, "mi a ddeuaf gydâ chwi bob cam i'r Brifddinas, canys yr ydwyf "fi wedi addaw myned yno i'r Cyfarfod Blynyddol. Ond nis "gallaf fi aros yno am dymhor, gan fy mod yno mor fynych, a'm "hamgylchiadau yn awr newydd newid hefyd; ac nis gwn yn "iawn pa beth a wnaf, na pha le y byddaf byw rhagllaw. Yr "ydwyf yn gobeithio na phenderfynwch y mater hwn un ffordd "ond ar eich gliniau; ac na ddywedwch wrth neb nad ewch i "Lundain, cyn cael eich holl gydwybod yn rhydd i ddyweyd "hyny wrth yr Arglwydd yn gyntaf. Os oes pethau digon "pwysig i'ch attal yn gyfreithlon i fyned yno, chwi a fyddwch "yn ddigon hyf i ddyweyd hyny wrth yr Arglwydd, ac i alw ei "sylw ef at y pethau hyny. 'Dyma nhw, Arglwydd. Oni "wyddost ti na allaf fi ddim myned. Onid wyt ti wedi fy "ngosod i mewn amgylchiadau yn awr na ddylwn i ddim

"meddwl am fyned; nid myfi sydd yn nacau myned, ond tydi "sydd yn nacau rhoddi caniatâd i mi fyned.'

"Ond os ewch chwi i ymresymu ynoch eich hun, ac i benderfynu y pwnc hwn mewn dull lladradaidd, heb ei wneyd yn "beth rhyngoch chwi â Duw, fe fyddai hyny yn brawf nad oes "genych ddim yn ddigon pwysig i'ch attal. Maddeuwch fy "hyfdra, fy anwyl frawd. Gwybod a chofio fy hen gastiau fy "hun sydd yn peri i mi ddyweyd y pethau hyn. Mi a wn beth "yw tuedd i benderfynu pethau heb ymgynghori â'r Arglwydd "(mewn rhyw amgylchiadau), gan y gwyddwn os dygwn y "mater ger ei fron Ef, y byddai raid i mi benderfynu yn groes "i'r dull y byddwn i yn caru iddo fod. Ond rhaid *settlo* â Duw "yn nghylch troion felly wedi hyny, ac y mae o yn fwy "gorchwyl nag a feddylieech chwi byth.

"Cofiwch fi at Mrs. Hughes. Y mae hi yn gwybod y pwys "mawr sydd mewn bod Llundain heb neb. Mi a obeithiaf y "cewch glywed oddiwrth Moses Parry. Fe fydd ef yn myned "trwy Ruthin heddyw o Langollen, ac yn cael gwybod pa un a "fydd J. Jones yn meddwl myned i Lundain ai peidio. Mynwch "wybod hyny yn ddioed. Ac os bydd raid, deuwch gydâ mi i "Lundain er mwyn Achos yr Arglwydd Iesu.

"Yr eiddoch, fy mrawd caredig, HENRY REES."

Buasai yn syndod pe buasai appêl mor ddifrifol yn aneffeithiol hyd yn nod ar feddwl Mr. Hughes, er mor hwyrfrydig ydoedd i gychwyn oddicartref; ond fe gydsyniodd Mr. John Jones, Rhuthin, i fyned y tro hwnw i Lundain, fel nad oedd angenrheidrwydd am iddo ef fyned. Bu Mr. Jones yno, y pryd hyny, am ddau fis, ac yr oedd ei weinidogaeth yn dra chymmeradwy. Aeth Mr. Rees yno i'r Cyfarfod Blynyddol, ddydd Gwener y Croglith a'r Pasg; ac y mae genym un llythyr a ysgrifenwyd ganddo oddiyno at ei wraig, y dydd Mawrth ar ol y Pasg, a'r llythyr cyntaf sydd ar gael, o'r rhai a anfonwyd ganddo ati hi. Fe'i hysgrifenwyd ganddo yn y Saesonaeg; ac *ar ddymuniad y teulu, yr ydym yn bwriadu argraffu ei lythyrau yn gwbl fel yr*

*ysgrifenwyd hwynt ganddo ef*, weithiau yn y Gymraeg ac weithiau yn y Saesonaeg, a'r ddwy iaith yn fynych yn cael eu cymmysgu yn yr un llythyr.

"London, April 5, 1836.

"MY DEAREST MARY,—Now a time of breathing from ex-
"cessive labour having come, I take my pen to send you a little
"account of myself. . . . . . . . . . . . . . . . I hope you and little
"Anne are very well. I love you both greatly, and long very
"much to see you. I pray (but it is a poor prayer), every day
"for you, and bless God for you both daily. Your lives and
"health and happiness are to me incalculable mercies. A terror
"falls upon me, sometimes, that I shall sin them away. I felt
"some pleasure in family prayer this morning, in pleading those
"words before him whose mouth hath spoken them:—'Minnau,
"dyma fy nghyfammod â hwynt medd yr Arglwydd: Fy
"Ysbryd yr hwn sydd arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy
"enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy hâd, nac o enau hâd
"dy hâd, medd yr Arglwydd, o hyn allan byth.' What a comfort
"to be in the line of the promise! My father, I believe, had an
"interest in it; then it comes down to me; and descends again
"on little Anne like an invaluable inheritance. Nothing but our
"unbelief will deprive us of its blessings. I feel the workings of
"affection towards you both strongly, but I wish I could turn
"those affections more to your spiritual benefit; by being
"stimulated by them to more exertion on your behalf. I prayed
"this morning that I and you, my dear love, may be kept
"from dishonouring the Gospel, which is the cause of separating
"us so often from one another. It would be grievous indeed, if
"I were to go abroad to preach the Gospel, and my own family
"dishonouring it at home. O! labour for more and more
"conformity with the Gospel, the blessed Gospel of Jesus Christ
"your Saviour.

"May the Lord keep you from falling into any temptations to
"sin; and from troubles, accidents, and permit me to see you
"well and happy once more. May the Lord keep my dear little

"engaging infant from fire, water, wind, falls, and all accidents "and diseases.

"Yours, &c., &c., HENRY REES."

Mae y llythyr uchod yn dangos yn amlwg y pryder mawr a feddiannai ei feddwl gydâ golwg ar iachawdwriaeth ei briod a'u merch fechan; ac ymdrech ei enaid mewn gweddi, yr hyn a barhäodd ei holl fywyd, gydâ Duw ar eu rhan.

Yn lled fuan ar ol hyn, Ebrill 26, 27, yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfa Llanfair-caereinion, ac yn pregethu yno am ddau ar y maes. Yr oedd hefyd yn Nghymdeithasfa'r Bala, Mehefin 15, 16. Efe oedd yn gofyn y cwestiynau arferol yn y Cyfarfod Ordeinio yno, pan y neillduwyd Mr. Richard Jones, Llanfair; a Mr. Elias yn rhoddi y Cyngor. Ac yr oedd yn pregethu yno am ddau, oddiar Esaiah xiv. 32, ar ol Mr. Thomas Phillips (Dr. Phillips wedi hyny), yr hwn oedd y flwyddyn hono, wedi dechreu ar ei waith fel goruchwyliwr i'r Feibl Gymdeithas dros Gymru. Yr oedd Mr. Ebenezer Richard a Mr. Elias wedi pregethu am ddeg. Yr oedd pregeth hynod iawn gan Mr. Elias, oddiar Psalm lxxvii. 5: "Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd;" ac yr oedd yn defnyddio y geiriau fel mantais i gyferbynu ansawdd crefydd, ac agweddau crefyddwyr, yn y tymhor hwnw, â'r hyn a welwyd yn hen amseroedd yr adfywiadau, "blynyddoedd deheulaw y Goruchaf." Yn mysg pethau ereill, sylwai y pregethwr, yn ei ddull neillduol ac effeithiol ei hunan, y gallai llïaws o honom ni, y rhai nad oeddem yn gwybod am amserau gwell, dybied fod pob peth yn dda iawn, ac nad oedd eisieu dim rhagorach. "Ar sylfaeniad yr ail deml," meddai, "yr ydym yn darllen fod yno rai mor llawen, fel yr oeddent yn dyrchafu eu llef mewn bloedd gorfoledd, tra yr oedd ereill yn wylo âg wylofain mawr. Yr oedd y bobl ieuainc, y rhai nad oeddent wedi gweled y deml gyntaf, yn teimlo yn ddedwydd, yn curo eu dwylaw, ac yn llawenhau ac yn gorfoleddu gydâ bloeddiadau uchel. 'Ho! meddynt: ni a gawn deml heb ei bath; welwch chwi y meini

hardd sydd oddiamgylch; fe fydd yma furiau gorwych, ac addurniadau prydferth, a phob peth yn y modd goreu!' Ond dacw hen offeiriad yn dyfod heibio gydâ'i wallt llaes, a'i farf wèn, a'i lygaid fel dwy ffynnon yn arllwys dagrau heilltion yn ddidor. 'Paham,' meddai rhai o'r gwŷr ieuainc wrtho, 'yr wylwch chwi ar y fath amser â hwn? Adeg gorfoledd ydyw heddyw. Dyma bob peth yn dda; ni a gawn deml ardderchog.' 'Ah, fechgyn!' ebe'r hen offeiriad, yr ydwyf fi yn cofio y deml gyntaf, ac ni ddaw hon byth yn debyg i hòno.' 'Wel, dyma'r meini, a dyma'r seiri; ac fe geir pob peth arall sy'n eisiau; ac y mae aur ac arian filoedd wedi eu hoffrymu at y gwaith.' 'Ië, fechgyn bach, ond pa le y mae arch y cyfammod? pa le y mae y llechau sanctaidd? pa le y mae y crochan aur a'r manna ynddo? pa le y mae gwialen Aaron? pa le y mae y cerubiaid? a mwy na'r cwbl, pa le y mae y Shecinah? Yr oedd y *gogoniant* yn yr hen deml, pa le y mae hwnw yn awr? Nid oes fodd i mi beidio wylo, ac fe fuasech chwithau yn wylo pe gwelsech y pethau a welais i.' O Arglwydd, ai dyma fel y mae hi gydâ ninau yn Nghymru y dyddiau hyn? ai digon genym gynnulliadau mawrion a'r pregethu trefnus, y canu celfydd, a'r addurniadau allanol llïosog a gwerthfawr? A ydyw y gogoniant yn amlwg? Gwelsom cyn hyn, bethau rhyfedd ac ofnadwy ar *Green* y Bala: ond ai nid oes lle genym i arswydo rhag ein bod, erbyn hyn, wedi ein gadael i ni ein hunain, a'n Duw yn ymguddio."

Yr oedd y bregeth hon i Mr. Elias yn nerthol iawn, ac yn ymddangos yn cynnyrchu iasau o bryder ac arswyd trwy y dorf yn gyffredinol rhag i'r Arglwydd ein gadael, yn gystal a dymuniad cryf yn mynwesau llaweroedd am weled y fraich ddwyfol drachefn yn cael ei diosg, a'r hen nerthoedd drachefn yn cael eu teimlo.

Yr oedd pregeth Mr. Rees, yn y prydnawn, yn galonogol iawn, yn enwedig mewn cyferbyniad i bregeth Mr. Elias yn y boreu. Ei bwnc ef oedd, y Sicrwydd sydd genym am barhad a sefydlogrwydd a llwyddiant eglwys Dduw: "Seilio o'r Arglwydd Sïon."

Ac yr oedd yn gosod hyny allan gydâ'r fath eglurder a nerth a dylanwad, nes cynnyrchu hyder, ni a dybiem, yn mhob meddwl braidd yn y gynnulleidfa, am amser mwy llewyrchus a llwyddiannus eto i ddyfod ar Achos crefydd, na dim a welwyd hyd yn nôd yn "mlynyddoedd yr hen oesoedd." Ni wnaeth un cyfeiriad neillduol at y bregeth yn y boreu, ond y mae yn amheus genym a oedd yno gymmaint ag un gwrandaẅwr meddylgar, yn y dorf fawr, heb fod yn gwneuthur cyferbyniad iddo ei hunan rhwng y ddwy bregeth. Y mae amryw o'i sylwadau yn fyw iawn eto yn ein côf: "Y mae mordaith eglwys Dduw trwy y byd yn dra thebyg i fordaith Paul gynt tua Rhufain: yn ei dechreu yn hyfryd, yn ei chanol yn ystormus, yn ei diwedd yn ddiogel. Ar y cyntaf y mae y deheuwynt i'r credadyn yn chwythu yn araf: ond yn fuan dyna yr Euroclydon yn dechreu rhuthro, llygredd oddifewn yn ymgynhyrfu, temtasiynau o uffern yn ymosod, nes y mae yn ofni syrthio ar leoedd geirwon. Ond yn nghanol y rhyferthwy mawr, y mae yn clywed rhyw lais i'w gysuro, y mae cilfach a glàn yn dyfod i'r golwg: ac er syrthio ar le deufôr-gyfarfod, ac megis ymddattod gan nerth y tònau, y diwedd fydd dyfod i dir y bywyd yn ddiangol." Drachefn: "Y mae rhyw anfarwoldeb i'r eglwys yn ei chysylltiad â Christ ei Phen. Nid oes dim lladd arni. Pa beth a ddaw o honi wedi marw Abel? Edrychwch a chwi a'i gwelwch yn ymddangos mewn 'hâd arall.' Beth a ddaw o honi pan y mae y byd yn boddi? O y mae yn ddiogel yn yr arch. Yn mha le y mae ar ol y diluw? O y mae yn trigo mewn lluestai yn Nghanaan. Os collwch hi yn Nghanaan, chwi a'i cewch hi yn yr Aipht. Os na chewch hi yn yr Aipht, chwi a'i gwelwch yn dyfod i fynu o'r anialwch tua Chanaan yn ol. Os collwch chwi hi o Siloh, chwi a'i cewch yn Jerusalem; os collwch chwi hi o Jerusalem, fe'i ceir yn Babilon. Os collwch hi o'r ddaear, chwi a'i cewch yn y nefoedd." Eto:—"Y mae bwriadau tragywyddol y Jehovah yn sicrhau llwyddiant yr eglwys. Pan oedd gelynion yr Iuddewon am attal adeiladaeth yr ail deml, fe chwiliwyd yn nhŷ y llyfrau, ac fe gaed gafael ar ddeddf Cyrus, yn gorch-

ymyn ei hadeiladu, a rhoddi y draul o du y brenhin, nes rhoddi terfyn ar unwaith ar allu eu gelynion i attal y gwaith i fyned rhagddo. Felly eto. Os eir i geisio rhwystro Achos yr efengyl yn y byd, fe ddaw yr hen ysgrif frenhinol o drysordŷ yr arfaeth dragywyddol i'r golwg. 'Mynegaf y ddeddf: rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant.'" Fe geir y bregeth yn gyflawn, megis ag y gadawwyd hi ganddo ef, yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 7—24. Y mae y dyfynion uchod wedi eu rhoddi genym nid yn hollol fel y ceir hwynt yno, ond yn ol yr argraff o honynt, megis y y maent ar ein côf ni.

Yn y Bala y tro hwn, yn nghyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid am ddau yn y prydnawn, yr oedd Mr. Ebenezer Richard, fel y byddai yn arfer bob blwyddyn, yn gwahodd y cyfeillion i'r Gymdeithasfa ddilynol yn y Deheudir. Un o'r pethau mwyaf cynhyrfiol yn y cyfarfod hwnw, yn flynyddol, fyddai ei annerchiad ef ar hyny. Byddai rhyw newydd-deb ac effeithiolrwydd mawr bob amser ynddo. Y tro hwn dyna efe fel arfer yn codi, a phawb yn llygadu ac yn clustfeinio arno. "Wel," meddai, "y mae yn debyg eich bod i gyd yn dywedyd yn eich meddyliau, 'Dyma y gôg eto; yr un dôn sydd ganddi hi fyth; dim ond yr un cŵ-cŵ, y naill flwyddyn ar ol y llall.' Ond os yr un dôn sydd ganddi, ffrindiau, nid yw ei sŵn yn arwyddo dim drwg, y mae yn hytrach yn dyweyd fod yr hâf yn agos. Ac at waith hâf yr efengyl yr wyf finnau am eich gwahodd eleni eto. Y mae genym Gymmanfa i'w chynnal ar y chweched a'r seithfed o'r mis nesaf, mis Gorphenaf, yn y Twrgwyn, yn Sir Aberteifi; hen le cysegredig, hen gartref dynion Duw, ond lle na bu Cymmanfa gan y Methodistiaid erioed o'r blaen. Hi a fydd y gyntaf yno; ac y mae arnaf eisieu cyhoeddiadau fy mrodyr anwyl o'r Gogledd i anrhydeddu ei dechreuad. Nid ydwyf fi ddim am gymmeryd fy ngommedd genych y tro hwn. Rhaid i chwi gyd-ddwyn â mi am fod yn daer iawn arnoch y waith hon i ddyfod atom, oblegyd eich gwahodd i ddinas beddrod fy nhadau yr wyf. Chwi gewch

bregethu yn ymyl y fan lle y gorwedd llwch y gwrol Dafydd Morris, a'r enwog Ebenezer Morris, y cawri hyny fu yn bloeddio ar y Cymry i ddihuno o'u cwsg. Ac heblaw hyny, nid wyf am eich blino chwi mwy. Yr wyf wedi codi dan deimladau difrifol y tro hwn; y mae rhyw argraff gref ar fy meddwl mai dyma y tro olaf am byth i mi eich annerch fel hyn yn y Bala. Yr wyf wedi cyrhaedd blwyddyn fy mrodyr"—gan gyfeirio at Mr. Ebenezer Morris a Mr. David Evans, Aberaeron, y rhai a fuant feirw eu dau yn yr unfed flwydd ar bymtheg a deugain o'u hoedran—"Ac y mae rhywbeth ynof yn dywedyd y bydd yn flwyddyn i minnau: a chyn y bydd Sassiwn eto yn y Bala, y byddaf fi wedi myned oddiar y maes—yn gorwedd â 'nghleddyf dan fy mhen."

Tra yn llefaru fel hyn, yr oedd ei lygaid mawrion prydferth yn arllwys y dagrau gloewon; ac nid oedd odid un llygad sych yn mysg yr holl frawdoliaeth. Heblaw ei gyfarchiad cyffredinol, fe gyfeiriodd ei hunan mewn modd neillduol, yn enwedig at Mr. Elias a Mr. Rees, gan eu taer gymhell i ddyfod. Nis gallai mewn un modd gael addewid gan Mr. Elias; eithr ni fynai ei ommedd gan Mr. Rees; ac felly, trwy ei daerineb, fe lwyddodd i gael ganddo addaw myned. A phan ddaeth yr amser efe a aeth. Yn y Gymdeithasfa hono, yr oedd yn pregethu ar y maes, am dri ar y gloch y prydnawn cyntaf, ar ol Mr. Richard Jones, Llanllugan, wedi hyny Llanfair-caereinion, oddiar 2 Cor. v. 14, 15; ac am ddeg ar y gloch drannoeth, ar ol yr efengylwr enwog, Mr. Evans, New Inn, oddiar Esaiah lxv. 17. Pan yn pregethu y pryd hwn yn y Twrgwyn, y prydnawn cyntaf, fe ddarfu i ryw rai, ar un o'r *stages* yno, arwyddo cymmeradwyaeth iddo trwy ryw fath o guro dwylaw. Yr oedd hyny yn flinder mawr iddo ef. Ni a'i clywsom ni ef ei hunan yn dywedyd mai dyna un o'r pethau mwyaf poenus y cyfarfu â hwynt yn ei holl oes. Yr oedd y bregeth yn un nodedig o ddifrifol, ac fe ddygwyddodd y peth yn y man mwyaf difrifol o honi. Yr oedd yn ofni fod rhai eneidiau wedi colli bendith oblegyd y gymmeradwyaeth ynfyd a ddangosasid iddo ef.—

Gydâ golwg ar Mr. Richard, dygwyddodd yn hollol iddo ef, yn ol yr hyn a rag-dybiai ac a rag-ddywedasai am dano ei hunan; bu farw yn y mis Mawrth canlynol, er colled ddirfawr i Gymru, ac er galar dwys i'r holl Gyfundeb ag y buasai mor ddefnyddiol ynddo, ac yr oedd y fath addurn iddo.

Yn y Gymdeithasfa y cyfeiriasom ati yn y Bala, ac yn yr un cyfarfod â'r hwn a annerchid gan Mr. Richard, fe hysbysodd Mr. Rees ei fod, ar gais taer ac unfrydol yr eglwysi yn Liverpool, wedi penderfynu symmud yno i fyw. "Ni ddaethum i ddim," meddai, "i'r penderfyniad hwn yn fyrbwyll, ond wedi ymgynghoriad cydwybodol a difrifol â'r Arglwydd; a chydâ chydsyniad ac annogaeth y rhai hyny yn mhlith fy mrodyr a'm cyfeillion, a olygid genyf fi fel y rhai goreu i mi ymgynghori â hwynt yn yr achos." Dywedai ei fod yn dymuno gwneuthur yr hysbysiad hwnw, yn unig er boddlonrwydd i'r brodyr yn y Gymdeithasfa, ac er terfyn ar ryw siarad a allai fod yn y wlad; ond nad oedd yn dysgwyl nac yn dymuno iddynt basio unrhyw benderfyniad gydâ golwg arno; eithr teimlai yn ddiolchgar iawn am eu gweddïau drosto am wyneb yr Arglwydd gydâg ef, pa le bynnag y byddai. Dywedodd Mr. Elias nas gallai lai na theimlo yn ddwys iawn dros y cyfeillion yn yr Amwythig, yn wyneb y golled oeddent ar ddioddef yn ymadawiad eu hanwyl frawd oddiyno; yr un pryd, ac ystyried yr holl achos, ac amgylchiadau ac anghenion neillduol Liverpool, ei fod ef o'r galon yn llawenhau yn y penderfyniad y daethai iddo, ac oedd yn awr wedi hysbysu iddynt: a'i fod yn hyderu na byddai i'w gais am eu gweddïau drosto gael ei droi yn ol gan neb o honynt.

Cyn diwedd y flwyddyn hon, yr ydym yn ei gael drachefn mewn Cymdeithasfa yn y Deheudir, yn Nghrughywel, yn Sir Frycheiniog: lle, dybygid, nad oedd wedi rhag-fwriadu myned. Gan mai am y daith hon yn unig, o'i holl deithiau gydâ'r efengyl yn Nghymru, y dygwyddodd i ni weled adroddiad o'i eiddo ef ei hunan, yr ydym yn ei ddodi i mewn yma, yn hyderus y bydd yn ddyddorol gan lawer o'n darllenwyr.

"CYHOEDDIAD, Hydref, 1836.

"Cychwynais oddi cartref yn unig am Sabboth, ond aethum i Gymdeithasfa Crughywel cyn dychwelyd, a hyny yn y llwybr canlynol:—

Hydref 18. Cychwynais i Gyfarfod Misol y Trallwm.
„ 19. Llefaru yno am 10, Matthew xxvi. (Nid yw yn nodi yr adnod) ac am 6, Heb. xii. 15.
„ 20. Llanidloes, 6. Heb. xii. 15.
„ 21. Araeth ar Ymattaliad yno (Llanidloes).
„ 22. Drefnewydd, 6. *Society*.
„ 23. Drefnewydd, 9. Gen. xvii. 4; eto, 2, Matt. xxvi; eto 6, Heb. xii. 15.
„ 24. Llanfair Muallt, 6. Gen. xvii. 4.
„ 25 a 26. Cymdeithasfa Crughywel. Llefaru yno y 26, am 10, Heb. xii. 15; eto 6, Dat. ii. 4.
„ 27. Bwlch, 11. Matthew xxvi; Aberhonddu, 6. Gen. xvii. 4.
„ 28. Capel Isaf, 11. Marc i. 21; Llanfair Muallt, 6. Dat. ii. 4.
„ 29. Rhaiadr, 12. Marc i. 21; Llanidloes, 6. Areithio ar Ymattaliad.
„ 30. Llanidloes, 9. Dat. ii. 4; eto 2, Esaiah xiv. 32; eto 6, 1 Petr i. 18, 19.
„ 31. Gleiniant, Marc i. 21.
Tachwedd 1. Neuadd, 10. Marc i. 21; eto 2, Marc x. (nid yw yn nodi yr adnod).
„ 2. Llangurig, 2. Heb. xii. 15; Llanidloes, 6. Gen. xvii. 4.
„ 3. Drefnewydd. Araeth ar Ymattaliad.
„ 4. Adref. Pawb yn iach."

Yn y Gymdeithasfa hon yn Nghrughywel, yr oedd yn pregethu yn y boreu, ar ol Mr. Ebenezer Richard, ac yn yr hwyr ar ol Mr. Thomas Phillips (Dr. Phillips wedi hyny). Yr oedd Mr. Lewis Edwards (Dr. Edwards ar ol hyny) a Mr. Thomas Richard, yn

pregethu y prydnawn cyntaf; a Mr. William Evans, Ton-yr-efail, a Mr. John Jones, Talsarn, am ddau yn y prydnawn. Y mae yr Adroddiad syml yna yn ddigon i ddangos y safle uchel fel pregethwr oedd Mr. Rees, erbyn hyn, wedi gyrhaedd yn ein gwlad.

Nid oedd yn cael ei adael, pa fodd bynnag, heb rai ymosodiadau, er nad oeddent ond ychydig mewn cymhariaeth i'r rhai a gâi ambell un o'i frodyr, yn y blynyddoedd hyny. Anfynych y byddai yn ysgrifenu dim i'r Wasg mewn gwêdd ddadleugar; ac yr oedd ei bregethau yn rhedeg mor hollol yn nghanol yr efengyl, ac er o nodwedd Galvinaidd, eto yn cymmeryd golwg mor ëang a manwl ar y gwirionedd neillduol a fyddai ganddo dan sylw, ac yn arbenig yn ameanu ei ddwyn i gyfarfyddiad uniongyrchol â chydwybodau ei wrandaẅwyr, fel na byddai odid ysbryd yn neb i ddadleu yn ei erbyn. Yr oedd hefyd mor barchus o Enwadau ereill, ac mor llawn o ysbryd yr efengyl, fel na chlywwyd mo hono erioed, gartref nac oddicartref, yn gwneuthur un cyfeiriad anfrawdol at neb o honynt, ac nis gallai oddef dim o'r fath yn neb arall. Trwy hyn oll, diangodd, ar hyd ei oes, heb ond ychydig iawn o ymosodiadau arno trwy y Wasg. Ac, hyd ag y gwelsom ni, yr oedd yr ychydig hyny yn rhai tra annheg. Yn y "*Dysgedydd*" am Ragfyr, 1836, tudal. 376—378, y mae rhyw un dan yr enw *Tegerin*, yn dyfod allan â Sylwadau ar bregeth o'i eiddo ar Gybydd-dod, oddiar Psalm cxix. 36. Wedi gwrandaw y bregeth yr ydoedd, y mae yn ddiammeu; oblegyd ni chyhoeddwyd mo honi hyd Chwefror, 1841, pryd y daeth allan yn y "PREGETHWR," tudal. 23—32. Y mae i'w chael hefyd yn yr ail gyfrol o'i *Bregethau*, tudal. 155—173: ac y mae yn un o'r rhai goreu o'i rai goreu ef. Mae yn anmhosibl ei darllen heb deimlo fod gan y pregethwr allu tra annghyffredin i olrhain gweithrediadau llygredigaeth yn y galon, a'i fod yr un mor gydnabyddus â'r unig drefn ddwyfol i'w farweiddio. Nid ydym ni, yn y bregeth argraffedig, yn cael dim o'r ymadroddion ag y cwyna "*Tegerin*" o'u plegyd; ac, er fod syniadau Mr. Rees y pryd hyny yn hytrach yn tueddu at

Galviniaeth uwch nag y daethant ar ol hyny, eto y mae braidd yn sicr genym nad oedd ynddynt ddim, yr amser uchaf arno, a allasai arwain unrhyw wrandaŵwr meddylgar i ddychymygu ei fod yn dysgu fod y berthynas, pa beth bynnag yw, a all fod rhwng llygredigaeth â natur dyn, yn tueddu yn y radd leiaf i ddinystrio ei gyfrifoldeb *personol* ef am ei ymroddiad iddo. Ni wnaeth efe, hyd ag yr ydym ni yn gwybod, unrhyw sylw o'r ymosodiad hwn arno.

Yr oedd yr amser yn awr yn prysur nesau iddo i adael yr Amwythig a symmud i Liverpool. Ac fel yr oedd yr amser yn agosau, yr oedd ei bryder yntau yn cynnyddu. Yr oedd yn teimlo yn ddwys dros y cyfeillion yn yr Amwythig, ac agos ag edifarhau, wrth weled y gafael oedd ganddynt ynddo, ei fod erioed wedi addaw symmud oddiwrthynt. Nid oedd ychwaith yn hollol ddibryder gydâ golwg ar yr effaith a gai symmud i Liverpool ar ei iechyd ef, a'i briod, a'u merch fechan: ac yr oedd yn arbenig yn teimlo yn y rhag-olygiad sicr ar yr ychwanegiad llafur, a'r cyfrifoldeb mwy, oeddent yn ei aros yno. Ond yr oedd yr addewid wedi ei rhoddi, ac erbyn hyn yn adnabyddus trwy Gymru, ac yr oedd dysgwyliad mawr yn Liverpool am dano. Yr oedd rhai o'r cyfeillion yno, er ys amryw flynyddoedd cyn hyny, wedi gwneuthur eu meddyliau i fynu, mai efe o bawb oedd y dyn iddynt hwy. Yr oeddent yn cael eu cefnogi yn hyny, gan rai o wŷr blaenaf y Cyfundeb. Y mae Mr. Roberts, Hope Street, wrth gyfeirio at ei symmudiad i Liverpool, yn adrodd i ni y syniad oedd gan Mr. Elias ar hyny. "Mae yn dra chofus genyf," meddai Mr. Roberts, "yr ymddyddan a fu rhyngof â'r diweddar hybarch John Elias, yn y flwyddyn 1832. Yr oeddem er ys rhai blynyddoedd wedi colli trwy farwolaeth yr hen bregethwyr ffyddlawn a'n harweinient, y rhai a fuont ddefnyddiol iawn yn cadw iawn drefn a dysgyblaeth yn ein heglwysi. Gofynais, yn yr ymddyddan y cyfeiriais ato, i'r gŵr enwog hwnw, pwy a gaem i Liverpool, er mwyn cyfarfod â'r angen mawr yr oeddem ynddo gydâ golwg ar ein heglwysi a'n cynnulleidfäoedd; oblegyd, erbyn hyn, yr

oedd yma dri o Gapelau, sef Pall Mall, Bedford, a Rose Place; ac yr oedd ar y pryd gynnydd cyflym ar ein haelodau eglwysig, ac ar y gwrandaẅwyr, trwy ddyfodiad nifer llïosog o'n cyd-genedl i breswylio yn y dref. Ateb Mr. Elias oedd,—'Nis gallaf feddwl am neb ond Mr. Rees o'r Amwythig;' yr hyn oedd yn dangos y syniad uchel oedd gan Mr. Elias am dalentau Mr. Rees, a'i gymhwysderau arbenig i lanw lle mawr yn ein Cyfundeb." Nid oedd Mr. Roberts ar adeg yr ymddyddan â Mr. Elias, y cyfeiria ato, ei hunan yn swyddog eglwysig, pe amgen yr ydym braidd â meddwl y gwnaethid ymdrech i gael Mr. Rees i Liverpool rai blynyddoedd yn gynt. Yr oedd yr hen frodyr ffyddlawn ag oeddent yma yn blaenori y pryd hyny, er eu holl barch i'r efengyl, â'u syniadau yn hynod o gyfyng gydâ golwg ar gynhaliaeth y weinidogaeth; a pheth dieithr iawn iddynt hwy oedd y meddwl am un yn ymroddi yn gwbl i wasanaeth yr efengyl, heb yr un alwedigaeth fydol ganddo i ddibynu arni am ei fywioliaeth, ond yn byw yn gwbl wrth yr efengyl. Nid oeddent, yn wir, yn fwy cyfyng na'u cyd-swyddogion yn yr holl Gyfundeb; canys nid ydym yn gwybod am gymmaint ag un o'n gweinidogion, y pryd hwnw, yn Neheudir na Gogledd Cymru, nac yn un o drefydd Lloegr, ag oedd heb rywbeth o'i eiddo ei hunan, heblaw cyfraniadau yr eglwysi a wasanaethid ganddo, tuag at ei gynhaliaeth. Mr. Rees ei hunan, yn ddiammeu, gydâ'r fath gynnaliaeth ag a roddid iddo yn yr Amwythig, oedd yr unig un oedd yn dibynu yn unig ar yr efengyl. Yn awr, pa fodd bynnag, yr oedd yr holl flaenoriaid, a'r holl eglwysi yn Liverpool, neu yn hytrach yr holl *eglwys*,—oblegyd, mewn ystyr, un eglwys, neu un gorfforiaeth, oeddent oll y pryd hyny,—wedi dyfod yn unfrydol i'r penderfyniad, i'w gael ef i ymsefydlu yn eu plith, ac yntau wedi cytuno i hyny. Ac yn y Nadolig, 1836, efe a symmudodd yno, lle y bu hyd ddiwedd ei oes, yn llafurio gydâ ffyddlondeb a gallu a pharchedigaeth, braidd annghydmarol; a lle, y mae yn ddiammheuol, y bydd ei enw yn berarogliadd hyd farwolaeth y diweddaf o'r rhai sydd yn ei gofio, a thrwy y sôn am dano, am amser maith wedi hyny.

# PENNOD VII.

*O'i Symmudiad i Liverpool hyd ei ymweliad âg America:—*
1837—1839.

DERBYNIAD CROESAWGAR GAN Y FRAWDOLIAETH YN LIVERPOOL —ANGHENION NEILLDUOL Y LLE—TREM AR AMGYLCHIADAU YR ACHOS—Y PARCH. THOMAS HUGHES—YR HEN FLAENORIAID—Y PARCH. RICHARD WILLIAMS—YR ACHOS YN CYNNYDDU, AC ANGEN ARBENIG AM RYW UN I OFALU AC I ARWAIN—Y LLAFUR MAWR A DDISGYNAI ARNO—YMRODDI YN DDYFAL I'W WAITH—ENNILL CYMMERADWYAETH CYFFREDINOL—MARWOLAETH EI FAM—CYMDEITHASFA DINBYCH, 1837 —MARWOLAETH Y PARCH. EBENEZER RICHARD—COFNODION O'I EIDDO EF EI HUNAN O'I DEIMLADAU Y FLWYDDYN GYNTAF IDDO YN LIVERPOOL—CYMDEITHASFAOEDD 1837—CYMUN YN PALL MALL, 1838—OEDFAON HYNOD—Y DIWEDDAR BARCH. JOHN HUGHES YN SYMMUD I LIVERPOOL—YN CAEL EI ALW YN GYD-WEINIDOG AG EF—CYFEILLGARWCH MAWR RHYNGDDYNT—DYLANWAD IACHUSOL GAN Y NAILL AR Y LLALL—Y DIWEDDAR MR. WILLIAMS O'R WERN YN GYMMYDOG A CHYFAILL IDDO—MEDDWL UCHEL IAWN AM DANO—EI FEIRNIADAETH GYFEILLGAR ARNO.

FE dderbyniwyd Mr. Rees gan yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd yn Liverpool gydâ y serchawgrwydd a'r gorfoledd mwyaf. Yr oedd nifer mawr, os nad y nifer mwyaf, o'r rhai y daethai i'w gwasanaethu yn gwbl adnabyddus o hono, ac yn gwybod am y rhagoriaethau mawrion a berthynent iddo, gan ei fod wedi arfer ymweled yn achlysurol â'r dref bellach er ys dros ddeuddeng mlynedd, ac er ys tua chwe' blynedd wedi gwneuthur hyny, am amryw wythnosau, bob blwyddyn. Ac, mewn gwirionedd, yr oedd angen dirfawr am ryw un o'i fath yn y lle. Ar ol marwolaeth y Parch. Thomas Hughes, Tach. 2, 1828,

yr oedd yr Achos wedi bod, i fesur mawr, heb neb a gydnabyddid yn uniongyrchol fel Arweinydd iddo; ac yr oedd rhyw amgylchiadau annghysurus yn ddiweddar wedi digwydd, yn gofyn doethineb mawr i fyned trwyddynt, heb niweidio tangnefedd a llwyddiant yr eglwysi. Yr oedd Mr. Thomas Hughes, tra y bu byw, yn frenhin hollol yma. Yr oedd wedi bod gydâ'r gwaith agos o'i ddechreuad cyntaf, ac er ys yn lled fuan wedi yr amser yr ymunasai âg ef, wedi bod â'r llaw benaf ganddo yn ei ddygiad yn mlaen; ac yr oedd wedi llwyddo yn ddirfawr tan ei ofal. Deuddeg ar hugain oedd nifer yr aelodau eglwysig yn 1787, pan y daethai efe gyntaf i'r dref, y flwyddyn yr adeiladwyd y Capel cyntaf yn *Pall Mall.* Yr oedd y Gymdeithas eglwysig wedi ei ffurfio er y flwyddyn 1782, ac yn cyfarfod yn gyson yn nhŷ Mr. William Llwyd, 92, *Pitt Street,* a William Llwyd ac un Owen William Morgan, o Sir Fôn, meistr llong, yn ei blaenori. Yn *Pitt Street* yr oedd y pregethu hefyd bob amser, hyd nes yr aeth y tŷ yn rhy fychan i gynnwys y gwrandaẅwyr, pan y symmudwyd y moddion cyhoeddus i hen ystordy yn *North Street,* yn ngwaelod *Dale Street,* oedd yn eiddo i un a elwid "*Merchant Billy;*" lle gwael ac annghysurus iawn. Eithr parheid i gynnal y cyfarfodydd eglwysig yn nhŷ William Llwyd; ac yno y cymmerodd Mr. Thomas Hughes ei docyn aelodaeth o'r Bala; a threfnodd rhagluniaeth iddo gael lle i letya hefyd yn yr un tŷ. Nid oedd, wrth adael y Bala, yn amcanu aros yma ond amser byr, er mwyn cael ychydig fantais i'w berffeithio ei hunan yn ei gelfyddyd, fel saer coed. Eithr fel arall y bu. Yma y treuliodd, a chydâ defnyddioldeb mawr, ei holl ddyddiau o hyny allan. Yn 1789 efe a ddechreuodd bregethu. Ymroddodd, yn ol yr amser a allai gael, i ddarllen a myfyrio yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac ysgrifeniadau yr awdwyr goreu yn ei gyrhaedd, er ymgymhwyso i'r gwaith mawr yr ymgymmerasai âg ef. Ac ni bu yn aflwyddiannus. Ennillodd iddo ei hunan radd dda, a hyfder mawr yn y ffydd. Daeth yn neillduol, yn fuan, yn ŵr o ddylanwad mawr gydâ'i gyd-swyddogion, ac yn y cyfarfodydd eglwysig. Er na chafodd erioed ei

ryddhau oddiwrth ei alwedigaeth gyffredin, fel ag i gael rhoddi ei holl amser at yr efengyl, ac nad oedd yr hyn a roddid iddo am ei lafur prin yn haeddu ei alw yn *gydnabyddiaeth*, heb sôn am *gyflog*, eto ni chafodd odid eglwys erioed neb a'i gwasanaethodd yn fwy ffyddlawn, ac nid yn fynych y bu neb â chanddo fwy o awdurdod. Er mai afrwydd a hwyrdrwm yn hytrach ydoedd o ran ei ddawn, ac mai anfynych y byddai yn cyffroi dim arno ei hunan wrth bregethu, eto yr oedd ei bethau bob amser yn llawn sylwedd, yn gorwedd yn esmwyth ac yn amlwg ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac, yn y cyffredin, â chymhwysder neillduol ynddynt i gyfarwyddo, cysuro, ac adeiladu y Saint. Dichon ei fod, fel yr oedd llawer o'r hen bobl, yn tueddu at ormod arglwyddiaeth, ac yn rhy barod i dybied nad oedd dim i'w wneyd â throseddwr ond ei fwrw allan ar unwaith o gymundeb eglwysig, a hyny, weithiau, am bethau ag y buasai yn rhy anhawdd iddo ef, nac i neb arall, allu eu profi yn droseddau o gwbl; eto fe fu ei wasanaeth yma fel pregethwr, ac yn enwedig fel arweinydd, am yn agos i ddeugain mlynedd,—ac am y deuddeng mlynedd diweddaf o honynt wedi ei neillduo i'r holl waith,—o werth anmhrisiadwy i'r Achos, a theimlid yn gyffredinol, pan y bu farw, fod y golled am dano braidd yn anadferadwy.

Yr oedd yma hefyd, wedi ei farw ef, a phan y symmudodd Mr. Rees yma, amryw flaenoriaid nodedig o ffyddlawn, a gwir ofal calon ganddynt am yr Achos, a rhai o honynt yn lled alluog. Yr oedd yma un yn arbenig yn hynod felly,—Mr. John Hughes, *Mansfield Street*,—neu, fel yr adnabyddid ef yn gyffredin,—John Hughes, Abergele,—tad Mr. Josiah Hughes, a aeth allan yn 1830, yn Genhadwr i Malacca. Yr oedd Mr. John Hughes, yn sicr, yn ddyn tra annghyffredin. Yn y cyfarfod eglwysig cyffredinol, a gynhelid bob nos Lun, fe allai sefyll, ochr yn ochr â'r gweinidogion galluocaf a fyddent yn bresennol, i draethu ar unrhyw fater a fyddai dan sylw; ac a lwyddai braidd bob amser i daflu rhyw oleu o'i eiddo ei hunan arno, a ddangosai ei fod yn gweled yn mhellach nag odid neb o honynt

iddo. Ac eto ryw fodd, oblegyd rhyw achos neu arall na ddarfu i ni erioed ei ddeall, ond y gwyddom nad oedd yn cyfodi oddiar unrhyw ddiffyg moesol yn ei gymeriad ef, nid oedd yn medd-iannu mewn un modd yr awdurdod, yn mhlith ei gyd-swyddog-ion, ag y gallesid tybied fuasai naturiol iddo. wrth sylwi ar ei allu a'i ddawn.

Yr oedd yma hefyd dri neu bedwar o frodyr yn pregethu, pan yr ymsefydlodd Mr. Rees yma: Mr. Richard Williams, Mr. John Roberts, a Mr. David Lewis, os ydym yn iawn-gofio. Yr oedd y rhai hyn yn adnabyddus fel rhai ffyddlawn iawn yn ol eu hamgylchiadau, ac yn cymmeryd eu rhan yn esmwyth yn llyw-odraethiad yr Achos yn y dref, gydâ'u brodyr yn y Cyfarfod Misol. Yn wir, yr oedd Mr. Richard Williams, yr hwn a ddaethai yma o Lanbrynmair i'r Ysgol, yn Awst, 1828, ychydig cyn marw Mr. Thomas Hughes, ac wedi hyny a agorasai Ysgol ei hunan yn y dref, yn awr, oblegyd gwendid ei iechyd, wedi rhoddi yr Ysgol heibio, ac yn ymroddi yn unig i'r Weinidogaeth. Yr oedd erbyn hyn hefyd er's Mehefin, 1835, wedi ei Neillduo i'r holl waith. Yr oedd efe yn pregethu ar y Sabbothau braidd yn gyson, yn y naill fan neu y llall, pan y byddai ei iechyd yn caniatau; ac yr oedd yn cynnyddu mewn cymmeradwyaeth a dylanwad yn mhlith ei frodyr, bob blwyddyn, o'i ddyfodiad cyntaf i'r dref, hyd ei farwolaeth, Awst 30, 1842.

Eithr er fod yma gryn nifer o frodyr ffyddlawn a chymmer-adwy yn mhlith y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, a dau neu dri o honynt yn rhai tra galluog, nid oedd yma, fel y sylwasom eisoes, neb ag yr edrychid ato yn uniongyrchol fel arweinydd, na neb, yn wir, ag yr oedd unrhyw gytundeb rhwng yr eglwysi âg ef, fel ag i roddi unrhyw hawl iddynt ar ei wasanaeth. Yr oedd pawb braidd wedi dyfod i deimlo fod eisieu rhyw un felly, a dyna y paham y galwyd Mr. Rees. Ac yr oedd y gwaith oedd o'i flaen yn fawr iawn. Yr oedd yma yn awr bedwar o addoldai ac eglwysi ynddynt, sef y Capeli, yn *Pall Mall* a *Bedford Street*, a *Rose Place*, yn nghyd â'r ystafell eang yn *Oil Street*, yr hon a gymmerid o dan ardreth, ac yn lle yr hon, yn mhen tua dwy

flynedd wedi dyfodiad Mr. Rees yma, yr adeiladwyd Capel yn *Burlington Street*, o'r lle y symmudwyd drachefn i'r Capel presennol yn *Netherfield Road*. Yn y blynyddoedd hyny, yr oedd pregethu dair gwaith yn y Capeli yn y dref bob Sabboth, ac ysgol ddwy waith; a byddai dwy neu dair o bregethau, yn ngwahanol Gapelau y dref, ar nosweithiau yr wythnos, a chyfarfod eglwysig yn mhob Capel, ar nos Iau; a'r cyfarfod eglwysig cyffredinol,—a elwid y *Society* fawr,—ar ei dro yn y gwahanol Gapelau, bob nos Lun, oddieithr y cyntaf yn y mis. A *Society fawr* mewn gwirionedd ydoedd y pryd hyny. Byddai corph yr aelodau, o'r gwahanol Gapeli, yn ymdrechu rhoddi eu presenoldeb ynddi: ac yn hòno y byddid yn diarddel, o leiaf yn cyhoeddi yn ddiarddeledig, y rhai yr ymwrthodid â hwynt yn yr holl eglwysi, yn gystal ag yn penderfynu materion ereill a berthynent iddynt fel corph cyffredin. Yr oedd dau Gapel bychan hefyd yr ochr arall i'r afon, yn Birkenhead a Seacombe, yn y rhai y pregethid ar brydnawn Sabboth, ac yn achlysurol yn yr hwyr; ac yr oedd eglwys fechan yn y naill le a'r llall. Yr oedd nifer yr aelodau mewn cyflawn gymundeb, rhwng yr holl eglwysi ar ddau tu yr afon, yn agos i fil, heblaw tua dau cant o blant. Yr oedd Mr. Rees, hyd ag y gallai, i ofalu am yr holl rai hyn; gan ei fod wedi ei wahodd i'r dref, nid gan un eglwys neillduol, ond gan yr holl eglwysi, ac fel Arolygwr cyffredinol drostynt oll. Heblaw y pregethwyr ag oeddent yn cartrefu yn Liverpool, ac yn cynnorthwyo gydâ'r gwaith, yn ol fel y gelwid arnynt, ar y Sabbothau ac amserau ereill, yr oedd yn arferiad y pryd hwnw, ac am dros bymtheng mlynedd ar ol hyny, i amrywiol Gyfarfodydd Misol Siroedd Gogledd Cymru, yn ol trefn reolaidd, anfon dau bregethwr bob mis, i wasanaethu yr Achos yn Liverpool a Manchester; un Cyfarfod Misol yn gofalu am fis yn ei gylch, a phob pregethwr a anfonid yn aros bythefnos yn mhob un o'r ddwy dref. Ond nid oedd llafur y brodyr o Gymru, yn nghyd â'r eiddo y pregethwyr cartrefol, yn estyn un arbediad i Mr. Rees rhag llafurwaith gweinidogaethol dibaid yma. Byddai, yn y blynyddoedd hyny, yn pregethu deirgwaith agos

bob Sabboth; yn dilyn yn gyson y cyfarfod eglwysig cyffredinol nos Lun; ac yn gofalu am y cyfarfod eglwysig nos Iau, mewn un neu arall o'r Capeli. Heblaw hyny, byddai raid iddo yn fynych bregethu ar un neu ychwaneg o'r nosweithiau ereill; ac fel y gallesid dysgwyl, mewn cylch mor fawr, fe elwid arno yn feunyddiol i ymweled â chleifion, ac yn fynych i weini mewn claddedigaethau, fel, rhwng pob peth, nad oedd un diwrnod heb fod yn llawn o waith ganddo. Yr oedd ei amser yn ei hoff astudgell yn werthfawr iawn ganddo, tra yr oedd rhywbeth yn dyfod yn barhaus i wasgu ar, ac i brinhau yr amser hwnw. Eithr trwy bob peth, fe'i cynnorthwywyd i ddangos, mai yr un oedd ei benderfyniad ef â'r eiddo yr apostolion gynt, pan y dywedent wrth y lliaws dysgyblion, "Ni a barhawn mewn gweddi a gweinidogaeth y gair." Yr ydoedd yn ymroddi i lafurio yn ddiarbed; a phob Sabboth yn dyfod at y cynnulleidfaoedd o newydd, megis angel Duw, a "nerthoedd y byd a ddaw" yn cael eu teimlo yn fynych tan ei weinidogaeth. Yr oedd y pryd hyn yn mwynhau iechyd tra rhagorol; ac yr oedd y gymmeradwyaeth gyffredinol oedd yn amlwg iddo a roddid i'w lafur, a'r sirioldeb a ddangosid gan bawb tuag ato, tra yn peri iddo ef deimlo yn fwy-fwy oddiwrth ei annheilyngdod, yn peri iddo hefyd ymegnïo yn fwy-fwy i geisio bod, mewn gwirionedd, yr hyn y credai fod y rhai y llafuriai yn eu plith yn tybied ei fod; ac, yn enwedig, ar ei fod yn gymmeradwy gan ei Arglwydd.

Yn nechreu Mawrth, 1837, yn mhen ychydig gydâ deu-fis wedi ei ddyfodiad i Liverpool, fe'i galwyd i'w hen ardal enedigol, Llansannan, i hebrwng gweddillion ei anwyl fam i'r bedd. Yn yr hwyr, ar ol y claddedigaeth, efe a draddododd yn Nghapel Llansannan, am y waith gyntaf, yr ydym yn tybied, y bregeth nodedig a draddodwyd ganddo laweroedd o weithiau ar ol hyny, ac a ymddangosodd yn y *Drysorfa* fis cyn ei farwolaeth ef ei hun, oddiar Psalm xc. 12: "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb." Y mae y bregeth hefyd i'w chael yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 427—448;

ac y mae, fe ddichon, mewn rhyw bethau, yn gystal enghraifft o hono, yn ei ddoniau neillduol fel pregethwr, ag odid un o'r pregethau ardderchog a adawwyd ganddo i ni.

Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol claddu ei fam, yr ydoedd, Mawrth 15, 16, yn y Gymdeithasfa Chwarterol yn Ninbych, pan y pregethodd drachefn, gydâ nerth mawr, y bregeth ar "gyfrif ein dyddiau," yn Nghapel yr Annibynwyr, lle yr oedd ei frawd ar y pryd yn weinidog. Yn yr un Gymdeithasfa, yr oedd yn pregethu yn Nghapel y Methodistiaid, oddiar Colos. iii. 17: "A pha beth bynnag a wneloch, ar air neu ar weithred, gwnewch bob peth yn enw yr Arglwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef." Y mae yn ddrwg iawn genym nad ydyw y bregeth hòno yn mhlith ei bregethau argraffedig. Yr oedd cyfaill anwyl i ni, ac un o'r gwŷr callaf a adnabuom erioed, y diweddar Mr. John Robert Jones o Fangor, yno yn gwrando arno; ac yr ydym yn cofio yn dda ei glywed ef yn dywedyd ei fod yn barnu ei bod yn un o'r pregethau goreu, os nad yr oreu, a glywsai efe ganddo erioed. Y mae yn bosibl nad oedd efe ei hunan yn meddwl cymmaint o honi, oblegyd ni chlywsom ni air o sôn am dano yn ei phregethu byth ar ol hyny. Tra yn y Gymdeithasfa hon yn Ninbych, ac yn dygwydd bod yn nhŷ ei frawd rhwng rhai o'r cyfarfodydd, y clywodd gyntaf am farwolaeth ei hoffus gyfaill, y Parch. Ebenezer Richard, yr hyn a gymmerasai le yr wythnos flaenorol, Mawrth 9. Pan yr hysbyswyd hyny iddo, fe effeithiodd gymmaint arno fel y torodd allan i wylo fel plentyn, a bu am beth amser cyn gallu ymadnewyddu i'w dawelwch a'i sirioldeb cyffredin. Aeth hefyd i Gymdeithasfa Llanidloes, Ebrill 18, 19, 20; ac i'r Bala, Mehefin 13, 14, 15, 16. Yr oedd yn pregethu yn y Bala am ddau ar y gloch, ar ol Mr. Daniel Evans, Capel Drindod, oddiar Eph. iii. 19. Yr oedd y bregeth hon y pryd hyn yn y Bala, yn cynnyrchu astudrwydd a syndod yn mhawb a'i gwrandawent; ac y mae yn ddiammeu fod yno lïaws o galonau yn llawn addoliad, yn nghymundeb eu meddyliau â'r amlygiadau o'r perffeithiau dwyfol, a ddygid, mewn modd mor ogoneddus,

i'w sylw gan y pregethwr. Parotöwyd y bregeth i'r wasg gan Mr. Rees ei hunan, ac anfonwyd hi ganddo i'r Traethodydd, am Ebrill, 1854; ond âg adnod arall,—Colossiaid ii. 9,—fel testyn iddi: ac oddiyno y mae wedi ei had-gyhoeddi yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 7—26.

Tuag at ddangos ansawdd dduwiolfrydig ei feddwl, a'i ymroddiad i grefydd bersonol, yn y flwyddyn gyntaf o'i arosiad yn Liverpool, y mae yn hyfryd dros ben genym ein bod yn gallu cyflwyno i'r darllenydd y cofnodion canlynol o'i deimladau, a gafwyd yn mysg ei bapurau. Nid oedd ganddo ef, y mae yn ddiammeu, un meddwl y buasai yr un llygad dynol heblaw yr eiddo ei hunan, oddieithr, feallai, ei briod a'i ferch, yn cael golwg ar yr hyn a ysgrifenai; ac felly, wrth eu cyhoeddi, yr ydym yn teimlo ein bod yn gollwng ein darllenwyr i mewn i gyfrinach dra chysegredig. Yr un pryd, y maent yn fantais ragorol i ni er cael adnabyddiaeth helaethach o hono ef, ac ni a hyderwn y byddant yn fendithiol i bawb a'u darllenont:—

"Mai 10, 1837 (dydd Mercher). Codais heddyw yn fuan ar ol pedwar o'r gloch y boreu. Dymunwn help gan Dduw i godi yn foreu dros yr haf hyfryd. Yr ydoedd ddoe yn ddydd o ympryd a gweddi gydâ ni yn Liverpool, fel gydâ'n brodyr yn Nghymru. Yr oedd rhyw arwyddion nad oedd yr Arglwydd yn anfoddlawn, a lle cryf i gasglu, pe ceisiem ef â'n holl galon, y byddai i ni ei gael. Cefais ronyn o fudd y boreu heddyw, wrth ddarllen yr wythfed o Ioan ar fy ngliniau. O Arglwydd, sancteiddia fy myfyrdodau. Amen."

Dichon y dylem roddi gair o eglurhad ar y cyfeiriad a gawn, yn y dyfyniad blaenorol, at y "dydd o ympryd a gweddi." Yn y blynyddoedd 1836 a 1837, yn ol cyngor ac annogaeth y Gymdeithasfa Chwarterol yn Ngogledd Cymru, cynnelid un dydd pennodol, bob chwarter blwyddyn, yn ddydd o ympryd a gweddi trwy yr holl eglwysi, i ymostwng yn edifeiriol o flaen yr Arglwydd, ac i geisio adfywiad ar grefydd. Bu y dyddiau hyny yn foddion neillduol i beri i Sïon, mewn llawer man, wisgo ei nerth mewn gweddi. Credir fod y Diwygiad Dirwestol, y

blynyddoedd hyny, i fesur mawr yn atebiad i'r cyfryw weddïau; ac yn y flwyddyn 1840, yn neillduol, fe gafwyd ychwanegiadau mawrion at yr eglwysi.

"Mai 11eg. Ni chodais heddyw can foreued a doe. Teimlais ronyn o awydd i Dduw fy chwilio am gywirdeb fy ffydd yn Nghrist, a'm cariad ato, wrth ddarllen y nawfed o Ioan, lle y gofynai Iesu Grist i'r dyn a gawsai ei olwg, 'A wyt ti yn credu yn Mab Duw?'

"Weithiau yr ydym yn cael Iesu Grist yn iachau cleifion â gair, heb ddefnyddio dim moddion, na gofyn i'r cleifion eu hunain ymarfer â dim. Yma efe a ddefnyddiai glai a phoeryn, a gorchymynai i'r dall fyned i lyn Siloam ac ymolchi. Nid oes genyf fi sail i ddysgwyl iddo adnewyddu fy ysbryd afiach i ond yn yr ymarferiad â'r moddion a ordeiniodd. Eto y mae efe, weithiau, fel Pen-arglwydd yn nesau at yr enaid yn ddigyfrwng. Ond nid yw ei fod yn gwneyd hyny ar brydiau i mi ac i ereill, yn un sail i mi ddysgwyl am hyny os byddaf esgeulus o'r moddion, mwy nag y gallasai y dall hwn ddysgwyl ei olwg heb fyned i lyn Siloam, am fod y Gwaredwr wedi iachau ar brydiau ereill heb ofyn i'r claf wneuthur dim. Teimlwn awydd gweddïo dros yr holl sefydliadau daionus sydd yn cynnal eu Cyfarfodydd (Blynyddol) y mis hwn. O Arglwydd, llwydda hwy. Amen."

"12fed. Gwnai darllen y ddegfed o Ioan ronyn o argraff ar fy meddwl y boreu heddyw. Dymunwn gael 'myned i mewn trwy y drws i gorlan y defaid,'—i aelodaeth a swydd yn eglwys Dduw. Y mae rhai 'yn dringo ffordd arall.' Mae rhai yn dringo drwy rith gostyngeiddrwydd—trwy roi mawr serch ar, a gwneyd cyfeillach o ryw blaid yn yr eglwys, er mwyn cael eu dewis. O mae llawer ffordd o ddringo! ond lladron sy'n arfer dringo i dai—ac yn y nos yn gyffredin. Mewn amser nosog ar yr eglwys y mae dynion cnawdol yn gallu dringo i'w swyddau. O Arglwydd Iesu, dyro i mi ddyfod i mewn trwy y drws, fel y byddwyf cadwedig. Dyro ynof ofal am y defaid. Dyro fyned i mewn ac allan, mewn rhyddid, yn y gair a'r ordinhadau; rho i'm henaid gael porfa ynddynt. Pâr i'r defaid lliosog yn

Liverpool wrandaw ar fy llais i, a'm canlyn i, can belled ag y byddwyf finnau yn canlyn Crist. Y mae llywodraeth yn perthyn i'm swydd; gwared fi rhag bod hebddi, a rhag ei chamarfer—rhag ei cholli—ond ei harfer er adeiladaeth yr eglwys, ac mewn gostyngeiddrwydd mawr. Nid wyf fi ddim. 'Peth ar ei ben ei hun yw marwolaeth Crist.' Ioan x. 18.—1. Ni bu gosod y naill i farw dros y llall ond peth anfynych yn llywodraeth dynion, nac erioed o'r blaen yn llywodraeth Duw. 2. Ni chawd Person âg awdurdod ar ei einioes, ac yn foddlawn i'w rhoddi, erioed o'r blaen. 3. Ni sefydlodd Duw y fath beth ond unwaith yn unig. 4. Yr oedd i hyn ddiben arno ei hun, teilwng i'r gorchwyl mawr. 5. Yr oedd yma Berson arno ei hun, a digyffelyb addas i'r gorchwyl mawr. O Arglwydd, pâr i'r wybodaeth am Grist fod yn ardderchog yn ngolwg fy meddwl. Amen."

Nid oes ychwaneg i'w cael o'r Nodiadau dyddiol hyn. Gallem dybied fod Mr. Rees y pryd hwnw, yn neillduaeth ei ystafell bob boreu, yn myned yn rheolaidd dros Efengyl Ioan, mewn darlleniad, myfyrdod, a gweddi. Darllenwr a chwiliwr mawr ar y Beibl oedd efe. Dangosai ei holl bregethau, yn gystal a'i Sylwadau achlysurol mewn cyfarfodydd eglwysig a chynnulliadau o natur mwy cyhoeddus, yr hyddysgrwydd mwyaf yn yr Ysgrythyrau, a hyny nid yn unig fel gweithiwr yn gelfydd ac yn hylaw yn y defnydd o'i offer gwaith, ond fel un â bywyd ei ysbryd a hyfrydwch ei enaid yn ngeiriau yr Arglwydd. Ond er nad oes genym ychwaneg o'r nodiadau *dyddiol* uchod, y mae genym amryw sylwadau, a ysgrifenwyd ganddo yn mhen rhai misoedd ar ol hyn, mewn cysylltiad â rhai cofnodiadau o'i eiddo o'i lafur Sabbothol, y rhai sydd yn arddangos y dwysder a feddiannai ei enaid gydâ golwg arno ei hunan fel cristion, a'i ddifrifwch arbenig fel gweinidog.

"Medi 3, 1837. Bedford am 6: Heb. vii. 19. Cyfranu hefyd. Ar weddi daeth y gair hwnw i fy meddwl,—'Pan ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Sion, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio; yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu.' Mae pethau mawr yr efengyl yn aml fel breuddwyd

genym; y maent yn rhyfedd—yr ydym heb eu credu. Ond pan fyddo ffydd yn eu *realizio*, y mae'r genau yn cael ei lenwi â chwerthin, a'r tafod â chanu.

"Hydref 1. Bedford am 6: Psalm lxv. 3. Cyfranu y Swpper Sanctaidd. Mae genyf achos i ofni fod y Sabboth hwn wedi pasio heb nemawr o gymundeb â Duw, hyd weinyddiad y Swpper y nos. Yr ydwyf yn *recordio* tystiolaeth o'm diolchgarwch i ti, O Dduw, am yr arwyddion lleiaf dy fod heb fy ngadael! Cefais hyfrydwch yn darllen wrth y bwrdd, Heb. ix. 11—15; ac ar weddi llewyrchai i fy meddwl fod digon wedi ei wneuthur ar y ddaear i'r nefoedd, a bod digon yn y nefoedd i ninnau. Duw wedi cael digon yn fy natur i (yn Nghrist), a digon i minnau yn ei natur yntau."

Yn nglŷn â'r nodiad hwn am y Cymun yn Nghapel Bedford y pryd hyn, nis gallwn ymattal rhag sylwi ar yr hyn y cyfeirir eto yn helaethach genym ato,—yr arbenigrwydd neillduol a'i nodweddai ef, yn y gweinyddiad o'r Swpper Sanctaidd. Fe gofir hyd heddyw, am amryw droion hynod iawn iddo, yn neillduol yn hen Gapel Bedford, yn ei flynyddoedd cyntaf wedi ei ddyfodiad i'r dref. Clywsom Mr. David Roberts yn adrodd am rai tra annghyffredin. Unwaith pan oedd y gynnulleidfa ac yntau dan deimladau dwysion iawn, ac yntau yn myned oddiamgylch gydâ'r gwîn, fe safai ar ganol y llawr, a chan godi y cwpanau i fynu, un yn mhob llaw, fe waeddai, mewn hwyl nefolaidd,—"Yr wyf fi yn awr wedi pasio fy neugain mlwydd oed, a chyn pen deugain mlynedd eto mi a gaf 'ei weled megis ag y mae'—ei weled ef yn ei ogoniant; caf yn wir!" Daliodd pawb oeddent yn bresennol sylw neillduol ar yr ymadrodd hwnw; a soniwyd llawer am dano, gan rai sydd eto yn fyw, wedi ei farwolaeth ef. Tro hynod arall oedd, pan wedi arwain meddyliau yr holl gymunwyr i gymmydogaeth Calfaria, a dangos iddynt ryfeddodau y groes, fe safai ac a lefai, "Nid rhyfedd fod yr hen bregethwr hynod, John Jones o Dreffynnon, yn dyweyd wrth farw, 'Calfaria i fyw, Calfaria i farw, Calfaria *for ever!*' Ië, *for ever* yn wir a fydd hi yno hefyd. 'Felly y

byddwn yn wastadol gydâ'r Arglwydd' a fu farw drosom." Ryw dro arall dywedai,—"Wrth feddwl am yr adeg y byddaf farw, digon i mi a fydd cael cip-olwg ar werthfawr waed Crist.' Ond cael hyny, gallaf roddi hèr i holl ellyllon y tywyllwch. Edliwied uffern, taraned Sinai, melldithied Ebal, nid ofnaf, canys 'Efe yw yr Iawn!'" Y nos Iau canlynol, yn y cyfarfod eglwysig yn Bedford, yr oedd un hen chwaer, wrth adrodd ei phrofiad, yn dywedyd ei bod hithau yn teimlo yn debyg i Mr. Rees wrth y cymun, ac yn tybied y gallai hithau, fel yntau, hèrio'r diafol. "Ië, Ië," ebai yr hen flaenor, gonest ei galon ond brysiog ei leferydd, William Jones, y *Machine*,—"ond peidiwch chwi a gwneyd yn rhy hŷf ar y diafol, rhag iddo droi arnoch, a dywedyd wrthych, 'Paul a adwaen, a Rees a adwaen; ond pwy ydych chwi?'"

Y mae yn ymddangos, er ei fod ar y cwbl, yn cael iechyd da iawn y misoedd hyn, eto ei fod yn achlysurol, yn dioddef oddiwrth ryw waeledd a'i hanalluogai i bregethu ar rai Sabbothau. Yr ydym yn ei gael felly Awst 13, 1837, am yr hwn y dywed, "Yn fy ngwely yn sâl;" a thrachefn Hydref 7: "Rhy afiach i lefaru."

"Hydref 14. Oil Street am 9: Rhuf. iv. 20; Birkenhead, 2: Rhuf. iii. 23, 24; Rose Place, 6: Rhuf. iv. 20. Tywyll ar y cyfan oedd y Sabboth hwn hefyd. Cefais ryw lygedyn mewn gweddi yn Oil Street y boreu, ar y gair, 'A'u pechodau hwynt, a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.' Bedyddiais ddau faban, un â'i thad wedi marw fisoedd cyn ei geni, a'r llall â'i mham wedi marw ar ei genedigaeth. Boed yr Arglwydd da Dad i'r amddifaid hyn! Daliwyd fy llygaid yn effro neithiwyr ar hyd y nos, hyd ar ol un o'r gloch y boreu, i chwilio paham y mae yr Arglwydd yn fy ngadael yn fy llafur gweinidogaethol. Meddyliais am y pethau canlynol:—1. Eisiau nefol-frydedd a syniad ysbrydol. 2. Diffyg arfer duwioldeb gartref, tuag at fy ngwraig a'm teulu, mewn ymddyddanion duwiol, *ac felly yn mlaen*. 3. Dysgwyl gormod wrth awdwyr, yn lle cymmeryd y Beibl noeth a gweddi. 4. Diffyg yn fy llafur o wneyd pregethau, a diffyg, wrth bregethu y Beibl, o gyrchu at y dibenion oedd

gan yr Arglwydd yn rhoddi y Beibl: achub pechaduriaid ac adeiladu y saint; argyhoeddi, hyfforddi, a diddanu. Ni roes Duw ei air i neb i ddangos eu *heloquence* wrth ei bregethu. Prin yr oeddwn yn rhydd oddiwrth gynhyrfiadau drwg wrth glywed fod fy mrodyr yn pregethu yn rhagorol, a minnau yn sychlyd. Ond wrth fyfyrio ar y pethau uchod, a nesau at yr Arglwydd yn fy ngwely mewn gweddi am adferiad ac adfywiad, toddai 'm yspryd o'i genfigen i ganmol Duw, ffieiddio fy hun, a deisyfiadau am ei fendith yn helaeth ar lafur fy mrodyr y dydd a basiodd. Er tywylled oedd arnaf finnau, yr oedd ambell un yn wylo yn ddistaw. Mi a geisiais ocheneidio dros y rhai hyny, am i'r Arglwydd fendithio rhyw air a ddywedais iddynt. Mi a wylais lawer."

Y mae yn anmhosibl darllen y Nodiadau uchod, heb ganfod y gwyliadwriaeth manwl a gymmerid ganddo dros ei feddwl a'i galon ei hun, a'i ymdrech gwastadol yn erbyn pechod, hyd yn nod yn nyfnderoedd ei ysbryd, ac yn ei ffurfiau mwyaf dirgel a chuddiedig, hyd nes trwy râs Duw y caffai fuddugoliaeth hollol arno. Ac wrth ddarllen am dano yn cwyno o herwydd ei bregethu, y mae yn angenrheidiol i ni tuag at ei iawn-ddeall, gofio fod ei nôd ef yn uchel iawn, nid yn unig gydâ golwg ar gyfansoddiad ei bregethau, ond yn arbenig gydâ golwg ar yr effeithiau daionus a gynnyrchid trwyddynt. Nid cael rhyw fath o hwyl, fel y dywedir, a'i boddlonai ef; ond yr oedd am i bob pregeth ddeffro ystyriaethau a chyffroi cydwybodau ei wrandaẅwyr, a thrwy hyny sancteiddio eu calonau a'u bucheddau; ac os na byddai yn teimlo ei fod yn cael rhyw gymmaint o feistrolaeth arnynt trwy y gwirionedd i hyny, nis gallai lai na chyfrif ei bregethu, pa mor rwydd bynnag y gallai fod iddo ei hunan, ond egwan a diles! Ond y mae yn sicr fod y safon uchel a osodai iddo ei hunan, yn peri iddo weithiau gamgymmeryd, a theimlo sychder a chaledwch, pan fyddai llawer o'i wrandaẅwyr yn cael eu mwydo a'u hireiddio dan ei weinidogaeth. Addefa, yn wir, am y Sabboth y cwyna o'i herwydd yn y dyfyniad blaenorol, fod "ambell un yn wylo yn ddistaw;" ac

y mae yn dra thebyg fod Chwiliwr y calonau yn canfod, yn y cynnulleidfäoedd, aml un "cystuddiedig o yspryd, yn crynu wrth y gair."

"Hydref 21. Bedford, 9: Rhuf. iv. 20; Rose Place, 2: Heb. ix. 11, 12; Pall Mall, 6: Rhuf. vii. 23, 24, 25. Tebygwn fod doniau yr Yspryd beth bynnag, yn gweithredu gronyn yn fy meddwl wrth draddodi y gair heddyw; canys yr oeddwn yn fwy bywiog, gwresog, goleu, a hwylus, nag y byddaf pan yn cael fy ngadael yn gwbl i mi fy hun. Ond y mae eisieu yr Yspryd i weithio trwy y gwirionedd, yn gystal ag i gynnorthwyo i'w draddodi: a'i rasau yn gystal a'i ddoniau i weithrediad yn y meddwl."

"Hydref 28. Rose Place, 9: Heb. xii. 16, 17; Bedford, 2: Heb. ix. 11, 12; Oil Street, 6: Heb. ix. 11, 12. Bedyddio y boreu; Cyfranu y nos. Gronyn o oleuni wrth adrodd fod y pethau wedi eu cael i ni. Er y gallwn ni fod heb eu cael hwy, eto y maent hwy wedi eu cael i ni, odditan y *fforffet* fawr. Os caed hwy i ni, cawn ninnau hwynt. Holl ddarostyngiad y Cyfryngwr oedd y llwybr y caed hwynt."

Ar y dyddiau Mawrth, Mercher, a Iau, wedi y Sabboth hwn, Hydref 31, a Tachwedd 1, 2, cynnaliwyd Cymdeithasfa yn y Wyddgrug, lle y pregethodd Mr. Rees ddwywaith, am 10 boreu Iau, yn Nghapel y Wesleyaid, ar ol Mr. Parry o Gaer, oddiar Heb. xii. 18—21, ac yn yr hwyr yn Nghapel y Methodistiaid ar ol Mr. William Jones, Rhuddlan, oddiar Rhuf. vii. 23—25. Yr ydym wedi cyfeirio yn lled helaeth at y Gymdeithasfa hon, yn Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn, tudal. 244—246, gan ei fod ef wedi cael oedfa hynod a hynod iawn ynddi. Yr ydym yn cael yr adroddiad rhagorol a ganlyn am bregeth Mr. Rees y boreu, yn Nghapel y Wesleyaid, odditan law y ddiweddar Miss Jones o'r Wyddgrug, yn y Cofiant dyddorol ac adeiladol iddi a elwir "*Fy Chwaer*," gan ei brawd, y diweddar Mr. Thomas Jones (Glan Alun). Y mae Miss Jones yn ysgrifenu at gyfeilles iddi, Miss Anne Jones y pryd hyny o Lanidloes, wedi hyny, Mrs. T. F. Roberts, Dolenog, gerllaw y dref hòno. Fe ddywed Miss Jones:—

"Yr oedd hon yn un o'r pregethau mwyaf ofnadwy, sobr, ac effeithiol, a glywais erioed. Traddodid hi gydâ llai o'r egni corphorol â pha un y bydd Mr. Rees yn pregethu yn gyffredin, ond gydâ rhyw ddifrif-ddwysder ag oedd yn cyrhaedd pob calon. Safai yn ddistaw ar gyfyngau. Yr oedd yn amlwg fod pawb yn teimlo. Yr oedd Yspryd yr Arglwydd yno. Un gŵr hynod o annuwiol a aeth adref o'r Capel, ac a ddywedodd wrth ei wraig, 'Wel, yr wyf fi wedi bod wyth mlynedd a deugain yn elyn i Dduw; ac y mae Mr. Rees wedi dywedyd y gwir wrthyf: rhaid i mi yn fuan gyfarfod â Duw wyneb yn wyneb, pan na bydd modd ymguddio o'i ŵydd.' Y mae effaith y bregeth yn parhau arno; daeth i'r Capel neithiwr (sef y nos Sabboth canlynol i'r Gymdeithasfa), er nas gwelais ef yno erioed o'r blaen. Gobeithiaf y bydd y tro yn wir er cyfnewidiad achubol iddo. Y peth cyntaf gan Mr. Rees oedd dangos y gwahaniaeth rhwng yr hen oruchwyliaeth a goruchwyliaeth yr efengyl; ein bod ni yn cael dyfod at fynydd Sïon yn lle at fynydd Sinai. Yr oedd ei ddesgrifiad o'r 'mynydd teimladwy,' sef Sinai, yn ofnadwy; fod yno dân, a chwmwl, a thywyllwch—y tân ddim yn goleuo y tywyllwch, a'r tywyllwch ddim yn cuddio y tân, ond y naill yn gwneyd y llall yn fwy ofnadwy; fod y mynydd yn deimladwy: 'os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd, efe a labyddir.' Yr oedd ef yn dychymygu fod yr Arglwydd yn ei ragluniaeth wedi denu yr holl greaduriaid oddiar y mynydd cyn disgyn yno, neu ynte fod y tân wedi disgyn a'u hysu hwynt oll. Am y ddeddf, sylwai ein bod ni yn gosod y plant lleiaf yn yr Ysgol Sabbothol i adrodd y Deg Gorchymyn, a bod pobl mewn oed fel pe baent yn meddwl ei fod islaw iddynt hwy eu hadrodd, ond y bu yr Arglwydd yn eu hadrodd ei hun, ac y deuai i'w hadrodd eto yn ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i annghyfnewidioldeb. 'Ac yr wyf fi weithiau yn meddwl,' meddai, 'wrth ystyried agwedd ddigyffro a chysglyd proffeswyr yn y dyddiau hyn, y bydd i'r Arglwydd ddyfod atom mewn rhyw droion chwerwon yn ei ragluniaeth i ymweled â ac i ddeffroi cydwybodau y cyfryw i sylwi ar ei ddeddfau. Nid pan yr oedd Israel mewn dinas

gaerog, lle yr oedd digon o dyllau i ymguddio, na phan oeddent yn nghanol gwlad boblogaidd, lle y buasai ganddynt ddigon o gwmni, yr ymddangosodd Duw i roddi ei ddeddf iddynt, ond pan yr oeddynt yn yr anialwch,—mewn lle amlwg, *plain*, heb un lle i lechu, heb neb yn bresennol ond yr Arglwydd a hwythau—yn gorfod sefyll wyneb yn wyneb. Fel hyn y bu ar Israel: ac fel hyn y bydd hi ar bob un sydd yma, mor sicr â'ch bod yma. Bydd Duw yn cyfarfod â phob un o honoch mewn argyhoeddiad cyn angau, neu ynte ar fin afon angau, neu ynte yn y farn wedi angau, pryd y bydd raid sefyll wyneb yn wyneb. Yr ydych chwi yn awr, os bydd rhywbeth yn cyfarfod â'ch meddwl yn yr odfäau, yn ffoi i'ch tyllau, at eich galwedigaethau bydol, neu eich pleserau; ond yn y dydd hwnw, ni bydd genych un lle i ymguddio!' Wrth ddangos gwerth Cyfryngwr, sylwai, 'Gallasai yr Arglwydd ddywedyd wrth Moses, Mi gymmerais lawer o drafferth, Moses, i'th barotoi i fod yn arweinydd i'r bobl hyn: dy ddwyn i fyny yn y llys, yn holl ddoethineb yr Aipht, rhoi *education* i ti wedi hyny ddeugain mlynedd yn anialwch Midian: ac eto nid yw'r bobl yn gweled dim gwerth ynot; nid oes arnynt eisiau arweinydd. Ond mi ddisgynaf fi ar Sinai, a gwnaf iddynt dy werthfawrogi; rhoddaf iddynt y fath amlygiad o honof fy hun, nes y byddant yn gwaeddi, Llefared Moses wrthym ni!' Yna cymharai Grist â Moses. 'Bu llawer o wneyd ar Grist i fod yn addas Gyfryngwr i bechadur: ei wneuthur o wraig—ei wneuthur dan y ddeddf, &c.; ac eto nid yw y bobl yn gweled gwerth Cyfryngwr, hyd nes y teimlant ddychrynfeydd Sinai, gofynion a bygythion cyfiawn y ddeddf.' Ni rydd hyn ond *idea* anmherffaith iawn o'r bregeth; yr wyf yn ysgrifenu o'm côf yn unig."

Am bregeth Mr. Rees yn yr hwyr, yn yr un Gymdeithasfa, ysgrifena Miss Jones yn yr un llythyr fel y canlyn:—

"Pregeth felus a threiddgar iawn, yn darlunio milwriaeth y cristion, a gallu a dichell Satan, eto yn llawn cysur i'r gwir gristion. Tybiais ei fod yn darlunio rhai o'm teimladau i. Synwn ei fod ef, yr hwn, tybygaf, sydd yn byw mor agos at yr

Arglwydd, yn meddu yr un profiad, am dwyll y gelyn a'r galon, â myfi. Yr wyf yn sicr ei fod yn pregethu oddiar brofiad; yn wir, nis gallai bregethu felly ond oddiar ei brofiad ei hun."

"Nid oes eisieu," medd Mr. Roger Edwards, yn Nghofiant Miss Jones, "chwanegu at yr hyn a ddywedir gan y dduwiol a'r athrylithgar Miss Jones, ond gallaf fi, fel un oedd yn gwrandaw y ddwy bregeth, gadarnhau yr hyn a ddywed hi. Yr oedd Mr. Elias yn pregethu yn Nghapel y Methodistiaid, oddiar Ezec. viii. 6, ar yr un amser ag yr oedd Mr. Rees yn Nghapel y Wesleyaid; ac yr oedd pregeth y tywysog o Fôn yn cael dylanwad anarferol ar y dorf a'i gwrandawent. Yr oedd y ddwy gynnulleidfa yn dyfod allan o'r gwahanol Gapeli tua'r un amser; a phan yr oedd cyfeillion neu gydnabod yn cyfarfod â'u gilydd, dywedai y naill, —'O! chwi a gawsoch golled am na buasech gydâ ni; ni a gawsom bregeth heb ei bath gan Mr. Elias;' ac atebai y llall, 'Nid oedd bosibl i bregeth Mr. Elias ragori ar bregeth Mr. Rees; yr oedd efe yn pregethu mewn modd digymhar heddyw;' ac felly yr oedd pob un wrth ei fodd yn canmawl y weinidogaeth y buasai efe tani."

Yr ydym yn awr yn dychwelyd at gofnodiadau Sabbothol Mr. Rees, lle yr ydym yn ei gael drachefn yn achwyn arno ei hun, a thrachefn yn bendithio ei Dduw.

"Tachwedd 5, 1837. *Pall Mall,* 9: Rhuf. iv. 20; *Rose Place,* 6: Micah vii. 14. Dim llawer i'w ddyweyd am heddyw. Lled farwaidd oedd fy serchiadau, a lle i ofni fy mod wedi pregethu a Chyfranu y Sacrament heb nemawr o gymdeithas â Duw. O na ddarfyddai y dull hwn o wasanaethu Duw!"

"Tachwedd 12. *Oil Street,* 9: Ezec. xviii. 30—32; *Pall Mall,* 2: Mic. vii. 14; *Bedford,* 6: Ezec. xviii. 30—32. Bendigedig fyddo Duw! Yr oedd fy nghadwynau yn ronyn llacach heddyw yn y gwaith nag arferol; ymroddiad ac awydd fy meddwl yn fwy; hyfdra a rhyddid, a nerth a medr i amcanu at gydwybod y gwrandawwyr yn fwy; rhyw bethau yn llewyrchu i fy meddwl ar y pryd, wrth draddodi y gwirionedd, nad oeddwn wedi eu gweled o'r blaen; arwyddion fod y gair yn cydio yn nghydwybod ambell un; a thueddiad yn fy meddwl a'm serch-

iadau at yr Arglwydd, mewn diolchgarwch a mawl, ar ol i'r ddyledswydd gyhoeddus fyned drosodd. 'Bendigedig fyddo Duw, yr hwn ni thrôdd fy ngweddi oddiwrtho, na'i drugaredd ef oddiwrthyf finnau.' O y mae Basan a Charmel mor frâs eto ag erioed! Dwg, cadw, fy enaid yno i bori, O Arglwydd. Na âd i mi gilio oddiwrthyt yr wythnos hon eto. Rho râs i orchfygu meddyliau drwg, tymherau drwg, ac i aros yn mhethau yr efengyl. Clywais fod yr Arglwydd gydâ'm brodyr hefyd yn y gwaith heddyw. Boed eu llwyddiant hwy yn gymmaint o lawenydd i mi, os yw yn bosibl i'r natur ddynol gyrhaedd hyny, â'm llwyddiant fy hun."

Yma dilyna cofnodiadau am bedwar o Sabbothau yn olynol, y lleoedd a'r testynau, tair pregeth bob Sabboth—un o honynt, Rhagfyr 10, yn y Wyddgrug y boreu, Ezec. xviii. 30—32; Buckley, 2: Heb. ii. 14; Wyddgrug, 6: Deut. iv. 7—ond heb un sylw pellach arnynt, nac am ei deimladau o berthynas iddynt. Yna cawn,—"Rhagfyr 17. *Rose Place*, 9: Heb. ii. 14; *Birkenhead*, 2: Ezec. xviii. 30—32; *Pall Mall*, 6: Ezec. xviii. 30—32. Gradd o ymroddiad i'r gwaith drwy'r dydd. Rhyddid yn y weddi cyn cyfranu. Iesu Grist yn y nef, ac felly sail i ddysgwyl yr Yspryd Glân i'r ddaear."

"Rhagfyr 31. *Rose Place*, 2, *Bedford*, 6: Luc. xiii. 6—9. Neithiwyr, am naw o'r gloch, gorphenais fy llafur am y flwyddyn a aeth heibio; ac yr oedd fy llafur ddoe yn ddarluniad digon cywir o'm llafur ar hyd y flwyddyn: sychlyd, cymmysglyd, a diffrwyth ddigon. Ond y mae wedi myned heibio. Dim astudio mwy; dim gweddïo mwy; dim pregethu pregeth byth eto, yn y flwyddyn 1837. Maddeued yr Arglwydd, drwy ei drugaredd yn Iawn Crist, bechodau y flwyddyn a ddiweddodd neithiwyr; ac O! rhoed râs mwy i dreulio y flwyddyn sy'n dechreu heddyw. Gwasanaethu yr Arglwydd y byddwyf gydâ mwy o ostyngeiddrwydd; mwy o ddagrau; llygad mwy syml at ei ogoniant: yn llai hunanol; mwy o nefol-frydedd; yn fwy mewn myfyrdod a gweddi."

Wedi i ni ddyfod i'r flwyddyn newydd, nid ydym yn cael

unrhyw gofnod ganddo am fis Ionawr, oddieithr yn unig y lleoedd y pregethai ynddynt a'r testynau, heb un cyfeiriad at ei deimladau; ac yn fuan iawn bellach, y mae y cofnodion hyn, yn mhob ffurf, yn darfod yn hollol. Ond ni a ddodwn i mewn yr hyn sydd genym:—

"Chwefror 4, 1838. Bedford, 9: Amos iv. 12; Pall Mall, 6: Amos iv. 12. Diffyg gras a'r doniau gweinidogaethol mewn gweithrediad, a deimlwn yn fawr y dydd a basiodd. Rhy oer, rhy iach, rhy bell, rhy gnawdol oeddwn. Darllenais, y boreu heddyw, y bennod gyntaf o'r Philippiaid ar fy ngliniau; a dygid fy enaid i fendithio Duw am y gras a'r rhyfeddodau annhraethol y mae yn gynnwys. Ond Oh teimlwn, er fod fy ngeiriau yn anabl i arllwys fy nheimladau, eto nad oedd gweithrediadau fy meddyliau a'm teimladau ond egwan hollol, a chwbl analluog i un gweithrediad; mewn dirnad, caru, ac addoli,—cyfatebol a theilwng i bethau mor fawr. Oh a oes dim mwy na hyn i'r Duwdod gael, wedi iddo ymagor yn rhyfeddodau ei natur a'i gyngor, mewn modd mor rhyfeddol! 'A pha beth mwyach a ddywed Dafydd ychwaneg wrthyt?'"

"Chwefror 11. Oil Street, 9: Psalm xliv. 20, 21; Birkenhead, 2 a 6: Amos iv. 12 a Psalm xliv. 20, 21. Mi a lafuriais lawer gydâ Psalm xliv. 20, 21, dros lawer o ddyddiau. Ond dilun iawn ydoedd wedi'r cwbl; rhy faith a chwmpasog. Nid oes dim pregethu heb Ysbryd yr Arglwydd. Mae pob llafur yn gwywo ac yn diflanu dan fy nwylaw. Y boreu heddyw cefais hyfrydwch mewn gweddi, wrth gofio fod yr Iachawdwriaeth o ras, trwy haeddiant y Cyfryngwr. Nid dim da ynof fi yw y sail i fy ymgeleddu; ac nid dim drwg ynof a ddichon luddias rhad ras."

Ar ddydd Gwener, Mawrth 2, yr oedd mewn Cyfarfod Misol yn Ninbych, ac yn pregethu yno y boreu, oddiar Psalm xliv. 20, 21; a'r hwyr, oddiar Amos iv. 12. Y Sabboth canlynol, Mawrth 4, yr oedd yn Towyn y boreu, ac yn Abergele yr hwyr; a thrachefn yn Abergele nos Lun.

"Mawrth 18. Rose Place, 2: Psalm xliv. 20, 21; Pall Mall, 6:

Eph. v. 25. Cyfranu. Crist yn ymddangos yn werthfawr—yn Nwyfoldeb ei Berson, ei gnawdoliaeth, ei angau a'i eiriolaeth."

Yr oeddem ni yn gwasanaethu yr achos yn Liverpool a Manchester, dros Sir Gaernarfon, yn ol y drefn y pryd hyny, am fis Chwefror, ac fe'n perswadiwyd gan gyfeillion Liverpool i aros gydâ hwynt dros fis Mawrth, a rhan o Ebrill hefyd. Yr ydym yn cofio yn dda fod Mr. Rees yn dygwydd bod yn gwrandaw arnom yn Rose Place y boreu hwn, Mawrth 18, y tro cyntaf i ni bregethu yn ei glyw. Nid oeddem yn deall ei fod yn y Capel nes oedd yr oedfa drosodd; a phan yn ymliw âg ef, dywedai yn hanner chwareus, ac eto yn amlwg gydâg amcan difrifol,—fod yn bwysig i bregethwr bob amser gofio nad ŵyr e yn y byd pwy a all fod yn gwrandaw arno. Yr oedd y diweddar Mr. Edward Hughes o Aberystwyth, y pryd hyny o Lanidloes, yn pregethu yn Oil Street neu yn Rose Place y nos: ac ar ol pregethu fe wnaeth frys i gyrhaedd Pall Mall, er mwyn clywed Mr. Rees yn gweinyddu y Swpper Sanctaidd. Yr oeddem ni yn pregethu yn Bedford y nos, ac yr oeddem ein dau yn lletya gydâ Mr. Lloyd, yn Ray Street. Wedi i ni gyrhaedd ein llety, dywedai Mr. Hughes wrthym fod y cymun yn Pall Mall, y noswaith hòno, y peth tebycaf i'r nefoedd, yn ol ei feddwl ef, a allasai fod ar y ddaear. Yr oedd Mr. Hughes i gael ei neillduo i'r holl waith, yn y Bala, yr hâf canlynol; ac yr oedd yn dychryn wrth feddwl pa fodd byth y gallai weinyddu Swpper yr Arglwydd, wedi bod yn dyst o'r fath ysbrydolrwydd a nefoleidd-dra.

Gydâ y nodiad canlynol, y mae yr adroddiadau a'r sylwadau hyn o'i eiddo yn darfod yn gwbl:—

"Tachwedd 21 (dydd Mercher). Aeth holl fisoedd yr hâf a'r cynhauaf heibio heb i mi ysgrifenu dim. Bum yn y Bala yn y Gymmanfa, ac hefyd dro byr yn y Deheudir: Cymmanfa Aberteifi. Bum hefyd yn Nghymmanfa Bangor yn mis Medi."

Am y Cymdeithasfäoedd y cyfeiria efe yma atynt, cawn ei fod yn y Bala, Mawrth, Mercher, a Iau, Mehefin 12, 13, 14, ac yn pregethu yno yn y Capel, y nos Fawrth, oddiar Luc ix. 61.

62; a thrachefn ar y maes, am ddau ddydd Iau, oddiar Rhuf. viii. 18—23. Yr oedd yr oedfa yn y Capel yn un hynod iawn; ac yn gafael yn gref yn meddwl a chalon yr holl gynnulleidfa. Aeth o'r Bala i Gymdeithasfa flynyddol Môn, yr hon a gynhelid yn Amlwch, lle y pregethodd y prydnawn cyntaf oddiar Psalm xc. 12; ac am ddeg drannoeth, oddiar Esaiah xiv. 32. Gydâ golwg ar Gymdeithasfa Aberteifi, yr oedd, ar ei ffordd yno, yn Aberystwyth y Sabboth cyntaf yn Awst, ac yn pregethu yno ddwywaith. Yr oedd yn Aberaeron, yr ydym yn tybied, nos Lun. Daeth i Aberteifi ddydd Mawrth, oblegyd yr ydym yn ei gofio yno yn gwrando y noswaith hòno. Pregethodd yn Aberteifi ddwy waith ar y maes: y prydnawn cyntaf, oddiar Psalm xc. 12, ac am ddeg drannoeth, oddiar Psalm xliv. 20, 21. Yr oeddem ni yno, ac yn gwrandaw arno, y ddau dro. Yr oedd y bregeth am ddeg yn un nerthol ac argyhoeddiadol iawn, ac yn cael ei thraddodi gydâ difrifwch a grym mawr; ond y bregeth, y prydnawn cyntaf, oedd y fwyaf arbenig am ei heffeithiolrwydd. Dyna y tro cyntaf i ni glywed y bregeth ar "gyfrif ein dyddiau;" a dyna, yn sicr, y tro mwyaf effeithiol arni a glywsom ni erioed. Yr oedd pob cnawd oedd yn gwrandaw, ni a dybygem, yn gorfod teimlo fod "eglurhad yr Ysbryd," ac eglurhad "nerth," gydâ'i weinidogaeth y prydnawn hwnw. Yr oedd y cannoedd oeddent o'i flaen megis wedi eu rhwymo wrth ei wefusau, ac yn ymddangos fel wedi colli pob meddwl arall, yn eu pryder am fod yn ddoeth erbyn y diwedd.

Aeth o Aberteifi i Gaerfyrddin at y nos Wener, a'r Sabboth canlynol, a'r nos Lun ar ol hyny. Oddiyno at y Mercher a'r Iau i Abertawe, i Gyfarfod Misol, lle y pregethodd dair gwaith. Aeth i amryw leoedd yn Sir Forganwg, megis Castell Nedd, Aberafan (lle y treuliodd Sabboth), Penybont, Caerdydd (lle y bu drannoeth mewn Cyfarfod neu Wyl Ddirwestol), Llantrisant, Pontypridd, Merthyr (nos Fercher a boreu Iau), a thrwy Aberhonddu i Landrindod, lle yr arhosodd rai dyddiau; ac oddiyno dychwelodd adref. Yn fuan iawn wedi iddo gyrhaedd adref, fe gychwynodd drachefn tua Chymdeithasfa Bangor, yr hon a

gynhelid Medi 11, 12, 13. Pregethodd yno y nos Fawrth, yn y Capel, oddiar Eph. iii. 19; a dydd Iau am ddau, ar y maes, oddiar 1 Petr i. 18, 19. Yr oedd y tro hwn ar y maes yn Mangor, yn sicr yn un annghyffredin iawn. Yn yr eglurhad goleu a roddid ganddo ar ystyr a gwerth "*Gwaed Crist*," a'r eneinniad rhyfedd oedd ar ei ysbryd ef ei hunan, a thrwyddo ef i fesur mawr, ar yr holl gynnulleidfa, nid yn fynych y cafwyd oedfa hynotach; ac er fod wyth mlynedd a deugain wedi myned heibio er hyny, yr ydym yn awr fel yn ei glywed yn gwaeddi, "Ië, Sina, tarana; Ebal, melldithia; Orsedd Duw, melltena; Satan, cyhudda; Gydwybod euog, condemnia: ond yn nghanol taranau Sina, yn sŵn melldithion Ebal, ger bron tanbeidrwydd dysgleirdeb yr orsedd, er holl ddannodiadau y gelyn, ac yn ngwyneb holl edliwiadau y galon,—Bechadur colledig, gobeithia! gobeithia!! 'Crist yw yr hwn a fu farw.'" Yr ydym yn cael ein temtio i ymdroi yn hir gydâ'r bregeth hon; ond y mae i'w chael yn gyflawn, fel ag y gadawwyd hi ganddo ef ei hunan, ac wedi ei choethi i'r eithaf, yn y gyfrol gyntaf o'i *Bregethau*, tudal. 217—243; ac am hyny yr ydym yn ymattal.

Ar ol hyn, efe a aeth i Gymdeithasfa Llanrwst, yn niwedd Rhagfyr, 1838, gan roddi taith i bregethu am naw diwrnod neu fwy, cyn ac ar ol y Gymdeithasfa, yn Siroedd Dinbych a Fflint.

Yn y flwyddyn 1838, fe ychwanegwyd yn ddirfawr at gysur Mr. Rees, trwy ddyfodiad y diweddar Barch. John Hughes, i breswylio yn Liverpool. Daeth yma, ar y cyntaf, fel arolygwr masnach gyfanwerth *(wholesale)*, yn yr hon yr oedd ei hunan yn gyfranog. Ond ni pharhäodd yn hir gydâ'r fasnach hòno, a bu am ryw dymhor mewn swyddfa masnachwr arall, lle nad oedd ei waith ond ysgafn, a lle yr oedd yn cael llawer iawn o amser, bob dydd, at ei wasanaeth ei hun. Ac yr oedd ei holl nosweithiau yn rhydd ganddo, i'w defnyddio fel y mynai. Fel ag y gallesid dysgwyl, fe'i gelwid i bregethu bob Sabboth, yn yr amrywiol Gapeli, ac yr oedd ei weinidogaeth yn nodedig o gymmeradwy yn yr holl gynnulleidfäoedd; ac, fel ag y dywedir

yn ei *Gofiant* (tudal. 109), "yr oedd gan eglwysi Liverpool ddigon o ddoethineb—ac nid oedd angen am lawer—i weled mai dyn i'r pulpud, ac yn neillduol i bulpudau Liverpool, oedd Mr. Hughes, ac y gallai aml fachgen dwl a didalent wneyd y tro yn Swyddfa y masnachwr yn gystal ag yntau." Ac felly yn y flwyddyn ganlynol, 1839, galwyd ef gan yr eglwysi yn unfrydol i ymryddhau yn gwbl oddiwrth orchwylion y Swyddfa, ac i ymroddi yn hollol i wasanaeth yr efengyl yn eu plith, fel cyd-lafurwr â Mr. Rees, ac ar yr un ammodau. Cydsyniodd yntau â'r alwad; ac ymroddodd gydâg egni a dyfalwch a medrusrwydd a ffyddlondeb annghyffredin, yn y cyflawniad o'r dyledswyddau pwysig a ddisgynent arno o hyny hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd y naill yn adwaen y llall er ys llawer o flynyddoedd, ac yr oeddent yn meddwl yn uchel iawn am eu gilydd; ond nid oeddent wedi cael llawer o gyfleusderau i gyfeillachu â'u gilydd; ac yr oeddent yn cael eu hystyried fel yn perthyn i'r pleidiau gwahanol, ag oeddent y pryd hyny yn cael eu tybied yn ffynu yn ein plith fel Cyfundeb, ac yn peri cryn lawer o annghysur yn enwedig yn Sir Fflint. Rhoddodd Mr. Rees, pa fodd bynnag, y derbyniad mwyaf croesawgar i Mr. Hughes ar ei ddyfodiad cyntaf i'r dref, gan wneuthur ei oreu i'w dynu i mewn, fel ei hunan, i gymmeryd rhan yn arweiniad yr Achos. Efe yn wir oedd yr un a ddangosai yr awydd mwyaf ac a ymdrechodd benaf, os nad efe a feddyliodd gyntaf, am iddo gael ei ryddhau oddiwrth bob gofal arall, a'i alw yn gwbl at y weinidogaeth; ac yr oedd cydfod hollol, yr hwn a gynnyddodd yn fuan yn anwyl-deb mawr, rhyngddynt â'u gilydd hyd y diwedd. Cafodd Mr. Rees gymdeithas Mr. Hughes yn fwyniant dirfawr, nad oedd prin erioed wedi cael dim cyffelyb; ac nid yn unig hyny, ond fe fu ei gymdeithas yn foddion adeiladaeth nid bychan iddo. Yr oedd ei ysbryd boneddigaidd, ei dymher siriol, ei wybodaeth ëang, ei ryddfrydigrwydd trwyadl, ei bwyll a'i arafwch, ac elfenau rhagorol ereill amryw, a berthynent i'w gymeriad, yn gwneuthur Mr. Hughes yn gyfaill gwir werthfawr; ac nid oedd neb medr-usach nag ef, pa un bynnag ai mewn ymddyddan cyfeillgar yn

y gongl, ai mewn cyfarfod eglwysig weithiau, i dynu Mr. Rees allan, yn ei holl alluoedd, i amddiffyn rhyw olygiad neu arall o'i eiddo. Gydâ'r amcan hwnw, weithiau, fe ddadleuai ac fe wrthddadleuai Mr. Hughes, mewn tymher mor dda, mewn dull mor ddeheuig, a chydâ iaith mor eglur a choeth, yn erbyn rhyw syniad neillduol y gwyddai a goleddid gan Mr. Rees, nes ei dynu yntau allan, yn ei holl ymadferthoedd, yn ei blaid. A difyrus iawn fyddai ei weled wedi ei gynhyrfu felly, yn cyfodi ar ei draed, yn cerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd yr ystafell, yn estyn ei freichiau hirion, yn codi ei lais, yn twymno yn ei dymher, ac yn bwrw allan lifeiriant o hyawdledd; a Mr. Hughes yn chwerthin yn galonog wrth wrandaw arno, ac wrth weled ei amcan ei hunan, yn dwyn y cwestiwn i sylw, wedi ei gyrhaedd ganddo. Y mae yn ddiammeu fod cymdeithas Mr. Hughes wedi bod yn foddion i arwain meddwl Mr. Rees, i gymmeryd golwg eangach ar drefn yr efengyl, yn ei pherthynas â rhyddid ac â chyfrifoldeb dyn, nag a arferasai gymmeryd cyn hyny, ac nag a gymmerid yn gyffredin gan yr hen Dduwinyddion yr oedd efe wedi cymdeithasu yn benaf â hwynt, a'r rhai yr oedd ganddo, hyd y diwedd, y fath barch iddynt. Ac yr oedd cael y fath ddylanwad ar ei feddwl ef yn rhywbeth ag y mae yn anmhosibl traethu ei werth, i Fethodistiaeth Cymru, yn y blynyddoedd a ddilynasant. Nid oes un amheuaeth nad oedd y ddau dywysog Methodistaidd yn Liverpool yn cael i'r graddau helaethaf yn eu gilydd, a chyhyd ag y cawsant gyd-fyw a chyd-lafurio, yr hyn yr oedd Paul yn attolygu am dano oddiwrth Philemon:—"Gad i mi dy fwynhau di yn yr Arglwydd."

Ychydig wythnosau cyn i Mr. Rees ymsefydlu yn Liverpool, yr oedd Mr. Williams,—Williams o'r Wern, cyn ac wedi hyny,—hefyd wedi symmud yma, ac fel ag y gallesid dysgwyl yr oedd ei weinidogaeth yn dra chymmeradwy ac yntau ei hunan yn mhob cylch yn dra phoblogaidd. Yr oedd y ddau bregethwr mawr yn nghyrhaedd eu gilydd: ac er nad oeddent yn cael cyfleusderau mynych i gyd-gyfarfod mewn rhydd-gyfeillach, yr oeddent yn cael hyny weithiau, ac yr oeddent yn aml gydâ'u gilydd mewn

cyfarfodydd o wahanol natur, yn enwedig Cyfarfodydd y Gymdeithas Ddirwestol, y rhai oeddent y pryd hyny yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac oeddent yn hynod o boblogaidd. Ymunodd y ddau â'u gilydd unwaith, yn ol pennodiad Pwyllgor y Gymdeithas i ysgrifenu papur ar "*Y Fasnach Feddwol*," yr hwn a gyhoeddwyd yn y Dirwestydd am Tachwedd, 1837, ac a ddaeth allan wedi hyny yn draethodyn wrtho ei hun. Daeth Mr. Rees, trwy ei gydnabyddiaeth â Mr. Williams, i goleddu meddyliau uchel iawn am dano, yn enwedig a defnyddio ei eiriau ei hunan, am "ei synwyr cyffredin annghyffredin, a'i awydd amlwg, ac eto hollol ddirodres, i fod yn wir ddefnyddiol." Yr oedd Mr. Williams, o'r tu arall, yn edmygu Mr. Rees yn fawr iawn. Ni chollai byth unrhyw gyfleusdra a gaffai i fyned i wrandaw arno, pan y dygwyddai fod yn pregethu yn rhywle yn ei gyrhaedd ar un o nosweithiau yr wythnos. Ac yr oedd bob amser yn ei fwynhau yn fawr, a gwelwyd ef yn fynych yn wylo wrth wrandaw arno. Byddai yr un pryd yn teimlo ei fod yn dwyn gormod o fater i mewn i'w bregeth, ac yn rhoi gormod o dreth ar sylw ei wrandawwyr; a thybiai y buasai y bregeth yn fwy buddiol pe buasai yn llai. Clywsom gyfaill yn dywedyd ei fod ef yn cyd-gerdded â Mr. Williams ryw noswaith hyd at ei dŷ yn Islington, ar ol bod yn gwrandaw eu dau ar Mr. Rees yn Pall Mall. Wedi i Mr. Williams siarad a chanmol llawer ar y bregeth, o'r diwedd, meddai,—"Ond yr oedd hi yn bregeth rhy fawr o lawer; yr oedd yn beichio gormod ar y bobl. Hi wnelsai dair o rai da iawn. Yr wyf fi yn sicr fy mod i i fynu â'r cyffredin oedd yn y Capel yna heno, eto yr oedd hi bron a fy llethu i; ac yr oeddwn i agos a meddwl ei fod ef ei hunan yn cael digon o waith gydâ hi." Y mae y sylw yna yn cyfateb yn gwbl i sylw arall o eiddo Mr. Williams am dano, a roddir i ni gan ei frawd:—"Mae yn gofus genyf," meddai Dr. Rees, "pan oedd yn byw yn *Phythian Street*, yn fuan wedi iddo symmud i Liverpool, i mi dalu ymweliad âg ef gydâ y diweddar Williams, o'r Wern, yr hwn oedd yntau yn byw yn Liverpool y pryd hwnw. Wedi ychydig ymddyddan, dywedodd fy mrawd, ei fod er ys

dyddiau yn trafferthu gydâ rhyw destyn ag y teimlai awydd pregethu arno, ac yn methu cael boddlonrwydd iddo ei hunan ar ei wir feddwl. 'Y mae yr esbonwyr yma sydd gen' i, yn fy nyrysu,' meddai, 'yn hytrach nag yn fy moddloni arno. Ac y mae rhywbeth yn dyweyd ynof, nad oes yr un o honynt wedi gallu myned i ysbryd ei feddwl; ac yr wyf yn methu myned iddo fy hun, i ddim boddlonrwydd.' Cynnygiodd Mr. Williams ryw syniad ar y testyn i'w sylw. Bu yntau yn ddystaw am enyd, gan droi y syniad hwnw yn ei fyfyrdod. Ac, eb efe, yn mhen ychydig,—'Y mae rhywbeth yn y golygiad yna yn siwr; ond y mae yn amheus gen' i ai dyna yw y cneuwllyn, er hyny.' Yn ystod yr ymddyddan, dywedai Mr. Williams:—'Pregethwr didrugaredd iawn i bregethwyr ereill ydych chwi.' 'Wel, paham yr ydych yn dyweyd hyny?' gofynai yntau. 'Paham? Am fod arnoch eisiau dihysbyddu pob testyn yr ymafloch ynddo, fel na fedro neb bregethu arno ar eich ol.' 'Beth a wnai y dyn a ddeuai ar ol y Brenhin?' 'Y mae Henry Rhys wedi bod yn pregethu ar y testyn hwn, ni wiw i neb gynnyg arno ar ei ol o, ddywed pob pregethwr.' 'Wel, sut y byddwch chwi yn gwneyd?' gofynai y llall. 'Wel, cymmeryd y byddaf fi,' meddai Mr. Williams, 'ryw feddwl neu awgrym fyddo yn y testyn yn ateb i'r pwrpas fyddo genyf ar y pryd mewn golwg, a cheisio gwneyd y goreu a allaf o hwnw; a gadael y testyn fel y gallaf fi fy hunan a phob un arall a ewyllysio, fyned ato rywbryd drachefn.' 'O,' ebai yntau, 'fe fydd digon yn mhob testyn ar fy ol innau.' 'O,' meddai Mr. Williams, 'ni raid i'r testyn na neb arall ddiolch i chwi am hyny;' ac ar hyny chwarddodd y ddau." Gresyn na buasai genym fwy o Adgofion am y gwŷr enwog hyn pan y dygwyddent gyfarfod â'u gilydd.

Rhwng y cyfeillion newydd a ennillodd wedi ei ddyfodiad yma, y sirioldeb mawr a ddangosid tuag ato gan yr holl frawdoliaeth, y gymmeradwyaeth gyffredinol a roddid iddo gan y gwahanol gynnulleidfäoedd, yr effeithiau bendithiol a ddilynent ei weinidogaeth pa le bynnag y pregethai,—yn gysylltiedig â'r iechyd da a fwynheid ganddo ef a'i deulu, ac yn arbenig, y

cymundeb cyson a gedwid ganddo rhyngddo â'i Dduw,—yr ydym yn tybied, er y llafur dirfawr yr oedd yn gorfod ymroddi iddo, gartref ac oddicartref, eto fod ei flynyddoedd cyntaf hyn yn Liverpool, yn rhai nodedig o gysurus iddo ef ei hunan, fel yr oeddent, yn ddiammeu, yn rhai tra llwyddiannus ar achos crefydd, yn mhlith ein cenedl yn y dref.

---

[NODIAD.—Ni a ddymunem i'n darllenwyr gadw mewn côf, gydâ golwg ar yr amgylchiadau a'r dygwyddiadau y cyfeirir genym atynt, o bryd i bryd, yn y Cofiant hwn, ein bod yn cymmeryd eu *hamseriad*, oddiar yr adeg ag yr oeddem ni yn ysgrifenu am danynt, ac nid oddiar yr adeg ag y mae y gwaith yn cael ei gyhoeddi. Felly, pan y sonir genym am ryw amgylchiad wedi dygwydd dyweder, er ys hanner can' mlynedd, mwy neu lai; rhaid deall hyny o'r amser ag yr oeddem ni yn ysgrifenu, —ryw bryd rhwng y flwyddyn 1884 a diwedd 1888,—a rhaid ychwanegu y blynyddoedd a aethant heibio er hyny at yr hanner can' mlynedd, tuag at gael y gwir amseriad. A'r un modd, y mae amryw bersonau yn cael cyfeirio atynt megis yn fyw, ac oeddent felly pan oeddem ni yn ysgrifenu, ond sydd, erbyn hyn, wedi eu cymmeryd ymaith trwy angau. Yr ydym yn teimlo fod gadael i'r gwaith ymddangos trwy y Wasg fel yr ysgrifenwyd ef, yn rhoddi i'r ffeithiau a gofnodir ynddo ryw wedd o naturioldeb a gwirioneddolrwydd, a gollasid trwy unrhyw newidiad.]

# PENNOD VIII.

*Ei ymweliad âg America, a'i Deithiau yno:*—1839.

PENNODI MR. MOSES PARRY AC YNTAU, GAN Y GYMDEITHASFA I YMWELED AG AMERICA—ANTURIAETH BWYSIG Y PRYD HWNW—DEDWYDD YN EI GYFAILL—CYFARFOD DINBYCH—LLYTHYR ODDIWRTH MR. ELIAS—LLYTHYR MR. REES AT GYFAILL YN YR AMWYTHIG—ETO AT MR. EDWARDS O'R BALA—CYFARFOD YMADAWOL YN PALL MALL—CYFARCHIAD HYNOD MR. HUGHES AR YR ACHLYSUR—ADRODDIAD MR. REES EI HUNAN O'R FORDAITH—CYRHAEDD YR AMERICA—SABBOTH YN NEW YORK—GWEDDEIDD-DRA MAWR YN YR ADDOLIAD—Y PARCH. WILLIAM ROWLANDS—LLYTHYR AT EI WRAIG—TEITHIO YN YR AMERICA — ALBANY — UTICA — STEUBEN — REMSEN — MR. JAMES OWEN — PENYCAERAU — WEBSTER HILL — FFLOYD — SABBOTH ETO YN REMSEN—CYFARFOD CHWARTEROL YNO—LLYTHYR ETO AT MRS. REES—UN ARALL AT MR. SAMUEL JONES, PALL MALL—YR ANNGHYDFOD YN REMSEN—SYLWADAU MR. REES ARNO—MYNED I OHIO—PALMYRA—NEWARK—WELSH HILLS — GRANVILLE — RADNOR — COLUMBUS—CINCINNATI—Y PARCH. EDWARD JONES—LLYTHYR ETO AT MRS. REES—JACKSON—Y PARCH. ROBERT WILLIAMS O FOX—AFIECHYD EI GYFAILL — PHILADELPHIA — PITTSBURGH — DYCHWEL I NEW YORK—AROS YNO DDAU SABBOTH—CYFARFOD CHWARTEROL YNO—SYLWADAU AR Y WLAD AC AR Y BOBL—EI HANGHENION CREFYDDOL.

YR ydym yn awr yn dyfod at amgylchiad pwysig iawn yn hanes Mr. Rees,—ei fynediad ef a'r Parch. Moses Parry, Dinbych, yn ol pennodiad Cymdeithasfa y Bala, 1838, i ymweled â'u brodyr y Methodistiaid Cymreig yn yr America. Yr ydym wedi galw hyn yn "amgylchiad pwysig,"—ac un felly, yn sier, ydoedd y pryd hyny. Saith mlynedd a deugain yn ol, yr oedd teithio i

ac yn America, yn beth tra gwahanol i'r hyn ydyw yn y dyddiau hyn. Nid ydyw myned yno yn awr, mewn cymhariaeth, ond peth bychan iawn. Cafwyd prawf hynod o hyny, fel yr adroddwyd i ni gan Mr. Eleazar Roberts, yn llŷs yr heddynad yn y ddinas hon, ychydig amser yn ol. Yr oedd yno ryw foneddwr âg achos ganddo y dymunai alw sylw Mr. Raffles ato, a chael ei benderfyniad yn ei gylch. "Nid oes dim posibl i mi," meddai Mr. Raffles, "fyned ato heddyw; ac nis gŵn pa bryd y gallaf gael hamdden. Deuwch yma bythefnos i heddyw, ac mi a edrychaf i mewn iddo." "Enwch," meddai y boneddwr, "fis i heddyw; y mae arnaf fi eisiau camu drosodd i America *(I want to step over to America)*, ac os na ellwch fyned i'r achos heddyw, ni bydd yn hollol gyfleus i mi cyn hyny." Yr oedd y gŵr yna, fe welir, am fyned drosodd yno, a gwneyd y gorchwyl oedd ganddo: ac yn llunio dychwelyd, a bod yn y llŷs yn Liverpool, yn mhen wyth niwrnod ar hugain. Ond yr oedd yn wahanol iawn yn yr amser y cyfeiriwn ato. Yr oedd yr amser a gymmerai y fordaith agos yn feithach o'r hanner; ond, yn neillduol, yr oedd y cyfleusderau teithio, ar ol cyrhaedd yr America, yn dra gwahanol i'r hyn ydynt y dyddiau hyn. Erbyn hyn y mae y rheil-ffyrdd wedi agor y "cyfandir mawr" braidd yn mhob cyfeiriad, fel ag y mae sefydliadau sydd bell iawn oddiwrth eu gilydd o ran lle, eto o ran amser, mewn cymhariaeth, yn agos; a'r cyfleusderau i fyned o'r naill le i'r llall, y rhai mwyaf manteisiol ellid ddymuno. Y mae holl wedd y wlad, yn neillduol yn y parthau y mae sefydliadau Cymreig i'w cael, wedi newid yn gwbl, fel y mae ein brodyr a fuant o Gymru yno yn y blynyddoedd diweddaraf, yn tystio na buant erioed yn teithio unrhyw wlad, ac yn mwynhau mwy o gyfleusderau tuag at hyny, nag a gaent yno yn mhob man. Eithr, fel y cawn weled, yr oedd yn mhell o fod felly pan oedd Mr. Rees ar ymweliad â'r wlad. Nid oedd bosibl, pa fodd bynnag, iddo gael gwell cydymaith na Mr. Moses Parry. Yr oedd efe yn nodedig am ei gallineb, yn ŵr siriol ei dymher, a pharod a ffraeth ei ymadrodd. Yr oedd hefyd ei hunan yn bregethwr cymmeradwy; ond yn

ddigon call i wybod mai wrth ei gyfaill yr oedd dysgwyliad mawr y cynnulleidfäoedd; ac felly bob amser yn gofalu am fod yn ddigon byr o'i flaen ef. Yr oeddent hefyd eu dau yn hen gydnabyddus â'u gilydd, ac yn gwybod yn dda y naill am ffordd y llall. Anhawdd, mewn gwirionedd, a fuasai cael dau mwy cymhwys i'w gilydd yn gyfeillion i'r fath daith; yn gystal a chymhwys i'r amcanion neillduol a olygid gan y Gymdeithasfa wrth eu pennodi iddi. Fel eglurhâd ar y pennodiad hwnw, ac fel arweiniad i mewn i hanes y daith, nis gallwn wneuthur yn well na rhoddi yma y sylwadau a gyhoeddwyd gan Mr. Rees ei hunan:—

"Mawrion a rhyfedd yw y cyfnewidiadau sydd yn dygwydd yn ein byd mewn ychydig amser. Tua diwedd y bymthegfed ganrif, prin y gwyddid yn Ewrop fod y Gorllewin-fyd mawr mewn bod; a phan eglurodd ei ddarganfyddwr ei fwriad o fyned i chwilio am dano, chwerddid am ben ei gynlluniau, ac edrychid ar ei anturiaeth fel yr ynfydrwydd mwyaf. Ond erbyn ein dyddiau ni, y mae Ewrop ac America fel dwy gymmydogaeth gyfeillgar, a'r byd oedd mor ddiweddar yn gwbl anadnabyddus i alluoedd cred, yn awr mor agos a chynnefin, fel nad yw hynt wallgofus *Columbus* bellach ond peth a gyflawnir yn gyson fel un o orchwylion cyffredin bywyd. A phan ystyriom mor lluosog yw y cyfleusderau i fyned drosodd i'r America,—y tiroedd ëang sydd yno eto i'w meddiannu; a bod y trigolion a ninnau yn frodyr; eu hiaith, eu crefydd, eu cyfreithiau gwladol, a'u holl arferion, mor gyffelyb, fel nad yw ymsymud i un o'r Unol Daleithiau, ar ryw gyfrifon, ond megis ymsymud o'r naill gŵr i'r llall o'n gwlad ein hunain, y mae yn dra thebyg y bydd llaweroedd eto o bryd i bryd, yn cyrchu yno. Er nad yw y Cymry yn gyffredin yn cael eu hystyried yn bobl o ysbryd hŷf ac arfeiddgar, eto y mae miloedd o'r genedl hon yn awr yn yr America; wedi myned, gan mwyaf, mae'n debyg, o herwydd manteision bydol a chyfleusderau i wneuthur bywioliaeth. Maent yn dra gwasgaredig; ond eto yn sefydliadau lled gryfion, yma a thraw ar hyd wyneb y Cyfandir mawr.

"Utica a Stuben oedd y prif fanau gynt ag y byddai y Cymry yn cyrchu iddynt; ond yn awr y maent yn heidio i amryw barthau yn Nhalaeth Ohio. Fel y mae trigolion unrhyw sefydliad yn lluosogi, ac yn meddiannu'r wlad, mae'r tiroedd yn myned yn uwch ac yn brinach, ac felly y manteision i ddenu dieithriaid yno i drigfanu yn lleihau. O ganlyniad, mae rhyw rai o'r diwedd yn anturio yn mlaen i gẁr mwy annghyfannedd o'r anialwch, a llïaws yn fuan yn dilyn ar eu hol; ac nid anfynych y mae trigolion yr un cymmydogaethau yn yr hen wlad, yn ymgasglu ac yn ymsefydlu yn agos at eu gilydd, wedi myned i'r *byd newydd.* Fel hyn y mae'r Cymry, megis diadellau bychain o ddefaid, yma a thraw yn mherfeddion yr anialwch ëang; ond y mae'n alarus dywedyd eu bod i fesur mawr iawn, mewn llawer o fanau, o ran breintiau crefyddol, *fel defaid heb arnynt fugail.* Mae llaweroedd o honynt yn teimlo'r ymddifadrwydd hwn, ac yn dra hiraethlawn am freintiau toreithiog hen wlad eu genedigaeth. Nis gallwn adrodd eu teimladau yn well nag yn ngeiriau un hen wraig, yr hon a ddywedai wrthym,—'Yr ydwyf fi yn hoffi America yn burion fel lle i fyw; fe fuasai yn dda genyf pe buasai yn bosibl bod yma trwy'r wythnos, a dyfod drosodd i Gymru erbyn y Sul.'

"Darfu i'w cwynion torcalonus, o bryd i bryd, beri i'r Methodistiaid Calfinaidd o'r diwedd benderfynu anfon rhyw rai i ymweled â hwynt, ac i gael gwybod eu helynt. Ac mewn Cymdeithasfa Chwarterol yn y Bala, Mehefin, 1838, rhoddasant alwad ddifrifol arnom ni i gymmeryd y gorchwyl arnom. Ac ar ol hir a dwys ystyriaeth, nyni a ymroisom mewn ufudd-dod i'r alwad i wynebu'r anturiaeth bwysig."

Er mwyn arddangos ymdeimlad y Cyfundeb yn Ngogledd Cymru, â phwysigrwydd yr anturiaeth, ac er calonogi y ddau frawd oeddent yn ymroddi iddi, pennodwyd brodyr o'r amrywiol Gyfarfodydd Misol i fyned i Gyfarfod Misol a gynhelid yn Ninbych, ar y dyddiau Iau a Gwener, Mawrth 14, 15, 1839. Enwyd Mr. Elias i fyned yno dros Gyfarfod Misol Môn, a dysgwylid iddo ef roddi Annerchiad neillduol ar yr achlysur;

ond erbyn i'r amser ddyfod, yr oedd Mr. Elias wedi ei analluogi i fyned gan waeledd trwm, dan yr hwn yr oedd wedi ei gaethiwo i'w dŷ er ys llawer o wythnosau. Fe gafwyd Cyfarfod hynod o gysurus, yn yr hwn y pregethai y cynnrychiolwyr dros yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, a Mr. Rees ei hunan yn pregethu ddwy waith—gydâ goleuni, a nerth, a dylanwad mawr. Cafwyd Annerchiad cryno a chynhes ar y daith yr amcanai y brodyr ei chymmeryd yn y Cyfarfod y boreu am ddeg; a dangosid teimlad cyffredinol o serchawgrwydd tuag atynt, a'r dymuniadau goreu ar eu rhan.

Gan fod Mr. Elias wedi methu myned i Ddinbych, fe anfonodd y llythyr canlynol at Mr. Rees, yr hwn, fel y gwelir, sydd yn cyfeirio yn benaf at y daith oedd o'i flaen:—

"Fron, Ebrill 5, 1839.

"Fy Anwyl Gyfaill,—Da iawn genyf oedd cael llythyr oddi-"wrthych. Yr wyf fi wedi bod yn garcharor er ys dros dri mis, "heb allu myned oddiwrth y tŷ. Ond tirion iawn a fu yr "Arglwydd wrthyf. Yr oedd y cystudd corphorol yn ysgafn—"wrth fesur; ac nid oedd yn dywyll iawn ar fy meddyliau. Yn "awr y mae rhyw arwyddion y caf wellhau dros ychydig eto. "Dymunwn i'r ffwrn fy mhuro, fel y meibion Lefi hyny, 'fel yr "offrymwyf i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder.' Y cwbl "sydd genyf i'w wneyd yn bresennol ydyw ceisio ysgrifenu "ychydig linellau, yn awr a phryd arall, i'w hanfon i'r *Drysorfa*, "gan obeithio y byddant yn lles i rywrai rywbryd. Yr wyf yn "awr yn ceisio myfyrio ac ysgrifenu ychydig yn nghylch "Cymhwyso yr Iachawdwriaeth, neu y modd i Gyfranogi o "fendithion y Prynedigaeth.

"Maddeuwch i mi am ymdroi fel hyn gydâ'm pethau bychain "fy hun, pan yr ydych chwi yn mron cael eich llethu gan drall-"odau wrth feddwl am eich taith fawr. Gan eich bod yn "dymuno cael llythyr yn fuan, a minnau yn wael i ysgrifenu "llawer mewn byr amser, ychydig a ysgrifenaf yn awr, gan "fwriadu, os bydd yr Arglwydd yn fy arbed, ysgrifenu eto cyn

"y cychwynwch. Ar ryw gyfrifon, y mae yn dda genyf fod "Mrs. Rees yn cael tueddu ei meddwl i aros gartref. Er nad "wyf ddiystyr o'ch teimladau eich dau, eto yr wyf yn meddwl "y bydd eich profedigaethau yn llai; ac yr ydwyf yn gobeithio "y cewch gyfarfod drachefn yn hyfryd a chysurus, heb fod dim "gofidus wedi dygwydd gartref nac oddicartref. Y mae plant y "byd hwn yn gadael eu teuluoedd, ac yn wynebu peryglon, er "mwyn ychydig o bethau gwael y byd. Pa faint mwy teilwng "eich gwaith a'ch neges chwi yn yr anturiaeth hon? Yr ydych "yn myned ar wasanaeth yr Hwn sydd Berchen a Llywydd "gwynt a môr, ïe, bywyd ac angau. Cewch fod 'yn nirgelwch y "Goruchaf,' a than 'gysgod yr Hollalluog.' A phwy a'ch dryga "chwi yno? Aeth llawer o'r Cymry dros yr *Atlantic* i "America ar ddibenion gwael; ond nid wyf yn gwybod am "Gymro wedi myned yno ar y fath neges a'r eiddoch chwi. "Gwn na bu Cymry erioed yn croesi yr *Atlantic*, â chymmaint o "weddïau yn cael eu hanfon i fynu drostynt, ag a fydd drosoch "chwi eich dau; ac nid wyf yn meddwl y byddant yn ofer. "Aeth Whitefield dros yr *Atlantic* dair gwaith ar ddeg; a "chafodd nid yn unig nodded y Goruchaf drosto, ond llawer "iawn o'i gymdeithas ar ei fordeithiau hirfaith. Defnyddiodd "yr Arglwydd ef yn y llongau, i fod yn lles i lawer. Yr oedd y "mordeithiau yn hwy, ac yn llawer mwy annghysurus y pryd "hwnw. Càn' mlynedd ac un i fis Rhagfyr diweddaf, y "cychwynodd efe y waith gyntaf. Buont fis cyn myned o olwg "tir Prydain, a phedwar mis ar y fordaith. Eto, meddai efe, yr "oeddynt yn byw yn gysurus, heb ymddyddan nemawr ar y "fordaith am ddim ond am Dduw a Christ. Yn awr, anwyl "frawd, chwi a ellwch, dan nodded Rhagluniaeth, fyned i "America, a phregethu yno fisoedd, a dychwelyd adref, yn yr "amser y bu Mr. Whitefield ar ei fordaith gyntaf yno.

"Am y cweryl a'r sôn am ryfel rhwng Prydain a'r Unol "Daleithiau, yr wyf yn gobeithio na bydd rhyfel rhwng y ddwy "wlad. Gall fod yn gwerylus rhwng dynion cynhyrfus o'r Unol "Daleithiau â phobl Canada; ond yr wyf yn hyderu na bydd

"llywodraethwyr y ddwy wlad mor ynfyd a myned i ryfela, am "ychydig o dir oer a diffrwyth. Attalied Duw hyny! Byddwch "chwi yn mhell oddiwrth Dalaeth Maine, lle y mae cynhwrf. "Y mae talaeth New York yn un o'r rhai tawelaf. Pe byddai "terfysg yn tori allan cyn i chwi ddychwelyd, yr hyn na bydd, "yr wyf yn gobeithio, gallech droi yn ol heb fyned at y Llynau "—troi o Remsen. Y mae ffordd i Ohio heb fyned i'r Llynoedd. "Ni fynai Whitefield ei attal unwaith, er cael y newydd fod y "Spaniards wedi tirio yn Georgia. Amddiffyna Duw genadau "heddwch.

"Yr ydwyf yn meddwl llawer am Mrs. Rees, ac yn meddwl "fod yr Arglwydd yn gwneyd trugaredd â hi, wrth dueddu ei "meddwl, fel y crybwyllais, i aros gartref. Braint na chafodd "gwraig un pregethwr yn ein Corph ni o'r blaen, yw cael rhoddi "ei phriod i fyned i'r fath daith dros yr Arglwydd a'i Achos. "Y mae llawer gwraig yn Liverpool yn gollwng ei gŵr i for-"daith hwy, a thros fwy o amser, er mwyn ychydig elw, ond "heb y fraint y mae Mrs. Rees yn ei chael.

"Yr wyf yn lled wael, fy anwyl gyfaill, yn blino, heb allu "ysgrifenu ychwaneg; a di-drefn yw hyn. Y mae Mrs. Elias "yn dymuno yn fawr i Mrs. Rees, ac Anne bach, ddyfod yma ati "hi, i dreulio rhai wythnosau ar ol i chwi gychwyn. Bydd "hyny yn fwy difyr. Da genym os daw. Y mae Mrs. Elias, ac "Ann, yn uno â mi i gofio yn garedig atoch eich dau.

"Wyf, eich brawd gwael, JOHN ELIAS."

Am y cweryl y cyfeiria Mr. Elias ato yn y llythyr uchod, yr oedd yn cyfodi oblegyd ychydig o annghydwelediad yn nghylch y ffin ogledd-ddwyreiniol rhwng yr Unol Daleithiau a Canada, yr hyn yn fuan a derfynwyd yn heddychol. Yr oedd tôn rhai o newyddiaduron yr America yn fostfawr a bygythiol, ac felly rhai yn y wlad hon; ond nid oedd yr awdurdodau llywodraethol, yn y naill wlad na'r llall, yn cyfranogi o'r un ysbryd, ac felly fe ddarfu yr ymryson.

Yr oedd meddwl Mr. Rees, yn dra naturiol, cyn cychwyn i'r

fath daith, mewn cryn lawer o bryder; ac nis gallai lai na meddwl llawer am ei hen gyfeillion yma a thraw yn y wlad hon. Y mae yn dda genym allu dodi ger bron ein darllenwyr lythyr tra nodweddiadol o hono, a ysgrifenwyd ganddo y pryd hwn, at Mr. Lewis Jones, un o'i hen gyfeillion yn yr Amwythig:—

"Liverpool, Ebrill 9, 1839.

"ANWYL GYFAILL,—Addewais, pan yn yr Amwythig, adael "i'm cyfeillion yno wybod pan y byddwn wedi penderfynu yr "amser i gychwyn i'r America. Yn awr y mae yr amser hwnw "wedi ei benderfynu, a'n lle wedi ei gymmeryd gydâ'r *Liverpool*, "yr hon sydd i gychwyn wythnos i ddydd Sadwrn nesaf, sef "Ebrill 20. Yr oedd Mr. Griffiths, Mr. Parry, a chwithau, a Mrs. "Jones, a Mrs. R. Jones, yn sôn am ddyfod yma, i'm gweled yn "cychwyn i'r anturiaeth fawr; ac yn awr yr ydwyf yn anfon "hyn o linellau i hysbysu i chwi y bydd yn dda genyf eich "gweled ar fy ymadawiad âg Ewrop. Gwna Mary bob croesaw "i chwi a ddichon hi wneyd yn yr amgylchiad gofidus hwnw; "ac y mae yn ymuno â mi i gofio yn y modd mwyaf caredig "atoch oll. Yr ydym yn awr mewn amgylchiad digon "trafferthus, ac yn meddu ar fynwesau digon terfysglyd. "Dymunaf arnoch wneyd yr amser yr ydwyf i gychwyn yn "hysbys i'm cyfeillion yna. Yr ydwyf yn cymeryd yr hyfdra i "anfon y llythyr hwn atoch chwi, am fy mod yn barnu mai "chwi yw y cyfoethocaf i dalu'r *postage*, os na allaf gael llwybr "i'w anfon yn ddidraul. Ar yr un pryd, y mae yn ddrwg genyf "eich rhoi mewn côst na thrafferth.

"Yr ydwyf yn gobeithio y bydd fy hen gyfeillion yn yr "Amwythig yn gweddïo drosof. Mae ymwrando am funud ar "gîg a gwaed yn rhoi fy meddwl dan faich gorthrwm iawn. "Mae fy nychymyg yn portreiadu ymadael â'm gwlad, â'm "gwraig, â'm plentyn bach anwyl a hoff,—i wynebu moroedd "tònog a gwledydd dieithr,—mewn dull annioddefol iawn i "natur. Treiglo fy maich ar yr Arglwydd, a gosod fy achos ar "Dduw, yw fy unig ymwared yn awr. O drugaredd, yr wyf yn

"cael gradd o gymhorth i wneuthur hyny. Pan godo fy nheim-
"ladau yn rhuthr cynhyrfus, y mae moment o ymddiried yn yr
"Arglwydd yn dwyn tawelwch mawr.

"Ymddiriedwch chwithau, fy anwyl gyfaill, yn yr Arglwydd "byth; a gwyliwch rhag i drafferthion bydol, a chymdeithas "dynion y byd, ddyrysu llwyddiant eich enaid mewn crefydd. "Yr ydych chwi a minnau bron wedi darfod â'r byd hwn. Y "mae y rhan fwyaf, a'r rhan oreu, o'n blynyddoedd wedi myned "heibio; ac fe aiff *business*, tai a thiroedd, a phob peth gweledig, "i weinyddu llai o bleser bob blwyddyn bellach. Os oes genym "*hawl* i'r nef, nid ydyw y rhan sydd yn ôl o'r einioes ddim "gormod i lafurio am *addfedrwydd* iddi. Nid oes genym ni "bellach, ddim i gyrchu ato ond y nefoedd, canys yr ydym "eisoes wedi profi pob peth sydd i'w brofi yn y fuchedd hon. "Bum yn edrych yn mlaen ar lawer amgylchiad yn y bywyd "hwn, ac yn addaw happusrwydd i ni ein hunain pan y cyr-"haeddem ef; ond yn awr y mae'r amgylchiadau hyny wedi "pasio, a throi yn rhan o *history* ein hoes. Ac nid oes o angen-"rheidrwydd bellach ddim happusrwydd yn ein haros ni, na "phrofasom eisoes, oddieithr happusrwydd y nef. Rhoed yr "Arglwydd hawl ac addfedrwydd i'r gwynfyd hwnw, trwy ffydd "yn ein Harglwydd Iesu Grist!

"Gydâ charedig goffa am fy holl gyfeillion yn yr Amwythig,
"Ydwyf, anwyl gyfaill,

"Yr eiddoch, HENRY REES."

Ychydig ddyddiau cyn cychwyn i America, fe anfonodd y llythyr byr canlynol at y Parch. Lewis Edwards, Bala (Dr. Edwards ar ol hyny), yr hwn sydd yn dangos y pryder a'i meddiannai y pryd hyny, fel ar hyd ei oes, yn nghylch llwyddiant yr Athrofa, a'i eiddigedd dros wirionedd yr efengyl.

"Liverpool, Ebrill 15, 1839.

"ANWYL FRAWD,—Gan fod cyfleusdra yn rhoi, yr ydwyf yn "anfon y llinell hon atoch, rhag i mi fod mor anfrawdol â "pheidio gwneyd un sylw o'r llythyr a anfonasoch chwi ataf fi.

"Gwyddoch erbyn hyn fod yn anmhosibl i mi gydsynio â'ch cais "o berthynas i ddyfod i'r Bala yn bresennol. Yr ydwyf i "gychwyn tua'r America ddydd Sadwrn nesaf. Dymunaf eich "gweddïau drosof yn yr anturiaeth hon.

"Gobeithiaf y bydd i'r ddadl rhwng Dê a Gogledd, yn nghylch "yr Ysgol, derfynu yn heddychol, ac yn y modd goreu er lles y "sefydliad. Yr oedd yn hyfryd iawn genyf ddeall wrth . . . . . "eich bod yn gwreiddio meddyliau y gwŷr ieuainc yn yr hen "Galfiniaeth. Yr oeddwn i yn gweled eich delw arno ef, ac yn "llawenychu. Yr wyf yn gobeithio fod yr Arglwydd wedi eich "codi eich dau, i fod yn offerynau i gadarnhau meddyliau ein "pregethwyr sy'n codi yn y gwirionedd, a'u cadw rhag myned "gydâg awelon y dyddiau hyn. Yr wyf yn dymuno eich "llwyddiant yn mhob peth.

"Yr eiddoch yn ddiffuant, HENRY REES."

Y noson cyn cychwyniad Mr. Rees a Mr. Moses Parry, sef nos Wener, Ebrill 19, fe gynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ymadawol gydâ hwynt yn Nghapel *Pall Mall*,—i weddïo drostynt; i dderbyn cyfarchiadau oddiwrthynt hwy; ac i roddi annerchiad iddynt. Daeth cynnulleidfa ddirfawr yn nghyd, a chafwyd cyfarfod nad annghofir mo hono, meddir, gan neb ag oedd yn bresennol. Dechreuwyd trwy ddarllen cyfran o'r Gair Sanctaidd, a gweddïo, gan y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd. Llywyddwyd gan y Parch. Richard Williams, yr hwn, wedi gwneuthur ychydig sylwadau cyfaddas i'r amgylchiad, a alwodd ar Mr. Rees a Mr. Parry i gyfarch y gynnulleidfa, yr hyn a wnaethant yn dra effeithiol. Ar un ran o araeth Mr. Rees, fe dorodd yn wylo cyffredin trwy y lle i gyd. Yr oedd Mr. Elias yn cael ei ddysgwyl i gyfarch y brodyr ar eu hymadawiad, ond deallwyd, yn ddiweddar yn ystod y dydd, nad oedd bosibl iddo ef ddyfod oblegyd ei afiechyd. Nid oedd dim felly i'w wneyd ond syrthio ar Mr. Hughes, a cheisio ganddo gymmeryd lle Mr. Elias. Wedi myned i'r cyfarfod y clywodd Mr. Hughes gyntaf nad oedd Mr. Elias yn dyfod, ac y dysgwylid iddo ef gymmeryd ei le. Pan oedd y brodyr ereill

yn myned trwy ranau cyntaf y cyfarfod, gwelid Mr. Hughes yn brysur gydâ'i *bencil* a'i bapur, yn parotoi ar gyfer yr hyn a ddysgwylid oddiwrtho. Pan alwyd arno,—wedi ychydig eiriau mewn ffordd o ymesgusodiad,—fe aeth rhagddo i gyfarch y brodyr, oddiwrth y geiriau am Paul, yn y "Tair Tafarn"—"A ddiolchodd i Dduw, ac a gymmerodd gysur." Yr oedd yr araeth hon, yn ol tystiolaeth pawb ag oeddent yn bresennol, a rhyw hynodrwydd tra annghyffredin arni. Yr oedd mor gyflawn a chyfaddas o ran ei chynnwysiad, ac mor drefnus a manwl o ran ei chyfansoddiad, fel yr oedd pawb braidd yn synu ati o ran hyny; ac yr oedd yn cael ei thraddodi gydâ'r fath deimlad, fel yr oedd yn effeithio ar y gynnulleidfa i gyd. Fe'i cyhoeddwyd yn y *Drysorfa* am Medi, 1839, tudal. 283—286, fel ag yr ysgrifenasid hi mewn llaw fèr gan frawd wrth ei gwrandaw; ac oddiyno fe'i had-argraphwyd hi yn Nghofiant Mr. Hughes, tudal. 138—143. Mae yn rhy faith i ni ei dodi i mewn yma yn gyflawn, eithr nis gallwn ymattal rhag rhoddi dyfyniad neu ddau:—"Diolchwch, mai brodyr sydd yn eich gwahodd, a brodyr sydd yn eich hanfon. Brodyr sydd o'ch ol a brodyr sydd o'ch blaen chwi. Wynebau siriol brodyr yn eich hebrwng i'r llong, a wynebau siriol yn eich cyrchu allan. Brodyr yn gweddïo drosoch yma, a brodyr yn eich croesawu yno. Diolchwch i Dduw, a chymmerwch gysur."

Eto:—"Yr oedd yr Apostol yma yn llygadu ar yr hyn a aeth heibio, a'r hyn oedd eto i ddyfod—gwnaeth y naill gydâ diolch, a'r llall gydâ chysur. Gwnewch chwithau, fy mrodyr, yn yr un modd. Edrychwch yn ol, a chewch achos diolch bob cam. Cofiwch ddyddiau mebyd ac ieuenctyd, tuag ardaloedd Llansannan a Dinbych; beth ond trugaredd a'ch cylchynodd o amgylch! Meddyliwch am ddechreuad eich crefydd, a chychwyniad eich gweinidogaeth. Trowch eich golwg ar Siroedd Cymru, yr Amwythig a Lerpwl, maes eich gweinidogaeth, a chewch ddigon o achosion diolch—cewch achlysuron mynych, mynych, i godi eich Ebenezer, a dywedyd, 'Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni.' Pa lwfrdra bynnag a deimlasoch ynoch eich

hunain, pa lesgedd bynnag a gawsoch yn eich mynwesau, neu yn eich camrau, yn Nuw ni chawsoch ond achosion diolch a thestynau mawl. Doethineb anffaeledig, gofal manwl, a thrugaredd ddibrin, a fu yn arolygu ac yn ysgogi yr holl oruchwyliaethau. Wedi edrych yn ol a diolch, edrychwch yn mlaen a chymmerwch gysur. Byddwch gysurus wrth groesi y môr, ac ar frigau y tònau; byddwch gysurus wrth lanio ar dir y gorllewin. Er gadael teulu hoff a chartref clyd, byddwch gysurus. Wrth gynniwair y wlad faith hòno o fan i fan, y mae a'ch cysura chwi, sef Duw. Na lwfrhewch wrth hau yr hâd da, cewch fedi mewn gorfoledd. Cymmerwch gysur wrth droi yn ol i'ch gwlad. Bydd yr addewid yr un yn ei grym ac yn ei blas:—'Ni'th lwyr adawaf chwaith.' "

Unwaith eto:—"Cyn tewi, galwaf i'ch côf, ac i fy nghôf fy hun, a'r gynnulleidfa hon, ddiwedd ein pererindod yn y byd. Pryd hyny, wedi ein holl grwydriadau yn yr anialwch, ar gyffiniau y byd mawr, cawn adolygu yr holl daith, a chofio yr holl ffordd y dygwyd ni. Pwy ŵyr na theimlwn ar ein calon ddiolch i Dduw, a chymmeryd cysur? Y daith wedi ei chwblhau—yr yrfa wedi ei rhedeg—y ffordd wedi ei gorphen! Pwy ŵyr nad diolch i Dduw fydd yn llenwi ein mynwesau! Adeg ryfedd fydd diwedd yr oes, a gorpheniad ein tymhor i ddiolch ac ymgysuro! Lle rhyfedd fydd mîn yr Iorddonen i godi Ebenezer! 'Yr hwn a'm porthodd i hyd y dydd hwn,' medd Jacob, ychydig cyn marw. Hyd y dydd hwn! Bydded y dydd hwnw yn ddydd diolch i Dduw, ac yn ddydd cysur i ninnau. Bydd ein diolch yno yn fwy gwresog, a'n cysur yno yn fwy digymmysg." Terfynwyd y Cyfarfod trwy weddi gan Mr. Hughes, a thrwy ganu nifer o bennillion a gyfansoddasid ar gyfer yr amgylchiad.

Y dydd Sadwrn canlynol, Ebrill 20, yr oeddent yn ymadael, ac yr oedd hwnw yn ddiwrnod o deimlad dwys yn mynwesau cannoedd o'r Cymry, yn enwedig y Methodistiaid, yn y ddinas hon. Yr oedd yr ager-long yr oeddent yn myned gydâ hi, y "*Liverpool*," yn llong odidog iawn. Hon oedd y drydedd waith

iddi groesi i New York. Er mwyn rhoddi cyfleusdra i'r rhai oll a ewyllysient hebrwng y brodyr i'r llong, fe logwyd ager-long i'r amcan hwnw, ac aeth tua chant a thriugain ynddi gydâ hwynt hyd at ochr y *Liverpool;* a phan oeddent ar fyned ar ei bwrdd, gosodwyd Mr. Rees a Mr. Parry mewn lle pennodol, ac aeth y cyfeillion heibio iddynt, bob yn un ac un, i ysgwyd dwylaw, a chanu yn iach iddynt. "Golygfa o'r fath fwyaf gyffrous ydoedd hon," meddai y diweddar Mr. John Roberts, "ar a welais i erioed; hawdd i chwi weled mai lluosog iawn oedd y dagrau a ffrydient o lygaid y rhan fwyaf o honom. Tua thri o'r gloch gwnaed yr arwydd olaf ar fwrdd y "*Liverpool,*" dechreuodd ei holwynion mawr amdroi, a buan y gadawodd ni ar ol, wedi i'r dwylaw a'r mordeithwyr (tua phedwar ugain a deg) ateb y bonllefau a wnaed gan y rhai oeddent ar fwrdd y gwahanol ager-longau, a ddaethent ar neges gyffelyb i'r eiddom ni."

Dyna hwy yn awr wedi cychwyn ar eu taith bell: ac nis gallwn wneuthur yn well na gadael i Mr. Rees ei hunan adrodd hanes ei helyntion a'i brofiad, ar ei fordaith i'r America, ac yn ei deithiau tra yno. Ac y mae yn dda iawn genym ein bod yn meddu y fantais angenrheidiol i hyny. Fe gyhoeddwyd llyfryn bychan o'r hanes, ar ol eu dychweliad adref, yn *enw* y ddau frawd, ond wedi ei ysgrifenu yn gwbl gan Mr. Rees ei hunan, a elwir,—"Y GENADAETH I'R AMERICA. Golygiad Byr ar Agwedd Crefydd yn Mhlith y Methodistiaid Calvinaidd, yn Unol Daleithiau yr America; yn nghydâ Hanes Taith Henry Rees a Moses Parry, i ymweled â'r Eglwysi yno. Caerlleon: Argraffwyd gan T. Thomas, Eastgate Row, 1841." Fe geir hefyd yn mysg ei bapurau, ei ddyddlyfr,—a ysgrifenwyd ganddo y pryd hwnw; yn yr hwn y cawn adroddiad mwy rhydd o'i deimladau personol nag a roddir i ni yn y llyfryn argraffedig. Ac yr ydym yn tybied mai y peth goreu a allwn ni wneyd fydd, cymhlethu y ddau adroddiad â'u gilydd, er gwneuthur un hanes; a dodi i mewn hefyd, hyd ag y gallwn, yn y lleoedd y perthynant iddynt, yr ychydig lythyrau yn ein cyrhaedd, a ysgrifenwyd

ganddo pan yno. Lle y caffo y darllenydd, sydd yn meddu y llyfryn, unrhyw amrywiad oddiwrth, neu ychwanegiad at yr hyn a geir yn hwnw, dealled ein bod ni y pryd hyny yn dilyn y *dyddlyfr ysgrifenedig.*

"Cychwynasom o Liverpool, Ebrill 20, 1839, am dri o'r gloch yn y prydnawn. Y nos o'r blaen cawsom gyfarfod gydâ'n brodyr yn Pall Mall, y rhai a'n cyflwynasant i ofal yr Arglwydd gydâ serchawgrwydd mawr. Cyfarchodd Mr. Hughes ni yn garedig, gan ein cynghori, yn ngeiriau Paul, i ddiolch i Dduw, a chymmeryd cysur. Daeth llïaws o honynt i'n hebrwng dranoeth i'r llong, dan ganu, ocheneidio, wylo, a gweddïo. Safasom mewn man cyfleus ar y *packet* i'r cyfeillion fyned heibio i ni ac ysgwyd llaw. Hon oedd y funud brofedig; oblegyd yn mysg y cwmni daeth fy unig a'm hanwyl Anne fach, nad oedd mo'r pedair oed, i ffarwelio â mi, gan roddi ei dwylaw am fy ngwddf a'm cusanu yn y modd mwyaf serchog. Yr oedd fy mherfedd yn rhuo y funud hon fel telyn. Un llesmair ar ol hon a gefais, wrth ffarwelio â'm hanwyl wraig, a mam fy anwyl blentyn. 'Ac wedi i ni ymgyfarch â'n gilydd, ni a ddringasom i'r llong, a hwythau a ddychwelasant i'w cartref.' Yn fuan gosodwyd nerth aruthrol yr agerdd i weithio ar ei pheiriannau, a dechreuai'r corff anferth ridyllio yn mlaen trwy'r dyfroedd, yn nghanol bonllefau uchel y torfeydd ag oedd wedi ymgasglu ar y làn, i edrych ar ei hymadawiad. Ond yr oedd ein llygaid ni yn glynu, tra gallent, wrth y llestr fechan, lle yr oedd ein gwragedd a'n plant, y rhai a barhaent i awgrymu eu caredigrwydd yn mhob dull, hyd nes yr aethom yn rhy bell oddiwrthynt i allu eu gwahaniaethu, na gweled eu harwyddion. Ac yn mhen ychydig funudau, diflanent yn gwbl o'n golwg, heb fod neb o honom yn gwybod a gaem weled ein gilydd byth mwy. Yr oedd y gwynt yn gryf i'n herbyn, a'r môr yn anwastad ; ac am fod ein calonau yn dechreu clafychu, aethom i'n gwelyau am saith o'r gloch, lle y teimlem yn lled gysurus. Gorweddasom yn hir, a chawsom gysgu peth. Oddeutu hanner nos deuai y *Steward,* yr hwn oedd ŵr ieuanc o Sir Fôn, i'n hystafell fechan i'n cysuro,—gan

ddywedyd, 'Yr ydym wedi pasio Pen Caergybi, ac y mae hi y noswaith *brafia* a welsoch chwi erioed.'

"Drannoeth, Ebrill 21, yr oeddym yn ceisio cadw'r Sabboth cyntaf erioed i ni ar y môr. Adfywiai ein teimladau yn rhyfedd gydâ thoriad y dydd, wrth glywed y ceiliog yn canu, y defaid a'r gwartheg yn brefu, ar fwrdd y llong—hen leisiau cyfeillgar y buarth, oedd wedi ein galw i godi lawer boreu Sabboth cyn hyn yn Nghymru. Ond yr oedd y dyfroedd yn rhuo, y llestr yn ysgwyd, a ninnau yn syrthio, y naill ar draws y llall, wrth wisgo am danom; Saeson, Ffrancod, Hispaeniaid, a dynion o amryw wledydd, â'u ffregodau dieithr yn ein clustiau, yn gwneyd i ni gredu fod y Sabboth hwn wedi gwawrio arnom, mewn amgylchiadau newydd ac annghyffredin iawn. Ar ol boreufwyd, aethom yn nghyd i'n hystafell fechan i gadw ein dyledswydd deuluaidd. Yr ydym yn hyderu fod llïaws o'n brodyr yn Nghymru yn gweddïo drosom heddyw. Yr wyf yn meddwl fod tair egwyddor gref yn gweithio yn fy mynwes heddyw: natur, llygredd, a grâs. Mae natur yn barod i frefu am Mary ac Anne fach, a llygredd yn barod i weithio grwgnachrwydd trwy y teimladau hyn. Ond y mae grâs, yntau, yn cropian i mewn, ac yn gweithio gradd o ymostyngiad ac ymroddiad i'r Arglwydd a'i Achos. O! buddugoliaethed grâs yn yr ymladdfa hon yn fy mynwes! Paham y gofalaf am fy nheulu? Pe buaswn gydâ hwynt ni allaswn i wneyd un blewyn yn ychwaneg iddynt, na'u cyflwyno i'r Arglwydd.

"Oddeutu un-ar-ddeg yn y boreu, canai'r gloch i'n galw i'r addoliad cyhoeddus. Darllenwyd gwasanaeth Eglwys Loegr gan weinidog ieuanc, perthynol i'r Undodiaid; yr hwn, wrth ddarllen, a wnai ychydig o gyfnewidiadau mewn rhai adnodau, i'r dyben o'u gwneyd yn fwy ffafriol i'w bwnc ei hun. Y gair yn Hebreaid i. 8, 'Dy orseddfainc, di o Dduw, sydd yn oes oesoedd,' a ddarllenai, 'Dy orseddfainc di yw Duw yn oes oesoedd.' Ac felly nid oedd yr adnod mwyach yn profi Crist yn Dduw, ond fod Duw yn orseddfainc iddo yn oes oesoedd! Pa synwyr sydd yn hyny, nis gwyddom. Darfu i'r gŵr ieuanc hwn bregethu i ni y Sabboth canlynol oddiwrth y geiriau, 'Minnau, os dyrchefir

fi oddiar y ddaear, a dynaf bawb ataf fy hun.' Arwyddair y bregeth ydoedd, 'Sugn y Groes;' ond yr oll oedd ynddi i sugno, wedi'r cwbl, yn ol ei farn ef, ydoedd y rhinweddau a ymddangosent yn y dyn Iesu wrth farw arni fel merthyr dros ei athrawiaeth, ac esiampl i'w ganlynwyr. Ond yr oedd Crist a'i groes, yn y golygiad y cymmerid hwynt, yn cael eu codi mor uchel, a'r cwbl wedi ei wisgo mewn iaith mor drwsiadus, fel nad oedd yn hawdd deall yn union fod dwyfoldeb y person, a gwir natur a dyben ei angau yn cael eu cau allan. Ac nid oedd ond ychydig o'r cwmni yn gwybod eu colli, nac yn cwyno ar eu hôl. Eto, yr oedd ambell un yn craffu; a'r peth cyntaf a ddywedodd un gŵr bonheddig wrthym ar ol y bregeth ydoedd,—'Ië, *ond nid wyf fi yn coelio mai fel siampl yn unig y bu ein Iachawdwr farw?* Ac nid oeddym ninnau yn coelio chwaith; a hyfryd oedd genym gofio iddo 'farw dros yr annuwiol.'

"Tra yr oedd y gŵr hwn yn y naill ben i'r Llestr, yn gwrthod cydnabod Iesu Grist yn ddim mwy na *dyn da,* yr oedd un o'r hen Iuddewon, yn y pen arall, wedi cael allan nad oedd efe mewn un modd yn teilyngu cymmaint a hyny o anrhydedd. Ymddengys iddo ddarllen ychydig o'r Testament Newydd, pan oeddym ni yn y bregeth; a hyny, tybygid, i'r dyben o geisio rhywbeth yn erbyn yr Arglwydd Iesu. Dywedai iddo ddarllen fod ei fam a'i frodyr unwaith yn sefyll allan, yn dymuno cael ymddyddan âg ef; ac iddo yntau droi at ei ddysgyblion, a dywedyd wrth y genad, mai hwy oedd ei fam a'i frodyr ef. 'Yn awr,' meddai, 'a oedd hyn yn barchus? Ai dyna fel y dylasai mab ymddwyn at ei fam?' 'Syr,' ebe ninnau, 'nis gellwch chwi, na neb arall, ag a ddarlleno hanes yr Arglwydd Iesu yn ddiduedd, ei gyhuddo o fod yn ddibris o'i rieni. Dywedir yn bendant, yn nechreu hanes ei fywyd, iddo fod yn ddarostyngedig iddynt; a chawn ef yn safn marwolaeth yn dangos gofal am ei fam, a thrwy awgrym ar un o'i ddysgyblion, yn gwneyd cartref iddi, mae yn debyg, dros weddill ei dyddiau.' 'Yr oedd hyny yn burion,' ebe yntau, 'ond nid wyf fi yn gweled dim rhyw rinwedd mawr yn y peth; dim mwy nag a ddylasai

wneuthur.' 'Ië,' ebem ninnau, 'ond y mae'n ddigon i wrthbrofi eich cyhuddiad chwi, ei fod yn fyr o anrhydeddu ei rieni.' Mae annuwioldeb Cristionogion yn llawer o gryfder i ragfarn yr Iuddewon yn erbyn Crist a'r efengyl. Clywsom y gŵr bonheddig hwn rai gweithiau yn dywedyd, pan y gwelai feddwdod ac afreolaeth yn mysg y cwmni, 'O, Cristionogion ydynt; gadewch iddynt; y maent oll yn Gristionogion.' 'Syr,' ebem ninnau unwaith, 'chwi a ddylech farnu Crist a'i grefydd wrth ei athrawiaeth, a'i nodweddiad ei hun, a'i wir ganlynwyr; byddai yn eithaf annheg i chwi benderfynu pa fath un oedd efe wrth ymddygiadau llïaws sydd yn ymgyfenwi ar ei enw.' 'Byddai, byddai,' ebai yntau, 'mae hyny yn ddigon gwir.'

"Ymddangosai y Llong yn y boreu, pan y byddai pawb yn eu hystlysau yn cysgu, yn llonydd ac annghyfanedd iawn. Yr oedd felly foreu ddydd Llun, Ebrill 22, fel boreuau ereill ar ôl hyny. Ond yn y màn, o wyth i naw o'r gloch, dechreuai y teithwyr godi a llithro allan, y naill ar ol y llall, o'u hungelloedd, fel cwningod o'u tyllau, nes y byddai yn ferw trwyddi oll. Ac felly byddent ar hyd y dydd yn troi trwy eu gilydd fel morgrug, o'r caban i'r bwrdd, ac o'r bwrdd i'r caban; a phawb yn ceisio difyru amser eu carchariad heibio goreu y gallent, trwy lyfrau, cardiau, disiau, a phob chwareuyddiaeth. Ond os dechreuai y *Liverpool* ei hunan chwareu *pitch and toss* ar wyneb yr eigion, rhoddai derfyn tòc ar chwareu pawb ereill; ac elai y rhan fwyaf i orwedd yn glafaidd ar eu glythau. Wrth weled y darpariaethau tuag at ein hymborth, yr oeddwn yn gorfod meddwl mai creadur drud i'r greadigaeth ydyw dyn. Mae llawer o fywydau creaduriaid diniwed yn cael eu haberthu i gynnal ei fywyd ef. Ac y mae ei iachawdwriaeth yn ffrwyth marwolaeth Mab Duw.

"Dydd Iau, 25ain. Y mae heddyw yn ddiwrnod tra hyfryd; y gwynt o'n tu, a'r haul yn tywynu yn siriol, a'n hysbrydoedd wedi adfywio yn fawr. Bendigedig fyddo Duw! O bydded ei amddiffyn drosom i barhau! Profais lesâd i fy meddwl heddyw trwy ddarllen rhai o bregethau Mr. Charles o Gaerfyrddin: ac

yn wyneb pwliau o dristwch, hiraeth, ac ofnau, da oedd genyf nesau at Dduw. Cael fy nwyn i ben y daith, cael bod o lês, a chael gweled fy nheulu mewn heddwch, yw fy nymuniad gan yr Arglwydd.

". . . . . . . Yr ydwyf y dyddiau hyn wedi gweled mwy o ddynion y byd nag a welais yn fy oes. Yr ydwyf wedi fy nghau i fynu gydâ hwynt. Nid oes dim ymwared. Nid oes dim ganddynt ond siarad gwâg, bydol, tyngu, yfed, chwareu cardiau, &c., y rhan fwyaf o'r amser. 'Heb Dduw yn y byd.' Mae crefyddwyr yn bur wael yn fynych; ond erbyn eu cymharu â'r fath ddynion â'r rhai hyn, y maent yn tra rhagori. 'O, na chasgl fy enaid gydâ phechaduriaid.' Eto, yr ydym ni yn cael pawb yn foneddigaidd iawn yn eu holl ymddygiad tuag atom ni.

"Bydd y môr weithiau yn llyfn a dysglaer fel drych, a phryd arall yn gynhyrfus a chuchiog iawn. Ac am danaf fy hun, y mae gofalon ac ofnau yn barod bob munud i ymdori arnaf fel dwfr drwy adwy lydan. Os bydd yn wynt, y mae arnaf ofn; ac os bydd yn deg, yr wyf yn myned i ofalu am y dyddiau canlynol, ïe, yn dechreu gofalu ar y fordaith wrth fyned, am y daith adref. 'Dyma fy ngwendid.' Paham yr ydwyf fi yn gofalu am y gwynt a'r tònau? Mae fy amserau, fy anadl, fy oes, a'm holl amgylchiadau, yn llaw Duw. Yr ydwyf mor ddiogel dan ei nodded ef, yn y naill amgylchiad a'r llall. Mae fy nghalon yn ymdoddi mewn diolchgarwch iddo am ei diriondeb yn y fordaith hon. O drugaredd yr Arglwydd, yr un awel gref, ond unwaith. Ymchwyddai y môr, y pryd hyny, yn un corff anferth o bob ochr i'r llestr, nes yr ymddangosai hi fel rhyw blisgyn bach, yn dawnsio yn y berw trochionllyd; ac yn cael ei hyscytian fel llygoden yn nghêg y *mastiff*. Yr oedd y gwynt i'n herbyn, a'r tònau yn tori dros ben blaen y Llestr i'r bwrdd yn llifogydd, ac yn ei tharo mor galed weithiau, nes y byddai sŵn yr ergyd yn fwy tebyg i greigiau nag i ddwfr. Ond, ar y cyfan, bu yn hyfryd iawn arnom ni. Mae holl ddwylaw y Llong yn dywedyd na chawsant hwy ddim cyffelyb daith

dros yr Atlantic o'r blaen. Y Captain a ddywedai y gellid croesi ganwaith heb gael y fath dywydd â hwn. 'Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?' Wele fi yn iach, pan y mae ereill yn afiach; yn cael tywydd teg ar y môr, pan y cafodd Paul hi yn dymhestlog iawn. Buasai fy nghysur yn fawr oni buasai fy ofnau, fy rhagofalon, a'm hanymddiried yn yr Arglwydd. Llawer gwaith y mae efe wedi cael achos i ofyn i mi er ys wythnos, 'Tydi, o ychydig ffydd, paham y petrusaist.' O cryfha fy ymddiried yn yr Arglwydd.

"Ebrill 28ain, Sabboth. Cefais bleser ddoe yn darllen hanes Iesu Grist ar y môr. Y mae efe yn fy nghael i yn debyg iawn i'w ddysgyblion, yn fychan iawn fy ffydd a'm hymddiried ynddo. Ac yr ydwyf finnau yn ei gael yntau yn debyg iawn ag y cawsant hwythau ef,—yn rasol a thirion iawn. Nid oedd genyf ddim i'w wneyd y dyddiau yr oedd y gwynt yn chwythu a'r môr yn terfysgu,—ond llefain arno ef; ac er iddo am rai oriau ymddangos fel un yn cysgu, eto yr oedd yn cysgu yn ysgafn iawn. Deffrôdd gweddi ef yn fuan; ac efe a gyfododd, ac a geryddodd y gwynt a'r môr, ac y mae tawelwch mawr hyd heddyw. Mae ei ddaioni ef yn llesmeirio fy nghalon; mae yn hawdd i mi arllwys fy nheimladau mewn ffrwd o ddagrau. Mae y tywydd anarferol hwn yn werthfawr i bawb yn y llong, ond yn fwy melus a gwerthfawr i mi fil o weithiau. I mi y mae yn brawf fod yr Arglwydd yn wrandaẅwr gweddi. Am y tywydd hwn y gweddïais ac y gweddïodd cannoedd o'm brodyr; a'r Arglwydd a ganiatâodd i ni ein dymuniad. O fy Nhad, gad i hyn fod yn wystl i mi y byddi di gydà ni ar hyd y ffordd, ac y dychweli ni mewn heddwch i'n gwlad ac at ein teuluoedd. 'Fy nhafod innau a lefara am dy gyfiawnder a'th foliant ar hyd y dydd.' Crybwyllais eisoes am y bregeth a gawsom heddyw gan Socinian ar ddioddefiadau Crist. Llefarai yn barchus am ei ddioddefiadau, ond yr oedd eu gwir natur yn cael ei adael allan yn hollol. Rhy fychan i bechadur euog yw llefaru am angau Crist fel yr eiddo merthyr, ac nid fel aberth dros bechod.

"Mai 2, Dydd Iau. Y tywydd yn dechreu bod yn wresog.

Y dyddiau diweddaf yr oeddwn yn ofni y gwynt; yn awr yr ydwyf yn dechreu ofni yr haul. Cefais ollyngdod mawr i fy meddwl heddyw trwy olwg ar lywodraeth yr Arglwydd ar bob peth, a'i ofal tirion am ei bobl, a'i dynerwch at eu teimladau. Cîg a gwaed sydd yn ofni ac yn hiraethu; ac y mae Iesu Grist yn gyfranog o gîg a gwaed, ac felly yn medru cydymdeimlo. Pan y gwelodd efe gystudd y wraig weddw o Nain, efe a dosturiodd wrthi, ac a fywhäodd ei mab. Un rheswm ganddo ef yn erbyn dinystrio Ninefeh ar ddymuniad Jonah oedd, nid yn unig fod yno fwy na deuddeng myrdd o fabanod, ond hefyd fod yno '*anifeiliaid* lawer.' O mor dyner! Wele, fy Nhad a'm Brawd, mae genyf finnau wraig a phlentyn bach; gâd i mi, ar ol dy wasanaethu yn y gwledydd hyn, eu gweled mewn heddwch.

"Wedi bod am ddyddiau heb weled dim ond y môr, byddai canfod Llong yn peri cynhyrfiad mawr yn mhlith y teithwyr, yn enwedig os byddem yn myned i siarad â hi. Mae yn gofus genym gyfarfod â Llestr ar un prydnawngwaith tawel, yn mrig yr hwyr, ac i'r *Captain* arwyddo ei ddymuniad am ychydig ymddyddan. Dynesai atom yn arafaidd a gochelgar iawn, ac megis tan ymgrymu yn foneddigaidd, drwy ei hysgogiadau ar wyneb y dòn. Wedi dod yn gyfleus, ffarweliai y ddwy drwy floeddiadau uchel, a churo dwylaw yn nghyd. Yr oedd yr olygfa yn brydferth, a'r cyfarfod yn adfywiad i deimladau pawb. Trannoeth goddiweddasom un arall yn llawn o deithwyr tlodion, yr hon oedd wedi troi allan o Liverpool er's un dydd ar ddeg, pan nad oeddym ni ond er's pedwar neu bump. Gadawsom hi mor ebrwydd fel na welid ond blaen ei hwylbren. Ond cododd yr awel o'i thu, ac aeth heibio i ni drachefn, dan hwyliau llawn mewn llef gorfoledd; a pharhâodd i ennill arnom nes diflanu o'r golwg ac ni welsom hi mwy.

"Yr oedd hanner dydd yn awr fywiog ar fwrdd y Llestr gydà ni; pawb â'u llygaid ar ffenestr ystafell y *Captain;* canys wedi iddo gymmeryd ei *observations*, fel eu gelwid, rhoddai bapur yn y ffenestr yn hysbysu pa le yr oeddym, a pha faint oeddym wedi deithio er hanner dydd y diwrnod o'r blaen. Yr

oedd genym hefyd ystyllen fechan, a *map* o'n taith ar ei hwyneb. Ar y naill ben iddi yr oedd tref Liverpool, a New York ar y pen arall. Ac wedi i'r *Captain* wneyd allan pa sawl milldir oeddym wedi deithio mewn diwrnod, tynai linell yn ol hyny ar y *map*, i ddangos taith y diwrnod hwnw; a thrannoeth yr oedd yr un llinell yn cael ei hestyn drachefn, yn hwy neu yn fyrach, yn ol fel y byddem wedi teithio. Ac felly gwelem fel yr oeddym yn pellhau oddiwrth y naill Dref, ac yn nesau at y llall, bob dydd nes cyrhaeddyd yno.

"Mai 8, Dydd Mercher. Fel yr oeddym yn nesau at ddiwedd y daith, yr oedd pryder y teithwyr yn cynnyddu yn ddirfawr. Yr oedd pawb yn gyffredin wedi hen flino ar eu carchar, a phob difyrwch wedi myned yn ddiflas; *Pilot* a thir oedd prif destynau yr ymddyddan. Yr oedd dadleu a gwystlo nid bychan yn nghylch y dydd a'r awr y cymmerid y *Pilot* i'r bwrdd. Ac yn y prydnawn, heddyw, wedi bod yn llygad-rythu am dano ar hyd y dydd, derbyniwyd ef yn chwannog i'r Llong, gydâ bonllef orfoleddus. Nid hawdd darlunio yr olygfa ar fwrdd y llestr pan ddaeth efe i fynu. Yr oedd pawb heb weled na chlywed dim ond yr hyn a ddygwyddai yn y ddau *Gaban*, ac ar y *quarter deck*, er's llawer o ddyddiau. Yr oedd holl hanes y byd mor ddieithr i ni bron a phe buasem wedi myned allan o hono; ond pan y daeth un o'i breswylwyr i'n mysg, yr oedd y fath ysfa yn nghlustiau pawb am glywed ei helynt, fel yr oeddent bron a syfrdanu y *Pilot* â'u cwestiynau. Rhai a'i holent am ansawdd masnach; rhai am etholiad bwrdeisiad y trefydd; ereill yn nghylch dyfodiad llestri i'r porthladd; ac un gŵr a ofynai yn awyddus, '*How is money?*'

"Wedi i'r cynhyrfiad a achlysurodd presennoldeb y *Pilot* lonyddu, dechreuodd pawb edrych yn awyddus am dir; o'r diwedd daeth hwnw i'r golwg. Yr oedd ei ymddangosiad ar y cyntaf yn dywyll ac ansier, megis gorlliw du yn yr awyr; ond wrth nesu ato dechreuai yn fuan wisgo ei wedd arferol ger bron ein golygon. Er ei fod i ni yn dir dieithr, eto *yr oedd yn dir*, ac wedi bod cyhyd o'i olwg yr oedd ein llygaid megis yn ei ail

gydnabod yn serchog, fel ein hen gynnefin anwyl a hoff. Yr oedd y prydnawn-gwaith yn dawel, a'r ymddangosiad yn odidog; y gelltydd a'r maesydd wedi eu gwisgo â gwyrddlesni tyner, a'u britho yn hyfryd âg anneddau y trigolion, a llygaid pawb megis yn ymborthi ar yr olygfa gydâg awyddfryd mawr. Ymddangosai boddlonrwydd ar bob wyneb; a sylwai dieithriaid nad oedd dim rhyfedd fod yr *Yankee* mor hoff o'i wlad; a'r *Yankee*, yntau, a edrychai yn dra hoffus o honi. Un gŵr bonheddig a gurai ei ddwylaw, gan ddywedyd wrth ei gyfeillion, 'Ni gawn fyned adref, fechgyn; cawn, cawn!' Wrth edrych tua'r tir, buom yn hir heb weled dyn; a'r cyntaf a welais i oedd geneth fechan yn prancio ar y maes, ac yn ein cyfarch drwy ysgwyd ei brat *(pinafore)*. Nid oeddwn wedi gweled y fath olygfa, er pan welswn fy ngeneth fach fy hun yn ysgwyd ei napcyn arnaf, wrth ffarwelio yn Liverpool. Ond y mae'r meddwl yn gyru natur i frefu. O Arglwydd, rho hunan-ymwadiad ac ymroddiad gydâ dy waith!

"Erbyn hyn yr oeddym wrth y *Quarantine;* a daeth y meddyg i'r bwrdd i edrych ansawdd ein hiechyd; ac o herwydd fod y frech wen wedi tori allan yn mysg y teithwyr ar y fordaith, gommeddodd adael i'r Llestr fyned yn mlaen i'r porthladd y noson hono. Daeth *Packet* arall i gyrchu y dieithriaid i'r ddinas; ond nyni a orphwysasom yno y noswaith hòno hefyd, ac a aethom i mewn yn y Liverpool at y *quay*, yn foreu dranoeth.

"Yr oedd amryw o'r hen Gymry ar fin yr afon yn ein dysgwyl, a'n llety wedi ei barotoi yn nhŷ Mr. Lewis, gynt o Bontypridd, Sir Forganwg. Erbyn cyrhaeddyd yno teimlem radd o'n rhwymau i 'ddiolch i Dduw, a chymmeryd cysur.' Aethom i mewn boreu ddydd Iau, Mai 9, ac arosasom yn New York hyd y boreu Iau canlynol. Dechreuasom ar ein gorchwyl mawr y noswaith hòno; ac yr oedd genym ryw foddion bron bob nos tra buom yn y dref.

"Mae'r Methodistiaid Calfinaidd yn New York, yn ymgynnull i addoli mewn ystafell led helaeth a phur gyfleus i'r perwyl; yr

hon ydoedd yn lled lawn drwyddi y Sabboth, er fod cyfarfod pregethu gan yr Annibynwyr yn y ddinas yr un pryd. Yr oedd agwedd y gynnulleidfa yn gwrando yn dra dymunol, a'u dull yn ymadael, ar ddiwedd y gwasanaeth, yn brydferth iawn Byddai yn werth, o b'ai bosibl, myned a llawer cynnulleidfa enwog yn Nghymru drosodd i New York i ddysgu gwers ar weddeidd-dra mewn addoliad gan eu cyd-genedl. Nid oedd yno neb yn rhuthro allan ar ddiwedd y bregeth; ond ar ol y weddi safai pawb ar eu traed i ganu; ac ar ol canu, eisteddent i lawr i gyfranu at ryw gangen o'r achos crefyddol, a hyny bob tro Ac wedi i sŵn yr arian a'r *plate* fyned heibio, byddai distawrwydd difrifddwys drwy'r holl le, a llygaid pawb yn syllu ar y Gweinidog; a phan gyfodai ef yn y pulpud, ymgryment hwythau ac yntau a'u gollyngai ymaith trwy gyhoeddi'r fendith Apostolaidd,—'Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gydâ chwi oll. Amen.'

"Mae'r gynnulleidfa hon yn cael moddion grâs a gweinidogaeth y gair yn fwy cyson na llaweroedd yn yr America. Mae y Parch. W. Rowlands yn llafurio yn eu mysg, a phob arwydd ei fod yn ddefnyddiol a chymmeradwy.

"Mae eryn nifer o Gymry yn yr ynys a elwir *Long Island*, yr hon sydd am yr afon â *New York*. Eu prif orchwyl ydyw cadw gwartheg, a gwerthu'r llaeth yn y ddinas. Buom yno unwaith neu ddwy yn pregethu, mewn ystafell fechan. Yr oedd y gŵr a'r wraig â'n llettyai yn aelodau o'r gynnulleidfa yn y Dref · ond nid oeddynt yn cynnal addoliad teuluaidd. Un boreu, cyn ymadael o'r tŷ, gwnaethom iddynt addunedu yn ddifrifol i ymaflyd yn y gorchwyl. Ysgrifenwyd y cyfammod ar bapur: a darfu i'r gŵr a'r wraig roddi eu dwylaw wrtho: a'i godi i fynu yn dystiolaeth iddynt ar ochr yr ystafell. Mae'r gŵr yn awr, wedi marw; ond dywed ein cyfaill Mr. Rowlands, mewn llythyr, fod rhyw arwyddion i'r tro crybwylledig fod yn fendithiol iddo ef a'i deulu."

Ni a ddodwn i mewn yma y llythyr canlynol, a anfonwyd ganddo, cyn gadael New York, at ei anwyl wraig:—

"New York, May 15, 1839.

"MY DEAREST MARY,—Yr ydwyf heddyw, cyn gadael y lle "hwn i fyned yn mhellach i'r wlad, yn ysgrifenu llinell i'w "hanfon gydâ'r *Liverpool* sydd yn cychwyn oddiyma ddydd "Sadwrn nesaf. Y mae nodded yr Arglwydd grasol drosom "ni i barhau. Yr ydwyf fi hyd yma mor iach ag arferol; ond "fe gafodd Moses Parry gyffyrddiad ysgafn o'r boen yn ei gefn; "eithr y mae yntau, fel y mae daionus law ein Duw gydâ ni, yn "awr yn gwellâu.

"O! my dearest Mary, I think much every day of you and "my dear little Anne. I commit you fervently to God in "prayer. I did so this morning before I left my room, and "again at the family worship; and I have reason to hope that I "prevail with a gracious, infinitely gracious God, and that he "takes unworthy sinners, such as I am, and my beloved ones, "under his protection. Psalm xci. is sweet beyond measure to "me since I left home: 'He that dwelleth in the secret place "of the Most High, shall abide under the shadow of the "Almighty. I will say of the Lord' (Yes, my dearest Mary, I "have said it, and I will say it daily on your part, my own, and "our dear little infant's), 'He is my refuge, and my fortress; "my God, in him will I trust.' And what is said to me in "return? Listen, my dearest Mary, and be unhappy if you can: "'Surely he shall deliver thee from the snare of the fowler, and "from the noisome pestilence. He shall cover thee with his "feathers, and under his wings shalt thou be safe; his truth "shall be thy shield and buckler. Thou shalt not be afraid of "the terror by night, nor for the arrow that flieth by day, nor "for the pestilence that walketh in darkness, nor for the "destruction that wasteth at noonday. Because thou hast made "the Lord which is my refuge, even the Most High, thy habita-"tion, there shall no evil befall thee, neither shall any plague "come nigh thy dwelling. For he shall give his angels charge "over thee, to keep thee in all thy ways.' Why! unbelief itself "can demand no more than this.

"I must say that my bowels roar for you both often; yes, the "workings of my mind and affections create some strong "sensation in my bodily frame. But I try to give it vent in "prayer, which is far better than to suffer it to waste the soul, "and to degenerate into painful longings and repinings, as it is "apt to do unless directed into a better channel.

"Mae genyf obaith ar Dduw y caf eich gweled eto eich dwy-"oedd, ac y bydd i'r Arglwydd grasol wneyd rhyw ddefnydd o "honof yn y wlad hon dros ychydig fisoedd, ac wedi hyny fy "rhoddi i chwi drachefn mewn heddwch, mewn atebiad i weddïau "ei bobl drosof.

"Yr ydym yn awr wedi llunio ein taith, fel ag i fod yn New "York yn ol, i ddychwelyd adref gydâ'r *Liverpool*, Awst 24. ". . . . . . But I shall write often. My best love to Mr. and Mrs. "Elias [y Parch. John Elias]. Stop with them or near them as "long as you can, that you may have the consolations Mr. Elias is "so highly qualified to administer; and remind him daily of me "that he may pray for me. Read this to him. Ask him "whether I am in danger of presuming by expecting and hoping "that a gracious God, a tender Father, who is not regardless of "the natural feelings of frail creatures, will bring me home to "you once more.

"There is a friend here who has a wife and one child like "myself, and who is in a good situation, who is much disposed to "leave them all for a while, and to accompany us to Ohio in the "middle of June, returning here with us in August, merely for "the sake of serving us and supporting our minds. It will be a "great comfort to us, as he has been that route before. Spend "the Summer as will be most agreeable to you. Your work is "with you: training little Annie in the fear of God.

"Yours, my dear Mary, HENRY REES."

Yn awr ni a awn yn mlaen gydâg adroddiad Mr Rees ei hunan o'i deithiau :—

"Y boreu Iau, Mai 16, ni a gychwynasom o New York i

Albany, taith oddeutu cant ac ugain o filltiroedd. Mae hon yn dref nid anenwog ar lethr bryn, ac afon fawr Hudson yn rhedeg heibio iddi. Mae yr Hudson yn afon Hyfryd, yn fwy na Hafren, yn rhedeg rhwng bryniau a mynyddoedd uchel, yn ymgodi y naill goruwch y llall, ac wedi ei hilio â choed. Yr oedd yr olygfa ar hyd y ffordd yn dra mawreddog a gwyllt, ac ambell waith yn peri i mi feddwl am rai manau yn Sir Gaernarfon. Mewn agerdd-long ar hyd yr afon hon y teithiem i Albany. Yr oeddwn i yn sâl ar hyd y ffordd. Gofynais i Moses Parry a oedd efe yn meddwl a ga'i fyned i'r nefoedd; ac wrth adrodd fy seiliau fy hun i obeithio hyny, llewyrchodd ar fy meddwl am Grist, a chynhesodd fy nghalon yn fawr ato. O! y goleu a fwynheais ar y gair hwnw, 'Yr hwn a ddiddymodd angau.'

"Cawsom gyfleusdra, wedi cyrhaedd Albany, i ddyweyd gair y noson hono, a nos drannoeth hefyd, wrth gynnulleidfa fechan o'n cyd-genedl, y rhai sydd mewn amddifadrwydd mawr yn gyffredin o weinidogaeth y gair yn yr iaith Gymraeg. Nid oes yma, dybygid, ond ychydig o Gymry, na dim achos crefyddol wedi ei sefydlu yn eu plith gan un blaid. Eto y mae nifer fach o honynt yn ymgasglu at eu gilydd i ddarllen y Beibl a gweddïo bob Sabboth, ac yn cael pregeth weithiau, pan dygwyddo pregethwr o ryw enwad ddyfod ar achlysur i'r Dref. Lletyem yn y lle hwn yn nhŷ gŵr o'r enw William Griffiths, gynt o Sir Gaernarfon. Dilynodd yr hen Gristion hwn ni bron yr holl amser y buom yn nghymmydogaethau Steuben; a daeth ei wraig i'n cyfarfod drachefn i New York, ar ein dychweliad o Ohio yn mis Awst.

"Boreu Sadwrn, Mai 18, cychwynasom o Albany i Utica, gydâ brawd a ddaethai i'n cyfarfod. Yr oedd genym bedwar ugain milldir o daith, trwy wlad wael, hyll, a choediog, gan mwyaf; ond yr oeddym yn teithio yn gyflym yn yr ager-gerbydau ar y ffordd haiarn. Mae Utica yn dref fechan brydferth; ac y mae ynddi hi a'i hamgylchoedd nifer mawr o Gymry. Mae gan y Methodistiaid Calfinaidd Gapel bychan cyfleus yma; ac y mae

gŵr ieuanc, o'r enw Mr. David Davies, gynt o'r Tŵr Gwyn, Sir Aberteifi, wedi dechreu llefaru yn eu mysg. Yma trymhäodd fy nghystudd, fel na allwn bregethu y Sabboth; fy nghalon yn llamu a'm nerth wedi fy ngadael. Ond heblaw moddion y Sabboth cynnaliasom yma hefyd gyfarfod pregethu y dydd-iau canlynol. Cawsom gyfarfod neillduol gydâ'r swyddogion eglwysig, ac un arall gydâ'r holl eglwys yn gyffredinol. Yr oedd y gwrandaŵwyr yn y moddion cyhoeddus yn lïosog, ac yn gwrando yn astud; ac nid oedd pregethu iddynt ychwaith yn gwbl anhawdd nac anhyfryd, er ein bod yn eu mysg mewn gwendid mawr. Buom yn Nghapel yr Annibynwyr Cymreig, a Chapel rhyw blaid o Saeson, yn cadw rhai o'r oedfauon, o herwydd eu bod yn helaethach na'n Capel ni. Mae yma amryw Gymry o Sir Drefaldwyn yn trigfanu. Lletyem yn nhŷ gŵr o'r enw Evan Roberts, gynt o gymmydogaeth Llanfyllin.

"Dydd Iau, Mai 23, sef trannoeth wedi y Cyfarfod Pregethu, cychwynasom o Utica i Steuben. Yr oeddym yn trafaelu mewn gwagen ar hyd ffordd anwastad a drwg, oddeutu deunaw milldir o hyd; ond aethom drosti yn rhyfedd, o glonc i glonc, a chyrhaeddasom yn ddiogel gydâ'r hwyr i dŷ Mr. Lewis Lewis, gynt o gymmydogaeth Machynlleth. Yr oedd yr hen ŵr hwn wedi gweled llawer o flinder yn Nghymru ac yn America, ond yn awr yr oedd ganddo dyddyn prydferth o'i eiddo ei hun, bron wedi ei gwbl arloesi, ac adeiladau da a chyfleus wedi eu codi arno; ac ymddangosai mewn clydwch a chysur ar ddiwedd ei oes.

"Trannoeth aethom i dŷ ein hen gyfaill James Owen; ac yno y gwnaethom ein cartref tra buom yn y gymmydogaeth hon. Yr oedd enw y gŵr hwn yn adnabyddus i ni er's llawer o flynydd-oedd, o herwydd ei fod yn arfer ysgrifenu at Gymmanfaoedd y Methodistiaid yn Ngogledd Cymru. Mae yntau mewn am-gylchiadau cysurus, ac arwyddion fod ei blant a'i hiliogaeth, tan fendith yr Arglwydd, yn gwreiddio yn y tir. Bu ef yn un o'r prif offerynau i sefydlu achos y Trefnyddion Calfinaidd yn nghymmydogaeth Steuben; ac y mae wedi cadw hanes o holl

helyntion y gwaith yn fanwl o'r dechreuad. Mae'n amheus genym a oes un gymdeithas neillduol yn perthyn i'r Methodistiaid trwy Gymru, wedi dwyn ei gorchwylion eglwysig yn mlaen mor reolaidd, a chadw hanes mor gryno o'i gweithrediadau, â'r hanes a welsom gan Mr. Owen o holl amgylchiadau yr eglwysi yn y cymmydogaethau hyn. Ond y mae'r hen bererin hwn yn nesâu at ddiwedd ei daith, a phob arwyddion fod ei ysbryd, er ei fod yn aml yn drallodedig ac isel o herwydd *dryllio Joseph*, yn addfedu i'r *breswylfa lonydd*.

"Boreu Sabboth, Mai 26, aethom gydâ Mr. James Owen a'i deulu yn y wagen i Gapel Remsen. Yr oeddem ni yn llwyth gwagen, ac yr oedd y bobl i'w gweled yn cyrchu ato yn llwythi gwageni o bob parth o'r wlad: rhai o honynt yn dyfod o ddeg i bymtheg milldir o gwmpas. Yr oedd y gyrchfa yn debyg ag y gwelais at Gapel Llangeitho ar foreu Sabboth. Y Capel hwn yw y mwyaf a fedd y Trefnyddion Calfinaidd yn America; a phan delai'r cymmydogaethau yn nghyd, byddai yn llawn iawn. Yr oedd genym dair oedfa'r Sabboth: treuliwyd rhan o un i egwyddori ieuenctyd yr Ysgol Sabbothol. Ni bu'm yn hollol ddigymhorth i bregethu y boreu a'r nos.

"Dydd Llun, Mai 27. Codi y boreu heddyw yn wanaidd ar ol fy llafur ddoe. Darllenais Psalm cxxi. a rhoddais fy hun i'r Arglwydd, fy nghorph a'm henaid, fy ngwraig a'm plentyn, gan ddadleu yr addewidion a gynnwys y Psalm, lle mae yr Arglwydd yn addaw cadw rhag i'r haul daro y dydd, na'r lleuad y nos, a chadw'r mynediad a'r dyfodiad, hyd yn dragywydd. Felly yr oeddwn yn profi fy meddwl yn gwroli gydâ golwg ar Ohio. Dechreuasom y boreu hwn ar ymweliad, gydâ dau o henuriaid Remsen, â phob lle ag yr oedd achos gan y Methodistiaid ynddo, yn y cymmydogaethau oddiamgylch. Yr oeddym yn trafaelu mewn ceir bychain; ac o herwydd fod cryn bellder rhwng y lleoedd a'u gilydd, a'r ffyrdd yn ddrwg, nid oedd genym y rhan fynychaf ond un oedfa yn y dydd, a hono yn nghanol y diwrnod, fel y cai y gwrandawwyr amser i ddyfod yn nghyd, ac i ddychwelyd i'w cartrefleoedd cyn yr hwyr; canys yr oedd

llawer o honynt yn dyfod o bellder mawr, a hyny trwy 'anialwch heb ffordd,' neu, o leiaf, ar hyd ffyrdd diffaeth a blin. Pregethem y boreu hwn, yn hen Gapel Pen-y-Caerau, Capel hynaf y Methodistiaid yn America. Yr oedd genym gymdeithas neillduol ar ol y bregeth; ac yn hono yma, fel mewn lleoedd ereill, annogem ein cyfeillion i lynu yn ddiysgog wrth athrawiaeth yr efengyl; i lafurio am brofiad o'i grym yn tangnefeddu'r gydwybod, ac yn adnewyddu y galon mewn sancteiddrwydd; i ofalu am ei harddu yn eu bywyd, ac nid ei gwneuthur yn destyn cecraeth a dadl hunanol a diles; a gofalu am beidio symmud yr hen derfyn mewn Dysgyblaeth. Chwiliem hefyd i ansawdd yr Ysgol Sabbothol, a chrefydd deuluaidd; a chymhellem rieni i ddwyn eu plant i fynu yn yr eglwys. Y gymmydogaeth hon yw yr orsaf gryfaf a hynaf o'r Cymry yn yr America. Hynod oedd clywed rhai o honynt yn adrodd eu hanes yn byw mewn cabanau yn y coedwigoedd;—yn colli eu gilydd, eu hunain, eu tai, a'u hanifeiliaid. Pan y byddai un o honynt wedi myned ar goll, arferent fyned i gŵr yr anialwch, a chwythu mewn corn; ac weithiau byddai'r cyfrgolledig mor ddyryslyd, nes methu cyfeirio tua'r corn, er ei fod yn clywed y sŵn. Y maent eto yn rhwymo clychau am yddfau y gwartheg, er mwyn dyfod o hyd iddynt yn y coedydd. Y mae eto gannoedd o erwau heb eu cyfaneddu yma, a lle yn y wlad i filoedd o drigolion. Pan ystyriwn i'n cyd-genedl ddyfod yma yn dlodion i ddechreu, a chanddynt arloesi, adeiladu, a'r cwbl i'w wneyd, y mae yn rhyfedd eu gweled cystal. Eto golwg rhai megis yn dechreu byw a geir arnynt; rhai wedi dyfod i'r peth ydynt o ystâd is. Nid oes yma mo'r cysuron a geir mewn taith trwy Gymry. Dynion iach, gweithgar, a di-ddiogi, yw y dynion i ddyfod i'r America. I'r cyfryw, er na feddant lawer o'r byd, y mae y fantais sydd i'w chael yn demtasiwn gref i ymsefydlu yma. Ysgrifenais hyn mewn coedwig prydnawn Llun.

"Dydd Mawrth, Mai 28. Heddyw ni a ymwthiem trwy ganol coedydd ac anialwch braidd diderfyn, wedi ei rhwyllio gan glytiau bychain a thai y Cymry, i le a alwant yn *French Road*,

lle y pregethem yn y boreu. Oddiyno ni a aethom, at ddau ar y gloch yn y prydnawn, i Ben y Graig. Cafwyd cyfarfod eglwysig yma ar ol yr oedfa, yr hwn a dreuliwyd oll mewn ymddyddan ar grefydd deuluaidd, ac nid yn gwbl ddieffaith chwaith.

"Dydd Mercher, Mai 29. Yr oedd genym ddeng milldir o ffordd i fyned at yr oedfa heddyw, yr hon a gynhelid yn nhŷ mab i Mr. James Owen, yn mhentref Boonville. Cafodd un o honom" [Mr. Rees ei hunan oedd hwnw, a mynych yr adroddai y chwedl, er difyru ei gyfeillion, ac yn enwedig ei ŵyrion bychain] "brofedigaeth ddigrif wrth bregethu yn y lle hwn; canys ar ganol y bregeth fe ddringodd llygoden i fynu dan ei *drowsers,* ar hyd ei glun; ac wedi bod dros dro yn ceisio ei hysgwyd ymaith heb ddwyn sylw'r gynnulleidfa, bu raid ymattal a gwaeddi allan am help. Ond, er y cwbl, fe ddibenodd y cyfarfod yn lled lewyrchus, ac ni ddarfu i'r tro digrifol ddyrysu dim ar ein teimladau i ddyweyd na gwrando. Nid oedd y gwrandawŵyr ond ychydig o nifer, er fod rhai o honynt wedi dyfod dair milldir ar ddeg o ffordd. Mae y Cymry yn yr ardal hon yn dra gwasgaredig oddiwrth eu gilydd, a phregethu yn anfynych ac annghyson iawn. Eto y mae yn eu mysg ryw rai truain tlodion, a'u heneidiau yn brefu am foddion grâs. Yr oedd un hen wraig o Sir Fôn, yn y cyfarfod eglwysig, yn adrodd ei hiraeth, dan lefain, am freintiau Cymru, 'a'r wledd,' meddai, 'wrth fwrdd yr Arglwydd, lle y cyfarfyddwn â Iesu Grist.' 'Y Sabboth diweddaf,' meddai, 'wedi darllen yn y tŷ nes yr oeddwn i wedi blino, mi a aethum wrthyf fy hun i'r coed i geisio gweddïo; ac yn wir, yr oedd yr Arglwydd yn rasol wrthyf yno.' Fel hyn y mae efe eto yn gweled trueiniaid 'dan y ffigysbren,' ac yn 'porthi y rhai sydd yn trigo yn y coed yn unig.'

"Yn y prydnawn, ni a aethom ddeng milldir yn mhellach, i fan a elwir *Webster Hill,* lle yr oeddem i gadw oedfa y boreu drannoeth. Buom oriau yn myned, mewn gwagen, ar hyd ffordd na welodd Cymru mo'i chyffelyb. Mae yn anhawdd i ni roddi i'n cydwladwyr ddrychfeddwl o'r daith hon. Yr oedd y ffordd

yn llawn cwtterydd a phyllau lleidiog, a hòno, tybygem ni yn rhedeg drwy fro marwolaeth ei hun. Ymddangosai holl natur mewn annghyfanedd-dra oesol o'n cwmpas, ac mor unig a llonydd â chorph marw ar ystyllen, heb adlais un creadur byw yn tori ar ddistawrwydd pruddaidd y lle, oddieithr y llyffaint, y rhai a nadent ar hyd y goedwig, yn debyg i gywion hwyaid wedi colli eu mam. Ofer ymwrando am lais y gôg a'r fronfraith yma; nid yw pêr oslef gelltydd Cymru byth i'w glywed yn nghoedwigoedd anial America, oblegyd y mae ei holl adar mor ddistaw â'r wiwair ar hyd y coed. Teithiem yn arafach na'r troliau ar ein ffyrdd ni. Nid oedd i'w weled ar bob llaw i ni, braidd yr holl ffordd, ond anialwch a choedydd dibendraw: ond, weithiau cyfarfyddem ag ambell i lanerch wedi ei harloesi megis twll goleu yn nghanol cwmwl dudew, ac megis yn rhoi terfyn ar anialwch tragywyddol, lle gwnai y dyn druan, a anwyd i flinder, le i roi ei ben blinedig i lawr. Rhyfedd yw gweled dyn yn rhoi ei babell i lawr yn mherfedd yr anialwch (lle y mae weithiau yn ei cholli ar ol ei chodi), ac yn dechreu rhwyllo y goedwig dywell trwy eu harloesi, a Duw yn rhoddi iddo ei winllanoedd o'r fan hono! Tybygid y torai dyn ei galon wrth feddwl am arloesi yr anialwch mawr a'i wneyd yn dir cyfanneddol; ac y mae yn sicr na wêl llawer o'r Cymry yn eu hoes mo'r ffermydd ond yr anial mawr. Eto y diwedd mae'n debyg fydd, i'r hen anialwch tragywyddol ildio i'r pryfyn dyn. Ond y mae lle mawr i ofni fod awydd y Cymry am arloesi yr anialdiroedd hyn yn peryglu yn fawr i'r ysbryd a'r teulu fyned yn anialwch digrefydd, ac y bydd eu hiliogaeth oesoedd a ddaw heb Dduw yn y byd, a'r wybodaeth o hono wedi colli o'u plith.

"Wedi cloncio yn hir ar ffordd erwin, daethom, yn mrig yr hwyr, at fwthyn bychan ar ochr y ffordd yn nghanol y coed, a chlytiau bychain wedi eu harloesi o'i gwmpas, megis ffenestri i ollwng ychydig oleuni i mewn i'r anialwch du a chauadfrig; a dyna'r fan y trefnodd Rhagluniaeth i ni i roddi ein penau i lawr y noswaith hono. Nid oedd nemawr o fawredd a moethau y

byd o'n cwmpas, ond gweinyddai ein cyfeillion yn siriol i ni o'r pethau oedd ganddynt. Yr oedd amryw o honynt, hen ac ieuanc, wedi ymgasglu yno o'r gymmydogaeth i'n derbyn a'n croesawu,—oll o Sir Fôn. Er eu bod o angenrheidrwydd yn amddifad o lawer o gysuron gwlad gyfanneddol, eto fe ddichon eu bod yn cael gwir angenrheidiau natur gydâ llai o ofalon trafferthus na llawer o'u cyffelyb yn Nghymru. Ni chlywsom hwy yn cwyno cymmaint am ddim ag am foddion grâs. Dywedai un hen wraig yno: 'Yr ydwyf fi yn hoffi America yn burion fel lle i fyw, ond O! yr ydym yn amddifad o freintiau yr efengyl. Anfonwch hanner dwsin o bregethwyr yma, da chwi; mi gadwaf fi un o honynt am flwyddyn fy hunan; gwnaf yn wir yn ewyllysgar hefyd.' Un arall, wrth sychu ein traed, a ddywedai am ei hen fraint yn Nghymru,—'O! na chawn i sychu *boots* John Elias unwaith eto!' Dywedwn innau ynof fy hunan, 'Da yw bod hyn yn dy galon, a bod rhywbeth i'w wneyd dros yr Arglwydd yn yr anialdir hwn.' Wedi hir ymddyddan aeth y cyfeillion adref, ac aethom ninnau i orphwys i'r gwely oedd wedi ei barotoi i ni yn nghornel y gegin. Cawsom gyfarfod gydâ hwy y boreu drannoeth. Yr oedd y bregeth a'r cyfarfod eglwysig ar grefydd deuluaidd. Cydiai y gair yn ddwys yn meddyliau amryw wrth wrando, o'r ychydig oeddent wedi dyfod yn nghyd. Ond wrth holi eu plant, yn y cyfarfod eglwysig, gwelem fod diffyg dirfawr mewn addysg deuluaidd gartref. Ni wyddai amryw o honynt ddim am Iesu Grist,—hyd yn nod lle ei enedigaeth a'i farwolaeth. Annogem hwy yn fawr i grefydd deuluaidd, yn enwedig gan eu bod mor amddifad o foddion eraill.

"Yn y prydnawn aethom oddeutu wyth milldir oddiyno, i le a elwir *Floyd*. Yr oedd y wlad yn fwy cyfanneddol, ac yn fwy hyfryd i'w theithio, a'r ffordd yn llawer gwell na'r dydd o'r blaen, oddieithr mewn un man, lle buom yn rhoi planc ar draws rhyw bydew i fyned drosto. Yr oeddym yn teithio am hir amser ar hyd ochr dyffryn prydferth; ond nid oes yma eto na dyffryn na bryn wedi ei berffeithio. Mae amaethyddiaeth eto heb olchi ymaith annghyfannedd-dra ac anialwch oddiar wyneb

y tir. Nid oes yma mo'r gerddi dymunol, y *nurseries* hyfryd, a'r palasau gwych, i brydferthu y dyffrynoedd, a boddio llygad y teithiwr. Mae gor-boblogaeth Prydain, yn nghyd â'r holl fanteision byw sydd yma, yn debyg o ddwyn miloedd eto drosodd; ond pan fydd yr Arglwydd yn ei ragluniaeth yn eu gyru o Brydain i America, gwna â hwynt yn debyg i'r fel y gwnaeth âg Adda, pan ei gyrodd o Baradwys i lafurio yr anialwch. Wedi cyrhaedd Floyd, cawsom letty caredig gydâg un o'r cyfeillion yn y gymmydogaeth. Cynnaliasom ein cyfarfod yno am ddeg drannoeth, yn Nghapel yr Annibynwyr. Ond yr oedd yr ychydig Fethodistiaid sydd yn yr ardaloedd yn awyddus am gael Capel iddynt eu hunain yn y gymmydogaeth; ac, ar ol yr oedfa, buom ni a hwythau yn penderfynu y llanerch fwyaf cyfleus i'w adeiladu arni. Annogasom hwy i godi Ysgol Sabbothol yn ddioedi. Clywsom, ar ol dychwelyd adref, fod y Capel wedi ei adeiladu, ac Ysgol Sabbothol siriol o'i fewn. Yma yr oedd ein taith hon yn diweddu. Dychwelasom brydnawn ddydd Gwener i dŷ ein hen gyfaill Mr. James Owen, ar yr hwn yr edrychem erbyn hyn fel ein cartref, lle y caem orphwys dros y Sadwrn, a pharotoi at y Sabboth oedd o'n blaen yn Remsen. Yr oedd y ffordd adref yn lled dda, a'r olygfa nid yn annhebyg i'r un a geir wrth ddyfod at Groesyswallt, ond nid i'w chymharu mewn prydferthwch. Gwaith oesoedd fydd gwneyd Sir Oneida fel Sir yr Amwythig.

"Dydd Sadwrn, Mehefin 1. Cefais beth cymhorth i fendithio Duw am Grist heddyw; ac wrth weled mor barod i gyfeiliorni yw fy meddwl a'i holl serchiadau yn mhob profedigaeth, i fawrhau a rhyfeddu wrth feddwl fod fy natur i yn Mherson Crist wedi dyfod trwy y temtasiynau mwyaf tanllyd, heb ŵyro drwch y blewyn o lwybr sancteiddrwydd. Cadwed yr Arglwydd grasol fy nghorph a'm henaid oddiwrth haint echryslon! Dylwn ofni yr hinsawdd foesol fel yr un naturiol, ac afiechyd enaid yn gystal âg afiechyd corph. O Arglwydd da, cadw fi, a'm gwraig, a'm geneth fechan, nes ein dwyn at ein gilydd mewn heddwch!

"Dydd Sabboth, Mehefin 2. Pregethais y boreu a'r hwyr, ac felly boreu Llun yn y gymmydogaeth, a'r prydnawn yn Nghapel y Bedyddwyr; ac nid yn gwbl ddieffaith ychwaith. Pasiem dŷ hen ŵr heddyw (Llun), oedd yn byw yma pan oedd yr holl wlad yn un anialwch gwyllt. Byddai yn arfer myned, gydâ'i sâch ar ei gefn, i'r felin, ugain milldir o bellder, trwy y coed, gan wneyd marciau arnynt rhag colli'r ffordd, wrth ddychwelyd. Yr oedd yr olygfa o gwmpas y Capelydd y Sul a'r Llun yn dra thebyg i Langeitho,—yn llawn o geffylau a gwageni. Pwy a ŵyr na bydd i'r Arglwydd da wneuthur lles i rywrai; y mae ysbryd codi allan i wrando ar y bobl.

"Dydd Mawrth, Mehefin 4. Gydâ fy mod o'r gwely heddyw, clywais y newyddion cyntaf o'r hen wlad. Daeth y '*Great Western*' mewn tri diwrnod ar ddeg o Bristol i New York. Mawr y cyfnewidiadau yn Mrydain mewn byr amser: Arglwydd Melbourne wedi rhoddi i fynu ei swydd fel prif-weinidog; Syr Robert Peel wedi ceisio a methu ffurfio gweinyddiaeth; ac Arglwydd Melbourne wedi ei alw yn ol drachefn. O! cadwed yr Arglwydd Brydain yn yr amgylchiadau terfysglyd hyn! Clywais heddyw hefyd fod fy ngwraig a'm plentyn yn iach, am rai dyddiau wedi fy ymadawiad. Bum yn siarad â gŵr a welodd Anne fach. Yr ydwyf yn *recordio* yma fy niolchgarwch i ti, O Arglwydd, am hyn, ac yn dymuno dy nodded tadol i barhau.

"Dydd Mercher, Mehefin 5. Yr ydwyf yn dymuno cofrestru y pethau a basiodd rhwng fy enaid tlawd â Duw, y boreu hwn eto yn fy ystafell wely. Wrth ddarllen y drydedd bennod yn Llyfr y Diarebion, rhoddwn fy hunan i'r Arglwydd, i weithio trwy ei râs fy ysbryd i gydymffurfiad â'r cymhelliadau sydd yno, ac o'i râs i gyflawni arnaf yr addewidion cysylltiedig wrth yr ufudd-dod a gymhellir. Ymgysegrais i'r Arglwydd, yn ol cyfarwyddiadau y Psalm xxxvii.: gobeithio yn yr Arglwydd; ymddigrifo ynddo; treiglo y ffordd arno; ac ymddiried ynddo: 'efe a'i dwg i ben.' Edrychais dros lawer amgylchiad dyrys, ac amcanion fuant unwaith yn ymddangos yn anhawdd iawn i'w

cyflawni; ond fe'u dygodd Duw hwy i ben yn esmwyth iawn, ac a roddodd i mi ddymuniadau fy nghalon. Paham yr amheuaf ef yn y daith hon? Nid oedd genyf ar y cyntaf, un drych-feddwl am adnod 18; ond llewyrchodd i fy meddwl gydâ chysur, fod yr Arglwydd yn adnabod dyddiau y rhai perffaith: holl amgylchiadau a thymhorau eu bywyd: eu dyddiau gwresog, niwliog, tywyll, tymhestlog; gwaith a dioddefiadau eu dyddiau. Edwyn hwy i gynnorthwyo, i gysuro, i gyfarwyddo, a chysgodi. Diwrnod o waith a threial yw yr ysbaid sydd genyf finnau i'w dreulio yn America, a hwnw a adwaenir gan yr Arglwydd:—ei waith, ei demtasiynau, a'i holl beryglon.

"Yn yr wythnos hon cynnaliwyd y Cyfarfod Chwarterol yn Remsen. Y boreu cyntaf cawsom gyfarfod neillduol gydâ'r brodyr sydd yn pregethu. Gweinidogion: William Pierce; William T. Williams, gynt o Bettws y Coed; a William Rowlands, New York. Pregethwyr: David Davies, Utica, ac Edward Meredith. Mae Mr. Pierce, os yw yn fyw, mewn oedran mawr, a Mr. W. T. Williams hefyd yn heneiddio; ond y mae'n ffyddlon a defnyddiol gydâ'r gwaith, ac o werth mawr iddynt hwy yno. Yn y cyfarfod canlynol yr oedd y pregethwyr, a blaenoriaid yr amrywiol eglwysi gydâ'u gilydd; a chawsom un cyfarfod cyffredinol, i aelodau yr holl eglwysi, hyd y gallent, fod yn bresennol. Yr oedd hwn yn gyfarfod tra lliosog a siriol. Ar ol ychydig ymddyddan am bethau ysbrydol, ymdriniwyd â phethau mwy amgylchiadol; a phenderfynwyd yn unfryd ar yr hyn a ganlyn, trwy godi deheulaw:—1. Eu hymroddiad i barhau mewn undeb â'r hen fam eglwys yn ngwlad eu genedigaeth, ac na byddai i ddieithriaid gael cenad i lefaru yn eu pulpudau, heb sicrwydd oddiwrth y Gymdeithasfa Chwarterol yn Nghymru, eu bod yn bregethwyr rheolaidd gydâ'r Methodistiaid Calfinaidd cyn gadael eu gwlad. 2. Eu diolchgarwch i'w cyfeillion yn Nghymru am gofio am danynt, ac anfon brodyr i ymweled â hwy yn eu gwendid a'u tlodi mawr yn nhir y Gorllewin. 3. I wneuthur casgliad unwaith yn y flwyddyn at yr Achos Cenadol, a bod y casgliad hwnw i fyned yr un ffordd a chasgliad y Trefn-

yddion yn Nghymru, ac yn ol penderfyniad y Gymdeithasfa Chwarterol. 4. Gwnaethant arwydd o'u dymuniad taer ar fod i frodyr gael eu hanfon i'w mysg i lafurio yn ngwaith y weinidogaeth, ac o'u penderfyniad i wneyd yn ol eu gallu tuag at eu cynnal a'u cysuro. Y mae rhywbeth o'r llewyg dosturiol a ddaliodd ein calonau, wrth edrych ar eu dull brwdfrydig yn pasio'r penderfyniad hwn, wedi aros byth ar ein côf. Gallesid meddwl pe buasai gŵr â'i law wedi gwywo yn y lle, y buasai cynhyrfiad y fynyd yn ei alluogi i'w dyrchafu. Yr oedd eu holl enaid, tybygem, yn ymdywallt i'r dymuniad wrth ei wneyd. Gydâ fod yr hen frawd, Mr. Owen, yn ei grybwyll, yr oedd dwylaw pawb i fynu yn ddiattreg, nes yr ymddangosai y Capel drwyddo fel llwyn tew-frig o goed. A chan ddal eu dwylaw i fynu, edrychent gydâg awydd-fryd yn ein hwynebau, fel pe buasent yn gofyn, 'A ydych chwi yn teimlo drosom?' 'Yr ydym yn benderfynol na thynwn ni mo'n dwylaw i lawr, nes gwneyd argraff ddofn o'n tlodi a'n dymuniad ar eich calonau.' 5. Penderfynwyd anfon Mr. John Williams, un o'r blaenoriaid yn Remsen, gydâ ni drwy Ohio, a hyny fel arweinydd i ni, a chenad drostynt hwythau at yr eglwysi yn y wlad hono; gan obeithio, os oedd modd, ffurfio mwy o undeb rhyngddynt â'u gilydd yn y ddwy dalaeth, a chael cenadon o'r naill i'r llall yn eu Cyfarfodydd Chwarterol. Gobeithiwn y gall hyn ar brydiau gael ei gyflawni; ond y mae y pellder dirfawr sydd rhyngddynt a'u gilydd yn rhwystr mawr i hyny.

". . . . . Wrth ymadael â'n cyfeillion yn yr ardaloedd hyn, a chofio eu hiraeth am eu hen freintiau gynt yn Nghymru, nis gallem lai na gweddïo yn ngeiriau y prophwyd,—'Portha dy bobl â'th wialen, defaid dy etifeddiaeth, y rhai sydd yn trigo yn y coed yn unig, yn nghanol Carmel; porant yn Basan a Gilead megis yn y dyddiau gynt.' Buont yn hynod o gymmwynasgar i ni. Nis gallwn byth annghofio eu caredigrwydd yn anfon y brawd Mr. J. Williams gydâ ni drwy Ohio, yr hwn a fu o wasanaeth mawr iawn. Yr oedd ymarferiadau ac arfer y wlad mor ddieithr i ni, fel na buasem yn gwybod yn y byd pa fodd i

wneyd, na pha beth i'w dalu, wrth deithio o fan i fan, heb ei gymhorth ef. Gwnaethant gasgliad at ddwyn ein traul trwy'r wlad, a'r un modd hefyd yn Ohio. Nid oeddym ni yn gwasgu arnynt i wneuthur dim, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; hysbysem ar gyhoedd bron yn mhob lle, fod ein cyfeillion yn Nghymru wedi ymrwymo i'n digolledu ni, a'u bod hwy yn hollol at eu dewisiad i wneyd neu beidio. Ond sylwent—gan fod Cymru, trwy ein hanfon, wedi dangos caredigrwydd iddynt hwy, y mynent hwythau wneuthur rhywbeth, er dangos eu caredigrwydd i ninnau yn bersonol. Ar ol y Cyfarfod Chwarterol, ymadawsom â'r Cymry yn nghymmydogaethau Steuben, a daethom i Utica erbyn y Sabboth."

Dodwn i mewn yma ran o lythyr a anfonwyd ganddo, cyn ymadael â Remsen, at Mrs. Rees:—

"Remsen, June 7, 1839.

"My Dearest Mary,—Yr ydwyf yn achub yr adeg, y boreu "heddyw, i ysgrifenu llinell gydâ'r *Great Western*, sydd yn troi "allan ddydd Iau nesaf o New York. Ac er na bydd yn werth "yr arian aiff am ei gario—nid oes genyf amser i ysgrifenu—eto "fe gynnwys y peth mwyaf dymunol gan fy anwyl Mary ei "glywed, sef, fy mod i, o fawr ddaioni yr Arglwydd, yn "parhau yn fyw, a rhyfedd iach hyd yma. Mi gefais anwyd ar "ol gadael New York, a'm gwnaeth yn isel a lled wanaidd am "rai dyddiau. Mi a ymatteliais rhag llafurio yn y gwaith, ac "nid oeddwn yn dyfod nemawr gwell. Mi a ymroddais ato yn "fy ngwendid, ac mi fendiais.

". . . . . . . My poor soul finds precious refreshment in the "promises of God. Oh! the hundred and twenty first Psalm! "How sweet to my anxious soul. How kind in such a Being as "the Eternal God to condescend to remove the fears and anxiety "of a poor weak worm! How gracious! 'He will not suffer "thy foot to be moved (in going in or out of the boat); he that "keepeth thee will not slumber. Behold, he that keepeth Israel "shall neither slumber nor sleep. The Lord is thy keeper; the "Lord is thy shade upon thy right hand. The sun shall not

"smite thee by day, nor the moon by night. The Lord shall "preserve thee from all evil: he shall preserve thy soul. The "Lord shall preserve thy going out and thy coming in, from this "time forth, and ever for evermore.' Pan byddo diluw o ofnau "yn dechreu gorlifo dros fy meddwl, byddaf yn ceisio codi "mewn gweddi, a myned, myfi, a'm holl deulu, i'r arch, trwy "lechu yn nghysgod addewidion grasol Duw. I shall pray for "you both while I breathe; indeed it is almost as natural as to "breathe for me to do so. . . . . . ."

Wele lythyr arall a anfonwyd ganddo y dydd canlynol at Mr. Samuel Jones, yr hwn oedd y pryd hyny, ac a fu am flynyddoedd lawer ar ol hyny, yn flaenor yn hen Gapel Pall Mall, Liverpool. Anfonwyd y llythyr gan Mr. Samuel Jones i'r Drysorfa am Medi, 1839, tudal. 274, 275.

"Steuben, Mehefin 8, 1839.

"ANWYL FRAWD,—Gan eich bod wedi dymuno llythyr oddi-"wrthyf o'r America, yr ydwyf yn achub rhyw fynyd o seibiant "sydd genyf y boreu heddyw i gyflawni eich dymuniad. O'm "rhan fy hun, a'm cyfaill, y mae yr Arglwydd wedi bod yn "dyner iawn o honom hyd yma. Y mae wedi diogelu ein "bywydau yn nghanol peryglon lawer, mewn teithiau meithion, "ac ar hyd ffyrdd blinion a drwg. Cefais i anwyd wrth fyned "o New York i Utica, a'm gwnaeth yn dra isel fy nghorph a'm "hysbryd dros rai dyddiau. Yr oedd fy nheimladau yn debyg "i'r eiddo Dafydd pan y dywedodd, 'Fy nghalon sydd yn llamu, "a'm nerth a'm gadawodd;' ac yr oedd bod yn y fath gyflwr mor "bell oddicartref, yn ychwanegu at iselder a chystudd fy ysbryd "yn fawr. Pan nad oeddwn, i'm teimladau fy hun, yn dyfod "nemawr gwell wrth orphwys a bod yn llonydd, mi a geisiais ym-"lusgo i'r pulpud; ac yn fuan fe adfywiodd fy nerth a'm hysbryd "adfeiliedig yn rhyfedd, fel ag yr ydwyf yn awr yn debyg mewn "nerth ac iechyd i'r hyn ag y byddaf yn arfer bod. Y mae fy "enaid yn dymuno 'diolch i Dduw, a chymmeryd cysur.'

"Y mae efe wedi bod yn raslawn iawn wrthyf er pan

"gychwynais oddicartref. Nis gwn beth a ddaethai o honof oni "buasai gorsedd grâs a geiriau y Beibl. Yr wyf yn barod i "ofni gwynt a gwres, a phob peth yn America: ond y mae y "Psalmau xci. a cxxi. wedi bod yn noddfeydd cedyrn i fy "meddyliau egwan ac ofnus; a llawer gwaith y bu'm yn "cyflwyno fy hunan, fy ngwraig, a'm geneth fechan, i nodded y "Goruchaf yn yr addewidion grasol hyn; ïe, yr ydwyf fi "a'm holl dŷ, yn myned i'r arch yma bob boreu cyn myned "o'm hystafell wely. Gydâ Duw yr ydwyf yn ymguddio. "Cefais hyfrydwch mawr heddyw wrth ddarllen a gweddïo "Psalm xxxvii. Ac wrth fyned yn mlaen o adnod i adnod, dan "fendithio yr Arglwydd am ei raslonrwydd ynddynt, a dymuno "y bendithion a gynnwysant, cyfarfyddais â'r gair hwnw, 'Yr "Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith.' Nid oeddwn ar "y cyntaf yn gweled dim ynddo: ond fe lewyrchodd yn fuan "gydâ chysur ar fy meddwl. Mor fanwl yw sylw Duw ar ei "bobl! Y mae yn adnabod eu dyddiau hwynt. Mae yn "adnabod eu dydd blin hwy, ac am hyny yn eu cuddio yn "dyner o fewn ei babell. 'Yn nirgelfa ei babell eu cuddia, ar "graig y cyfyd hwy.' Y mae yn adnabod eu dydd gwresog a "thymhestlog hwy, ac yn darparu iddynt yn rasol gysgod y "dydd hwnw rhag y gwres, a lloches rhag y dymhestl. Y mae "yn adnabod eu dyddiau cymmylog a niwliog, ac yn coledd eu "henaid, gan eu harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder, er mwyn "ei enw. Mae yn adnabod gwaith a themtasiynau eu dyddiau: "ac am hyny, 'megis eu dyddiau y bydd eu nerth.' Diwrnod "yw y tymhor sydd genyf finnau i'w dreulio yn y wlad hon, "a gallaf ddywedyd oddiar brofiad, 'A hwnw a adwaenir gan yr "Arglwydd:' oblegyd y mae'r nerth a'r cysur y mae yn ei "weinyddu mor brydlawn, ac mor gyfaddas a chyfatebol i'w "waith a'i amgylchiadau. Diolch byth am hyn!

"Y mae cynghorion ac addewidion Iesu Grist i'w ddysgyblion "wrth ymadael â hwy yn fater fy ngweddïau innau gydâ golwg "ar y gwaith mawr yr ydwyf ynddo. O! frodyr, darllenwch ar "eich gliniau hanes ei ymadawiad, ac anfonwch ei addewidion

"grasol ar ei ol ef i'r nefoedd, ar ran pechadur tlawd yn mhell-
"der y ddaear.

"Yr ydwyf wedi gweled llawer o Gymry yn nghymmydog-
"aeth Steuben. Buom dros un wythnos yn crwydro ar eu hol
"trwy goedydd ac anialwch, ac yn eu cael mewn rhai manau
"yn dra amddifad o foddion grâs. Mae gadael Cymru, i
"ddyfod i bregethu i Gymry yr America, yn sier yn adael y
"cant o ddefaid yn y gorlan, i fyned i'r anialwch ar ol yr hon a
"gollwyd; a gobeithiaf ar fyrder y bydd i'r Penbugail gynhyrfu
"rhai o'r îs-fugeiliaid i fyned allan i'r gwaith yma. Yr wyth-
"nos nesaf y mae genym dros bum' cant o filltiroedd i'w
"trafaelio, a llawer cant wedi hyny, cyn y byddwn wedi dyfod
"trwy Ohio i New York, i gychwyn adref. Gall yr Arglwydd
"grasol ein dwyn trwy y cwbl yn ddiogel, a'n gwneuthur hefyd
"o fendith i'n cyd-genedl yn nhir y Gorllewin, yn gystal ag yn
"ngwlad ein genedigaeth.

"Trowch i'r Efengylau ac i'r Psalmau y cyfeiriais atynt; a chwi
"a gewch weled yr oll sydd arnom eu heisiau, a'r oll y dymunem
"arnoch chwithau weddïo am i ni gael yn y daith faith hon. Ac
"os yr Arglwydd a fydd gydâ mi, a'm cadw yn yr holl ffordd
"yr ydwyf yn myned ar hyd-ddi, a'm dwyn mewn heddwch i
"dŷ fy nhad, yna bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi byth. Yr
"ydwyf yn cofio atoch oll,

"Eich gwael gyfaill yn Efengyl Crist, HENRY REES."

Y mae Mr. Rees cyn gadael cymmydogaeth Remsen, yn rhoddi ychydig o Hanes yr Achos yno, a'r annghydfod a'r rhwygiad a gymmerasai le yno ychydig cyn hyny, mewn cysylltiad a'r diweddar Barch. Morris Roberts. Buom mewn cryn betrusder yn nghylch yr hyn a fyddai yn oreu i ni wneyd gydâ golwg ar ei sylwadau ar yr amgylchiadau hyny, pa un ai eu hail-gyhoeddi ai eu gadael allan. Eithr gan fod cyfeiriadau helaeth atynt yn y Cofiant a gyhoeddwyd i Mr. Morris Roberts ei hunan, ac y teimlai rhai, fe ddichon, o'n cyfeillion Methodistaidd yn America yn siomedig pe gadewid hwynt allan, ac yn neillduol gan nad

oes ynddynt ddim anngharedig nac anfrawdol, nac yn tueddu at ail-godi hen ymryson, yr ydym yn eu dodi i mewn yma, yn hollol yn ngeiriau Mr. Rees ei hunan:—

"Fe ddechreuwyd yr achos crefyddol yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd yn yr ardal hon, mewn undeb â'r Annibynwyr: buont yn cyd-ymdrechu â hwy i adeiladu y Capel lle y mae y Parch. R. Everett yn awr yn llafurio; a thros ryw hyd yn cyd-addoli o'i fewn ar ol ei wneyd. Ond o herwydd nad oedd pob peth mewn athrawiaeth a threfn eglwysig yn esmwyth i'w teimladau hwy yno, ac o herwydd y buasai yn annheg ceisio hyny hefyd, mewn undeb â rhai ag oeddent o farn wahanol, ac yn meddu yr un hawl i ddyweyd a gwneyd yn ol eu syniadau a'u priod-ddull eu hunain ag oedd ganddynt hwythau, penderfynasant ymadael â'r gynnulleidfa hono; a gwnaethant hyny hefyd, yn ol dim a ddarfu i ni ddeall, mewn heddwch a thangnefedd.

"Wedi hyn, darfu iddynt ymuno yn eglwys gydâ'u gilydd, ac adeiladu Capel bychan iddynt eu hunain, lle y gallent fwynhau eu golygiadau ar athrawiaeth a dysgyblaeth heb beri blinder i neb ereill. Galwasant ei enw ef *Pen-y-Caerau*, er coffa am yr hen fangre yn Sir Gaernarfon, lle yr oedd amryw o honynt wedi profi llawer o ymgeledd ysprydol, cyn ymadael o wlad eu genedigaeth. Ar ol hyn yr adeiladwyd Capel cerrig Remsen, a'r Capelydd bychain ereill sydd yn yr ardaloedd o amgylch.

"Fel hyn y buont dros lawer o flynyddoedd yn ceisio cynnal eu hachos bychan tan lawer o anfanteision, yn enwedig mewn amddifadrwydd o weinidogaeth yr efengyl. A chawsant eu clwyf weithiau, o herwydd, yn eu hawydd mawr am ryw rai i bregethu iddynt, na buont yn wastad yn ddigon gofalus pwy a dderbynient i'w mysg. Eto ni bu dim anghydfod a rhwygiadau yn eu plith, hyd y rhuthr diweddar gydâ'r Parch. Morris Roberts. Mae'n eithaf croes i'n teimladau ni yngan gair am yr amgylchiad gofidus hwn yn hyn o hanesyn bychan. Ac ni wnaethem hyny chwaith, oni b'ai ein bod yn ofni yr achlysurai ein distawrwydd fwy o sŵn na'n gwaith yn ei grybwyll, o

herwydd fod golygiad rhyw rai ereill ar y peth wedi ei daenu eisoes ar hyd Cymru. Ond cofied ein cyd-wladwyr mai golygiad un blaid yn unig ar y mater yw hwnw, a bod yn rhaid iddynt glywed tystiolaeth yr ochr arall hefyd, cyn y gallant fod yn sicr eu bod yn meddu yr holl wybodaeth angenrheidiol i ffurfio barn gywir ar yr achos.

"Y gwirionedd yw, yr oedd golygiadau gwahanol M. R. yn achlysuro gofid ar droion er's blynyddoedd. A diammeu genym na waeth ganddo ef pwy wypo, ei fod o farn wahanol, am amryw bethau, i'r Methodistiaid Calfinaidd yn gyffredin :—megis y prynedigaeth a deiliaid bedydd. Mae'n hawdd gweled y cyntaf yn yr amddiffyniad a gyhoeddodd ei gyfeillion; ac y mae yr olaf yn amlwg, trwy ei fod ef yn awr yn bedyddio plant rhai di-broffes.

"Yn awr, os oedd Mr. M. R. o gydwybod o'r golygiadau uchod pan aeth drosodd i'r America, paham yr ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd yno, ac yntau yn gwybod yn dda ddigon, mai o herwydd gwahaniaeth golygiadau yn nghylch y pethau hyn, yr oeddynt wedi ymneillduo oddiwrth yr Annibynwyr? Paham y cymmerai ei neillduo yn Weinidog iddynt? gan ymrwymo ar y pryd, ger bron yr Arglwydd, i ymdrechu i gadw undeb, a gochel pob peth a dueddai i fagu ymrysonau, pan y gwyddai nas gallai weinyddu'r swydd yn ol ei feddwl ei hun, heb fod hyny yn fath o drais ar gydwybodau rhai ereill, ac felly yn sicr o beri ymryson a therfysg yn yr eglwysi. Oni buasai yn llawer mwy rhesymol iddo ymuno y pryd hyny â chyfeillion o'r un farn? neu ddechreu achos ei hun, fel y gwnaeth yn ddiweddar, lle y cawsai bob peth mewn barn ac ymarferiad, yn ol ei feddwl ei hun heb drallodi neb arall.

"Fe allasai pob dyn wybod, gan fod y golygiadau uchod wedi peri i'r Methodistiaid ymneillduo o Gapel yr Annibynwyr, na buasai yn esmwyth i'w meddyliau eu clywed yn cael eu cyhoeddi drachefn yn eu Capelydd eu hunain, y rhai oeddent wedi eu hadeiladu yn bwrpasol i gyhoeddi golygiadau gwahanol. Yr oedd yn lled galed i hen frodyr, ag oeddent wedi dwyn pwys y

dydd a'r gwres gydâ'r gwaith, y rhai oeddent wedi cael y fraint o ddechreu yr achos yn y lle, ac wedi bod yn ffyddlon i'w gynnal dros lawer o flynyddoedd, mewn tlodi ac anfanteision, orfod edrych yn y diwedd, ar yr un pethau yn gymhwys ag oeddent yn anesmwyth i'w cydwybod mewn lle arall, yn cael eu dwyn drachefn ar eu hol i'w tai bychain eu hunain, gan ŵr a ddaethai mor ddiweddar i'w mysg.

"Mae yn ymddangos i ni yn beth tra phwysig i ŵr fyned i mewn i eglwysi ag oeddent wedi eu casglu trwy lafur rhai ereill, ac yn mwynhau gradd o dangnefedd a chysur yn eu plith eu hunain, a thrwy gynnyg dwyn rhyw bethau newyddion i'w mysg,—aflonyddu eu heddwch, achlysuro terfysg, ac, yn y diwedd, ymraniad a rhwyg. Fe ddylasai naill ai peidio ymuno â hwy, neu gadw ei olygiadau gwahanol yn gwbl iddo ei hun. Feallai y dywedir, y dylai pob dyn gael rhyddid i ddyweyd a gwneyd yn ol ei gydwybod. Rhyddid! pa ryddid ydych yn ei feddwl? Os rhyddid fel aelod gwladol, yr oedd llon'd America o hwnw i M. R. heb ofyn cenad tlodion Steuben: ond os rhyddid fel aelod eglwysig, fe ddylai pob Cristion gofio nad yw i gael hwnw i gyd iddo ei hun, gan fod gan ei frawd ei farn, a'i arferion, a'i gydwybod, cystal âg yntau. Mae'n wir, gan fod pob ochr yn ffaeledig, y dylai Cristionogion mewn dadl, ro'i llawer o ryddid i'w gilydd, a gochel, hyd y byddo modd, gadael i'w gwahanol olygiadau oeri eu serch, na dryllio eu cymundeb. Beth er hyny, os bydd dynion yn gwahaniaethu yn eu barn yn nghylch pethau ag sydd mor bwysig yn eu golwg, fel nas gallant oddef eu gilydd yn heddychol, mae'n well iddynt beidio ag ymuno, na bod o flinder y naill i'r llall. Ac yn ol ein barn ni, y mae'r dyn sy'n dod i mewn i unrhyw gyfundeb, ac yn mynu pregethu yn groes i'w egwyddorion sylfaenol, yn ymddwyn yn llawer mwy gorthrymus, nae aelodau y cyfundeb hwnw, wrth ei attal i wneuthur hyny. Yr ydym wedi dyweyd yr holl bethau hyn, o ran sylwedd, wrth Mr. M. R.; a buasai yn llawer mwy dewisol genym beidio sôn am danynt ar ol hyny. Ond y mae gorfod arnom i'w cyhoeddi yma, nid i'w gyhuddo ef,

ond i'r diben o amddiffyn ein hen frodyr, ag sydd eisoes tan gyhuddiad ar hyd Cymru. Ac nid oes dim a wna i ni yngan gair yn rhagor am y digwyddiad gofidus hwn trwy'r argraffwasg, oddieithr y bydd yn rhaid i ni wneuthur felly mewn ffordd o'u hamddiffyn hwy drachefn."

Yr ydym yn awr yn dychwelyd at barhad yr Adroddiad a roddir gan Mr. Rees am y daith yn America.

"Dydd Llun, Mehefin 10. Y boreu heddyw yr oeddym yn gadael Utica ac yn troi tua Palmyra, yn nhalaeth Ohio. Yr oedd genym bum' cant a naw o filldiroedd i'w teithio yn ystod yr wythnos hon, a'r cwbl ar y camlesydd a'r Llyn Erie, oddieithr ychydig filldiroedd ar ddiwedd y daith. Mae trafaelio mawr iawn yn yr America; ac nid yw y trigolion, dybygid, yn edrych ar gychwyn i daith o bedwar i bum' can' milldir ond ychydig o beth. Yr oedd y cychod, y cerbydau, a'r *packets*, yn llawn o deithwyr yn mhob man. Mae cychod y *canal* yn lled feinion a hirion. Y rhai goreu o honynt a dynir gan dri cheffyl; ac y maent yn teithio o dair i bedair milldir yn yr awr. Nid yw teithio ychydig yn y dull hwn yn anhyfryd; ond y mae bod ynddynt yn hir yn garchar a chaethiwed blin. Mae'r camlesydd o angenrheidrwydd yn rhedeg ar hyd y pantleoedd a'r nentydd, a'r rhai hyny yn aml yn un goedwig gauedig, yr hyn sydd yn gwneyd poethder yr hâf yn llawer mwy annioddefol na phe buasent yn rhedeg trwy wlad agored a rhydd. Oddifewn i'r bâd, mae y cyfyngdra a'r brwdaniaeth yn ei gwneyd yn ddiffygiol iawn i'r teithiwr; ac oddiallan drachefn, mae yr haul ar ddiwrnod gwresog yn ei daro mor nerthol, nes yw yn barod i lewygu fel Jonah, heb un cysgod i'w waredu o'i ofid. Ac y mae bod fel hyn nos a dydd, heb ddim ymarferiad corphorol, na chyfleusdra i newid ystum yr aelodau dros amryw ddyddiau, yn ddigon i beri i'r ymdeithydd hiraethu am ben ei daith. Heblaw hyny, mae pontydd isel yn rhedeg yn fynych dros y dyfrffosydd meithion hyn; ac y mae yn rhaid i'r teithwyr ar ben y cwch wylio yn barhaus rhag cael niwed wrth fyned odditanynt. Mae esgeuluso hyn wedi costio eu bywydau i lawer o bryd i

bryd. Pan y byddis yn nesu at un o honynt, mae'r llywydd yn gyffredin yn rho'i rhybudd, trwy waeddi,—'Pont, Pont! gwyliwch y bont!' ac yn y fan mae yn rhaid i bawb blygu, ac weithiau orwedd ar eu hyd ar ben y cŵch rhag cael eu taflu drosodd, neu eu gwasgu i farwolaeth rhwng y bont ac yntau.

"Mae yr ystafell eistedd y dydd yn cael ei throi yn ystafell wely y nos; a byddai yr holl gwmni yn gorfod myned allan er mwyn rhoddi lle i'r gweision i'w pharotoi. Tynid i lawr y gorchudd sydd yn gwahanu rhwng hun-gell y meibion a'r eiddo y benywod; a chodid y gwelÿau i fynu, y naill goruwch y llall, fel *shelffoedd* ar hyd ystlysau y bâd. Y rhes isaf o honynt ydoedd y fainc-wely, ar yr hon yr eisteddid y dydd; a gorweddai pedwar neu bump ar eu hyd, y naill â'i ben wrth draed y llall. Oddiarnynt bydd rhês arall yn crogi wrth gortynau, ac un arall oddiar hyny, ac felly o bob ochr i'r cŵch; ac os byddai'r cwmni yn llïosog, gwneid amryw ar ei waelod hefyd. Wedi parotoi yr ystafelloedd, gelwid y teithwyr i gymmeryd eu gwelÿau, yn ol eu henwau ar y teith-lyfr. Ac fel hyn, byddai o bump i ddeg ar hugain o honom wedi ymwthio i'r guddugl fechan; ac heb ddiosg ond ychydig o'n dillad, gosodem ein hunain goreu y gallem ar y *shelf*, i gadw dros y nos. Yr oeddym mewn gwirionedd mewn gwely brwd, ac yn aml mewn perygl o gael anwyd, trwy orfod agor y ffenestr i gael anadl, pan yn foddfa o chwys. Mae awel y nos yn llem ac oerllyd oddiar y dwfr; a chan fod y ffenestr yn agor yn union i'r gwely, yr oedd yr anadl wenwynig yn taro yn gymhwys i mewn. Nid oes dim mwy atgas, yn y nos, na'r Argaeon sydd ar y Gamlas; canys pan fo cwsg yn dechreu llonyddu ar yr amrant, mae'r cyffro wrth fyned drwy y rhai hyn, yn sicr o beri iddo gilio oddiwrth y llygaid; ac y mae un yn cael ei aflonyddu felly, yn awr ac yn y man, ar hyd y nos. Oblegid pan agorir y dwfr-ddorau, mai y dwfr naill ai yn rhuthro allan o'r Argae, a'r cŵch yn suddo i lawr, neu ynte yn rhuthro i mewn, ac yn ei godi i fynu, a hyny gan ei ergydio, o ochr i ochr, yn erbyn muriau yr Argae, nes y mae pawb yn gyffredin, yn ddigon

effro. Gelwid ni i godi oddeutu pedwar yn y boreu, fel y gellid parotoi yr ystafell i foreufwyd, erbyn saith o'r gloch. Tra byddai y gweision yn gwneyd hyn oddifewn, byddai y teithwyr, hwythau, yn ymlanhâu ac yn ymdrwsio oddeutu'r drws. Rhybuddid ni gan y meddygon i ochelyd pen y cŵch yn y boreu, o herwydd fod y tarth a gyfodai o'r Camlesydd y pryd hwnw yn afiach iawn i'r teithwyr; ac yn mhob crynfa o anwyd, byddem yn barod i ddychymygu ein bod yn dechreu crynu o'r cryd.

"Er yr holl amgylchiadau dieithrol hyn, parodd yr Arglwydd tirion i mi gael huno y nos yn lled gysurus. Yr oedd yma, yn wir, lawer o annghysuron; ac nid peth bychan oedd y meddwl fy mod yr wythnos hon ar y ffordd i Ohio, yn lle bod yn y Bala, yn y Gymdeithasfa, gydâ'm hanwyl frodyr. Ond fy nghysur yw gobeithio fy mod yn y ffyrdd y mynai Duw i mi fod, ac y bydd iddo orchymyn i'w angylion am danom i'n cadw yn ein holl ffyrdd. Mae natur a'i theimladau, Satan a'i sibrwd, yn dywedyd y buasai yn fwy cysurus i mi fod gydâ'm hanwyl deulu. 'Mi a wn hyny hefyd; tewch chwi a sôn!'

"Yr oeddym erbyn prydnawn dydd Mercher wedi teithio dros ddau cant o filltiroedd, trwy lawer o wlad frâs, a threfydd poblog, megis Rochester a Lockport, a chyrhaedd yn ddiogel i Buffalo, tref boblogaidd a bywiog, ar làn Llyn Erie, un o fôrlynoedd mawrion yr America. Wrth nesâu at y Dref ymagorai hwn yn lled ddisymwth o flaen ein llygaid, ac ymddangosai yn hollol fel y môr. Yr oedd amryw o lestri i'w gweled yn y porthladd, ac ereill yma a thraw ar wyneb y llyn, yn diflanu o'r golwg yn y pellder. Yr oeddym am yr afon â Canada yn Buffalo; ac yr oedd y wlad hono yn dwyn mwy o'n sylw ni o herwydd ei bod yn perthyn i Brydain, a chymmaint o sŵn wedi bod am ei gwrthryfel y misoedd cyn i ni gychwyn. Gan fod *packet* ar gychwyn oddiyno i Cleveland, tref bron ar ben arall y Llyn, yn Nhalaeth Ohio, ni a benderfynasom fyned gydâ hi y noson hono. Yr oedd yr arwyddion fod ystorm o fellt a tharanau yn agoshâu yn llwfrhau peth ar ein meddyliau, yn

enwedig wrth gofio y byddai cawodydd o wynt yn dilyn y taranau yn y wlad hon yn fynych, nes ei gwneyd yn dymhestl fawr ar y llynoedd. Ond gan ymroddi i'r Arglwydd, yr hwn oedd wedi ein dwyn mor rhyfedd hyd yn hyn, aethom gydâ gradd o dawelwch meddwl i'r cŵch am wyth o'r gloch; a chawsom noswaith gysurus o gysgu yn dawel, er ei bod yn ystorm ddychrynllyd mewn manau. Cyrhaeddasom yn ddiogel i Cleveland am dri o'r gloch prydnawn dydd Iau, wedi bod yn teithio yn gyflym ar Lyn Erie am bedair awr ar bymtheg. Buasai yn dda genym gael gorphwys yn y lle hwn y noswaith hono; ond rhag ofn methu cyrhaedd pen ein taith erbyn y Sabboth, ni a ymroisom i fyned yn mlaen. Yr oedd cŵch y *Canal* yn barod i gychwyn pan ddaeth y *packet* i mewn; ac felly ni chawsom ond ymsymmud o'r naill i'r llall, ac ymadael yn ddioedi. Treuliasom y noswaith hon drachefn ar un o ddyfr-ffosydd Ohio, a chyrhaeddasom i Akron am bedwar o'r gloch boreu drannoeth. Pentref bychan ydyw hwn ar làn y Gamlas; ac yma yr oeddym yn ymadael âg ef. Erbyn dyfod o'r cŵch i'r *Inn*, yr oeddym yn teimlo yn flin a rhynllyd; a gorfu arnom ddisgwyl felly rai oriau am ein boreu-fwyd, mewn ystafell orwael heb ddim tân. Nid oedd genym bellach ond oddeutu ugain milltir i ben ein taith. Gydâ ein bod yn cychwyn o'r pentref, yr oeddym fel rhyw bryfaid gwylltion yn rhedeg yn union i'r coed. Eto yr oedd tir clir, pentrefydd bychain, llythyrdai, ysgoldai, a Chapelydd i'w gweled yma a thraw ar hyd y ffordd. Gwelsom un Capel yn agored, a'r bobl yn prysur gyrchu ato ganol dydd, ddydd Gwener, fel yn Nghymru, yr hyn a gynnyrchodd ynom deimladau serchog at y trigolion. Y mae defnydd gwlad hyfryd oddeutu Akron; ond y mae'r cwbl eto mewn ystâd anorphen; gwlad ydyw yn dechreu byw.

"Mae fy Nhad grasol yn parhau yn llawer gwell na'm hofnau i bechadur tlawd. Er na chyfarfum â phrofedigaethau mawrion ar y daith, eto y mae y daith ei hun yn dreial mawr. Mae fy meddwl yn soddi o hyd ond fel y byddo yr Arglwydd yn fy

nghynnal. Tad y trugareddau, a Duw pob dyddanwch, a gymmero fy holl ofal trwy Ohio! Mae y daith hon yn dyfod a mi i weled mwy o'm hannghrediniaeth a'm hanymddiried yn yr Arglwydd. Weithiau byddaf yn tueddu i rwgnach fy mod wedi gadael cartref oll. Ond hyd yma y mae'r Arglwydd yn dyner iawn o honof, yn fy nghadw rhag blinderau chwerwon, ac yn diddanu fy meddyliau digalon a llwfr. Y mae pob moment o ymddiried ynddo ef yn dwyn tawelwch mawr. Byddaf yn sicr o fod yn ddigon annghysurus wrth fyned trwy Ohio, os na châf ymdaith trwyddi, fel yr ymdeithiodd Abraham yn ngwlad yr addewid, 'trwy ffydd.' O Arglwydd, cymhorth fi i beidio ystyried peryglon a threialon y daith; ond nertha fi yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw! Yr un peth i ti fy nghadw yn yr amgylchiad hwn a'm cadw ar fy aelwyd gartref; a chadw fy nheulu yn fy absennoldeb, yr un fath â phe buaswn gydâ hwynt.

"Wedi bod yn y modd hwn yn teithio nos a dydd, ar hyd yr wythnos, cyrhaeddasom, trwy fawr ddaioni yr Arglwydd, yn ddiogel i Palmyra, am dri o'r gloch prydnawn ddydd Gwener. Pentref bychan, yn nghanol gwlad goediog, yw Palmyra, a llawer o Gymry yn byw yn yr ardaloedd o amgylch. Wedi iddynt ddechreu ymgasglu o'n cwmpas, yr oedd yn eu mysg rai wynebau a adwaenem; ac yr oedd eu cyfarfod yn y fan hòno yn annisgwyliadwy yn syndod i'n meddyliau. Un gŵr ieuanc a welsom cyn hyn yn Llundain, a ddywedai fod gwraig weddw yn y gymmydogaeth yn ein disgwyl yno i letya. Nis gwyddem at bwy yr oeddym yn myned; ac nid oedd genym ond gobeithio ei fod yn ein harwain i ryw le cysurus i ro'i ein penau blinedig i lawr. Erbyn cyrhaeddyd y tŷ, gweddw yr hen Dafydd Evans, gynt o Lanfaircaereinion, ydoedd. Hen ŵr a welswn lawer gwaith yn Nghapel Llanfair, ac a aethai i'r America ar ddiwedd ei oes. Fe glafychodd, ac a ymroddodd i farw, càn gynted ag y cyrhaeddodd Palmyra. Ni chymmerai ddim cyffyriau meddygol yn ewyllysgar; a dywedai, 'Gadewch lonydd; gwell genyf fyned adref at fy Nhad.' Ond garw y cwmpas a gym-

merodd yr hen Gristion i fyned adref. Paham yr oedd yn rhaid myned i'r America i farw? Fe ddichon fod rhyw awgrym yma na ddylai hen bobl dduwiol, ar ddiwedd eu hoes, chwennychu un wlad ond yr 'un nefol.' O leiaf, yr ydym yn llwyr feddwl mai anturiaeth fawr i'r cyfryw ydyw myned i'r America, ac un ddigon tebyg o beri i'w 'penwyni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch.' Meddyliem fod yr hen bererin hwn wedi eistedd i lawr yn nghoedwig Ohio, yn barod i ddywedyd wrtho ei hun, 'Wel, wel, mi a fuaswn yn ynfyd iawn pe daethwn i'r fath le a hwn i ymofyn happusrwydd. Pe na byddai yma un groes arall, y mae bod yma ei hunan, yn mhell o fy hen wlad, ac oddiwrth fy hen frodyr, yn ddigon o groes i mi. Mae yn wir i mi brofi pob peth yn llawn blinder yn Nghymru, ond beth yw America well? Gallaf ddarllen ar ei gwyneb anial nad yw ddim amgen na rhan o'r ddaear, a felldigodd yr Arglwydd. 'Gwagedd o wagedd, gwagedd yw'r cwbl,' yma hefyd. 'Ac yn awr, beth a ddysgwyliaf, O Arglwydd? fy ngobaith sydd ynot ti.' Ac yn lle bod mor ffol a cheisio ail ddechreu byw, rhoes ei ben i lawr, a bu farw, yn mhen ychydig ddyddiau, wedi cyrhaedd yma. Mae yn gofus genyf ei glywed, wrth ddywedyd ei brofiad mewn Cyfarfod Misol, yn cwyno, 'Yr ydwyf yn ei gweled hi yn anhaws do'd at Grist o hyd.' 'Ah!' ebe y Parch. John Hughes, Pont Robert, 'y mae hyny yn nghalon pechadur; ond trugaredd yw ei adnabod ef.' Dywedodd y gŵr hwn wrth ffarwelio âg ef,—'Wel, wel, Dafydd Evans yn myned i'r America i farw!' ac felly y bu. Cafodd ei afiechyd yn ei daith flin o New York i Palmyra; ac fel yr hen Jacob gynt, wedi trosglwyddo ei dylwyth dros foroedd ac afonydd, ymneillduodd ei hunan i weled Duw wyneb yn wyneb. Mae yn ddigon tebyg, er hyny, iddo adael ei deulu mewn amgylchiadau mwy manteisiol na phe buasai marw yn Nghymru; ac er iddo ef syrthio yn yr anturiaeth, gellir hyderu y bydd ei hiliogaeth yn mwynhau ei ffrwyth mewn oesoedd i ddyfod; canys y mae yn Palmyra lawer o gyfleusderau i'r gweithgar a'r diwyd i ymdrechu am fywoliaeth. Yn wir, y mae ei fab a'i deulu yn ymddangos yn gysurus.

"Dydd Sadwrn, Mehefin 15. Isel yw fy meddwl heddyw; O Arglwydd, cynnorthwyo fi! Paid a'm gadael, bechadur tlawd. Cefais bleser yn darllen rhai o'r Psalmau, ac yn gweddïo yn fy ystafell. Yn enwedig darllen am Iesu Grist yn cwestiyno Pedr, 'A wyt ti yn fy ngharu i?' Tybygwn fy mod innau yn gallu appelio ato ef a dywedyd, 'Ti a wyddost bob peth; ti a wyddost fy mod yn dy garu di.' Aethum gydâ'm cyfaill i'r maes, lle yr oedd mab Dafydd Evans yn aredig gydâ'i ychain: a buom ill dau yn dal yr aradr yn Ohio, rhwng yr hen ystolion.

"Cawsom gyfarfod gydâ'r brodyr prydnawn Sadwrn, pan y rhoddent i ni ychydig o hanes yr eglwys a'r Ysgol Sabbothol, ac ansawdd crefydd yn gyffredin yn mysg y Cymry yn y gymmydogaeth. Nid oes ond ychydig flynyddoedd er pan ddechreuodd achos y Methodistiaid yn y lle, ac y mae yr olwg arno eto yn isel ac amddifad iawn. Y mae hen ŵr o'r enw Mr. Powell, o Ddeheudir Cymru, yr hwn oedd gydâ'r Annibynwyr pan yn Nghymru, yn awr yn llafurio yn eu plith hwy yma.

"Sabboth, Mehefin 16. Gan nad yw Capel y Methodistiaid ond bychan, ac mewn sefyllfa led annghyfleus, o herwydd ei fod allan o'r pentref, ni a dreuliasom y Sabboth mewn Capel arall yn y pentref, perthynol i'r Annibynwyr; a lle y mae y Bedyddwyr hefyd, os ydym yn iawn gofio, yn pregethu ar brydiau; a'r hwn oedd y pryd hyn heb un gweinidog. Yr oedd y gynnulleidfa yn llïosog, a llawer o'r gwrandaẅwyr wedi dyfod o bellder mawr o ffordd; ac yn eu mysg yr oedd Arminiaid a Sociniaid. Wedi oedfa'r boreu, yr oeddynt yn eistedd yn fyrddeidiau ar y glaswellt, i fwyta'r tamaid oedd yn eu pocedau, ac i aros yr oedfa yn y prydnawn. Ar ol hono, yr oedd nifer mawr o'r rhai oeddent a'u ffordd yn mhell, yn troi adref, fel nad oedd moddion yr hwyr mor llïosog o wrandaẅwyr.

"Yr oedd genym bregeth eilwaith y boreu Llun, a chyfarfod eglwysig ar ol hyny; ac yn yr hwyr drachefn, yr oeddym yn cadw oedfa yn nhŷ Mr. Daniel Jones, gŵr o Dowyn Meirionydd, a'i wraig yn ferch i'r Parch. Richard Tibbot, gynt o Lanbrynmair. Er na buom ond amser byr yn mysg ein cyfeillion yn

Palmyra, yr oedd ein hysbrydoedd wedi ymasio cymmaint â'n gilydd, fel yr oeddynt hwy yn ymadael â ni gydâ hiraeth a galar, a ninnau â hwythau gydâ mawr dosturi, wrth feddwl am eu tlodi a'u hamddifadrwydd. Nis gwyddis pa mor fuan y byddant heb *enw* o weinidogaeth yn eu plith; canys y mae yr hen ŵr, Mr. Powell, mewn oedran mawr; ac er ei fod yn ffyddlon yn ol ei allu, eto y mae nifer ac amgylchiadau gwasgaredig y Cymry ar hyd y cymmydogaethau, yn galw am lafur llawer mwy effeithiol nag y dichon hen ŵr pedwar ugain oed ei gyflawni.

"Mae y Cymry yn debyg o fod yn dra llïosog yma yn fuan; ac y maent eisoes yn dechreu cael eu gwenwyno â chyfeiliornadau marwol. Ac oddieithr i foddion grâs gael eu sefydlu yn eu plith, yn llawer mwy cyson ac effeithiol na dim ag sydd wedi bod eto gan un blaid grefyddol, yn ol dim a ddarfu i ni ddeall, nis gwyddom pa fodd y gall gwybodaeth o Dduw barhau yn mysg y genedl. Nid yn unig y mae yn rhaid cael rhywbeth mwy i gadw crefydd yn flodeuog, ond y mae yn rhaid cael rhywbeth mwy i'w *chadw yn fyw.* Byddai yn llawenydd i lawer o'r Cymry tlodion weled rhywun yn dyfod i lafurio i'w mysg; ac y mae yn ddiammeu genym fod y sefydliad hwn yn lle y gallai pregethwr duwiol a llafurus fod yn dra defnyddiol. Er y byddai yn angenrheidiol i'r cyfryw ymaflyd mewn rhyw alwedigaeth, eto yr ydym yn meddwl y dŵg galwedigaeth yn yr America, damaid i'r diwyd, a chaniatau iddo hefyd fwy o'i amser a'i feddwl i waith yr efengyl nag y mae llawer pregethwr yn ei gael yn Nghymru. Mae yn hawdd cael tir yn Palmyra ar werth, neu ar osod; ac y mae yn sicr, pe ceid dyn gweithgar, duwiol, a chymhwys i'r weinidogaeth, y câi yma gyfleusdra i'w leshâu ei hun, ac i geisio hefyd leshâd llaweroedd.

"Boreu dydd Mawrth, Mehefin 18, yr oeddym yn dychwelyd o Palmyra yn ol i Akron; a thrannoeth cychwynasom gydâ chŵch y *Canal* i Newark, tref fechan yn nghylch cant a hanner o filltiroedd o Akron. Ni a fuom ar ein taith o bedwar o'r gloch boreu ddydd Mercher, hyd wyth o'r gloch nos Iau, pan

gyrhaeddasom yn ddiogel i dŷ ein hen gyfaill, Thomas Hughes, gynt o'r Ysbytty Ifan, lle y cawsom gartref cysurus, a llawer o garedigrwydd tra buom yn y gymmydogaeth hon. O herwydd fod y Gamlas wedi tori, bu gorfod arnom deithio rhan o'r ffordd mewn gwagen, trwy'r coedydd ar draws y wlad. Ond yr oedd dyffrynoedd prydferth, wedi eu gorchuddio â gwenith, yn ymagor yn aml yn annisgwyliadwy o flaen y llygad, yn nghanol y goedwig. Mae sefydliad cyfoethog o *Dutch* gerllaw Newark, ar wastad-tir eang a brâs; ond y mae yr hen Gymry, megis o anian, wedi dringo i fynu i'r bryniau sydd yr ochr arall i'r dref; ac y mae'r gymmydogaeth yn cael ei galw, Bryniau'r Cymry *(Welsh Hills)*. Treuliasom ddau Sabboth yn yr ardal hon. Cynnaliasom yr oedfeuon y boreu a'r prydnawn yn ein Capel ein hunain, yr hwn sydd yn nghanol y gymmydogaeth, a'r nos yn nhref Newark, mewn Capel a fenthycid gan y Saeson. Yr oedd genym hefyd amryw gyfarfodydd yn yr wythnos, yma a thraw ar hyd yr ardaloedd. Buom yn cadw oedfa un noswaith, yn nhŷ hen ŵr o ardal Llangollen, un o'r sefydlwyr cyntaf yn y wlad hon. Daethai yma i ganol yr anialwch anghyfannedd, a chysgodd lawer noswaith ar wyneb y ddaear agored; ond yr oedd gobaith, er hyny, yn cymhell i lafur; a llafur erbyn hyn, wedi troi gobaith yn fwynhâd; fel yn lle yr hen gyff-dŷ gwael yn nghanol yr anialwch, yr oedd ganddo yn awr dyddyn clir a chynnyrchiol, ac adeiladau mor wych ag a welir ar ffermydd mawrion yn Nghymru. Mae llawer o'r hen sefydlwyr Cymreig mewn amgylchiadau tebyg yn America; yn meddu digonedd o angenrheidiau natur, ond yn wledig a chyffredin yn eu dull o fyw.

"Y mae yn y gymmydogaeth hon bentref hynod o'r enw Granville. O fewn llai na deugain mlynedd yn ol yr oedd y fan y mae yn sefyll arno yn anialwch hollol. Ond darfu i ryw nifer o deuluoedd crefyddol o New England ymuno â'u gilydd i droi allan i chwilio yr anialwch am fan i drigo; ac wedi hir grwydro, daethant ar ddamwain i'r fan hòno. Fel yr oedd un hen Gymro wedi myned allan ar brydnawn Sabboth i chwilio am y fuwch,

fe glywai ganu mawl yn y coed; a chan gyfeirio at y sŵn, daeth yn fuan o hŷd i'r addolwyr; a'r cwmni uchod ydoedd yno, wedi gollwng eu hychain a'u gwageni, a phenderfynu gwladychu yn y lle hwnw; ac yn dechreu eu byd trwy godi allor i'r Arglwydd. Buont am flynyddoedd yn byw mewn bythod, yn arloesi y coed, ac yn byw ar helwriaeth. Ond yn awr y mae yno bentref mawr, ac adeiladau da; pedwar neu ragor o addoldai helaeth, yn nghyd â dau o Ysgoldai mawrion, un i'r meibion a'r llall i'r merched. Mae y tir hefyd oddiamgylch y pentref yn ymddangos yn gynnyrchiol. Yr oedd cnwd toreithiog o wenith ar ei wyneb pan oeddym ni yno, yn prysur addfedu i'r cryman yn nechreu mis Gorphenaf. Ond yr oedd y gwirodydd poethion wedi bod o felldith fawr i'r bobl ryfedd hyn am flynyddoedd, nes daeth y Gymdeithas Ddirwestol o'r diwedd, a gyru yr arferiad o'u hyfed bron yn hollol o'u mysg. Yr oedd amryw o'r distyll-beiriau oeddent yn y gymmydogaeth yn awr wedi eu difetha. Gwelsom ddarnau o beiriannau un yn pydru ar ochr y ffordd fawr, ac adeiladau un arall wedi eu llosgi yn furddyn. Mae y diwygiad hwn yn ddiammeu wedi gwneyd lles mawr i'r trigolion.

"Nid oes yn America ond ychydig o sŵn yn nghylch gwreng a boneddig, nac ond ychydig o wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd, o ran eu dull o fyw. Mae yn gofus genym i ŵr droi i mewn un diwrnod, i dŷ Mr. Thomas Hughes, i ochel y gawod. Wedi bachu ei geffyl wrth y llidiart, a thynu y cyfrwy, daeth i mewn i'r tŷ, â'i wddf yn noeth, a phridd ar hŷd ei ddillad, ac o ran ei holl ddiwyg yn debyg i ffermwr cyffredin, yn dyfod oddiwrth ei waith. Ond bychan y gwyddem, yn ystod yr holl ymddiddan a fu rhyngom ni ag yntau, ein bod yn siarad o hyd âg aelod o'r *Congress;* ac nad oedd marchogwr dirodres y ceffyl bychan yn neb llai na marchog y Sîr. Gwahoddai ni yn garedig i'w dŷ; a gwelsom ef rai gweithiau ar ol hyn yn llewys ei grŷs ar y buarth, yn tori coed tân. Yr oedd ei feddyliau yn diystyru y rhwysg sydd o gwmpas boneddwyr Europe, a'r gwahaniaeth sydd yn cael ei wneuthur rhwng cyfoethog a thlawd. Dywedai

iddo gyfarfod â *lady* o Loegr mewn *shop* unwaith, ac i ryw un ofyn iddi, 'pa fodd yr oedd yn hoffi America?' 'Yr wyf fi,' ebe hithau, 'yn methu adnabod a gwahaniaethu gŵr boneddig yn y wlad yma.' 'Oh,' ebe yntau, 'fe allai y gallaf fi roi ychydig o help i chwi, *Madam*, yn hyn o beth: meddyliwch fod pob dyn a weloch chwi yn y wlad hon yn ŵr boneddig, ac yna ni fethwch chwi ddim.'

"Mae ein cyd-genedl yn debyg o fod yn dra llïosog yn fuan yn nghymmydogaethau Newark a Granville. Yr oedd eu Capel bychan yn fwy na llawn y ddau Sabboth y buom ni yn eu mysg. Ond y mae yn debygol fod llawer yn dyfod o bell o ffordd; canys gwasgaredig yw'r Cymry yn y sefydliad hwn hefyd. Mae [Mr. William Parry] mab i Mr. John Parry, Beulah, Sir Drefaldwyn, yn llefaru ychydig gydâ'r Methodistiaid. Y mae Achos bychan gan y Bedyddwyr hefyd mewn cŵr arall o'r gymmydogaeth; ac nid ydym yn deall fod neb ereill yn llafurio gydâ dim cysondeb yn mysg y Cymry yn yr ardal hon. Er nad ydym yn barnu fod crefydd yn flodeuog iawn yn y sefydliad hwn, eto yr oedd yma ryw rai truain tlodion yn gobeithio yn enw'r Arglwydd, ac yn hiraethu yn fawr am foddion grâs yn fwy cyflawn, a chydâ mwy o'r goleu a'r nerth a brofasant yn yr hen wlad. Dyma brif achos eu chwithdod am gartref, a'r oll sydd yn lluddias i lawer o honynt deimlo eu bod wedi newid er gwell, ac nid er gwaeth, wrth newid Cymru am America. Mae eu mawr angen, yn nghydâ dymuniad calonau llawer o honynt yn cyd-alw, 'Deuwch drosodd, a chynnorthwywch ni.' Er nas gallant gynnal neb yn y gwaith, eto gallent wneuthur llawer cymmwynas at helpio rhyw un i fywioliaeth; ac, os gallwn farnu wrth y caredigrwydd a ddangosent i ni, y mae yn ddiammeu genym y gwnaent hefyd yr oll a allent i bregethwr ffyddlon a chymmèradwy. Mae cymmydogaeth Newark hefyd, i'n tyb ni, yn lle mor iachus, hyfryd, a manteisiol i drigo, ag un man yn nhalaeth Ohio."

Mae yn anmhosibl, ni a dybygem, i'n darllenwyr fod heb sylwi ar y profion amlwg a roddir yn y dyfyniadau a wnaed

genym o'i Ddydd-lyfr, o grefyddolder ysbryd a theimlad duwiolfrydig Mr Rees, yn ystod y daith hon; ac ni a gawn brofion ychwanegol neillduol o hyny, yn y rhanau canlynol o lythyr, a ysgrifenwyd ganddo at ei anwyl briod, y dydd Mawrth canlynol i'w ail Sabboth yn Newark:—Gan gyfeirio at Psalm xci., efe a ddywed,—

"June 25, 1839.

. . . . . . . . . . . "How can the Eternal God, and beings so "exalted as the holy angels, concern themselves about poor "sinful creeping worms of the earth. But such astonishing "condescension is just what might have been expected from "Him whose essence is goodness, kindness, and mercy. And as "for the holy angels, they are so like him, that I doubt not they "are perfectly willing to turn about little Anne, and to bear her "up in their hands, lest she should dash her foot against a stone "in her childish frolics. O! could I but trust in him, love him, "and serve him! I have no good account to give of myself. "Unbelief, fretting, fears and discontentedness, often distract "my heart. Yet still I am kept under the shadow of the "Almighty, and my poor soul is not left altogether destitute. I "have travelled hundreds of miles since I wrote my last "letter, on lakes, on land, on canals, night and day. . . . . . . . .

"I hope you will find me more holy than ever when I come "home; for although the temptations attending this journey "draw much unbelief, and many corruptions, into exercise, yet I "hope that they are the means of exercising my graces too, and "that to a degree that will give a deeper tone to my piety than "it ever had before, especially in my family. And if more "holy, I shall surely be more kind, more content, more familiar, "more affectionate, more sympathizing,—more everything that "will tend to make you, and all around me, happy and comfort-"able.

"Ydwyf, dad a phriod, yr eiddoch yn anwyl,

HENRY REES."

Ni a awn yn awr rhagom gydâ'i adroddiad am y Daith:—

"Gan fod ein hamser yn fyr, penderfynasom, wedi cyrhaeddyd New York, gyfyngu ein hymweliad yn unig i'r Sefydliadau hyny lle yr oedd ychydig o achos gan y Trefnyddion Calvinaidd, oblegyd mai fel eu cenhadau hwy, ac ar eu traul hwy, yr oeddym wedi myned allan. Eto wrth deithio'r wlad, barnasom yn ddoeth newid ychydig ar ein cynllun, ac ymweled â rhai manau lle nad oedd achos gan y Methodistiaid ar eu penau eu hunain; a'r cyntaf o'r cyfryw leoedd oedd Radnor. Mae yma hen sefydliad llïosog o Gymry; ond y mae hyny o Fethodistiaid sydd yn yr ardal mewn undeb â chynnulleidfa'r Annibynwyr. Daeth amryw o honynt i'n cyfarfod i'r Welsh Hills y Sabboth cyntaf yr oeddym yno; a daeth un brawd yno drachefn erbyn yr ail Sabboth, a rhyw gerbyd bychan i'n cludo gydâg ef i Radnor ddechreu yr wythnos ganlynol. Mae deugain milltir rhwng y ddau sefydliad a'u gilydd; ac erbyn eu teithio yn ol ac yn mlaen, ddwy waith drosodd, yr oedd moddion y Sabbothau hyn wedi costio i'r truan hwnw wyth ugain milltir o drafaelio. Gydâ'r brawd hwnw, ar foreu dydd Llun, Gorphenaf 1, ni a adawsom Fryniau'r Cymry. Ac er iseled oedd yr achos, ac er mor gyffredin yr ymddangosai y gynnulleidfa yn y lle hwnw, yr oedd yno ryw drueiniaid ag oeddent yn ymasio â ni, a ninnau â hwythau, fel pan oeddym yn ymadael, yr oeddym mewn dagrau, o hen i ieuanc. Cawsom daith flin mewn hen gerbyd trwy'r gwres mawr, a chyrhaeddasom Radnor am ddeg o'r gloch y noswaith hono. Yr oedd ein llettywyr wedi blino yn ein disgwyl, ac wedi myned i orphwys. Ond am nad oedd y drws yn glöedig, aethom i mewn yn ëofn i'r tŷ; cegin ëang ydoedd, a thri o welÿau wedi eu gosod i fynu ar y naill dalcen iddi, lle y gorweddai y teulu mewn distawrwydd. Cysegrwyd un o honynt yn ebrwydd i ni am yr wythnos hono; a theimlem wrth fyned iddo ein bod yn ddigon diogel rhag gwely *damp*. Ond o herwydd gwres y tân a'r tywydd, yr oeddym yn aml yn chwysu llawer y nos. Ar y cyntaf, meddyliem ein bod wedi disgyn i le annghysurus iawn; ond daethom yn fuan i hoffi y teulu, ac yn anmharod i fyned i un lle arall, a threuliasom yno wythnos yn

gysurus arnom, gydâ theulu caredig a siriol oedd wedi dyfod yno oddi gerllaw Llanfair Muallt, Sir Frycheiniog.

"Bu genym amryw gyfarfodydd yn ystod yr wythnos; ac yr oedd y gwrandaẅwyr yn llïosog a siriol; ac ymddangosent yr un mor serchog a charedig i ni yma ag yn y Sefydliadau ereill. Mae y Bedyddwyr yn llafurio yn y lle; a bu gweinidog o Eglwys Loegr yma am ryw dymhor, ond yr oedd wedi ymadael y pryd hwn. Nid oedd Mr. Powell chwaith, gweinidog yr Annibynwyr, yn sicr pan oeddem ni yno, y byddai yn aros yn y lle; felly, gallai y gynnulleidfa fod erbyn hyn heb yr un gweinidog. Mae y Cymry yn agored i'r anffawd hwn yn yr America; canys y mae parhâd eu gweinidogaeth yn aml yn ymddibynu ar un gweinidog; ac os digwydd rhywbeth i hwnw, gallent fod yn hir heb un arall. Ac y mae y gweinidog drachefn yn ansefydlog yn fynych; oblegyd cyn iddo brynu tir, neu yn rhyw fodd wreiddio yn y naill Sefydliad, nis gwyddys pa can gynted y bydd yn ymsymmud i Sefydliad arall. Ac o herwydd fod pregethwyr yn brinion, a'r Sefydliadau yn mhell oddiwrth eu gilydd, nis gallant roddi ond ychydig help y naill i'r llall. Ac fel hyn y mae ansicrwydd mawr am weinidogaeth gyson mewn llawer o'r Sefydliadau yn America.

"Tra buom yn Radnor, gwelsom un o'r corwyntoedd sydd yn dilyn mellt a tharanau yn America. Yr oedd yr hîn yn frŵd, a'r wybr yn edrych yn anfoddog, ac yn ymliwio yn ei gwyneb fwy-fwy, a holl natur yn swrth a llonydd o amgylch ar hŷd y dydd, nes o'r diwedd y torodd y rhyferthwy allan: y mellt, y taranau, y gwynt, a'r gwlaw, yn cyd-ddyfod gydâ rhuthr ar draws y wlad, ac yn taflu'r cwbl megis o drwm-gwsg i gyffro mawr. Wrth edrych y ffordd yr oedd y gawod yn tramwy, yr oedd y goedwig i'w gweled megis yn ffoi ymaith gydâ thwrf aruthrol; ond wrth edrych yr ochr arall, ymddangosai fel peth heb chwythiad ynddi. Wedi i'r cyfryw gawodydd fyned heibio, mae yr hîn yn hyfryd, ond yn raddol yn myned yn boethach, boethach, am rai dyddiau, nes y delo yn rhuthr drachefn.

"Yr oedd rhai o'r Cymry yn y Sefydliadau ereill, yn meddwl

nad oedd Radnor yn lle mor iachus; ond ni fynai y trigolion addef hyny. Yr oeddynt hwy yma, fel yn mhob man arall, yn barnu eu Sefydliad eu hunain y mwyaf dewisol. Eto, o herwydd bod y tir yn llaith ac yn isel, fe ddichon eu bod yn fwy agored i ryw glefydau. Gwelsom rai yn glaf o'r cryd. Ond y mae yn ddigon tebyg y bydd y wlad yn iachau fel bo'r tir yn cael ei drin a'i sychu.

"Dydd Llun, Gorphenaf 8, cychwynasom o Radnor i Columbus, deuddeng milldir ar hugain o ffordd. Teithiem mewn gwagen; a hen *German*, na fedrai ond ychydig o Saesonaeg, yn ein gyru Y mae Columbus yn lle hardd a bywiog. Yma y mae y Senedd-dai, lle y mae cyfreithiau Ohio yn cael eu gwneyd, a'r benydfa lle y cosbir eu troseddwyr. Ond nid oes yma ond ychydig o Gymry, a'r rhai hyny yn ieuenctyd gan mwyaf, ac mewn perygl o gael eu llygru gan anffyddiaeth ac egwyddorion drwg. Yr oedd un hen Gymro yn byw yn yr ardal hon, yr hwn a ddaethai yr holl ffordd i'r Welsh Hills, o bwrpas, am a wyddom ni, i'n gwrthwynebu. Daeth atom drachefn, mor fuan ag y cyrhaeddasom i Columbus; ac achubai bob adeg, tra buom yno, i'n byddaru â'i ynfydrwydd. Nid oeddym ni, mwy nag yntau, yn deall pa bethau yr oedd yn eu dywedyd, nac am ba bethau yr oedd yn taeru; ond yr oedd yn anhawdd i'w syniadau fod yn llawer ffolach na'i ddull ef yn ceisio eu trin. Er hyny, 'y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da.' Nid oes eisiau ond dadl wan i argyhoeddi y meddwl o'r hyn sydd wrth fodd y galon; ac y mae lle i ofni fod clebar ffol y dyn hwn yn cancro meddyliau amryw o ieuenctyd Cymru yn Columbus. Yr oeddym yn gweled rhai o honynt, yn yr oedfa fechan a fu genym yno, yn gwneyd gwên watwarllyd ar bob crybwylliad am ddrwg pechod a chosb yr annuwiol yn y byd a ddaw. Un noswaith, y buom yn Columbus, a chawsom letty caredig gan ŵr parchus yn y dref, a berthynai i'r Bedyddwyr.

"Dydd Mawrth, Gorphenaf 9, yr oeddym yn cychwyn o Columbus i Cincinnati, taith o gant a phymtheg o filldiroedd mewn cerbyd. Gadawsom y naill dref oddeutu wyth o'r gloch

y boreu; ac wedi teithio trwy y dydd a'r nos hòno, cyrhaeddasom y llall tua chanol y dydd canlynol. Yr oedd y meirch yn gyffredin yn gryfion a da, ond yn trafaelio yn araf, am fod y ffyrdd yn ddrwg, a'r cerbydau yn drymion. Mae'r cerbydwr, trwy ryw beiriant celfydd sydd yn rhedeg odditanodd, yn gallu cloi y cerbyd heb sefyll, na syflyd o'i le. Pan bwysa ef ar y pen hwnw i'r offeryn sydd yn ymyl ei droed, y mae y pen arall yn gwasgu yr olwyn nes ei chloi; a phan dyno ei droed, y mae y peiriant yn llacio; ac fel hyn y mae yn medru cloi a dadgloi can fynyched ag y myno. Gall wasgu yr olwyn hefyd, i raddau mwy neu lai, i reoleiddio cyflymdra y cerbyd, fel y byddo yr achos yn galw. Mae'r glud y tu ol, a'r teithwyr oddifewn; ni bydd neb yn gyffredin o'r tu allan; canys pe byddai y cerbyd â'i ben yn drwm, fe fyddai yn aml â'i ben dano, yn y clonciau a'r tyllau sydd ar hyd y ffyrdd. Yr oeddym yn myned trwy bentrefydd poblog a gwlad frâs, a'r gwenith yn barod i'r cryman yn nechreu mis Gorphenaf. Mae Cincinnati ar làn afon Ohio, yn ddinas fawr, a'i marsiandïaeth yn debyg o gynnyddu fwy-fwy.

"Aethom dros yr Ohio un diwrnod i dalaeth Kentucky; y waith gyntaf erioed, a'r olaf byth, ni a hyderwn, i ni sengyd ar dir caeth-wasanaeth; y *system* atgas hòno ag sydd ar unwaith yn fagwraeth i holl nwydau anifeilaidd y *slave*, a nwydau dieflig ei feistr, ac yn llwyr-ddifa dynoliaeth yn mhob un o'r ddau. Beth? cristion yn hòni hawl yn ngwaed a chnawd ei gydgreadur! yn trin ei frawd fel ei fuwch! ïe, a hyny yn America fawr ei bost am ryddid! Llawer mwy hyfryd i'n teimladau ni, oedd gweled y dyn du gydâ'i frodyr yn addoli, fel gŵr rhydd i Dduw, na'i weled yn gaeth i'w gyd-greadur. Buom yn eu Capel; ac ymddangosent o ran eu defosiwn yn debyg i'r *Primitive Methodists* yn Mrydain. Yr oeddynt yn canu nerth eigion eu calon, er nad oedd eu teimladau dan unrhyw gynhyrfiad. 'Gogoniant iddo!' meddai un gŵr wrth y llall, 'ni a fyddwn yno tòc frawd,' ac yn pyncio canu am y nefoedd.

"Mae llawer o Gymry yn Cincinnati a'i hamgylchoedd. Yr oedd y Capel ar y cyntaf, at wasanaeth yr amrywiol

enwadau: ond nid oes neb yn pregethu ynddo yn awr—yn gyson, o leiaf—ond y Trefnyddion Calvinaidd. Mae y Parch. Edward Jones yma er ys blynyddoedd; ac y mae brawd arall hefyd, D. Rosser, yn pregethu ychydig yma yn bresennol. Yr oedd Cyfarfod Chwarterol y Methodistiaid yn cael ei gynnal yma y pryd hwn; ac yr oedd brodyr o'r amrywiol Sefydliadau wedi dyfod yn nghyd, oll o bellder mawr o ffordd, rhai o honynt oddeutu pum' cant o filltiroedd. Yr oedd y gynnulleidfa yn lliosog, ac yn gwrando yn siriol, ac aml un, gobeithio, o'r hen genedl yn mhellder y ddaear, yn 'adnabod yr hyfryd lais.' Isel, er hyny, yr ymddangosai crefydd yn eu mysg: a rhy ddiddim o lawer yw y moddion a arferir yn bresennol i ateb i angenion y Cymry yn y lle.

"Dydd Mawrth, Gorphenaf 16, ymadawsom â Cincinnati, yn yr agerdd-fâd ar yr Ohio; a chyrhaeddasom Gallipolis, pentref lled fawr ar làn yr afon, prydnawn y dydd canlynol. Aethom oddiyno drannoeth mewn gwagen i Jackson, lle y mae planhigfa gref o Gymry, oddeutu ugain milltir i'r wlad o Gallipolis. Yr oedd y tywydd yn boeth iawn y dyddiau hyn; ac erbyn cyrhaedd tŷ ein hen gyfaill, Dafydd Wynne, gynt o Ddinbych, a brawd i'r Parch. John Wynne, Rhuthyn, yr oeddwn i yn teimlo yn llesg a chystuddiol, yn methu sefyll i fynu gan ludded, ac yn methu gorwedd i lawr gan y poethder a'r gwres, ac yn rhy flin i allu gorphwys. Y pulpud oedd y lle goreu. Byddai gronyn o lewyrch ar bethau yr efengyl yn deffro ymadferthoedd trancedig natur, ac yn ei hadfywio yn rhyfedd, fel yr oeddwn yn llai o faich, ac yn fwy o gysur a budd, i mi fy hun a'm cyfeillion yn y pulpud, nag yn unman arall.

"Nid yw Jackson ond Sefydliad newydd ac anial, ac felly o angenrheidrwydd yn llai cysurus na rhai o'r Sefydliadau eraill, sydd hŷn. Ond y mae newydd-deb y lle yn peri fod y tir yn rhatach; a dyna'r paham, dybygid, fod cymmaint yn cyrchu iddo yn bresennol. Mae lliaws mawr, yn enwedig o Sir Aberteifi, wedi sefydlu yma yn y blynyddoedd diweddaf, ac y maent yn lliosogi fwy-fwy. Gellir gobeithio hefyd y deuant

mewn amser i gael tamaid o fara yn gysurus; canys y mae y rhai sydd yma er ys tro yn gwneyd yn dda, ac yn debyg o wneyd yn well eto, fel yr amlhäo y trigolion, ac y troir yr anialwch i gynnyrchu ŷd. Pa fodd bynnag, y mae yr eglwys yn fwy llïosog, a mwy, fe ddichon, o ryw newydd-deb ar wyneb yr holl achos crefyddol, yn y lle hwn, na llawer o fanau yn nhalaeth Ohio. Cawsom y fraint o ddyweyd gair wrthynt y prydnawn dydd Sadwrn, a thair gwaith y dydd canlynol. Am fod y Capel yn rhy fychan i gynnwys y gwrandaẅwyr, yr oeddym yn gorfod llefaru yn y ffenestr y Sabboth, a chynnulleidfa lïosog oddimewn ac oddiallan. Yr oedd pob peth yn yr amgylchiadau yn tueddu i ddeffro awyddfryd y meddwl, y pryd hwn. Nid mwynhau brodyr dieithr yn nghanol cyflawnder o frodyr cartrefol yr oeddid heddyw; nid dyfod i wrando dau ŵr o'r Gogledd yn Sir Aberteifi, lle byddid arferol o glywed cyhoeddi dau arall yn yr wythnos ganlynol; ond un cyfleusdra am byth oedd hwn, a hyny mewn gwlad dlawd, mewn cymhariaeth, o freintiau crefyddol. Yr oedd yr ymfudwyr hefyd yn teimlo hyny yn y Sefydliad hwn; oblegid yr oedd llawer o honynt wedi dyfod yma yn bur ddiweddar, a hyny o ardaloedd llawn o freintiau; ac yr oeddynt eto, o leiaf, heb golli eu harchwaeth at y Gair, na dechreu cynefino â threulio dydd yr Arglwydd heb foddion grâs. Gobeithiwn na bydd raid iddynt hwy na'u hâd, wneuthur hyny ychwaith. Y maent yn bresennol yn fwy cyfoethog o ddynion cymhwys i ymgeleddu yr Achos na llawer o'r Sefydliadau ereill; a hyderwn y bydd i'r Arglwydd o'i râs gyfodi rhywrai i'w porthi â gwybodaeth ac â deall o oes i oes. Clywsom fod Mr. David Lewis, o Lanidloes, wedi symmud i le arall; ond y mae y Parch. Robert Williams o Fôn yn cartrefu yma, ac yn gymmeradwy iawn fel gweinidog yr efengyl; ac y mae amryw ereill, o Siroedd Aberteifi a Mynwy, yn mysg yr ymfudwyr, yn ddynion ffyddlon gydâ holl ranau gwaith yr Arglwydd.

"Yma hefyd y mae ein hen gydwladwr, Dafydd Wynne, yn trigfannu; ac y mae yn dda genym hysbysu i'w gyfeillion ei fod

yn siriol a defnyddiol iawn. Llongyfarchai ni yn Gallipolis, gan ddywedyd, 'Dyma Moses, nid wy'n *misio*.' 'Ai chwi sydd yma, Dafydd Wynne?' ebe ninnau; 'Pa fodd, mewn difrif, y darfu i chwi grwydro yr holl ffordd i'r fan yma?' 'Pw,' ebe yntau; 'hyn yma bach! beth yw hyn?' Yr oedd rhyw ddigrifwch bychan fel hyn yn gwneyd pawb yn ddifyrus am y munudun, ac, yn wir, nid yn ddifyrus yn unig, ond yr oeddym hefyd yn teimlo yn ddiolchgar i'r Arglwydd, am ei ddaioni i'n hen gyfaill, mewn gwlad estronol. Gwelsom ereill, yn nghoedwig Ohio, wedi ymollwng o ran eu meddyliau, ac yn edrych mor isel a phruddglwyfus â phelican yr anialwch. Ond yn lle hyny yr oedd efe, fel y dywed y Cymry, 'càn lloned â'r gôg,' a phob arwydd y pryd hyny ei fod 'yn llwyddo ac yn iach, a'i enaid yn llwyddo.' Wrth weled aml un fel hyn, nis gallem lai na chydnabod llaw yr Arglwydd, yn cyfaddasu meddyliau dynion i'w sefyllfäoedd; a chasglu, oddiwrth foddlonrwydd eu meddyliau hwy, fod boddlonrwydd yr Hollalluog arnynt.

"Bu genym gyfarfod eglwysig boreu ddydd Llun, cyn canu yn iach i'n cyfeillion yn y gymmydogaeth hon. Ymddiddenid â gŵr ieuanc gobeithiol, brawd i'r Parch. Evan Evans, Nant-y-glo, gydâ golwg ar ei dderbyn i waith y weinidogaeth. Ond fe ddyrysodd angau y bwriad hwnw, a chlywsom iddo yn fuan wedi hyny ehedeg ymaith i fyd yr ysbrydoedd. Yr oedd yr hîn mor boeth y dyddiau hyn, fel y mae yn gofus genym fod un o honom [Mr. Rees oedd hwnw], yn y cyfarfod uchod, yn rhoi ei ben trwy y ffenestr am wynt, ac yn deheu fel pysgodyn ar dir sych. Yr oeddym yn myned trwy waith cyhoeddus y Sabboth, yn debyg i ddynion yn gweithio yn y cynhauaf, yn llewys ein crysau, a'n gyddfau yn noethion; a'r un modd yr oedd llawer o'r gwrandaẅwyr hefyd. Y cyfryw ydoedd sychder yr awel, fel y teimlem yn hollol ddiogel rhag anwyd, er bod fel hyn yn y ffenestr yn foddfa o chwys, a marchogaeth adref drachefn ar ol yr oedfa, heb wisgo ond ychydig o'n dillad.

"Dychwelasom i Gallipolis, nos Fawrth, Gorphenaf 23; a chychwynasom dranoeth ar yr afon Ohio rhyngom â Pittsburgh.

Wynebem yn bresennol ar y rhan fwyaf annghysurus o'r daith. Yr oedd clefyd y tywydd poeth wedi cyffwrdd â ni rai gweithiau o'r blaen; ond trymhäodd yn awr, yn enwedig ar Moses Parry. Ac erbyn i ni gyrhaedd Wheeling, tref yn nhalaeth Virginia, fe farnodd y meddyg nas gallem fyned ddim yn mhellach y noswaith hòno. Nis gwyddem fod un Cymro yn y lle hwn; ond gydâ ein bod o'r bâd, tarawai un dyn atom gan ofyn, 'Ai chwi ydyw y gwŷr hyny o Gymru ag sydd yn pregethu ar hyd y wlad yma y dyddiau hyn?' Wedi i ni ateb yn gadarnhäol, ymddygodd atom yn garedig, ac arweiniodd ni i letya i dŷ Cymraes, o Aberystwyth, yr hon oedd yn arfer derbyn dieithriaid. Yr oedd amryw o weithwyr yn lletya yno, ac yn eu mysg rai Cymry. A buasai yn siriol cyfarfod a hwynt yn ddamweiniol fel hyn yn mhellder y byd, oni buasai yr achos oedd i ofni eu bod wedi treiglo i le nad oedd neb yn ymofyn am eu henaid. Daeth y meddyg i ymweled â ni drannoeth; ond o herwydd na foddlonem i aros yno dros rai dyddiau, nid oedd wiw ganddo ddechreu rhoi cyffyriau meddygol i M. Parry; ac felly, heb fod nemawr yn well, aethom ymaith y noswaith hòno.

"Yr oedd y brwdaniaeth ar afon Ohio yn ddigon i lethu dynion cryfach na ni. Rhwng gwres y tân, a'r agerdd odditanodd, a phoethder yr haul uwch ben, yr oedd cabanau y *packets* fel *hot-houses*, a'r teithwyr yn berwi o chwŷs. Yr oedd cysgu a bwyta bron yn anmhosibl yn y fath amgylchiadau, ac yfed drachefn yn beryglus, oblegyd eu bod yn oeri y dwfr â rhew; ac nid oedd yno ddim arall cymhwys i ddisychedu. Ni chawsom yr un o'r bâdau yn annghysurus, ond yr un yr oeddym ynddi y noswaith hon. Un fechan a bront oedd hòno. Aethom yn ebrwydd i orwedd wedi myned iddi, ond yr oedd y *bugs* a'r *mosquitoes* yn brathu mor erchyll fel y gorfu ar rai o honom mor ebrwydd godi drachefn, a gorweddian ar draws y bwrdd a'r cadeiriau dros weddill y nos. Gadawsom hi am dri o'r gloch y boreu, a theithiem y rhan arall o'r ffordd i Pittsburgh mewn cerbyd, lle y cyrhaeddasom yn lluddedig ddigon am un o'r gloch prydnawn ddydd Sadwrn. Buom

yn aros yma dros ddau Sabboth, oblegyd darfu i'r afiechyd uchod ein lluddias i fyned i Pottsville, yn ol ein bwriad; ac ni chawsom y fraint o weled y Sefydliad hwnw. Ond trwy fendith yr Arglwydd ar foddion meddygol, fe ddechreuodd Moses Parry wellhau yn fuan. Yr oedd yn abl i lefaru yr ail Sabboth.

"Mae Pittsburgh yn dref boblogaidd, a llawer o weithydd haiarn, glo, a gwydr, &c., o'i mewn. Pan y bydd y rhai hyn yn myned yn dda, mae yn debyg fod yma ddigon o waith a chyflogau uchel. Ond dyrys a drwg oedd pethau yr amser hwn. Tybir fod y Cymry yn llïosog yn y lle hwn; a diammeu y byddant yn llïosocach eto, os pery y gweithydd i gynnyddu a myned yn mlaen. Yr oeddym ni yn llefaru yn Nghapel yr Annibynwyr, ac yr oedd llawer yn gwrando; eto wrth ystyried bod cynnifer o Gymry yn y dref, a bod gwrandaẅwyr dwy gynnulleidfa, o leiaf, gydâ'u gilydd y Sabbothau hyny, gallesid disgwyl y dorf yn llïosocach. Meddyliem pe buasai y Cymry wedi eu darostwng i wrando gydâ'r naill neu'r llall o'r pleidiau crefyddol mai felly y buasai. Ond nid oes genym nemawr i'w ddywedyd am ansawdd crefydd yn mysg yr enwadau ereill; eithr bychan a gwanaidd yw yr achos crefyddol yn mysg y Trefnyddion Calvinaidd. Nid oes yno ond un brawd yn ceisio llefaru ychydig iddynt; ac ansicrwydd, y pryd hyny, a fyddai hwnw yn parhau i aros yn eu mysg. Eto yr oedd amryw o honynt yn awyddus am Gapel newydd, a phe caent hyny, a gweinidogaeth nerthol a chyson o'i fewn, y mae yn debyg fod yma ddigon o Gymry i godi Achos cryf a blodeuog.

"Cawsom ychydig o gymdeithas â rhai o Weinidogion y Presbyteriaid yn y lle hwn; a gwelsom y Coleg, lle y mae eu gwŷr ieuainc yn cael eu haddysgu i'r weinidogaeth. Yr oedd yr adeilad yn ehelaeth, ac amryw o ystafelloedd i'r athrawon a'r efrydwyr, yn nghydâ Llyfr-gell o'i mewn. Safai ar fryn uchel ar làn yr afon Ohio. Yr oedd gweithdŷ hefyd gerllaw i'r Athrofa, yn llawn o bob math o gelfi, perthynol i'r amrywiol grefftau; ac yno y byddai y gwŷr ieuanc yn myned i weithio er

mwyn cael ymarferiad i'w cyrph, pan y byddent wedi diffygio yn y llafur o amaethu eu meddyliau. Ond yr oedd y cwbl yn edrych yn lled rydlyd, ac ar draws eu gilydd yn bur ddi-drefn, fel y gallesid meddwl nad oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneyd o honynt.

"Ddydd Llun, Awst 6, yr oeddym yn gadael Pittsburgh am Philadelphia, ac yn teithio rhan o'r ffordd mewn cerbyd hyd Chambersburgh, lle yr oeddym yn cael y *railroad*. Fe ddichon fod llai o yspeilio a lladrata yn mysg yr Americaniaid nag yn ngwledydd gorboblog Europe; eto, fe fedr llawer o honynt hwythau wneyd rhyw fân gastiau digon twyllodrus. Er engraifft, y mae yn gofus genym y siom a gawsom yn Pittsburgh y waith hon wrth gymmeryd y cerbyd. Dywedent fod dau yn cychwyn ar yr un amser, ond bod llôg y naill ychydig yn uwch na'r llall, a hyny o herwydd ei fod yn trafaelio yn gyflymach, ac yn cario dim ond chwech o deithwyr yn lle naw. Gan fod y daith yn fawr, a ninnau eisoes yn llesg, a phob un o honom wedi profi erbyn hyn beth oedd bod yn un o naw mewn cerbyd, bron a chael ein llethu yn y tyndra a'r gwres, yr oedd y fantais o gael teithio yn y naill ragor y llall, o fwy o werth yn ein golwg na hyny o wahaniaeth oedd yn y pris. Felly cymmerasom ein lle gydâ'r cerbyd cyflymaf. Ond erbyn dyfod i gychwyn, yr oedd y drefn wedi newid, a'r ddau wedi eu troi i gario naw! Yr oeddym yn gweled bellach dric yr *Yankee*. Codid toll uwch yn enw nad oedd y cerbyd i gario dim ond chwech, yn unig rhag ofn na byddai dim ond chwech i'w cario; ond os ceid naw, yr oedd y drefn wrth gwrs yn newid, canys yr oedd hyny yn dwyn chwaneg o *ddollars* i mewn. Nid oeddym yn teimlo yn bur foddlawn i gymmeryd ein trin fel hyn; ond yr holl iawn a gawsom oedd troi yn ol i ni y gwahaniaeth oedd yn mhris y ddau gerbyd. Yr oeddym yn gadael Pittsburgh am wyth o'r gloch boreu ddydd Mawrth, ac yn cyrhaeddyd Chambersburgh oddeutu tri y boreu Iau canlynol. Ac er teithio fel hyn nos a dydd, yr oeddym yn teimlo yn well mewn iechyd yn niwedd y daith nag yn ei dechreuad. Y mae Pennsylvania yn wlad fwy clir, a'r

dwfr yn fwy iachus, fe ddichon, ar ochrau mynyddoedd yr Alleghany nag ar wastad-tir Ohio. Yr oedd y ffordd yn rhedeg i lawr ac i fynu, ar hyd ochrau y mynyddoedd yn dra anwastad. Weithiau byddai bryniau uchel a serth oddiarnom ar y naill law, ac ëangder anferth odditanom ar y llaw arall, a'r cwbl wedi eu gwisgo â choed. Safai y cerbyd yn gyffredin wrth bob ffynnon, fel y caem ni, a'r anifeiliaid, dori ein syched; ac nid bechan fyddai y ddadl ambell waith yn nghylch rhagoriaethau y dwfr, gan ei brofi a'i ddal o flaen y llygad yn y *glass*, yn debyg ag y bydd beirniaid yr hen ddiod feddwol yn ein gwlad ni. Mae Chambersburgh yn dref fywiog; ond nid ydym yn deall fod ynddi ddim Cymry yn trigo. Yr oeddym yn cychwyn oddiyno yn mhen ychydig oriau ar ol dyfod i mewn; ond o herwydd i rywbeth ddigwydd i beiriant yr agerdd, methasom a chyrhaeddyd i Philadelphia, yn ol ein bwriad, y noswaith hòno. Gorphwysasom yn y ddinas fawr hòno nos Wener, a thrannoeth yr oeddym yn myned oddiyno i New York, ar hyd y *railroad* sydd yn rhedeg o'r naill ddinas i'r llall trwy Dalaeth New Jersey. Yr oeddym yn teithio trwy lawer o wlad frâs, ac yn croesi afonydd mawrion â phontydd coed yn rhedeg drostynt, a thô arnynt fel tai, ac i gyd o waith rhyfeddol. Yr oedd rhai o honynt mor hirion, fel, pan safem yn y naill borth, yr oedd y porth ar y pen arall yn edrych mor fychan â chêg pobtŷ, er ei fod yn uchel ac ëang iawn.

"Cyrhaeddasom fel hyn, trwy fawr ddaioni yr Arglwydd, i New York brydnawn ddydd Sadwrn, Awst 11; a threuliasom y ddau Sabboth canlynol gydâ'n cyfeillion yno. Cynnaliwyd yno hefyd yn y cyfamser, Gyfarfod Chwarterol; ac yr oedd brodyr o'r holl Sefydliadau Cymreig yn nhalaeth New York wedi dyfod yn nghyd. Cadwyd rhai o'r odfeuon yn Nghapel yr Annibynwyr. Yr oedd cynnulleidfa lïosog yn gwrando, a gradd, dybygem, o lewyrch gydâ'r gwirionedd; ac yn y Cyfarfod hwn yr oeddym yn canu yn iach i'n cyfeillion anwyl a hoff yn yr America. Lletyem y tro hwn yn New York, yn nhŷ Mr. Roberts, gynt o'r Bala; a chawsom dan y gronglwyd garedig hon, ronyn o seibiant

i adolygu ein taith, ac i ystyried cyflwr ein cyd-genedl yn yr America. Yr oeddym bellach wedi teithio dwy fil o filltiroedd ar y cyfandir hwnw, a gweled y Cymry yn y rhan fwyaf o'r Sefydliadau; ac felly, meddem yn awr, ryw radd o wybodaeth am amryw bethau yn eu mysg, o ran y byd a chrefydd, nad oedd genym un drychfeddwl am danynt o'r blaen."

Hyd yma y mae hanes Taith yr America yn cyrhaedd; ac nid oes genym o'n blaen, odditan ei law ef, mewn ysgrifen nac argraff, un adroddiad am y fordaith gartref. Ond y mae gan Mr. Rees, yn niwedd y llyfryn, rai sylwadau dysgrifiadol o gymeriad ac arferion pobl yr America yn gyffredinol, ac o'r Cymry yno gydâ golwg ar eu hamgylchiadau allanol; ac yna y mae yn terfynu gydâ rhai ystyriaethau pwysig a theimladol, priodol i amcan arbenig ei ymweliad ef a'i gyfaill â'u gwlad. Dodwn y cwbl i mewn yma er mwyn i ni gael cymmaint ag a allwn o Mr. Rees ei hunan mewn cysylltiad âg America:—

"Mae yr Americaniaid yn bobl fywiog, llawn o ysbryd anturiaeth, ymffrostgar o'u gwlad a'i Sefydliadau, ac awchus iawn am y byd. Eto y maent yn gymmydogion cymmwynasgar, ac yn garedig i ddieithriaid. Cawsom ni help eu meddygon, mewn amryw fanau, ond y cwbl yn rhâd. Sylwai un o honynt y dylai pregethwyr, cyfreithwyr, a meddygon, yn wastad wasanaethu eu gilydd am ddim. Os oes llai yn cael ei dalu yno mewn ffordd o dreth, y mae mwy yn cael ei wneyd mewn ffordd o gymmwynasau gan y cymmydogion i'w gilydd; fel yn Nghymru yn y blynyddau gynt. Eto fe gyferfydd yr ymfudwr â llawer o bethau chwith ac annghysurus i'w deimladau, yn arferion gwlad ddieithr. Dwfr, hyd y gwelsom ni, yw y ddiod gyffredin yn America. Mae y dwfr-lestr yn cael ei osod mewn man cyfleus—yn y Capel, ar y bâd, ac yn ffenestr y dafarn a'r *Gin-shop*,—i'r sychedig droi i mewn i yfed mor fynych ag y myno, heb na gofyn na diolch. Nid yw y *coachman* na'r *waiter* yn gofyn dim am ddim. Ond os mŷn y teithiwr sychu ei esgidiau, neu ryw wasanaeth, y mae yn rhaid iddo dalu; ac nid oes neb a ddiolch iddo chwaith, canys y mae wedi cael gwerth am ei arian.

"Ni welir dim ysgafnder trythyll rhwng y naill ryw a'r llall; ond y mae parch mawr yn cael ei ddangos i'r benywod yn mhob man. Mae pawb fyddont yn y tai cyhoeddus, o'r bendefiges drwsiadus hyd y gweithiwr yn llewys ei grŷs, yn eistedd i lawr i fwyta wrth yr un bwrdd. Mae yn hawdd i'r Americaniaid yn bresennol ddal cydraddoldeb, oblegyd mai cydradd ydynt eto i fesur mawr. Nid oes yno neb yn dlawd, na neb yn gyfoethog iawn; ond pawb yn y canol, yn cael eu porthi â digonedd o fara. Ond fe ddichon, pan dderfydd y bobl a bod yn gydraddolion, y cyll egwyddor ac arferion cydraddoldeb o'u mysg. Y maent hwy eu hunain yn ammeu hyn. Clywsom y naill yn dyweyd wrth y llall, wedi hir ymddiddan am eu gwlad, '*Oh, this country will be soon like England; money must have its effects.*' Teitlir yr heddynad yn America yn *Esquire*, er na byddo ond un o ddynion cyffredin y gymmydogaeth; gwelsom ef, mewn rhai ardaloedd, yn cadw y *turnpike*. Y mae pob arian bron yn cael eu talu mewn biliau, y rhai sydd yn amrywio yn eu gwerth o'r *dollar* hyd yn îs na'r chwe'cheiniog. Yr ydym yn cofio talu am eillio mewn *Bank Note* yn rhyw fan yn Nhalaeth Ohio.

"Y mae wyneb y wybren yn glir a chadarn, fel drych toddedig; ac nid oes dim un amser yn lluddias y llygad i ganfod yr haul, ond yn unig ei ddysglaerdeb a'i danbeidrwydd nerthol ei hun. Ychydig o wlaw sydd yma yn yr hâf, ond yn gysylltiedig â tharanau: meddyliem, ond i'r teithiwr ochelyd y cawodydd hyn, y gallai deithio o New York i Cincinnati, ac yn ol, heb roi ei gôb uchaf unwaith am dano. Ac nid yw yn amheus genym nad oes llawer heb ei gwisgo am hanner blwyddyn. Yr oeddym ni yn dychymygu fod dwfr y gwlaw yn fwy croyw yn America nag yn y wlad hon; ac mai dyna yr achos eu bod yn rhoi cymmaint o halen i'w hanifeiliaid i'w fwyta, y rhai sydd yn hoff iawn o'i gael. Mae y defaid yn ymrwbio yn y bugail pan y byddo arnynt ei eisiau, ac yn llyfu llwch y llanerch y byddo yn cael ei dywallt arni.

"Mae yr Americaniaid yn llawn o ysbryd pethau gwladol. Un o brif destynau yr ymddiddan yn mhob man, y pryd hyny,

ydoedd etholiad dyfodol y *President.* Derbyniwyd un o'i dynion cyhoeddus, Henry Clay, gydâ rhwysg i New York, un prydnawn-gwaith. Cerddai gydâ gorymdaith gref trwy y ddinas; ac yr oedd yn argraffedig mewn llythyrenau eglur, ar un man uchel yn yr heol,—'Croeso Harri o'r Gorllewin.'

"Am foesau, neu anfoesau y trigolion, nid oes genym ond ychydig i'w ddywedyd. Meddyliem mai y peth hawsaf i'w ganfod, megis ar un olwg, yw eu hysbryd masnachol, a'u hawydd am y byd. Yr oeddym yn taro wrth lawer math ar ein taith: rhai wedi eu llygru âg Anffyddiaeth, a rhai â rhyw wallgofrwydd yn eu golygiadau crefyddol. Yr oedd dynion da hefyd yn methu cytuno â'u gilydd; a chymmaint cynhwrf mewn rhai manau, fel yr oedd brawd yn ymgyfreithio â brawd, yn enwedig am y Capelydd. Er hyny, y mae llawer o wir grefydd yn ddiammeu yn yr America, a chlod y wlad yn uchel am lawer o foesau da. Mae arferion y meibion at y rhyw arall mor bur, fel y dywedir nad yw y forwyn bryd-weddol mewn cymmaint o berygl cael ei hudo, na'i molestu; ac fe ystyrir y dyhiryn hwnw yn euog o weithred anfad a anmharcho fenyw. Ac y mae tori tai, drachefn, yn beth mor annghyffredin, fel y gwelsom rai o'r Cymry yn New York yn eu gadael y Sabboth a'r ffenestri yn agored, ac yn myned i gysgu y nos heb gloi y drws cefn. Ond prin yr ydym yn meddwl fod y wlad yn ddiwall o ran moddion crefyddol, mewn llawer o fanau, na bod y manteision hyny yn cynnyddu yn gyfatebol i gynnydd cyflym y bobl. Dywedai un Gweinidog wrthym fod Cymdeithasau wedi eu sefydlu at lenwi y diffyg hwn; ac y byddai yn dda ganddynt gynnorthwyo hefyd at gynnal cenhadau yn mysg y Cymry.

"Ni ddywed rhai ddim ond da, na'r lleill ddim ond drwg, am America; ond ein barn ni yw, fod Duw wedi gosod y naill ar gyfer y llall yno hefyd, fel yn mhob man arall. Mae yn wir fod y tir i'w gael am ychydig, ond fe ddylid cofio, er hyny, mai ychydig a ellir wneyd o hono, o leiaf, am lawer o flynyddoedd. Os nad yw dan lwyth o rent a threthi, y mae dan lwythi anferth o goed; ac fe fydd wedi costio llawer, ac heb roi mewn

cymhariaeth ond ychydig, erbyn y byddo yn glir a chynnyrchiol. Nid yw *Freeholder* yn America ddim i'w farnu wrth *Freeholder* yn y wlad hon. Y mae y ffermwr mawr yma, er pob gofyn sydd arno, yn byw yn uwch nag y gall y ffermwr yno yn gyffredin, er bod ar ei dir ei hun. Er hyny, y mae yn debyg nad oes un wlad yn Europe yn rhoi y fath ddrysau agored ger bron y tlawd diwyd, cynil, i wneyd bywioliaeth âg America. Mae y cyflog yn uchel, dynion yn brinion, yr alwad am bob math o waith yn fawr; y fath gyflawnder o dir, y pris mor isel, a'r gofynion cyffredin mor ysgafn, fel y bernir y gall dyn, o unrhyw alwad, ennill cynnaliaeth iddo ei hun a'i deulu, hwyrach, gydâ llai o ofal a mwy o gysur nag mewn gwledydd ereill. Ond nid myned yn gyfoethog ar unwaith, cofiwch. Na, na: ond yn lle bod yn segur fe gaiff waith, ac yn lle llewygu fe gaiff fwyd, a chyfleusdra i wella ei amgylchiadau, trwy lafur ei ddwylaw, a chwŷs ei wyneb. Y dyn i fyned i'r America yw y dyn iach, gweithgar, a chynil; wedi byw yn galed yma, ac yn foddlon i weithio ei ffordd trwy galedfyd a rhwystrau wedi myned yno. Canys pa obaith sydd i'r llwfr a'r afiach mewn gwlad ag y mae ei holl lwyddiant yn ymddibynu ar ei ymdrechiadau personol ei hun? a pha gydymdeimlad a all y diog ddisgwyl mewn gwlad o weithwyr? Ofer i neb fyned yno i ddisgwyl cael ereill i wasanaethu arno; y mae pob dyn yn America yn was iddo ei hun. Gobaith am waith, a gobaith trwy weithio dyfod i dipyn o fywioliaeth, ydyw yr holl obaith sydd o flaen yr ymfudwr i'r America. Buom lawer gwaith yn profi difyrwch a syndod wrth wrando'r hen Sefydlwyr yn adrodd eu hanes ar eu mynediad yno; yn codi y cyff-dŷ bach yn mherfedd yr anialwch, ac yn methu d'od o hyd iddo, weithiau, ar ol ei wneyd; yn teithio i'r felin, ddeg neu bymtheg o filltiroedd, drwy'r fforest wyllt, â'u cŵd ar eu hysgwydd, gan farcio y coed wrth fyned, rhag colli y ffordd wrth ddychwelyd yn ol. Byddai ambell un hefyd yn colli ei hunan yn y goedwig; a'r prydiau hyny fe fyddai y cymmydogion, neu'r teulu, yn chwythu mewn math o udgyrn ar ei chyffiniau, fel y gallai y colledig gyfeirio at y sŵn. Ond wrth

geisio cyrchu ato, âi weithiau yn hollol o chwith, y cyfryw ydoedd ei hurtwch wedi dechreu dyrysu yn y coed.

"Mae llawer wedi cael ei ddyweyd am fanteision yr America heb ddangos yr anfanteision sydd yn nglŷn â hwynt; ac felly y mae rhai o'r ymfudwyr wedi cael eu siomi yn ddirfawr, yn enwedig ar y cyntaf, ac yn barod i regi y rhai a'u hudasant yno. Yr oeddynt hwy yn disgwyl paradwys, ond yn cael anialwch. Ond er hyny, pan ddechreuo rhagluniaeth fawr roddi iddynt eu 'gwinllanoedd o'r fan hono,' y maent yn cymmodi ac yn cynefino yn raddol â'r wlad, ac yn y diwedd yn dyfod i'w hoffi yn fawr. Gofynem ambell waith i rai o'n cyfeillion, 'Wel, bryd y dowch chwi, adref?' a chaem bob math o atebiad i'r cwestiwn. Atebai ambell un, yn ddigon tor-calonus, 'Sut y dof fi adref?' a'r llall, 'ni 'rosaf fi ddim yma ond cyn lleied fyth ag a allaf.' Ond yn aml rhai heb fod yn gwneyd cystal, neu rai wedi dyfod yno yn ddiweddar, a fyddai y rhai hyny. Am y lleill, eu hatebiad yn gyffredin fyddai, 'Beth a wnawn ni gartref? mae'n haws byw yn y wlad hon.' Y maent yn gwneyd eu sebon a'u siwgr eu hunain, o'r coed. Cîg moch yw eu hunig gîg-fwyd; y mae hwn, ac afalau wedi eu berwi, a thê, ar y bwrdd bob pryd.

"Fe ellid barnu, wrth edrych ar lawer o'r ymfudwyr, eu bod yn llawn mor druenus a chaled eu byd, ag y buont erioed yn Nghymru. Ond erbyn canfod ac ystyried pob peth, odid na cheir fod y diwyd yn gallu cyrhaeddyd gwir angenrheidiau natur gydâ llai o ofalon trafferthus nag yn yr hen wlad. Mae yn gofus genym droi i mewn gydâ chyfaill i dŷ un hen Gymro, am lymaid o ddwfr; a hytyn gwaelach erioed nis gwelsem: crochan bychan, a dwy neu dair o hen odardau bylchog, oedd holl lestri gwasanaeth ei gegin, a'r rhai hyny ar led o gwmpas y walau sâl oedd yn y naill gornel iddi; a chan fudred fel yr oedd yn edifar genym ofyn am ddyferyn o ddwfr. Wedi dyfod allan cwynem wrth ein cyfaill i'r truan oedd mor dlawd a gresynol, ar ol dyfod yr holl ffordd i'r fan hòno. 'Hwna,' ebe yntau; 'mae hwna yn werth cannoedd o *ddolars*.'

"Mae yr ymfudwr hefyd nid yn unig yn byw, ond yn

byw mewn *gobaith;* ac y mae hyny ar unwaith yn gynhyrfiad i lafur, ac yn peri dioddefgarwch a boddlonrwydd yn yr amgylchiadau presennol. Mae yn gallu hebgor ychydig o'i gyflog, ac yn talu yn raddol am ei dir; ac yna yn dechreu arloesi hwnw, a phlanu ychydig o *Indian Corn* rhwng yr hen fonion. Fel hyn â rhagddo i glirio ychwaneg o'r anialwch, a chodi mwy o ŷd o flwyddyn i flwyddyn; ac y mae yn edrych at yr amser pan y bydd yn byw mewn tŷ da, ac yn meddu tyddyn cynnyrchiol, ac yn ŵr ar ei dir ei hun.

"Ond y pwnc wedi y cwbl yw hyn,—gobaith y Cymry yn yr America gydâ golwg ar fyd arall; eu manteision a'u hanfanteision i fyw yn dduwiol, ac i faethu eu rhai bychain 'yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.' Beth a all fod effaith eu hamgylchiadau bydol ar eu meddyliau gydâ golwg ar grefydd? Ac a ellir gobeithio, oddiwrth fanteision ac ansawdd grefyddol y genedl yn yr oes bresennol, fod gwybodaeth o Dduw a gwir grefydd yn debyg o barhau yn eu mysg mewn oesoedd i ddyfod? Yn wir, yr ydym ni yn barod i feddwl nad yw eu coelbren wedi disgyn iddynt mewn lleoedd mor hyfryd, yn yr ystyr hwn. Ac er fod llawer o'r diffyg yn cael ei wneyd i fynu trwy gyd-lafur yr amrywiol enwadau crefyddol, eto nis gallwn lai na barnu fod *eisiau*, a *mawr eisiau*, sefydlu moddion gwybodaeth yn eu mysg —o leiaf, mewn llawer o fanau—mewn modd mwy cyflawn, cyson, ac effeithiol, nag o'r blaen, i'r dyben o'u cadw rhag colli hen iaith eu gwlad, a gwybodaeth o Dduw eu tadau.

"Mae cryn nifer o'r ymfudwyr i'r America yn dlodion, ac yn myned drosodd i wlad ag sydd yn agoryd llawer o ddrysau ger bron y diwyd i ennill y byd. Ac y mae perygl mawr rhag i'r manteision i'w geisio, a'r gobaith o'i gael, godi y fath awyddfryd yn y meddwl am dano, a pheri y fath ymroddiad i'w negeseuau, nes llwyr annghofio pethau y byd a ddaw. Y mae prynu ac arloesi y tyddyn, codi adeiladau arno, a'u tynu i lawr drachefn i adeiladu rhai mwy, a lliaws o amcanion cyffelyb, yn gweithio bellach yn y galon, ac yn gweithio hefyd yn fwy nerthol, oblegyd eu bod wedi cael eu cynnyrchu ynddi mor ddisymwth,

a'u bod yn cael eu cryfhâu gan y gobaith o'u cyrhaeddyd a'u mwynhau. Meddyliwch hefyd fod dynion yn y sefyllfa hon mewn lle ag y mae gweinidogaeth nerthol yr efengyl yn brin, a moddion grâs yn annghyson; lle na chânt gyfleusdra, hwyrach, heb gerdded llawer, i wrando pregeth unwaith mewn mis, ïe, fe ddichon, unwaith yn y chwarter blwyddyn! Onid yw yn dra pheryglus, yn y fath amgylchiadau, i'r gydwybod fyned i gysgu, ac i'r meddwl annghofio Duw, ac naill ai ymroddi i drythyllwch a gormodedd, neu ynte ymgynefino â chybydd-dod a daearoldeb? Os aiff ceisio y byd yn amcan, y mae yr ymfudwr yn bur dueddol o fyned i grwydro i chwilio am y lleoedd mwyaf manteisiol i'w gael, a'r rhai hyny yn aml yw y lleoedd mwyaf anfanteisiol o ran moddion crefyddol.

"Adroddai un hen ŵr ei brofiad wrthym ar y pen hwn. Dywedai ei fod yn meddwl fod yr Arglwydd yn foddlon iddo fyned i'r America, ac am hyny iddo gael mordaith fèr a chysurus, a tharo wrth fferm yn union ar ei ddyfodiad i Utica,—gallasai gael *lease* arni hefyd, a byw yn gysurus yn ymyl moddion grâs. Ond yr oedd y fath ysfa ar ei feddwl am gael tir iddo ei hun, fel y ciliodd i berfedd yr anialwch. 'Ac mi cês hi yn chwerw,' meddai; 'y mae yr Arglwydd yn fy fflangellu byth, trwy ei ragluniaeth, fy nghydwybod, a'r wraig; ac er fod genyf achos i ddiolch am fod pethau cystal ag y maent, eto, y mae lle i ofni nad ymedy y cleddyf â'm tŷ, am i mi ddiystyru moddion grâs.'

"Dealled y darllenydd ein bod yn ysgrifenu llawer o'r sylwadau uchod, nid yn gymmaint fel darluniad o'r peth ydyw ein hanwyl gyfeillion yn America, ond fel darluniad o demtasiynau y genedl yn y wlad. Ac O! y mae miloedd o'r Cymry yno yn bresennol yn agored i'r temtasiynau hyn a'u cyffelyb, a channoedd yn myned yno yn barhaus. Ac y mae y moddion i'w hachub rhag syrthio yn ysglyfaeth iddynt, a chael eu boddi i ddinystr a cholledigaeth drwyddynt, yn brinion, yn ddinerth, ac yn annigonol iawn. Mae y defaid, lïaws o honynt, yn America; ond y mae y bugeiliaid yn Nghymru. Mae y plant yn America;

ond y mae y tadau yn Nghymru. Mae y dysgyblion amddifaid draw; ond y mae yr athrawon yma. Mae nifer fawr o'r babanod gwirion wedi myned yno; ond y mae yr hen fam, â'i bronau llaethog, gartref. Ië, y mae lliaws o aelodau bychain ein cynnulleidfäoedd yn awr yn ceisio ymgorphori yn eglwysi yn y gorllewin pell; ond y maent yn profi eu bod wedi gadael eu barn, eu doethineb, a'u doniau gweinidogaethol, ar ol yn eu hen wlad; ac yn yr amddifadrwydd hwn, y maent hwy yn bresennol, yn gorfod cynnal eu cyfarfodydd eglwysig a'u moddion cyhoeddus, a myned trwy bethau dyrys mewn dysgyblaeth, a neillduo eu Gweinidogion i'r gwaith mawr. Mor hawdd, yn y fath amgylchiadau, yw i'r athraw cyfeiliornus eu hudo a'u llygru, neu i'r terfysgwr cynhenus eu rhwygo, a'u gosod i gnoi a thraflyncu eu gilydd. Ac os dygwydd i'r balch uchelgais ddyfod i'w cymundeb, mae yn barod i gymmeryd y fantais ar eu gwendid i chwennych y blaen yn eu plith, a phrysuro i fod yn fugail iddynt. Fel y mae yn y wlad gyfleusderau i geisio y byd, felly y mae, yn ystâd blentynaidd yr eglwysi bychain hyn, gyfleusdra i'r balch geisio ei hunan; nid am nad oes yma wylwyr ffyddlon, ond am fod y rhai hyny yn ychydig iawn o nifer, ac yn mhell oddiwrth eu gilydd ar y muriau. Mae galwad mawr yn bresennol o amryw o'r Sefydliadau am ryw rai i lafurio yn eu mysg. Ac os bydd y Methodistiaid Calvinaidd yn ffurfio Cymdeithas Genhadol, y mae ei chwaer fechan, sydd heb fronau iddi yn nhir y Gorllewin, yn disgwyl yn awyddus y gwnant y Sefydliadau Cymreig, sydd yn y wlad hòno, yn rhan o faes eu llafur."

Y mae Mr. Rees yn niwedd ei Adroddiad o hanes y Daith yn America, yn rhoddi rhestr o nifer y Capeli a'r aelodau, yn gystal ag enwau y gweinidogion a'r pregethwyr, a berthynent i'r Methodistiaid Calvinaidd, yn yr holl wlad y pryd hyny; yr hon a ddodir genym i mewn yma er mwyn gweled mor fychan a gwan oedd yr Achos y pryd hwnw; ac erbyn cymharu y Rhestr hon â'r Adroddiad a geir yn y Dyddiadur am y flwyddyn bresennol am yr America, fe welir fod cynnydd dirfawr wedi

bod ar y gwaith yno, er adeg ymweliad Mr. Rees a Mr. Moses Parry â'r wlad. Wele y rhestr:—

Remsen, un Capel, 44 o aelodau; Penycaerau, 1 Capel, 63 o aelodau; Penygraig, 1 Capel, 41 o aelodau; French Road, 1 Capel, 35 o aelodau; Capel Nant, 1 Capel, 40 o aelodau; Floyd, 1 Capel, 18 o aelodau; Webster Hill, dim Capel, 13 o aelodau; Boonville, dim Capel, 4 o aelodau; Utica, 1 Capel, 110 o aelodau; Palmyra, 1 Capel, 58 o aelodau; Welsh Hills, 1 Capel, 48 o aelodau; Cincinnati, 1 Capel, 46 o aelodau; Jackson, 2 Gapel, 150 o aelodau; Pittsburgh, 1 Capel, 60 o aelodau; Ebensburgh, dim Capel, 13 o aelodau; Pottsville, 2 Gapel, 25 o aelodau; Carbondale, 1 Capel, 25 o aelodau; a New York, dim Capel, 53 o aelodau, yn gwneuthur holl nifer y Capeli yn 16, a'r holl aelodau yn 746. Y Gweinidogion a'r Pregethwyr a enwir ydynt, W. T. Williams, Penycaerau; W. G. Pierce, Capel Nant; Meredith a Davies, Utica; T. Powell, Palmyra; W. Parry, Welsh Hills; Edward Jones, a D. Rosser, Cincinnati; Robert Williams, Jackson; W. Morgan, Pittsburgh; D. Lewis, Ebensburgh; J. Davies, Carbondale; a William Rowlands, New York. Yr holl nifer yn 13.

Dyma oedd sefyllfa Achos y Methodistiaid yn Unol Daleithiau yr America, pan ymwelodd Mr. Rees â'r wlad hòno, yn 1839. Yn ol y Dyddiadur am y flwyddyn 1886, fe geir fod yno yn awr 82 o Weinidogion, 20 o Bregethwyr, a 133 o eglwysi, heb gyfrif Cymmanfa Pennsylvania, am yr hon ni roddir nifer yr eglwysi, ond oeddent yn 1884, yn 20; yn gwneyd rhifedi yr holl eglwysi o leiaf yn 153. Y mae y gwaith, y mae yn amlwg, wedi cynnyddu yno yn ddirfawr; ac yr ydym yn hyderu, er yr holl anfanteision y mae yn agored iddo, o herwydd yr iaith, a'u bod mor wasgaredig oddiwrth eu gilydd mewn gwlad mor eang, mai parhau i fyned rhagddo a wna am oesoedd a chenedlaethau lawer, gan wneyd ei ran tuag at ddwyn yr holl Gyfandir mawr, yn y Gorllewin, yn eiddo hollol i Emmanuel.

Nid oes genym ddim manylion am eu mordaith gartref; eithr oddiwrth y Cofiant i Mr. Moses Parry, a ysgrifenwyd gan y

diweddar Barch. John Foulkes, yr ydym yn gweled iddynt adael New York, Awst 25, a chael "mordaith led gysurus, hyd nes y daethant i olwg Pen Caergybi—i olwg yr hen wlad yr hiraethent am ei gweled unwaith yn rhagor, pan y cyfododd yn ystorm o wynt mor gryf, nes peri i'r cadben ofni myned yn mlaen; a gorchymynodd i'r llestr gael ei throi yn ol, â'i 'thrwyn i'r gwynt,' fel y dywedir, fel yr unig foddion i'w diogelu. Dywedai Moses Parry yn aml, wrth sôn am y tro, na allai gymharu y llestr fawr ar y pryd hwn, i ddim tebycach nag i gadach sidan ysgafn yn nghêg *mastiff*; codai y gwynt y llestr, a thröai hi fel tegan, y ffordd y mynai. Hawddach dychymygu na desgrifio teimladau y ddau frawd ar y pryd. Beth, wedi teithio cynnifer o filoedd o filltiroedd, drwy anhawsderau aneirif, dyfod i ymyl cartref i foddi! Na: ni ellid cynnwys y syniad am funud. Beth oedd i'w wneyd? Dim, ond 'myned i'w hystafell, a chau eu drws,' ac ymostwng yn ostyngedig o flaen eu Tad, yr hwn y mae y gwynt yn ei 'ddyrnau,' i erfyn arno ddyweyd eilwaith wrtho, 'Gostega, distawa,' a diammeu iddynt lwyddo hefyd; oblegyd tra yr oeddynt eto yn gweddïo, 'bu tawelwch mawr.' Pan aethant ar y bwrdd i edrych pa le yr oeddynt, cawsant eu hunain bron yn ymyl cartref" (Cofiant, tudal. 22).

Fe fu y daith hon o fendith anmhrisiadwy i eglwysi y Methodistiaid yn America; a bu yn foddion i dynu sylw y Methodistiaid yn Nghymru, yn fwy neillduol nag erioed o'r blaen, at anghenion eu brodyr yno, ac i'w cymhell i fyned drosodd a'u cynnorthwyo hwynt. Mae llïaws mawr o frodyr ar ol hyny wedi bod yn ymweled â hwynt; ond y mae y cyfleusderau teithio, a chysuron y lletyau, erbyn hyn wedi cynnyddu cymmaint, fel y mae taith trwy yr America yn awr, yn beth tra gwahanol i'r hyn ydoedd i'r ddau weinidog Cymreig a aethant gyntaf ar ymweliad â hi.

# PENNOD IX.

*O'i ddychweliad o'r America, hyd aflwyddiant y cais arno i adael Liverpool:*—1839—1841.

LLAWENYDD MAWR O'I DDYCHWELIAD—YMRODDIAD NEWYDD I'W WAITH AC YNI NEWYDD YN EI BREGETHU—CYMDEITHASFA Y WYDDGRUG WEDI EI DDYCHWELIAD—CYFARFOD MISOL WREXHAM—ADFYWIAD CREFYDDOL YN KILSYTH, YSGOTLAND—YMWELIAD A'R LLE—CYFARFOD MISOL Y BALA, 1840—ORDEINIO MR. THOMAS JONES YNO YN GENHADWR I SOUTH AFFRICA—ADGOFION O'R CYFARFOD—CYSYLLTIAD MR. THOMAS JONES A CHYMDEITHAS GENHADOL LLUNDAIN YN CAEL EI DORI—CRYNOAD O HANES DECHREUAD EIN CYMDEITHAS GENHADOL NI, AR WAHAN ODDIWRTH GYMDEITHAS LLUNDAIN—CYMDEITHASFA LLANFAIR—PENDERFYNU YNO, YN ERBYN MR. REES, CEFNOGI SEFYDLU CYMDEITHAS O'R EIDDOM EIN HUNAIN—TEIMLADAU CRYFION DROS AC YN ERBYN—Y DEHEUDIR YN DRA HWYRFRYDIG I YMUNO—OEDIAD AR OL OEDIAD—LLWYDDO O'R DIWEDD I GAEL YR HOLL GYFUNDEB YN UN YN YR ACHOS—MR. REES AR OL I'R CYFUNDEB BENDERFYNU, YN NODEDIG O FFYDDLAWN I'R GYMDEITHAS—MYNED I LUNDAIN AM DYMHOR I WASANAETHU YR ACHOS YNO—MARWOLAETH MAM MRS. REES TRA YR YDOEDD EFE YNO—EI LYTHYR ATI HI AR YR ACHLYSUR—LLYTHYR AT MR. ROBERTS, AMLWCH—CYFARFOD YN Y WYDDGRUG GYDA GOLWG AR YR YMRYSONAU YN SIR FFLINT—LLYTHYR ODDIWRTH MR. ELIAS AT MR. REES YN NGHYLCH Y CYFARFOD—MR. REES YN CYMMERYD RHAN ARBENIG, AC YN ANMHILEIDIOL A THEG HOLLOL, YN YR YMCHWILIAD HWNW—Y CYHUDDIADAU BOB UN YN SYRTHIO I'R LLAWR—YR YMCHWILIAD YN RHODDI TERFYN HOLLOL AR YR YMRYSON—MR. ELIAS YN MARW—TEIMLAD DWYS TRWY YR HOLL WLAD—CYMDEITHASFA Y BALA—CYMDEITHASFA BANGOR—YMDDANGOSIAD PETHAU AR Y PRYD

YN GYMYLOG I'R CYFUNDEB—TEIMLADAU DEHEU A GOGLEDD YN GROES I'W GILYDD GYDA GOLWG AR Y GYMDEITHAS GENHADOL A'R ATHROFA—Y GOGLEDD YN PENDERFYNU MYNED YN MLAEN YN Y BALA—SIR FON YN ANNGHYTUNO—LLYTHYR MR. CADWALADR WILLIAMS I GYMDEITHASFA RHUTHIN—PRYDER YN RHUTHIN YN YR ACHOS—MR. REES AC YSGRIFENYDD Y GYMDEITHASFA YN CAEL EU PENNODI I'W ATEB—Y LLYTHYR YN ATEB Y DIBEN, A SIR FON YN YMUNO A'R SIROEDD EREILL—MR. REES A MR. ROBERTS, AMLWCH, YN GENHADAU DROS Y GOGLEDD I'R DEHEU—EU TAITH I LANDEILO—AWYDD YMRYDDHAU AR MR. REES ODDIWRTH OFALON A LLAFUR LIVERPOOL—CYFEILLION YN EI BERSWADIO I SYMMUD I DDYFFRYN CLWYD—CYTUNO YN RHY FRYSIOG I GYMMERYD LLE YNO A MYNED YNO I FYW—CYFEILLION LIVERPOOL YN CYFFROI—LLYTHYR ODDIWRTHYNT I GYMDEITHASFA DOLGELLEU—CYFEISTEDDFOD YN CAEL EI BENNODI I EISTEDD AR YR ACHOS—HWNW YN DYFOD I'R PENDERFYNIAD I'W GYNGHORI I AROS YN LIVERPOOL—RHAGLUNIAETH YN YMDDANGOS YN PLEIDIO HYNY—Y BWRIAD I SYMMUD YN CAEL EI RODDI I FYNU.

NID rhaid dywedyd y croesäwyd Mr. Rees yn fawr gan yr eglwysi a'r cynnulleidfäoedd yn Liverpool, ar ei ddychweliad o'r America; ac nid bychan oedd y llawenydd trwy holl Gymru, yn enwedig yn y Gogledd, wrth glywed ei fod ef a'i gyfaill, wedi dyfod yn ol yn ddiogel i'w hen wlad. Ymaflodd yntau, ar unwaith, yn ei lafur gweinidogaethol gydâg egni adnewyddol, a chydâ rhyw ddwysder teimlad, a ystyrid hyd yn nôd yn fwy angerddol nag oedd gyffredin iddo o'r blaen. Dywediad un, wrthym ni, am dano oedd,—"Y mae yn pregethu yn fwy ofnadwy o ddifrifol nag erioed." Yn mhen ychydig wythnosau wedi ei ddychweliad, fe gadwyd cyfarfod cyhoeddus yn hen Gapel Bedford Street, yn yr hwn y rhoddodd Adroddiad nodedig o ddyddorol, a thra effeithiol, am ei daith yn America, ac am amgylchiadau y Cymry yno. Yr oedd y mynediad i mewn yn rhad, ac felly yr oedd y Capel yn orlawn. Yr oedd y dysgrifiad a roddid ganddo o anghenion crefyddol ein cenedl, yn y wlad yr

ymwelsai â hi, y fath, fel yr oedd llïaws yn teimlo nes wylo wrth wrandaw arno; a bu ei gyfarchiad yn destyn cyffredin ymddyddan, yn mhlith y Cymry yn y dref, am wythnosau. Aeth i'r Gymdeithasfa Chwarterol gyntaf wedi ei ddychweliad, yr hon a gynhelid yn y Wyddgrug, Hydref 1, 2, 3, 1839. Yno fe amlygwyd teimladau diolchgar yr holl frawdoliaeth i'r Llywodraethwr mawr, am yr amddiffyn a fuasai drosto ef a'i gyfaill, ar eu teithiau meithion a pheryglus; ac am eu dwyn adref yn gwbl ddiogel. Yr oedd Mr. Elias yn bresennol yn y Gymdeithasfa hòno, ac yn datgan ei lawenydd mawr wrth ei gyfarfod wedi cyrhaedd adref yn ddiogel a chysurus. Pregethodd Mr. Rees yn y Wyddgrug am ddau ar y gloch, gydâ dwysder ac effeithiolrwydd neillduol, ar "Y Perygl o adfeiliad oddiwrth yr Efengyl," yr hon a geir yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 237—254. Yn mhen ychydig wythnosau ar ol hyny, yr oedd yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, yr hwn a gynhelid yn Ngwrecsam. Yno, ar gais y frawdoliaeth, yn lle pregethu fel arfer ar y noson gyntaf, fe draddododd yr Araeth a roddasid ganddo yn Liverpool, ar ei Daith yn America. Ni a glywsom fod effeithiau hynod i'r adroddiad yno, fel yn Liverpool. Nid oedd darlithio ar wahanol destynau prin wedi dechreu yn Nghymru yn y dyddiau hyny; ac onide, y mae yn ddiammeu y cawsai lawer o geisiadau i fyned yma a thraw trwy y wlad i roddi darlith ar America.

Yn ystod y mis Tachwedd, efe a aeth ar ymweliad â rhanau o Scotland. Nid oedd efe erioed wedi bod yno cyn hyny. Yr oedd sôn mawr wedi myned, trwy yr holl deyrnas, am adfywiad hynod ar grefydd oedd wedi tori allan yn Kilsyth, tref fechan mewn rhyw ddeuddeng milltir i'r Gogledd-ddwyrain o Glasgow. Yr oedd adfywiad grymus iawn wedi bod yn yr un dref, yn 1742, agos i gan' mlynedd cyn yr un presennol; eithr ar ol hyny, yr oedd crefydd wedi adfeilio yn ddirfawr yno, a'r lle wedi myned yn nodedig o lygredig ac annuwiol. Yn awr yr oedd rhyw bethau rhyfedd yn cymmeryd lle yno; nerthoedd y nefoedd yn cael eu teimlo er argyhoeddiad i ugeiniau a chan-

noedd, llïaws mawr yn tori allan i waeddi am eu bywyd, ac ereill yn gorfoleddu yn y profiad o dangnefedd yr efengyl. Yn eglwys y plwyf yr oedd yr adfywiad yn fwyaf nerthol, mewn rhan trwy weinidogaeth y Parch. Mr. Burns; eithr yn benaf trwy bregethau ei fab, oedd y flwyddyn hono wedi ei awdurdodi i bregethu, ac yn gwneyd gwaith efengylwr yn effeithiol, ond eto heb ei neillduo yn hollol i'r weinidogaeth; ond a ddaeth, wedi hyny, yn adnabyddus iawn fel y Parch. William Chalmers Burns, y Cenhadwr enwog i China. Wrth glywed am beth mor annghyffredin, a chydâ mesur o awydd am gael cyfranogi eu hunain o'r un peth, fe ddarfu i'r brodyr yn Nghyfarfod Misol Liverpool, annog Mr. Rees i fyned i ymweled â'r lle, er mwyn gweled ei hunan yr hyn oedd yn cael ei wneyd yno, a dwyn adroddiad iddynt hwy; a chan obeithio hefyd y gallai ddwyn rhyw gymmaint o'r tân sanctaidd yn ol gydâg ef. Felly efe a aeth yno, a chyfaill o Liverpool gydâg ef, ac hefyd y diweddar Barch. John Phillips, y pryd hyny, o Dreffynnon. Treuliasant y Sabboth, Tachwedd 17, yn Kilsyth. Yr oedd yno lawer o ddieithriaid, fel hwythau, ac yn eu plith gryn nifer o weinidogion, wedi dyfod i weled yr hyn ag yr oedd cymmaint o sôn am dano. Gresyn na buasai genym, odditan law Mr. Rees ei hunan, ryw adroddiad am yr ymweliad hwn; ond nid oes dim o'r fath ar gael. Ni a'i clywsom ef, pa fodd bynag, fwy nag unwaith yn cyfeirio ato, a phob amser gydâ boddhâd mawr o'r hyn a ddaethai dan ei sylw; ac yn enwedig o'r cyfnewidiad mawr ac amlwg oedd i'w ganfod, fel yr adroddid iddo ef, yn ymddygiadau ugeiniau a channoedd yn y dref, yn ganlynol i'r Adfywiad, ac fel ffrwyth iddo. Dywedid wrtho fod meddwdod y lle, ar y pryd, wedi diflanu braidd yn gwbl trwy rym a dylanwad yr efengyl; a bod llïaws o deuluoedd diweddi, a rhai na byddent byth yn myned i un lle o addoliad, yn awr âg addoliad teuluaidd yn cael ei gynnal yn gyson ynddynt; a'u bod hefyd yn ymddangos yn ymdrechgar a ffyddlawn yn yr ymarferiad â holl foddion grâs. Y tad oedd yn pregethu yn yr eglwys y Sabboth hwnw, ac nid oedd dim neillduol yn y bregeth; pregeth fechan

led gyffredin, heb ddim effeithiau gweledig ar y bobl. "Ond," meddai, "yr oedd yno astudrwydd a difrifwch mawr." Ac wedi eu myned allan o'r eglwys, ac o'r addoldai ereill, yr oedd yn sylwi eu bod yn ymddwyn ar hyd yr heolydd gydâ'r fath sobrwydd, fel y gallesid tybied nad oedd yno neb yn meddwl am ddim ond am iachawdwriaeth ei enaid. Yr oedd un peth yn arbenig wedi peri iddo ef feddwl yn dda am yr adfywiad hwnw, sef, fod crefyddwyr wedi cael eu deffro, yn fwy nag erioed, i ymdeimlo a'u rhwymedigaethau i ymdrechu am gadwedigaeth ereill. Aeth Mr. Rees a'i gyfaill, a Mr. Phillips, o Kilsyth i Edinburgh. Yno, fe glywodd Dr. Chalmers yn traddodi y gyntaf o'i Ddarlithiau Duwinyddol, am y tymhor hwnw, yn y Brif-Athrofa. Bu hefyd yn nghyfarfod Henaduriaeth yr *United Presbyterians* a gynhelid yn Edinburgh yr wythnos hòno, lle y cafodd y derbyniad mwyaf croesawgar. Adfywiad crefyddol, a dyledswydd cristionogion gydâ golwg arno, oedd y pwnc dan sylw yn y cyfarfod hwnw. Bu hefyd mewn cyfarfod i'r un amcan, mewn cysylltiad â'r eglwysi cynnulleidfäol, yn y ddinas a'r amgylchoedd. Dychwelodd o Scotland yn argyhoeddedig fod yno waith mawr yn myned yn mlaen; ac er ei fod, hyd yn nod y pryd hwnw, fel y daeth yn fwy ar ol hyny, yn dra annghefnogol i, ac yn amheus iawn o bob math o gyffroadau crefyddol cynhyrfus, yr oedd yn amlwg oddiwrth ei bregethau a'i ymddyddanion, yn ganlynol i hyn, fod yr adfywiad hwn wedi cydio i fesur helaeth yn ei ysbryd ef ei hunan.

Nid rhyw lawer sydd genym o'i hanes am y flwyddyn 1840, ond y gwyddom ei fod yn llawn llafur o'i dechreu i'w diwedd; a bod rhai o symmudiadau y Cyfundeb yn ystod y flwyddyn, heb fod yn gwbl gymmeradwy ganddo, ac wedi peri peth blinder iddo. Yr oedd ar ddydd Mercher, Ionawr 1, yn Nghyfarfod Misol Sir Feirionydd, yr hwn a gynhelid yn y Bala, lle hefyd yr ordeiniwyd Mr. Thomas Jones, o Berriew, Sir Drefaldwyn, wedi hyny o Cassia, yn Genhadwr. Yr oedd efe yn cael ei ordeinio, ar y dybiaeth y byddai yn myned allan mewn cysylltiad â Chymdeithas Genhadol Llundain; oblegyd yr oedd wedi ei

dderbyn ganddi hi fel Cenhadwr, a chydâ'r bwriad iddo fyned i lafurio mewn rhyw gŵr neillduol o Ddeheudir Affrica. Gan ein bod ni yn aros yn y Bala ar y pryd, ac yn dygwydd bod yn bresennol yn y Cyfarfod hwnw, dichon na byddai yn annyddorol i ni ddodi i mewn yma rai o'n Hadgofion am dano. Yr oedd nifer mwy nag arferol o gyfeillion Sir Feirionydd,—ac yr oedd hyny cyn ei rhanu yn ddau Gyfarfod Misol,—wedi dyfod i'r Bala i'r Cyfarfod hwnw; ac yr oedd yno amryw wedi dyfod o rai o'r siroedd ereill, yn enwedig o Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn. Yn y boreu, am saith ar y gloch, fe gynhaliwyd cyfarfod gweddïo ar ran y brawd ieuanc oedd i'w neillduo; yn yr hwn y cymmerwyd rhan gan Mr. Robert Griffith, Dolgelleu; Mr. John Williams, Llecheiddior (Llanfachraeth y pryd hwnw); Mr. David Rees, Capel Garmon; a'r hen frawd, Mr. Lewis Morris. Am ddeg ar y gloch yr oedd y cyfarfod ordeinio. Dechreuwyd gan Mr. Richard Jones, Llanfaircaereinion. Llywyddwyd y Cyfarfod gan Mr. Humphreys, o'r Dyffryn. Wedi iddo ef roddi adroddiad cryno ac eglur o amcan y cyfarfod, ac o'r hyn oedd wedi cael ei wneuthur eisoes gydâ golwg ar y brawd oedd i'w neillduo, a gwneuthur rhai sylwadau ar bwysigrwydd y gwasanaeth oedd i'w gyflawni y boreu hwnw,—fe alwodd ar Mr. Hughes, Liverpool, i holi Mr. Thomas Jones am ei hanes a'i brofiad crefyddol; ei olygiadau athrawiaethol; a'r ystyriaethau a'i cymhellent at y gwaith cenhadol; yr hyn a wnaeth yn ddoeth ac yn fanwl, eto yn dyner iawn. Wedi derbyn atebion boddlonol, galwodd y llywydd ar i'r swyddogion oll, yn bregethwyr ac yn flaenoriaid, sefyll ar eu traed; ac yna rhoddi arwydd trwy godiad deheulaw, eu bod yn ei neillduo i weinidogaeth yr efengyl, fel Cenhadwr; yr hyn a wnaethpwyd yn y modd mwyaf difrifol. Yna galwyd ar Mr. Edwards o'r Bala (Dr. Edwards ar ol hyny), i weddïo ar yr achlysur. Dysgwylid Mr. Elias i draddodi y Cyngor i'r Cenhadwr. Yr oedd wedi addaw dyfod, os gallai mewn un modd. Ac er ei fod wedi methu myned i'r Gymdeithasfa yn Llanrwst, yr wythnos flaenorol, oblegyd ansawdd ei iechyd a gerwindra y tywydd, ac

wedi anfon i'r Bala fod yn dra annhebyg, o herwydd yr un rhesymau, y gallai ddyfod i'r cyfarfod ordeinio, er y mawr ddymunai fod yn bresennol,—ac os tynerai yr hîn yr ymdrechai ddyfod. Nid oedd yr hîn wedi tyneru dim; eto ni chymmerodd cyfeillion y Bala y rhybudd. Eithr wedi ysgrifenu ato eilwaith, ac heb gael atebiad i'r llythyr hwnw, anturiasant ei gyhoeddi, y Sabboth blaenorol, fel un oedd i gymmeryd rhan arbenig yn y cyfarfod. Ac er nad oedd wedi dyfod i'r Bala y nos Fawrth, hyderid ei fod wedi cyrhaedd i'r Fronheulog, ac y byddai yn brydlawn yn y Bala erbyn y cyfarfod am ddeg drannoeth. Pa fodd bynnag, gydâ'r *Post* y boreu hwnw, fe dderbyniodd Mr. Davies, Fronheulog, lythyr oddiwrth Mr. Elias, yn ei hysbysu fod ei iechyd mor wan, fel yn ngwyneb yr hîn ar y pryd, nas gallai feddwl am ymgymmeryd â'r fath daith, ac yn datgan ei ddymuniadau goreu ar ran y cyfarfod. Anfonodd Mr. Davies genad yn ddioed i'r Bala, gan orchymyn iddo brysuro gydâ holl nerth traed y ceffyl, i hysbysu Mr. Jacob Jones nad oedd Mr. Elias yn dyfod, ac y byddai raid cael rhyw un yn ei le i draddodi y Cyngor. Càn gynted ag y cafodd yntau y genadwri, ac heb gael amser i ymgynghori â neb, aeth ar ei union i dŷ Miss Jones, Glan Tryweryn, lle y lletyai Mr. Hughes, i'w hysbysu o'r amgylchiadau. Dywedwyd wrtho nad oedd Mr. Hughes eto wedi dyfod i lawr, od oedd wedi codi. Dywedodd yntau y byddai raid iddo ef gael ei weled,—hyd yn nod yn ei wely; ac felly aeth ato i'r ystafell y gorweddai ynddi. Mynegodd iddo nad oedd Mr. Elias yn dyfod, ac y byddai raid iddo ef draddodi y Cyngor; ac heb ychwanegu dim, aeth ymaith ar unwaith, cyn i Mr. Hughes gael amser i roddi atebiad o un math iddo. Ni a glywsom Mr. Hughes, a Mr. Jacob Jones, yn myned dros yr hanes, ar wahanol amserau. Ac felly, mewn tua dwy awr wedi iddo dderbyn y rhybudd am hyny, fe alwyd ar Mr. Hughes i draddodi y Cyngor; yr hyn a wnaeth yn nodedig o effeithiol, oddiar 1 Tim. vi. 11: "Tydi, gŵr Duw." Dyma y pryd yr arddangoswyd un o'r profion hynotaf a welsom ni yn neb erioed o allu siarad gydâ byr-fyfyr. Nid oedd ond tua dwy

awr, fel y dywedasom, er pan y cawsai y pregethwr y rhybudd y dysgwylid y Cyngor ganddo. Eithr nid oedd wedi cael ond ychydig o'r ddwy awr hyny i feddwl am dano; oblegyd yr oedd wedi bod yn cymmeryd ei foreu-bryd, &c., cyn dyfod i'r Capel. Yno drachefn, yr oedd y rhan benaf o'r hyn a gymmerasai le eisoes yn y cyfarfod, wedi disgyn arno ef, fel un oedd wedi bod yn arholi y Cenhadwr; ac yr oedd wedi gwneuthur hyny gydâ'r fath fanylder, fel pe na buasai dim arall yn ei feddwl ar y pryd, na dim arall i'w ddysgwyl oddiwrtho. "Fel yr oeddwn," meddai Mr. Hughes wrthym, "yn clywed sŵn Mr. Jacob Jones yn myned i lawr y grisiau, fe saethodd y geiriau 'tydi, gŵr Duw,' gydâ goleuni a nerth mawr i'm meddwl; a chydâ hwynt y Cyngor, y fath ag ydoedd, a draddodais y boreu hwnw. Yr oeddwn yn teimlo yn hollol hamddenol, ac yn llawer mwy dibryder nag y bum laweroedd o weithiau pan wedi cael wythnosau i barotoi." Y mae yn resyn mawr na buasai y Cyngor hwnw ar gael; eithr, yn anffodus, nid oedd yno neb yn ysgrifenu ar y pryd, ac ni wnaed hyny gan Mr. Hughes ei hunan. Yr oedd yn cymmeryd y dynodiad, "gŵr Duw," yn gosod allan swydd y Gweinidog; ei waith; y cymeriad a ddylai fod yn eiddo iddo; yr ysbryd priodol iddo; y cynnorthwyon y gallai ddysgwyl am danynt; ac oddiwrth bwy yr oedd i obeithio am y llwyddiant.

Ar ol traddodiad y Cyngor, a phan oedd y gynnulleidfa yn yr hwyl oreu i wrando, galwyd ar Mr. Rees, i bregethu ar yr Achos Cenhadol; yr hyn a wnaeth oddiar 2 Cor. x. 13—16. Yr oedd y bregeth hono, yn ddiammeu, yn un o brif bregethau ei oes. Y mae yn amheus genym ni, beth bynnag, a glywsom ni ef erioed yn fwy gogoneddus. Yr oedd y bregeth yn gyflawn o gyfoeth yr efengyl, ac yn cael ei thraddodi yn hollol yn ei hysbryd hi. Y mae i'w chael, y mae yn debyg, fel yr oedd wedi ei hysgrifenu ganddo ef, yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 184—202. Ond prin y gall y darllenydd gael un drychfeddwl oddiwrth yr hyn ydyw yno, o'r hyn ydoedd yn y Bala y boreu hwnw. Y mae llïaws mawr o'r pethau ag a deimlid yn fwyaf effeithiol pan

oedd yn cael ei thraddodi, heb braidd un cyfeiriad atynt, megis ag y mae yn y gyfrol. Yr ydym yn cofio, yn neillduol, fod y darluniad a roddid ganddo, mewn ffordd o aralleiriad ar yr unfed-bennod-ar-ddeg o'r Hebreaid, o'r gorchestion a wna ffydd eto trwy yr efengyl gydâ golwg ar y byd, fel ail-gyflawniad o orchestion y patriarchiaid a'r duwiolion gynt,—darluniad ag oedd yn gwefreiddio yr holl gynnulleidfa, ac yn amlwg yn dylanwadu yn hynod ar y pregethwr ei hunan,—heb brin un cyfeiriad ato yn y bregeth argraffedig. Eithr megis ag y mae, y mae yn gyfansoddiad ardderchog, ac yn un o'r pethau goreu, adnabyddus i ni, ar yr Achos Cenhadol. Pregethwyd drachefn, yn y prydnawn a'r hwyr, gan Mr. Hughes a Mr. Rees, a brodyr ereill; ac yr oedd yr holl ddiwrnod yn un i'w gofio byth, gan y rhai a gawsant y fraint o fod yn bresennol yn yr amrywiol gyfarfodydd.

Yn mhen rhai misoedd ar ol hyn, aeth Mr. Rees i Gymdeithasfa Chwarterol Llanfaircaereinion, yr hon a gynhelid ar y dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 28, 29, 1840. Pregethodd yno ar y maes am ddau ar y gloch ddydd Mercher, oddiar 2 Petr i. 6: "Ac at gymmedrolder . . . . . . . dduwioldeb." Ystyrid y bregeth hono yn nodedig o gyfaddas i amgylchiadau llïaws mawr yn ein gwlad ar y pryd. Yr oedd dirwest, yn yr ystyr o lwyr-ymattaliad oddiwrth ddiodydd meddwol, yn uchel yn Nghymru erbyn hyn; ac nid oedd odid neb wedi ymdrechu mwy yn mhlaid yr achos na Mr. Rees. Yr oedd yn arfer areithio yn fynych iawn drosto yn Liverpool; a byddai yn aml yn myned i'r Gwyliau Dirwestol, fel y gelwid hwynt, a gynhelid yn ngwahanol barthau y dywysogaeth; ac yr oedd yn llawenychu yn fawr yn y llwyddiant hynod oedd wedi bod ar y gwaith. Yr un pryd, nid ydoedd heb ofni rhag fod llïaws yn y wlad yn gorphwys ar ddiwygiad allanol oddiwrth un ffurf ar lygredigaeth, heb adnewyddiad calon i fyned yn ei erbyn yn mhob ffurf; ac felly, er ymuno â'r Gymdeithas Ddirwestol, a theimlo eiddigedd mawr drosti, yn parhau yn gwbl amddifaid o wir grefydd, ac yn gaethweision mewn gwirionedd i bechod

Gan ystyried y perygl yr oedd yn canfod llïaws ynddo, ei amcan yn y bregeth hòno, fel gwyliedydd ffyddlawn, oedd rhybuddio ei wrandaẅwyr rhagddo; ac yr oedd yn gwneuthur hyny gydâ goleuni, a nerth, a difrifoldeb mawr. Dangosai ynddi, yn fanwl ac yn eglur, y berthynas a ddylai fod rhẅng cymmedroldeb a duwioldeb; a bod pob diwygiad yn y fuchedd na fyddo yn cyfodi oddiar, ac yn ffrwyth cyfnewidiad ar y galon, yn gadael y dyn yn ysglyfaeth i lygredigaeth mewn rhyw ffurfiau ereill, ac yn brawf ei fod yn aros, o ran ei berson, yn annghymmeradwy ger bron Duw, a'i gyflwr ysbrydol yn anniogel. Buasem yn hoffi dyfynu amrywiol sylwadau allan o'r bregeth hon, llawn mor gyfaddas i'r dyddiau presennol ag oeddent i'r adeg y traddodẅyd hi gyntaf; ond gan fod y bregeth i'w chael yn gyflawn, megis ag yr ysgrifenwyd hi gan Mr. Rees ei hunan, yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, tudal. 316—332, yr ydym yn ymattal, ac yn ymfoddloni yn unig ar gyfeirio ein darllenwyr ati.

Erbyn y Gymdeithasfa hon yn Llanfaircaereinion, ac wedi y pryd yr ordeiniasid Mr. Thomas Jones fel Cenhadwr yn y Bala, yr oedd ei gysylltiad ef â Chymdeithas Genhadol Llundain, wedi darfod yn hollol, ac anfoddlonrwydd dirfawr wedi ei gynnyrchu yn meddyliau llaweroedd yn y wlad yn erbyn y Gymdeithas hòno. Yr oedd cryn anesmwythder yn wir, er ys rhai blynyddoedd cyn hyn, mewn rhai personau, yn nghylch y cysylltiad oedd rhyngom ni fel Cyfundeb â hi. Yr oedd y Dadleuon Duwinyddol, a fuasent yn cynhyrfu y wlad am ddeng mlynedd ar hugain, wedi achosi teimladau lled anhyfryd, mewn llawer o gymmydogaethau, rhwng y Methodistiaid a'r Annibynwyr; ac nid oedd y dadleuon diweddar yn nghylch Natur Eglwys, ac Annibyniaeth a Henaduriaeth, ag oeddent yn awr yn berwi y wlad, wedi gwellhâu dim ar y teimladau hyny. Deallid hefyd fod llywodraethiad y Gymdeithas, erbyn hyn, braidd yn gwbl yn nwylaw yr Annibynwyr; ac er fod egwyddor y Gymdeithas yn parhau yn hollol rydd gydâ golwg ar y ffurf-lywodraeth a roddid gan y Cenhadon i'r eglwysi a sefydlid ganddynt, eto yr oedd rhai

Annibynwyr yn cymmeryd mantais, oddiwrth fod y mwyafrif o aelodau y Cyfeisteddfod o honynt hwy, i hòni mai eu Cymdeithas hwy yn unig ydoedd; a rhai Methodistiaid yn cymmeryd yr un peth hefyd yn rheswm yn ei herbyn, ac i ddadleu am ymadael â hi. Gydâ hyny, ac yn dra anffodus, yr oedd rhai ymgeiswyr Cenhadol o blith y Methodistiaid, unwaith ac eilwaith, wedi eu gwrthod gan y Cyfeisteddfod; ac er yr addefid yn lled gyffredin, wedi hyny, nad oeddent wedi methu llawer gydâ golwg ar y rhai hyny, eto nid oedd eu doethineb yn hawdd i'w ganfod gan y llïaws ar y pryd; ac yr oedd gwrthodiad y naill ar ol y llall, yn ymddangos fel yn rhoddi rhyw gymmaint o le, i'r rhai a geisient achlysur yn erbyn y Gymdeithas, i dybied nad oeddent yn cael tegwch hollol oddiar law y Cyfeisteddfod, ond eu bod yn cael eu troi yn ol oblegyd mai Methodistiaid oeddynt; ac y mae yn ddrwg genym orfod ychwanegu, fod rhai yn mhlith ein brodyr yr Annibynwyr yn ymffrostio, hyd yn nôd trwy y Wasg, yn y gwrthodiad o honynt, ac yn dywedyd fod y Methodistiaid yn cael eu dysgu yn effeithiol nad eu heiddo hwy oedd yr awdurdod. Heblaw hyn, y mae yn ddyledus i ni ddywedyd, fod cryn nifer yn mhlith y Methodistiaid, o'r rhai a deimlent yn gwbl garedig tuag at yr hen Gymdeithas, ac mor rydd ag y gellir dysgwyl i ddynion yn gyffredin fod oddiwrth bob rhagfarn enwadol, eto yn teimlo nad oeddynt, fel Cyfundeb, yn gwneuthur o lawer yr hyn a ddylasent, ac a allasent, tuag at anfon yr efengyl i'r byd yn gyffredinol; ac yn rhyw dybied, pe buasai ganddynt Gymdeithas o'r eiddynt eu hunain, y buasent hwyrach yn ymdeimlo yn llawer mwy â'u rhwymedigaethau, ac yn gwneuthur llawer iawn mwy tuag at yr Achos Cenhadol. Oddiar yr amrywiol ystyriaethau a'r gwahanol gymhelliadau hyn, yr oedd rhai Cyfarfodydd Misol, er ys amryw flynyddoedd, wedi cymmeryd y peth i fynu, ac wedi gwneuthur cynnygion ar fod i ni ffurfio Cymdeithas Genhadol i ni ein hunain. Anfonwyd cenadwri felly o Gyfarfod Misol Liverpool, i Gymdeithasfa Bangor, 1838; ac o Gyfarfod Misol Sir Drefaldwyn, i Gymdeithasfa Rhuthin, Hydref 17, 18, 19, yr un flwyddyn. Bu

rhyw gymmaint o ymdrafod ar y mater yn y Cymdeithasfäoedd hyny; a dadleu brwd iawn, ac heb fod yn yr ysbryd goreu, ar du rhai o'r brodyr, yn Nghymdeithasfa Bangor. Yn Nghymdeithasfa Rhuthin, fe osodwyd ar y Cyfarfodydd Misol ag oeddent heb ddyfod i un penderfyniad, gymmeryd yr achos drachefn i'w hystyriaeth, a dyfod â'u llais i Gymdeithasfa Llanrwst, Rhagfyr 26, 27, 1838, gydâ golwg ar ffurfiad Cymdeithas i ni ein hunain. Cafwyd yn Llanrwst, fod y mwyafrif o'r Cyfarfodydd Misol yn anmharod i fyned yn mlaen gydâ Chymdeithas newydd; tra y deallwyd hefyd fod nifer mawr, yn yr holl Gyfarfodydd Misol, yn gryf dros hyny. Yr oedd rhai yn dadleu yn wresog yn mhlaid hyny yn Llanrwst. Eithr yr oedd ymlyniad cryf iawn yn y gwŷr blaenaf yn y Cyfundeb, wrth yr hen Gymdeithas yr oeddent wedi bod yn llafurio gydâ hi o'i sefydliad cyntaf; ac yr oedd eu ffydd yn parhau yn ddiysgog yn ngonestrwydd a doethineb aelodau ei Chyfeisteddfod, er yr addefent nad oeddent, fe allai, yn deall y Cymry yn llawn cystal ag y buasai yn ddymunol. Yr oeddent, o'r tu arall, yn dra amheus a allem ni fel Cyfundeb, ac yn yr amgylchiadau yr oeddem ynddynt, sicrhau nifer o frodyr cymhwys i'w hanfon allan fel Cenhadon; ac yr oeddent yn amheus hefyd, a allem ni gael nifer digonol o wŷr cymhwys a pharod i ymgymmeryd â'r llafur o arolygu ei gweithrediadau gartref. Yr oeddent yn dadleu, pa fodd bynnag, am i ni barhau mewn undeb â'r hen Gymdeithas, hyd nes y gwelid pa beth a ddeuai o Mr. Thomas Jones, yr hwn y gwyddid oedd yn y Bala yn ymbarotoi i fyned allan yn Genhadwr; ac yr oeddent yn dysgwyl yn fawr y byddai iddo ef gael ei dderbyn ganddi, ac yr adferai hyny deimlad da yn y Cyfundeb yn gyffredinol yn ei phlaid. Ac ar hyny y cytunwyd yn Llanrwst; fel y gadaẅwyd y mater heb un sylw Cymdeithasfäol arno, ar ol hyny, am dros flwyddyn. Yn wir, pan y daeth yr Achos Cenhadol ger bron yn Nghymdeithasfa y Bala am 1839, a phan y gosodwyd ar Mr. Edwards a Mr. Charles, athrawon Mr. Thomas Jones, ei gyflwyno ef fel ymgeisydd i Gymdeithas Genhadol Llundain, nid ydym yn

meddwl, o leiaf nid oes genym ni un côf, fod neb, hyd yn nôd o Sir Drefaldwyn, neu o Liverpool, wedi yngan gair am i ni gael Cymdeithas i ni ein hunain. Y canlyniad fu, wedi y cyflwyniad hwnw o hono, iddo fyned i fynu i Lundain, ymddangos o flaen y Cyfeisteddfod, a chael ei dderbyn ganddynt fel Ymgeisydd. Oblegyd fod y tystiolaethau meddygol a ddygasid ganddo yn mhell o fod yn foddhäol, bu y cyfarwyddwyr yn hir mewn petrusder a allent ei dderbyn o gwbl; a thrachefn mewn cryn betrusder, gydâ golwg ar y lle y buasai yn oreu iddynt ei ddanfon. Yr oedd efe ei hunan, yn atebiad i'r gofyniad argraffedig a roddid iddo, fel i bob ymgeisydd, yn nghylch ei iechyd, wedi ysgrifenu, "I have often been afraid that I would be unable to live in a sultry climate." Yr oedd hefyd wedi anfon y dystiolaeth ganlynol oddiwrth Mr. Edward Williams, Surgeon, Bala, am ansawdd ei iechyd: "I have examined Mr Thomas Jones, as to the state of his general health, and his ability to withstand the effects of a tropical climate. I am decidedly of opinion that the functions of his liver are imperfectly performed, and that a hot climate would have the tendency to increase the disorder. A dry climate of a moderate temperature, would be most likely to be congenial to his constitution and state of health." Wedi iddo fyned dan archwiliad gan feddygon awdurdodedig y Gymdeithas yn Llundain, Dr. Conquest a Dr. Darling, yr oedd Dr. Conquest yn amheus a allai ei iechyd ddal yn hir yn un lle, ac felly yn tybied yn anmhriodol ei ddanfon allan o gwbl: tra yr oedd Dr. Darling yn tybied y gallai fyw yn hwy yn Neheudir Affrica nag yn Lloegr. Yr oedd y naill a'r llall yn hollol wrthwynebol iddo fyned i India; tra nad oedd Dr. Conquest mor wrthwynebol iddo fyned i Ddeheudir Affrica ag ydoedd iddo fyned i India. Felly fe benderfynwyd ei dderbyn yn Genhadwr i fyned i Caffraria, un o'r lleoedd iachaf yn Neheudir Affrica; ac yr oedd yntau ei hunan ar y pryd, y mae yn ddiammeu, yn cytuno â hyny. Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo at Mr. Davies, Fronheulog, Tachwedd 26, 1839, efe a ddywed: "I am happy to inform you that I am now accepted

and am to go to South Africa as soon as I can be ready. I have nothing to do except to come to Wales to take leave of my friends, to be ordained, &c. Mr. Arundel will write to Mr. Edwards to inform him of the decision of the Directors." Ac yr oedd y derbyniad o hono wedi rhoddi boddhâd mawr i gyfeillion y Gymdeithas trwy yr holl Gyfundeb. Gwelir teimlad Mr. Elias, yr hwn yn arbenig y gellir edrych arno fel yn cynnrychioli y rhai hyny, yn y dyfyniadau canlynol allan o ddau lythyr o'i eiddo: "December 10, 1839. I am glad to find that Thomas Jones passed so well. I hope health will be given him beyond the expectations of the Directors; at the same time I think it wise in the Directors to send him to a healthy station in South Africa, rather than to India, as he is not in sound health." Eto: "December 26, 1839. May our young friend be filled with the Spirit of God. May he go to the Heathen with the fulness of the blessings of the gospel. Let him be reconciled to the decision of the Directors in sending him to South Africa. If the Lord will take him as an instrument in his hand to save an Hottentot, it will be no less a privilege than to be the means of saving an Hindoo, or a learned Brahmin." Teimlad cyffelyb a ffynai yn gyffredinol. A phan oedd pawb yn teimlo felly yr ordeiniwyd ef yn y Bala. Eithr yr oedd Mr. Thomas Jones ei hunan, o'r dechreuad, yn hynod o anfoddlawn i fyned i Affrica. Dywedai fod ei feddwl ef wedi ei sefydlu ar y Dwyrain,—India neu Burmah,—er pan y meddyliasai gyntaf am y gwaith Cenhadol; ac yr oedd yn methu dygymmod â'r syniad o fyned i un lle arall. Edrychai, yn wir, ar gael ei anfon i Affrica yn fath o ddarostyngiad personol arno ei hunan; ac yr oedd y naill ddydd ar ol y llall yn dyfod yn fwy anfoddlawn i'r penderfyniad. Ar ol ei ordeiniad yn y Bala, efe a aeth i Sir Drefaldwyn; ac oddiyno i Liverpool. Yn Sir Drefaldwyn, fe ddaeth y meddwl am India yn gryf iddo drachefn; ac fe gyfarfu â Mr. Serph, Meddyg yn y Trallwm, yr hwn oedd wedi bod bob amser yn feddyg i'w deulu ef, a'r hwn mewn llythyr ar ol hyny a sicrhai iddo, ei fod yn hollol iach, a'i fod yn un llawer mwy

cymhwys, o ran ei gyfansoddiad, i fyned i India nag ydoedd i fyned i Affrica. Wedi cyrhaedd Liverpool, gydâ y sierhâd hwn am ei gymhwysder o ran cyfansoddiad i fyned i India, fe gafodd ryw fath o sierhâd hefyd gan rai o'r cyfeillion yno,—ag oeddent wedi bod er ys blynyddoedd yn awyddus am i ni ymwahanu oddiwrth yr hen Gymdeithas,—os gwrthodai y Cyfeisteddfod yn Llundain, yn ngwyneb y dystiolaeth hono o eiddo Mr. Serph, ei anfon i India, y gwnaent hwy yr hyn a allent, er ffurfio Cymdeithas i'w anfon ef; ac nad oedd un amheuaeth na chaent laweroedd yn y wlad o'u plaid. Felly efe a aeth i fynu i Lundain. Yn ol syniad y brodyr yn gyffredin yn Nghymru, yn gystal ág yn ol syniad cyfarwyddwyr y Gymdeithas yno, yr oedd yn myned i fynu i wneuthur y trefniadau angenrheidiol gydà golwg ar ei fynediad allan i Affrica; eithr yr oedd efe, mewn gwirionedd, yn myned i fynu gydâ meddwl hollol wahanol. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd myned i chwilio am feddyg arall, a'i osod ei hunan dan archwiliad ganddo. Ac fe aeth at un o brif feddygon Llundain, ac a gafodd ganddo y dystiolaeth ganlynol:—

"I hereby certify that I have examined Thomas Jones, and do not discern any trace of organic disease in any organ; neither do I discover anything about him that would induce me to disapprove of his visiting any part of the Globe. Upon the whole, however, I think it not unlikely that he would fare best in a warm climate, subject of course to all the ordinary perils to be encountered by every one who transports himself from a temperate to a tropical climate. Signed, John Addison, M.D., Physician and Lecturer at Guy's Hospital. January 24, 1840."

Wedi ei arfogi â'r tystiolaethau hyn, ac yn cael ei gyfnerthu gan yr hyn a olygid ganddo ef yn addewid gan ryw rai yn Liverpool, yr anfonid ef yn sicr i India, efe a aeth at y Cyfeisteddfod, ac a ddywedodd wrthynt, ei fod ef wedi gwneuthur ei feddwl i fynu mai i India yr âi efe yn Genhadwr; ac os na chai fyned i India, nad âi efe allan o gwbl. Er iddynt ymliw

âg ef, ei fod wedi arwyddo papur yn yr hwn yr oedd yn ymrwymo myned i'r lle a bennodid iddo gan y cyfarwyddwyr, a cheisio ei argyhoeddi fod tystiolaethau Meddygon awdurdodedig y Gymdeithas, pe na buasai dim arall, yn ddigon i'w hattal hwy rhag ei anfon i India, ac felly nad oedd bosibl iddynt gydsynio â'i gais—nid oedd dim yn tycio. Y canlyniad a fu, iddynt gydolygu, fod ei gysylltiad â'r Gymdeithas i ddarfod. Wele y penderfyniad y daethant iddo, fel y mae ar lyfr Cofnodau y Cyfeisteddfod:—"That as Mr. Thomas Jones, Missionary Student from Bala, appointed to South Africa, has refused to accept the appointment, and the Committee with the Medical opinions before them, do not feel at liberty to select any other station, and regarding his decision as equivalent to declining the service of the Society, his connection with the Society be considered as dissolved." Nid ydym ni yn meddwl fod Mr. Thomas Jones ei hunan yn dysgwyl y delai i hyn. Yn hytrach yr oedd efe yn tybied, yr edrychid gan y cyfarwyddwyr ar gysylltiad y Methodistiaid â'r Gymdeithas yn beth mor bwysig, fel y gwnelent unrhyw beth er attal iddo gael ei dori; ac yn tybied hefyd, yr edrychent ar wrthod ei gais ef, yn beth a allai derfynu yn hyny; ac o'r tu arall, er y cwbl a addewsid iddo gan ryw rai yn Liverpool, nid oedd mor hyderus y byddent yn alluog i gyflawni yr hyn a addawsent,—yn enwedig i sefydlu Cymdeithas a'i hanfonai ef allan, ac a fyddai yn alluog i sicrhau cynhaliaeth iddo, wedi ei fyned. Y mae yn awr ger ein bron ddau o'i lythyrau, yn datgan ei siomedigaeth; ac yn un o honynt, y mae yn bwrw bai y "gwrthodiad" o hono, fel y mae efe yn ei alw, ar un a fuasai i'n gwybodaeth ni, am yn agos i dair blynedd, yn gymmwynaswr caredig iawn iddo, ac un oedd wedi gwneuthur mwy na neb arall, er y tystiolaethau meddygol anffafriol, i sicrhau ei dderbyniad gan y Gymdeithas. Pa fodd bynnag, yr oedd yn gweled fod ei gysylltiad â'r Gymdeithas yn awr wedi darfod, ac nad oedd gobaith iddo bellach, ond trwy gael Cymdeithas newydd; ac er cyrhaedd yr amcan hwnw, fe wnaeth bob ymdrech i adael argraff ar feddwl y wlad, mai ei

wrthod a gawsai gan Gymdeithas Llundain, a hyny yn y modd mwyaf dibris a diystyr. Anfonodd amryw lythyrau i Liverpool, i Sir Drefaldwyn, ac i leoedd yma a thraw yn y Siroedd ereill, yn gosod y wedd hono ar yr achos; ac yn datgan ei lawenydd o'i fod wedi ei ryddhau o afaelion y rhai a fynent ei gaethiwo, a'i fod yn gobeithio y byddai i'r holl Gyfundeb ddyfod allan i ffurfio Cymdeithas newydd. Y mae o'n blaen yn awr un llythyr a ysgrifenwyd ganddo yn fuan iawn,—yn mhen ychydig oriau yn wir,—wedi iddo fod o flaen y Cyfeisteddfod, o'r hwn y rhoddwn un dyfyniad:—

"January 27, 1840.—I have been discharged by the directors without any ceremony at all. They seemed to be glad of an opportunity of doing so. As soon as I told them of my determination to offer myself as a Missionary for the East Indies, and to be received for that post alone, they all said it was what they wanted; and said, 'The business is over.' So I was discharged." Aeth i lawr yn ddioed i Liverpool. Wedi cyfarfod â rhai cyfeillion yno, fe grëwyd y fath deimlad yn erbyn Cymdeithas Llundain, fel y galwyd cyfarfod o'r pregethwyr a'r blaenoriaid, a'r aelodau mwyaf blaenllaw, perthynol i'n hamrywiol Gapeli ni yn y dref, ar nos Wener, Ionawr 31, 1840, yn *vestry* Capel Rose Place, i dderbyn adroddiad ganddo o'i wrthodiad gan Gymdeithas Llundain, ac i geisio ystyried pa beth oedd i'w wneuthur yn ngwyneb yr amgylchiadau. Yno, y noswaith hòno, fe benderfynwyd "sefydlu Cymdeithas newydd, yn eiddo i ni ein hunain, dan yr enw, 'Y Gymdeithas Genhadol Gymreig,' ar yr ammod fod Rheolau y Gymdeithas yn cael eu cymmeradwyo gan y Gymdeithasfa Chwarterol; a phenderfynwyd hefyd, os ceid caniatâd y Gymdeithasfa, anfon Mr. Thomas Jones allan yn Genhadwr i India, càn gynted ag y gellid." Anfonwyd cylch-lythyrau i bob parth o Ogledd Cymru, yn gystal ag i Sir Aberteifi, os nad i holl Siroedd y Deheudir, yn cymhell y Gymdeithas newydd hon i sylw yr eglwysi, a'r Cyfarfodydd Misol, ac yn gofyn am eu cyd-weithrediad. Aeth Mr. Thomas Jones i amryw fanau yn Sir Drefaldwyn, a Siroedd

ereill, gan adrodd yr hanes yn y wedd a gymmerid arno ganddo ef; nes cynnyrchu teimlad cryf iawn, braidd yn mhob lle yr elai iddo, yn erbyn Cymdeithas Llundain. Yr oedd llïaws o gyfeillion y Gymdeithas hòno yn ofnus iawn rhag y gwneid niwed dirfawr iddi yn y wlad, trwy yr ymosodiadau hyn; a chan eu bod hwy yn credu nad oedd yr adroddiadau a roddid, am y modd y torasid cysylltiad Mr. Thomas Jones â hi, mewn un modd yn hollol gywir, yr oeddent yn teimlo y dylasai y Gymdeithas wneuthur rhyw fath o amddiffyniad iddi ei hunan, trwy roddi adroddiad têg o'r amgylchiadau. Fe wnaed hyny, mewn cylch-lythyr bychan o eiddo Ysgrifenydd y Gymdeithas, y Parch. John Arundel. Yn hwnw, yn mhlith pethau ereill, y mae yn dywedyd fel y canlyn:—"As to his being refused, or '*discharged,*' as he calls it, his separation was effected entirely by his own act; by telling me, and telling the Committee, that he must go to India, and that if he did not go out to India he would not go out at all. My opinion is, that Mr. Jones had made arrangements to be sent out by other friends before he came up the last time, or he would not have been so determined. I wish, however, that it may appear, after all, that he was right, and that we were all mistaken. I pray that he may be the honoured instrument of turning many from the worship of dumb idols to serve the living and the true God." Ond ni pharodd cyhoeddiad yr amddiffyniad hwn braidd ddim lleihâd ar y gwrthwynebiad a wneid i'r hen Gymdeithas, er ei fod wedi peri i gryn lawer ammeu unplygrwydd hollol Mr. Thomas Jones. Yr oedd yr achos, pa fodd bynnag, yn peri cryn lawer o gyffro braidd yn mhob Sir yn y Gogledd, a theimladau lled anhyfryd mewn rhai manau. Yr oedd yr holl ysgogiad yn erbyn Cymdeithas Llundain yn gwbl groes i feddwl Mr. Elias, Mr. Roberts, Amlwch, ac ereill yn y Gogledd, a'r gwŷr blaenaf agos oll yn Neheudir Cymru. Yr oedd Mr. Rees yn hollol o'r un feddwl; ond yr oedd efe, o'r dechreu, yn ofni fod y fath deimlad wedi ei gynnyrchu yn erbyn Cymdeithas Llundain, fel yr ydoedd yn amheus a fyddai yn bosibl cael y Siroedd i gasglu drachefn ati

megis cynt; tra o'r tu arall, yr oedd yn ofni na allem ni byth lwyddo i sefydlu Cymdeithas i ni ein hunain, na chael rhai cymhwys i ofalu am dani, gartref nac oddicartref. Ac yr oedd, yn neillduol, erbyn hyn, yn ofni yn fawr am ddoethineb y brawd ag oedd wedi achlysuro yr holl gyffro, i'w anfon allan i India nac i un lle arall. Yr oedd Mr. Hughes, Liverpool, yn tueddu i ffurfio Cymdeithas o'r eiddom ein hunain, ond iddi fod yn Gymdeithas wedi ei bwriadu ar gyfer y byd; ac felly yn cymmeryd i mewn y maesydd Cenhadol yn *gartrefol* yn gystal a *thramor,*—y cwbl dan yr un arolygiaeth, ac yn derbyn eu cynnaliaeth o'r un drysorfa. Ond er yr addefid dymunoldeb hyny, yr oedd teimlad tra chyffredinol yn ei erbyn, yn benaf oddiar yr ystyriaeth y byddai y gwaith a ddisgynai ar y fath Gymdeithas, yn ormod i unrhyw Gyfeisteddfod a allasem ni gael i'w arolygû; heblaw y teimlid y byddai y fath drefniad, yn peri ymyriad, na buasai, fe ddichon, yn gwbl foddlonol, â llywodraethiad y Cymdeithasau Cartrefol, a berthynent eisoes i'r Dê a'r Gogledd ar wahan. Dyma sefyllfa pethau gydâ golwg ar yr achos hwn, pan y dygwyd ef i sylw yn y Gymdeithasfa Chwarterol yn Llanfair, y cyfeiriasom ati eisoes. Yr oedd y Gymdeithasfa hòno yn cael ei chynnal mewn lle nad oedd mewn un modd yn ganolog, ac hefyd yn y Sir ag yr oedd Mr. Thomas Jones yn perthyn iddi, a Sir ag yr oedd rhai personau o'i mewn, er ys rhai blynyddoedd, wedi bod yn dra anfoddlawn i'r cysylltiad oedd rhyngom ni fel Cyfundeb â Chymdeithas Llundain. Yr oedd gwrthwynebwyr y Gymdeithas hòno wedi dyfod i'r Gymdeithasfa yn llu mawr o'r amrywiol Siroedd, ac yn enwedig o Liverpool; ac yn eu plith, ac megis un a gymmerodd ran arbenig mewn dadleu yn ei herbyn, y diweddar Mr. Richard Williams, awdwr y "*Pregethwr a'r Gwrandawr.*" O'r tu arall, nid oedd yno ond ychydig iawn o'i chyfeillion hi, na neb o odid ddim dylanwad, i ddywedyd gair drosti, ond Mr. Rees ei hunan. Yr oedd ei sefyllfa yntau yno yn mhell o fod yn un ddymunol. Yr ydoedd, o'i ran ei hunan, yn gryf dros gadw at yr hen Gymdeithas ag yr oeddem wedi bod o'r dechreuad mewn undeb â hi ac eto yr oedd yn ofni fod

y fath deimlad wedi ei greu yn ein plith yn ei herbyn, fel yr oedd yn tybied mai prin y gallesid dysgwyl adfer, o leiaf yn y Gogledd, yr un teimladau da tuag ati a chynt. Heblaw hyny, yr oedd y Gymdeithas newydd a ddygid yn awr i gyd-ymgais â hi, wedi ei chychwyn yn y dref yr oedd efe yn byw ynddi, ac o blith aelodau ei Gyfarfod Misol ef ei hunan, a'r aelodau hyny agos oll yn bleidiol iddi, a rhai o honynt yn dwyn eiddigedd mawr drosti. Yr oedd yn anhawdd iawn iddo felly, heb beryglu teimladau da, siarad yn rhydd ar y mater. Ond fe'i profodd ei hunan yn hollol ffyddlawn i'w argyhoeddiadau. Traethodd ei feddwl yn eithaf eglur, yn nghylch ei amheuon ei hunan gydâ golwg ar y priodoldeb o'n bod ni yn sefydlu Cymdeithas i ni ein hunain; ond yr hyn y dadleuai drosto yn arbenig oedd, am beidio dyfod i unrhyw benderfyniad ffurfiol arno ar y pryd, ond ei ohirio hyd Gymdeithasfa Dinbych yn Mehefin; ac yn y cyfamser, anfon at frodyr y Deheudir i ddymuno arnynt hwythau gymmeryd yr achos i'w hystyriaeth yn eu Cymdeithasfa hwy; a bod i lais y Dê a'r Gogledd ddyfod i'r Gymmanfa Gorphoredig oedd i'w chynnal yn Llanidloes y Gorphenaf canlynol, i'w benderfynu os gellid yno; fel, *os oeddem am symmud, y gallem symmud yn un Cyfundeb gydâ'n gilydd.* Gallesid meddwl fod pob rheswm a threfn yn mhlaid y cynnygiad a wnelsid gan Mr. Rees, a'r hyn y dadleuai mor ddoeth drosto. Eithr yr oedd y teimlad yn rhedeg mor gryf o'r ochr arall, fel na chafodd ond ychydig iawn i'w bleidio. Ennillodd Mr. Richard Williams a'r rhai oeddent gydâg ef eu hamcan yn gwbl: a "chafwyd arwydd," a defnyddio geiriau Ysgrifenydd y Gymdeithasfa, "fod y Gymdeithasfa yn dymuno i'r Corph ymffurfio yn Gymdeithas Genhadol; a rhoddwyd caniatâd i gyfeillion Liverpool i ddechreu gweithredu yn Genhadol yn ol eu rheolau cynnygiedig, ac i anfon y brawd Thomas Jones fel Cenhadwr." Yr oedd y penderfyniad hwn yn annghymmeradwy iawn gan Mr. Rees, nid yn unig ynddo ei hunan, ond oblegyd y dull y cariwyd ef; "yr appeliadau cynhyrfus ac annheg," yn ol ei eiriau ef ei hunan, "a wneid at ragfarnau dynion, a'r brys

annghymedrol a ddangosid i'w benderfynu mewn lle, ac o dan amgylchiadau, a olygid y mwyaf manteisiol er cyrhaedd eu hamcan hwy, gan y rhai a ddadleuent drosto." Nid oedd ychwaith heb ofni rhag iddo beri briw i deimladau y cyfeillion yn y Deheudir. Yr oedd yn gwybod fod y penderfyniad i'w anfon ef a Mr. Moses Parry, fel Cenhadon i'r America, heb ymgynghori dim â hwy, wedi achlysuro ychydig deimlad eisoes yn eu mysg; ac yr oedd yn ofni rhag i benderfyniad mor bwysig a hwn, o eiddo y Gymdeithasfa, heb roddi un rhybudd iddynt hwy o berthynas iddo, wneuthur mwy o niwed fyth. Ac er fod llïaws mawr yn y Deheudir, yn enwedig yn Sir Aberteifi, mor awyddus ag un lle yn y Gogledd am i ni gael Cymdeithas i ni ein hunain, eto nid oes un amheuaeth, pe cymmerasid y cynllun y dadleuid drosto gan Mr. Rees, na buasai y Gymdeithas wedi ei chydnabod fel eiddo i'r holl Gyfundeb, beth bynnag ddwy flynedd yn gynt na'r amser y gwnaed; heblaw yr attaliasai ryw gymmaint o deimladau nas gallasent fod yn gwbl gysurus. Nid ein lle ni yma ydyw rhoddi hanes sefydliad y Gymdeithas yn mhellach. Digon i ni ydyw dywedyd i'r achos gael ychydig sylw yn Nghymdeithasfa Dinbych, Mehefin 11, 12, 1840, lle yr oedd Mr. Elias, Mr. Roberts, Amlwch, Mr. Rees, ac ereill yn bresennol; a lle y cafwyd annerchiad gan y Parch. James Sherman,—yn dwyn tystiolaeth bendant i ffyddlondeb hollol Cyfeisteddfod Cymdeithas Genhadol Llundain i'w hegwyddorion sylfaenol hi; a'r gwerth mawr a roddid ganddynt ar ein perthynas ni fel Cyfundeb â hi: ac yr erfyniai yn daer arnom beidio meddwl am ymadael byth â hi. Daeth y peth i sylw y Gymmanfa Gorphoredig yn Llanidloes, Gorphenaf 28, 29, 30, 31; ac wedi llawer o ymdrafod, fe benderfynwyd,—"Fod i Ddirprwywyr o Siroedd y Dê a'r Gogledd, gael eu dewis yn y Cymdeithasfäoedd Chwarterol nesaf, i ystyried a allwn ni, fel Corph trwy y dywysogaeth, a threfydd Lloegr, ymffurfio a chyd-weithredu yn Gymdeithas Genhadol Dramor, a bod i'r Dirprwywyr hyn ymgynnull mewn rhyw le cyfleus, ryw adeg o'r pryd hwn i'r Nadolig." Eithr ni ddygwyd hyny oddiamgylch y

pryd hwnw. Fe benderfynwyd gan y Gogledd, yn Nghymdeithasfa Dolgelleu, Hydref 21, 22, 1840,—y Gymdeithasfa ddiweddaf y bu Mr. Elias ynddi,—fod Casgliad Cenhadol i'w wneuthur yn mhob lle, yn egnïol; a'i fod i gael ei wneuthur naill ai i'r Gymdeithas Gymreig, neu i Gymdeithas Llundain, yn ol dewisiad y gwahanol leoedd. Penderfynwyd hefyd fod Cyfarfod Neillduol i'w gynnal yn Ninbych, Ionawr 4, 5, 1841, i geisio dyfod i benderfyniad gydâ golwg ar yr Achos Cenhadol, a bod y Siroedd, yn eu Cyfarfodydd Misol, i ddewis eu cynnrychiolwyr i'r Cyfarfod hwnw. Ymgynnullodd y brodyr, yn Ninbych, ar yr amser a nodasid; a phenderfynasant, â chymmeryd pob peth i ystyriaeth, mai y peth goreu oedd i ni ffurfio Cymdeithas Genhadol i ni ein hunain; fod rhyw le pennodol i fod yn gartrefle iddi; a bod yr amrywiol Gyfarfodydd Misol i ddewis personau o'u plith eu hunain, i gyd-weithredu âg aelodau y Cyfeisteddfod Lleol hwnw, yn mha le bynnag y byddai. Cymmeradwywyd y penderfyniadau hyn yn Nghymdeithasfa Abergele, Ionawr 7, 8, y dyddiau canlynol i'r Cyfarfod yn Ninbych; a phenderfynwyd anfon llythyr, gydâ dau frawd yn Genhadwyr, i Gymdeithasfa Castellnedd, Mawrth 31 ac Ebrill 1, 1841, i ofyn eu cyd-weithrediad yn y Deheudir â'r anturiaeth. Nodwyd y brodyr Mr. Moses Parry, Dinbych, a Mr. Richard Williams, Liverpool, i fyned yno fel Cenhadon dros y Gogledd. Er nad oedd Mr. Rees yn Abergele, nac yn y cyfarfod y dyddiau blaenorol yn Ninbych, eto fe welir na wnaed yn Abergele, er fod Mr. Richard Williams yn Gadeirydd yno, ond yr hyn oedd yn cyfateb agos yn hollol i'r hyn a gynnygiasid gan Mr. Rees yn Llanfair, a'r hyn a allasai fod wedi ei wneuthur rai misoedd cyn hyny, pe cymmerasid ei gynllun ef. Y mae yn ddrwg genym ddywedyd mai derbyniad oeraidd iawn a gafodd yr achos yn Nghastellnedd. Ni chymmerodd y brodyr yno un sylw neillduol o hono, heblaw ei gyflwyno i'r Gymmanfa Gorphoredig oedd i'w chynnal yn Aberystwyth y mis Awst canlynol. Yn Aberystwyth, lle yr oedd cynnrychiolwyr o Ddê a Gogledd yn bresennol, fe gytunwyd ein bod i fyned rhagom fel Cyfundeb

gydâ'n gilydd gydâ'r gwaith Cenhadol; ac fe gadarnhäwyd y penderfyniad hwnw yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, yn Nghymdeithasfa y Dê yn Llangeitho. Ond nid oedd Siroedd y Deheudir, oddieithr Sir Aberteifi, er y penderfyniadau yn Aberystwyth a Llangeitho, yn ymddangos yn tueddu i ddyfod allan i gynnorthwyo y Gymdeithas trwy Gasgliadau, ac yr oedd hyny yn peri gradd o bryder yn meddyliau brodyr y Gogledd. Yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug yn nechreu Mawrth, 1842, fe erfyniwyd ar Mr. Rees a Mr. Roberts, Amlwch, ymweled â'r cyfeillion yn y Deheu, yn eu Cymdeithasfa yn Llandeilo, i ddeisyf arnynt ddyfod allan yn gryf gydâ'r Gogledd gydâ'r Gymdeithas Genhadol oedd newydd ei chychwyn. Cawsant yno y derbyniad mwyaf croesawgar; a sicrhâd y gallent ddysgwyl yn fuan y byddai pob rhwystr wedi ei symmud, ac y caent hwy i gydweithredu yn galonog â hwynt. Erbyn Cymdeithasfa y Bala, 1843, yr oedd yr undeb wedi ei orphen yn hollol; ac er y pryd hwnw y mae y Gymdeithas, yn mhob modd, yn eiddo i'r holl Gyfundeb. Yr ydym wedi myned i'r manylion uchod gydâ golwg ar sefydliad ein Cymdeithas Genhadol, er mwyn dangos y modd y gweithredai Mr. Rees ar yr achlysur, ac er rhoddi cyfrif am, ac egluro rhai cyfeiriadau, a gawn, fel yr awn rhagom, mewn ambell lythyr o'i eiddo.

Yr oedd efe oddicartref yn Llundain, ar adeg y cyfarfod brwdfrydig a gynnaliwyd yn Nghapel Rose Place, Tachwedd 4, 1840, i ganu yn iach i Mr. Thomas Jones, cyn iddo ymadael am India. Ar un olwg yr oedd yn dda ganddo hyny; gan ei fod yn teimlo nas gallasai ei gyfarch yn hollol fel y buasai yn dymuno ar y fath adeg: ac eto yr oedd yn gobeithio y tröai pethau allan yn well nag yr oedd efe yn ofni, ac yn ceisio gweddïo am hyny. Yn wir, yr oedd efe,—fel ei gyfaill a'i gydweinidog, Mr. Hughes,—o'r flwyddyn gyntaf y sefydlwyd y Gymdeithas, yn cyfranu at ei chynnorthwyo; ac wedi iddi dderbyn cymmeradwyaeth y Gymdeithasfa, yn Abergele, buant eu dau, tra y cawsant fyw, yn brif gynghorwyr ei Chyfeisteddfod; yn cymmeryd y dyddordeb mwyaf yn ei gweithrediadau;

ac mewn rhai amgylchiadau tra phoenus, yn cael eu galluogi i arddangos y fath onestrwydd a ffyddlondeb, ac ar yr un pryd, y fath ddoethineb a thynerwch, ag a osodent werth anmhrisiadwy ar eu gwasanaeth. Mae dyled ein Cyfundeb i Mr. Rees yn enwedig, am y gwaith a wnaed ganddo yn ei berthynas â'n Cymdeithas Genhadol y fath, fel nad oes bosibl ond i ychydig iawn allu ymdeimlo yn briodol a'n rhwymedigaeth iddo am dano: oblegyd gwaith Cyfeisteddfod ydoedd; gwaith mewn congl, ac allan o olwg y byd; gwaith ag yr oedd efe yn ei ddilyn yn gyson, er mwyn cadw ei feddwl yn gydnabyddus âg ef; gwaith â llawer o anhawsderau yn fynych mewn cysylltiad âg ef, oblegyd bod maes y llafur mor bell, ac yn enwedig pan y dygwyddai i'r Cenhadon fod yn amrywio yn eu golygiadau a'u hadroddiadau; a gwaith a gyflawnwyd ganddo ef yn ffyddlawn ac yn gydwybodol am dros wyth mlynedd ar hugain, a hyny heb gael, hyd ag yr ydym ni yn gwybod, cymmaint a hatling erioed gan neb yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth. Ac y mae yn ddrwg genym orfod ychwanegu am y Cenhadwr, ag y teimlid cymmaint drosto ar sefydliad cyntaf y Gymdeithas, mai cryn flinder a gafwyd cyn hir oddiwrtho; ac ar ol hir oddef, y bu raid, yn mhen ychydig gydâ phum' mlynedd wedi iddo gyrhaedd India, tori yn gwbl ei gysylltiad â hi; ac yn lled fuan ar ol hyny, fe dderbyniwyd y newydd pruddaidd am ei farwolaeth. Eithr er ei holl wendidau, fe wnaeth lawer o waith, a gwaith da, yn ddiammeu, yn Kassia. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am dori y garw ar y Bryniau tywyll hyny. Efe oedd yr hwn a anrhydeddwyd i fod yn offeryn cyntaf i ddwyn iaith y trueiniaid isel ac anwaraidd yno i ffurf ysgrifenedig, ac i gyfieithu Efengyl Matthew o leiaf iddi. Ac er y rhaid i ni addef fod y Gymdeithas yn sicr wedi ei chychwyn yn rhy fyrbwyll, ac nid, fe ddichon, ar du pawb yn y teimladau mwyaf dymunol; ac iddi gyfarfod, fel pob Cymdeithas arall, â llawer o siomedigaethau, a rhai o honynt yn dra gofidus; eto yr ydym wedi cael profion boddlonol lawer, ac yn parhau i'w cael, ei bod, mewn modd arbenig, wedi bod dan nawdd a bendith yr

Anfeidrol; ac âg ystyried càn lleied o amser sydd er pan ei sefydlwyd, nifer bychan ei Chenhadon, a chylch cyfyng maes ei llafur, ei bod wedi ei hanrhydeddu, fe ddichon, â chymmaint llwyddiant ag un Gymdeithas Genhadol yn yr holl fyd.

Megis ag y crybwyllasom eisoes, yr oedd Mr. Rees yn Nghymdeithasfa Chwarterol Dinbych, Mehefin 11, 12, 1840, lle y pregethodd gydâg eneinniad annghyffredin, am ddau ar y gloch, ar ol Mr. Edwards o'r Bala, a Mr. Sherman o Lundain. Dyma y tro cyntaf i Gymdeithasfa Mehefin adael y Bala; ac er iddi ddychwel yno drachefn am ychydig flynyddoedd, eto, er tristwch i laweroedd o Fethodistiaid twym-galon, yr oedd y bwlch wedi ei wneyd; ac, yn raddol, fe'i symmudwyd oddiyno yn hollol, oddieithr ar ei thro, fel i ryw le arall yn yr amrywiol Siroedd ag y trefner hi i fyned iddynt. Yr ydoedd hefyd yn y Gymmanfa Gorphoredig rhwng Deheu a Gogledd, a gynhaliwyd yn Llanidloes, Gorph. 28—31, at yr hon y cyfeiriasom eisoes, lle y pregethodd ddwywaith; ac yn nghynnadleddau yr hon yr oedd efe yn cymmeryd rhan arbenig.

Yn y Drysorfa am Gorphenaf, 1840, tudal. 212—214, yr ydym yn cael ysgrif fechan o'i eiddo, yn cynnwys Adolygiad ar lyfryn bychan a gyhoeddasid gan y Parch. John Hughes, Pontrobert, fel Cofiant am y Parchedigion William Jones, Dol-y-fonddu, ac Evan Griffiths, Meifod. Yr oedd Mr. Rees, yn yr Adolygiad hwn, yn cael cyfleusdra i dalu gwarogaeth i goffadwriaeth hen frodyr ag oeddent anwyl iawn ganddo, ac y buasai am flynyddoedd yn cyd-lafurio o fewn cylch yr un Cyfarfod Misol â hwynt; ac ar yr un pryd yr oedd yn gallu gwneuthur ychydig gymmwynas i hen frawd ag yr oedd bob amser yn coleddu meddyliau uchel am dano, ac a berchid yn neillduol ganddo, oblegyd ei lafur ei hunan gydâ'r efengyl, a'i ymdrech i gadw coffadwriaeth hen frodyr ereill rhag myned yn gwbl ar ddifancoll. Os bydd ein terfynau yn caniatau, ni a ddodwn yr Adolygiad hwn i mewn yn ein hattodiad.

Erbyn y Sabbeth, Hydref 18, y flwyddyn hon, efe a aeth i fynu i Lundain, i wasanaethu yr Achos Cymreig yno, lle y bu

hyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn; a mawr werthfawrogid ei weinidogaeth yno y pryd hwn, fel yn ei holl ymweliadau â'r brif-ddinas, gan y frawdoliaeth yn gyffredinol. Wedi iddo fod yno am rai wythnosau, ac yn lletya, yn ol y drefn gyffredin y pryd hyny, yn nhŷ y Capel, ac yn teimlo yn dra hiraethlawn am ei wraig a'i blentyn, fe ddarfu i'r diweddar Mr. Griffith Davies, oedd yn byw y pryd hyny yn Palmer Terrace, Holloway, ei gymhell yn daer, i'w hannog hwy i ddyfod i fynu ar ei ol, ac iddynt hwy ac yntau wneyd eu cartref yn ei dŷ ef, hyd nes y byddai tymhor ei wasanaeth yn Llundain ar ben. Yr oedd Mr. Rees wedi ysgrifenu at ei briod, yn ei hannog i dderbyn y gwahoddiad a dyfod i fynu ato, ac yn rhoddi amryw gyfarwyddiadau a gocheliadau iddi gydâ golwg ar y daith,—ond heb *bostio* y llythyr,—pan y derbyniodd y newydd annisgwyliadwy oddiwrth Mrs. Rees, yn ei hysbysu fod ei mham wedi marw. Ac felly, gydâ'r hyn a ysgrifenasai eisoes, efe a ysgrifenodd lythyr arall fel y canlyn:—

"November 16, 1840.

"Your note came this moment informing me of the death of "your dear mother. Well, I have nothing to say. May the Lord "in his great goodness bless this event to us all. I hope that "the trust of her soul was upon Christ, and that she has been "eternally delivered by Him. Then there is nothing to be "lamented in the circumstance; better, much better, to be with "Him, than to be toiling much longer in the world, mewn "nychdod a gwendid. If we ought not to rejoice, we ought "certainly not to weep, as those without hope. But submission, "devotion, patience, silence, prayer, and much exertion with our "own obstinate spirits to get them into a frame corresponding "with the present dispensation of Divine Providence, is our "duty. Fel na b'o i ni ar y naill law ddirmygu cerydd yr "Arglwydd, nac ar y llall ymollwng tan ei law. Go to Him, my "dear Mary; thank Him for all his goodness to your mother; "resign her thankfully to his hand. If the circumstances bring "any sinful frame to your recollection at any time, go to Him;

"confess, weep, repent, never yield until you get some proof of "forgiveness. If you think the intelligence has not produced "the effect it ought in your spirit, wrestle with it, speak no "peace to it, until you get thoroughly into a right frame. Oh! "make heartwork of it; never yield to its obstinacy. I shall "help by my poor prayers.

"Whether this will stop you from coming here, I do not know. "I certainly prayed that the Lord in His providence might "prevent your coming, if it were His will for you to remain at "home. Whether His will is made known by this, I am not yet "sure; in some respects, a little change is still more needful. "Consult prudence, consult circumstances, consult feelings, "consult a few judicious friends; but depend on none of them, "but consult, above all, the throne of grace. Our Lord can enter "into your very feelings and spirit, and turn them either against "coming or otherwise, and that with a kind of calmness, sub- "mission, quietude, left upon your mind as will enable you to say, "'I think this or that is the will of the Lord in the matter.'"

Mewn llythyr arall a ysgrifenodd at ei anwyl wraig o Lundain y pryd hwn, ryw bythefnos yn ddiweddarach na'r un blaenorol, ni a'i cawn yn cwyno yn drwm gan lygredigaeth ei galon, ac yn dyheu am burdeb:

"London, November 30th.

"I have nothing particular to communicate. To write on "religious subjects in a dead lukewarm frame, is unworthy of "their greatness and goodness. Such a Saviour as Jesus Christ "deserves the first-fruit of our affections. Why is my pen "obliged to stop so often without anything to write about Him? "Alas! my heart is not in that blessed frame described by the "Psalmist, Psalm xlv. 1., 'boiling up a good matter.' Oh that "the things of Jesus Christ were a 'good matter' to our "affections, until they become heavenly by being filled with "heavenly things. Everything has a deadening influence on my "affections. Longing for home will deaden them. Indisposition "of body—a good meal—and especially, the mind cleaving for a

"short time to any forbidden object, will so corrupt them, that "they have no taste for spiritual things, and feel no delight in "Jesus Christ. How inexhaustible is the corruption of nature! "What vain foolish things issue out of it, and how endlessly! I "know my heart could continue its wanderings from God to all "eternity if left alone. I do not know whether there is a new "principle implanted in it or not, to counteract all this evil; but "there is something that grieves over it, that groans under it, "that is dissatisfied with it, and pants to be free."

Tra yn Llundain y tro hwn, fe anfonodd y llythyr canlynol at ei gyfaill ffyddlawn, y Parch. William Roberts, Amlwch. Y mae yn resyn dirfawr na buasai yr holl lythyrau rhyngddynt hwy a'u gilydd ar gael. Ni bu odid ddau erioed mwy hoff o'u gilydd na mwy rhydd ar eu gilydd, ac ar yr un pryd yn teimlo y parch mwyaf y naill i'r llall:—

"Llundain, Tachwedd 25, 1840.

"ANWYL GYFAILL,—Dymunech lythyr oddiwrthyf yn ystod "yr amser yr aroswn yn Llundain. Ac os boddlonwch ar un "cyffredin, heb gymmeryd dim llafur i chwilio am fater, nac am "eiriau, ond rhai nesaf i law, mi a'ch anrhegaf ag un felly y "boreu hwn. Yr ydwyf yn rhy ddiffygiol o gorph a meddwl i "gymmeryd dim llafur.

"Mae pob peth yn heddychol yn Jewin Crescent yn bresennol; "ond yr ydwyf yn meddwl fod effeithiau yr annghydfod a fu "yn parhau eto mewn oerfelgarwch a diffyg cariad brawdol. "Mae dirwest hefyd yn parhau yn isel. . . . . . Byddaf weith-"iau yn teimlo yn ddigofus iawn at ddynion o'r fath yma; mae "yn anhawdd peidio meddwl nad ydynt dan lywodraeth blysiau "anifeilaidd. Beth sydd yn gosod mwy o sarhâd ar ddyn na'i "weled yn sefyll mor gadarn dros ei fòl â thros ei ffydd, ac yn "gwneyd y fath bwnc â pha beth a fwyty ac a ŷf yn gymmaint "iddo, fel pe na wyddai mwy na'r mochyn am bleserau uwch na "llowcio, gwancio, a thraflyncu. Y mae dynion o feddyliau "athrylithgar a theimladau coeth, meddant hwy, yn ei brofi yn

"fath o ddiraddiad arnynt orfod cyflawni ac ateb i alwadau "angenrheidiau natur, ac yn teimlo fod yn rhaid iddynt wrth "râs i ymostwng i ewyllys eu Creawdwr, mewn bwyta, yfed, "cysgu, a'r cyffelyb, o herwydd eu bod yn bethau gymmaint "îslaw eu hurddas fel perchenogion meddyliau, ac felly yn "alluog i bleserau annhraethol uwch eu natur. Mae yn resyn, "ynte, i Gristion, yr hwn yn unig a ŵyr am brif bleserau "meddwl, fod mor gaeth i'w flŷs a'i foethau â phe na wyddai "am fwyniant uwch.

"Ond, wedi'r cwbl, wrth ystyried mor gyffredin ac mor hir y "bu y pethau meddwol mewn ymarferiad, ac mor swynol yw eu "heffeithiau ar y cyfansoddiad dynol, a chyhyd y buom oll yn "priodoli yr holl ddrwg i'r camarferion a'r gormodedd, nid "rhyfedd ydyw fod aml un yn anhawdd eu hargyhoeddi; ac nid "oes dim yn well, mae yn debyg, nag arfer pwyll, tynerwch, ac "arafwch, ac eto ymroddiad di-ildio, i'w hennill a'u dychwelyd. "Pe deuai Mr. Elias yma, y mae yn lled debyg y byddai y "cysgod sydd uwch ben llawer wedi colli, a grym y gwrth-"wynebiad i Ddirwest wedi darfod. Ychydig a fum i yn "ymddyddan yn bersonol â neb o'r gwrthddirwestwyr; ond yr "ydym yn cadw cyfarfodydd dirwestol yn fynych, ac yn "cymhell at y gymdeithas yn y cyfarfodydd eglwysig; ac y "mae y pethau meddwol, hyd ag y gwelais i, yn cael eu cau "allan o dŷ y Capel.

"Mae yn debyg mai ildio yr ydych i'r Methodistiaid ffurfio "Cymdeithas Genhadol iddynt eu hunain. Wele gobeithiaf y "daw hyny yn mlaen yn well nag ofnau rhyw greadur llwfr "fel myfi.

"Mae arnaf ofn Cyfarfod Swydd Fflint. Ofni yr ydwyf nad "etyb unrhyw ddyben. Prin yr wyf yn meddwl y medrir cael "gafael ar neb yno fel cyfeiliornwyr, er nad wyf yn ammeu dim "nad oes rhyw gymmysgedd golygiadau yn bod. Ond y mae "yno hefyd ddwy-blaid yn byw mewn rhagfarn ac anghariad "at eu gilydd; ac yr wyf yn meddwl y byddai yn ddoeth mynu "gwybodaeth beth yw achos eu cwerylon, a diarddel y rhai

"sydd yn byw mewn rhagfarn a gelyniaeth at eu gilydd, o'r "ddwy blaid. Ond pwy a all wneyd hyny?

"Yr ydwyf yn anfon yr ysgribl hon yn unig er mwyn "cyfeillach . . . . . Byddaf yma ddau neu dri Sabboth yn hwy.

"Yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

Y mae yr adroddiad a roddwyd genym eisoes am sefydliad ein Cenhadaeth Dramor, yn esbonio y cyfeiriad ati, a gawn yn y llythyr blaenorol. Y mae yn ddiammeu mai yn y rhag-olwg ar y cyfarfod a bennodasid i fod yn Ninbych, yn nechreu y flwyddyn ganlynol, y crybwyllasom am dano eisoes, yn yr hwn yr oedd y mater i'w gymmeryd dan ystyriaeth cynnrychiolwyr o'r holl Gyfarfodydd Misol o fewn cylch Cymdeithasfa y Gogledd, yr oedd Mr. Rees, pan yn ysgrifenu, mewn cryn bryder; ac yn datgan ei ofnau i'w gyfaill, y gwyddai oedd yn teimlo yn gyffelyb iddo ei hunan.

Am "Gyfarfod Swydd Fflint," a nodir yn y llythyr, yr ydym wedi rhoddi adroddiad mor helaeth ac mor gywir, hyd ag y gallasem ni, yn "*Nghofiant y Parchedig John Jones, Talsarn*," fel nad ydym yn teimlo fod angenrheidrwydd am i ni ei ail adrodd yma; ac felly, gan gyfeirio y darllenydd a ewyllysio gael y manylion am dano at y gwaith hwnw (tudal. 260, 261; 562—564; 593—604; 610—612), ni a foddlonwn ar roddi crynöad byr o'r hanes yma, gan ddefnyddio, gan mwyaf ein geiriau ein hunain ynddo, a gwneuthur, yn achlysurol, ychydig o ychwanegiadau adgyflenwol. Yr oedd, er ys blynyddoedd lawer, "ddwy-blaid" fel y dywed Mr. Rees yn ei lythyr, yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a'r naill blaid yn cyhuddo personau a gyfrifid yn perthyn i'r blaid arall, o'u bod yn cofleidio ac yn dysgu syniadau croes i eiddo y Cyfundeb yn gyffredin, ar bynciau mawrion yr Iawn, a'r Prynedigaeth, a Gwaith yr Ysbryd; ac yn peri blinder mawr i'r eglwysi o herwydd hyny. Yr oeddent hwythau, a gyhuddid felly, yn dywedyd nad oeddent hwy yn credu, nac yn dysgu dim gwahanol i'w brodyr trwy yr holl Siroedd, na dim oedd yn wahanol i'r hyn oedd wedi bod yn

ddysgeidiaeth gyffredin y Cyfundeb o'i ddechreuad; na dim gwahanol, hyd yn nod i ddysgeidiaeth eu brodyr yn eu Sir eu hunain, a'u cyhuddent hwynt, oddieithr rhyw rai o honynt ag a allent fod yn myned i eithafion Uchel-Galviniaeth; ac nad oedd y cyhuddiad gydâ golwg ar yr Athrawiaeth, ond esgus dros eu hymgais hwy i gadw yr awdurdod yn eu dwylaw eu hunain; yr hyn, oblegyd dylanwad mwy y brodyr a gyhuddid, trwy yr holl Sir, yr oeddent hwy yn gweled oedd yn myned yn brysur o'u gafael. Yr oedd y blaid a'i gosodai ei hunan allan fel yn gofalu yn arbenig am burdeb y ffydd, yn cwyno yn wastadol oblegyd ymadawiad y lleill oddiwrthi, ac yn sicr yn taenu chwedlau yn eu cylch, ac yn ysgrifenu llythyrau a dueddent, os nad oeddent yn uniongyrchol wedi eu bwriadu, i wenwyno meddyliau y gwŷr blaenaf yn y Cyfundeb gydâ golwg arnynt. Yr oedd Mr. Elias, yn enwedig, yn cael ei flino felly. Yr oedd un, nad ydym yn gofalu am ei enwi, ag y mae lle i ofni oedd yn cymmeryd y rhan benaf fel achosydd dirgel y cyhuddiadau hyn, yn flaenorol i bob Cymdeithasfa yn ceisio cael gafael arno ef, ac mewn tôn gŵynfanus yn adrodd iddo y blinder yr oeddent hwy ynddo yn Sir Fflint, o herwydd y gŵyrni pendant oddiwrth y gwirionedd ag oedd yn nodweddu dysgeidiaeth rhai yn eu plith, weithiau o'r pulpudau, ond yn amlach yn nhai y capelydd, ac eto yn y fath ddull cywrain a gochelgar fel ag yr oedd yn anmhosibl iddynt hwy gael gafael arnynt. Byddai hyny yn fynych yn effeithio ar feddwl Mr. Elias nes peri iddo weithiau, siarad, er heb eu henwi, eto yn amlwg yn y fath fodd ag y deallid fod y cyfeiriad at y brodyr parchedicaf a mwyaf dylanwadol yn y Sir, mewn tôn ag oedd yn hollol annheilwng, fel rhai yn ddirgel yn dwyn i mewn heresiau dinystriol i'r Cyfundeb; ac felly yn archolli meddyliau rhai ag oeddent o'r galon yn caru y gwirionedd; ac uwchlaw pob peth yn dymuno heddwch. Yr oedd awgrymiadau o'r fath, unwaith ac eilwaith a thrachefn, yn peri anesmwythder mawr, ac yn cael eu teimlo gan laweroedd yn anoddefadwy. Tua'r amser yr ydym yn awr wedi dyfod ato, yr oedd rhyw amgylchiadau yn peri fod y rhai a

berthynent i'r blaid a hònai y fath eiddigedd dros y ffydd yn teimlo fod yn llawn bryd iddynt wneuthur rhywbeth effeithiol er sicrhau eu hawdurdod, ac onide y gallent ei cholli am byth. Yr oeddent yn gweled fod y diweddar Mr. Hughes, yr hwn a ystyrid o'r blaid arall, wedi symmud i Liverpool, a Mr. Roberts y Rhos yn unig, yn mhlith y gweinidogion, oedd wedi ei adael, mewn gradd o oedran, ar yr un ochr ag ef. Eithr yr oeddent yn gweled hefyd fod y diweddar Mr. William Morris (Rhuddlan wedi hyny), Mr. John Phillips (Treffynnon y pryd hwnw), a Mr. Roger Edwards, Wyddgrug, gydâ'u doniau dysglaer a phoblogaidd, yn ennill dylanwad dirfawr yn y wlad, ac, os gadewid iddynt, y byddent yn fuan wedi myned â'r llywodraeth yn gwbl oddiwrthynt hwy. Heblaw hyny, yr oedd cryn nifer o'r blaenoriaid mwyaf dylanwadol o fewn cylch y Cyfarfod Misol, megis Mr. Thomas Evans, Maes-y-coed, Mr. Ebenezer Cooper, Llangollen, ac ereill, yn gryfion ar yr un ochr, fel, ac ystyried pob peth, yr oeddent yn teimlo nad oedd dim amser i'w golli cyn ceisio dwyn y mater i benderfyniad. Yn ganlynol i ryw siarad a fu yn Nghymdeithasfa Dinbych,—lle y cyhuddid, yn gwbl ddisail, un o'r brodyr a enwyd uchod o fod yn gwadu yr angenrheidrwydd am Waith yr Yspryd er cyfnewid calon pechadur,—cymmerasant fantais i ysgrifenu at Mr. Elias, i'w annog i fynu cael cyfarfod i wneuthur ymchwiliad i'r cyhuddiadau yr oeddent hwy yn barod i'w dwyn ac i'w profi, yn erbyn rhai o'r brodyr oeddent yn eu plith; fel y gellid penderfynu yr achos, ac y caffent hwy lonyddwch. Nid oedd Mr. Elias yn alluog i fyned i'r Gymmanfa Gorphoredig yn Llanidloes, eithr fe ysgrifenodd lythyr yno yn galw sylw y brodyr oeddent yno yn gynnulledig at yr ymrysonau a ffynent yn Sir Fflint, y rhai y dywedid eu bod yn tarddu oddiar syniadau gwahanol yn mhlith y brodyr yno yn nghylch athrawiaeth yr efengyl, a bod rhyw rai o Siroedd ereill yn cydymdeimlo â os nad yn blaid i'r rhai oeddent yno yn cael eu hammeu o fod yn gwyro oddiwrth y gwirionedd; ac yn awgrymu y byddai yn ddymunol cael cyfarfod i chwilio i mewn i'r achos. Wedi cryn lawer o siarad,

fe farnodd y Gymmanfa mai y peth goreu fyddai i frodyr, o'r gwahanol Gyfarfodydd Misol, gael eu pennodi i gynnal cyfarfod neillduol yn Sir Fflint, er gwneyd ymchwiliad manwl, yn ol awgrymiad Mr. Elias, i'r ymrysonau oeddent yn rhy amlwg yno, ac er gweled a oeddent, ai nid oeddent, yn cyfodi oddiar gyfeiliornadau mewn athrawiaeth, fel yr hònai un ochr, ai ynte oddiar ysbryd ymbleidio, ac awydd am awdurdod, fel yr hònai yr ochr arall. Yn Nghymdeithasfa Pwllheli, yr hon a gynhaliwyd Medi 9—12, 1840, a lle yr oedd Mr. Elias yn bresennol, fe gadarnhâwyd yr hyn a gynnygid yn Llanidloes, a threfnwyd i'r cyfarfod ymchwiliadol gael ei gynnal mewn cysylltiad â Chyfarfod Misol yn Sir Fflint y pennodid arno ganddynt hwy eu hunain, gydâg annogaeth i'r holl frawdoliaeth yno, hyd y gallai, fod yn bresennol; a bod i'r Cyfarfodydd Misol perthynol i'r Siroedd ereill, bob un bennodi dau o'u plith eu hunain, a Liverpool un, i'w hanfon fel dirprwywyr drostynt i'r cyfarfod hwnw; a bod yr holl enwau i'w dwyn i Gymdeithasfa Abergele. Felly, yn Nghymdeithasfa Abergele, fe hysbyswyd enwau y brodyr a bennodasid, fel y canlyn:—Sir Fôn: Mr. John Elias a Mr. Cadwaladr Williams; Sir Gaernarfon: Mr. John Jones, Tremadoc, a Mr. John Jones, Talsarn; Sir Feirionydd: Mr. Robert Griffith Dolgelleu, a Mr. Richard Humphreys, Dyffryn; Sir Drefaldwyn: Mr. John Hughes, Pontrobert, a Mr. Foulk Evans, Machynlleth; Sir Ddinbych: Mr. Hugh Hughes, Llanrwst (Abergele wedi hyny), a Mr. John Davies, y Groes; Liverpool: Mr. Henry Rees. A chan y golygid y byddai yn ddymunol, er mwyn meithriniad undeb a chariad, i frodyr dylanwadol o Ddeheubarth Cymru gymmeryd rhan yn y fath ymchwiliad, enwyd yn Abergele y brodyr Mr. Thomas Richard, Abergwaen, a Mr. William Morris, Ty Ddewi, fel rhai y dymunid yn fawr cael eu cymhorth ar yr achlysur.

Fe gynhaliwyd y Cyfarfod yn y Wyddgrug, yn nglŷn â Chyfarfod Misol y Sir, Mawrth 9, 10, 11, 1841. Yr oedd y ddau weinidog parchedig a enwasid o'r Deheudir, wedi anfon nas gallasent hwy, mewn un modd, ymgymmeryd â'r cais a anfon-

asid atynt; ac, yn y cyfamser, yr oedd Mr. Elias wedi ei gymmeryd yn glaf, o'r afiechyd y bu farw o hono, ac yn hollol analluog i fod yn bresennol. Darfu i Gyfarfod Misol Môn bennodi Mr. Roberts, Amlwch, i fyned yn ei le; ond efe a omeddodd yn bendant fyned. Nis gallasai Mr. Hughes, Llanrwst, ychwaith fyned; ond fe aeth Mr. Moses Parry, Dinbych, yn ei le ef. Fe aeth yr holl frodyr ereill a enwasid yn ol eu pennodiad. Gan fod Mr. Elias yn gweled y byddai ei hunan yn analluog i fyned yno, ac yn adwaen Mr. Roberts, Amlwch, yn rhy dda i obeithio y byddai iddo ef fyned yno yn ei le ef, ac yn llawn pryder yn nghylch y cyfarfod, fe anfonodd, ychydig amser cyn iddo gymmeryd lle, y llythyr canlynol at Mr. Rees:—

"BARCHEDIG AC ANWYL FRAWD,—Ni welais, ni chlywais "chwi, ac ni chlywais oddiwrthych, er ys amser maith. Y mae "arnaf hiraeth am eich gweled.

"Y mae fy Arglwydd tirion wedi gweled yn oreu, yn ddiau i "ryw ddiben doeth a da, fy rhoddi megis mewn carchar, er yn "fuan wedi'r Nadolig, fel nad allaf gymmaint a myned i'r Capel, "gan boen lled fawr yn fy nhroed. Mae fy natur yn gwaelu— "fy nghorph yn curio; ac anhawdd iawn i mi ysgrifenu, gan fel "y mae'r llaw yn crynu. Y mae y meddygon yn methu deall "yr anhwyldeb na'i symmud. Diau mai hyn sydd oreu. Byddaf "yn meddwl, weithiau, mai angau yw.

"Nid wyf yn teimlo rhyw ddychryn a braw wrth feddwl am "farw. Ond nid wyf yn gweled i mi wneyd nemawr o les yn y "byd. Bu'm yn was anfuddiol iawn, ac y mae hyny yn ofid i "mi; ond nid wyf yn ofni cael fy mwrw i'r tywyllwch eithaf.

'Ar faddeuant 'r wyf yn byw.'

"Gwn, tybygaf, i bwy y credais.

"Y mae yr agweddau ar y gwaith yn ein plith mewn llawer "o bethau yn fy mhoeni: meddwl gadael y maes a'r Corph "mewn mwy o berygl i gael ei chwalu a'i ddryllio na phan y "daethum ato!

"Yr oeddynt wedi fy enwi i fyned i Sir Fflint. Y mae yn

"amlwg yn awr na fŷn yr Arglwydd i mi fyned yno. Mae yr "achos hwnw lawer ar fy meddyliau. Dylai rhywbeth gael ei "wneyd na wnaed eto. Amlwg yw fod yno rai 'sydd yn peri "annghydfod a rhwystrau.' A 'graffwyd' arnynt? A ym-"ddygwyd yn ol y rheol atynt? Yr wyf yn hyderu yr "ymdrechwch chwi i fyned yno, er mwyn gwirionedd ac achos "Duw. Dylai y cenadau o'r Siroedd gael cyfarfod eu hunain "yn gyntaf, er mwyn penderfynu y llwybr i fyned yn mlaen, "rhag y bydd gan un ryw gynllun, a chan arall un arall, ac "felly dyrysu y gwaith. Nid yw y cenadau yn myned yno i "ddadleu â neb, ond i ymofyn a oes rhyw rai yn cael eu cyhuddo "o'u bod yn y pulpudau, neu yn y conglau, yn dywedyd yn "erbyn rhyw erthygl yn y *Cyffes Ffydd*, neu yn darnguddio "rhai o ganghenau athrawiaeth gras yn eu holl bregethau. Os "dywedir fod, yna gofyner am dystiolaethau i brofi hyny. Yna "cynnygier i'r cyhuddedig ei amddiffyn ei hun, os gall, yn wyneb "y tystiolaethau. Ac yna bydd i'r cenadau farnu pa un ai y "cyhuddedig ai y cyhuddwyr sydd dybycaf o fod yn gywir. A "gwna y cenadau ddwyn yr achos i'r Gymdeithasfa Chwarterol, "lle bydd y Corph yn fwyaf cryno. Dywedyd fy ngolygiadau "yr wyf. Gobeithio y dysgir chwi yno gan Dduw."

Yn ysbryd, ac yn wir agos yn ol llythyren yr awgrymiadau yna o eiddo Mr. Elias, y gweithredwyd yn y Wyddgrug. Dewiswyd Mr. Cadwaladr Williams, yn Llywydd y Gynnadledd, a chynhaliwyd amryw gyfarfodydd; ac fe gafodd pawb bob mantais i ddwyn yn mlaen ac i brofi pob cyhuddiad oedd ganddynt yn erbyn y brodyr, yr oedd y fath chwedlau wedi eu taenu yn eu cylch, ac oeddent o'u herwydd wedi cael eu drwgdybio trwy'r blynyddoedd. Eithr erbyn eu chwilio, ni chafwyd cymmaint ag un o honynt yn sefyll. Yr oedd pob cyhuddiad, erbyn edrych ychydig arno, yn ngwyneb y tystiolaethau a ddygid yn mlaen i'w brofi, yn troi yn rhywbeth tra gwahanol. Ac nid yn unig hyny, ond fe droes y rhai a gyhuddid y byrddau yn gwbl ar y rhai a'u cyhuddent; ac a ddygasant brofion pendant, yn y fan a'r lle, ac yn erbyn *rhai o*

*honynt o eneuau eu tystion hwy eu hunain*, o'u bod yn euog o enllibiau hollol, ac anwireddau amlwg a chwbl ddiesgus; yn gymmaint felly, fel yr oedd rhai o blith y dirprwywyr o'r Siroedd ereill, oeddent adnabyddus bob amser fel pleidwyr ffyddlawn iddynt, yn cywilyddio o'u plegyd. Ac y mae yn deg i ni ddywedyd, mai mawrfrydigrwydd y brodyr a gamliwiasid i'r fath raddau ac am gyhyd o amser, heb hoffi taro yn drymach, a gweithio eu buddugoliaeth i ddysgyblaeth ar frodyr oeddent eisoes wedi syrthio mor isel, yn unig a'u cadwodd rhag hyny. A dichon mai tosturi y buasai yn well iddynt hebddo oedd hwnw. Hwyrach, pe buasai y Gynnadledd yn dwyn adroddiad i'r Gymdeithasfa ganlynol i'r Drefnewydd, Ebrill 28, 29, 30, neu i Gymdeithasfa y Bala, gan ddatgan y penderfyniad y daethent iddo, a galw ar y Gymdeithasfa i weinyddu y cerydd a haeddasai rhai wedi eu profi yn euog o'r fath gam-gyhuddiadau, y buasai hyny yn cael ei fendithio er attal rhyw bethau blinion iawn a gymmerasant le ar ol hyny. Eithr ni wnaed dim o'r fath: yn unig fe hysbyswyd yn y Drefnewydd y modd y terfynasai yr ymchwiliad, a'r boddlonrwydd hollol a gafwyd nad oedd unrhyw sail i'r cyhuddiadau a ddygid yn erbyn rhai brodyr yn Sir Fflint eu bod yn cyfeiliorni o ran y ffydd, ac yn peri blinder i'r eglwysi. Ac y mae yn deg i ni ychwanegu mai ar ddymuniad y brodyr a gyhuddid yr ymattaliwyd rhag cynnyg dim arall. Yr oeddent hwy yn teimlo fod eu cyhuddwyr eisoes wedi cael digon o ddarostyngiad. Ac yr oeddent, yn wir, wedi cael eu codymu yn ddirfawr. Fe aeth yr achos mor amlwg a phenderfynol yn eu herbyn yn y Wyddgrug, nes synu pawb; a siomi yn hollol yr hen frodyr diniwed oeddent wedi myned yno, heb ddysgwyl dim amgen nag y byddai raid iddynt ddarparu ar gyfer bwrw un o leiaf o'r rhai a gyhuddid allan o'r Cyfundeb, ac at weinyddu rhyw gymmaint o gerydd ar ddau neu dri ereill. Yn annichellrwydd ei galon, fe ddywedodd Mr. John Jones, Tremadoc, yn gyhoeddus, yn niwedd un o'r cyfarfodydd:—"Dyma hi: yr wyf fi wedi cael fy siomi; y mae fy nghyfeillion wedi fy nhwyllo i yn gwbl; y rhai oeddwn i yn

dybied oreu ydyw y rhai mwyaf beius o ddigon; a'r rhai, yn wir, oeddwn i yn gredu oedd waethaf, sydd wedi troi allan yn oreu o ddigon. Y rhai yr oeddwn i yn ofni eu gweled i lawr, dyma nhw wedi dyfod i fynu; a'r rhai yr oeddwn i yn dysgwyl eu cael i fynu, dyma nhw wedi myned i lawr."

Yr oedd Mr. Rees yn cymmeryd rhan flaenllaw iawn yn y Gynnadledd hon, ac yr oedd ei holl ymddygiad ynddi yn ennill iddo gymmeradwyaeth cyffredinol. Arddangosid ganddo nid yn unig raddau helaeth o'r cywirdeb dihoced ag oedd mor amlwg yn hynodi ei holl gymeriad, ond mesur annghyffredin o'r doethineb Cristionogol, angenrheidiol er cymhwyso un i ymdrin âg achosion mor ddyrys a phoenus â'r rhai oeddent yn awr ger eu bron. Yr oedd efe, bob amser, yn adnabyddus fel un ag oedd yn cyd-fyned â Mr. Elias, ac â'r hen frodyr ereill, yn eu golygiadau ar wirioneddau yr efengyl, ac yn eu pryder oblegyd y gogwydd, fel y tybient hwy, oedd mewn amryw i ŵyro oddiwrthynt. Yr oedd y cyhuddwyr, gan hyny, yn hyderus y caent ynddo ef amddiffynwr ffyddlawn; ac nid oedd y rhai a gyhuddid yn gwbl ddibryder na byddai iddynt hwythau yn wrthwynebwr galluog. Ond efe a siomodd yn hollol y naill a'r llall. Ymryddhäodd yn gwbl oddiwrth bob teimlad pleidiol, gan chwilio i mewn yn ofalus a manwl a gonest, i seiliau pob achwyniad a ddygid yn mlaen yn erbyn y naill fel y llall, heb adwaen gwyneb neb, nac yn ymddangos yn meddwl am ddim ond cael allan y gwirionedd yn yr ymchwiliad a ymddiriedasid iddynt. A'r canlyniad a fu, iddo gael agoryd ei lygaid i weled yn amlwg, mai nid yr amcan goreu oedd yn cynhyrfu y rhai ag yr oedd efe wedi arfer edrych arnynt megis ar yr un ochr i'r gwirionedd ag ef ei hunan, yn y cyhuddiadau a ddygid ganddynt yn erbyn eu brodyr; a thra yr oedd yn parhau i dybied nad oedd y rhai oeddent ar yr ochr arall yn rhoddi cymmaint o arbenigrwydd ag a ddylasent ar rai gwirioneddau a olygai efe yn hanfodol i'r efengyl, fe'i hargyhoeddwyd yn gwbl eu bod yn ddynion llawer mwy cywir a didwyll a diddichell eu hegwyddorion, a llawer mwy efengylaidd a boneddigaidd eu hysbryd,

na'r rhai a'u cyhuddent. Ac nid peth bychan i Fethodistiaeth Gogledd Cymru o hyny hyd yn hyn, oedd rhoddi argyhoeddiad felly yn meddwl Mr. Rees. Ond fe fu canlyniadau da, yn mhob ystyr, i'r ymchwiliad a wnaed y pryd hwn. Fe dawelwyd pob cynhwrf a dadleuaeth, ar unwaith, yn Sir Fflint; ac yn raddol, fe adferwyd y teimladau goreu rhwng yr holl frodyr yno, fel gydâ'r eithriad o ryw ymryson llëol yn Rhosllannerchrugog, y mae wedi bod yn heddwch perffaith yno, o ran pob peth athrawiaethol, o hyny hyd yn hyn. Ac nid yn unig hyny, ond fe roddes y Gymmanfa hefyd dawelwch, er gydâ mesur o siomedigaeth, i feddyliau y cyfeillion hyny yn yr amrywiol Siroedd ag oeddent wedi derbyn chwedlau y cyhuddwyr, ac yn cydymdeimlo â hwynt yn y pryder dros y gwirionedd a broffesid mor ddifrifol ganddynt. Yr oedd Mr. Elias ei hunan yn dawel hollol. Yr oedd presennoldeb Mr. Rees yn y Cyfarfod, a'r rhan arbenig a gymmerasid ganddo ef ynddo, a'r sicrhâd a gawsai oddiwrtho ef, nad oedd cymmaint ag un o'r cyhuddiadau a ddygasid yn erbyn y brodyr y cwynid o'u herwydd, yn gorphwys ar ddim tebyg i brawf, ond yn hytrach yn tarddu o annghariad a chenfigen, gydâ rhyw awydd cnawdol am y flaenoriaeth, yn ymwared mawr i'w feddwl ef yn ei gystudd, ac yn peri iddo deimlo yn ddiolchgar fod yr ymchwiliad wedi ei wneuthur. Aeth Mr. John Jones, Talsarn, yn mhen ychydig wythnosau ar ol hyny, i ymweled âg ef, yn ei afiechyd. Yr oedd yn wael iawn y pryd hyny. Ond yr oedd yn llawen iawn o'i weled; a sicrhäodd iddo mor dda ganddo oedd clywed am derfyniad yr ymchwiliad yn y Wyddgrug, gydâ dymuniad diffuant ei galon, y cedwid y Cyfundeb, hyd byth, yn ffyddlawn i wirionedd yr efengyl.

Parhau i nychu a gwanhau a wnaeth Mr. Elias; ac ar nos Fawrth, Mehefin 8, 1841, efe a fu farw, er galar mawr i Gyfundeb y Methodistiaid yn neillduol, ac, yn wir, er peri teimlad dwys i holl Gymru, ac i genedl y Cymry trwy yr holl fyd. Teimlid gan bawb fod y pregethwr mwyaf poblogaidd yn yr holl wlad, a'r areithiwr hyawdlaf ac enwocaf a gyfodasai erioed yn

mhlith ein cenedl, wedi ei gymmeryd ymaith oddiwrthym; ac yr oedd pob dosbarth, pob gradd, pob enwad, yn enwedig yn Ngogledd Cymru, yn ymddangos fel yn cyd-alaru am dano. Claddwyd ef ar ddydd Mawrth, Mehefin 15,—y diwrnod yr oedd Cymdeithasfa y Bala yn dechreu, sef diwrnod ei chyfeisteddfodydd rhagflaenorol. Yr oedd y newydd am ei farwolaeth, fel ag y gellid meddwl, wedi taflu prudd-der mawr dros yr holl Gymdeithasfa; ac yr oedd yno lïaws yn ymddangos wedi eu llethu gan gymmaint tristwch, fel nas gallent gymmeryd ond ychydig ddyddordeb yn ei gweithrediadau. Yr oedd Mr. Rees, yn neillduol, yn teimlo yn ddwys iawn. Y pryd hyny, dewis Llywydd am y tro a wneid, a Mr. Rees a ddewiswyd y tro hwnw. Yn un o'r cyfarfodydd, gan gyfeirio at farwolaeth Mr. Elias, fe ddywedai, "Yr ydym wedi colli gŵr mawr a thywysog o'n mysg; yr hwn a'n blaenorai yn nghyfarfodydd neillduol y Gymdeithasfa, ac oedd, er ys dros ddeugain mlynedd, yn dal y lle enwocaf gydâ'r gwaith cyhoeddus yn ein plith. Cyfodwyd ef gan Dduw, o sefyllfa isel i le mawr a phwysig; clyẅwyd 'lleferydd yr Arglwydd mewn grym' gannoedd o weithiau yn ei bregethau; a gwnaethpwyd pethau mawrion a rhyfedd trwyddo. Yn awr, y mae wedi myned. Yr ydym wedi ei golli o'n plith am byth. Ni chawn weled ei wyneb ef mwyach yma. Ac y mae yn chwith i ni fod hebddo. Yr ydym yn teimlo; a dylem deimlo yn ddwys, a chwilio ein ffyrdd, rhag fod drygfyd i ganlyn ar ol hyn. Yr arwydd tebycaf o ddrygfyd fyddai, ein bod heb osod at ein calon, wedi cymmeryd un cyfiawn ymaith, fel yr hwn a gollasom ni. Eithr nid ydym i ddigaloni a llaesu dwylaw, ond i ymgysuro fod yr hwn a bïau y gwaith eto yn fyw. Pe buaswn i yn ymwrandaw â'm teimladau fy hunan nis gallaswn wneuthur dim ond cwyno; eithr y mae yn rhaid i'r gwaith gael ei wneyd, ac felly yr wyf yn ceisio ymysgwyd o'r llwfrdra sydd yn ymosod arnaf: ac yr wyf yn gobeithio y bydd i ni oll ymwroli ac ymroddi o ddifrif mewn undeb â'n gilydd, megis plant wedi colli eu tâd, i gyfarfod yr amgylchiadau newydd a dieithr yr ydym ynddynt yn ein

hamddifadrwydd. Yn enwedig byddwn oll yn un yn nghwlwm cariad. Y mae gwïail gweiniaid, pan wedi eu rhwymo yn un, yn annhoradwy."

Wedi y cyfarchiad hwn, fe aed yn mlaen yn lled fywiog, er mewn teimladau galarus, gydâ gwahanol orchwylion y Gymdeithasfa. Fe bregethodd Mr. Roberts, Amlwch, ar gais y Gymdeithasfa, bregeth angladdol hynod i Mr. Elias, ar y *Green* y noswaith gyntaf yn y Bala, oddiar 2 Bren. ii. 11—14; ac fe gynnygiodd yntau, yn y cyfarfod am wyth boreu dranoeth, fod i Mr. Rees bregethu pregeth i'r un amcan yn y Gymdeithasfa ddilynol, yr hon oedd i'w chynnal yn Mangor, yn nechreu mis Medi. Cytunwyd ar hyny. Yr oedd Mr. Rees yn dra hwyrfrydig i addaw, ond o'r diwedd, efe a gydsyniodd. Ac ar ddydd Iau, Medi 9, yn yr oedfa am ddeg yn y boreu, yn Mangor, efe a bregethodd oddiar Galatiaid i. 15, 16: "Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei râs, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef yn mhlith y cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chîg a gwaed." Nid oeddem ni yn dygwydd bod yn bresennol yn y Gymdeithasfa hono, fel nas gallwn, oddiar ein gwybodaeth ein hunain, ddywedyd dim am y bregeth. Y mae yn ddrwg genym hefyd ddeall, nad oes dim o honi ar gael yn y papurau a adawwyd ganddo ar ei ol. Eithr ni a glywsom lawer o sôn am dani, a chanmoliaeth uchel iddi. Dywedid ei bod yn bregeth ardderchog o ran ei chyfansoddiad; y sylwadau deongliadol ar y testyn, a'r cyd-destynau, yn fanwl ac yn eglur iawn; a'r ymdriniaeth yn nghorph y bregeth ar droedigaeth Paul, yn odidog ac yn dra effeithiol. I. Achos ei droedigaeth oedd grâs rhydd a rhad a phen-arglwyddiaethol Duw: "pan welodd Duw yn dda." II. Cyfrwng ei droedigaeth oedd datguddiad ysbrydol o Fab Duw: "i ddatguddio ei Fab ef ynof fi." III. Ffrwyth ei droedigaeth oedd llafurwaith ymroddgar a hunan-ymwadol gydâ'r efengyl: "fel y pregethwn ef yn mysg y cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chîg a gwaed." Ac yn y rhan ddiweddaf o'r bregeth, fe ddarluniai gymmeriad, a

gweinidogaeth, a dylanwad Mr. Elias, gydâ medrusrwydd a grym neillduol. Nid oedd Mr. Rees ei hunan mewn un modd yn foddlawn ar y bregeth; ac y mae hyny, o bosibl, yn cyfrif am y ffaith nad oes dim o honi wedi ei adael ar ei ol.

Yr oedd ein hamgylchiad ni fel Cyfundeb, yn neillduol yn Ngogledd Cymru, yn mhell o fod yn gysurus ar yr adeg y bu farw Mr. Elias; ac yr oedd rhai yn ofni yn fawr, rhag mai y diwedd fyddai ymraniad yn ein plith. Nid oedd Mr. Rees ei hunan yn gwbl rydd oddiwrth y cyfryw ofnau. Y mae yn wir fod y penderfyniad y daethid iddo gydâ golwg ar y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn rhai brodyr yn Sir Fflint, wedi bod yn ymwared mawr i feddyliau llaweroedd; ond yr oedd teimladau eiddigus ac anhyfryd yn parhau: ac yr oedd lliaws o gyfeillion y rhai a gyhuddid, ond y profasid eu diniweidrwydd, yn dra siomedig ac anfoddlawn, na buasai y cyhuddwyr wedi cael ymddwyn tuag atynt yn ol yr enllibion a'r dichellion y profasid hwynt yn euog o honynt. Dadleuent nad oedd gwaith y rhai a gawsent y cam oddiar eu llaw yn eiriol drostynt ond prawf ychwanegol o'u diniweidrwydd hwy, ac felly prawf ychwanegol o'r ysbryd maleisus a lywodraethai y rhai oeddent wedi bod, trwy y blynyddoedd, yn taenu y fath chwedlau yn eu cylch. Yr oedd Mr. John Jones, Talsarn, yn teimlo yn neillduol felly. Yr oedd Mr. Rees ei hunan yn teimlo i fesur yn gyffelyb; ac y mae yn dra thebyg, pe buasai efe yn dygwydd bod yn y Gymdeithasfa yn y Drefnewydd, pan y dygwyd adroddiad y Gynnadledd i mewn, y buasai efe yn ngonestrwydd ei galon, a'r ysbryd didderbyn wyneb a'i llywodraethai, yn cynnyg rhywbeth o'r fath. Ond o'r tu arall, wedi i ychydig fisoedd fyned heibio, fe aeth cyfeillion y cyhuddwyr, a'r rhai a gyd-olygent â hwynt yn eu syniadau Uwch-Galfinaidd, yma a thraw trwy y Siroedd, i deimlo yn dra dolurus ac anesmwyth, ac i ammeu, o leiaf i siarad felly, a oeddent wedi cael tegwch hollol yn y Wyddgrug; ac aeth rhai o honynt mor bell ag awgrymu fod meddwl Mr. Rees wedi ei wenwyno yn hollol yn eu herbyn cyn i'r Gynnadledd ddechreu, trwy ddylanwad Mr. Hughes o Liverpool.

Nid oedd nifer y rhai anfoddlawn hyny ond ychydig, ac yr oeddent oll yr ydym yn meddwl, oddieithr dau neu dri, y tu allan i Gylch Cyfarfod Misol Sir Fflint; ond yr oeddent yn nodedig o brysur â'u tafodau, ac yn dra medrus mewn gwneuthur awgrymiadau angharedig a disail, pan na feiddient, oddieithr gydâ rhai cyffelyb iddynt eu hunain ddywedyd eu meddyliau mewn geiriau eglur. Pa fodd bynnag, yr oedd yr anesmwythder hwn o'u tu hwy, ac anfoddlonrwydd y lleill o'r tu arall, yn elfen beryglus, ar y pryd, am heddwch y Cyfundeb.

Heblaw hyny yr oedd cryn fesur o anniddigrwydd, ar yr un adeg, rhwng Deheu a Gogledd, gydâ golwg ar yr Achos Cenhadol, a chydâ golwg ar yr Athrofa. Yr oedd Cymdeithasfa y Gogledd, fel y gwelsom yn yr adroddiad a roddwyd genym eisoes am sefydliad y Gymdeithas, wedi dyfod i'r penderfyniad i gychwyn fel Cyfundeb gydâ'r Achos Cenhadol, trwy sefydlu Cymdeithas o'r eiddom ein hunain tuag at hyny. Er i'r un penderfyniad gael ei wneuthur yn *ffurfiol* yn y Gymdeithasfa Gorphoredig yn Aberystwyth, Gorphenaf, 1841, a thrachefn gan Gymdeithasfa Chwarterol y Deheudir yn yr Awst canlynol, eto yr oedd y cyfeillion yn y Deheudir, oddieithr Sir Aberteifi a rhyw rai yn Sir Benfro, yn cadw draw oddiwrth y Gymdeithas agos yn gwbl; ac yr oedd y nifer amlaf o'r gwŷr blaenaf trwy'r holl Siroedd, yn dra hwyrfrydig i gymmeryd dim rhan ynddi. Yr oedd ymlyniad cryf ynddynt wrth Gymdeithas Llundain; ac, heblaw hyny, yr oeddent yn teimlo i raddau yn friwedig, oblegyd fod y symmudiad wedi myned mor bell yn y Gogledd, heb ddim ymgynghoriad o unrhyw fath â hwynt o berthynas iddo.

Achos arall ag oedd y pryd hwn yn peri llawer iawn o anesmwythder, ac yn peryglu teimlad da rhwng y Deheu a'r Gogledd, oedd ein Hathrofa. Yr oedd Athrofa y Bala wedi ei hagor yn Awst, 1837, y pryd hyny fel Ysgol, ar eu cyfrifoldeb eu hunain, gan Mr. Edwards a Mr. Charles, ac eto gan olygu a gobeithio y delai yn raddol, ac yn lled fuan, yn Athrofa i'r Cyfundeb. Yn wir yr oedd math o ddealltwriaeth rhyngddynt o'r dechreuad â rhai o'r gwŷr blaenaf yn yr amrywiol

Gyfarfodydd Misol, yn enwedig â'r Parch. John Elias, gydâ golwg ar hyny. Yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 14, 1837, fe hysbyswyd y byddai Ysgol felly yn cael ei hagor yn y Bala, yn nechreu y mis Awst canlynol; ac fe roddwyd eglurhad helaeth a manwl, gan Mr. Elias, ar natur y berthynas a fwriedid, ar y pryd, i fod rhyngddi â'r Cyfundeb. Yn ol yr eglurhad hwnw, yr oedd yr Ysgol i fod yn eiddo hollol i'r Athrawon, a hawl ganddynt i dderbyn i mewn iddi y nifer a fynent o ysgolheigion, ar eu hammodau eu hunain, a pha beth bynnag a delid ganddynt i fod yn eiddo yn unig iddynt hwy. Eithr yr oeddent yn ymrwymo i dderbyn pob pregethwr a anfonid yno gan unrhyw Gyfarfod Misol, neu unrhyw ŵr ieuanc ar feddwl pregethu, neu ynte yn bwriadu bod yn ysgol-feistr, a gymmeradwyid gan y Cyfarfod Misol, ar yr ammod fod deg punt yn y flwyddyn yn cael eu talu dros bob un, neu yn ol hyny, am yr amser yr arhosai yno. Ar ol gwneuthur yr hysbysiad hwn, fe siaradodd Mr. Elias yn gryf iawn yn mhlaid yr Ysgol; gan ddatgan ei lawenydd gydâ golwg ar ei sefydliad, a'i obaith am y daioni mawr a ellid ddisgwyl oddiwrthi; a chan annog y pregethwyr ieuainc, yn neillduol, i wneuthur pob ymdrech i fyned iddi, a chymhell yr amrywiol Gyfarfodydd Misol i roddi pob cefnogaeth iddynt i hyny.

Yn nechreu Awst fe agorwyd yr Ysgol, yn ol yr hysbysiad hwn. Y mae o'n blaen yn awr lythyr o eiddo Mr. Edwards, dyddiedig "Bala, Sept. 13, 1837," o'r hwn y cymmerwn ein rhyddid i wneuthur y dyfyniadau canlynol:—"Our School is now six weeks old. . . . . . . We have twelve pupils, of whom four are boarders, and five are preachers. The preachers' names are, Thomas Jones of Montgomeryshire, Thomas Hughes of Gatehouse, Carnarvonshire, David Davies of Llanrwst (Henllan yn awr), Edward Roberts of Maethlon near Towyn, and John Thomas of Bala. They have not come to any decision yet in South Wales. There are several young men there anxious to come, if the thing were once settled." Fe welir wrth y llythyr hwn fod nifer y gwŷr ieuainc ag oeddent yno heb fod yn

bregethwyr yn saith, a bod pedwar o'r rhai hyny yn byw gydâ'r Athrawon yn y tŷ. Nid ydym yn ddigon sicr o enwau y saith hyny i'w dodi i mewn yma, er fod genym led-amcan am danynt; ond dau o'r rhai oeddent yn byw yn y tŷ, oedd Mr. David Charles Davies, Aberystwyth y pryd hyny, a'r diweddar Mr. John Foulkes Jones, Machynlleth. Gydâ'r tymhor a ddechreuai Ionawr, 1838, fe gynnyddodd nifer y pregethwyr, a'r ysgolheigion ereill, yn fawr; ac yr oedd amryw, o'r naill ddosbarth a'r llall, wedi dyfod yno o'r Deheudir, yn enwedig o Sir Aberteifi. Fe ddaeth gwedd lewyrchus a thra gobeithiol yn fuan iawn ar y sefydliad, o ran nifer y pregethwyr a gyrchent yno o'r amrywiol Siroedd; ac yr oedd cymeriad y myfyrwyr yn uchel iawn yn y dref, ac yn yr holl wlad oddiamgylch. Yr oedd llïaws o honynt yn teimlo anhawsder mawr i'w cynnal eu hunain yno, ac y mae yn ddiammeu fod rhai o honynt, yn enwedig y rhai nad oeddent, i ryw fesur yn boblogaidd fel pregethwyr, yn gorfod dioddef cryn lawer. Nid oedd ond un neu ddau o'r Cyfarfodydd Misol yn gwneuthur dim tuag at gynnorthwyo y rhai a anfonid ganddynt yno, oddieithr y tâl am eu haddysg; ac yr oedd y gwŷr ieuainc yn gorfod dibynu yn gwbl am eu cynhaliaeth, naill ai ar eu hennillion blaenorol eu hunain, neu ar yr hyn a allent gael gan eu perthynasau a'u cyfeillion, neu ar yr hyn a gaent yn gydnabyddiaeth am eu gwasanaeth Sabbothol; ac yr oedd hyny, y pryd hwnw, yn y nifer amlaf o'r teithiau, yn nodedig o fychan. Nid oedd pawb yn y wlad ychwaith, y mae yn ddrwg genym ddywedyd, yn teimlo mor garedig ag y buasai ddymunol tuag at yr Athrofa, nac wedi ymryddhau yn gwbl oddiwrth ragfarn led gref yn ei herbyn; ac yr oedd hyny yn peri, mewn rhai mannau, fod y modd y gosodid ei hachos ger bron y cynnulleidfäoedd er gwneyd y casgliad angenrheidiol tuag at gyfarfod ymrwymiad y Gymdeithasfa gydâ golwg ar y gwŷr ieuainc a anfonid i'r Bala, yn mhell o fod yn deilwng o urddas y sefydliad, ac i orwedd yn esmwyth ar deimladau yr athrawon. Fel hyn, er yr holl lwyddiant oedd wedi bod ar yr Athrofa, a'r gymmeradwyaeth a ddangosid gan y mwyafrif braidd trwy yr

holl Siroedd iddi, yr oedd rhai amgylchiadau cysylltiedig â hi, yn peri llawer iawn o bryder yn meddyliau ei chyfeillion goreu.

Yn y cyfamser, a thra yr oedd pethau fel hyn yn y Gogledd, fe ddaeth y tŷ a godasid yn Nhrefecca gan Mr. Howell Harris, a'r tir cysylltiedig âg ef,—tŷ ag oedd wedi bod, yn ystod bywyd Mr. Harris, yn gartref i'r rhai a gyrchent ato yno o wahanol barthau y Dywysogaeth, ac a fuasai wedi ei farw ef, yn fath o Elusendŷ i'r rhai a adawsid ar ei ol,—fe ddaeth y Tŷ hwnw yn rhydd-feddiant i'r Cyfundeb yn y Deheu. Yr oedd teimladau cysegredig yn mynwesau llaweroedd mewn cysylltiad â Threfecca. Oddiyno y daethai allan y dyn hynod hwnw ag a fuasai, trwy y nerthoedd rhyfedd a ddilynent ei weinidogaeth, yn foddion i ddefro Cymru o'r cwsg ysbrydol ag yr ydoedd wedi syrthio iddo, ac i osod gwedd newydd, yn mhen ychydig amser, ar ranau helaeth o honi. Yno y cychwynasai Methodistiaeth Cymru. Ac er yr ymraniad gofidus a gymmerasai le rhwng Harris a Rowland, a neillduad Harris, yn y canlyniad, i'r Fynachlog a gododd yn Nhrefecca, eto yr oedd yr ad-gofion, neu yn hytrach y traddodiadau, am yr hyn a deimlasid trwyddo pan yn teithio Cymru gan bregethu efengyl Crist, a'r tystiolaethau a roddid am y sancteiddrwydd rhyfedd a'i nodweddai ar ol ei neillduad gydâ'i deulu mawr yn Nhrefecca, yn gosod rhyw gysegredigaeth ar y lle, yn ei gysylltiad âg ef i gannoedd, os nad miloedd, nas gallai prin berthyn i un lle arall yn ein gwlad. Yr oedd yno hefyd, mewn tŷ cyfagos i'r adeilad a ddaethai yn awr yn eiddo i'r Methodistiaid, hen Athrofa barchus a bendithiol wedi bod, gan yr Arglwyddes Huntington; lle yr oedd ein hen dadau cyntaf, heblaw Whitefield a Wesley a Fletcher, wedi bod yn fynych yn pregethu; ac un o honynt, y Parch. John Williams, Pantycelyn, mab i'r hen Emynydd, wedi bod am beth amser yn athraw; heb sôn am Fletcher, ac ereill, a fuasent felly o'i flaen ef. Wedi cael y lle hwn i'w meddiant, fe deimlwyd gan ein cyfeillion yn y Deheu ar unwaith, nad oedd dim oedd well a allent wneyd âg ef, na'i ddefnyddio fel cartref Athrofa i'r Cyfundeb; ac yr oeddent yn gwbl hyderus yn eu meddyliau na wrthodai y

cyfeillion yn y Gogledd byth y fath gynnyg, ond yr ymunent yn galonog ac yn llawen gydâ hwynt yno, ac felly y ceid un Athrofa effeithiol i'r holl Gyfundeb. Fe anfonwyd cenadwri i'r perwyl yna at Gymdeithasfa y Gogledd. Yr oedd teimlad lled gyffredinol yn yr amrywiol Siroedd yn y Gogledd yn mhlaid un Athrofa, ond ei chael mewn rhyw le canolog, cyfleus i ddau pen y dalaeth, ac yr oedd Sir Fôn, yn hytrach na chael dwy Athrofa, yn foddlawn myned i Drefecca; ond yr oedd gwrthwynebiad rhyfedd a chryf, braidd yn mhob Sir arall i Drefecca. Rhaid cofio fod cyfleusderau teithio yn dra gwahanol y pryd hyny i'r hyn ydynt yn awr, a lleoedd yn llawer pellach oddiwrth eu gilydd a dieithrach i'w gilydd; ac felly fe ymddangosai Trefecca, o rai parthau o'r Gogledd, yn rhyw le tra annghysbell, ac mewn rhyw bellder agos annghyraeddadwy. Yr oedd rhyw dybiaeth hefyd mewn llawer ei fod wedi myned yn lle lled anfethodistaidd, os nad yn hytrach digrefydd; ac nid ydym yn hollol sicr nad oedd peth o'r hen deimlad yn erbyn y lle, a ffynai mor gyffredin yn amser yr ymraniad blin rhwng Harris a Rowland, yn awr wedi ei adgynnyrchu mewn ambell fynwes. Yr oedd y teimlad, pa fodd bynnag, yn y cyffredin mor gryf yn erbyn Trefecca, fel yr ydoedd o'r dechreuad braidd yn gwbl anobeithiol y cytunai y Gogledd i adael y Bala, er mwyn myned yno, tra yr oedd y teimlad am undeb y fath yn mhob Sir, ond Sir Feirionydd, fel y buasent yn foddlon i fyned i unrhyw le canolog, er ei sicrhau. Y pryd hwn yr oedd yr ymdrech yn myned yn mlaen, yn ol yr hanes a roddwyd genym eisoes, i sefydlu Cymdeithas Genhadol Dramor yn ein plith ni fel Cyfundeb, ar wahan oddiwrth Gymdeithas Genhadol Llundain. Ar nos Wener, Ionawr 31, 1840, fel y gwelsom eisoes y sefydlwyd y Gymdeithas hòno yn Liverpool, ac yr oedd teimlad angerddol yn ei phlaid braidd yn mhob Cyfarfod Misol perthynol i Gymdeithasfa y Gogledd, yn enwedig yn Sir Drefaldwyn, a Sir Feirionydd, a Liverpool. Y mae yn ymddangos fod y rhai oeddent yn fwyaf zelog gydâ'r Achos hwn wedi dyfod i ddeall, nad oedd y brodyr yn y Deheu, oddieithr yn unig yn Sir Aberteifi, mewn un modd yn bleidiol

iddo, ac yr oedd hyny wedi peri siomedigaeth fawr iddynt, ac yr oeddent yn barod i wneuthur unrhyw beth a allent er sicrhau eu cyd-weithrediad. Felly fe gynnygiwyd, fel math o ymgytuniad, ond i'r Deheu ddyfod allan fel un gŵr yn mhlaid y Gymdeithas Genhadol newydd, yr ymdrechent hwythau i gael y Gogledd i ymuno gydâ'r Athrofa yn Nhrefecca, ac yr oeddent yn dra hyderus y llwyddent. Yr oedd y brodyr hyny yn addaw felly yn hollol ar eu cyfrifoldeb eu hunain, heb unrhyw awdurdod o gwbl oddiwrth na Chyfarfod Misol na Chymdeithasfa. Yr oedd Mr. Thomas Phillips o'r Gelli (Dr. Phillips wedi hyny), a Mr. Enoch Lewis, Abergwaen, wedi cael y fath addewid; ac yr oedd llythyrau i'r un ystyr wedi eu derbyn gan frodyr parchus ereill yn y Deheu. Crëodd hyn ddysgwyliad mor fawr yn eu meddyliau hwy yno y byddai i'r Gogledd ymuno â hwynt, fel mewn Cyfeisteddfod yn Aberhonddu, a gynhaliwyd Mawrth 4, 5, 1840, y penderfynwyd oedi myned yn mlaen gydâ chwblhau gweithred trosglwyddiad Trefecca i'r Cyfundeb, hyd nes y ceid llais pendant Cymdeithasfa y Gogledd, gydâ golwg ar y cwestiwn; a phenderfynwyd hefyd adnewyddu eu dymuniad caredig, difrifol, a thaer, ar iddynt gydsynio â'u cais, ac ymuno â hwynt i gael un Athrofa, a hono yn Nhrefecca. Fe barodd yr ymyriad hwn, pa fodd bynnag y dechreuodd, wir ofid calon i'r gwŷr blaenaf a goreu yn Nghymdeithasfa y Gogledd. Yr oedd Mr. Rees a Mr. Hughes, Liverpool, yn arbenig yn teimlo yn ofidus, fod y fath ymddyddan wedi bod, a'r fath ddysgwyliadau wedi eu cynnyrchu, heb eu bod hwy, er y cylch neillduol y tröent ynddo, yn gwybod dim yn eu cylch. Ond, wedi llawer o ymdrafod yn y gwahanol Gyfarfodydd Misol, ac mewn amrywiol Gymdeithasfäoedd; ac wedi i ryw amgylchiadau gymmeryd lle ag a barent i Mr. Edwards deimlo nas gallai adael y Gogledd, os na byddai y Gogledd yn ymuno â'r Deheu yn Nhrefecca; a gweled nad oedd gobaith cael cyfeillion y Deheu i symmud cam o Drefecca; a bod y teimlad yn cryfhau yn y Gogledd, yn enwedig yn Sir Feirionydd, i beidio ymadael â'r Bala;—fe ddaethpwyd i'r

penderfyniad yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi 8, 1841, fod i'r Athrofa barhau yn y Bala, a'i bod, o ddiwedd y flwyddyn hòno, i gael ei chymmeryd yn eiddo i'r Cyfundeb yn y Gogledd; a bod Cyfarfod o Ddirprwywyr dros yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, i'w gynnal mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Dolgelleu, yn mhen ychydig wythnosau, er trefnu ar ryw gynllun gydâ golwg ar ei chynhaliaeth mewn modd anrhydeddus. Gosodwyd hefyd ar Mr. Rees i ysgrifenu llythyr ar ran y Gymdeithasfa at y brodyr yn y Deheu, cynnulledig yn eu Cymdeithasfa yn Rumney, yr Hydref canlynol, i hysbysu iddynt y penderfyniad y daethpwyd iddo, a'r rhesymau oedd ganddynt am dano. Y mae yn ddrwg genym na ddaeth copi o'r llythyr hwnw erioed i'n llaw; ond ni a allwn fod yn sicr ei fod yn llawn o'r tynerwch, a'r doethineb, a'r cywirdeb, ag oeddent yn wastadol yn ei hynodi ef yn y fath amgylchiadau.

Mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Dolgelleu, Medi 29, 1841, fe gyfarfu y Pwyllgor a bennodasid yn Mangor i fyned i mewn i fanylion y trefniad gydâ golwg ar yr Athrofa, a chytunwyd ar y penderfyniadau canlynol, y rhai a gymmeradwywyd gan y Gymdeithasfa:—

1. "Fod y swm o Dri chant o bunnau yn y flwyddyn, i'w talu rhwng y ddau athraw, cant a phump a thriugain i Mr. Edwards, a chant a phymtheg ar hugain i Mr. Charles.

2. "Fod i'r athrawon, fel o'r blaen, gael derbyn i mewn i'r Athrofa, ar eu cyfrifoldeb eu hunain ac ar eu hammodau eu hunain, y rhai a ewyllysiant fyned i mewn iddi ar eu traul eu hunain; a bod pa symiau bynnag a delir gan y cyfryw i fod yn eiddo hollol i'r Athrawon, i'w rhanu yn gyfartal rhyngddynt, er ychwanegu at eu cyflog blynyddol.

3. "Fod swm blynyddol neillduol i gael ei ddodi ar yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, tuag at gyfarfod cyflogau yr Athrawon, yn gwbl annibynol ar nifer y pregethwyr, neu ereill, a anfonir ganddynt i'r Athrofa; a bod y symiau canlynol, ar hyn o bryd, i gael eu pennodi fel yr hyn sydd i'w talu ganddynt: Sir Fôn, £45; Sir Gaernarfon, £55; Sir Feir-

ionydd, £45; Sir Ddinbych, £45; Sir Fflint, £35; Sir Drefaldwyn, £30; Liverpool a Manchester (un Cyfarfod Misol y pryd hyny), £45.

4. "Fod ymdrech i gael ei wneuthur yn ddioed i gasglu Trysorfa, trwy gyfroddion a chyfraniadau, ag y bydd i'r llôg a geir oddiwrthi fod yn ddigon tuag at dalu cyflogau yr Athrawon, ac er rhyw gymmaint o gynhaliaeth i'r efrydwyr: a bod y swm a osodir yn awr ar yr amrywiol Gyfarfodydd Misol i derfynu pan y llwydder i gael y fath gronfa."

Dyma y cynllun a ddygwyd ger bron y Gymdeithasfa ac a gadarnhäwyd ganddi, ac y dysgwylid i'r amrywiol Gyfarfodydd Misol weithredu yn ei ol. Y mae yn ymddangos, oddieithr ychydig wrthwynebiad ar y cyntaf o Sir Drefaldwyn, eu bod oll yn barod i wneuthur hyny, ond Sir Fôn. Yr oedd dau neu dri o'r rhai ag oeddent yno yn cymmeryd lle lled uchel a blaen-llaw yn y Cyfarfod Misol, wedi bod, er dechreu y siarad am Athrofa yn Nhrefecca, yn teimlo yn gryf yn erbyn cael dwy Athrofa; ac er gochel hyny, yn foddlawn, os byddai raid, myned i Drefecca. Nid oes un amheuaeth nad oedd un, os nad dau, o'r brodyr hyny yn hollol yn erbyn cael Athrofa o gwbl; ac fe ofnid gan lawer fod y gefnogaeth a ddangosid ganddynt hwy y pryd hyn i Drefecca, yn cyfodi yn llawn cymmaint oddiar wrthwynebiad i'r Bala a'r Athrofa yno, ag oddiar gariad at Undeb rhwng Deheu a Gogledd. Yr oedd y teimlad mor gryf yn Nghymdeithasfa Bangor yn mhlaid y Bala, fel na chawsant hwy neb i'w cefnogi yn eu gwrthwynebiad i'r penderfyniad y daethpwyd iddo yno, ac nid oeddent hwy eu hunain yn barod i gynnyg unrhyw welliant arno. Pa fodd bynnag, ni foddlonent heb ddwyn yr Achos drachefn ger bron eu Cyfarfod Misol eu hunain, a cheisio gwneuthur un ymdrech yn ychwaneg yn mhlaid gadael y Bala a myned i Drefecca; a llwyddasant yno i gael y mwyafrif, er mai mwyafrif bychan iawn ydoedd, dros hyny. A phennodwyd y Parch. Cadwaladr Williams yn gennad drostynt i ddwyn yr Achos ger bron y Gymdeithasfa. Yr oedd y Gymdeithasfa nesaf i'w chynnal yn Rhuthyn y dyddiau olaf o'r

flwyddyn, 1841; ac yr oedd y Gymdeithasfa yno y pryd hwnw fel Cymdeithasfa Rhagfyr bob blwyddyn, yn Gymdeithasfa flynyddol Ysgol Sabbothol y Methodistiaid yn Ngogledd Cymru, eithr yn un ag y rhoddid iddi holl awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol, ac yr anfonid cynnrychiolwyr o'r holl Siroedd iddi. Cychwynodd Mr. Cadwaladr Williams tua Rhuthyn, ond fe'i lluddiwyd i allu myned yn mhellach na Bangor; ac oddiyno efe a anfonodd y llythyr canlynol,—yn cynnwys y cenadwriaethau a ymddiriedasid iddo,—at y Gymdeithasfa:

"Bangor, Rhagfyr 28, 1841.

"*At y Gymdeithasfa yn Rhuthyn, a gynhelir Rhagfyr* 29, 30, 31.

"ANWYL FRODYR,—Y mae yn ddrwg iawn genyf orfod i mi "droi yn ol ar ol cychwyn i'r Gymdeithasfa, a hyny o herwydd "rhyw anhwyldeb ar yr anifail. Gan hyny, nid oes genyf ond "anfon yr ychydig linellau hyn i'ch cyfarch, ac hefyd i hysbysu "i chwi ychydig o hanes am benderfyniadau Cyfarfod Misol "Môn, yr hwn a gynhaliwyd yr wythnos ddiweddaf.

"Sylwyd a phenderfynwyd mewn perthynas i Gymdeithas "Genhadol y Methodistiaid Calvinaidd, fod yn angenrheidiol "cael sylfaeniad rheolaidd iddi, mewn pennodi Trysorydd, ac "hefyd Ysgrifenydd, a hwnw yn un cyflogedig gan y Corph. "Heb hyny nid oeddym yn gweled y byddai gan y Gymdeithas "un swyddog ag y gallai ei alw at ei gwasanaeth, neu i gyfrif "am ei waith. Hefyd fod eisieu pennodi Dirprwywyr o bob "Sir ac o'r Trefydd (sef yn Lloegr), ac i bob Sir a'r Trefydd "ymrwymo ac ymgyfammodi yn ddifrifol ger bron yr Arglwydd, "a thros yr Achos, â'u gilydd, i gyd-weithredu yn mhob peth "perthynol i'r Genhadaeth, fel na byddo gan un Sir na Thref "hawl i dynu yn ol oddiwrth yr achos pwysig hwn; a bod y "Dirprwywyr i weithredu yn ol cyfarwyddyd y Gymmanfa. "Hefyd, fod ein Casgl Cenhadol, yr hwn sydd yn agos i £300, "i aros yn llaw Trysorydd ein Sir, hyd oni welom y Gymdeithas "Genhadol wedi ei dwyn i drefn, a'i rheolau wedi eu cymmer-"adwyo gan y Gymmanfa. Hefyd nad anfoner yr un Cenhadwr

"yn ychwaneg gan y Gymdeithas Genhadol, heb fod ei holl "drefniadau hi wedi eu gwneyd ac wedi eu cymmeradwyo.

"Ymddyddanwyd yn nghylch yr Athrofa; a barnwyd genym "eilwaith mai un a fyddai oreu i'r Corph, a bod un yn ddigonol "i addysgu yr holl nifer a fyddai yn gymhwys i'w hanfon i "Athrofa gan Dde a Gogledd; a bod ymraniad yn tueddu i "effeithio yn niweidiol ar y Corph mewn llawer modd, a bod "hyny yn ymddangos yn barod os bydd iddo beri i'r brodyr yn "y Deheu dynu yn ol o gyd-weithredu yn yr achos Cenhadol. "A chan mai un Corph ydym trwy Gymru a Lloegr, dangosodd "y rhan fwyaf o'r brodyr ddymuniad am i ni, ar ol y flwyddyn "hon, gynnorthwyo yr Athrofa a fwriedir ei sefydlu yn "Nhrefecca.

"Dymunwn i chwi lawer o gymhorth a bendith gydâ holl "waith y Gymdeithasfa.

"Ydwyf, anwyl frodyr, eich annheilwng was,

"CADWALADR WILLIAMS."

Parodd derbyniad y llythyr hwn drallod nid bychan i feddyliau y cyfeillion yn Rhuthyn, yn enwedig i Mr. Rees. Yr oedd efe yn gobeithio fod yr Achos, gydâ golwg ar le yr Athrofa, wedi ei benderfynu yn y fath fodd yn Mangor, fel na ddelai hyny drachefn i sylw; ac yr oedd yn dysgwyl hefyd y byddai y trefniadau gydâ golwg ar ei hamgylchiadau arianol, ag a gymmeradwyasid yn Nolgelleu, yn gorwedd yn lled esmwyth ar yr holl Gyfarfodydd Misol. Ond yn awr yr oedd yn gweled amcan i ail-agor yr holl gwestiwn, ac yr oedd hyny yn peri gofid mawr iddo. Yr oedd teimlad yr holl frawdoliaeth yn Rhuthyn yn gryf iawn yn mhlaid yr hyn oedd wedi ei wneuthur yn Mangor ac yn Nolgelleu, ac, wedi cryn lawer o siarad, fe benderfynwyd fod i Mr. Rees, a'r Ysgrifenydd (Mr. Roger Edwards), anfon atebiad i Mr. Cadwaladr Williams, yn cynnwys sylwedd yr ymddyddan yn Rhuthyn; gan obeithio y byddai i gyfeillion Sir Fôn, wedi rhoddi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn, weled eu ffordd yn glir i gyd-weithredu yn egniol â'r Siroedd ereill gydâ

golwg ar yr Athrofa, fel yr oeddent bob amser wedi arfer gwneyd gydâ phob achos arall. Fe ysgrifenwyd yr atebiad yn y Wyddgrug, nos Wener, Rhagfyr 31ain, lle yr oedd Mr. Rees yn aros ar ei ffordd o Ruthyn i Liverpool. Y mae yr adroddiad canlynol genym, odditan law Mr. Roger Edwards, am y modd y cyfansoddwyd y llythyr:—"Yr oedd hwnw yn un o'r troion cyntaf i ni fod gydâg ef yn cyflawni gorchwyl o'r fath, ac wrth hyny mae yr argraff am ddull Mr. Rees ar y pryd wedi aros yn barhaus ar ein côf. Efe a eisteddai i lawr wrth y bwrdd, ac a ddechreuai ysgrifenu; yna efe a ddarllenai y llinellau a ysgrifenasai, ac a ddywedai, 'Na, bydd yn well fel hyn,' ac a ysgrifenai drachefn. Wedi hyny efe a gyfodai, ac a gerddai o amgylch yr ystafell, gydâ llythyr Mr. Williams yn ei law; ac yn mhen dwy neu dair munud, gofynai, 'Beth meddwch chwi am hyn?' gan adrodd dwy neu dair o frawddegau cryno a chymhwys, y rhai a ysgrifenid genym fel yr oedd efe yn eu dywedyd, ac nad oedd eisiau gwella na chyfnewid gair o honynt. Yn nghanol y myfyrio a'r ysgrifenu, efe a rydd-ymddyddanai am yr Athrofa, y Gymdeithasfa, a Chyfarfod Misol Môn, gan arddangos y pryder mwyaf am i'r holl Gyfarfodydd Misol mewn undeb â Chymdeithasfa'r Gogledd fod, yn ddieithriad, yn cydweithredu yn mhlaid yr Athrofa." Dyma y llythyr a ysgrifenwyd y pryd hwnw:—

"*At y Parch. Cadwaladr Williams.*

"ANWYL FRAWD,—Gosodwyd arnom ni, gan y brodyr cyn-"nulledig yn Nghymdeithasfa Rhuthyn, i anfon atoch i hysbysu "eu bod wedi derbyn a darllen eich llythyr, ac ystyried ei "gynnwysiad yn bwyllog a difrifol. Yr oedd yn ofid i bawb o "honom fod dim wedi eich lluddias i fod yn bresennol; ac yr "ydym oll yn gobeithio y bydd i chwi, a'r brodyr ereill yn Sir "Fôn, barhau i wneyd ymdrech i ddyfod i'n holl gyfarfodydd, "gan yn ddiau fod y Corph yn dysgwyl tuag yna am lawer o *help* "a chyfarwyddyd.

"Mewn perthynas i olygiad eich Sir ar yr Achos Cenhadol, yr

"oedd y Cyfeisteddwyr yn mawr gymmeradwyo eich penderfyn-
"iadau; ac y mae yn llawenydd genym hysbysu i chwi fod yr
"un peth ar feddwl llawer o'r brodyr mewn lleoedd ereill; a
"threfnwyd cynllun i sefydlu y Ddirprwyaeth gynnygiedig, fel
"yr ydych yn debyg o gael clywed yn fanylach yn fuan.

"Am eich dymuniad, 'ar i bob Sir a'r Trefydd ymrwymo ac
"ymgyfammodi yn bwyllog a difrifol ger bron yr Arglwydd, a
"thros ei achos, â'n gilydd, i gydweithredu yn mhob peth
"perthynol i'r Genadaeth, fel na byddo gan un Sir na Thref
"hawl i dynu yn ol oddiwrth yr achos pwysig hwn; a bod y
"Dirprwywyr i weithredu yn ol cyfarwyddyd y Gymmanfa,'—yr
"oedd y brodyr oll o'r un feddwl a'r un farn â chwi yn hyn, ac
"yn synio fod y cyfryw gydweithrediad yn hollol angenrheidiol,
"nid yn unig gydâ golwg ar y Genhadaeth Dramor, ond gydâ
"phob peth a berthyn i ni, er dal i fyny ein hundeb fel Corph, ac
"felly sicrhau ein cysur a'n heffeithiolrwydd.

"Ond y mae yn rhaid i ni hysbysu i chwi fod penderfyniad
"eich Cyfarfod Misol yn nghylch yr Athrofa wedi peri gofid a
"thristwch mawr i'r brodyr oll; ac nis gallwn lai na meddwl ei
"fod yn llwyr annghyson âg ysbryd eich penderfyniad o barth
"y Gymdeithas Genhadol, ac yn tueddu yn fawr i ddryllio yr
"undeb a'r cydweithrediad yr ydych mor awyddus i'w gadw a'i
"barhau yn ein mysg.

"Y mae llawer fel chwithau yn hollol o'r meddwl y buasai un
"Athrofa yn well ar bob cyfrif na dwy, a bod y diffyg cydwel-
"ediad rhwng y ddwy dalaeth yn beth i ofidio yn fawr o'i
"herwydd. Eto, megis y mae'r Corph yn un er bod dwy Gym-
"deithasfa yn perthyn iddo, a'r rhai hyny yn gweithredu yn
"annibynol y naill ar y llall, felly fe all barhau yn un er sefydlu
"dwy Athrofa. A diau pe buasid ond wedi meddwl am ddwy
"yn lle un o'r dechreuad, na buasai eu sefydliad yn peri un
"ymddangosiad o ymraniad, nac un archoll yn cael ei roddi ar
"gariad ac undeb. Ond bod i un Sir yn eithaf y Gogledd
"feddwl am ddadgysylltu ei hun oddiwrth ei hen frodyr, a
"rhwygo undeb miloedd Siroedd Gwynedd i'r dyben o gadw

"undeb â'n brodyr yn y Deheubarth, sydd groes i reswm, i "arferiad, ac i drefn y Corph; oblegid, os ydych yn ei wneyd er "mwyn undeb, yr ydych yn colli eich amcan, ac yn dattod yr "undeb yn lle ei gadarnhâu.

"Gan mai penderfyniad pwyllog y Gymdeithasfa Chwarterol "ddiweddaf yn Mangor ydoedd, os na chyfarfyddai ein brodyr "Deheuol â ni mewn rhyw le canol, fod i'n Hathrofa barhau yn "y Gogledd dan lywyddiaeth ein parchedig frodyr, Edwards a "Charles, dysgwylid i'r holl Gyfarfodydd Misol yn y Gogledd "gydweithredu yn hyn, yn ol ein cyfansoddiad a'n harferiad hyd "yma. Canys y mae yn debyg o beri llawer llai o annghysur "i'r Corph fel dwy Gymdeithasfa, un yn y Dê a'r llall yn y "Gogledd, fethu cyduno mewn rhyw amcan pennodol, nag i un "rhan o hono, yn y naill neu y llall, fyned i ymranu yn eu "mysg eu hunain. Cafwyd yn Rhuthyn dystiolaeth o Siroedd "Caernarfon, Dinbych, Fflint, Meirionydd, a Threfaldwyn, ac o "Liverpool, eu bod yn dal yn ddiysgog at benderfyniad Bangor, "ac yn awyddus am gael *fund* er diogelu cynhaliaeth anrhyd- "eddus a pharhaus i'r Athrofa. Cawsom yno hefyd brofion "cysurus o fawr ddefnyddioldeb yr Athrofa hyd yn hyn, yn "enwedig wrth ymddyddan â'r brodyr ieuainc a ymgynnygient "yn Genhadon.

"Yn wyneb y pethau hyn, yr oedd yn alarus iawn genym "glywed fod ein brodyr anwyl a pharchus yn Môn am weith- "redu yn wahanol i'w holl frodyr yn y Gogledd, a rhoddi "esiampl a allai, cyn bo hir, agor drws i bethau gwir niweidiol. "Ni welwyd cymaint ag un enghraifft o'r fath weithrediad yn "Ngogledd na Deheubarth Cymru erioed. A phe gweithredai "Cyfarfod Misol Môn yn ol eu penderfyniad, byddai yn amlwg "trwy yr holl Dywysogaeth fod undeb Corph y Methodistiaid "wedi darfod. 'Nac adroddwch hyn yn Gath, na fynegwch yn "heolydd Ascalon, rhag llawenychu merched y Philistiaid.'

"Dymunem i gynnwysiad y llythyr hwn gael ei ddarllen yn "eich Cyfarfod Misol, gan obeithio yr effeithia i beri i chwi ad- "ystyried y mater mewn ysbryd cariad a phwyll, yr hyn yn

"ddiammeu genym a barai i chwi alw eich penderfyniad yn ol. "Ar i Arglwydd Dduw ein tadau ein dysgu fel Corph, yn y "dyddiau pwysig a pheryglus hyn, i wneuthur ei ewyllys ef yn "mhob dim, a chadw yn ein mysg frawdgarwch diragrith, yw "dymuniad eich cydweision annheilwng,

"HENRY REES,
"ROGER EDWARDS."

Mae yn hyfryd i ni allu cofnodi na chafwyd clywed byth ar ol hyny am un penderfyniad na gweithrediad gan Gyfarfod Misol Môn na chan yr un arall, cyffelyb i'r un a awgrymid ar ddiwedd llythyr Mr. Williams; ac yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, yn nechreu mis Mawrth, 1842, yr oedd y Parch. William Roberts, Amlwch, yr hwn oedd wedi bod yn llwyddiannus fel "mab tangnefedd" yn ei Gyfarfod Misol ei hun, yn llefaru yn rymus ac yn effeithiol iawn yn mhlaid undeb a chyd-weithrediad gydâ'r gwaith yn gyffredinol, ac ar ran yr Athrofa yn neillduol.

Yn y Gymdeithasfa hòno yn y Wyddgrug, fe daer ddymunid ar i Mr. Rees a Mr. Roberts o Amlwch, fyned, yn benaf ar ran y Gymdeithas Genhadol, i ymweled â'n brodyr yn y Deheudir yn Nghymdeithasfa Llandeilo, yr hon oedd i'w chynnal y ddau ddydd olaf o'r mis hwnw, er mwyn ceisio eu cael i gyd-weithredu â'r Gogledd yn mhlaid yr Achos, megis ag y crybwyllasom eisoes yn yr adroddiad a roddwyd genym am gychwyniad y Gymdeithas. Fe gafwyd gan y ddau gydsynio i fyned, a buont yn dra llwyddiannus yn eu cenadwri. Anfonwyd y llythyr canlynol gan Mr. Rees at Mr. Roberts ychydig ddyddiau cyn cychwyn i'r daith hòno:—

"Liverpool, Mawrth 17, 1842.

"ANWYL GYFAILL,—Byddai yn ddymunol genyf gael llinell "oddiwrthych yn hysbysu i mi os ydych yn parhau yn eich "bwriad i fyned i Landeilo; canys fe fyddai yn ofer i mi fyned "oddiyma i'r Bala, pe na chyfarfyddwn â chwi gydâ eich ceffyl "a'ch *gig* i'm dwyn yn mhellach. Nid ydwyf yn ammeu nad

"ydych yn dal yn y bwriad o fyned; eto yr wyf yn gweled yn "fuddiol i ni ro'i gair o hysbysrwydd i'n gilydd ar y pwnc. Ac "felly yr wyf yn anfon hyn o linellau i hysbysu fy mod yn "barod i ddyfod, os ydych chwi yn barod i ddyfod gydâ mi (nid "âf heboch); a dysgwyliaf air o hysbysrwydd ar yr achos oddi- "wrthych.

"Fy mwriad yw cychwyn oddiyma ddydd Iau nesaf i'r Bala, "a'm gobaith yw y cyfarfyddaf â chwi yno. Yr wyf yn "ddigalon wrth feddwl nad oes genyf na phregethau nac ysbryd "pregethu. Pe buaswn yn llawn o hwn, ni buasai myned oddi- "yma i Landeilo yn ddim yn fy ngolwg. Ië o ran hyny o "daith, ni waeth genyf fi gychwyn o'r tŷ i Landeilo yn Sir "Gaerfyrddin, na chychwyn i *Seacombe* yn Sir Gaerlleon, lle yr "wyf yn myned heno i gadw Cyfarfod Dirwestol.

"Yr wyf fi yn awr yn darllen hanes y *Reformation*, a theith- "iau blinderog a pheryglus Luther, nes yr wyf yn cywilyddio "o'm diogi a'm moethau. Yr ydym ni yn myned i Landeilo ar "gais ein cyfeillion; ond yr oedd Luther, druan, yn gorfod "myned wrth orchymyn ei elynion. Byddwn ni yn teithio trwy "wlad gyfeillgar a diogel; ond yr oedd efe yn cael ei am- "gylchynu gan gynllwynion a brad y rhai drygionus. Yr ydym "ni yn sôn am deithio mewn *gig*; ond yr oedd tad y *Reforma-* "*tion*, y mynach tlawd, yn teithio ar ei draed. O na wisgid fi â "gronyn o'r un ysbryd!

"I mean to draw much out of you, my dear friend, on this "journey. Not a moment of the time, nor a step of the road "from Bala to Llandeilo and back again, shall pass away without "something useful under consideration. Pray, think and prepare "something for every day. What shall be the subject of our "conversation from Bala to Dolgelley, and from Dolgelley to "Machynlleth? and so on. My best regards to Mrs. Roberts, in "which Mary joins me.

"I am, dear friend, yours, HENRY REES."

Cyfarfuasant a'u gilydd yn y Bala ddydd Iau, Mawrth 17eg,

lle y pregethasant ill dau y noswaith hono. Nos Wener, yr oeddent yn Nolgelleu, ac yn Nghorris ganol dydd ar y Sadwrn. Yr oedd Mr. Roberts yn mynu pregethu yn gyntaf bob tro, ac yr oedd Mr. Rees yn dra anfoddlawn i hyny. Ond yn Machynlleth nos Sadwrn, pregethodd Mr. Rees yn gyntaf, ac a derfynodd yn fuan i roddi lle i'w hoff frawd, yr hwn nad oedd neb y byddai yn mwynhau ei weinidogaeth yn fwy. Y dydd canlynol, sef y Sabboth, yr oedd eu cyhoeddiad i fod yn y Graig am ddeg, yn y Garn am ddau, ac yn Aberystwyth am chwech. Ac ar y ffordd y boreu hwnw, pan yn agos i Gapel y Graig, dywedai Mr. Roberts yn benderfynol na phregethai efe rhagllaw, yn yr holl daith gydâg ef, ond yn gyntaf. Ceisiai Mr. Rees ei berswadio i bregethu yn gyntaf ac yn olaf bob yn ail. "Wel," ebe Mr. Roberts, "caiff y bachgen yma benderfynu yr achos hwn," gan gyfeirio at fachgenyn oedd ar y ffordd yn rhedeg yn ochr y cerbyd. "I ba le yr ewch chwi, fy machgen i?" gofynai Mr. Roberts. "I'r Capel," meddai y bachgen. "Pwy sydd yn pregethu yn y Capel heddyw?" meddai yntau. "Henry Rees o Lerpwl," oedd yr atebiad. "Beth," ebe Mr. Rees yn brysur, "ai ni chlywsoch chwi fod Mr. Roberts o Amlwch i bregethu yno hefyd?" "Do," meddai y bachgen, "mi glywais fod rhywun yn dyfod, yn gyfaill i Henry Rees." Chwarddodd Mr. Roberts yn galonog, a dywedodd wrth ei gydymaith, "Mae'r bachgen yna, fel y clywsoch, wedi *settlo'r* achos yna yn dêg; ac ofer a fydd gwastraffu dim mwy o eiriau arno."

Tra yr oedd Mr. Rees yn y gofal a'r llafur hwn gydâ'r Achos mawr yn ei amrywiol ranau, gartref ac oddicartref, fe'i taflwyd i gryn bryder, ac agos i brofedigaeth, gan amgylchiadau ereill, nad ydoedd braidd ar hyd ei oes wedi bod yn gwybod nemawr ddim am danynt, nac yn meddwl ond ychydig yn eu cylch. Y mae yn ymddangos ei fod am rai blynyddoedd ar ol ei symmudiad i Liverpool, yn teimlo ei feddwl yn hytrach yn ansefydlog gydâ golwg ar aros yn y dref. Yr oedd y galwadau a gai arno yma, yn ddibaid a diorphwys, i ryw le ac at ryw beth allan o'i fyfyrgell, ac yn fynych at bethau a olygai efe yn ddibwys iawn, yn peri

iddo deimlo fod llawer iawn o'i amser yn cael ei dreulio yn ofer, ac yn creu dymuniad ynddo am allu dianc i ryw le ag y ca'i ymwared oddiwrth y fath drafferthion, ac ychydig hamdden iddo ei hun. Yr oedd yn fynych yn ofni nad oedd y lle yn dygymmod yn dda iawn â'i iechyd, ac yn teimlo yn aml fath o hiraeth ynddo am fyw yn y wlad. Yr oedd adgofion mebyd ac ieuenctyd yn peri iddo edrych ar drin tyddyn bychan fel y bywyd dedwyddaf y gallai feddwl am dano; ac yr oedd yn tybied pe gallai sicrhau rhyw le o'r fath, y câi lawer mwy o hamdden nag oedd yn gael i ddarllen ac i astudio, a rhyddid a chyfleusdra i lafurio gydâ gwaith ei Arglwydd, yma a thraw, yn ol fel y gallai, ac y barnai yn oreu. Wedi deall am ei dueddfryd yn y cyfeiriad hwn, fe ddarfu i rai o'i gyfeillion yn Nyffryn Clwyd, er mwyn sicrhau ei drigias a'i lafur gweinidogaethol yn eu rhandir hwy, anfon ato i'w hysbysu fod fferm fechan ddymunol, gydâ phalasdŷ bychan prydferth arni, o'r enw Tŷ Gwŷn, rhyw ddwy neu dair milldir o dref Rhuthyn, i'w chael, gan fod y gŵr oedd yno yn byw,—cyfreithiwr,—yn meddwl am symmud, ac yn awyddus i osod y tir i'r neb a gytunai i gymmeryd y *stock* arno, fel yr ydoedd. Aeth Mr. Rees i weled y lle, ac yr ydoedd o ran ymddangosiad a sefyllfa ac ansawdd y tir, yn gwbl wrth fodd ei galon. Cafodd y meistr tir yn foddlawn i'r cyfnewidiad o barth tenant; ac yn lled frysiog, fel yr ydym yn tybied, efe a aeth i gytundeb â'r gŵr oedd yno yn byw, ac a gymmerodd y lle ganddo. Yr oedd hyn yn ystod yr hâf, yn y flwyddyn 1841, yn mhen ychydig amser wedi marwolaeth Mr. Elias. Pan y clybu y cyfeillion yn Liverpool am y drafodaeth hon, a'u bod yn debyg o golli Mr. Rees o'u plith, aeth yn gyffro dirfawr yn eu mysg. Nis gallent oddef y meddwl am iddo ymadael, a defnyddiasant bob moddion er ei berswadio i beidio meddwl am hyny. Ond yn anffodus, yr oedd efe wedi cymmeryd y lle, ac wedi gwneuthur cytundeb â'r gŵr oedd yno yn byw, a hwnw yn gyfreithiwr, yn nghylch y dâ a'r meddiannau a berthynent iddo. Nid oedd cyfeillion Liverpool yn gwybod yn iawn pa beth i'w wneyd. Yr oedd Cymdeithasfa

Dolgelleu i'w chynnal Medi 29 a 30, y flwyddyn hono, i'r hon y rhoddasid awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol, yr un Gymdeithasfa, fel y gwelsom eisoes, ag y trefnwyd ynddi y manylion gydâ golwg ar yr Athrofa. Yn eu penbleth, ac megis heb wybod pa beth i'w wneyd, fe anfonodd y swyddogion eglwysig yn Liverpool yr annerchiad canlynol at y Gymdeithasfa:—

"ANWYL FRODYR A THADAU, cynnulledig yn Nghymdeithasfa "Dolgelleu,—Trwy y cyfarchiad hwn o'r eiddom, yr ydym yn "ddiffuant yn cydnabod gydâ diolchgarwch eich caredigrwydd "tuag atom, yn nghyd â'ch hir ofal am yr achos yn ein plith er "dyddiau ein tadau. Ac yr ydym ar yr un pryd yn erfyn yn "ostyngedig eich nawdd i ni rhagllaw, ac na byddo dim yn cael "ei wneuthur na'i oddef genych ag a fydd yn tueddu i aflwyddo "yr Achos mawr yn y dref boblogaidd hon a'i chyffiniau. Gŵyr "y rhan fwyaf o honoch am y dechreuad bychan oedd i'r achos "yn y dref hon, ac fel y cynnyddodd Duw ef mewn amser byr, "trwy offerynoldeb ein hen dadau enwog a pharchus sydd yn "awr yn gorphwys oddiwrth eu llafur, yn nghyd â'ch cynnorthwy egnïol chwithau.

"Ar ol ymadawiad ein hanwyl dadau oddiwrthym i'r nefoedd, "buom am yspaid fel plant amddifaid, heb neb i'n harwain nac "i edrych ar ein hol. Yn yr adeg hono, wrth weled eangder a "phwysfawrawgrwydd y gwaith, a ninnau yn egwan a di"gymhorth, pwysodd yr Achos yn ddifrifol ar ein meddyliau, fel "y ceisiasom nesau at Dduw i ofyn ganddo ef ŵr a elai i mewn "ac allan o flaen ei lïosog bobl yn y lle hwn, ac i fod megis "llygad i ni. Mewn modd arbenig ac annisgwyliadwy, fe "atebwyd ein gweddïau. Yn ei foddlonrwydd, anfonodd yr "Arglwydd ein hanwyl a'n parchedig frawd, a'r gweinidog "ffyddlon, Henry Rees, atom. Wedi ei ddyfodiad ef atom, "cawsom ein cysuro yn ddirfawr ar ol ein hanwyl dadau "trancedig. Gwelsom yn fuan fod Duw yn gofalu am danom, "ac am yr Achos yn ein plith. Trwy ei lafur ef yn benaf, y mae "llwyddiant annghyffredinol wedi bod, ac felly yn parhau, ar yr

"Achos. Yn ysbaid yr amser byr y mae efe wedi bod gydâ ni, "adeiladwyd yma bedwar o Gapeli newyddion, a helaethwyd un "arall; y mae rhai cannoedd o eneidiau wedi eu chwanegu at yr "eglwys, y casgliadau at yr amrywiol achosion crefyddol ac "elusengar yn mwyhâu bob blwyddyn, a'r gwrandaẅwyr yn "llïosogi. Gydâ golwg ar y llwyddiant cyffredinol hwn, antur-"iasom ar orchwylion pwysig a thrymion iawn, a hyny gydâ "gradd o galondid lled helaeth, sef, fel y crybwyllwyd, trwy "adeiladu ac ail-adeiladu lleoedd o addoliad, fel ag y mae'r baich "yn drwm—dim llai nag oddeutu wyth mil o bunnoedd.

"Yn awr, mae yn rhaid i ni adrodd ein cŵyn galarus wrthych, "gan hysbysu i chwi fod rhyw ddynion wedi bod mor ëon ac "angharedig â cheisio trwy bob dyfais aflonyddu meddwl y "gŵr enwog hwn i Dduw, ein brawd a'n hanwyl weinidog, "Henry Rees, yr hwn sydd megis anadl ein ffroenau a chanwyll "ein llygaid. Nid yw'r gwŷr yma, yn ddiau, yn ystyried lles "cyffredinol ein cyd-bechaduriaid, na llesâd yr eglwys chwaith, "trwy geisio denu ein brawd atynt eu hunain. Fe ymddengys "hyn ond i chwi fwrw golwg ar eangder maes llafur y brawd, "yn y lle hwn, ragor mewn un man yn Nghymru. Pa le y ceir "cynnifer o filoedd i'w wrando bob Sabboth ag a geir yma? Pa "le y ceir eglwys mor lïosog ei haelodau i'w bugeilio a'u porthi "ag a geir yn Liverpool. Heblaw hyn, y mae yr anturiaeth "fawr a nodwyd wedi ei sylfaenu i raddau helaeth mewn ym-"ddibyniad ar arosiad ein brawd gydâ ni. Hefyd, nid ydym yn "llyffetheirio y gŵr rhag i chwi oll yn Nghymru gael ei was-"anaeth yn ol ei allu. Y mae efe gydâ chwi yn eich Cym-"deithasfäoedd Chwarterol, ac yn fynych yn teithio mewn rhyw "ran neu gilydd o'r Dalaeth; ac yr ydym bob amser yn ei annog "i hyn; ac y mae yn hawdd i bawb ddeall fod Liverpool mor "gyfleus iddo ef i fyw, ac felly i fod yn wasanaethgar i'r "holl Gorph, ïe, yn fwy felly na phe byddai byw yn un man "yn Nghymru. Paham gan hyny, y goddefir aflonyddu ein "heddwch—y goddefir drygu yr Achos Mawr yn Liverpool, gan "i'r Arglwydd ei lwyddo? Gwylied y dynion hyny sydd yn

"amcanu dwyn ein brawd oddiarnom, dynu y brawd o'i le ei "hun, drygu yr eglwys, a thrwy hyny dynu arnynt anfoddlon- "rwydd Arglwydd y winllan.

"Yr ydym yn awr yn taer erfyn arnoch na chyd-weithredoch "â'r gwŷr sydd yn y gwaith o ddenu ein brawd, y Parch. Henry "Rees, i fyw i ryw fan a ddewisant hwy iddo ef. Y mae'r "brawd yn foddlawn i aros gydâ ni pe caffai lonydd, a'i briod "yn dra anfoddlawn iddo fyned oddiwrthym; y mae yr holl "eglwys o un galon yn galw yn uchel am ei arosiad, a'r mil- "oedd a'r filoedd a fydd yn ei wrando yn codi eu llef yn un "llais am ei arosiad; ac felly ninnau fel pregethwyr a henuriaid. "A chofiwch, hefyd, eich bod wedi gosod Manchester yn un â ni "yn awr; ac felly bydd y dref fawr hono yn yr un aflwydd a "ninnau, os goddefwch i'r brawd gael ei symmud oddiyma. "Felly gadawn ein cwyn pwysig, yn herwydd parhâd llwydd- "iant teyrnas Crist yn ein plith, i'ch ystyriaeth bwyllog. Gan "ddymuno ar i'r Arglwydd eich cyfarwyddo yn mhob dim, y "terfyna eich annheilwng frodyr yn yr Arglwydd,

"John Hughes, Samuel Jones, Peter Jones, William Jones, Rice "Price, Richard Roberts, David Roberts, Thomas Jones, "John Roberts, Owen Elias, David Williams, Edward "Morris, Blaenoriaid;

"John Hughes, Richard Williams, Gweinidogion; John Roberts, "Pregethwr.

"Liverpool, Medi 25, 1841."

O.Y.—"Gan y bu amheuaeth mewn perthynas i iechyd Mr. Rees, aeth efe a brawd gydâg ef, at un o'r physygwyr mwyaf medrus yn y dref, i ofyn ei farn am yr achos yma. Barn y gŵr enwog hwn yw, fod Mr. Rees yn iach, a bod cyffiniau y dref hon yn llawn mor fanteisiol iddo i fyw ag un man er mwyn ei iechyd rhagllaw."

Nid oedd Mr. Rees yn foddlawn i'r achos hwn gael ei ddwyn o flaen sylw Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid yn gyff-

redinol yn y Gymdeithasfa, gan y buasai hyny, yn ei fryd ef, yn rhoddi gormod o bwys ar fater personol a llëol; ac ar yr un pryd yr oedd yn teimlo y buasai yn dda ganddo glywed syniad pwyllog brodyr o farn a dylanwad, yn yr amrywiol Siroedd, yn nghylch yr hyn a ddylasai wneuthur; ac felly pennodwyd Cyfeisteddfod neillduol yn Nolgellcu i gyfarfod ar yr achos. Y brodyr a bennodwyd oeddent y Parchedigion John Hughes, Pontrobert; Robert Griffiths, Dolgelleu; Richard Humphreys, Dyffryn; Lewis Edwards, M.A., a Lewis Jones, Bala; Daniel Evans, Harlech; Foulk Evans, Machynlleth; Lewis Morris; Owen Jones, Four Crosses; Robert Williams, Llanuwchllyn; John Phillips, Bangor; ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa: a Meistri William Williams, Dolgelleu; Humphrey Davies, Corris; Ebenezer Roberts, Crug; John Jones, Beddgelert; William Jones, Llanrwst; Owen Williams, Clawddnewydd; Thomas Evans, Maesycoed; William Lloyd, Llanwyddelen; a John F. Jones, Machynlleth. Yr oedd Mr. David Williams o eglwys Pall Mall, Liverpool, yn bresennol dros y brodyr yno. Wedi darllen y llythyr o Liverpool, eglurodd Mr. Rees, a rhai brodyr ereill, mai nid teimladau "anngharedig" at Liverpool, fel yr awgrymai y llythyr oddiyno, oedd wedi peri i neb ei annog ef i fyned i fyw i'r wlad; ond gan ystyried y teimlad dwfn oedd yn ffynu yn Liverpool rhag ofn ei golli ef oddiyno, yr oedd y Cyfeisteddfod yn barnu y gallesid yn hawdd esgusodi rhai o'r ymadroddion cryfion a ddefnyddid yn y llythyr. Wedi ystyried yr holl amgylchiadau, tueddid y brodyr i gynghori Mr. Rees i aros yn Liverpool, o leiaf am rai blynyddoedd yn mhellach; gwelid fod ei ddefnyddioldeb mawr yno, a'r gafael oedd yno ynddo, yn profi nad diberygl i'r Achos yn y lle a fuasai iddo, y pryd hyny, ymadael.

Ond, erbyn hyn, yr oedd annghysur o'r ochr arall yn cyfarfod â Mr. Rees. Tra yr oedd efe ei hunan yn hytrach yn petruso yn nghylch yr hyn a ddylasai wneuthur, er, ar y cwbl yn tueddu at ymadael, efe a gafodd allan fod y cytundeb a wnaethai â'r cyfreithiwr oedd yn byw yn y Tŷ Gwŷn, yn un

tra anffafriol a cholledus iddo; ac nid oedd y gŵr hwnw am newid dim oddiwrth yr hyn a ysgrifenasid. Yr oedd pethau mewn gwirionedd yn troi allan yn hollol wahanol i'r hyn a ddysgwyliasai Mr. Rees; ac yr oedd yn awr yn ei gael ei hunan mewn amgylchiad newydd a chwbl ddieithr iddo. Yr oedd profedigaeth oddiwrth ymdrin â'r byd yn rhywbeth anadnabyddus iddo ef erioed o'r blaen; ond dyma y brofedigaeth hono yn awr wedi dyfod ar ei warthaf. Fe fu ei hen gyfaill, Mr. William Lloyd, wedi hyny cyfreithiwr, Rhuthyn, yn gynnorthwyol iawn iddo ar yr achlysur hwn, ac felly hefyd rhai o'i gyfeillion craffus yn Liverpool. Nis gallwn wneuthur yn well na rhoddi yma ranau o'i lythyrau at Mr. Lloyd yn yr amser hwnw.

"Liverpool, Hydref 27, 1841.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am "ysgrifenu ataf, canys yr oedd fy meddyliau yn dra phryderus "yn nghylch y *farm*, byth wedi i fy ngwraig ddyfod adref. "Yr wyf yn gweled fy hun wedi fy '*maglu â geiriau* fy "ngenau,' pan lawnodais y cytundeb. . . . . . . . . . . Ond nid "wyf yn dweyd hyn mewn ffordd o gŵyno: eithr yr wyf wedi "fy argyhoeddi yn fwy nag o'r blaen nad ydwyf gymhwys i "drin y byd; ac yr wyf yn gwybod yn awr trwy brofiad, fod "pryder a gofal yn nghylch pethau bydol, yn niwed mawr i "feddwl pregethwr. Byddaf yn cychwyn yr wythnos nesaf "i gyhoeddiad i Sir Drefaldwyn, dan faich mwy gorthrwm nag "a deimlais erioed oddiwrth y byd. Ac nid oedd gwir angen-"rheidrwydd arnaf ymyraeth â'r byd; canys mi a allaswn gael "tamaid heb hyny, os buasai fy iechyd yn fy ngorfodogi i adael "Liverpool. Yr wyf yn ofni, o'r dechreu, rhag fy mod wedi "pechu yn erbyn yr Arglwydd, a fy mod yn tynu fy nheulu i "brofedigaeth, ac yn debyg o'u drygu yn fawr yn eu hamgylch-"iadau, wrth ymyraeth â pheth nas galiaf ei drin i ateb diben. "Yr wyf yn ofni fy mod yn rhy isel fy meddyliau i drin y byd; "yr wyf yn myned yn fwy felly wrth heneiddio; ac yr wyf yn "perthyn i deulu felly hefyd. . . . . . . . . ."

Eto: "Liverpool, Tachwedd 30, 1841.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf yn teimlo y diolchgarwch mwyaf "diffuant i chwi am eich caredigrwydd i mi yn yr amgylchiadau "hyn; nis gallaf ei annghofio, a bydd yn dda genyf os gallaf "rywdro ei ad-dalu i chwi drachefn. . . . . . . . . . .

"Mae ofn yr holl drafferthion hyn yn fy llwfrhâu, er nad "ydynt ddim i ddynion cynefin â'r byd. Cofiwch fi yn y modd "mwyaf caredig at y brodyr sy'n trafferthu gydâ'm hachos. Ni "fynwn eu rhwymo hwynt i'r peth ag y maent hwy yn barod "i'w rhwymo eu hunain. Dylwn ddwyn fy maich fy hun. Ac "am i neb fyned i'm hanrhegu ar fy nyfodiad i'r ardal, er fy "mod yn llawenychu fod y fath agosrwydd ataf, abwydyn "diwerth, ag a genhedlai y meddwl am y fath beth yn mynwes "neb o'm brodyr, eto nid yw fy amgylchiadau yn galw am y "cyfryw garedigrwydd, ac nid wyf wedi gwneyd dim i'w deil-"yngu, nac yn debyg o allu gwneyd hyny ychwaith. Ac nid "wyf yn disgwyl am ddim o'r fath beth mewn un modd. Y "cwbl yr wyf yn ei ddymuno gan fy mrodyr yw, rhoddi barn a "chyngor diduedd yn yr achos, heb adael i'w hawydd am fy "nghael i'r ardal beri iddynt beidio edrych yn onest ar yr holl "achos, a dyweyd yn onest yn ol a dybiont am y canlyniadau.

"Onid wyf, yn eu barn hwy, yn greadur rhy ddigalon i "*ffarmio?* Onid yw yr *outlay* yn fawr? ac os rhoddaf y fath "swm allan, onid yw y gobaith y gall y fath ffarmwr â myfi ei "gael byth yn ol o'r ffarm yn fychan iawn? Uwchlaw'r cwbl, "onid wyf yn debyg o dynu baich arnaf, *a fydd yn debyg iawn* "*o'm rhwystro yn mhrif ac* UNIG ORCHWYL FY MYWYD? Fy "ngobaith i wrth feddwl am ffarm oedd, cymhwyso fy nghorph "a'm meddwl i lafurio yn fwy yn ngwinllan fy Arglwydd, a "gwneyd fy hun yn galed i ddilyn Corph y Methodistiaid. Ond "wedi cael hyn o *dreial*, yr wyf yn teimlo fy hun yn digaloni. "Mae fy anwybodaeth a'm dieithrwch i drin y byd yn fy "annghymhwyso yn fawr. Byddai raid i mi adael llawer ar "bobl ereill; ac os byddent yn anffyddlawn, gallent ddrygu "llawer arnaf. Cofiwch fi at———; a thra bo'r ffarm yn fy

"meddiant i, dywedwch wrtho fy mod yn dysgwyl y gwna yn "fy absennoldeb fel yn fy ngŵydd: canys nid un yn gwasan-"aethu â llygad-wasanaeth fel boddlonwr dynion yw efe, yr wyf "yn coelio, ond fel gwas Crist yn gwneuthur ewyllys Duw o'r "galon. . . . . . . . . .

"Yr wyf yn arswydo pechu fel y crybwyllwch, ac wedi rho'i "fy hun, a'r achos hwn, i law yr Arglwydd. O na phenderfynai "efe drosof yn hyn, heb ymgynghori â'm doethineb, na'm tuedd, "na'm hewyllys i, greadur ffol ac anwadal! Fe ddichon, os bydd "rhyw ddrws annisgwyliadwy, esmwyth ac anrhydeddus, i'w "rhoi i fynu yn agoryd, y bydd hyny yn awgrym mai dyna yw "ewyllys yr Arglwydd, a'i fod yn ateb fy ngweddïau gwael. "Ond os ymddengys mai i mi ddyfod yw ei ewyllys ef, ni "phetrusaf wedi cael sicrwydd am hyny.

"Mae M——— yn cofio atoch chwi a Mrs. Lloyd, ac yn cofio "eich caredigrwydd. H. REES."

Mae yn ddiau fod y darllenydd wedi sylwi ar un frawddeg fynegiadol iawn o eiddo Mr. Rees, yn y llythyr blaenorol, lle y mae yn gofyn gydâ golwg ar yr anturiaeth o fyned i drin tir ac i ymwneyd rhyw gymmaint â'r byd,—"Onid wyf yn debyg o dynu baich arnaf, *a fydd yn debyg iawn o'm rhwystro yn mhrif ac* UNIG ORCHWYL FY MYWYD?" Dyna yr agoriad ar ei lwyr-ymroddiad ef i weinidogaeth yr efengyl, a'i ragoriaeth arbenig ynddi; yr oedd yn edrych ar y weinidogaeth yn "brif ac unig orchwyl ei fywyd." Pan yn sylwi unwaith mewn Cymdeithasfa, yn nghyfarfod y pregethwyr, ar urddas a phwysfawrawgrwydd y weinidogaeth, dywedai y dymunai yn fawr allu ei hunan, a gweled ei holl frodyr yn gallu hefyd, ddwyn pob peth dan ddarostyngiad iddi hi. "Y mae y nifer mwyaf o honom," meddai, ac felly yr oedd y pryd hyny, "yn gorfod ymwneyd â'r byd, a dilyn rhyw alwedigaeth neu gilydd tuag at ein cynhaliaeth, a'n perygl ni oddiwrth hyny yw, myned dan lywodraeth ysbryd y byd, a cholli ysbryd y weinidogaeth; ac y mae y perygl hwnw yn fwy yn y dyddiau hyn, pan y mae y fath gyd-

ymgais yn mhob cangen o fasnach; a dynion cydwybodol i waith eu swydd, ac yn rhoddi iddo y rhan fwyaf o'u hamser, yn gorfod cydymgais â dynion heb ganddynt ddim i feddwl am dano, o leiaf nad ydynt yn ymddangos yn meddwl am odid ddim, ond pa fodd i wneyd eu goreu gydâ'r byd. Y mae yn bosibl, ac y mae perygl i'r pregethwr fyned dan lywodraeth yr un ysbryd: ac nid oes dim a'i ceidw rhag hyny, ond cysegredigaeth hollol i'r efengyl, fel ag y byddo, yn benaf oll, yn cael ei adnabod fel gweinidog i Iesu Grist. Nid felly y mae bob amser. Pan y gofynir am ambell un, Pa fath un ydyw? yr ateb a fydd. masnachwr ydyw; neu amaethwr ydyw; neu un yn dilyn rhyw alwedigaeth neillduol; ond fe fydd yn arfer pregethu yma a thraw ar y Sabbothau. Ond pan y gofynir am un arall, yr ateb a fydd—'y mae yn gorfod trin tir; neu gàdw *shop;* ond pregethwr yw efe; gweinidog i Grist mewn gwirionedd; a gresyn mawr fod yn rhaid iddo fod gydâg un peth ond gwaith ei Arglwydd.' Pa bryd y daw yr eglwysi, trwy y wlad yn gyffredin, i ymdeimlo â'u rhwymedigaethau tuag at y weinidogaeth, nid wyf yn gwybod. Yn araf iawn yn ddiammeu y deuant. Ond gadewch i ni ymdeimlo â'r eiddom ni, a phrofi ein hunain, hyd ag y gallwn, yn deilwng o'r ymddiried a roddwyd i ni." Dyna yr ysbryd a lywodraethai Mr. Rees; a phe buasai yn gadael Liverpool, ac yn ymaflyd mewn amaethyddiaeth yn Nyffryn Clwyd, nid ydym yn tybied y buasai yn ennill enw mawr iddo ei hun fel amaethydd, ond y buasai yn parhau yn bregethwr mawr, ac yn adnabyddus i bawb megis gŵr Duw. Ond ni welodd ei Feistr mawr yn dda adael iddo fyned odditan y prawf,—pa beth a wnaethai yn wyneb y fath amgylchiadau.

Wedi amryw wythnosau o bryder ac annghysur meddwl, efe a gafodd, yn Rhagluniaethol iawn, ymwared oddiwrth y baich ag oedd mor boenus iddo. Daeth amaethwr cyfrifol, a hwnw yn frawd crefyddol, yn mlaen i gymmeryd y lle; ac ni chafodd Mr. Rees yn y diwedd nemawr, os dim colled, oddiwrth yr helynt hwn. Mewn llythyr at Mr. Lloyd, dyddiedig Rhagfyr 13, 1841, efe a ddywed, "Byddai yn dda genyf i H. J. gael y ffarm

Os bydd ef yn ei chael, hyderaf y bydd pob peth yn cael ei ddeall yn eglur, oblegyd y mae arnaf ofn profedigaeth eto. . . . . . . . Yr wyf eto yn diolch i chwi am eich holl drafferth yn yr amgylchiad hwn. Nid yw fy nghorph ond egwan a llesg. Os bydd fy iechyd yn fy ngorfodi i ymadael â Liverpool ryw dro, byddaf yn debyg o gofio am Ruthyn, neu ryw le ar Ddyffryn Clwyd. Ond peidiwch a sôn am hyny yn awr."

Gadawsom allan o'r llythyrau yr holl gyfeiriadau at y pethau personol a neillduol yn amgylchiadau y drafodaeth, na buasent o unrhyw ddyddordeb i'r darllenydd. Cafodd Mr. Rees rai gohebiaethau ar yr achos, annheg a haerllug iawn, y rhai a ddolurient gryn lawer ar ei feddwl ar y pryd, ac a barent iddo ofidio yn fawr ei fod erioed wedi ymyryd â dim a allasai fod yn achlysur i'r fath deimladau. Eithr fe'i cadwyd ef yr holl amser, ac yn ngwyneb pob peth a ddywedid neu a ysgrifenid, heb golli dim yn ei dymher na'i ysbryd, ac heb ddywedyd na gwneuthur dim i beri unrhyw archoll i'w gydwybod ei hunan. Ac yr oedd ei Dad nefol megis yn gweled ei fod o deimlad rhy dyner i'w adael yn hir i ymguro âg ystormydd o'r fath, ac felly fe roddes iddo, yn hytrach yn gynt nag yr oedd yn gobeithio, "gydâ'r demtasiwn ddiangfa hefyd." Cafodd ei ryddhau yn y modd mwyaf anrhydeddus ac esmwyth oddiwrth y cytundeb anffodus a wnelsid yn rhy fyrbwyll ganddo. Ac felly fe roddes i fynu yn hollol y bwriad i adael Liverpool, ac addawodd i'r cyfeillion yno yr arhosai gydâ hwynt megis ag o'r blaen, tra y byddai ei iechyd yn caniatau. Ac er taflu llygad hiraethus fwy nag unwaith tua'r hen wlad, parhau i aros yn Liverpool a wnaeth; gan fyned o wythnos i wythnos yn ddyfnach ddyfnach yn serchiadau y cynnulleidfäoedd, ac yn fwy-fwy cymmeradwy a bendithiol yn ei weinidogaeth, hyd nes y daeth ei Arglwydd, yn llawer iawn rhy fuan fel y tybiem ni, i'w gymmeryd ato ei hun.

# PENNOD X.

*O Agoriad Athrofa Trefecca, hyd y cyffro mawr yn nghylch Addysg Ddyddiol:*—1842—1847.

Y DEHEUDIR YN SEFYDLU ATHROFA YN NHREFECCA—CAIS I GAEL UN O'R ATHRAWON O'R BALA I FYNED YNO—Y GOGLEDD YN GADAEL Y CWESTIWN I'W BENDERFYNU GAN YR ATHRAWON EU HUNAIN—MR. CHARLES YN MYNED—AGORIAD TREFECCA—LLAFUR MAWR MR. REES GYDA'R ACHOS CENHADOL—YMWELIAD ODDIWRTH Y PRESBYTERIAID A CHYMDEITHASFA Y BALA—MARWOLAETHAU Y PARCH. RICHARD WILLIAMS A'R PARCH. JENKIN DAVIES—LLYTHYR AT Y PARCH. JOHN JONES, LLANBEDR—ARAETH AR NATUR EGLWYS YN Y BALA, 1843—FFURFIAD YR EGLWYS RYDD—MYNED I LUNDAIN AT Y PASG, 1844—LLYTHYRAU AT MR. EDWARDS Y BALA—Y CYNGHRAIR EFENGYLAIDD—CYMDEITHASFA BANGOR—ARAETH AR UNDEB CRISTIONOGOL—ACHOS POENUS YN NGLYN A'R GENHADAETH—CYNGOR Y CYFARFOD ORDEINIO YN Y BALA, 1845—CYNNADLEDD YN LIVERPOOL—ERTHYGL I'R TRAETHODYDD—MARWOLAETH Y PARCH. JOHN PARRY, CAERLLEON—SYLWADAU ARNO—DYLEDION EIN CAPELAU—RHEOLAU NEWYDDION GYDA GOLWG AR ADEILADU—YMDRECHION MAWRION I LEIHAU Y DDYLED—PETHAU YN RADDOL YN SYRTHIO MEGIS O'R BLAEN—MESUR Y LLYWODRAETH GYDA GOLWG AR ADDYSG DDYDDIOL—CYFFRO DIRFAWR YN Y DEYRNAS—MR REES YN TEIMLO YN DDWYS YN YR ACHOS—PRYDER MAWR GYDA GOLWG AR GYMRU—LLYTHYRAU AT MR. ROBERTS, AMLWCH, A MR. HUGHES, ABERGELE.

YR ydym, yn y pennodau blaenorol, wedi gweled Mr. Rees yn cynnyddu o flwyddyn i flwyddyn, hyd nes y mae yn awr wedi cyrhaedd y safle uchaf a pharchedicaf oedd yn bosibl iddo yn y Cyfundeb i'r hwn y perthynai, a chael ei gydnabod yn gyffred-

inol fel y prif arweinydd iddo yn Ngogledd Cymru. Nid yw y defnyddiau genym a'n galluogent i fyned rhagom gydâ'r un manylder yn ei hanes, ac yn yr un dull, am y gweddill o'i oes, ac nid ydym yn tybied y byddai hyny yn ddymunol. Felly ni bydd i ni ymgais at hyny. Yr un pryd yr oedd iddo ef, erbyn hyn, law mor arbenig yn yr amrywiol ysgogiadau yn ein plith fel Cyfundeb, fel y mae ei hanes ef, i fesur mawr, yn gymhlethedig â'u hanes hwynt; a chan belled a hyny y mae yn rhaid iddynt gael ein sylw.

Un o'r pethau ag oedd yn peri y pryder mwyaf yn ein plith y blynyddoedd hyny oedd yr Athrofa. Wedi methu penderfynu ar unrhyw le canolog, y gallasai Deheu a Gogledd gyd-gyfarfod ynddo, a chael un Athrofa i'r holl Gyfundeb, fe benderfynwyd cael dwy,—y Gogledd yn cadw at yr un ag oedd er ys rhai blynyddoedd wedi cychwyn yn y Bala, a'r Deheu yn agor un newydd iddynt eu hunain, yn yr hen adeilad yn Nhrefecca. Gydâ golwg ar yr Athrofa yn y Gogledd, yr oedd y penderfyniad y daethpwyd iddo yn ymddangos yn gwbl foddlonol i'r amrywiol Siroedd;—y ddau Athraw yn dechreu gweithio yn egnïol dan y trefniad newydd, nifer yr efrydwyr yn cynnyddu, a'r sefydliad yn edrych yn hytrach yn fwy gobeithiol nag y buasai braidd o'i ddechreuad. Eithr yr oedd ein brodyr yn y Deheudir, erbyn hyn, yn barod i agor eu Hathrofa hwythau yn Nhrefecca. Yr oedd y tŷ wedi ei adgyweirio; cryn swm o arian mewn llaw at gynhaliaeth yr Athrofa; pregethwyr ieuainc braidd yn mhob Sir yn barod i ddyfod i mewn iddi;—nid oedd dim yn eisiau ond Athraw; nid oedd hwnw ganddynt, nac mewn golwg. Yn eu cyfyngder hwn, pa beth a wnaethant ond penderfynu anfon at eu brodyr yn y Gogledd, i ddeisyf arnynt, yn y modd taeraf, ganiatau i un o'u Hathrawon hwy yn y Bala, os llwyddent gydâg ef, ddyfod trosodd i'w gwasanaethu hwy. Anfonasant at yr Athrawon yn y Bala i'w hysbysu pa fodd yr oedd pethau yn bod, ac am eu bwriad i anfon deisyfiad at Gymdeithasfa y Gogledd, am iddynt ollwng un o honynt hwy yn rhydd i ddyfod atynt hwy, ac i gymmeryd Llywyddiaeth yr

Athrofa yn Nhrefecca; a'u bod yn dra hyderus, yn wyneb yr amgylchiadau, y cydsyniai y cyfeillion yn y Gogledd â'u cais; a'u bod yn gobeithio yn fawr hefyd y byddai y naill neu y llall o honynt hwythau yn barod i ddyfod. Y mae yn ymddangos fod y ddau Athraw, yn yr atebion a anfonwyd ganddynt hwy i gyfeillion y Deheu, yn eu gadael eu hunain yn gwbl yn nwylaw Cymdeithasfa y Gogledd, ond fod Mr. Charles, ac ystyried pob peth, yn hytrach yn arwyddo dymuniad am fyned. Fe ddaeth y cais, mewn llythyr caredig oddiwrth Gymdeithasfa y Deheu, at y brodyr cynnulledig yn Nghymdeithasfa Machynlleth, Ebrill 28, 29, 1842. Wedi sefyll yn bwyllog am gryn amser uwch ben yr achos, teimlad pawb oedd, fod y cais yn un mor bwysig fel y dymunent gael ychwaneg o amser i'w ystyried, cyn dyfod i un penderfyniad gorphenol arno. Nid oedd neb yn ewyllysgar i golli yr un o'r ddau Athraw o'r Bala; ac eto, o'r tu arall, yr oedd pawb yn cyd-olygu fod meithrin a chadw undeb rhwng y ddwy Gymdeithasfa, a rhwng y Cyfundeb trwy holl Gymru, yn beth o gymmaint pwys fel y dylent fod yn barod i wneuthur pob peth a allent er ei sicrhau. Yn yr ymddyddan am hyn, fe adroddodd un hen flaenor, gydâ chryn lawer o deimlad, ac yn dra effeithiol, eiriau Ioan Fedyddiwr, yn atebiad i'r bobloedd a ofynent iddo pa beth oeddent i'w wneuthur:—"Y neb sydd ganddo ddwy bais, rhodded i'r neb sydd heb yr un; a'r neb sydd ganddo fwyd, gwnaed yr un modd." Yn lle dyfod i unrhyw benderfyniad yn Machynlleth, fe ohiriwyd yr achos hyd y Gymdeithasfa ganlynol, yr hon oedd i'w chynnal yn y Bala yn Mehefin.

Yr oedd Mr. Rees yn myned o'r Gymdeithasfa yn Machynlleth at y Sabboth canlynol, Mai 1, i'r Amwythig, i'w Cyfarfod Blynyddol hwy yno; ac oddiyno, drannoeth, efe a anfonodd y llythyr canlynol at Mr. Edwards i'r Bala:

"Amwythig, Mai 2, 1842.

"Anwyl Gyfaill,—. . . . . . . . . . Clywsoch cyn hyn y "mae yn ddiammeu genyf, fod yr ystyriaeth am gais y Dê am

"un o honoch chwi i Drefecca wedi ei gohirio hyd y Bala. "Cymmerais yr hyfdra o ddarllen llythyr Mr. Charles ger bron "y Bwrdd, er mwyn i'r cyfeillion wybod ei deimladau; a "hyderaf na thramgwydda wrthyf. Yr oedd bron bawb yn "anewyllysgar i'w ollwng ef o'r Gogledd; ac y mae yn dda "genyf ei fod wedi gwreiddio yn serchiadau y cyfeillion; ac yr "wyf hefyd mor anmharod i ymadael âg ef â neb yn Ngogledd "Cymru. Eto, wrth ystyried pob peth, nis gallaf lai na meddwl, "os bydd y Dê yn parhau yn eu cais, nad doethineb y Gogledd "a fyddai cydsynio, yn enwedig os bydd meddwl Mr. a Mrs. "Charles eu hunain yn addfedu at hyny. Heb hyny, ni fynwn "eu gweled yn myned.

"Yr ydych chwi yn bur dda fod yn barod i fyned i Drefecca "os gelwir arnoch. Beth yw gallu a chymhwysderau y naill "neu y llall o honoch i addysgu dynion ieuainc, nis gwn i; eich "canmawl eich dau a glywais; ac y mae'r sôn am symmud Mr. "Charles wedi dwyn mwy o'i glod i'm clustiau yn ddiweddar. "Ond o'm rhan fy hun, a dyweyd y gwir yn onest i chwi, yr "wyf yn meddwl y gwnai efe yn well yn y Dê na chwi, a "hwyrach y gwnaech chwithau yn well yn y Gogledd nag "yntau, fel y dywedais yn fy llythyr ato ef. Beth bynnag, mi "fyddwn i yn bur foddlawn ar hyny o ddaioni a fedrwch chwi "ei wneuthur eich hunan, a gollwng Mr. Charles i'r Dê am dro, "pe ba'i ef ei hun yn foddlawn i fyned, ac os gellid, trwy hyny, "gadw heddwch ac undeb yn ein mysg. Pe meddyliai Mr. "Charles wrth hyn fy mod yn barod i ymadael âg ef, ac yn "ddibris o'i dalentau, gallaf sicrhau y byddai yn cyfeiliorni yn "fawr, ac yn camgymmeryd yn hollol yn nghylch y pethau sydd "yn fy nghymhell i siarad fel hyn. Er hyny yr wyf yn gweled "fy hun yn teilyngu cerydd am ymyraeth cymmaint â'r mater. "Ond anesmwyth wyf, a methu gwybod beth a ddaw o'r "Methodistiaid hefo eu tlodi, eu hannghydfod, a'u hanturiaethau. "Ac, yn wir, yr wyf yn ofni fod llawer o honynt hwy eu hunain "heb ystyried. . . . . . . Cofiwch fi at Mr. Charles. Gobeithio "na wnaethum yn feius ddarllen ei lythyr i'r Bwrdd, er nad

"oedd efe wedi ei ysgrifenu ato. Yr achos i mi ysgrifenu hyn "oedd, teimlo yn anesmwyth rhag fy mod wedi eich blino eich "dau yn hyn.

"Eich gwael gyfaill, HENRY REES."

Erbyn i Gymdeithasfa y Bala ddyfod, Mehefin 8, 9, 1842, yr oedd meddwl Mr. Charles yn gogwyddo cymmaint yn mhlaid myned i Drefecca, fel yr hysbysodd hyny i'r Bwrdd oedd yn ymdrin âg achos yr Athrofa, ac anfonwyd y mynegiad canlynol o'r Gymdeithasfa hòno at Gyfeisteddfod Athrofa Trefecca:—

"Bu y cais am un o'r ddau Athraw sydd yn llywyddu ein Sefydliad Athrofäol yn y Gogledd o dan sylw difrifol Bwrdd y Gymdeithasfa yn Nghymmanfa ddiweddaf y Bala, pan y deuwyd i'r penderfyniad,—'Fod y Cyfeisteddfod hwn, er mwyn cyfarfod â'n brodyr yn y Deheubarth hyd ag y gellir, ac er mwyn undeb a chydweithrediad rhagllaw, yn foddlawn i Gyfeisteddfod Athrofa Trefecca ymohebu â'r Parch. David Charles yn yr achos; ac os gallant hwy sefydlu ar delerau boddhäol i'w gilydd, na ddyry Bwrdd Cymdeithasfa y Gogledd un rhwystr iddynt i ddwyn hyny i weithrediad. Wrth wneuthur yr ysgogiad hwn, dymuna y Cyfeisteddfod yn y Gogledd hysbysu i'w brodyr yn y Deheu, fod yr Athrofa, fel y mae yn y Bala, yn myned yn mlaen yn siriol a llwyddiannus, a gafael y Gogledd yn mhob un o'r Athrawon yn cryfhau, ac na fuasent foddlawn ar un cyfrif i ollwng yr un o'r ddau Athraw ymaith, oni b'ai teimlad cryf o ddymunoldeb brawdgarwch ac undeb rhwng y ddwy Gymdeithasfa a'u gilydd. Y mae eu hymlyniad wrth Mr. Charles fel brawd, a'u parch iddo fel Athraw, yn fawr a chynnyddol; ond yr oeddent yn hyfach o beth i'w enwi ef, gan mai efe yw yr ieuengaf o'r ddau Athraw, a chan ddysgwyl y bydd i ŵr o'r Gogledd fod yn Athraw yn y Dê, a gŵr o'r Dê fod yn Athraw yn y Gogledd, yn foddion i gydio Dê a Gogledd yn fwy yn nghyd, a chan gofio hefyd mai o'r Deheudir y cafodd y Gogledd ei enwog a'i ddefnyddiol daid, y diweddar Barch. Thomas Charles."

Yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 7, 8, 1842, fe ddarllenwyd llythyr oddiwrth Mr. Charles yn hysbysu ei fod wedi dyfod i gytundeb â'r cyfeillion yn y Deheu i fod yn Athraw yn Nhrefecca, pryd y cynnygiwyd y penderfyniad canlynol gan Mr. Rees, â'r hwn y cytunwyd yn unfrydol:—

"Fod Cymdeithasfa y Gogledd yn cydnabod yn ddiolchgar wasanaeth ffyddlawn y Parch. David Charles, fel Athraw yn ein Hathrofa er ei sefydliad, ac yn dymuno datgan eu parch iddo, a'u serchawgrwydd ato, fel brawd a gweinidog, ar ei ymadawiad i lywyddu Athrofa eu brodyr yn y Deheubarth. Tra y mae yn ddrwg genym ei golli ef o'n mysg, yr ydym yn llawenychu yn y gobaith y bydd ei fynediad i Drefecca yn cadarnhau yr undeb rhwng y ddwy Gymdeithasfa: a'n gweddi ydyw am i'w symmudiad fod, dan fendith y Goruchaf, er cysur iddo ei hun, ac er defnyddioldeb i'r Achos mawr."

Ac ar y seithfed o'r mis canlynol (Hydref), fe agorwyd Athrofa Trefecca, mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa Chwarterol a gynhelid y dyddiau blaenorol yn Nhalgarth. Yr oedd Mr. Rees a Mr. Edwards o'r Bala, yn yr agoriad hwnw, yn cynnrychioli Cymdeithasfa y Gogledd. Yr oedd yn llawenydd mawr i Mr. Rees, fel ag yr ydoedd i'n dynion goreu trwy yr holl Gyfundeb, fod cwestiwn ein Hathrofëydd wedi ei derfynu mor heddychol, ac mor foddlonol i'r ddwy Gymdeithasfa: ac yn llawenydd mwy gweled, mewn blynyddoedd diweddarach, y ddwy Athrofa yn dyfod rhagddynt mor llwyddiannus.

Rhwng yr amrywiol achosion ag oeddent yn gàlw am ei sylw, yr oedd Mr. Rees yn cael ei gadw mor llawn o waith yr holl flwyddyn hon, fel nad oedd prin yn gallu cael un awr o seibiant. Ac eto yr oedd y gwaith yn ymddangos yn dygymod yn rhagorol âg ef, ac yntau yn cael hyfrydwch mawr ynddo. Yr oedd yr Achos Cenhadol yn neillduol, erbyn hyn, yn cael lle mawr ar ei feddwl. Yr oedd yn gweled ein bod fel Cyfundeb wedi ei gymmeryd i fynu megis eiddo i ni ein hunain: ac yr oedd, yn ei bryder rhag iddo fethu yn ein dwylaw, yn awyddus iawn am sicrhau cyd-weithrediad yr holl frodyr yn y Deheu yn

gystal a'r Gogledd yn ei blaid. Ac yr oedd pob ysgogiad newydd gydâg ef, wedi iddo gael cymmeradwyaeth y Cyfeisteddfod, yn sicr bob amser o'i gymhorth ef. Rhoddes gymhorth neillduol felly ar foreu dydd Llun y Sulgwyn, Mai 16, 1842, pryd, yn Nghapel Bedford Street, mewn cysylltiad â Chymmanfa Flynyddol Liverpool, yr ordeiniwyd tri o Genhadon oeddent ar gael eu hanfon allan,—dau i Fryniau Cassia, Mr. William Lewis a Mr. Owen Richards; ac un i Lydaw, Mr. James Williams. Ar yr achlysur hwn fe draddododd Mr. Rees araeth ardderchog ar "*Eglwys Crist fel Eglwys Genhadol;*" yr hon a gyhoeddwyd, wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hunan, yn rhan o'r "Attodiad" *tudal.* 24—29) i "Ail Adroddiad y Gymdeithas Genhadol Dramor." Yr oedd yr Araeth hon, fel y mae yn gofus gan lawer eto, yn y traddodiad o honi yn nodedig o effeithiol, ac y mae o ran ei chyfansoddiad yn mhob modd yn deilwng o hono ef ei hunan. Nis gallwn ddyfalu pa beth a allasai beri i Olygydd y Cyfrolau o'i Bregethau a'i Ysgrifeniadau ereill, beidio dodi yr Araeth hon i mewn yn eu mysg, yn enwedig gan fod braidd yn anmhosibl, erbyn hyn, cael gafael ar yr "Adroddiad Cenhadol" hwnw.

Tua y pryd hwn fe ddechreuodd y pleidiau efengylaidd, yn arbenig y Presbyteriaid, yn Lloegr, Scotland, a'r Iwerddon, gymmeryd cryn ddyddordeb yn ein Cyfundeb ni yn Nghymru. Nid ydym yn gwybod yn hollol pa beth a achlysurodd hyny, yn mhellach na bod meddwl yr eglwysi Presbyteraidd Efengylaidd, trwy yr holl deyrnas wedi ei gyffroi i raddau annghyffredin, gan y cwestiynau a derfynasant yn ymwahaniad yr Eglwys Rydd oddiwrth y Wladwriaeth yn Scotland, a'r ymchwiliadau a wnelid i'r modd yr oedd crefydd mewn gwahanol wledydd yn cael ei chynnal ac yn llwyddo, yn annibynol ar bob cymhorth oddiwrth y llywodraeth. Yn y flwyddyn 1841, fe ymsefydlodd y Parch. James Hamilton (Dr. Hamilton wedi hyny) yn Llundain, yn weinidog yn yr eglwys yn Regent Square, yr hen eglwys ag y buasai IRVING yn gweinidogaethu ynddi. Yn fuan iawn wedi iddo ymsefydlu yno, fe ddaeth Mr. Hamilton i ddeall yn fanylach, yr

hyn a wyddai mewn rhan er ys amryw flynyddoedd cyn hyny,—fod Corph o Gristionogion yn Nghymru, yn nodedig o gyffelyb i'r Presbyteriaid; yn hollol yr un o ran athrawiaeth, ac heb ddim gwahaniaeth o bwys o ran ffurf-lywodraeth eglwysig. Yr oedd yr hyn a glywsai wedi creu awydd cryf ynddo am gael adnabyddiaeth helaethach o honom, ac yn enwedig fe ddymunai gael y cyfleusdra i'n gweled ac i farnu drosto ei hun. Trwy y Parch. James Sherman, efe a gafodd wybodaeth am Mr. Davies, Fronheulog, gerllaw y Bala, fel boneddwr y gallai ymohebu âg ef, a chael ganddo pa hysbysiad a fynai yn ein cylch, ac am amser, a lle, a threfn ein Cymdeithasfäoedd. Yn y cyfamser cafodd afael ar y Cyffes Ffydd yn y Saesonaeg, a mynodd gael pob llyfr y clywai am dano yn yr un iaith, yn rhoddi hanes Howell Harris, Daniel Rowlands, Jones, Llangan, Thomas Charles, a'r cwbl a allai gael, nes y daeth yn hollol gydnabyddus â ni, ac i synio yn uchel iawn am danom. Y canlyniad, pa fodd bynnag, a fu, i gynnygiad gael ei wneuthur a'i gymmeradwyo yn eu Cymmanfa *(Synod)* hwy, yr hon a gynhaliwyd yn niwedd Ebrill, 1842, fod iddynt ddanfon cynnrychiolwyr o'u plith eu hunain i ymweled â ni yn ein Cymdeithasfa nesaf yn y Bala, er ffurfio cydnabyddiaeth â ni, gan obeithio mai y diwedd fyddai undeb cyfeillgar rhyngom â'n gilydd. Ac felly fe nodwyd Mr. Hamilton ei hunan, y Parch. Mr. Sawyers o Newcastle-upon-Tyne, a Mr. Balfour, gŵr boneddig a Henuriad Llywodraethol, o Manchester, yn genhadon drostynt atom. Dan gyfarwyddyd Mr. Davies, Fronheulog, fe ysgrifenodd Mr. Hamilton at Mr. Edwards y Bala, i'w hysbysu am y penderfyniad y daethent iddo i ymweled â'n Cymdeithasfa, gan obeithio y byddai hyny yn dderbyniol; ac yn dymuno arno wneuthur pob peth a allai tuag at hyrwyddo y trefniadau angenrheidiol er rhoddi cyfleusdra iddynt i ymddangos ger ei bron. Yr oedd ymweliadau o'r fath y pryd hyny yn llawer dieithrach nag ydynt yn awr. Yn wir, yr oedd hwn, ar ryw ystyr, yn un hollol newydd. Yr oedd personau neillduol,—Saeson, Scotiaid, Gwyddelod,—wedi bod yn fynych yn ein plith, yn y Deheu

a'r Gogledd; ond nid oedd neb o'r blaen wedi bod yn swyddol, neu yn Genhadon dros ereill, gydâ'r amcan o ffurfio math o rwymyn undeb rhyngddynt â ni, fel yr oedd yn awr, dybygid, yn mwriad y brodyr hyn o blith y Presbyteriaid yn Lloegr. Nid oedd Mr. Edwards ei hunan yn gwybod yn hollol pa fodd y derbynid hyn gan y brodyr o'r amrywiol Siroedd yn y Gymdeithasfa; ac felly fe ysgrifenodd at Mr. Rees i'w hysbysu yn nghylch eu penderfyniad hwy i ddyfod, ac i ymgynghori yn nghylch eu derbyniad. A dyma yr atebiad a anfonodd Mr. Rees iddo:—

"Liverpool, Mai 23, 1842.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf wedi bod yn chwilio am ryw rai "i ymgynghori â hwy mewn perthynas i'r achos a osodwch o'm "blaen; ond yr wyf wedi methu a gweled neb; ac yr wyf "finnau yn petruso dywedyd dim o'm pen fy hun. Eto nis "gwelaf fi ddim niwed mewn cenadu i ddieithriaid ddyfod i "ymweled â ni; ac nid yw hyny ond peth a welsom lawer "gwaith yn y Bala. Y peth casaf genyf fi yw, y byddant yn "gweled ein noethder a'n hannhrefn. . . . . . . Nid wyf fi yn "deall pa undeb a ellir ei wneyd rhyngom, na pha fudd a "ddeilliai o hono; ond, beth bynnag, gallwn wrando ac ystyried "y pethau fydd ganddynt hwy i'w dyweyd ar yr achos; ac nis "gall dim drwg ddyfod o'u gwaith yn ymweled â ni. Oni "buasai eu bod hwy wedi bwriadu dyfod i'r Bala, buaswn i yn "dewis yn hytrach iddynt dd'od i Gaernarfon; oblegid chwi a "gawsech felly gyfleustra i osod yr achos i lawr yn y Bala, a'ch "awdurdodi i gymdeithasu â hwy mewn modd swyddol, a'u "gwahodd yn enw y Gymmanfa i Gaernarfon. Mae y dref hono "hefyd yn fwy Seisnigaidd; a buasai yn dda cael eu help i "bregethu yn yr iaith hòno. Ond nid wyf yn gweled nemawr o "bwys yn hyn; am hyny gwnewch fel y gweloch yn oreu. Nid "oes genyf fi ddim i'w ddyweyd ar yr achos, ond nad wyf yn "gweled y gall dim drwg ddyfod o'r cyfryw ymweliad, ac y "byddai yn annynol, anfrawdol, ac anfoneddigaidd, eu gwahardd

"i ddyfod i'n mysg, gan eu bod yn dymuno d'od. Yr wyf mewn "brys a dyryswch yn ysgrifenu; am hyny na ryfeddwch fod fy "ysgrif mor ddrwg â'r eiddo'r Scotiaid.

"Ydwyf, eich cyfaill gwael, HENRY REES."

Pan ddaeth Cymdeithasfa y Bala, Mehefin 8, 9, 1842, yr oedd Mr. Hamilton a'i gyfeillion wedi cyrhaedd yno, ac yr oedd Dr. John Brown o Aghadowy, un o weinidogion yr Eglwys Bresbyteraidd yn yr Iwerddon, wedi dyfod yno hefyd, er nad oedd efe wedi ei anfon fel cenad dros yr Eglwys hòno. Cadwyd cyfarfod neillduol dan lywyddiaeth y Parch. John Hughes, Liverpool, i'w derbyn am saith ar y gloch, ar ol y pregethu y prydnawn cyntaf ar y Green; a chafwyd annerchiadau rhagorol gan y pedwar brawd, yn enwedig gan Mr. Hamilton, nes yr oedd pawb yn teimlo yn gynhes at y brodyr eu hunain, ac at yr eglwysi a gynnrychiolid ganddynt. Yr oedd Mr. Rees ei hunan yn cael ei foddhau yn fawr. Er ei fod yn ei lythyr at Mr. Edwards yn ymddangos yn rhyw hanner amheus a gochelgar yn yr achos hwn, eto nid oedd neb yn fwy croesawgar o honynt. Pan yr oeddid, yn y Cyfarfod am wyth drannoeth, yn cyflwyno atebiad iddynt, efe a ddywedodd,—"Ni ddaeth y Brodyr dieithr atom i ofyn i ni wneyd un newidiad yn nghyfansoddiad ein Corph, nac mewn dim sydd genym, tuag at ymuno â hwy. Nid ydynt yn gofyn am ddim ond undeb cyfeillgar; ar fod i ni gydgaru ein gilydd fel brodyr, ac anfon llythyrau ac ymwelwyr, weithiau, y naill at y llall. Yr ydym yn eu gweled yn mhob peth yn ddynion mor ddirodres â ninnau; yn adwaen pla eu calonau, a'u golwg yn unig ar Grist fel eu Ceidwad, a'u dymuniad yn ymddangos yn syml a chywir am ëangiad teyrnas y Cyfryngwr, fel ninnau. Mae yn rhesymol iawn i ni gydnabod ein gilydd fel yn perthyn i'r un teulu, er fod rhyw fân wahaniaethau rhyngom yn gystal ag amgylchiadau allanol yn rhwystr i ni ymgymmysgu llawer. Y mae llïaws o'r dynion mwyaf meddylgar yn darogan yn awr, y bydd raid i Gristionogion o bob enw ymuno â'u gilydd yn llawer mwy

nag y maent yn gwneyd, o herwydd fod gelynion Crist yn ymgyngreirio; ac felly bydd yn angenrheidiol i holl eglwys Crist wneyd egni cyffredin yn erbyn y gelyn."

Mae ymweliadau o'r fath, oddiwrth y gwahanol Eglwysi Presbyteraidd, â'n Cymdeithasfäoedd, wedi digwydd yn fynych, os nad yn flynyddol, ar ol hyny; ond yr oedd arbenigrwydd neillduol ar yr ymweliad hwn â Chymdeithasfa y Bala, gan mai dyma y cyntaf o honynt.

Ar ddydd Mawrth, Awst 30, y flwyddyn hon, fe gafodd yr achos yn Liverpool golled fawr, a mawr iawn, trwy farwolaeth y Parch. Richard Williams, pan nad oedd ond deugain mlwydd oed, wedi bod yn gwanychu am lawer o fisoedd. Daethai Mr. Williams i Liverpool yn y flwyddyn 1828, i ysgol Mr. Evan Rowlands, gan fwriadu dychwelyd i'w hen gartref genedigol yn Llanbrynmair, ar ol gorphen y tymhor y bwriadai aros yn yr ysgol. Bu Mr. Rowlands farw cyn diwedd 1828; ac arosodd Mr. Williams, am beth amser, gydâ'r hwn a gymmerodd yr ysgol ar ei ol ef. Yn lle dychwelyd, pa fodd bynnag, i'w hen wlad, fe'i perswadiwyd ef i aros yn Liverpool, gan gadw ysgol yn yr wythnos, a phregethu i'r cynnulleidfäoedd Cymreig ar y Sabbothau; ac yn mhen ychydig flynyddoedd, fe'i galwyd i ymroddi yn gwbl i'r weinidogaeth. Yr oedd yn bregethwr call, sylweddol, a chymmeradwy iawn, er nad oedd yn boblogaidd gydâ'r lliaws. Yr oedd yn nodedig o fedrus a galluog gydâ'i ysgrifell; ac y mae ei lyfr, "*Y Pregethwr a'r Gwrandawr*," yn profi fod ei allu ymresymiadol o radd uchel iawn. Er ei fod yn Liverpool er ys amryw flynyddoedd cyn dyfodiad Mr. Rees a Mr. Hughes yno, ni chanfu neb ynddo ef un arwydd o anfoddlonrwydd nac anniddigrwydd, oblegid eu bod hwy, fel yr oedd yn hawdd gweled, yn cael lle uwch a dylanwad mwy nag oedd efe yn gael; ond talai bob amser y warogaeth uchaf i'w rhagoriaethau; ac yr oeddynt hwythau, fel yr oedd yn eglur i bawb, yn ei barchu ac yn ei werthfawrogi yntau. Dywediad Mr. Rees am dano unwaith, ar ol bod mewn Cymdeithasfa yn y flwyddyn 1838, oedd,—"Y mae trefnwyr y brodyr i bregethu

yn ein Cyfarfodydd mawr yn fynych yn dra gwahanol eu barn i mi. Dyna'n Richard Williams ni, yn y Sassiwn yna, yn cael ei roddi i ddechreu yr oedfa, a ——— a ——— yn pregethu; tra y mae efe, yn sicr, yn ol hyny o farn sydd genyf fi am bregethu, yn well pregethwr na'r ddau yn un. Pa bryd y daw y bobl i werthfawrogi sylwedd yn fwy na sŵn?" Er nad oedd efe mewn un modd yn cytuno â'r brys mawr a ddangosid gan Mr. Williams gydâ sefydliad ein Cymdeithas Genhadol, eto yr oedd, bob amser, yn gwbl argyhoeddedig o gywirdeb ei amcan; ac yr oedd yn teimlo i'r byw y golled fawr yr oedd y Cyfundeb yn gyffredinol, a'r eglwysi yn Liverpool yn neillduol, wedi gael yn ei farwolaeth. Pan y gelwid sylw at yr amgylchiad yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 7, 1842, fe ddywedai Mr. Rees, yn dra effeithiol, rywbeth fel y canlyn:—

"Gwir yw fod Richard Williams wedi marw! Ac y mae yn chwith genyf fi feddwl hyny, a meddwl y rhaid i ni fyned rhagom gydâ'r gwaith heb gymhorth un mor gymhwys i'w wasanaethu. Bu yn ddefnyddiol iawn yn Liverpool; ac, a'i gymmeryd ar y cwbl, nid hawdd fydd cael ei fath ar ei ôl. Yr oedd rhywbeth yn hoffus yn holl ystod bywyd ein brawd fel pregethwr. Ni ddaeth arno erioed ryw ruthr o boblogrwydd, yr hyn yn fynych iawn sydd yn codi yn fwy oddiar ddamwain nag oddiar ragoriaeth gwirioneddol yn y pregethwr ei hunan; ac nid yn anaml, pan na bydd gan y dyn ddigon i'w ddal, y gwelir ef yn myned yn llai lai y naill flwyddyn ar ol y llall, hyd ei farwolaeth. Yr oedd ein brawd ymadawedig yn barchus fel pregethwr o'i ddechreu i'w ddiwedd: ac yr oedd ei boblogrwydd a'i barch yn cynnyddu hyd y diwedd. Yr oedd yn parhau i ddyfod yn fwy-fwy yn ngolwg ei gyfeillion gartref yn Liverpool, ac i olwg Corph y Methodistiaid yn gyffredinol; a phan oedd bron wedi cyrhaedd i'r gris uchaf trwy ei ddoniau gweinidogaethol, a'i ddoniau i ysgrifenu, fe'i cymmerwyd ef ymaith oddiwrthym gan law marwolaeth! Dylem deimlo yn ddwys wrth golli dynion fel hyn. Ac eto, hwyrach i'n brawd hwn gael marw yn yr amser goreu i farw: marw cyn cael

blynyddoedd i wywo ac adfeilio; marw yn yr adeg barchusaf arno o ran ei gymmeriad a'i le, yn sylw a serch ei frodyr. Ni bu dim gofidus yn holl fywyd gweinidogaethol ein brawd hwn, ac ni raid ofni gofid mwy. Aeth adref o fynwes ei frodyr, ac o ganol ei ddefnyddioldeb."

Yr oedd y Parch. Jenkin Davies, Sir Aberteifi, yr hwn oedd yn nodedig o gymmeradwy ac anwyl fel dyn, ac fel Cristion, ac yn un o'r pregethwyr mwyaf meddylgar a Beiblaidd yn yr holl Gyfundeb, wedi marw hefyd Awst 10, ychydig cyn y Gymdeithasfa hòno yn Nghaernarfon; a gwnaed amryw sylwadau coffadwriaethol parchus iawn am dano yntau. Yr ydym yn cofio yn neillduol fod yr hen frawd, y Parch. William Havard, yn wylo fel plentyn wrth sôn am dano. Ac mewn teimladau cyffelyb yr oedd y Parch. John Jones, o'r Borth, hefyd. Wedi iddynt hwy eistedd, sylwai Mr. Rees gydâ golwg ar y ddau frawd y soniasid am danynt,—

"Yr ydym wedi rhoi dau swp o *genius* yn y bedd; nid oes rhai yr un fath â hwy yn gwbl ar eu hol. Yr oeddent yn pregethu yr un fath â phawb, ac eto heb fod yn pregethu yr un fath â neb. Yr oeddent yn pregethu yr un peth â'u brodyr, sef yr hen wirionedd, 'yr hwn sydd genym o'r dechreuad;' ond yr oeddent yn pregethu hwnw yr un fath â hwy eu hunain. Yr hen bethau am fywyd pechadur oedd pethau eu pregethau; ond, oddiar ddelw eu meddyliau hwy eu hunain, yr oedd yr hen bethau yn ymddangos yn hollol newydd ganddynt. Rhyw gamp fawr ydyw gallu dal at yr hen wirioneddau,—yr hen bethau,—ac ar yr un pryd gallu gosod allan eu gogoniant yn y fath fodd, nes peri iddynt ymddangos i'r gwrandaẅwyr megis pe byddent bethau newydd. Ac yr oedd y brodyr a gollasom yn gallu gwneuthur hyny i raddau tra annghyffredin; er boddhad ac adeiladaeth neillduol i'w gwrandaẅwyr, yn enwedig y rhai mwyaf meddylgar o honynt."

Nid oedd Mr. Rees braidd yn fwy hynod mewn dim, nag yn ei lythyrau at gyfeillion profedigaethus a thrallodedig; yn enwedig pan y byddai yn dawel ei feddwl fod y rhai a anerchid

ganddo yn blant i'r Arglwydd, ac yn dymuno, yn ngwyneb pob goruchwyliaeth, gallu plygu yn ostyngedig i'w ewyllys ef. Ysgrifenwyd llythyr nodedig felly ganddo, tua y pryd hwn, at y Parch. John Jones, Llanbedr, a'i briod, y rhai a gollasent eu merch fechan, trwy iddi gael ei llosgi i farwolaeth. Y mae yn dda genym allu gosod y fath lythyr ger bron ein darllenwyr:—

"Liverpool, Chwefror 20, 1843.

"ANWYL FRAWD A CHWAER,—Ofer ydyw i mi gymmeryd "dim o'r papur, ar yr hwn yr wyf yn anfon i chwi y llinellau "hyn, i hysbysu i chwi paham na buaswn wedi ysgrifenu atoch "yn gynt. Ni chrybwyllaf ond un o'r achosion hyny, a hwnw "ydyw teimlad o'm llwyr annghymhwysder i ysgrifenu atoch "yn eich dofn brofedigaeth, o herwydd na fedraf osod fy enaid "yn lle eich enaid chwi, a myned i mewn i'ch teimladau. Ni "fedraf ddychymygu pa fodd y buaswn yn teimlo pe buaswn "wedi colli plentyn hoff yn annisgwyliadwy, a thrwy ddamwain "erchyll. Pa beth a fuasai lleferydd natur, cnawd, a gras, yn y "cyfryw amgylchiad, nis gwn i. Mi dybiwn y buasai yr hen "ddyn, a'r dyn newydd, yn bur wahanol eu hiaith: y naill yn "barod i ofyn, 'A wyt ti eto yn parhau yn dy berffeithrwydd? "melldithia Dduw, a bydd farw.' 'Ah,' medd gras, 'lleferaist "fel y llefarai un o'r ynfydion. A dderbyniwn ni gan Dduw yr "hyn sydd dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sy' ddrwg? Yr "Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith; "bendigedig fyddo enw yr Arglwydd!' 'Ië,' medd y cnawd, "'ond paham y gwnaeth yr Arglwydd fel hyn â ni?' 'Ni wn i "mo hyny,' medd gras; 'ond un peth a wn i: da y gwnaeth "Efe bob peth.' 'O,' medd yr hen ddyn grwgnachlyd, 'y drwg "hwn sydd oddiwrth yr Arglwydd; paham y dysgwyliaf wrth "yr Arglwydd mwy? Yn ofer y glanheais fy nghalon, ac y "golchais fy nwylaw mewn diniweidrwydd; canys ar hyd y "dydd y'm maeddwyd, a'm cerydd sydd yn dyfod bob boreu. "Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth

"heibio i'm Duw. Mae fy ffordd o gredu, addoli, ac ufuddhau— "o gynnal yr Achos, a rhoi llety i bregethwyr, a theithio i "bregethu, oll yn ofer—wedi eu cuddio oddiwrth yr Arglwydd; "nid yw Efe yn gwneyd dim sylw ar ddim a wnaethom fel "teulu.' 'Gnawd taw yn ngŵydd yr Arglwydd,' medd ffydd, "'a thaw yn union hefyd. Ni wyddost ti feddyliau yr "Arglwydd; mae ei farnedigaethau Ef yn uchel allan o'th "olwg di. Pe lladdai Efe fi, eto mi a obeithiaf ynddo Ef. Er "nad yw fy nhŷ i felly gydâ Duw, eto cyfammod tragywyddol "a wnaeth Efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; "canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw, er nad "yw yn peri iddo flaguro. Da yw gobeithio a dysgwyl yn "ddystaw am iachawdwriaeth yr Arglwydd. Da yw i ŵr "ddwyn yr iau yn ei ieuenctyd. Efe a eistedd ei hunan, ac a "daw â sôn, am iddo ei dwyn hi arno. Efe a ddyry ei enau yn "y llwch, i edrych a oes obaith.' Ac y mae gobaith hefyd. "'Oblegid nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd; ond er "iddo gystuddio, eto Efe a dosturia yn ol amlder ei drugareddau.' "'Yn wir,' medd y cnawd, 'nid wyf fi yn meddwl fod gan yr "Arglwydd law yn y byd yn y tro. Pe buasai y ferch fach heb "fyned yn rhy agos i'r tân, neu pe buasem ni wedi ei gyru hi "i'w gwely, neu wneyd fel a'r fel, ni buasai mo hyn.' 'Pw, pw!' "medd ffydd; 'pwy a ddywed y bydd dim heb i'r Arglwydd ei "orchymyn? Oni ddaw o enau y Goruchaf ddrwg a da?' Nage, "nage! Duw, ac nid damwain sydd wedi dyfod i'n teulu ni: ac "yn awr dyma Efe wedi gwneyd ei waith; a thrwy gymhorth "ei ras, ni a wna wn ninnau ein gwaith bellach. 'Ceisiwn a "chwiliwn ein ffyrdd, a dychwelwn at yr Arglwydd. Dyrchaf-"wn ein calonau a'n dwylaw at Dduw yn y nefoedd.'

"Wele, gyfeillion anwyl, 'na fydded ddieithr genych y profiad "tanllyd sydd ynoch, yr hwn a wneir er profedigaeth i chwi "fel pe b'ai beth dieithr wedi dygwydd i chwi.' O na! 'Nid "ymaflodd ynoch demtasiwn ond un gyffredin i ddynion. Yr "amser a ballai i mi sôn wrthych am dŷ Aaron, am dŷ Eli, "am Samuel, a Job, a Naomi, a Dafydd, y rhai oll a gawsant

"brofedigaethau chwerwon yn eu teuluoedd, ac a allasent fel "Ephraim gynt (er i'r hen Jacob groesi ei ddwylaw i roi'r "ddeheulaw ar ei ben ef wrth ei fendithio), ac fel y gellwch "chwithau heddyw, alw y plentyn ieuangaf, Bëriah, *chwerwder*, "canys yr oedd drygfyd yn eu tai. Darllenwch eu hanes, "anwyl gyfeillion, ac actau grasol eu heneidiau yn eu profedig-"aethau, nes y byddoch yn cael eich diodi i'r un ysbryd, a'r "cyffelyb agweddau grasol yn cael eu cynnyrchu yn eich calon-"au, yn eich trallod presennol. 'Cymmerwch, fy mrodyr, y "prophwydi, y rhai a lefarasant yn enw yr Arglwydd, yn siampl "o ddioddef blinder, ac o hir-ymaros. Wele, dedwydd yr ydym "yn gadael y rhai sydd ddioddefus. Chwi a glywsoch am "amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd: oblegid "tosturiol iawn yw yr Arglwydd, a thrugarog.'

"Pan y bo natur yn cael ei dal gan bangfeydd o hiraeth a "thrallod, ewch i'r dirgel; arllwyswch eich mynwes gymysglyd "ger bron Duw trwy lefain cryf a dagrau. Os bydd y cnawd, "fel Esau, yn dyfod allan yn gyntaf trwy wewyr natur, yn "rwgnach a thuchan yn erbyn Duw, bydded Jacob gras, â'i law "yn ei sawdl ef, yn gofyn, 'Paham y grwgnach dyn byw, gŵr "am gosbedigaeth ei bechod? Nid fy ewyllys i ond dy ewyllys "di a wneler.' Byddwch sicr fod yr Arglwydd yn dysgwyl am "le i drugarhau wrthych, ac am gyfleusdra i dywallt olew a "gwîn i'r archollion a wnaeth, a gweinyddu i chwi *gordials* "cryfion ei gariad. O na fydded i annghrediniaeth a gwrth-"nysigrwydd lwyddo i gadw eich enaid i *ffretio* ynddo ei hun, "yn lle dychwelyd ac ymollwng i fynwes Duw fel eich Tad "tirion. Ymwthiwch, drwy y cymylau a'r tywyllwch sydd o'i "amgylch Ef, ato Ef ei hun. Mae yn ddigon goleu yno i weled "cymmaint o'i amcan a'i ddoethineb yn y tro hwn, ag a'ch "gwnaiff yn fwy na boddlawn dan ei law. Nofiwch trwy fôr "terfysglyd yr oruchwyliaeth bresennol, hyd nes y deloch i "ddyfroedd tawel cariad a hedd; a chwi a brofwch Dduw yn "Nghrist yn well i chwi na deg o ferched. Cymmerwch ofal "rhag i chwi trwy dristâu gormod, dristâu Ysbryd yr Arglwydd

"Ni ddywedaf nad oedd achos am, ac nad oedd ar eich enaid "angen am, yr oruchwyliaeth bresennol; ac os dengys Duw y "doethineb a'r gofal ag oedd ganddo tuag atoch ynddi, ac mor "angenrheidiol oedd y tro i ddihuno a dychwelyd eich enaid "mewn *rhyw* beth, ac hwyrach mewn llawer peth, chwi a "ryfeddwch ar ol hyn ei gariad a'i ras yn y cwbl. Yn lle "cwestiyna cariad Duw atoch, a'ch hawl yn Nghrist, llafuriwch "am ddefnyddio yr oruchwyliaeth bresennol er adnewyddiad "eich grasau, adferiad o wrthgiliadau, marweiddiad pechod, "ymryddhâd meddwl o'r byd, ymgysegriad newydd llwyrach "nag erioed i wasanaeth Duw. Nid oes dim mwy hynod na'i "gilydd yn dygwydd yn y dref hon, na bydd rhywrai yn "ymdrechu gwneyd ceiniog o hono, trwy brintio yr hanes, a'i "werthu ar hyd yr ystrydoedd. O fy nghyfeillion, gwnewch "chwithau geiniog o'r tro presennol; trwy ei ddefnyddio i "ddwyn eich ffydd a'ch amynedd i ymarferiad, ac i gyffroi eich "meddwl i ogoneddu Duw yn fwy dros weddill eich dyddiau ar "y ddaear. A ydych chwi yn gobeithio mai dyma fel y mae "pethau yn bod? Hapus yw eich merch dyner! Wedi cael "dianc yn fuan o afael pechod a'i drueni, ac i gael ei gogoneddu "ei hunan gydâ Duw byth yn y nef. Wel, beth yn well allasai "eich calon ddymuno i'ch plentyn? Pe carech hi, chwi a "lawenhaech am ei bod wedi myned ymaith. Mae diben ei "chreadigaeth wedi ei ateb. Chwi gawsoch chwithau y fraint o "ddwyn un i fod, i fwynhau Duw dros byth, ac un ag y bydd ei "pherthynas â chwi, a'i hymadawiad oddiwrthych, yn rhan o'r "oruchwyliaeth a fendithia eich Tad nefol i'ch cymhwyso "chwithau hefyd i'w fwynhau Ef. Wele, fy anwyl gyfeillion, "yr wyf fi yn gorfod terfynu dan ddyweyd nas gwn i ddim pa "fodd y gallasai pethau fod yn well.

"Eich gwael gyfaill, HENRY REES."

"Yr wyf yn gweled llawer o wallau yn y llythyr hwn; gobeithiaf y gellwch ei wneyd allan er hyny. Ped ail ysgrifenwn ef, byddwn yn rhy hwyr i'r *post*."

Yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 14, 15, 1843, yn ngwasanaeth yr ordeiniad ar foreu Mercher, y 14eg, pan y neillduwyd Mr. Robert Hughes o'r Gaerwen, a Mr. Robert Williams o Ynys Enlli, i'r holl waith, fe draddodwyd yr Araeth arferol ar Natur Eglwys gan Mr. Rees; a theimlid gan bawb ei bod yn un ardderchog iawn. Fe ddaeth allan, yn yr Araeth hon, yn Ymneillduwr cryf a phendant; ac, yn enwedig, fe wrthdystiai, yn y modd mwyaf difloesgni, yn erbyn hòniadau yr Uchel-Eglwyswyr yn nghylch eu holyniaeth Apostolaidd, a'u hawdurdod unig hwy i weini mewn pethau cysegredig. Tra yn condemnio annghydfyddiaethau ac ymraniadau fel yn gwbl annghydweddol âg ysbryd yr efengyl, eto efe a draethai yn y modd mwyaf eglur a diamwys, nid yn unig yn mhlaid *hawl* ond *dyledswydd* Cristionogion i ymneillduo oddiwrth eglwysi, wedi ymlygru oddiwrth ffydd a sancteiddrwydd yr efengyl; ac yn enwedig eglwysi yn gosod pethau o'u dychymyg eu hunain, ac heb un sail iddynt yn nysgeidiaeth Crist, yn ammodau cymundeb eglwysig, ac yn angenrheidiol er iachawdwriaeth. Yn wyneb y cyhuddiad a ddygid yn erbyn y rhai a ymneillduent felly, eu bod yn euog o *sism*, yr oedd efe yn hŷf i hòni mai y cyhuddwyr eu hunain oeddent yn euog o hyny; gan mai eu gwaith hwy yn gosod i fynu eu trefniadau anysgrythyrol, ac yn gwasgu ar gydwybodau dynion gydymffurfio â hwynt, oedd wedi peri yr ymraniad, a gorfodi rhai ffyddlon i awdurdod eu Harglwydd i ymwahanu oddiwrthynt. Dadleuai nad oedd y fath ymneillduaeth mewn un modd i'w olygu megis gwaith dynion, yn anianol ac heb fod yr Ysbryd ganddynt, yn eu didoli eu hunain o gymundeb y wir eglwys, ond yn hytrach fel ymddidoliad y wir eglwys ei hunan, dan dywysiad yr Ysbryd, o'r Babilon lygredig yr oedd wedi bod mewn caethiwed ynddi. Amlygid dymuniad gan amryw, yn y Gymdeithasfa yn y Bala, am gael yr Araeth hon yn argraphedig. Eithr nis gallai efe, y pryd hwnw, gael hamdden i'w pharotoi i'r Wasg. Pa fodd bynnag, yn mhen tua dwy flynedd, hi a ymddangosodd, wedi ei helaethu gryn lawer, fel erthygl, dan y penawd "*Eglwys Crist*," yn y TRAETHODYDD

am Gorphenaf, 1845 (*tudal.* 278—288); ac oddiyno fe'i hadgyhoeddwyd yn y drydedd Gyfrol o'i Bregethau (*tudal.* 374—389); ac yn ein bryd ni y mae yn sicr i'w golygu yn un o'r pethau gwerthfawrocaf sydd genym o'i ysgrifeniadau.

Yn mis Mai, 1843, yr ymwahanodd yr Eglwys Rydd oddiwrth Eglwys Wladol Scotland, ac yr ymffurfiodd yn Eglwys hollol annibynol ar y Wladwriaeth. Y pryd hyny fe ymadawodd tua phedwar cant a deg a thriugain o weinidogion â'r eglwysi yr oeddent wedi bod yn arfer gweinidogaethu ynddynt, ac â'r tai yr oeddent wedi bod yn byw ynddynt, ac â'r cyflog a dderbynient oddiwrth eu cysylltiad â'r Wladwriaeth, gan ymdaflu yn gwbl ar Ragluniaeth am gynhaliaeth iddynt hwy a'u teuluoedd, ac ymffurfio yn Eglwys Bresbyteraidd Rydd. Yr oeddent yn gwneuthur hyny er eu bod, ar y pryd, yn gryf dros sefydliad gwladol ar Gristionogaeth; oddiar argyhoeddiad fod llywodraeth hollol gan Iesu Grist ar ei eglwys, a bod eu dyledswydd hwythau i fynu gweled fod ei ewyllys ef yn cael cadw ati yn ei holl weithrediadau, yn annhraethol fwy pwysig na dim mantais a allai ddeillio iddynt oddiwrth ei chysylltiad â'r Wladwriaeth. Ac am eu bod, tra yn y cysylltiad hwnw, yn cael eu llesteirio i weithredu yn ol yr hyn a ymddangosai iddynt hwy megis meddwl Crist, ac felly yn ol eu dyledswydd hwy fel rhai ffyddlawn iddo,—penderfynasant dori y cysylltiad, ac aethant allan; ar yr egwyddor mai "rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion." Yr oeddent hwy, nid yn edrych arnynt eu hunain yn gadael yr Eglwys,—ond *fel Eglwys Scotland* yn gadael y Wladwriaeth. Ac yr oedd ganddynt y rheswm cryfaf i edrych felly arnynt eu hunain. Nid oeddent yn gwneuthur ond yr hyn y penderfynasai y mwyafrif mawr o'r Eglwys hono arno yn eu Cymmanfa, fel yr hyn a ddylesid ei wneuthur; ac yr oedd corph mawr y bobl trwy y wlad yn mhob man yn eu plaid, ac yn gadael yr eglwysi gydâ hwynt. Yr oedd y dynion blaenaf trwy holl Scotland, gan gynnwys Dr. Chalmers, Dr. Gordon, Dr. Candlish, Dr. Cunningham, Dr. Guthrie, Dr Buchanan, Sir David Brewster, Hugh Miller, a lluoedd ereill

yn mhlith y rhai a ymadawsant, heb sôn am yr *holl Genhadon* oedd ganddynt mewn gwledydd pellenig at Iuddewon a Phaganiaid; yn cynnwys Dr. Wilson, Bombay, Dr. Duff, Calcutta, Dr. Duncan, Pesth, ac amryw ereill heb fod mor enwog. Yr oedd yr amgylchiad hwn yn peri cyffro dirfawr trwy holl Scotland, ac yr oedd y dyddordeb mwyaf yn cael ei gymmeryd ynddo trwy yr holl deyrnas, ac, ar Gyfandir Europe, ac yn Unol Daleithiau yr America; yn enwedig mewn cylchoedd crefyddol, ac i fesur mawr mewn cylchoedd gwladwriaethol. Yr oedd Cymru yn fyw o hono. Galwyd sylw neillduol ato yn Nghymdeithasfa y Bala, pryd y datganwyd cyd-ymdeimlad calon â'r ysbryd a'u cymhellai i wneyd y fath aberth, dros yr hyn a olygent hwy fel teyrnfraint Pen Mawr yr eglwys ei hunan; ac y penderfynwyd annog pawb a allent, i gyfranu rhyw gymmaint er eu cynnorthwyo i adeiladu addoldai newyddion iddynt eu hunain, yn lle yr eglwysydd oeddent wedi adael; ac enwyd Mr. David Davies, Mount Gardens, Liverpool, fel Trysorydd i'r cyfryw gasgliad. Yn Nghymdeithasfa Pwllheli, a gynhaliwyd Medi 7, 8, 1843, fe ddarllenwyd ac fe gymmeradwywyd Annerchiad oddiwrth y Gymdeithasfa, at Gymmanfa yr Eglwys Rydd yn Scotland. Y mae cyfieithiad o'r Annerchiad hwnw i'w gael yn y Drysorfa am Ionawr, 1844, tudal. 24. Gan fod y Gymmanfa hono i ymgyfarfod yn Glasgow yn yr Hydref canlynol, fe bennodwyd y Parch. John Hughes, Liverpool, a'r Parch. Lewis Edwards o'r Bala i fyned yno yn ymwelwyr dros y Gymdeithasfa, ac i gyflwyno ei Hannerchiad i'r Gymmanfa, ac fel tystion gweledig iddynt hwy o'n cymmeradwyaeth a'n hedmygedd o'u hymddygiadau. Yr oedd Mr. Rees yn cymmeryd dyddordeb annghyffredin yn yr achos hwn. Wrth siarad am dano yn y Bala, a thrachefn yn Mhwllheli, dywedai, ei fod yn ei ystyried yn un o'r ysgogiadau mwyaf pwysig a fu erioed yn yr Eglwys Gristionogol, ac yn un y gellid dysgwyl yr effeithiau mwyaf daionus oddiwrtho yn mhlaid crefydd bur. Gydâ golwg ar yr Annerchiad at yr Eglwys Rydd oedd yn cael ei anfon gan y Gymdeithasfa, a

chwestiynau ereill, fe anfonodd y llythyr canlynol at Mr. Edwards o'r Bala :—

"Mulberry Street, Liverpool, Medi 27, 1843.

"ANWYL GYFAILL,—Yr ydwyf yn gobeithio fod y cyfarchiad
"at y *Free Church* yn nwylaw Mr. Roger Edwards, ac y mae
"Mr. Hughes yn anfon gair ato heddyw i orchymyn iddo
"ei anfon ef i chwi yn ddioedi. . . . . . . . . . . . Yr ydwyf yn
"cenfigenu wrth eich happusrwydd yn fynych; canys yr wyf
"yn dychymygu eich bod yn cael llonyddwch brâf rhwng
"bryniau distaw Cymru, rhagor fi yn y fawr-dref ffwndrus hon.
"Fy holl waith i, ar hyd y dydd, yw dal pen rheswm i rywrai
"neu gilydd; ac y mae gennyf gymmaint o waith ysgrifenu
"llythyrau, fel y gallaf sicrhau i chwi nad wyf yn teimlo yn
"bur awyddus i agor *correspondence*, hyd yn nod â'r Dr.
"Chalmers ei hun. Gadawaf y fraint hono yn ewyllysgar i
"chwi sydd yn fwy teilwng o honi, a chymhwys i'w mwynhau;
"a minnau a ddymunwn lechu mewn rhyw gilfach glyd a
"diogel, yn happus, wedi fy llwyr annghofio gan y byd.
"Hwyrach, wedi hir yspïo drwy gloer fy nghell, ar y Methodist-
"iaid yn teithio o ddydd i ddydd, ac o wlad i wlad, y gallwn
"bipian allan ryw dro gydâ chynllun i reoli pregethu teithiol.
"Ond y cwbl a wnawn i fyddai ei daflu i'w mysg, a dianc i'm
"twll; ac odid na chawn beth difyrwch wrth weled ambell i
"hen gristion, tebyg i ————, yn codi dan ysgwyd ei ben, a
"chnoi ffwgws, i wrthwynebu newid trefn y Corph. Er hyny,
"gwanhâd i'w drefn a fydd parhâd ei annhrefn; a phan ddelo y
"Methodistiaid i garu eu trefn yn ddeallus, ac nid yn blentyn-
"aidd, hwy a fyddant yr un mor awyddus i symmud ymaith bob
"annhrefn y dichon i'w trefn achlysuro, mewn amgylchiadau
"ac amseroedd gwahanol, ag ydyw dyn i weithio allan afiechyd
"o'i gorph. Ond nid myfi ydyw y gŵr i drefnu y Methodist-
"iaid, er y dymunwn eu llwydd am gan' mlynedd eto. . . . . .

"Ond paham yr ydych yn petruso myned i Glasgow? A oes
"rhyw dymher fynachaidd wedi eich dal chwithau hefyd?

"Mae yn rhaid i rywrai ymddangos ar chwareufwrdd y byd; a "phwy a ddylent wneyd hyny ond gwŷr fel y chwi, sydd yn "medru chwareu yn dda, yn enwedig mewn amgylchiadau fel "hyn, pan y mae eisiau chwareu yn y Saesonaeg? Ymgryf-"hewch, fy nghyfaill, ac ewch yno. Pe bawn i gartref, a'r hîn "yn dêg, hwyrach y deuwn gydâ chwi. Yr wyf yn clywed fod "amryw yn awyddus am fyned yno. . . . . . . Soniwn am fyned "oddicartref yr wythnos nesaf, i hel iechyd, os yw i'w gael ar "fryniau Cymru.

"Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn ffyddlawn,

HENRY REES."

Nis gallodd Mr. Hughes fyned i Glasgow, ond fe aeth Mr. Edwards; ac fe gafodd dderbyniad nodedig o groesawus gan y Gymmanfa. Yr oedd yn dwyn gydâg ef ryw gymmaint o arian, nid ydym yn awr yn cofio y swm, a gyfranesid gan gyfeillion yn Nghymru tuag at gynnorthwyo yr Eglwys Rydd gydâg adeiladu addoldai, yn lle yr eglwysi a adawsid ganddynt; ac yr oedd yr Araeth a draddododd ger bron y Gymmanfa yn un a roddodd foddhâd tra neillduol i'r rhai oll oeddent yn bresennol. Yn y llythyr oddiyno, yn cydnabod derbyniad yr Annerchiad a anfonasid o Gymdeithasfa Pwllheli, fe ddywedir, "Yr ydym yn diolch i chwi am ymweliad eich *Professor* cymmeradwy a pharchus; yr oedd yn dra adfywiol i'n Cymmanfa." Darllenwyd y llythyr hwnw yn Nghymdeithasfa Dinbych, yr hon a gynhelid Ionawr 4, 5, 1844.

Yr oedd hòno yn Gymdeithasfa flynyddol yr Ysgol Sabbothol yn Ngogledd Cymru, ac yr oedd y Cyfarfod arbenig i'r Athrawon a'r Athrawesau a gafwyd yno yn un annghyffredin iawn. Yn y cyfarfod hwnw fe adroddodd Mr. Rees, yn ei ddull effeithiol ei hunan, hanes am ddychweliad Iuddewes ieuanc o'r enw Thirza, a'i thad, at Gristionogaeth. Er ei fod yn hanes lled faith, nid oedd neb o'r gwrandawwyr ar y pryd yn teimlo meithder, gan mor gynhyrfiol a thoddedig ydoedd; ac nid oedd prin lygad sych i'w ganfod yn yr holl dorf. Yr oedd y fath sôn am yr

adroddiad hwn, fel y tueddwyd y Parch. Owen Jones, yn awr o Landudno, i gyfieithu y llyfryn o'r hwn y cawsai Mr. Rees yr hanes, i'r Gymraeg, a chafodd ledaeniad helaeth iawn trwy holl Gymru.

Yn y Gymdeithasfa hono yn Ninbych, ar ddymuniad y brodyr yn Llundain, fe bennodwyd Mr. Rees i fyned i Gymmanfa flynyddol y Pasg yn y brif-ddinas, ac i aros yno i wasanaethu am rai wythnosau ar ol hyny. Yn ol y penderfyniad hwnw efe a aeth; ac yr oedd ei weinidogaeth yno y tro hwnw, fel bob amser, yn cael ei gwerthfawrogi yn gyffredinol. Tua'r pryd hwn, yr oedd Mr. Edwards o'r Bala wedi bod yn ymddyddan ac yn ymgynghori âg amryw gyfeillion yn nghylch dwyn allan gyhoeddiad tri misol Cymraeg, o nodwedd uwch na dim oedd genym yn ein hiaith cyn hyny, at wasanaeth llenyddiaeth a chrefydd,—cyhoeddiad yn ymgais at ymgystadlu â'r rhai uchaf yn mhlith y Saeson. Un o'r rhai cyntaf yr ysgrifenodd atynt oedd Mr. Rees, yn dwyn y peth i'w sylw, ac yn erfyn yn daer am ei gymhorth, yn enwedig trwy ei gael i addaw ysgrifenu yn gyson iddo. Yn atebiad i'r cais hwn ato, fe ysgrifenodd at Mr. Edwards y llythyr canlynol :—

"Mulberry Street, Liverpool, Ebrill 3, 1844.

"Anwyl Gyfaill,—Wedi bod yn brysur yn *pacio* fy hun i
"gychwyn tua Llundain y boreu 'foru, y mae genyf funudyn,
"ar frig yr hwyr, i gymmeryd fy anadl ataf; yr hwn a gysegraf
"i anfon llinell atoch chwi, mewn atebiad i'r llythyr a dderbyn-
"iais oddiwrthych.

"Byddai yn dda iawn genyf pe llwyddech i sefydlu cyhoedd-
"iad o uwch radd, a mwy ei werth, na chyhoeddiadau cyffredin
"presennol Cymru; a meddyliwn fod digon o le iddo redeg, heb
"redeg yn erbyn y Drysorfa, yn enwedig os bydd yn dyfod
"allan yn chwarterol; er, fe ddichon, y gallai ei ymddangosiad
"beri peth anesmwythder ac eiddigedd yn y dechreuad. Ond
"am y cymhorth a allaf fi roddi, nis gwn pa beth i'w ddyweyd;
"yr wyf bron a phenderfynu na chynysgaeddwyd fi â dim dawn

"naturiol (ac nis gallaf hòni yr un arall) i ysgrifenu; byddaf yn "wastad yn anniben iawn yn gwneyd y tipyn lleiaf, ac ar ol "ei orphen, yn barod iawn i'w daflu i'r tân.

"Cyfeiriwch at ryw beth a draddodais i yn Manchester, ag a "fyddai o wasanaeth i chwi yn y rhifyn cyntaf. Ond nis gallaf "ddirnad beth oedd hwnw. Nid oes genyf gôf yn y byd am "ddim o'r fath. Meddwl yr ydwyf mai breuddwydio a ddarfu i "chwi. Mae yn ddrwg genyf na allwn ymrwymo i anfon i chwi "ryw beth, o leiaf bob hanner blwyddyn; ond, yn wir, y mae "arnaf ofn gwneyd hyny, rhag eich twyllo na'ch siomi. Ond "pob *scrap* fydd genyf, ar unrhyw bryd, chwi a'i cewch a "chroesaw; a phe deuai fy meddwl diffrwyth yn abl i gyn-"nyrchu rhyw beth bob hanner blwyddyn, ïe, bob chwarter, "byddai yn dda iawn genyf gael lle i'w fwrw ar bapur. Ond "nid oes fawr o obaith, mae arnaf ofn. Y mae yn rhaid i chwi "ymosod yn fwy gwrol ar fy nghyfaill Mr. Hughes. Dangosais "eich llythyr iddo, ond ni ddywedodd lawer. Yr oedd arno "eisiau amser i ystyried. Cawn eich gweled eto ar y pwnc "hwn. . . . . . . ."

Ysgrifenodd Mr. Edwards ato i Lundain yn atebiad i'r llythyr hwn; ac oddiyno fe ysgrifenodd yntau yr atebiad canlynol heb un dyddiad pennodol wrtho:—

12, Jewin Crescent, Llundain.

"Anwyl Gyfaill,—Meddyliwyf y dylwn hysbysu i chwi fy "mod wedi derbyn eich llythyr; ond pan ddywedwyf wrthych "fy mod yn teimlo yn bur wanaidd, chwi a'm hesgusodwch os "na bydd fy llythyr ond ychydig o eiriau, a'r rhai hyny wedi "eu taflu ar eu gilydd yn y modd mwyaf annghelfydd. Mae "cadw i fewn drwy y dydd, a phob dydd, i geisio casglu rhyw "beth at eu gilydd i'w dyweyd bob nos,—tair pregeth, weithiau "pedair, yn yr wythnos, a dwy y Sabboth, bron â'm lladd. Pe "b'ai y Cymry yn deall ni wnaent hyn. Y mae yn ormod, nid "yn unig i'r corph, ond i'r meddwl. Y mae yn ei syfrdanu; yn "ei yru i lawr; ac yn andwyo ei ymadfertheodd.

"Gallaf ateb rhai pethau yn eich llythyr, yn sicr a chadarn-"häol. Nis gallaf fi a Mr. Hughes arolygu y cyhoeddiad; nid "wyf fi yn gymhwys, ac nid oes gan Mr. Hughes amser na "thuedd, yr wyf yn meddwl, at y gwaith. Am ysgrifenu at y "gwŷr a nodwch, i ymofyn am eu help, nid oes genyf ddim i'w "ddyweyd. Ond os ydych am droi allan i'r byd mewn cyhoedd-"iad, marchogwch, attolwg, mewn cerbyd teilwng o'ch gradd, "neu aroswch gartref, a pheidio ag ymddangos ger bron y "cyffredin o gwbl. Gochelwch y geiriog, y gwyntog, y ccerus, y "diddrwg didda, y geiriau heb fater, y mater heb ysbryd, ac "ysbryd heb foneddigeiddrwydd—y cyfansoddiad merfaidd heb "ddim byd ynddo, a'r cyfansoddiad na bydd dim ynddo ond "bustl a phupur. Mae digon o lymru, ac o gawl wermod, ar "hyd y wlad eisoes. Deuwch a bwyd i'r bobl; ac os yw eu "harchwaeth yn rhy lygredig i'w fwyta, yn hytrach na pharotoi "dim at y *taste* llygredig hwnw, rhoddwch heibio goginio, a "gadewch y gorchwyl o hèl gwynt i'r dreigiau, a gwneyd dïod "grïafol i ryw un arall.

"Nid anewyllysgarwch a bair i mi beidio rhoi help; ond, yn "wir, yr wyf yn wael; ac os cedwch at y cyngor uchod, "meddyliwyf y cauwch fi allan. Yr wyf bron yn rhy betrusgar "i ymrwymo i ddim, ac, o'r ochr arall, yn anewyllysgar i "wrthod. Ond ai ni chaf eich gweled cyn y rhowch ddim "allan? Byddaf gartref erbyn y Sulgwyn. Dowch i Liverpool, "a chawn siarad y mater yn drwyadl. . . . . . . .

"Dyma fy llythyr byr wedi myned yn llon'd y papur; ond yr "oedd rhywbeth eisiau ei ddyweyd o hyd, ac y mae yn rhaid "i mi ddyweyd eto nas gallaf ddyweyd dim ychwaneg. Mae fy "*mreast* yn brifo, a'm traed yn oerion iawn.

Anwyl gyfaill, yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

"Ofer i chwi anfon at Mr. James Hughes, yr wyf yn ofni; mae yn wael, ac yn agos i angeu, os na ddaw tro. Cofiwch fi at Mrs. Edwards, Mr. Parry, a'r Ysgol. Dywedwch wrth y brodyr ieuainc am wneyd y goreu o'u hamser i gasglu

> gwybodaeth; peth annioddefol yw hen bregethwr dŵl. Beth pe gwyddent hwy y peth a ŵn i, beth yw bod yn anwybodus, a'r adeg wedi myned drosodd i gael gwybodaeth? Mae sylfeini natur fel yn rhoi ac yn dattod wrth i mi geisio ymguro ychydig am wybodaeth yn awr. The time is over, and it has come to this; aye, to this it has come; well, fie upon it."

Nid rhaid hysbysu, ni a hyderwn, i neb o'n darllenwyr, mai at y cyhoeddiad tri-misol, y dechreuwyd ei ddwyn allan yn mhen ychydig amser ar ol hyn, adnabyddus trwy holl Gymru, a pha le bynnag y mae Cymry, fel Y TRAETHODYDD, y cyfeirir yn y llythyrau uchod. Yr oedd Mr. Edwards yn nodedig o awyddus am gydweithrediad Mr. Rees yn mhlaid yr amcan o ddwyn y fath gyhoeddiad allan; ac, ar y cyntaf, yr oedd yn rhyw dybied y gellid llwyddo, fe allai, gydâ y diweddar Mr. Hughes, ac yntau, i gymmeryd arnynt eu hunain rhyngddynt ei Arolygiaeth. Gwrthodai Mr. Rees, fel y gwelwn, fyned tan unrhyw ymrwymiad; ac aflwyddwyd hefyd yn gwbl yn yr ymgais i gael gan Mr. Hughes gymmeryd unrhyw ran yn ei Olygiaeth. Y diwedd fu, i Mr. Edwards gytuno gydâ Mr. Roger Edwards o'r Wyddgrug; a daeth y Rhifyn cyntaf allan, dan eu cyd-olygiaeth hwy, yn nechreu Ionawr, 1845; a theimlwyd ar unwaith ei fod, a'i gymmeryd gydâ'i gilydd, o nodwedd uwch a galluocach na dim a ymddangosasai o'r blaen yn nghyhoeddiadau cyfnodol ein gwlad. Yr oedd Mr. Rees, o'r dechreuad yn cymmeryd dyddordeb mawr ynddo; ac er na cheid ganddo ymrwymo am odid ddim pendant gydâ golwg arno, heblaw cefnogaeth gyffredinol, eto fe ysgrifenodd o bryd i bryd, amryw erthyglau tra gwerthfawr iddo.

Wedi cyfnod maith o ddadleu, ac weithiau yn mhell o fod yn yr ysbryd goreu, rhwng Cristionogion â'u gilydd, yn Lloegr, Scotland, Unol Daleithiau yr America, yn gystal ag yn Nghymru, ar faterion Duwinyddol a chydâ golwg ar ffurflywodraeth eglwysig,—fe ddaeth, tua y pryd hwn, rhyw ysbryd

arall, mwy tebyg i ysbryd yr efengyl ei hunan, i feddiannu meddyliau llïaws mawr o'r gwŷr blaenaf mewn cysylltiad â'r gwahanol enwadau Cristionogol efengylaidd trwy yr holl deyrnas; a'r mater oedd yn tynu sylw cyffredinol oedd,—Undeb Cristionogol. Yr oedd Cyfarfod mawr wedi ei gynnal gydâ golwg arno yn Exeter Hall, Llundain, yn nechreu Mehefin, 1843; yn yr hwn y cymmerid rhan gan nifer o'r gwŷr blaenaf yn mhlith y gwahanol Enwadau ymneillduol, a chan rai eglwyswyr efengylaidd, ac fe draddodwyd yno anerchiadau rhagorol a thra effeithiol ar y pwnc. Ar ol hyny, fe gedwid cyfarfodydd yma a thraw, yn neillduol yn y prif drefi, yn Lloegr ac yn Scotland, gydâ'r amcan o alw sylw Cristionogion at y mater, a'i gymhell ar eu hystyriaeth; a daeth llïaws o bregethau a thraethodau ar yr un cwestiwn allan trwy y Wasg. Ffrwyth hyn oedd ffurfiad Y Cynghrair Efengylaidd *(The Evangelical Alliance);* yr hyn a gymmerodd le mewn Cynnadledd nodedig o frwdfrydig,—yn gynnwysedig o dros wyth cant o Gristionogion, o Loegr, Cymru, Scotland, Iwerddon, Ffrainc, Germany, Switzerland, Unol Daleithiau yr America, a gwledydd ereill, a gynhaliwyd yn *Freemasons' Tavern*, Llundain, Awst 19—23, 1846.

Yr oedd yr ysgogiad hwn, o'r pryd y clywodd gyntaf am dano, yn cael lle mawr yn meddwl ac yn ymddyddanion Mr. Rees; ac yr oedd yn gobeithio am ddaioni dirfawr oddiwrtho. Yr oedd yn enwedig yn awyddus am weled yr ysbryd, a ymddangosai iddo ef yn dyfod i'r golwg ynddo, yn llywodraethu holl Gristionogion Cymru; a'r amrywiol Enwadau crefyddol yn dyfod i edrych ar eu gilydd fel brodyr yn yr Arglwydd, a phob rhagfarn ac eiddigedd rhyngddynt â'u gilydd yn darfod am byth. Yr oedd y mater hwn wedi ei ddwyn i ryw gymmaint o sylw, unwaith ac eilwaith yn ein Cymdeithasfäoedd, a gwelid fod dyddordeb mawr yn cael ei gymmeryd ynddo; nes y daeth yn deimlad cyffredinol y dylesid gosod mwy o arbenigrwydd arno. Felly yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 5, 6, 1844, fe benderfynwyd fod i Mr. Rees,—yn y Cyfarfod Ordeinio,

yn y Gymdeithasfa ganlynol, yr hon oedd i'w chynnal yn Mangor, Medi 11, 12,—draddodi Araeth ar "*Undeb* yr Eglwys," yn lle ar "*Natur* Eglwys," y testyn cyffredin ar y fath achlysur. Y mae yn naturiol i *ni* gofio yn dda am y Cyfarfod hwnw yn Mangor, oblegyd dyna y pryd ein neillduwyd ni, gydâ dau o frodyr ereill, sydd wedi myned ymaith er ys blynyddoedd bellach, i holl waith y Weinidogaeth. Ac yr ydoedd yn ddiddadl yn gyfarfod hynod iawn. Nid hawdd i ni synio am y posiblrwydd i neb ag oedd ynddo, ac mewn oedran i sylwi, allu ei annghofio byth. Mr. Hughes, Liverpool oedd Llywydd y Gymdeithasfa hono, eithr fe gymmerwyd y gadair yn y cyfarfod hwnw gan Mr. Prytherch o Fôn. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi gan Mr. John Hughes, Llangollen. Enwyd y brodyr oeddent i'w hordeinio, a dygwyd tystiolaeth i reoleidd-dra eu dewisiad, gan Mr. Davies, Fronheulog, fel Cadeirydd Cyfeisteddfod y Diaconiaid. Darllenwyd y rhanau arferol o'r ysgrythyrau, ac offrymwyd yr urdd-weddi gan Mr. William Havard. Yna traddododd Mr. Rees ei Araeth ar "*Undeb yr Eglwys.*" Gofynwyd y cwestiynau arferol gan Mr. Cadwaladr Williams. Gofynwyd cymmeradwyaeth y Cyfarfod i'r brodyr gan Mr. John Hughes, Pontrobert. Gofynwyd cydsyniad y brodyr â'r alwad gan Mr. Roberts, Amlwch. Yna traddodwyd y Cyngor gan Mr. Hughes, Liverpool, oddiar 2 Cor. ii. 16 a iii. 5: "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn? Ein digonedd ni sydd o Dduw." Terfynwyd trwy weddi gan Mr. Daniel Evans, Capel Drindod. Yr oedd rhyw deimladau hynod yn y Cyfarfod pan oedd yr hen frawd, Mr. Havard, yn gweddïo, a mwy nag unwaith pan oedd y Cyngor yn cael ei draddodi. Fe'n hesgusodir, ni a obeithiwn, am ymdroi cyhyd gydâ'r Cyfarfod hwn, yn gymmaint a bod neillduolrwydd arbenig yn perthyn iddo yn ei gysylltiad â ni yn bersonol. Eithr yr hyn a'n harweiniodd ato oedd y pennodiad ar Mr. Rees, i draddodi yr Araeth y cyfeiriasom ati, ar "*Undeb yr Eglwys.*" Ac yr oedd hono, yn wir ragorol, yn holl ystyr y gair. Anaml, os erioed, y clywyd Mr. Rees yn fwy gogoneddus. Yr

oedd y fath eneiniad ar ei ysbryd ef ei hunan, fel yr oedd yn diferu oddiwrtho mor nerthol, ac eto mor dyner, nes gwlitho a mwydo y gynnulleidfa i gyd. Yn ffodus, y mae yr Araeth hon yn gyflawn genym. Yr oedd y *Traethodydd* i ddyfod allan ddechreu y flwyddyn ganlynol; ac fe lwyddwyd i gael gan Mr. Rees addaw parotoi yr Araeth, megis erthygl i ymddangos ynddo; yr hyn hefyd a wnaeth, ar gyfer y rhifyn cyntaf o hono, Ionawr 1845 (*tudal.* 37—53); o'r lle yr adgyhoeddwyd hi, yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau (*tudal.* 390—414).

Yn lled fuan wedi ymddangosiad y rhifyn cyntaf o'r *Traethodydd*, fe ysgrifenodd y llythyr canlynol at Mr. Edwards:—

"Mulberry Street, Llun.

"ANWYL GYFAILL,—Tarawodd yn fy mhen y boreu heddyw "anfon llinell atoch, yn benaf o herwydd i Mr. ——— hysbysu "i mi ei fod wedi anfon llythyrau ——— i chwi, yn y rhai y "mae rhyw bethau a allant eich gofidio. Anfonwyf yn unig i "hysbysu i chwi fy mod yn cydymdeimlo â chwi, ac i'ch cynghori "i beidio a phoeni, ac er dim i ochelyd meddwl fod neb yn cyn-"nwys meddyliau annhirion am danoch o herwydd hyn. . . . . .

"Mae'r *Traethodydd* yn traethu yn arwinol. Ai chwi sydd "yn ymwthio ac yn gwneyd eich ffordd drwy'r holl gelfyddydau "at '*Gysondeb y Ffydd?*' Llwyddiant i chwi! Yr ydwyf "bron a meddwl eich bod wedi dyfod o hyd i egwyddor go dda. "Pwy a'n hanrhegodd ni ynddo â'r fath hannerob dda o *Facon*, "os gwyddoch? Mi a garwn i'r *Traethodydd* gael cynhaliaeth "ysgrifenwyr a darllenwyr. Ni ymddangosodd dim o'r un "rhywogaeth ag ef yn Nghymru o'r blaen. Ond dylai gychwyn "ar yr egwyddor o fod rhyw dâl i gael ei ro'i i'r neb a ysgrifeno "iddo, mor gynted ag yr hyfforddia hyny; oblegid y mae yn "annhêg i'r arolygydd, yr argraphydd, a'r gwerthydd, a phawb "gael tipyn, ond y rhai sydd yn darpar y defnyddiau. Y gamp "fydd cael digon o ddefnyddiau da, a chadw pethau gwael allan "o hono. Bydded farw yn hytrach nag ymostwng i weini i "chwaeth gecrus, isel Cymru, er mwyn cael byw. Os byw,

"gwneler ef yn fagwyr efydd gadarn i'r bobl yma; na ddych-"weled ef atynt hwy, ond dychwelant hwy ato ef. Ond ychydig "at ei godi a'i gynnal sydd yn ngallu,

"Eich annheilwng gyfaill, H. REES."

Yn lled fuan wedi hyn, efe a ysgrifenodd y llythyr canlynoı, at ei hen gyfaill hoff a ffyddlawn, a'i hen letywr caredig am flynyddoedd lawer, Mr. Hugh Griffiths, o'r Amwythig, yr hwn oedd wedi bod mewn cryn waeledd corphorol:—

"Liverpool, Mulberry Street, Chwefror 26, 1845.

"ANWYL HEN GYFAILL,—Mae yn dda iawn genyf ddeall eich "bod yn gwellhâu yn eich iechyd, ac yn cryfhau yn eich corph; "a gobeithiaf eich bod yn parhau felly. Gwell oedd genyf "ddeall fod yr Arglwydd wedi bod yn dda wrth eich enaid, yn "ystod eich cystudd diweddar. Hyderaf na bydd llawer o "fylchau eto yn eich cymundeb â'ch gilydd, hyd oni byddo wedi "ei berffeithio yn y nefoedd. Bydd yno yn ddifylchau byth.

"Rhywbeth oedd yr ymweliad yma i chwi i wneyd diwedd "eich oes yn fwy tirf ac iraidd—i'ch dwyn i ymofyn am iachau "yr holl *breaches* ag sydd yn digwydd yn gyffredin, yn ystod "hir oes o grefydda, yn mywyd y cristion manylaf. Rhyw beth "ydoedd i beri i chwi droi y byd yma drosodd yn eich llythyr-"cymun i rywrai ereill, a thynu eich traed atoch gydâ phob peth "a welir, ac felly i fod yn barod ac addfed erbyn y tro nesaf, i "glafychu o'r clefyd y byddwch chwi marw o hono.

"Yr ydwyf finnau hefyd yn lled wael y dyddiau hyn: anwyd "trwm, a hwnw yn codi i fy mhen, yn bendro, nes y mae'r "ddaear yn myned i brancio dan fy nhraed, a minnau yn syrthio "ar fy hyd gyhyd ar ei gwyneb. I think of death and shudder; "but I have nothing but Christ. I want nothing; I will have "nothing; no! nothing, nothing but Christ!

"'Mwy t'raned Sinai gaeth;
Beth waeth gen i?'

"Best, that is the holiest regards—the love, not that carnal, not

"that common friendship, but the love which is in Christ, to "Mrs. Griffiths, family, and friends in Shrewsbury.

"Yours, H. REES."

Yr oedd meddwl Mr. Rees yn cael ei drallodi yn ddirfawr y misoedd hyn, ac er ys dros flwyddyn cyn hyn, yn achos un o'r brodyr a anfonasid allan fel Cenhadwr i Fryniau Cassia yn 1842, ond y parodd rhyw amgylchiadau i'r Cyfeisteddfod Gweithiol yn Liverpool, mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwyr Sirol, ddyfod i'r penderfyniad i'w alw i ddychwelyd adref. Nid oes angenrheidrwydd am i ni, a byddai yn dra annymunol genym, fyned i mewn i fanylion yr achos hwnw. Gall y darllenydd, a ddewiso hyny, gael cyfeiriadau helaethach ato yn y Pedwerydd Adroddiad Cenhadol, ac yn y Drysorfa am Mehefin, 1845, tudal. 177, 178, ac am Awst, 1845, tudal. 244, 245. Digon i ni yma ydyw dywedyd, fod Mr. Rees, a'i gyfaill a'i gydweinidog, Mr. Hughes, wedi eu galluogi, yn yr amgylchiad poenus hwnw, i arddangos mesur tra annghyffredin o'r ffyddlondeb Cristionogol, ac o'r mwyneidd-dra doethineb, ag a'u hynodent yn wastad pan yn gorfod ymdrin âg achosion dyrys dysgyblaethol.

Y mae yn hawdd gweled oddiwrth ei lythyr at Mr. Griffiths o'r Amwythig, a ddyfynasom uchod, fod iechyd Mr. Rees y pryd hyn yn mhell o fod yr hyn a fuasai yn ddymunol. Yr ydym, hyd yn nod yn awr, megis yn teimlo rhyw iasau yn myned trwom wrth ddarllen, odditan ei law ef ei hunan, ei fod, gan ryw fath o ben-syfrdandod, yn syrthio ar ei hyd gyhyd ar y ddaear. Dylasai gael gorphwys. Ond nid oedd gorphwys iddo; yn wir, yr oedd yn myned yn fwy-fwy caethiwus i waith. Heblaw ei fod yn gorfod myned rhagddo, heb ddim seibiant, gydâ'i waith cyffredin yn Liverpool, Sabboth ar ol Sabboth, ac wythnos ar ol wythnos, yr oedd yn myned yn gyson i'r amrywiol Gymdeithasfäoedd yn Ngogledd Cymru, ac yn cymmeryd y rhan fwyaf arbenig ynddynt; ac yn fynych iawn fe osodid arno ryw wasanaeth neu arall mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa, a

ychwanegai yn ddirfawr at ei lafur ef. Fe osodwyd arno orchwyl felly mewn cysylltiad â'r Ordeiniad yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 11, 12, 1845, pryd y neillduwyd y brodyr Mr. John Parry o'r Bala (Dr. Parry wedi hyny), a Mr. Daniel Jones, Cilcen, yr hwn oedd yn myned allan yn Genhadwr i Cassia, i'r holl waith; ac y gosodwyd ar Mr. Rees draddodi y Cyngor ar yr achlysur. Yr oedd y Cyngor hwnw yn seiliedig ar gynghorion Paul i Timotheus, fel y maent i'w cael yn ei Epistolau ato. Ac yr oedd yn Gyngor ardderchog. Yr oedd felly yn ngwir ystyr y gair. Yr oedd pawb yn ei deimlo felly pan oedd yn cael ei draddodi, ac y mae yn anmhosibl i neb ei ddarllen heb deimlo yr un peth. Fe'i darparwyd yn ofalus i'r Wasg, gan Mr. Rees ei hunan, ac fe'i cyhoeddwyd fel erthygl yn y *Traethodydd*, am Ebrill, 1847 (*tudal.* 129—148) dan y teitl, "Paul a Thimotheus: Annerchiad at Bregethwyr Ieuainc Cymru;" ac oddiyno fe'i hail-gyhoeddwyd yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau (*tudal.* 294—323). Nis gall pregethwyr, pa un bynag ai ieuainc ai mewn oedran y byddont, yn hawdd gael gafael ar unrhyw beth i'w ddarllen mwy cyfaddas i'w cynhyrfu, eu bywiogi, eu hadeiladu, yn y gorchwyl pwysig y maent wedi ymgymmeryd âg ef, nag a gânt yn y cyfansoddiad rhagorol hwn. Yr oedd yr hen frawd, y diweddar Barch. William Roberts o Glynnog, yn traddodi y Cyngor yn y Cyfarfod Ordeinio, yn y Bala, yn Mehefin, 1847, yn mhen ychydig wedi i'r rhifyn o'r *Traethodydd* a gynnwysai yr Annerchiad hwn gael ei gyhoeddi; ac yr ydym yn cofio yn dda mai un o'r pethau cyntaf a ddywedodd oedd,—"Pe buasai y *Traethodydd* diweddaf genyf, buaswn yn darllen cyfran o hono; oblegid nis gwn am ddim a ddarllenais erioed, yn cynnwys pethau mwy pwysig a pherthynol i weinidogion yr efengyl, na'r traethawd a enwir, 'Paul a Thimotheus.'" Ac y mae yn ddiammeu genym mai dyna oedd y syniad cyffredin yn y wlad am dano, yn enwedig yn meddyliau ein dynion goreu, a'r rhai cymhwysaf i roddi barn ar y fath gwestiwn.

Yn nechreu mis Hydref (1, 2, 3), 1845, fe gynhaliwyd Cynnadledd fawr yn Liverpool, yn cynnwys tua thri chant o bersonau,

yn cynnrychioli dau ar bymtheg o enwadau Cristionogol, tuag at ffurfio Undeb Efengylaidd rhwng Cristionogion â'u gilydd—cyfarfod a arweiniodd yn uniongyrchol i ffurfiad y Cynghrair Efengylaidd yn y Cyfarfod mawr y cyfeiriasom ato eisoes, a gynhaliwyd yn Llundain yn Awst, 1846. Yr oedd Mr. Rees yn bresennol yn y Gynnadledd hòno yn Liverpool, ac yn cymmeryd dyddordeb mawr yn ei gweithrediadau. Fel y canlyn yr ysgrifena am dani:—"Mae yn ddiammeu y bydd y cyfarfod a gynhaliwyd yn Liverpool, yn yr Hydref diweddaf, ar gael yn hir yn nghroniclau yr eglwys. Nid peth bychan ydoedd gweled cynnifer o eglwyswyr ac o ymneillduwyr—dynion o bob parth, ac o fysg pob enwad efengylaidd, o fewn y Deyrnas Gyfunol,—wedi cydymgynnull i ddiben mor oruchel ac annghyffredin, ag amcanu ffurfio undeb gweledig rhwng holl deulu Duw. Ac os llenwir yr holl eglwys â'r ysbryd ag yr oeddent hwy wedi eu diodi iddo y dyddiau hyny, maent yn sicr o lwyddo hefyd. Yr oedd y fath gyd-gordiad yn ffÿnu yn eu mysg, tôn eu hysbryd a'u gweddïau mor gyffelyb, fel y tybiem y buasai yn anmhosibl i'r mwyaf cyfarwydd yn Shiboleth y gwahanol bleidiau, wahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Gallesid gofyn, Pwy yw yr eglwyswr? a pha le y mae yr ymneillduwr? Yr oll oedd yn amlwg, yn enwedig yn y rhanau defosiynol o'r cyfarfod, oedd y *Cristion—dynion âg Ysbryd Duw ganddynt.*"

Yn lled fuan wedi y Gynnadledd hòno, ni a gawn y llythyr canlynol o'i eiddo at Mr. Edwards:—

"Mulberry Street, Liverpool, Hydref 18, 1845.

"ANWYL GYFAILL,—. . . . . . . Addewais ysgrif i'r *Traethod-*
"*ydd* nesaf. Rhoddais gryn amser i barotoi, ond hynod o'r
"digalon yw hi. Ond nid wyf wedi rhoi fy mwriad heibio eto.
"Buasai yn dda genyf i chwi edrych dros fy ysgrif, a'i thal-
"fyru hwyrach; tynu gair, neu newid, neu ychwanegu, i
"wneyd y meddwl yn fwy eglur. Yr wyf yn sôn ychydig am
"yr Undeb Efengylaidd ynddi fel un o arwyddion yr amserau.

"Ond crybwylliad byr yw. Llanrwst yw y fan gyntaf i chwi i "geisio codi a dangos hwnw i Gymru. Gobeithiaf yr ewch yno "i ymdrechu gwneyd hyny. Mae offeiriaid yn dyfod yn mlaen "o hyd iddo, ac yn eu mysg offeiriad Llaneurgain, Swydd "Fflint; hen gyfaill i Mr. Elias.

"'Am y *Traethodydd* olaf, hyderaf na bydd sôn
Am ddim yn peri gofid i neb yn ynys Môn;
Ond *truth* ar Eglwys Scotland, a'r sylw a'r odre'r dail,
Sy'n sawru o'r *Adda'r cynta'* yn fwy *nag Adda'r ail*."

"Mae ——— yn ddi-ildio am ddyfod i'r Bala er gwaethaf "pawb. Mae yn cerdded y dref am arian, ac wedi cael cryn "dipyn, meddant hwy. Mae'r Cyfarfod Misol wedi peri iddo "fod yn llonydd, ond nid oes dim yn tycio. Mae yn fy myddaru "fi y dyddiau hyn, eisiau i mi ysgrifenu llythyr gydâg ef atoch "chwi. Yr wyf fi yn dechreu troi i wneyd y gwynebau hyny "arno am ba rai y dywedwch fy mod mor hynod; gwnaethum "un o honynt arno heddyw y bore. Ond os daw ef yna, a "dderbyniwch chwi ef? onide, hwyrach y byddai yn well i "chwi anfon gair at rywun yma, i ddyweyd na wiw iddo mo'r "dyfod; oblegid ni synwn i ddim nad dyfod a wnaiff e' er "gwaethaf pawb, oddieithr i chwi anfon felly."

Yr ysgrif y cyfeirir ati yn y llythyr blaenorol, a ddarparesid gan Mr. Rees i'r *Traethodydd*, yw yr erthygl ar "Arwyddion yr Amserau," a ymddangosodd yn y rhifyn am Ionawr, 1846 *(tudal.* 89—105), ac a ail-gyhoeddwyd yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau *(tudal.* 498—523). Mae yr Ysgrif hòno yn dra nodweddiadol o ysbryd ac ansawdd meddwl Mr. Rees, nid yn unig y pryd hwnw, ond i fesur mawr ar hyd ei oes; yn y pryder a'r ofn oeddent mor naturiol iddo wrth edrych ar bethau oddiamgylch iddo, ac ar yr un pryd, o'r gobaith a'r cysur a goleddai, wrth edrych i fynu at Dduw a'i addewidion.

Diehon y dylem ddywedyd gair mewn cyfeiriad at y llinellau ar ddull pennill, yn y llythyr blaenorol. Mae yn hawdd iawn i'w gyfeillion weled y duedd nwyfus chwareugar oedd mor

gref ynddo, ac a arddangosid ganddo mor fynych mewn ymdrafodaethau cyfeillgar, yn dyfod i'r golwg ynddynt; tra yr un pryd y gwelant hwy hefyd, y buasai yn well ganddo ef, pe buasai yr ysgrifenydd y cyfeiria ato, wedi dewis rhyw ffordd arall i ddangos ei annghymmeradwyaeth o'r hyn a gondemnir ganddo. Ond dyma yr amgylchiadau. Yn un o gyfeisteddfodau Cymdeithasfa Caernarfon, Medi 10, 11, 1845, fe ddarfu i'r Parch. Cadwaladr Williams o Sir Fôn, alw sylw, ar ei gyfrifoldeb ei hun, at yr erthygl ar "Maynooth," yr hon a ymddangosasai yn y *Traethodydd* am y Gorphenaf blaenorol. Yr oedd y diweddar Sir Robert Peel, yr hwn oedd y pryd hyny yn brif weinidog y deyrnas, wedi dwyn ysgrif i'r Senedd er gwaddoli Coleg Pabaidd Maynooth, yn yr Iwerddon; yr hon a wnaed yn ddeddf, ar draws syniadau a theimladau Protestanaidd ac efengylaidd y wlad. Ac yn yr erthygl grybwylledig, yr hon fel y mae yn hysbys, a ysgrifenasid gan Mr. Edwards, fe ddynoethir gweithrediadau Sir Robert a'r blaid y perthynai iddo yn y modd mwyaf diarbed. Yr oedd ar Mr. Williams eisieu i'r Gymdeithasfa ddatgan ei hannghymmeradwyaeth o'r erthygl, yn gymmaint a'i bod, fel yr oedd efe yn synio, yn "cablu urddas," ac yn tueddu i greu ysbryd gwrthryfelgar yn erbyn y llywodraeth. Ni chafodd Mr. Williams ond ychydig iawn o gefnogaeth yn y Cyfeisteddfod hwnw, na neb yn tueddu i ddwyn y peth i sylw cyhoeddus yn y Gymdeithasfa. Yr oedd awdwr yr erthygl ei hunan yn bresennol, er nad oedd pawb oeddent yno, nac yn wir ond ychydig, yn deall mai efe ydoedd; eithr ni ddywedodd air ar y mater. Yr oedd amryw o'r brodyr yn teimlo fod iaith yr erthygl yn rhy eithafol, a'r awgrymiadau gydâ golwg ar amcanion y prif weinidog, yn mhell o fod yn yr ysbryd goreu; ond yr oedd y frawdoliaeth yn gyffredin yn teimlo fod hawl hollol gan yr holl ddeiliaid i feirniadu mesurau y llywodraeth, a defnyddio pob moddion cyfreithlawn i'w gwrthwynebu, pan yn argyhoeddedig eu bod yn myned yn erbyn deddfau y nefoedd.

Pa fodd bynnag, yn y *Traethodydd* am yr Hydref dilynol i'r Gymdeithasfa yn Nghaernarfon, yn nglyn âg ysgrif fèr gan yr

awdwr, ar yr "Eglwys Rydd," yr ydym yn cael y nodiad canlynol, yn ngwaelod y ddalen:—"Yr ydym yn deall fod tri neu bedwar yn Nghymru yn ceisio haeru na ddylid beio ar y Seneddwyr a'r gweinidogion gwladol, pa ddrygau bynnag a wnelont. Pe b'ai y dynsodion hyn yn gwybod ychydig am natur y llywodraeth dan ba un y maent yn byw, hwy a ddeallent fod cyfansoddiad y deyrnas hon yn sicrhau rhyddid i'r deiliaid i draethu eu meddyliau yn ëofn am holl weithredoedd cyhoeddus y gweinidogion gwladol; ac nid hyn yn unig, ond hefyd yn eu galluogi i'w troi o'u Swyddau. Y mae yn amlwg gan hyny fod y cyfeillion a nodwyd yn gwrthwynebu cyfansoddiad y deyrnas. Barnasom mai nid anfuddiol fyddai cymmaint a hyn o gyfeiriad atynt wrth fyned heibio; ond nid ydynt yn werth ychwaneg o sylw *(tudal.* 433)." Y nodiad hwn, yn gystal a rhai brawddegau yn yr Erthygl ei hunan, a barai i Mr. Rees ofni y parai ofid i ryw rai "yn ynys Môn." Y mae yn iawn i ni ychwanegu ddarfod i Dr. Edwards, pan yn ail-gyhoeddi yr Erthygl ar "Maynooth" yn y "Traethodau Llenyddol," yn mhen tua phum' mlynedd ar hugain ar ol ei hymddangosiad cyntaf yn y *Traethodydd*, wneuthur hyny gydâ'r Rhag-sylw canlynol:—

"Er mwyn gorphen ein dadgyffesiadau yr ydym yn ailargraffu yr erthygl ar 'Maynooth,' gydâ hyn o ragymadrodd i hysbysu ein bod yn galw yn ôl yr hyn oll sydd ynddi yn y mesur lleiaf yn beirniadu ar ddybenion Syr Robert Peel. Un o'r peryglon sydd yn perthyn i'r cyhoeddiadau cyfnodol ydyw, eu bod yn hudo dynion ieuainc anwybodus i siarad gydâg anffaeledigrwydd anweddaidd am rai anmrhaethol uwch na hwy eu hunain. O'r bai hwn y buom yn euog yn yr erthygl sydd yn canlyn. Mae yn wir nad ydym eto yn ystyried Syr Robert Peel yn un o'r rhai uwchaf: ond yr oedd yn rhy uchel y pryd hwnw i lefaru am dano fel y gwnaed yma; a chododd ei hun yn llawer uwch trwy ei ymddygiadau ar ol hyny *(tudal.* 422)."

Yn nghylch y gŵr oedd am fyned i Athrofa'r Bala "er

gwaethaf pawb," ac ar yr hwn y gwnaethai Mr. Rees un o'r "gwynebau," oedd yn dangos yn ddigêl deimlad ei galon,—ni a allwn hysbysu ei fod, y pryd hwnw, wedi cyrhaedd oedran gŵr, ac yn hynach o gryn lawer na'r rhan fwyaf pan y byddant yn dechreu pregethu. Yr oedd, pa fodd bynnag, wedi gosod ei fryd ar fyned i'r pulpud; ac yn meddwl y byddai myned i'r Bala yn rhwyddhau y ffordd iddo i hyny, yn gystal ag yn ei gymhwyso at hyny. Eithr, ysywaeth, nid oedd neb ond efe ei hunan yn gweled ynddo unrhyw gymhwysder at y gwaith. Cafodd Mr. Rees lawer o boen a thrafferth gydâg ef, gan na chymmerai ei berswadio i aros mewn unlle îs na'r pulpud. Pa fodd bynnag, nid oedd ond drws cauad o'i flaen; ac o'r diwedd, efe a flinodd yn ymgais, ac a aeth ymaith at enwad arall, a chafwyd llonydd ganddo.

Yr oedd yr Undeb Efengylaidd yn cael lle mawr iawn yn meddwl Mr. Rees y misoedd hyn, ac yr oedd yn dra phryderus yn nghylch ei lwyddiant. Dyma lythyr a anfonwyd ganddo at ei gyfaill o'r Bala gydâ golwg arno:—

"Mulberry, Rhagfyr 19, 1845.

"Anwyl Gyfaill,—Yr wyf yn anfon atoch i ymofyn a "wyddoch chwi a ydyw hanes ac areithiau y Gynnadledd ddi- "weddar yn y dref hon wedi dyfod i Gymru. A ddaethant hwy "i'r Bala? a gawsoch chwi un? Ac a ydynt hwy i'w cael, "dybygech chwi, yn amryw barthau o Gymru? Yr achos fy "mod yn gofyn yw, fod genym ychydig o honynt a allem anfon, "pe gwyddem pwy sydd hebddynt, ac, hwyrach, heb gyfleustra "i'w cael. Nid oes dim i'w dalu am danynt, oddieithr y bydd "ychydig am eu cludiad. Yr ydwyf yn dra awyddus am i'n "gwŷr penaf eu gweled cyn cyfarfod yn Llanrwst. Gallem "ddanfon dau neu dri i bob Sir; ond byddai yn ofer myned i'r "draul i'w hanfon gydâ'r *Post*, yn lle disgwyl rhyw gyfleustra "rhatach, yn enwedig pe byddai y brodyr yr anfonid hwy atynt "wedi eu cael eisoes a chynt. Mae yr un arogl hyfryd arnynt "wrth eu darllen ag oedd yn cydfyned â hwy ar eu tywalltiad o

"enau yr areithwyr. Yn yr hanes a'r areithiau a gynnwysa, "gellwch farnu y fath deimlad sydd yma yn nghylch yr "*Evangelical Alliance.* Yr oedd yr ystafell fwyaf yn y dref "hon yn rhy fechan i gynnal y gwrandaẅwyr; felly agorwyd "ystafell arall, a chynhaliwyd dau gyfarfod ar yr un pryd. Yr "oedd y ddwy ystafell yn orlawn; a'r areithwyr yn myned, ar "ol cyfarch un gynnulleidfa, i'r ystafell arall i gyfarch y llall. "Ni bu dim o'r fath beth yn y dref yma o'r blaen. Yr oedd "Mr. McNeile wedi pregethu hefyd yn erbyn yr Undeb y "Sabboth diweddaf; a chlywais ddyweyd fod Mr. James yn "bwriadu gwneyd felly y Sabboth nesaf; ond nis gwn a yw "hyn yn wir.

"Beth dybygech chwi yw y teimlad yn Nghymru at yr achos "hwn? Clywais ddyweyd i chwi gael rhyw gyfarfod gydâ'r "holl enwadau yn Nolgelleu; ond ni chlywais ddim i fanyl-"rwydd. Mae y Cymry yn y dref hon yn bwriadu cael cyfar-"fod. Yr wyf fi yn barnu mai ysgogiad wedi dechreu, a'i "ddwyn yn mlaen hyd yma, yn hollol dan ddylanwad yr Yspryd "Glân yw yr ysgogiad hwn; a gwell a fyddai i'r Cymry beidio "cynnyg at ddim yn eu mysg eu hunain, oddieithr iddynt gael "eu diodi i'r un Ysbryd ag y mae Cristionogion yn Lloegr, "Scotland, a manau ereill, yn amlwg wedi eu diodi iddo. Mae "eu drwg deimlad, eu heiddigedd, a phellder y pleidiau oddiwrth "eu gilydd, yn llawn cymmaint, os nad mwy nag yn mysg y "Saeson a'r Scotiaid, pan y mae eu hanwybodaeth am ansawdd "bresennol crefydd yn llawer mwy."

Y mae yn ddrwg genym fod gweddill y llythyr uchod wedi ei dori ymaith a'i golli. Ond y mae digon ynddo i ddangos mor ddwfn yr oedd yr ysgogiad y cyfeiria ato wedi myned i'w ysbryd ef.

Yn Nghymdeithasfa Llanrwst, Ionawr 8, 9, 1846, yr hon, fel y nodasom eisoes, oedd Cymdeithasfa Flynyddol yr Ysgol Sabbothol y pryd hwnw, fe alwyd,—yn Nghyfarfod yr Athrawon a'r Athrawesau—ar Mr. Rees, ac ar ei gyfaill a'i gyd-weinidog

Mr. Hughes, i roddi hanes Cynnadleddau yr Undeb Cristionogol yn Liverpool, ac i egluro egwyddor ac amcan yr Undeb. Ac fe wnaed hyny ganddynt mewn modd nodedig o effeithiol. Yn Nghyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid yn yr un Gymdeithasfa, fe gytunwyd yn unfryd, a chydâ cryn fesur o deimlad, ar y penderfyniad,—"Ein bod fel Cymdeithasfa yn mawr gymmeradwyo, ac yn llawenychu o herwydd yr ysgogiad sydd yn cael ei wneuthur tuag at ffurfio Undeb neu Gynghrair rhwng Cristionogion efengylaidd, ac yn ymrwymo yn ewyllysgar i weithredu hyd ag y gallwn er hyrwyddo yr amcan daionus hwn." Annogwyd hefyd yr eglwysi a'r cynnulleidfäoedd i gynnal Cyfarfodydd Gweddïau gydâ brodyr o'r gwahanol enwadau crefyddol a fyddont barod i ymuno â hwynt, i ofyn am nodded a bendith yr Arglwydd ar yr Undeb a fwriedir gael. Yr oedd meddwl Mr. Rees yn nodedig o gysurus ar ol y Gymdeithasfa hon yn Llanrwst, ac yr oedd yn gobeithio yn fawr y byddai i'r ysbryd a welai yn meddiannu cynifer o ddynion goreu Lloegr a Scotland, yn ymdaenu hefyd drwy Gymru. Yn mhen tua mis wedi Cymdeithasfa Llanrwst, sef ar brydnawn dydd Mercher, Chwefror 4, 1846, fe gynhaliwyd Cyfarfod Cymraeg yn mhlaid yr Undeb yn y Concert Hall, Lord Nelson Street, Liverpool. Prin, yn ol pob peth a'r a glywsom, y bu braidd gyfarfod erioed a barodd fwy o gyffröad yn mhlith ein cyd-genedl yn y dref hon na hwn. Yn fuan ar ol ei gyhoeddi dosbarthwyd dros dair mil o docynau, a gwelwyd y byddai angenrheidrwydd am gael ystafell ychwanegol i gynnwys y lliaws a ddymunent fod yn bresennol yn y Cyfarfod. Darparwyd at hyny yn ddioed; a threfnwyd fod i gyfarfod arall gael ei gynnal, ar yr un pryd, yn y Commercial Hall. Llanwyd y Concert Hall mewn ychydig funudau ar ol agor y drysau. Aeth ugeiniau ymaith wedi clywed fod y lle yn orlawn; ac wedi clywed yr un peth drachefn am y Commercial Hall, gorfu ar laweroedd ddychwelyd adref yn siomedig am y naill a'r llall. Yr oedd yr olwg yn y Concert Hall yn hynod o odidog. Yr oedd yno gynnulliad o lïaws o'r meddyliau galluocaf a berthynent i'n cenedl mewn

cysylltiad â'r amrywiol enwadau: megis y Parchedigion Henry Rees, John Hughes, John Parry, Caerlleon, William Roberts, Clynnog, Morgan Howell, ac ereill o'r Trefnyddion Calvinaidd; William Rees, Thomas Pierce, Hugh Pugh, Mostyn, ac ereill o'r Annibynwyr; Richard Bonner, Rowland Hughes, ac ereill o'r Wesleyaid; heb sôn am ugeiniau o wŷr galluog oeddent yno heb fod yn y weinidogaeth. Tybid fod tua dwy fil yn bresennol. Dywedid fod tua deuddeg cant yn bresennol yn y Commercial Hall ar yr un amser. Cymmerwyd y gadair yn y Concert Hall, gan Mr. Davies, Mount Gardens; a thraddodwyd areithiau ardderchog a thra effeithiol gan weinidogion o wahanol enwadau. Yr oedd araeth Mr. Rees, y noswaith hono, yn un o'r pethau ardderchocaf, yn ol fel yr adroddwyd i ni, a draddodwyd ganddo erioed. Yr oedd ei enaid ei hunan wedi ei feddiannu gan y testyn, ac yr oedd effeithiau angerddol i'w sylwadau arno, ar yr holl gynnulleidfa. Y mae adroddiad cyflawn o'r Araeth, fel ag y rhag-ddarparesid hi ganddo ef ei hunan, yn yr ail gyfrol o'i Bregethau, *tudal.* 462—466; ac y mae yn werth ei darllen a'i hastudio yn fanwl gan bawb sydd yn caru Undeb Cristionogol. Yn mhen Sabboth neu ddau wedi y Cyfarfod hynod yn y Concert Hall, fe draddododd Mr. Rees bregeth ragorol ar destyn mawr y Cyfarfod—Undeb Cristionogol,—yn y Capeli y gwasanaethai ynddynt yn Liverpool y Sabboth hwnw; ac yn y Capelau ereill yn y dref, yn y Cyfundeb y perthynai efe iddo, ar ol hyny. Ni chlywsom am dano yn ei phregethu yn un man arall oddieithr yn Llundain, y Sabboth ar ol y Cyfarfod mawr, y cyfeiriasom ato eisoes, a gynhaliwyd yno yn Awst, 1846, i ffurfio y Cynghrair Efengylaidd. Y mae y bregeth wedi ei hargraphu yn yr ail gyfrol o'i Bregethau (*tudal.* 449—462), allan o'r ysgrifen o honi oddi tan ei law ef ei hunan; ac y mae, yn gysylltiedig â'r ysgrif ar Undeb Cristionogol, a ymddangosasai yn y *Traethodydd*, a'r Araeth hynod ar yr un testyn, yn y Cyfarfod yn y Concert Hall yn Liverpool, yn brawf pendant nid yn unig o fod y testyn wedi cael lle mawr yn ei feddwl ef, ond fod y meddwl hwnw yn nodedig o ffrwythlawn, er cynnyrchu

helaethrwydd ac amrywiaeth mawr o syniadau, ar y cwestiynau neillduol a dynent ei sylw.

Wele lythyr eto o'i eiddo at Mr. Edwards o'r Bala:—

"Ebrill 22, 1846.

"ANWYL GYFAILL,—Derbyniais eich llythyr y funud hon. "Yr ydwyf yn ofni fod yn anmhosibl cael neb oddiyma i fyned "i Manchester heddyw. Mae Mr. Hughes a minnau yn "cychwyn y boreu yfory i Langollen, ac yr ydwyf fi i fod "yn yr Amwythig y Sabboth nesaf. Crybwyllaf yr achos "wrth Mr. John Roberts heddyw; oni b'ai ei fod ef yn gallu "myned yno, nid oes yma neb yn debyg o allu myned. . . . . . .

"Am ysgrif i'r *Traethodydd* erbyn canol y mis nesaf, ofnwyf "fod hyny yn anmhosibl, gan fy mod yn cychwyn yr 11eg o'r "mis i Ddeheudir Cymru; ac ni ddychwelaf adref hyd y Sul-"gwyn; felly gwelwch nad oes genyf ddim amser. Hwyrach y "byddwch yn Llangollen [yn Nghyfarfod Blynyddol y dref "hono]; felly caf eich gweled chwi.

"Drwg oedd genyf glywed am afiechyd Mr. Charles; ond "hyderaf, gan ei fod wedi troi ar wellâu, y bydd wedi cyrhaeddyd "perffaith iechyd yn fuan. Yr ydwyf fi yn teimlo iselder "meddwl, a rhyw bryder gofidus, nas gwn am ba beth, yn fy "nal yn fynych iawn. Hawdd a fyddai i'r Brenin mawr wneyd "fy nychymygion yn fflangell drom arnaf fi. Yr wyf yn syrthio "yn ysglyfaeth iddynt ar yr achlysuron lleiaf. Gweddïwch "drosof, a throsom oll. Yr wyf wedi blino 'ar y wlad lle mae "pechu.' Gydâ chofion at Mrs. Edwards,

"Yr eiddoch yn garedig, eich gwael gyfaill,

"HENRY REES."

Yn mhen ychydig ddyddiau wedi iddo ysgrifenu y llythyr hwn,—Ebrill 28, 1846,—bu farw ei hen gyfaill, y Parch. John Parry, Caerlleon, yn 71 mlwydd oed; a'r Sabboth canlynol, Mai 3, fe draddododd Mr. Rees bregeth angladdol iddo, yn y Capel Cymraeg yn Nghaerlleon, gydâ grym a dylanwad mawr

Fe anfonodd Mr. Rees y sylwadau a wnaed ganddo ar yr achlysur ar Mr. Parry, i'r *Drysorfa*, y rhai a gyhoeddwyd yn y rhifyn am Gorphenaf, 1846, *tudal.* 193—195. Gan nas gall y rhifyn hwnw fod yn nghyrhaedd ond ychydig o'n darllenwyr, ni a gymmerwn ein rhyddid yma i ddyfynu rhai rhanau o'i sylwadau; nid yn unig, nac yn benaf, oblegid eu perthynas â Mr. Parry, ond fel engraifft o'r gallu oedd yn eiddo i Mr. Rees i bortreadu cymmeriad brawd a chyfaill, ac ar yr un pryd o'r cywirdeb a'r gonestrwydd oedd yn hyn fel yn mhob peth arall yn ei hynodi:—"Yr ydoedd yn ŵr o gorph lluniaidd—o feddwl gwastad—o dymher gymdeithasol—ac o arferion da. Ar yr un pryd, tybiwyf fod math o ddwysder meddwl, mewn cysylltiad â gor-dynerwch ei deimladau, yn peri fod ei ysbryd yn ddarostyngedig i gythruddo, pa bryd bynag y cyfarfyddai âg ymddygiad haerllug, neu wrthwynebiad disymwth, gydâ'r achos fyddai ganddo mewn llaw; ac os na safai yn ddewr dros ei bwnc, eisteddai i lawr, hwyrach yn ddigofus weithiau; pa fodd bynag yn drist ac archolledig ei feddyliau. Hawdd er hyny ydoedd i'r doeth ei ynnill, os nad i'r cyfrwysgall ei gam-arwain ar rai achlysuron; canys yr wyf yn tueddu i feddwl, er ei fod yn gall fel y sarph, yn gystal a diniwed fel y golomen, eto fod y rhinwedd olaf yn gorbwyso y llall yn ei gymmeriad.

"O'm rhan fy hun, nis gallaswn byth feddwl am dano fel Cristion na phregethwr, heb fod yn barod i ddywedyd, 'Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.' A phob amser y cyfarfyddwn âg ef mewn Cymmanfa, neu Gyfarfod Misol, byddai fy nghalon yn ei barchu fel 'un o heddychol ffyddloniaid Israel.' Ei gâs bethau ef oeddent athrod ac enllib; ac oddiar wir ofn annghydfyddiaethau, byddai ambell waith fel yn awyddus i ysgoi testynau ymrafaelion, pan, fe ddichon, y byddai angenrheidrwydd am eu trin—prysurai yn mlaen at ryw fater arall, ac nid anfynych y trinai hwnw gydâ'r fath londer a difyrwch, nes gwneyd pawb o leiaf am y tro, yn rhy ddigrif a hapus i ymrafaelio â'u gilydd. Yr oedd tymher ei ysbryd fel olew esmwyth yn lleddfu teimladau blinion y galon; ac yn

dirymu dyn i ymladd âg ef. Yn wir, fe ymddangosai megis yn ormod o drueni i folestu ysbryd mor lednais, a sathru ar gymmaint o ddiniweidrwydd a duwioldeb. Nis gallaf fi farnu fod rhyw hynodrwydd mawr ar ei feddwl o ran eangder na threiddgarwch; ac eto yr oedd rhyw neillduolrwydd yn perthyn iddo; gosodai ei ddelw ar ei holl gynnyrchion; pa un bynag a wnelai ai pregethu ai ysgrifenu, yr oedd rhywbeth gymmaint arno ei hun yn ei holl waith, fel ag yr oedd yn hawdd i'r cydnabyddus a'r doeth benderfynu mai yr eiddo Mr. Parry, o Gaer, ydoedd, ac nid neb arall.

"O ran ei gymmeriad gweinidogaethol, yr ydoedd i'm tyb i, yn dwyn mwy o synwyr a phwyll y dyn—mwy o amynedd a ffyddlondeb yr ŷch nag o wroldeb y llew, na threiddgarwch a hediadau cyflym ac uchel yr eryr. Eglurhau a dysgu oedd ei amcan ef. Nid bob amser, fe ddichon, yr edrychai ar bob ochr i'r pwnc, nac yr argyhoeddai ein meddwl o gywirdeb ei syniad; pa fodd bynnag, ni byddem byth yn methu a'i ddeall ef. Y peth a drinai a drinid ganddo mor fedrus a goleu, fel y gwelem ei olygiad o bell ac yn eglur. Yr oedd ganddo ddawn arbenig i ddehongli geiriau y Beibl, ac i drin ei hanesion sanctaidd ef, er buddioldeb i'r rhai a wrandawent arno. Dygai allan ei addysgiadau ar brydiau felly, drwy siarad â'r gwahanol bleidiau y cyfeirid atynt yn ei destyn, a gwneyd iddynt hwythau siarad âg yntau ac â'u gilydd: a thra yr ymgomiai yn y modd yma ger bron ei wrandaẅwyr, arferai gyfaddasu ei lais, dull ei wynebpryd, a holl ysgogiadau ei gorph, mor berffaith at yr amgylchiad, nes y byddai yr holl hanes yn troi yn olygfa fywiol o flaen eu dychymyg; a'u meddyliau ar unwaith yn derbyn difyrwch ac adeiladaeth.

"Prif bynciau ei weinidogaeth oeddynt, cyflwr andwyol a hollol lygredigaeth natur dyn drwy y cwymp: iachawdwriaeth pechadur o benarglwyddiaeth a grâs Duw trwy gnawdoliaeth yr Emmanuel; cyfiawnhad trwy ffydd, a gwaith yr Ysbryd. Yr oedd y ddeddf a'r efengyl yn cael eu lle priodol yn ei weinidogaeth ef. Tra y gofalai am roddi arbenigrwydd dyladwy i brif

bynciau yr athrawiaeth iachus, gofalai hefyd am bregethu y pethau oedd yn gweddu iddi, trwy egluro a chymhell dyledswyddau crefydd. Yn gyffelyb i'r apostol Paul yn ei lythyrau, disgynai, yn nghyflawniad ei weinidogaeth, megis oddirhwng bryniau yr arfaethau tragywyddol, dros faesydd toreithiog Bethlehem a Chalfaria, i lawr i ddolydd tlysion buchedd dduwiol." *(Y Drysorfa,* Gorphenaf, 1846).

Ond y mae yn rhaid i ni ymattal. Eithr craffed y darllenydd ar y dyfyniadau a wnaethom, ac efe a gaiff olwg dêg a chywir iawn ar Mr. Parry, a golwg ragorol hefyd ar Mr. Rees, yn neillduol yn y gallu dysgrifiadol ardderchog oedd yn eiddo iddo; gallu ag y buasai yn dda genym pe buasai wedi ei ddefnyddio yn fwy mynych i ddarlunio ein hen bregethwyr.

Achos ag oedd tua y pryd hwn yn cael cryn lawer o sylw ac yn peri cryn bryder yn meddyliau cryn nifer yn ein plith, oedd y ddyled drom oedd ar lïaws o'n Capeli, ac yn neillduol wrth weled nad oedd ond ychydig iawn o egni yn cael ei gymmeryd, braidd yn un man, er ceisio ei dileu na'i lleihau. Ac yn ngwyneb yr awydd mawr a ddangosid, y blynyddoedd hyny, am adeiladu Capelau newyddion, yn gystal ag adgyweirio hên rai, heb ond ychydig, mewn cymhariaeth, o ymdrech i gasglu tuag at eu cael yn ddi-ddyled, yr oedd llïaws o'r rhai mwyaf meddylgar yn ein mysg yn ofni rhag i ni fel Cyfundeb syrthio i brofedigaeth, a thynu gwaradwydd ar yr Achos Mawr yn ein plith. Yr oedd y cyfyngder masnachol dirfawr yr oedd ein teyrnas yn dioddef oddiwrtho y blynyddoedd hyny (1845, 1846, 1847, 1848), yn ychwanegu at y pryder. Yr oedd Mr. Rees, yn neillduol, yn teimlo yn nodedig gydâ golwg ar yr achos, ac yn llawn awydd am gael y Cyfundeb yn gyffredin i ymgymmeryd â rhyw gynllun er lleihâd y ddyled, ac yn raddol i'w symmud ymaith yn llwyr. Yr oedd efe a Mr. Hughes, wedi llwyddo, tua dechreu y flwyddyn 1845, i gael gan gyfeillion Liverpool a Manchester wneuthur ymdrech egnïol tuag at hyny; ymdrech a lwyddodd yn Manchester, mewn ychydig amser, i symmud ymaith y ddyled yn hollol; ac yn Liverpool, i gasglu dros bum'

mil o bunnoedd, mewn llai na phedair blynedd; ac, yn raddol, i symmud yr holl ddyled oedd ar y pryd ar y Capeli. Dygwyd yr achos i sylw yr holl Gyfundeb yn y Gogledd mewn amrywiol Gymdeithasfäoedd; ac yr oedd Mr. Rees a Mr. Hughes, a Mr. Roberts, Amlwch, yn cymmeryd rhan neillduol mewn annog yr holl Siroedd i ddeffro o ddifrif i ymdrech i ymryddhau yn gwbl oddiwrth yr hyn oedd yn cael ei deimlo yn faich trwm mewn llaweroedd o fanau, ac a gydnabyddid yn gyffredin yn anfantais fawr i lwyddiant crefydd trwy yr holl wlad. Trwy barhau, yn y naill Gymdeithasfa ar ol y llall, i ddwyn yr achos i sylw, fe ddaeth y teimlad o'r diwedd mor gyffredinol, ac mor gryf, gydâ golwg ar y pwysigrwydd o gael y Capeli yn ddiddyled, ac o ymgadw rhag myned i ddyled drachefn, fel yn Nghymdeithasfa y Drefnewydd, Mawrth 26, 1846, y cynnygiwyd gan Mr. Rees, ac y cefnogwyd gan Mr. Roberts, Amlwch, ac y cytunwyd yn unfrydol, "Nad oedd o hyny allan yr un Capel newydd i'w adeiladu nac yr un hen Gapel i'w adgyweirio neu i'w helaethu, os na byddai i hyny gael ei wneyd heb fyned i unrhyw ddyled; ac na roddid caniatad ar un cyfrif i unrhyw gynnulleidfa redeg i ddyled newydd gydâ'u hadeiladau." Cytunwyd fod i'r Achos ddyfod dan sylw yn y Gymdeithasfa ganlynol, er cadarnhau y penderfyniad, a chael sicrwydd y gorweddai yn dawel ar feddwl yr eglwysi; a dodwyd ar Mr. Rees barotoi rhyw fath o gynnygiadau yn ysbryd y Penderfyniad y daethid iddo, er dwyn y mater, yn y pwysigrwydd a deimlid ganddynt hwy oedd yn perthyn iddo, yn fwy difrifol ger bron meddwl y Cyfundeb trwy yr holl Siroedd. Felly fe ddaeth i sylw yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 10, 1846; ac yno fe gyflwynodd Mr. Rees y cynnygion canlynol, i'w cadarnhau gan y frawdoliaeth:—

"Mewn cyfarfod cynnwysedig o Bregethwyr a Diaconiaid perthynol i'r Methodistiaid Calvinaidd yn Nghymdeithasfa y Bala, lle y golygir fod yr holl Gorph yn Ngogledd Cymru yn wyddfodol,—penderfynwyd ar fod egni y Corph hwn yn cael ei droi rhagllaw i lwyr dalu dyled y Capelydd sydd wedi eu hadeiladu, yn hytrach nag i adeiladu ychwaneg o Gapelydd newyddion.

"Penderfynwyd hefyd na byddai i un Capel newydd eto gael ei godi, na hen Gapel gael ei helaethu na'i gyfnewid, oddieithr fod arian mewn llaw i dalu y draul wrth ddwyn y gwaith yn mlaen, fel y byddo y cyfryw Gapel yn gwbl ddiddyled ar ddydd ei agoriad. Hyderir gan hyny, na bydd i un Cyfarfod Misol, na dosbarth nac un dyn unig, ymrwymo mwyach am un swm o arian i'r dyben i godi Capel mewn un gymmydogaeth i Gorph y Methodistiaid Calvinaidd yn Ngogledd Cymru, ond y bydd pob Capel a adeiledir neu a adnewyddir rhagllaw, yn ystyr onest y gair, yn gwbl ddi-ddyled.

"Ac i'r diben o roddi grym ychwanegol yn y penderfyniad hwn, y mae Gweinidogion a Phregethwyr y Cyfundeb yn ymrwymo yn unfrydol i wrthod myned i bregethu i un Capel a godir eto, nes y byddo ei ddyled wedi ei chlirio yn llwyr. Felly cynnorthwyed Duw hên Fethodistiaid Cymru."

Fe gadarnhawyd y penderfyniadau hyn mewn modd difrifol gan y Gymdeithasfa, a daeth hyn yn ddeddf, ar y pryd, i'r Cyfundeb yn y Gogledd. A hi a wnaeth les dirfawr. Yn Nghymdeithasfa Llanrwst, Rhagfyr 27, 1849, yn mhen tua thair blynedd a hanner wedi ei sefydlu, fe hysbysid fod y cyfeillion yn Sir Ddinbych wedi casglu er ys dwy flynedd, oddeutu pum' mil o bunnoedd at ddileu eu dyled. Hysbysid hefyd fod Siroedd Caernarfon, Meirionydd, Fflint, a Threfaldwyn, a Liverpool, yn myned yn mlaen mewn ymdrech egnïol gydâ yr un achos, tra yr oedd Sir Fôn yn hollol rydd ac yn adeiladu Capeli newyddion heb ddim dyled arnynt. Yr oedd y llwyddiant y fath fel ag y tynwyd y ddyled i lawr yn hollol yn y nifer fwyaf o'r Siroedd, ac y lleihâwyd hi yn ddirfawr yn y Siroedd ereill.

Yn y cyfamser, pa fodd bynnag, yr oedd poblogaeth y wlad, yn neillduol yn Arfon, yn cynnyddu yn fawr, a phentrefi newyddion yn cael eu hadeiladu mewn byr amser, a'r bobl yn gwaeddi am addoldai, fel y daethpwyd i deimlo fod y ddeddf yn anfantais fawr i gynnydd yr Achos mewn amryw ardaloedd, ac yr oedd cwyno dirfawr yn ei herbyn. Daeth y peth drachefn

i sylw yn Nghymdeithasfa Dolgelleu, Mawrth 24, 1853. Yr oedd Arfon wedi bod dan angenrheidrwydd i adeiladu Capelau newyddion, ac heb fod yn alluog i'w hagor yn ddi-ddyled. Yr un pryd yr oeddent wedi gwneuthur rhyw drefniadau ag oeddent yn gadael y ddyled hono i orphwys ar bersonau neillduol, heb fod y Cyfundeb, fel y cyfryw, yn gyfrifol am dani. Yr oeddent yno eu hunain yn teimlo fod hyny yn rhywbeth newydd a lled ansicr, ac yn gosod brodyr caredig a haelionus dan ormod o gyfrifoldeb, tra, ar yr un pryd, yr oedd yn agored i gael ei gam-esbonio. Ac yn fuan iawn fe wnaed hyny. Yn Nghymdeithasfa Dinbych, a gynhaliwyd Rhagfyr 29, 30, 31, 1852, fe ddygwyd cyhuddiad yn eu herbyn eu bod yn agor Capelau newyddion dan ddyled, a rhoddwyd rhybudd iddynt y dysgwylid hysbysrwydd manwl ganddynt, yn y Gymdeithasfa ganlynol, am yr amgylchiadau o dan ba rai yr adeiladwyd y Capelau hyny. Felly fe ddaeth yr achos i Gymdeithasfa Dolgelleu. Fe fu yno lawer iawn o siarad arno, a pheth o hono heb fod, fe ddichon, yn yr ysbryd goreu. Yn y diwedd, pa fodd bynnag, fe gytunwyd yn unfrydol ar y penderfyniadau canlynol, y rhai a dynwyd allan gan Mr. Rees a Mr. Hughes:—

1. "Fod y Cyfarfod hwn, wrth ystyried y teimladau cryfion oedd yn cael eu hamlygu yn Nghyfeisteddfod y Siroedd, yn nghyda phenderfyniad y Gymdeithasfa ddiweddaf yn Ninbych, yn golygu nas gall mewn un modd ddiddymu Deddf y Capelau, heb fyned yn groes i syniadau y frawdoliaeth ar hyd y gwledydd yn gyffredinol.

2. "Fod y Cyfarfod hwn yn dymuno yn daer ar yr ardaloedd sydd mewn angen am Gapelau newyddion, i ymdrechu hyd y gallont i ddarparu tuag at eu hadeiladu yn mlaen llaw; ac i'r Cyfarfodydd Misol eu cefnogi i hyny, trwy annog, os bydd yr achos yn gofyn, y cynnulleidfäoedd cymmydogaethol i'w cynnorthwyo, naill ai o gyllid yr eisteddleoedd, neu trwy gasgliadau cyhoeddus, modd y byddo pob Capel rhagllaw yn ddi-ddyled ar ddydd ei agoriad.

3. "Os bydd yr angen am Gapel yn fawr iawn mewn ardal, a

dim gobaith, er pob ymdrech, y gellid ei adeiladu yn ddi-ddyled, dymuna y Cyfarfod hwn ar i achos ardal felly gael ei ddwyn, trwy y Cyfarfod Misol i sylw y Gymdeithasfa, cyn dechreu codi Capel newydd yno, fel, os bydd yr achos yn gofyn, y gallei gwneyd lle o'r fath yn eithriad i'r rheol, gan nas gellir ei diddymu heb dreisio teimlad y Siroedd yn gyffredinol.

4. "Fod y Cyfarfod hwn yn dymuno ar i'r brodyr yn y weinidogaeth sefyll yn ffyddlawn at y rheol yn yr achos hwn, gan ystyried nas gallant wyro oddiwrthi, heb ddwyn arnynt eu hunain y gosbedigaeth sydd yn gynnwysedig mewn gwybod eu bod yn ymddwyn yn afreolaidd, ac yn archolli teimlad llïaws o'u brodyr ar hyd y wlad. Ar yr un pryd, gydâ golwg ar ryw amgylchiadau sydd wedi pasio, dymunir datgan na bydd yn anesmwyth i'r Gymdeithasfa i neb o'r brodyr fyned i bregethu i'r Capelau y mae rhyw amheuaeth yn eu cylch, os byddant eu hunain yn teimlo yn rhydd i hyny."

Yr oedd y penderfyniadau hyn yn gydweddol â theimladau y mwyafrif yn yr amrywiol siroedd; ac er fod Cyfarfod Misol Arfon yn gryf o'r farn fod eu hamgylchiadau hwy y fath, fel y dylesid diddymu y rheol, eto, er cydweithredu â'u brodyr, yr oeddent yn ymdawelu i'r hyn a wnaed yn y Gymdeithasfa. Felly, am rai blynyddoedd wedi hyny, pan mewn unrhyw Sir yr adeiledid Capel nas gellid ei agor yn ddi-ddyled, fe ofynid i'r Gymdeithasfa am ganiatad i wneuthur eithriad i'r rheol; nes, o'r diwedd, yr aeth y cyfryw geisiadau yn gwbl gyffredin pan adeiledid unrhyw Gapel; fel ag y daeth yn deimlad cyffredinol y byddai yn well peidio sôn am dani yn y Gymdeithasfa, a gadael rhwng pob Cyfarfod Misol â'r eglwysi perthynol iddo, i weithredu yn yr achos fel y bernid yn oreu ganddynt. Ac er ys blynyddoedd lawer bellach, y mae yr achos wedi myned yn ol i'r hyn ydoedd cyn y flwyddyn 1846, a llaweroedd, y nifer amlaf o bosibl, o'r aelodau eglwysig yn ein plith y blynyddoedd hyn, naill ai heb glywed erioed am y ddeddf, neu ynte wedi ei llwyr anghofio. Pa fodd bynnag, hi a wnaeth ddaioni mawr. Os bu yn anfantais i rai cymmydogaethau, megis yn Arfon, hi a

fu trwy amrywiol Siroedd y Gogledd yn achlysur, os nad yn foddion, talu miloedd lawer o bunnoedd oedd yn ddyled ar ein Capelydd, ac i beri i nifer mawr o Gapeli o'r newydd gael eu hadeiladu a'u hagoryd yn gwbl ddi-ddyled. Ac nid yn unig hyny, ond y mae mwy o ymdeimlad byth yn yr eglwysi, trwy yr holl Siroedd, â'u rhwymedigaeth gydâ golwg ar yr achos hwn, a chyfraniadau llawer helaethach yn cael eu gwneuthur tuag ato nag a wnelid cyn hyny. Ac er fod ein dyled fel Cyfundeb yn parhau yn drom iawn, eto nid ydyw ond ychydig mewn cymhariaeth i werth yr adeiladau sydd genym, ac y mae miloedd lawer yn cael eu cyfranu bob blwyddyn tuag at ei dileu. Fe welir hyny ond edrych i'n Hystadegau Blynyddol.

Yr oedd iechyd Mrs. Rees yn dra anmharus yn ngwanwyn ac yn hâf y flwyddyn 1846, ac yr oedd hyny yn peri pryder mawr i feddwl Mr. Rees, yn enwedig pan fyddai oddicartref, fel ag yr oedd yn gorfod bod yn fynych iawn yn y blynyddoedd hyny, mewn amrywiol Gymdeithasfäoedd a Chyfarfodydd Pregethu, yn y Deheudir a'r Gogledd. Oblegid y gwaeledd hwn ar Mrs. Rees, yn gystal ag er cael ychydig seibiant iddo ei hunan, fe aeth i Buxton gydâ hi am tua phythefnos, o'r lle yr ysgrifenodd y llythyr canlynol, at y diweddar Mr. Griffith Davies, Llundain, ar yr achlysur o farwolaeth Mr. Evan Glynn, mab i Mrs. Davies o'i gŵr cyntaf; gŵr ieuanc nodedig o grefyddol, a gymmerwyd ymaith fel ei frodyr, pan y dysgwylid cryn wasanaeth i'r Achos mawr oddiwrtho. Mr. John Jones, Talsarn, oedd ar y pryd yn gwasanaethu yr Achos yn Llundain, ac ato ef y cyfeirir yn y llythyr:—

"Buxton, Gorphenaf 1, 1846.

"ANWYL GYFAILL,—Yr ydwyf yn euog o fai yn eich erbyn o "herwydd fy mod heb ysgrifenu atoch yn gynt. Daeth eich "llythyr i'm llaw pan oeddwn ar gychwyn i deithiau meithion, "ac yn prysur ddarpar ar eu cyfer; ac oedais ei ateb nes aeth hi "yn rhy ddiweddar i gyflawni un o'ch dymuniadau penaf ynddo, "sef anfon gair o gyngor a chysur i'ch anwyl fab, sydd erbyn "hyn wedi ehedeg ymaith. Drwg genyf i hyn ddygwydd; er y

"gwn yn dda ei fod ef yn cael ei gylchynu â chyfeillion mewn "amgylchiadau mwy manteisiol i weinyddu cyfarwyddyd a "diddanwch i'w enaid trallodedig nag oedd bosibl i mi wneyd "mewn llythyr. Wedi clywed am ei farwolaeth ef, penderfynais "na anfonwn atoch hyd nes y cawn ychydig hamdden: ac yn "wir, ni chefais ddim er dechreu mis Mai hyd nes y diengais "i'r lle hwn yr wythnos ddiweddaf. Daethum yma yn benaf "o herwydd afiechyd parhaus fy ngwraig. Yr ydym yn "gobeithio fod cyfarwyddyd meddygol, yn nghyd â newid "*Air* yn effeithio rhyw ronyn o wellhâd; a hyderwn mai "dechreu dychweliad i ystâd o iechyd yw. Ond y mae yn "ofer i ddynion nad yw eu holl einioes yn ddim amgen na "marwolaeth raddol—rhai sydd yn byw i farw, ac yn marw "wrth fyw—ddysgwyl rhyw gadernid mawr, na hir barhâd "mewn iechyd a nerth corphorol. Mae 'y cymylau yn dych-"welyd ar ol y gwlaw:' gydâg y bydd un cystudd drosodd, y "mae y llall i'w ddysgwyl, yn enwedig fel y bydd henaint yn "ein goddiweddyd. Mae y byd yma wedi rhoddi i ddynion o'n "hoedran ni a chwithau, fwy o bleser nag a rydd efe byth ond "hyny. Wel, ynte, croeshoelier ni iddo yn fwy-fwy. Os yw ef "yn darfod â ni, ein serchiadau ninnau fyddo yn darfod âg "yntau yn barhaus. Ond nis gall hyny byth fod, heb fod "genym drysor yn y nef; a'n serchiadau wedi eu sefydlu ar, a'u "llenwi â'r pethau sydd uchod. Rhyfeddodau person Emman-"uel; Gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist, Cymmod â'r Duw "hwnw yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth; rhodio gydâg "ef mewn cymmundeb beunyddiol; byw yn ngolwg achosion a "ffynnonau ein hiachawdwriaeth, ac mewn gobaith am dani yn "y llawn fwynhâd i dragywyddoldeb;—dyma bair i ni ddarfod "yn ewyllysgar â blodau'r llawr. O! mae yn bryd i'r nefoedd "fod yn rhywbeth heblaw breuddwyd bellach. Y mae Crist ein "Gwaredwr wedi myned yno; mae ein hen bregethwyr a'n hen "gyfeillion naill ai wedi myned, neu yn myned yno yn brysur y "blynyddoedd hyn, ac fe fyddwn ninnau yno yn fuan bellach, "neu nid awn yno byth. Hyderaf fod Mrs. Davies yn cael ei

"chynnal yn y trallodion y mae rhagluniaeth ddwyfol yn ei "galw i'w dioddef; a gwn ei bod yn cael hyny hefyd, os yw "y goruchwyliaethau yn gweithio hunan-ymholiad, dychweliad "newydd at Dduw, cymmod â'i wialen ac â'i drefn, ac ymostyng-"iad heddychol a diddig dan ei law. Nis gellwch fod yn "anhappus yn hir, os ydych yn dyfod â'ch personau euog, ac yn "eu bwrw ar drugaredd Duw yn Iawn Crist, i gael eu codi i "heddwch y brenhin tragywyddol; ac yn dwyn eich natur "lygredig i'w rhoi i fynu bob dydd i Dduw'r heddwch yn "Nghrist Iesu, i'w sancteiddio yn gwbl oll. Pob chwant, pob "teimlad, pob amcan ä ffordd gydâ'r byd a phob peth, yn cael eu "dangos iddo ef, gydâ phenderfyniad y caiff ei ddedfryd ef "arnynt sefyll, a'i rhoddi yn ddiattreg mewn gweithrediad. "O! y fath bleser sydd mewn edifarhau am bechod; teimlo ein "hunain yn marw i'r pethau a welir; ymroddi o'r galon i Dduw "yn Nghrist; dyfod â'n hunain, ein plant, ein hamgylchiadau "bydol, a'n cwbl, at ei draed ef, i gael ein trefnu i adfyd neu "hawddfyd, cystudd neu iechyd, bywyd neu angau, fel y gwelo "ef yn dda. Ffarwel, anwyl gyfeillion. Darllenwch y Beibl; "gweddïwch lawer yn y dirgel; ac ymroddwch i wneyd daioni. "Cofiwch fi at eich nai sydd wedi priodi yn ddiweddar. Llwydd "a bendith Meddiannydd nefoedd a daear, arno ef a'i wraig. "Cofiwch fi at Mr. R. Owen a'i deulu. Hyderaf fod fy hen gyfaill, "Mr. Williams [Parch. William Willams], yn cael eto hyfdra a "dyfodfa trwy ei ffydd ef at orsedd-fainc y grâs: fy serch ato "ef a'i wraig.

"Byddaf yn teimlo weithiau yn bur awyddus i ddyfod i "Lundain, Awst nesaf i Gyfarfod mawr yr Undeb Efengylaidd, "ond nid wyf eto yn benderfynol. Mae'r costau yn lled fawr. "Os deuaf, câf eich gweled. Dymunwn fy nghofio at Mr. John "Jones yn garedig. Yr ydwyf yn hyderu fod eich iechyd wedi ei "adferu i chwi erbyn hyn. Yr ydwyf fi, a'm gwraig, ac Anne, yn "cydgofio atoch chwi, a Mrs. Davies, a'ch mab bychan, yn nghyd "â'ch brawd a'i deulu. Bwriadwn ymadael o'r lle hwn yforu.

"Eich diffuant frawd yn yr efengyl, HENRY REES."

Yr oedd yr amser hwn hefyd yn amser o ymdrech neillduol tuag at sefydlu ysgolion dyddiol, mewn cysylltiad â'r Gymdeithas Frytanaidd, yn y Dywysogaeth. Hyd yn hyn, nid oedd ysgolion cymharol rad i'w cael yn ein gwlad ond yn unig yr ysgolion eglwysig, ac felly yr oedd Ymneillduwyr, yn enwedig rhai mewn amgylchiadau lled isel, a fyddent yn awyddus i'w plant gael ychydig addysg, dan fath o angenrheidrwydd i'w hanfon i'r ysgolion hyny; ac, yn y canlyniad, yr oedd y plant yn cael eu gorfodi i fyned i'r eglwysi plwyfol ar y Sabbothau, yn gystal ag i ddysgu egwyddorion yr eglwys beunydd yn ystod yr wythnos, ac felly i dyfu i fynu yn eglwyswyr. Nid oedd yr amddiffyn sydd yn awr i Ymneillduwyr, hyd yn nôd yn ysgolion yr eglwys, yn yr hyn a elwir yn "Adran Cydwybod" *(Conscience Clause)*, yn bôd y pryd hyny; ond, os äent i'r ysgol, yr oedd raid cydymffurfio â'i holl reolau. Yn ganlynol, yr oedd llïaws o rïeni, mewn amryw barthau o'n gwlad, yn eu gwrthwynebiad i ddysgeidiaeth yr eglwys, yn cadw eu plant yn gwbl o'u hysgolion hi, ac yn eu gadael, ysywaeth! i dyfu i fynu heb ond ychydig neu ddim addysg, oddieithr yr hyn a gaent yn yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd yr angenrheidrwydd am ryw gynllun, er cael addysg i boblogaeth y wlad, yn cael ei deimlo yn gyffredinol; ond yr oedd pob ymgais at hyny yn methu, oblegid y gwahaniaeth tybiau a goleddid gydâ golwg ar addysg grefyddol. Yn y flwyddyn 1839, pan oedd Arglwydd Melbourne yn brif weinidog, fe gynnygiodd Arglwydd John Russell gynllun tuag at hyny, yn ol yr hwn yr oedd crefydd i gael ei dysgu, eithr "gan gydnabod iawnderau cydwybod" yr holl ddeiliaid. Ond fe gynhyrfodd hyny yr Eglwyswyr trwy yr holl deyrnas yn gymmaint yn erbyn y cynllun, fel y tynwyd y Mesur yn ol gan y Llywodraeth. Yn y flwyddyn 1843, dan weinyddiaeth Syr Robert Peel, fe ddaeth Syr James Graham âg Ysgrif i mewn i'r Senedd, o eiddo y Llywodraeth, ar Addysg, yr hon oedd, mewn effaith, yn rhoddi yr awdurdod ar ysgolion y wlad agos yn hollol yn nwylaw yr Eglwyswyr, tra yr oedd pawb yn ddiwahaniaeth yn cael eu trethu i'w cynnal. Ystyrid

yr Ysgrif hon gan yr ymneillduwyr, a chan rai eglwyswyr, yn un o'r ymosodiadau gwaethaf ar ryddid crefyddol, a wnelsid yn y deyrnas hon, er pan y cawsid *Deddf Goddefiad* yn 1689; ac fe achlysurodd y fath gynhwrf yn y deyrnas, fel y mae yn anhawdd i'r rhai nad ydynt yn cofio yr amser ffurfio braidd un ddirnadaeth am dano. Yr oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal, trwy yr holl wlad, i areithio yn erbyn y Mesur; ac mewn ychydig amser fe anfonwyd tair mil-ar-ddeg tri chant a naw a thri-ugain (13,369) o ddeisebau i'r Senedd yn ei erbyn; wedi eu harwyddo gan ddwy filiwn wyth-a-thriugain o filoedd a phedwar-ar-bymtheg-ar-hugain (2,068,039) o bersonau. Parodd y cynhwrf hwn i'r Llywodraeth newid rhyw gymmaint ar y Mesur, a gwneuthur ychydig o welliadau arno; ond yr oedd y gwrthwynebiad iddo yn parhau ac yn cryfhau; a phleidwyr rhyddid, trwy y deyrnas, yn benderfynol na châi ddyfod yn gyfraith. Mewn ychydig iawn o amser fe anfonwyd yn ei erbyn, yn ei ffurf newydd, un mil-ar-ddeg wyth gant a phedair-ar-bymtheg-ar-hugain o ddeisebau; wedi eu harwyddo gan un miliwn naw cant ac ugain o filoedd a phum' cant a phedwar-ar-ddeg-a-thriugain (1,920,574) o bersonau. Y canlyniad i'r gwrthwynebiad hwn a fu, i'r llywodraeth dynu ei Mesur yn ol, fel y cafodd y wlad lonydd oddiwrtho.

Eithr wedi colli Mesur Arglwydd John Russell yn 1839, trwy ddylanwad yr Eglwyswyr, a'r ymgais hwn drachefn o'r eiddynt i gael Addysg y Deyrnas yn hollol i'w dwylaw eu hunain, fe ddaeth Ymneillduwyr i deimlo fod yn llawn bryd iddynt wneuthur mwy o egni nag a wnelsid ganddynt hyd yn hyn, er sefydlu ysgolion ar egwyddorion rhydd trwy yr holl wlad, neu y byddent mewn perygl o golli y plant yn gyffredin o'u gafael. Yr oedd y teimlad yna, yn neillduol, yn gryf iawn yn Nghymru. Yn ganlynol, yn benaf trwy offerynoliaeth Mr. Hugh Owen (Syr Hugh Owen wedi hyny), fe ddechreuwyd sefydlu ysgolion Brytanaidd, heb fod yn perthyn i unrhyw enwad neillduol, mewn amryw drefydd, yn cael eu cynnal yn gwbl trwy gyfraniadau gwirfoddol, oddieithr yr ychydig a delid dros y plant.

Ac yn mha le bynag y sefydlid hwynt, yr oeddynt yn llwyddo yn ddirfawr. Yn y flwyddyn 1843, fe bennodwyd y diweddar Barch. John Phillips yn Oruchwyliwr dros Ogledd Cymru, i Gymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd, ac fe fu yn dra ffyddlawn, ac yn nodedig o lwyddiannus, yn y gorchwyl a ymddiriedasid iddo. Eithr gwaith anhawdd iawn oedd codi cymmydogaethau gwledig i ymgymmeryd âg adeiladu ysgoldai, ac i gyfranu yr hyn a fyddai yn angenrheidiol tuag at gynhaliaeth athraw; ac felly yn araf iawn yr oedd yr achos yn myned rhagddo. Yr oedd y llywodraeth er ys rhai blynyddoedd yn barod, ar ryw ammodau, i gyfranu swm helaeth tuag at adeiladu ysgoldŷ a thŷ i'r athraw; ond yr oedd yr Ymneillduwyr, y pryd hyny, gan mwyaf trwy y deyrnas, ac felly yn Nghymru, yn gwrthod derbyn y cyfryw gynnorthwy, tra yr oedd yr Eglwyswyr yn mhob man yn ei dderbyn, ac yn ymdrechu yn egnïol i'w gosod eu hunain ar y tir i'w gael; fel ag yr oedd addysgiaeth y genedl yn ymddangos yn prysuro i syrthio agos yn gwbl i'w dwylaw hwy. Yr oedd Mr. Rees yn teimlo yn ddirfawr gydâ golwg ar hyn; ac yr oedd yn synu ac yn synu, pa fodd yr oeddem yn gallu bod fel cenedl, ac yn neillduol fel Ymneillduwyr a Methodistiaid, mor ddiofal a dibryder o berthynas iddo. Nid oedd odid Gymdeithasfa yn myned heibio na byddai yn ceisio cael cyfleusdra i ddwyn y peth, yn y naill wedd neu arall i sylw; ac fe fyddai yn siarad yn deimladol ac yn rymus arno. Mae yn awr yn dyfod yn fyw iawn i'n meddwl ei sylwadau ar hyn, yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 10, 1845, y rhai a ddodwn i mewn yma fel y maent yn ein côf:—

"Pa bryd," meddai, "y deuwn fel cenedl i osod y gwerth a ddylem ar addysg? Ai nid ydym wedi bod bellach am ddigon o amser 'yn gymmynwyr coed, ac yn wehynwyr dwfr,' i'n cymmydogion y Saeson ac i'n cyd-ddeiliaid yr Ysgotiaid? Pa fodd y mae yr Ysgotiad yn *oruchwyliwr* yn y Swyddfa, a'r Cymro yn ddim ond llafurwr yn y ffos? Nid galluoedd cryfach sydd gan yr Ysgotiad; nid cymmeriad moesol gwell; ac y mae yn anhawdd genyf fi feddwl mai ffafriaeth yn unig ar ran y gŵr

bonheddig ydyw yr achos. Pa fodd ynte y cyfrifwch am y peth sydd o flaen eich llygad? Paham hefyd? Yr wyf yn ofni mai y gwirionedd ydyw, nad ydyw y Cymro druan! yn gymhwys i'r Swydd. Ni chafodd efe erioed y manteision addysg a gafodd yr Ysgotiad. Pan y mae yn cael hyny, yr wyf yn ei weled yntau yn dringo i fynu. Y mae rhai enghreifftiau o hyny o flaen fy meddwl yn awr. Ond y mae yr Ysgotiaid yn eu cael yn mhob man. Fe gymmerodd Knox, a hen Ddiwygwyr Scotland, ofal am ddarparu ar gyfer addysg gyffredin y bobl, yn gystal â'u haddysg grefyddol. Yn mhob plwyf yno, y mae eglwys ac ysgoldŷ, gweinidog ac athraw; a phlant pawb,—y tlodion a'r cyfoethogion,—yn cael yr un addysg; fel y mae sefyllfa y plentyn yn y dyfodol, beth bynnag fyddo amgylchiadau ei rïeni, yn dibynu i fesur mawr, os nad yn hollol, ar ei alluoedd a'i ddiwydrwydd ef ei hun. Ond y mae wedi bod yn hollol wahanol yn ein plith ni, ac yn parhau felly. Y mae genym ninnau ein Capelau; ac y mae yn hyfryd iawn eu gweled yn britho ein holl ardaloedd. Ond pa le y mae ein Hysgoldai? Pa le hefyd? Y mae genym ein hystablau, ac y mae y rhai hyny yn fynych yn ymyl ein Capelau. Capel ac Ystabl sydd genym ni; Capel, neu Eglwys, ac Ysgoldŷ sydd yn Scotland; a dyna sydd yn cyfrif paham y mae yr Ysgotiad yn oruchwyliwr, a'r Cymro, a allasai fod, pe cawsai yr un manteision, yn llawn cystal ag yntau, yn ddim ond gweithiwr cyffredin a chaled. Yr ydwyf yn gobeithio na pharha pethau yn hir fel hyn, ond y cynhyrfir ni yn fuan i ymdeimlo â'n rhwymedigaethau i'n gwlad, ac i wneyd llawer iawn mwy o egni gydâ golwg ar ei haddysgu nag a wnaed genym hyd yn hyn."

Yr oedd cryn lawer o'r dechreu yn mhlith yr Ymneillduwyr, yn Lloegr a Chymru, yn annghytuno yn hollol â'u brodyr, a wrthodent gynnorthwy y Llywodraeth at addysg gyffredin y wlad: ond buant am beth amser heb ddadleu llawer dros ei dderbyn, er mwyn cael gweled pa fodd y llwyddai ymdrechion gwirfoddol yn y gwahanol ardaloedd. Eithr yn raddol, wrth weled nad oedd yr ymdrechion hyny mewn un modd yn cyfateb

i anghenion y wlad, a gweled yr Eglwyswyr yn mhob man yn derbyn y cynnorthwy hwnw, ac yn ymdrechu i'w gosod eu hunain ar dir i'w sicrhau, a'u hysgolion felly yn lïosogi yn mhob cyfeiriad, fe ddaeth yr Ymneillduwyr yn gyffredin i deimlo nad oedd yr un amddiffyn iddynt ond trwy eu gosod eu hunain, yn hyny, ar yr un tir â'r Eglwyswyr. Yr oedd Mr. Rees yn arbenig yn teimlo felly; ac yn ymdrechu ei oreu cael y wlad yn gyffredin i brysuro tuag at ddarparu addysg rydd ac anenwadol i'r holl genedl. Rhoddes lawer o'i amser i fyned i amrywiol Siroedd, yn y Gogledd, i gynnal cyfarfodydd i'r amcan hwnw; ac fe sicrhäwyd i ni gan un, a fu yn cymmeryd rhan gydâg ef mewn amryw o'r cyfarfodydd hyny, fod ei gyfarchiadau ar Addysg, yn mysg y pethau hyawdlaf, a mwyaf dyddorol, a glywsai efe ganddo erioed. Weithiau fe ymollyngai i adrodd rhyw fân-hanesynau digrifol, er egluro yr anwybodaeth oedd wedi bod, ac yn ormodol yn parhau i ffynu yn y tir: ond yn y cyffredin yr oedd yn nodedig o ddifrifol, ac yn llefaru gydâ'r fath ddwysder ag oedd yn effeithio er peri i'r cynnulleidfäoedd deimlo oddiwrth bwysigrwydd yr hyn a ddygid ganddo i'w sylw, a'r perygl mewn gwirionedd ag yr oeddem fel gwlad yn agored iddo, wrth adael i'r genedl dyfu i fyny yn ddi-ddysg a barbaraidd. "Edrychwch," meddai, "ar y bechgyn sydd yn rhedeg ar hyd eich ystrydoedd yn y trefi, ac yn llercian yn segur yn y caeau, ac ar hyd y ffordd yn y wlad, ac oni welwch chwi yr ystôr o feddwl sydd yn myned yn ofer? Hwyrach fod yn eu plith, o ran galluoedd meddyliol, ddefnyddiau cystal beirdd a Milton, cystal seryddwyr â Newton, cystal duwinyddion âg Owen neu Howe. Dyna o'n blaen faes, ond iddo gael triniaeth briodol, a gynnyrchai y ffrwythau mwyaf dewisol. Amaethwn ef; planwn ef o'r winwydden oreu: hauwn ef o'r iawn hâd oll: ac onide, fe ddwg ysgall a drain, a fyddant amser a ddaw yn pigo ein hystlysau. Yn wir, os â yr uwchradd a'r canolradd, Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, Amaethwyr, a Marsïandwyr, i wrthod cyfranu yn helaeth at amaethu meddyliau y werin yn Mrydain, gallant weled amser, ïe yn gynt nag y maent yn dychymygu, pan na

bydd eu cyfoeth o un gwerth iddynt, pan nas gallant, yn wir, alw dim yn eiddo iddynt eu hunain. Onid ydym yn gweled arwyddion rhy amlwg o'r ysbryd sydd yn arwain i hyn, mewn llawer o barthau o'r deyrnas y dyddiau hyn? Llai o barch i'r hyn y mae swyddogion gwladol yn ei orchymyn;—llai o ffydd yn yr hyn y mae swyddogion eglwysig yn ei ddysgu;—dyna, yr wyf yn ofni, yr ysbryd cyffredin sydd yn mhlith y werin yn Lloegr, ac yn dechreu ymddangos yn Nghymru. Yn sicr, y mae yn rhaid meithrin rhyw deimladau amgenach rhwng meistri a gweithwyr, rhwng uwchradd ac îsradd, neu fe ddaw tân o'r naill i ysu y llall cyn bo hir."

Yr oedd y cyffro yn nghylch rhyw gynllun o Addysg o eiddo y Llywodraeth yn parhau yn y wlad; ond yr oedd pob mesur a ddygid i mewn, gan y naill blaid boliticaidd yn gystal a'r llall, yn rhoddi gormod o awdurdod i'r Eglwys Wladol, ac felly yn gwbl annghymmeradwy gan yr Ymneillduwyr. Yn y flwyddyn 1846, fe ddarfu i'r *Cyngor Addysg*, hyd yn nod pan oedd Arglwydd John Russell yn Brif Weinidog, benderfynu na roddid unrhyw gymhorth oddiwrth y Llywodraeth i unrhyw ysgol, oddieithr i Arolygydd y Llywodraeth gael ei foddloni yn ansawdd yr Addysg Grefyddol a weinyddid ynddi, yn gystal a'r Addysg gyffredin. Fe gynhyrfodd hyny y wlad drwyddi. Cynhaliwyd cyfarfodydd, a gwnaed y fath wrthdystiadau yn erbyn penderfyniad y Cyngor Addysg, fel yn y flwyddyn ganlynol, y tynwyd ef yn ôl, ac yr hysbyswyd gan y Prif Weinidog yn y Senedd nad oedd *Inspectors* y Llywodraeth i ymyraeth â, nac i chwilio dim i wybodaeth grefyddol y plant, yn yr ysgolion nad oeddent yn perthyn i'r Eglwys Wladol, ond yn unig i'w hansawdd gydâ golwg ar bethau cyffredin. Ond wrth weled y fath ymdrech o du yr Eglwyswyr, a gweled fod y naill blaid wladwriaethol fel y llall yn tueddu i roddi pob mantais iddynt, ac yn llunio pob mesur fel ag i geisio eu boddio hwy, yr oedd yr Ymneillduwyr yn gyffredin, yn Nghymru a Lloegr, yn eu pryder yn nghylch y dyfodol, yn dra anfoddlawn ac yn dra anesmwyth. Mewn teimlad felly, y mae yn amlwg iawn, yr

ysgrifenodd Mr. Rees y llythyr canlynol at ei gyfaill mynwesol, y Parch. William Roberts, Amlwch, yr hwn oedd wedi anfon ato, os oedd yn ddigon gostyngedig ac yn ddigon segur, y buasai yn hoffi clywed oddiwrtho yn enwedig ar y cwestiynau ag oeddent yn cael y fath sylw yn y deyrnas y dyddiau hyny :—

"Ebrill 12, 1847.

"ANWYL GYFAILL,—Mi a fyddaf mor ostyngedig, ac mor "segur am unwaith ag ysgrifenu gair atoch, ac yn wir, mi a "fum amryw weithiau yn bwriadu gwneyd er ys rhai dyddiau, "ond fel yr oedd fy amser yn brin. Mi dybiwn fod fy ngolyg-"iadau personol i a'r eiddo chwithau, am *Scheme* y Llywodraeth "yn lled agos i'w gilydd. Bod amcan dichell-ddrwg gan ein "Llywodraethwyr yn ei dwyn hi yn mlaen, nid wyf fi wedi cael "sail i gredu, ac am hyny nid wyf yn ei ddywedyd. Ond yr "wyf yn mawr ofni y bydd y cynllun hwn yn ei weithrediadau, "a'i ganlyniadau, o fawr niwed i ni yn Nghymru fel plaid o "bobl, a hyny, pa un bynnag a wnewch chwi ai cymmeryd ai "gwrthod yr help a gynnygir. Penderfynwch gymmeryd help "y Llywodraeth: (1.) Y mae ansicrwydd mawr a gewch chwi "ef; oblegid cyn y byddwch chwi ar dir i'w geisio i ysgol "unrhyw gymmydogaeth, mae yn rhaid fod genych Ysgoldŷ, tŷ "i'r athraw yn ddi-ardreth, ac medd rhai, £60 o gyflog blynyddol "iddo, a'r oll yma wedi ei wneyd gan y gymmydogaeth ei hun. "Yn awr, cyn y medrwch chwi wneyd hyn, fe fydd Eglwys "Loegr, yr hon sydd yn ffafr y boneddigion, ac, meddant, yn "meddu eisoes filoedd o arian i godi Ysgoldai, wedi achub y "blaen arnoch, a sicrhau cymhorth y Llywodraeth; a phan eloch "chwi i'w geisio, yr ateb ond odid a gewch, fydd,—'Yr ydym yn "rhoi help i un Ysgol yn yr ardal hono eisoes, ac nis gallwn "roddi ychwaneg.' (2.) Y mae yn rhaid i chwi gymmeryd yr "help hwn ar egwyddor sydd yn flin iawn i gydwybod. Pan "eloch chwi i'w geisio, i ddysgu y plant fod Crist yn Dduw, "a'i angau yn iawn, ac mai efe yw yr unig Gyfryngwr; bydd "yr Undodiad a'r Pabydd yno yn ei geisio, i ddysgu y plant,—

"nad yw Crist yn Dduw, nac yn Iawn, ac mai nid efe yw yr "unig Gyfryngwr; a bydd yr un cymhorth yn cael ei roddi i "ddysgu celwydd ac i ddysgu y gwirionedd. Bydd y ffordd "felly yn cael ei phalmantu i waddoli Pabyddiaeth yn yr "Iwerddon; a byddwn ninnau yn fwy dirym i wrthwynebu "hyny os derbyniwn ef. Gwir yw fod rhyw sŵn wedi d'od "allan yn ddiweddar, nad yw y Sociniaid na'r Pabyddion i'w "cynnwys yn y cynllun; ond os yw hyny yn bod, i'r gwrth- "wynebiad a wnaed iddo y mae i ni ddiolch am hyny. Ac y "mae y Llywodraeth wrth wneyd y cyfnewidiad hwn, yn gofalu "cadw ei hun yn rhydd i wneyd rhywbeth i'r Pabyddion mewn "ffordd arall. Felly y mae annghysur mawr yn nglŷn â'r "cynllun ag i chwi wneyd eich meddwl i fynu i dderbyn y "cymhorth a gynnygir.

"Wel, penderfynwch beidio a'i gymmeryd, ac ymdrechu i godi "Ysgolion ar eich traul eich hunain, a gadael holl gedion a "breintiau cynllun y Llywodraeth i'r Eglwys Sefydledig;—A "ydych chwi yn meddwl y medrwch chwi gydymgais â hi? Fe "fydd genych, o bosibl Ysgol-feistr da mewn cymmydogaeth; "fe ddaw yr offeiriad ac a ddywed wrtho, 'Deuwch i gadw fy "Ysgol i a chwi a gewch £50 ychwaneg o gyflog, a hyn a hyn "yn ychwanegol am ddysgu prentisiaid; ac os byddwch chwi "yn athraw da am bymtheng mlynedd, cewch £15 neu £20 o "*bension* yn eich hen ddyddiau. A ydych chwi yn siwr na edy "efe mo honoch chwi?

"Yn mhellach: tybiwyf fy mod yn gweled aml i hen Feth- "odist yn eistedd i lawr, ac yn siarad wrtho ei hun: 'Mae genyf "bump o blant, pe'r anfonwn hwynt i Ysgol yr Eglwys, cawn "ddysg iddynt yn rhatach nag yn ein hysgol ni. Heblaw hyny "y mae Tomi a Billy yn fechgyn pur gyflym, byddant yn bur "debyg o gael myned yn brentisiaid, a chael o ddeg hyd ugain "punt yn y flwyddyn yn ystod eu prentisiaeth, ac yna myned "i'r Normal School yn Llundain, ac yn y diwedd hwy gânt fath "o *degree* fel gwŷr dysgedig, a chadw ysgol dan y Llywodraeth "a *phension* yn y diwedd;—ïe, hwyrach eu gwneyd yn offeir-

"iaid. Beth waeth yn mha le y byddo y plant ar y Sabboth; y "mae ein hoffeiriad ni yn ŵr da, gobeithio. Yr oedd Mr. Elias "yn hoff iawn o Eglwys Loegr.'

"Ah! fy anwyl gyfaill, a ydych chwi yn siwr na byddai y "temtasiynau hyn ddim yn rhy gryfion i gannoedd o Fethodist-"iaid Cymru. Byddai arnaf fi, pa fodd bynnag, ofn gweled y "brofedigaeth yn ymosod arnynt; pe medrwn mi a'i cadwn hi "draw.

"Hefyd bwriwch y bydd *Inspector* têg, a'r cwbl yn cael ei "weinyddu yn onest am dymhor, pa sicrwydd sydd am barhâd "hyny? Nid yw y cynllun yn caniatau i neb amddiffyn mor "dêg ag Eglwys Loegr, o leiaf nid oedd pan amlygwyd ef gyntaf.

"Wedi y cwbl, pe buaswn i fy hun yn myned i wneyd deiseb "yn achos y cynllun hwn, ni buaswn yn dyweyd wrth y Llyw-"odraeth am beidio ag ymyraeth âg Addysg y genedl, ond yn "unig yn gofyn, os oeddent yn penderfynu ymyraeth, am iddynt "wneyd eu mesur mor dêg a diogel i bawb ag a fyddai yn "bosibl. Mi a ddadleuais lawer mewn rhyw gyfarfodydd yma, "am i'n hymdrech yn erbyn y ddyfais hon fod yn gyfryw ag y "gallwn, heb fod yn euog o annghysondeb, gymmeryd y cym-"horth os pasio a wnai yn y Senedd. Mi a lwyddais hefyd i "wneyd penderfyniadau a gyhoeddwyd yn fwy cymmedrol; ac "nid oes ynddynt ddim, tybygaf, yn erbyn i'r Llywodraeth "ymyraeth âg Addysg. Y mae *character* y cynllun wedi newid "llawer hefyd, ar ol i ni gyhoeddi ein penderfyniadau, os ydyw "y sŵn yn wirionedd. Yr oedd y Wesleyaid y pryd hyny yn "codi eu llais yn gadarn yn ei erbyn. Yr oedd Dr. Bunting yn "ei gyhoeddi,—'*Bad; irretrievably, incurably bad.*' Ond a oes "rhywbeth wedi peri iddynt newid eu golygiadau nis gwn: yr "wyf yn clywed hyny; nid wyf eto wedi cael sicrwydd. "Gobeithiaf eich bod chwi yn Sir Fôn yn barnu drosoch eich "hunain, ac yn gweithredu yn ol eich barn. Ni buaswn i yn "teimlo yn esmwyth i ni oddiyma gyfarch Cymru yn yr achos "hwn o gwbl, oni b'ai i ni glywed o amryw barthau o'r wlad eu "bod yn dysgwyl clywed rhywbeth oddiwrthym.

"Ni chwanegaf ar hyn yma. Ond, Oh! y mae'r cwbl yn fy "ngwneyd yn gryfach o hyd yn fy meddwl y dylem edrych "ychwaneg gartref. Yr ydwyf yn fwy argyhoeddiadol nag "erioed o ffolineb a rhyfyg y Methodistiaid yn arllwys eu holl "nerth i achos tramor, ac yn gadael eu plant eu hunain heb "ddysg, a'u pregethwyr heb eu harfogi â'r manteision ag y mae "yr amseroedd yn gofyn am danynt mewn athrawon cyhoeddus. "A ydyw yn ddichonadwy i gorph o weinidogion, di-ddysg yn "eu dechreuad, ac yn cael eu cadw dros eu hoes i ymwerthu i "drafferthion bydol, ddal eu dylanwad ar y wlad, meithrin a "bugeilio cannoedd o eglwysi yn ddyladwy, a llewyrchu ger "bron y byd fel gweinidogion y gair? Nag ydyw, anwyl "frawd. Dywedwch a fynoch chwi, nid yw yn ddichonadwy. "Ni ragorodd neb erioed yn mysg y Methodistiaid eu hunain, "ond dynion a gawsant ysbryd, amser, a moddion, i ymwerthu "i'r gwaith. Ai nid mewn llafur y byddwch chwi eich hunan "yn cael eich golygiadau gwreiddiol? A allech chwi lafurio, pe "na byddai genych ddim amser i'w roddi at hyny. Ai gwir yw "i chwi yn Sir Fôn gasglu y flwyddyn ddiweddaf at yr Achos-"ion Cenhadol wyth gant o bunnoedd? Y mae hyny yn syndod "ac yn llawenydd mawr i mi; canys y mae yn profi beth a all "gwendid wneyd ond ceisio, ymuno, ac ymdrechu. Ond Oh! "na byddai ffrwyth ymdrech mor ganmoladwy yn cael ei droi "i'r iawn *Sianel*. Hwyrach y gofynwch, a oes yn bosibl iddo "redeg mewn *Sianel* well nag at Achosion Cenhadol? Nag oes. "Os oes genych fodd i roddi cymmaint a hyny yn flynyddol at yr "achos hwnw, y mae Duw yn gofyn hyny oddiar eich dwylaw, "a chwi a ddylech wneuthur yr un modd bob blwyddyn. Ond "os ydych yn ei wneyd ar draul esgeuluso darpar gogyfer â dal "meddiant yn y maes sydd yn eich gofal gartref, os ydych yn "myned âg arian plant bychain eich hysgolion Sabbothol i "ddysgu plant yn eithaf y ddaear, ac yn eu gadael hwy eu "hunain ar hyny o addysg ag y maent yn gael am ddwy awr "unwaith bob saith niwrnod, yna y mae eich zel i mi yn an-"amgyffredadwy, ac ni chredaf y bydd o hir barhâd. Fe ofyn-

"wyd gynt, os na bydd un yn caru un a welodd, pa fodd y "dichon garu un nas gwelodd. Ond yn wir, y rhai nas gwelsant "y mae y Methodistiaid yn eu caru fwyaf, ac yr wyf finnau yn "ammeu, o herwydd hyny, a yw eu cariad hwy yn iawn. Fe "gyst tri neu bedwar o ddynion yn Cassia, y flwyddyn ddi-"weddaf, ond odid fil o bunnau i chwi. Gallasai deg-ar-hugain "neu ddeugain o bregethwyr tlodion Cymru, gael o swm felly, "help a fuasai yn lloni eu hysbryd yn fawr. A gwn fod ardal-"oedd yn Nghymru ag y mae mor angenrheidiol cael dynion i "lafurio ynddynt er cadw gwybodaeth o Dduw yn fyw yn mysg "y trigolion, ag yw cael dynion i fyned â'r wybodaeth hòno i'r "Cassiaid.

"Beth a ddywedwch chwi? A yw ddim yn bosibl troi *fund* "y Genhadaeth Dramor, at Achos Cenhadol, nid yn unig yn y "Goror, ond yn Nghymru hefyd? Cymmeryd o'i chyllidau i "roddi dysg i ddynion ieuainc gobeithiol; a phan y ceir dyn "cymhwys i fyned i'r Goror, ei anfon i'r Goror. Ac os ceir dyn "cymhwys i'w osod mewn ardaloedd yn Nghymru, lle y mae "cynnifer o eglwysi bychain, tlodion, gwywedig, pa fodd, yn "enw pob rheswm, y gall fod yn bechod rhoddi rhyw help i un "gael tamaid i lafurio mewn lleoedd felly? Ië, a thamaid i "lawer un mewn lleoedd felly, am bob un a ddanfona pobl fel "ni i India y Dwyrain. Ond boed hyny fel y b'o. A ydych "chwi, ar hyd y wlad, wedi dyfod i weled i ni fod yn rhy "fyrbwyll yn rhuthro i eithaf y ddaear ar ein troed ein hunain? "Os ydych, onid gonestrwydd ydyw dangos hyny? Dowch â "rhyw fesurau pendant gydâ chwi yma y Sulgwyn. Naill ai "mynwch fyned yn ôl dan nawdd rhyw Gymdeithas arall, neu, "ynte, dowch â chynllun a sail gadarn i Gymdeithas yn ein "mysg ein hunain.

"HENRY REES."

Dan ddylanwad yr un teimlad ag a'i cymhellai i ysgrifenu at Mr Roberts, yr ysgrifenodd yn mhen ychydig ddyddiau, y llythyr canlynol at ei gyfaill, y Parch. Hugh Hughes, y pryd hyny o Lanrwst; yn yr hwn, fel yn y llythyr blaenorol, y

gwelir yn eglur y gofal calon oedd ganddo am wlad ei enedigaeth, ac yn arbenig am ei Gyfundeb ei hunan, yn enwedig yn Ngogledd Cymru :—

"Liverpool, Ebrill 16, 1847.

"ANWYL GYFAILL,—Mae y meddyliau sydd yn codi ynof y "dyddiau hyn, yn fy nghymhell i ysgrifenu at rai o honoch ar "hyd Cymru. Mae pob peth yn arwyddion yr amserau yn fy "argyhoeddi i, fod galwad uchel ar y Methodistiaid i gadarnhau "bàrau eu pyrth, ac i gadw meddiant o'r maes y maent yn ei "lafurio er ys can' mlynedd bellach; ac i arfogi yr oes sydd yn "codi, a'r pregethwyr sydd yn codi, yn gyfatebol i'r amseroedd "sydd o'u blaen.

"Pa mor onest a chanmoladwy bynnag yw amcan ein Llywodr-"aethwyr gydâ eu *Scheme of Education*, y mae arnaf fi wir ofn "yr aiff hi yn y canlyniad o dan ein gwraidd ni yn Nghymru, os "bydd i'r Senedd ei chadarnhau hi. Heb sôn am yr annghysur "o dderbyn arian y Llywodraeth, gydâ'r holl giwed Pabaidd a "Socinaidd sydd yn dysgwyl eu cyfran, yr ydwyf fi yn meddwl "mai ychydig o honynt a gaech pe byddech barod i'w derbyn: "oblegid fe fydd Eglwys Loegr wedi cyflawni yr ammodau, ar "ba rai y mae yr arian i'w cael, cyn y bydd yn bosibl i'r "Ymneillduwyr tlodion wneuthur hyny, ac felly sicrhau y cwbl "iddi ei hun yn mhob cymmydogaeth. Wel, bwriwch mai "i ddwylaw Eglwys Loegr y bydd yr holl gedion hyn yn "myned, trwy fod yr Ymneillduwyr yn eu gwrthod neu yn eu "colli, yna rhaid i'r plant naill ai cael eu gadael heb ddysgeid-"iaeth, neu bydd yn rhaid i chwi eu haberthu hwy yn hollol— "Sul, gŵyl, a gwaith—i ddwylaw yr Eglwys Sefydledig. Pa "ddefnydd a fydd i chwi sôn am sefydlu ysgolion i chwi eich "hunain, pan y bydd ysgolion y Llywodraeth yn gosod y fath "*brospects* o flaen athrawon, rhïeni, a phlant? Pe byddech fyw "am ddeng mlynedd wedi i'r cynllun hwn ddyfod i weithrediad, "chwi gaech weled Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid wedi eu "di-blantu, a'u plant yn *starvio*, os nad yn cael eu gwenwyno, "rhwng hen furiau oerllyd yr Eglwys Sefydledig. A ydych

"chwi yn meddwl na fedr Ymneillduwyr Cymru ddim cymmodi "eu cydwybodau â llawer o bethau, ïe, ac â phethau lled chwith "hefyd, er mwyn cael y fath fanteision i'w plant? Mae yr "Eglwyswyr yn meddwl i'r gwrthwyneb, ac felly, yn groes i'w "holl hòniadau hyd yma, mai hwy yn unig a bïau addysgu y "genedl, y maent yn boddloni i ddyfod yn mlaen, yn mysg yr "Enwadau ereill, gan obeithio, o herwydd amrywiol achosion, "mai i'w dwylaw hwy y disgyn y rhan fwyaf, os nid y cyfan, "ac y gallant drwy hyny, wedi *methu* gorfodogi, ddenu y wlad "i'w crafangau. Nis gallaf gyfrif pa fodd y mae Uchel-Eglwys-"wyr, ac Esgobion Puseyaidd, yn cymmeradwyo y *plan*, a "dynion fel ein M'Neile ni, pa rai sydd mor enbyd yn erbyn yr "egwyddor o gynnal pob crefydd, mor ddistaw yn ei gylch, ond "o herwydd eu bod yn gobeithio mai dyna fydd y canlyniad. "Ond gadawaf hyn yn awr.

"A ydych chwi yn meddwl fod yn ddyledswydd ar yr oes "bresennol ddiogelu a chadarnhau Methodistiaeth yn Nghymru? "Os ydyw, a ydych chwi yn sicr yn eich meddwl fod yr oll a "ellid, a'r oll a ddylid, a'r oll sydd angenrheidiol ei wneuthur, "yn cael ei wneyd i'r diben hwnw? A ydyw crefydd ysbrydol, "a doniau gweinidogaethol, yn blodeuo yn ein mysg ar hyn o "bryd? A ydyw ein gweinidogion yn sefyll mor uchel ger bron "y wlad â chynt, ai, ynte, onid oes llawer yn dechreu canfod ein "noethder, a phob tebyg y bydd ein gelynion yn llïosogi, pa rai "a ymhyfrydant mewn dangos ein noethder a'n hanwybodaeth "ar g'oedd y byd trwy yr Argraff-wasg? Ai dynion o'r un "graddau mewn gwybodaeth a thalentau â'r rhai a neillduid yn "y blynyddoedd cyntaf, sydd yn cael eu neillduo y blynyddoedd "hyn? Na, nid oes dynion felly i'w cael, er fod ansawdd y "wlad, cynnydd gwybodaeth yn mysg y gwrandaẅwyr, yn gofyn "gweinidogion mwy eu hamaethiad nag oedd yn angenrheidiol "y blynyddoedd hyny. Mi a wn beth, a phwy ydwyf fi fy hun; "ond nid wyf yn meddwl y dylai hyny fy lluddias i wneyd fy "ngoreu i geisio gwneyd ereill yn well na mi fy hun. A ydyw "yn bosibl i ddynion di-ddysg yn eu dechreuad, a'r rhai hyny

"yn ymwerthu i drafferthion bydol ar hyd eu hoes, yn gwneyd "cyfoeth neu wneyd bywioliaeth yn amcan eu bywyd, ac yn "dwyn eu holl amser a'u myfyrdod, nes y mae darllen ac efryd- "iaeth yn myned yn llwyr allan o ymarferiad, ac o'r diwedd yn "beth anmhosibl iddynt,—a ydyw yn bosibl, meddaf, i'r cyfryw "rai gadw y dylanwad a roes Duw i'r Methodistiaid ar y wlad, "ïe, llewyrchu ger bron y byd fel athrawon cyhoeddus, yn "enwedig mewn amseroedd o'r fath ag sydd o'n blaen ni yn "bresennol? Nac ydyw, fy nghyfaill, nac ydyw! Y dynion a "ragorodd fwyaf yn ein mysg ni erioed oedd y dynion a "adawsant mewn cymhariaeth bob peth, ac a ymwerthasant yn "hollol i'r gwaith; dynion ag oeddent allan o'u helfen gydâ "phob peth, ac yn mhob man, ond yn y *Study*, ac yn y pulpud. "Ac os nad yw Rhagluniaeth yn eu darpar hwy yn rhad fel "cynt, awgrym ydyw y mynai Duw i'r Methodistiaid ddarpar "iddynt eu hunain, a pheidio ag offrymu o hyd i'r Arglwydd "boeth-offrymau rhad, trwy neillduo i'r weinidogaeth ddynion "nad ydynt yn costio dim iddynt.

"Ond pa beth a wnawn ni? meddwch chwi. Nis gwn i ddim, "fy nghyfaill, pa beth a wnawn. Mi dybiwn mai y peth cyntaf "i'w wneyd ydyw, ein hargyhoeddi fod eisieu gwneyd rhywbeth. "Mae lliaws o bethau yn bosibl i'w gwneyd wedi cael enaid i'w "gwneuthur. Gwnaeth Môn £800 y flwyddyn ddiweddaf at "Achosion Cenhadol; dyna i chwi ddangos beth a ellir ei wneyd. "Mae hyn yn dyfod â mi at y pwnc penaf ar fy meddwl i'w "osod o'ch blaen. A ydyw yn ddoethineb i'r Methodistiaid "arllwys eu holl nerth i achosion tramor, a gadael pethau yn y "wedd y maent yn eu mysg eu hunain? Fe fydd traul Cassia "am y flwyddyn ddiweddaf, rhwng pob costau, yn agos i £1,000, "mi dybiwn, heblaw y Genhadaeth Iuddewig, a'r Genhadaeth "yn Llydaw. Wel, a ydym ni i barhau i anfon fel hyn i eithaf "y ddaear? Dyna chwi eisoes wedi cael prawf o'r siomedig- "aethau, ac o'r costau sydd yn nglŷn âg anfon dynion i'r byd "paganaidd: un o'ch Cenhadau wedi ei alw adref, un arall wedi "marw, a'i wraig yn dychwelyd i fôd, ond odid i ryw fesur, yn

"bwys arnoch; gwraig y trydydd wedi marw, ac yntau wedi ail "briodi â lodes ieuanc heb fod prin yn gwneyd proffes o grefydd. "Os ydyw y pethau hyn yn dechreu eich llwfrhau ar hŷd "Cymru, oni ddylech ddangos hyny, ac ymofyn beth i'w wneyd? "Neu, os ydych ar hŷd y Siroedd mor ddewr a gwrol âg erioed "am fyned yn mlaen *(none of these things move you)*, wel, "dowch yma y Sulgwyn, gydâ rhyw gynlluniau tuag at osod y "Gymdeithas ar seiliau sefydlog. Pwy sydd genych chwi yn "awr mewn gafael i arolygu y Gymdeithas heblaw y *Committee* "bychan sydd yma? Ac nid oes fawr o ymddiried i hwnw. "Gwelwch bobl ——— yn cadw eu harian yn eu dwylaw eu "hunain. Nid wyf fi yn eu beio ychwaith. Pa le y mae y "Bwrdd? meddwch. Pa le hefyd? Y mae â'i draed i fynu er "ystalm. Enwch i mi ei aelodau. Y Bwrdd, ysywaeth! er ys "amser ydyw rhyw rai a fyddont yn digwydd dyfod i'r Gym-"deithasfa, er na buant ynddo, hwyrach, erioed o'r blaen, ac na "ddeuant, fe allai, byth mwy. Ac a all y cyfryw rai drin "achos yn India'r Dwyrain?

"Yr wyf fi yn llawn awydd i edrych gartref—dal meddiant "yn Nghymru. Oni byddai modd i'r *fund* Genhadol fod at "gynnal Cenhadon yn mhob man—hèl iddi yn egnïol, a chym-"meryd o'i thrysor i ro'i dysg i ddynion ieuainc gobeithiol, a "helpio ambell un cymhwys i roi mwy o'i amser i lafurio ar "hŷd Cymru—sefydlu Cenhadon mewn lleoedd fel Llanfair "Talhaiarn, Llanelian, neu'r cyffelyb? Ac os bydd ambell un "cymhwys i fyned i'r Goror, neu i India, aed yno. Neu "rhoddwch dipyn i Gymdeithasau ereill at anfon Cenhadon. "O leiaf, gwnewch rywbeth. Ymgynghorwch â'ch gilydd yn "Sir Ddinbych, ac ymgynghored Sir Ddinbych â Siroedd "ereill. Wele fi wedi anfon atoch chwi; anfonwch chwithau "at rywrai ereill, a dowch â theimlad y gwledydd yma y "Sulgwyn. Dowch yma i fynu gwybod genym ni, hyd ag y "gallwn, bob peth sydd yn dywyll i chwi am y Genhadaeth, "ac i roi gwybod i ninnau pa beth a dybygech sydd ddoethaf "i'w wneyd rhagllaw.

"HENRY REES."

Mae yr adroddiad a roddwyd genym eisoes am y cynhwrf oedd yn gyffredin trwy y deyrnas, ac yn neillduol yn Nghymru, gydâ golwg ar Addysg, yn ddigon i gyfrif am y pryder a ddangosid gan Mr. Rees, yn y llythyrau blaenorol, o berthynas iddo; pryder y cadwyd ei feddwl ef i fesur mawr ynddo hyd ddiwedd ei oes; oblegid yn 1870, yn mhen blwyddyn wedi ei farw ef, ac ar ol llawer o ymdrech, y cafwyd y Ddeddf bresennol ar hyny, yr hon sydd yn gorwedd mor esmwyth ag y gellid braidd ddysgwyl i ddim o'r fath wneyd, ar feddyliau y gwahanol bleidiau, gwladwriaethol a chrefyddol, o fewn y tir. Am ei sylwadau ar yr Achos Cenhadol, dichon y bydd llawer yn methu cyduno âg ef. Y mae yn amlwg oddiwrth y llythyrau, yn enwedig y llythyr diweddaf fod y Gymdeithas Genhadol Dramor yn ein plith, ar y pryd mewn amgylchiadau tra phrofedigaethus; ac y mae yn hawdd gweled fod Mr. Rees yn ysgrifenu, pan oedd yr hysbysiadau annghysurus yn nghylch y Cenhadwr cyntaf a anfonasid allan newydd ddyfod i law; a phan oedd yr holl achos, yn wir, mewn gwedd ddifrifol iawn. Yr un pryd y mae efe yn y llythyr, yn hollol gyson âg ef ei hun, yn y tir a gymmerasid ganddo gydâ'r achos o'r dechreuad. Ni fynai mewn un modd i'r Cyfundeb, yn ei zel gydâg ymdrechiadau tramor, esgeuluso cartref; ond yr oedd am i'r achosion cartrefol gael y lle mwyaf blaenllaw gan yr holl frawdoliaeth. A pha faint bynnag y gwahaniaeth rhyngddo â rhai o'i frodyr yn nghylch teilyngdod cymharol gwahanol achosion, a'i argyhoeddiad dwfn nad oeddem fel Cyfundeb, yn rhoddi y lle priodol i'n hanghenion cartrefol, nid oedd neb yn teimlo yn fwy dros ein hachosion tramor, nag odid neb yn rhoddi mwy o feddwl ac amser i ofalu am danynt. Er dyheu yn fynych am gael ei ryddhau oddiwrth bob gofal o'r fath, eto, am dros ugain mlynedd wedi ysgrifenu y llythyrau uchod, yn y cydwybodolrwydd oedd mor hynod ynddo, parhäodd i gyrchu yn gyson i gyfarfodydd Cyfeisteddfod Gweithiol y Genhadaeth Dramor, ac i gymmeryd rhan fwy arbenig na neb arall, oddieithr yr Ysgrifenyddion yn ngweithrediadau y Gymdeithas. Nid oedd dim yn rhoi mwy o lawenydd iddo na'i llwyddiant; na neb yn gofidio yn fwy oblegid pa beth bynnag y cyfarfyddai â hi, yn tueddu i attal hyny.

# PENNOD XI.

*O Gymdeithasfa Liverpool,* 1847, *hyd Gymdeithasfa Caernarfon,* 1854.

RHAGLUNIAETH A GWEDDI—Y TRAETHODYDD—CYMDEITHASFA Y BALA—JOHN WILLIAMS, LLECHEIDDIOR—YR ATHROFA—CAIS AM GRONFA—CYFARFOD BRWDFRYDIG YN LIVERPOOL—CYMDEITHASFA BANGOR—PENNODI MR. REES A MR. EDWARDS I YMWELED A'R CYFARFODYDD MISOL—YMWELED A MON—LLYTHYR YN ADRODD FEL Y BU YNO—YMWELED A'R HOLL SIROEDD—YR AMCAN AR Y PRYD YN SYRTHIO I'R LLAWR—LLYTHYR AT MRS. DAVIES, FRONHEULOG, CYMDEITHASFA CAERNARFON, 1848—TRADDODI Y CYNGOR YN YR ORDEINIAD YNO—MARWOLAETH Y PARCH. THOMAS LLOYD, ABERGELE—ACHOS CYFREITHIOL POENUS YN LLUNDAIN—CYMDEITHASFA TREFFYNNON—Y CHOLERA YNO AR Y PRYD—GWEDDIO YN ARBENIG DROS Y DREF—YR HAINT YN CAEL EI ATTAL—CYMDEITHASFA LLANDEILO—MYNED I LUNDAIN AM RAI MISOEDD — LLYTHYR — AWYDD MAWR MEWN LLAWER AM SYMMUD LLE YR ATHROFA—RHAGDRAETHAWD I'R "EGLWYS O DDIFRIF"—CYMDEITHASFA YR WYDDGRUG—YR ARDDANGOSIAD MAWR YN LLUNDAIN—LLYTHYR AT GYFAILL AR FARWOLAETH EI WRAIG—TAITH I'R IWERDDON—ERTHYGL I'R TRAETHODYDD—ANNERCHIADAU I WYR IEUAINC—CYNLLUN NEWYDD I DDERBYN AC I ORDEINIO PREGETHWYR—ARHOLIAD CYMDEITHASFAOL—PRYDER YN NGHYLCH YR ATHROFA—GWYR IEUAINC YN DECHREU PREGETHU TRA YNO—CYMDEITHASFA CAERNARFON, 1854.

YR oedd y cyfyngder masnachol dirfawr y dioddefai y deyrnas yn gyffredinol oddiwrtho yn nechreu y flwyddyn 1847, a'r gwasgfaeon yr oedd miloedd lawer yn y wlad, yn y canlyniad, yn teimlo oddiwrthynt, ac yn enwedig y newyn trwm yr oedd yr

Iwerddon, y flwyddyn flaenorol, wedi bod yn dioddef tano, wedi peri fod sylw arbenig yn cael ei gymmeryd gan Weinidogion yr Efengyl, a chan Gristionogion yn gyffredin, ar Ragluniaeth Ddwyfol, a Llywodraeth yr Anfeidrol ar y byd, ac ar amgylchiadau plant dynion ynddo. Yr oedd dynion gwir grefyddol, mewn cysylltiad â phob Enwad Cristionogol, wedi eu dwyn yn dra ystyriol; ac yn teimlo ac yn cydnabod fod cŵyn rhwng yr Arglwydd â thrigolion ein gwlad, ac yn ceisio nesau ato i erfyn arno drugarhau wrthym a'n harbed. Ond yr oedd ereill, er bod yn weinidogion yr efengyl, yn synio ac yn siarad yn gwbl wahanol; yn dadleu nad oes un lle i ni i feddwl fod unrhyw ymyriad presennol o eiddo y Crëawdwr â'r byd ac â'i amgylchiadau, ond fod pob peth yn cael ei ddwyn yn mlaen y mae yn wir, fel y cydnabyddent, ganddo ef, ac yn ol deddfau sefydlog o'i drefniad ef, eithr cwbl annibynol ar bob ewyllys bresennol o'i eiddo. Felly nad oedd dim rhagluniaeth neillduol yn bod; na dim i'w olygu fel barn, na dim yn uniongyrchol i'w ystyried fel bendith, yn ddim pellach nag y mae pob daioni o eiddo Duw felly; ond fod gwlybaniaeth a sychder, llawnder a phrinder, yn dibynu ar ddeddfau sefydlog a digyfnewid o ordeiniad y Duw mawr ei hunan. Yn arbenig, yr oedd gofyn am fendith ar yr ymborth yn cael ei olygu yn goel-grefyddol ac afresymol. "Y mae y fendith," meddant, "eisoes yn y bwyd; a'r cwbl sydd i ni i'w wneyd, heblaw llafurio am dano, ydyw diolch am ei gael." Yr oedd un gŵr yn neillduol, yn Ngogledd Cymru, wedi gwneuthur ei hunan yn lled hynod, y pryd hwnw, trwy ddysgu y cyfryw syniadau o'r pulpud a thrwy y Wasg.

Fel y gallesid dysgwyl, yr oedd Mr. Rees yn gofidio yn fawr wrth glywed fod y fath egwyddorion yn cael eu taenu yn y Dywysogaeth; ac yn ei bryder o herwydd hyny yr anfonodd y llythyr canlynol at Dr. Edwards, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo, fel y canfyddir, ddydd Mawrth wedi y Gymmanfa, Sabboth a Llun y Sulgwyn yn Liverpool:—

"Liverpool, Mai 25, 1847.

"ANWYL GYFAILL,—Trannoeth wedi ein Cymmanfa yr ydwyf "yn eistedd i lawr i ysgrifenu y llinell hon atoch, gan obeithio "fod pob peth yn dda gydâ chwi a'ch teulu.

"Mater ein cyfarfod eglwysig ni ddoe ydoedd,—'Ymweliadau "barnol Duw ar y wlad:' ac, yn wir, fe wnaed llawer o sylwadau "tra buddiol arno. Yr oedd John Hughes, Pontrobert, a Roberts, "Amlwch, yn rhuo yn nerthol; Humphreys, Dyffryn, yn ym-"gomio yn synwyrol; Dafydd Rowland, yn ein diddanu yn "ddifyrus; a Roberts, Clynnog, fel gŵr cadarn yn yr ysgryth-"yrau, yn eu hadrodd yn gywir, a medrus, a phriodol. Adroddai "ymddyddan a fuasai rhyngddo â rhyw ŵr ag oedd yn gwadu "llaw farnol yr Arglwydd mewn pethau blinion dan yr efengyl. "Ac yr wyf yn meddwl mai ——— ydoedd. Parai hyn, yn "nghyd â chlywed fod rhyw draethawd wedi ymddangos yn y "——— yn cablu y Methodistiaid yn ddirfawr, am eu bod yn "pregethu ac yn gweddïo fel rhai yn credu mai barn Duw ar y "byd yw y newyn a'r pethau dieithr sydd ynddo y dyddiau "hyn, i mi anesmwytho wrth gofio i chwi ddyweyd wrthyf fod "yn Ysgrif ——— i'r *Traethodydd* ryw syniadau o'r fath.

"Yr oeddwn i yn cael lle i gasglu ddoe fod rhyw dybiau o'r "cyffelyb yn cael eu pregethu a'u siarad yn bur gyffredin ar "hyd Cymru, pa rai nad ystyriai y brodyr oeddent yn cyfeirio "at hyny yn ddim gwell na dim amgen na'r anffyddiaeth sydd "yn ffynu mor fawr yn y wlad, wedi llithro i mewn i ysbryd-"oedd crefyddwyr, ïe, a dynion a gymmerant arnynt fod yn "weinidogion y gair. Yn awr, fe fyddai yn ddrwg dros ben "genyf i ddim o'r fath ymddangos yn y *Traethodydd*: (1.) O "herwydd fy mod yn barnu ei fod yn ffrwyth annghrefydd, ac "yn debyg o feithrin hyny yn ysbrydoedd dynion. (2.) O "herwydd y byddai yn friw i ddynion syml. (3.) O herwydd y "gwnai ddrwg i'r *Traethodydd*. (4.) O herwydd y rhoddai "fantais i'r rhai di-gariad ato i'w gablu.

"Ond os condemnio yn unig y mae ryw ddull annoeth o drin "y pethau hyn, a bod yn rhy bendant am ryw bethau neillduol

"fel achosion o honynt, y mae hyny yn beth arall; a gallai gair "doeth, mewn iawn ysbryd, fod yn fuddiol.

"Maddeuwch fy ymyraeth. Nid oeddwn yn amcanu ond "galw eich sylw at bwys y mater, fel y gallech ail edrych dros y "sylwadau yn yr Ysgrif, a gwneyd rhywbeth, os nad yw yn "rhy ddiweddar, er diogelu rhag y canlyniadau uchod. Hyn, "am a wn i, a barodd i mi yn benaf ysgrifenu y llith hon atoch."

Mae y llythyr uchod, fe welir, nid yn unig yn brawf o'r eiddigedd mawr oedd yn Mr. Rees gydâ golwg ar y gwirionedd, a'i bryder rhag i syniadau amheus am bethau sylfaenol crefydd ennill tir yn ein gwlad, ond hefyd yn dangos y dyddordeb mawr a gymmerai yn y *Traethodydd*, i'r hwn yr oedd wedi bod, o'i gychwyniad, yn gynnorthwywr gwirioneddol. Am yr ysgrif y cyfeiria ati yn y llythyr uchod, er ei bod, fel yr ymddangosodd, wedi peri graddau o flinder i lawer, oddiar yr ysbryd a'r dôn neillduol sydd yn anadlu drwyddi, eto yr oedd pob awgrym *o'r nodwedd a barai y fath bryder i'w feddwl ef*, wedi ei adael allan yn gwbl; ac nid ydym yn cofio i'w hawdwr gael gofyn byth iddo am erthygl arall.

Fel yr oedd Mr. Rees yn cymmeryd dyddordeb neillduol mewn pregethu, ac wedi astudio llawer arno yn ei gysylltiad âg ef ei hunan, yn ei gyflawniad personol o'i weinidogaeth, felly yr oedd ei sylwadau arno bob amser yn dra addysgiadol, ac yn nodedig o werthfawr. Yr oeddent yn arbenig felly yn Nghyfarfodydd Neillduol y Pregethwyr yn ein Cymdeithasfäoedd; ac y mae yn resyn annghyffredin na buasai y rhai hyny wedi eu cofnodi yn gyflawn, gan na allasent lai na bod o wasanaeth dirfawr, yn enwedig i bregethwyr ieuainc. Yr ydym yn cofio ei fod yn hynod ddedwydd yn ei sylwadau, yn Nghyfarfod y Pregethwyr yn Nghymdeithasfa y Bala, ddydd Mercher, Mehefin 9, 1847. Efe oedd yn Llywyddu yn y Gymdeithasfa hòno. Yn y Cyfarfod hwnw yr oeddid yn ymddyddan â'r diweddar Mr. John Williams, Llecheiddior y pryd hyny, ac â Mr. Evan Williams, Pentre Uchaf, yn awr o'r Morfa, Nefyn,—dau frawd ag oeddent wedi eu dewis

i'w neillduo i'r holl waith, yn y Gymdeithasfa ganlynol yn Mangor. Mr. William Roberts, Clynnog, a alwyd i'w holi am ddechreuad eu crefydd, a'u profiadau ar y pryd; a Mr. John Hughes, Pontrobert, am eu teimladau yn ngwyneb yr alwad at yr holl waith. Yr oedd Mr. John Williams yn adnabyddus trwy y wlad yn gyffredinol fel pregethwr poblogaidd, tanllyd; ac un llawn eiddigedd yn erbyn arferion llygredig yr oes; ond yn cael ei yru yn fynych gan ei deimladau i ddefnyddio iaith dra eithafol, ac, weithiau, heb fod mor goeth ag y buasai ddymunol. Fel y dywedodd y Parch. Robert Owen, Llundain (*Eryron Gwyllt Walia*), am dano:—

"Llecheiddior, llucliiai addysg,—cywirlym
Fal curwlaw a chenllysg;
O'r allor marwor i'n mysg,
Gemau a thân yn gymmysg;'

felly mewn gwirionedd yr ydoedd.

Ond yn yr ymddyddan âg ef y pryd hwn, wedi i amryw o'r brodyr wneuthur sylwadau gwerthfawr a phriodol i'r achlysur, dyna Mr. Rees, mewn rhyw ddull haner chwareus, yn gofyn iddo,—"A fyddwch chwi yn ysgrifenu eich pregethau, John Williams?" Atebodd yntau yn dra gwylaidd,—"Byddaf yn ysgrifenu rhyw ychydig, ond nid gydâ rhyw lawer o fanylwch, na llawer o drefn." Yna, meddai Mr. Rees, yn yr un ysbryd rhyddchwareus,—"A fyddwch chwi yn ysgrifenu y pethau *hyllion* hyny?" "Na," meddai yntau dan wenu, "mi fyddaf fi yn ceisio peidio rhoddi dim ar bapur, ag y byddai arnaf fi gywilydd meddwl am i neb ei weled wedi i mi farw." "Wel," meddai Mr. Rees gan droi at yr holl frodyr, "ysgrifenu neu beidio, y mae y brawd yma wedi cael rhyw ddawn nad oes llawer o honom ni yn ei meddu, ac yr ydwyf fi fy hunan yn neillduol yn amddifad iawn o honi; rhyw ysbryd, ac eiddigedd, a gwroldeer, i ddyweyd yn erbyn pechodau a llygredigaethau y wlad. Mae hyna yn sicr yn perthyn i weinidogaeth yr efengyl. Yr oedd hynyna yn nodwedd neillduol ar weinidogaeth y prophwydi, a hyny yn ol gorchymyn yr Arglwydd ei hun:—'Llefa â'th gêg, nac arbed;

dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Jacob.' Yr oedd hyn yn hynodi ein hen dadau ni yn Nghymru. Yr oedd rhai o honynt yn amlwg yn cael eu dysgu a'u nerthu gan Ysbryd yr Arglwydd ei hunan yn eu hymdrechion yn erbyn pechod, fel yr oedd llygredigaethau yn gwywo o'u blaen. Edrychwch ar Mr. Elias, yn ddyn ieuanc, ac heb neb o ddim dylanwad gwladol gydâg ef, yn anturio, i ganol y ffair gyflogi i'r cynhauaf ar y Sabboth yn Rhuddlan, ac yn llefaru gydâ'r fath rym, ac awdurdod, ac effeithiolrwydd, yn erbyn halogi dydd Duw, nes yr oedd dynion cryfion yn crynu wrth ei eiriau, a'u breichiau megis yn rhy wan i ddal eu crymanau, ac na chadwyd y ffair gyflogi yno ar y Sabboth byth ar ol hyny. Ond y mae yr ysbryd yna, rywfodd, wedi ei golli o'n plith, hyd ag y gwn i, oddieithr yn unig yn y brawd hwn. Y mae efe yn llawn o hono. Ac yr ydwyf yn gobeithio y cedwir yr eiddigedd yna yn ei ysbryd ar hyd ei oes. Ond yr un pryd, arwydd o wendid, wedi hyny, ydyw *tafodi* pechod, a galw enwau drwg arno. Pe gallem ni ei godi ger bron y bobl, a'i ddangos iddynt yn ei hacrwch a'i ddrygedd, fel gwrthwynebiad i'r sancteiddrwydd dwyfol, fel trosedd o'r ddeddf oreu, fel gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth a'r awdurdod uchaf, fel anniolchgarwch yn wyneb y caredigrwydd mwyaf,—ni a fyddem yn llawer mwy tebyg i fod yn llwyddiannus i greu casineb cywir a dwfn ynddynt tuag ato, na thrwy y geiriau cryfaf a mwyaf anferth a allem ddefnyddio i siarad am dano. Y peth goreu a allwn ni wneyd fel pregethwyr ydyw, byw llawer yn nghymdeithas croes ein Harglwydd Iesu Grist, lle y mae i'w weled yn ei holl ddrygedd; ac wedi cael rhyw ddirnadaeth yno o'r erchylldod sydd ynddo, chwilio am y geiriau mwyaf cymmeradwy a allwn gael, er ceisio ei ddangos yn ei holl ysgelerder i'n gwrandawwyr." Yr oedd y sylwadau yn cael eu gwneyd gydâ dwysder neillduol, ac yn cael eu derbyn gydâ chymmeradwyaeth mawr.

Y mae y cyfeiriad hwn at Mr. John Williams, yn ein hadgofio o darawiad lled ddigrifol rhyngddo ef â Mr. Rees, yn mhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, yn Nghyfarfod y Pregethwyr yn

Nghymdeithasfa Pwllheli, Medi 9, 1852. Mr. Rees oedd yn Llywyddu hefyd yn y Gymdeithasfa hòno. Yr oedd y *Cholera* y pryd hyny yn tramwy tuag Europe, ar yr un llwybr ag a gymmerasid ganddo ar ei ymweliadau blaenorol; ac yn y flwyddyn ganlynol, fe gyrhaeddodd Europe ac a ddaeth trosodd i Frydain, ac a wnaeth ddinystr ofnadwy ar fywydau miloedd yn ein teyrnas. Gwnaed amryw sylwadau, yn ystod y Gymdeithasfa, ar ein dyledswydd fel gwlad i ymostwng yn edifeiriol ger bron yr Arglwydd, i erfyn ar iddo ein harbed, ac i ymarfer hefyd â'r moddion a ddangosir gan Ragluniaeth fel yn fwyaf tebyg o liniaru yr haint, ac i'w attal i raddau mawr. Cyfeirid yn arbenig at lanweithdra cyffredinol a sobrwydd, fel pethau yn nghyrhaedd pawb, ac fel pethau o'r pwys mwyaf fel amddiffyn i ni rhag yr hyn oedd mor niweidiol, ac a ofnid mor fawr. Yr un peth a arweiniodd i'r cyfeiriad neillduol a gymmerodd yr ymddyddan yn Nghyfarfod y Pregethwyr, yr angenrheidrwydd am i'r pregethu fod yn gyfeiriol at gydwybodau y gwrandaẅwyr. Yr ydym yn cofio fod Mr. Rees yn sylwi, fod eisiau dywedyd yn erbyn pechod, nid mewn gwedd gyffredinol yn unig, ond yn erbyn pechodau neillduol;—yn erbyn balchder, cybydd-dod, meddwdod, anonestrwydd, hunan-gyfiawnder, gan eu nodi allan yn y fath fodd, ag i beri i gydwybod y gwrandaẅwr droi ato, a dywedyd wrtho, "Ti yw y gŵr." "Yr un pryd," meddai, "y mae eisiau i ni fod yn dra gwyliadwrus ar ein hysbryd ac ar ein geiriau, yn ein pregethau ac wrth areithio ar ddirwest, rhag i ni ddywedyd dim a fyddo yn achlysur i neb dramgwyddo yn hytrach wrth y gwirionedd a fyddwn ni yn geisio ddysgu iddynt, nag wrth y drwg y byddwn ni yn siarad yn ei erbyn. Cofiwn bob amser nad ydyw gerwinder iaith na chymhariaethau anngheoth, na dim a baro i neb dybied fod genym ryw gyfeiriad personol ato ef, mewn un modd yn fantais i ni i gyrhaedd ein hamcan, os diwygio y dyn oddiwrth ei fai ydyw yr amcan hwnw." Ar hyny, dyna Mr. John Williams yn tori ar draws Mr. Rees, ac mewn dull ac â llais lled guchiog, yn dywedyd,— "Pa ddaioni byth a wnawn ni, nac a allwn ni ddysgwyl wneyd,

wrth ddyweyd yn erbyn pechod, heb fod yn bosibl i neb wybod, pa un ai yn ei erbyn ai yn ei blaid yr ydym? Y mae rhai yn areithio ar Ddirwest nad oes yn bosibl i'r bobl wybod a ydynt yn ddirwestwyr eu hunain ai peidio. Yr oeddech chwi," meddai, gan gyfeirio at Mr. Rees, "yn areithio ar Ddirwest y Sul diweddaf yn Nghaernarfon, a thafarnwyr y dref yn eich canmol. Pa fath areithio ar Ddirwest a allai hwnw fod? Ni allwn i byth areithio felly, ac nid oes arnaf fi eisiau clywed yr un araeth o'r fath byth." Ar hyn yr oedd pawb wedi eu taro â syndod, er fod rhai yn gweled yr ochr ddigrifol ac yn gwenu. Yr oedd y fath ruthr, ar y fath un, a hwnw yn Llywydd y Cyfarfod, yn peri fod y nifer mwyaf yn teimlo yn annghysurus, ac yn barod braidd i ymweled â chamwedd John Williams â ffrewyllau. Ond yr oedd Mr. Rees yn hollol hamddenol; a dyna fo yn codi, ac yn ymddangos yn gwbl ddiniwed, ac eto, gydâ rhyw dröad yn ei lygad ac yn ei wefus, yn awgrymu i'r rhai eydnabyddus âg ef nad oedd yn myned i orwedd yn dawel dan yr ymosodiad, nac yn arswydo dim o'r gerwinder yr oedd wedi bod yn siarad yn ei erbyn. "Wel," meddai, "rhaid i chwi adael i bob asyn gael brefu yn ei lais ei hun." Ar hyny fe dorodd pawb allan i chwerthin yn y modd mwyaf aflywodraethus, yn enwedig yr Athraw o'r Bala ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa,—fel na allai Mr. Rees fyned yn ei flaen. Yr oedd wedi defnyddio geiriau ag y gallasai efe ddadleu mai cyfeirio ato ei hun yr ydoedd; ac eto, yr oedd pawb, ag oeddent bresennol, yn eu cymhwyso at y brawd arall; ac yr oedd y brawd ei hunan yn gwneyd hyny. Yr ydym yn cofio fod y diweddar Mr. David Jones, Caernarfon y pryd hyny, wedi ei orchfygu yn gwbl gan chwerthin, ac yn pwnio John Williams, yr hwn a eisteddai gerllaw iddo, gan ddywedyd, "Atebwch o, John Williams, atebwch o." "Ei ateb o," meddai yntau, "ni ddywedaf i air byth wrtho." Yr oedd Mr. Rees yn parhau i sefyll, tra yr oedd yr holl gyfarfod yn y fath deimladau. Ond toc, meddai, "Yr ydych chwi wedi cymmeryd gormod o ryddid ar fy sylw i. Yr oeddwn i yn ei ddyweyd o i'm hamddiffyn fy hun. Nid allwn i, yr wyf yn gwybod, pe

b'awn i yn ceisio, ddim areithio fel John Williams, ac nid wyf yn hollol sier a fedrai yntau areithio fel finnau; er fy mod braidd yn meddwl na ddarfu iddo erioed geisio. Y mae yn rhaid i mi gydnabod fod yn dda genyf fi fod tafarnwyr Caernarfon yn fy nghanmol am areithio ar Ddirwest; hwyrach y deuant trwy hyny i wrando arnaf ryw bryd yn pregethu, a dichon y gallai hyny derfynu yn eu cadwedigaeth. Gadewch i ni, pa fodd bynnag, i gyd, gadw mewn côf ein bod gydâ gwaith mawr, ac ymgais oll i'w gyflawni yn y fath fodd ag i sierhau cymmeradwyaeth y Meistr, i'r hwn yr ydym yn gyfrifol, a'r hwn sydd â'i sylw yn wastadol arnom."

Eithr y mae yn rhaid i ni droi yn ol ychydig flynyddoedd, er mwyn dyfod at yr amser priodol yn hanes gwrthrych ein Cofiant. Fe ysgrifenwyd y llythyr canlynol ganddo at ei gyfaill, Mr. William Lloyd, Rhuthin, ar yr achlysur o farwolaeth mab bychan iddo:—

"Liverpool, Mehefin 30, 1847.

"ANWYL GYFAILL,—Yr wyf yn teimlo yn drist a siomedig ar "ol clywed am farwolaeth eich bachgen; yr oedd yr hanes a "roddech am dano pan oeddwn i yn Rhuthin wedi peri i mi ei "gyfrif yn mysg y rhai byw. Ond nid felly yr oedd ewyllys "yr Arglwydd, ffyrdd yr hwn, er eu bod yn anolrheinadwy, "ydynt farn.

"Nid wyf yn ddigon adnabyddus o honoch chwi, a'ch anwyl "wraig, i allu eich cynghori i ddim pwrpas ar achlysur fel hyn, "heblaw y gall eich brodyr sydd yn cydfyw â chwi yn wastad, "ac mewn cyfleusdra i wneuthur hyny wyneb yn wyneb, ei "gyflawni yn llawer mwy effeithiol. Os oedd hawddgarwch "tymher, neu gyflymdra i ddysgu, neu ryw ddawn ragorol, yn "peri i chwi ymhoffi ac ymfalchïo yn ormodol yn eich bachgen "bychan, wele y Brenhin mawr, trwy wywo y cicaion, yn eich "dysgu mor ofer yw gosod y meddwl ar ddim daearol. Yn lle "pryderu am achos tragywyddol eich plentyn, byddwch ddiolch-"gar am bob arwydd gobeithiol a welsoch chwi arno yn ei "fywyd, ac am y lle y mae Duw wedi ei roddi i chwi i obeithio

"am iachawdwriaeth y cyfryw rai, fel y crybwylla Mr. "Newcome yn ei lythyr caredig atoch.

"Pa beth oedd yn eich mab trancedig ag y mae cofio ei fod "ynddo yn cysuro fwyaf ar eich meddyliau yn awr ar ol iddo "farw? Ai ei alluoedd meddyliol, ei ddawn i ddysgu, neu ei "chwaeth at rai o'r celfyddydau? Nage, yr ydwyf yn lled sicr; "ond yr ydych yn chwilio gydâg astudrwydd, ac yn disgyn "gydâ hoffder, yn bresennol ar bob arwydd o dduwioldeb a "welsoch chwi ynddo erioed. Wel, cymerwch addysg oddiwrth "hyny eich dau; a byddwch ymdrechgar i faethu yn eich plant "bychain sydd eto yn fyw, y pethau hyny yn benaf ag yr "ydych yn chwilio am danynt gydâ'r pryder mwyaf yn yr un a "fu farw. Peidiwch a meddwl i'r Arglwydd wneuthur hyn heb "fod ganddo un amcan atoch chwi yn y tro; a pheidiwch a "meddwl fod ganddo un amcan arall ond eich 'dysgu i wellhau,' "a'ch gwneyd yn fwy dwfn a disglaer mewn crefydd; eich "dysgu i weddïo yn well, ac i wrando yn well, ac i fyw yn well "—i chwilio eich hunain, a thrwy hyny ddyfod i adnabod "cyfeiliornadau eich ysbryd, ac i droi at Dduw.

"Os dygwyd y bachgen hwn i fôd i fyned mor ebrwydd i "ogoniant y nef, ac fel y byddai ei fywyd a'i angau yn rhan o'i "oruchwyliaeth i gymhwyso ei dad a'i fam i fyned yno ar ei ol, "fe'i ganwyd, yn wir, i ddibenion goruchel a thragywyddol. "Amen, bydded felly.

"Yr ydwyf fi a'm gwraig yn cydymdeimlo â chwi eich dau, ac "yn cofio atoch.

"HENRY REES."

Yr oedd cryn lawer o ysgrifenu a siarad, yn y blynyddoedd 1846 ac 1847, yn nghylch yr angenrheidrwydd am wneuthur ymdrech egnïol er ffurfio cronfa arianol gref tuag at gynnal yr Athrofa yn Ngogledd Cymru; ac fe fu y peth dan ystyriaeth amryw weithiau yn Nghynnadleddau y Gymdeithasfa yn y flwyddyn 1847. Yn Nghymdeithasfa y Bala, y flwyddyn hòno, fe enwyd nifer o frodyr yn Gyfeisteddfod i ymgyfarfod yn Liverpool, ryw bryd yn y mis canlynol, i ffurfio cynllun i'w

gyflwyno i'r Gymdeithasfa ganlynol yn Mangor. Cyfarfu y gwŷr a bennodasid yn *vestry* hen Gapel Rose Place, Mehefin 29, a Gorphenaf 2, pryd y galwyd Mr. Davies, *Mount Gardens*, i'r Gadair, ac y cytunwyd ar y penderfyniadau canlynol i'w dwyn fel cynnygiadau o flaen Cymdeithasfa Bangor :—

I.—"Fod y Cyfarfod hwn,—o dan ddwys ystyriaeth o'r angenrheidrwydd sydd am i bregethwyr ieuainc yn y Cyfundeb gael mesur helaethach o ddysgeidiaeth nag y maent yn gyffredin yn allu gyrhaeddyd, ac am roddi addysg gyffredinol i blant y Cymry, a darparu ysgolfeistriaid cymhwys i gadw ysgolion dyddiol,—yn cynnyg fod i ymdrech egnïol gael ei wneyd trwy Ogledd Cymru i gasglu y swm o ddeng mil-ar-hugain o bunnau at y dibenion hyny.

II.—"Fod y £15,000 cyntaf a gesglir i gael eu neillduo fel trysorfa at achos Athrofa y Gogledd, fel y caffer y llôg blynyddol at gynnal a chymhwyso gwŷr ieuainc, gydà golwg ar waith y weinidogaeth, ac hefyd i barotoi rhifedi digonol o ysgolfeistriaid yn yr Athrofa; a bod y rhan arall o'r casgliad i gael ei ddefnyddio i addysgu a goleuo y wlad, yn ol fel y barno y Cyfeisteddfod a bennodir i hyny gan y Gymdeithasfa Chwarterol.

III.—"Fod y Gymdeithasfa i bennodi nifer o bersonau fel ymddiriedolwyr i weithredu drostynt, a than eu cyfarwyddyd, er diogelu yr arian at y dibenion y cesglir hwynt.

IV.—"Fod y ffordd fwyaf effeithiol i gasglu yn cael ei gadael i ddoethineb y Cyfarfodydd Misol; ond ein bod ar yr un pryd yn barnu mai gwell fyddai cael personau addas i fyned trwy bob Sir i osod yr achos ger bron y Cynnulleidfäoedd, neu un person i ymgymmeryd â'r holl waith, os gellir ei gael.

V.—"Fod yr addunedau i'w talu, hyd y gellir, o fewn corph dwy flynedd; ond os bydd rhyw rai yn dymuno cael estyniad ar yr amser, fod hyny i gael ei ganiatau, ond na byddo yr ystod hwnw yn hwy na phedair blynedd, ac y dysgwylir i ran gyfartal gael ei thalu yn flynyddol."

Dyna y penderfyniadau y daethpwyd iddynt gan y Cyf-

eisteddfod. Ac i ddangos eu bod yn teimlo mewn gwirionedd dros yr achos, fe addaŵwyd ganddynt yn eu plith eu hunain y swm o £870 tuag ato. Penderfynasant y pryd hyny, gynnal Cyfarfod cyhoeddus yn Liverpool i osod yr achos ger bron y cyhoedd, er mwyn, os byddai i hyny droi allan yn llwyddiannus, bod yn gryfach i'w ddwyn o flaen y Gymdeithasfa yn Mangor. Ar nos Fercher, Awst 4, fe gynhaliwyd Cyfarfod yn hen Gapel Bedford Street, pryd y llywyddid fel yn y Cyfeisteddfod, gan Mr. Davies, *Mount Gardens.* Annerchwyd y Cyfarfod gan y Parchedigion John Hughes, Thomas Francis, Gwrecsam, Dr. Edwards o'r Bala, a Mr. Rees, yr holl areithwyr yn nodedig o effeithiol. Darllenai Mr. Edwards lythyr, a dderbyniasai oddiwrth gyfaill yn Nolgelleu, yn addaw tri chant o bunnau at yr achos; ac wrth derfynu, dywedodd ei fod ef, yn y Cyfeisteddfod a gawsent, wedi addaw deg punt-a-deugain tuag ato; ond wedi ail ystyried, yr oedd yn penderfynu dyblu y swm hwnw, a rhoddi can' punt, serch iddo werthu rhai o'i lyfrau, a phrinhau mewn pethau ereill, er mwyn eu rhoddi. Yr oedd cyfarchiad Mr. Rees yn nerthol ac yn ddylanwadol iawn. Datganai, mewn modd nodedig o deimladol, ei ofid na buasai efe wedi cael y manteision dysgeidiaeth yn moreu ei oes, ag sydd yn cael eu cynnyg yn bresennol i bregethwyr ieuainc, manteision ag yr oedd y Cyfarfod hwnw yn cael ei gynnal, er ceisio eu sicrhau iddynt. "Pe cawn," meddai, "fyned yn ddyn ieuanc yn fy ôl, nid oes un aberth na wnawn, na dim rhwystrau nad ymdrechwn eu goresgyn, i fyned i'r Bala, neu i ryw le cyffelyb, i ystorio fy meddwl â gwybodaeth fanwl o'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn eu hieithoedd gwreiddiol, yn gystal ag â pha beth bynnag arall, a allai gymhorth dim arnaf, yn y gwaith mawr sydd genyf fel gweinidog i Iesu Grist. Gwŷn fyd y bechgyn sydd yn cael eu dwyn i gyfarfyddiad cynnar âg ymresymiadau cedyrn Butler, a Paley, a Chalmers, o blaid Cristionogaeth; a'u harwain at oludoedd meddyliau manylaidd Jonathan Edwards, ac at fêr duwinyddiaeth iachus yr hen Goodwin a Dr. Owen, a Howe! Nid yw miloedd o aur ac arian yn ddim i bregethwr,

sydd o ddifrif gydâ'i waith, mewn cymhariaeth i'r fath fanteision." Wedi amrywiol sylwadau yn yr un cyfeiriad, a'r angenrheidrwydd am wneyd cronfa helaeth er gosod yr Athrofa ar dir diogel, aeth rhagddo i ateb amryw wrth-ddadleuon yn erbyn y fath gronfa. "Pa sicrwydd a allwn ni gael, a oes rhyw sicrwydd o gwbl, pe casglem y fath swm ag yr ydych yn gofyn am dano, y defnyddid yr arian i'r amcanion yr ydych chwi yn dadleu drostynt?" "Wel, y mae yn ymddangos i mi, a dywedyd y lleiaf, fod genym lawn cymmaint o sicrwydd gydâ'r anturiaeth hon, ag sydd genym gydâg unrhyw anturiaeth arall. Pa sicrwydd sydd genych am eich Banciau, am eich Ystordai, am eich Llongau, am eich Dockiau? Pwy ŵyr beth fydd pris yr ŷd, y *cotton*, yr haiarn, y glô, yn mhen deu-fis neu dri? Ac wedi i chwi fod ar hyd eich oes yn hèl arian, ac yn casglu cyfoeth mawr a'u gadael ar eich ôl i'ch plant yn y modd sicraf sydd bosibl i chwi, pwy ŵyr? pa sicrwydd sydd genych nad rhyw Wyddel neu Ffrencyn a brioda y ferch, ac a wastraffa mewn byr amser yr holl eiddo, a adawer iddi? A gwaeth na hyny, pwy ŵyr nad gwario ei gyfran ar y diodydd meddwol a wna y mab, ac anmharu ei iechyd, a chymmeryd mantais ar y cyfoeth, i brysuro difetha ei einioes, ïe, i ddinystrio ei enaid byth? Chwi allwch fod yn gwbl hyderus na bydd yr un ddimai a gyfrenir genych at yr achos ydym ni yn gymhell arnoch heno, yn y perygl o gael ei ddilyn byth gan ddim a all dueddu i'r fath ganlyniadau." Pan yn terfynu ei gyfarchiad, dywedai, "Gan fod Mr. Edwards yn dangos y fath deimlad a haelioni yn yr achos hwn, fel ag i ddyblu ei addewid, y mae yn debyg y bydd raid i minnau, a brodyr ereill, feddwl am wneyd yr un peth." Terfynodd ei araeth yn nghanol bloeddiadau o gymmeradwyaeth; ac, yn niwedd y Cyfarfod, fe gafwyd fod yr addewidion at yr achos wedi cyrhaedd i dros ddwy fil o bunnau.

Gan fod yr hìn ar y nos Fercher yn dra anffafriol i'r Cyfarfod, fe farnwyd y byddai yn well cael Cyfarfod drachefn, y nos Wener canlynol, yn mhen arall y dref; ac felly fe ddywedodd y

Cadeirydd y cynhelid Cyfarfod, i'r un perwyl, yn Nhapel Rose Place, y noswaith hòno, gan ddymuno ar i bawb wneuthur hyny mor hysbys ag y gallent. Cafwyd Cyfarfod rhagorol iawn. Yr oedd Mr. Davies yn y Gadair, fel y noswaith flaenorol, ac annerchwyd y Cyfarfod, gan mwyaf, gan yr un brodyr. Cafwyd addewidion o yn agos i dri chant o bunnau, yn niwedd y Cyfarfod, yn chwyddo yr holl addewidion i tua dwy fil a hanner o bunnau.

Yr oedd y brodyr a bennodasid yn Gyfeisteddfod, erbyn hyn yn galonog iawn i wynebu y Gymdeithasfa yn Mangor, yn ol y penderfyniad y daethid iddo yn y Bala. Ac fe ddaeth yr achos yno i sylw, yn y Cyfarfod am ddau ar y gloch, Medi 8, 1847. Mr. Edwards o'r Bala oedd yn Llywyddu yn y Gymdeithasfa hòno. Nid oeddem ni yn dygwydd bod yn bresennol yno, ac ni chlywsom nemawr ddim yn nghylch yr ymdriniaeth a fu yno ar y mater. Y diwedd, pa fodd bynnag, oedd cytuno â'r penderfyniadau, can belled ag i bennodi Mr. Rees a Mr. Edwards i ymweled â'r amrywiol Gyfarfodydd Misol o fewn cylch y Gymdeithasfa, i osod yr achos ger eu bron; a chael ganddynt, yn yr amrywiol Siroedd, yn y dull y gwelid yn oreu ganddynt eu hunain, ymgymmeryd â chasglu tuag ato. Cytunwyd hefyd fod i'r amrywiol Gyfarfodydd Misol anfon gwahoddiad atynt i ymweled â hwynt, ar yr amser a olygid ganddynt y mwyaf manteisiol. Y gwahoddiad cyntaf a gawsant oedd o Sir Fôn, i fyned i'w Cyfarfod Misol hwy, oedd i'w gynnal yn y *Bryndu*, yn mis Tachwedd.

Mewn llythyr at Mr. Edwards, dyddiedig Hydref 25, 1847, yr ydym yn cael Mr. Rees yn ysgrifenu fel y canlyn:—

"Derbyniais lythyr, fel chwithau, o Sir Fôn; a thybygwn "oddiwrth eich llythyr chwi, eich bod yn bwriadu myned yno. "Pa ffordd yr ewch chwi yno? Yr ydwyf fi braidd yn meddwl "mai gwell i chwi ddyfod y ffordd yma; os bydd hi yn dêg, "bydd yn hyfryd a rhâd i ni fyned gydâ'r *packet*. . . . . . .

"Y mae arnaf ofn, rhwng pob peth, fod traethawd erbyn y "rhifyn nesaf o'r *Traethodydd* tu hwnt i bosiblrwydd. Mae y

"gwaith yma yn fawr, ac yr wyf oddicartref beunydd. Yfory "neu drenydd yr wyf i gychwyn i Gyfarfod Misol y Rhyl, ac i "fyned i Ddinbych at y Sabboth. Pa fodd y gallaf fi wneyd "traethodau? Ped ysgrifenwn i heb gymmeryd poen a llafur, "nid ysgrifenwn ddim a fyddai yn werth ei ddarllen i'r oes hon, "chwaithach yr oes nesaf. Yr wyf eto heb ddarllen nemawr o'r "*Traethodydd* diweddaf."

Hwy a aethant, pa fodd bynnag, yn ol y pennodiad a'r gwahoddiad, i Sir Fôn, ac yn ffodus iawn yr ydym yn cael yn y *Traethodydd*, am Ebrill, 1871, tudal. 252—9, mewn adolygiad ar Gofiant Mr. Roberts, Amlwch, lythyr o eiddo gŵr ieuanc, oedd yn ddiweddar wedi dechreu pregethu, at gyfaill iddo, oedd yntau yn bregethwr, ac ar y pryd yn Athrofa y Bala,—yn rhoddi adroddiad helaeth, a chywir nid ydym yn ammeu dim, am y Cyfarfod yn y Bryndu. Yr ydym yn deall mai ysgrifenydd y llythyr ydoedd y Parch. Daniel Rowland, M.A., yn awr o Fangor; ac mai y cyfaill, yr anfonwyd y llythyr iddo, oedd y Parch. David Roberts, yn awr o Walchmai. Y mae yn ddiammeu genym y bydd yn dda gan ein darllenwyr gael y cyfleusdra i ddarllen y llythyr, a dyfod i gyfarfyddiad mor uniongyrchol â'r hen frodyr anwyl sydd yn awr i gyd wedi ein gadael, ac felly ni a'i dodwn yma yn gyflawn ger eu bron:—

"Tach. 23, 1847.

"ANWYL GYFAILL,—Dyma Gyfarfod Misol Bryndu wedi "myned heibio, ac y mae yn awr i'w gyfrif yn mysg y pethau a "fu. Fel hyn y mae pob peth yn ein gadael gydâ'r cyflymdra "mwyaf, gan ein dwyn ninnau yn nês nês, y naill ddydd ar ol y "llall, i gyfarfod â'r amgylchiad pwysig a fydd yn ein symmud "o amser a'i gyfnewidiadau i breswylio byth yn y tragywyddol"deb digyfnewid. Wel, fe ddaeth y Parchedigion Rees ac "Edwards i'r Bryndu, ac yr oedd y cyfeillion yno yn bur gryno. "Mr. Cadwaladr Williams yn y gadair. Yn mysg pethau ereill, "bu sylw ar Ddirwest, gydâ golwg ar wneuthur casgliad at "Gymmanfa Ddirwestol Gwynedd. Ymholent a oedd yn bosibl

"cael rhyw gynllun i ddwyn yr achos daionus hwnw drachefn i "fwy o sylw yn y wlad. Pwniai Mr. Roberts, Amlwch, Mr. "Williams, i ofyn i'r dieithriaid a oeddent hwy yn ddirwestwyr? "'Gofynwch i'r ddau frawd dieithr sydd wedi dyfod i'n mysg "ni, a ydynt hwy yn ddirwestwyr ai peidio. Fyddwn ni ddim "yn *leicio* i ryw bobl ddieithr fel hyn ddyfod i'n mysg ni heb "fod yn ddirwestwyr.' Yna gorfodwyd Rees, yn nghanol y "gwenau mwyaf cyfeillgar, i godi ar ei draed i'w amddiffyn ei "hun. Yr oedd yn ddifyr edrych ar y fath ddynion mor "chwareus a serchog, ac yn peri i mi feddwl am ddywediad "rhyw hen athronydd, 'Nad ydyw dyn gwir fawr byth yn "ymwrthod yn hollol â symledd plentyn.' 'Yr ydwyf i yn "ddirwestwr,' ebe Mr. Rees, 'er's blynyddoedd bellach. Ac y mae "yn dda iawn genyf fy mod, yn enwedig y tywydd oer yma; "canys pe buaswn yn arfer yfed y diodydd cryfion, buaswn yn "fwy tebyg o lawer o gael anwyd. Nid ydwyf fi ddim yn "meddwl fod y Dirwest yma fel aberth Crist, y dylem fod gydâg "o byth, oblegid fe fydd y bobl wedi ymadael yn union â'r "diodydd meddwol yma, ac ni bydd eisiau dyweyd yn ei herbyn. "Ond tra y parhäont, y mae yn ddiddadl y dylem ninnau fod "gledd yn ngledd â meddwdod tra y byddwn byw, os pery o "cyhyd a hyny.' Yna annogai bawb i fod yn ffyddlawn ac "ymdrechgar, gan godi rhesymau annogaethol o ddaioni yr "achos a chymmeradwyaeth Duw. Yna Mr. Edwards a ddy- "wedai am sefyllfa Dirwest yn Sir Feirionydd, mai lled debyg "yw y gŵyn, a dywedai hanes yr ail ymgyfammodiad y soniech "am dano yn eich llythyr diweddaf. Yna David Jones a ddy- "wedai y dylem fod mor ddidramgwydd i'n gilydd ag y byddo "modd; fod rhai yn cwyno fod rhai o flaenoriaid Sir Fôn yn "myned i'r tafarnau mewn ffeiriau a marchnadoedd, a bod rhai "yn myned ar eu hôl, yn eu gwylio ac yn eu cael yn yfed diod- "ydd meddwol. Ni wyddai ef yn y byd pwy oedd ar y bai, ond "dymunai o'i galon, er mwyn gogoniant yr achos, ar iddynt "beidio o hyny allan.

"Wedi myned trwy amryw bethau cyffredin, daethpwyd at

"y *casgliad mawr*, canys felly y siaredid am y *Fund* at yr "Athrofa. Gosodwyd y peth i lawr yn dra phriodol gan Mr "Edwards, yr hwn a ddywedai am yr angenrheidrwydd am "ddysg i'r pregethwyr ieuainc, amgylchiadau ysgol y Bala, a'r "angen mawr oedd am i'r Methodistiaid wneyd rhyw sylw ar "yr achos. Ni ofynai am lawer o frasder i'r bechgyn, ond. "'Rhowch rywbeth iddynt, rhowch datws a llaeth os mynwch "chwi, fe wnaiff y tro yn eitha os bydd rhywbeth ynddyn' nhw. "Ni rown i ddim am ddyn ieuanc os na all weithio ei ffordd "trwy anhawsderau; ond rhowch rywbeth i gynnal y corph a'r "enaid mewn undeb a'u gilydd am ychydig amser,' &c.

"Yna dywedai Mr. Rees dipyn i'r un perwyl. Dangosai fod "yn anmhosibl fod y brodyr yno yn erbyn rhoddi dysgeidiaeth "i bregethwyr ieuainc; 'Canys,' ebe fe, 'yr ydych chwi, rai o "honoch, yn gyru eich plant i Loegr i'r ysgol; yr ydwyf fi yn "clywed pethau gwahanol iawn yrwan i'r peth a glywn pan yn "dechreu dyfod i'r wlad yma. Holir fi yn awr am ysgolion da, "ac am ferched ieuainc o Saeson i dd'od i ddysgu plant; mae "yma lawer o honoch chwi yn cadw *governesses* felly i ddysgu "eich plant, a'u gwneyd yn ysgolheigion. Yn awr, ai tybed y "bydd yr hen fam Fethodistaidd ar ôl i bob mam am roddi "tipyn o amaethiad i feddyliau ei phlant? A edy hi i'r oes "fyned filldiroedd o flaen ei meibion heb wneyd yr un ymdrech "o'u plaid?' Yr oedd yn coelio am dani bethau gwell. Yna elai "yn mlaen i ddyweyd ei brofiad ei hun gydà golwg ar fanteision "dysgeidiaeth; cwynai yn fawr na fuasai yn ddysgedig, ac "ychwanegai,—'Yr ydych chwi yn meddwl, fe allai, rai o "honoch, fy nghyfeillion, mai rhywbeth newydd a gyfododd "yrwan yw hyn; mae yn wir mai yn fy nghyfaill Mr. Edwards "y gwreiddiodd y cynhyrfiad presennol gyntaf, trwy y peth a "*brintiodd* yn y *Drysorfa*, ac fe ddarfu iddynt fy nodi i yn "Mangor i ddyfod gydâg ef, ac ni wn i yn y byd beth barodd "iddynt wneyd hyny. Nid oeddwn i ddim gartref pan alwyd am "Mr. Edwards acw; ni wyddwn i ddim ei fod wedi cael ei alw: "ond yr oeddwn gartref pan ddaeth, ac mi a wnes fy ngoreu

"o blaid y symmudiad; ac fe addawyd tipyn yn Liverpool "acw; ond os erthyla yr achos yn Nghymru, a Sir Fôn, am a "wn i nad erthylu a wnaiff o acw hefyd. Ond peidiwch chwi a "meddwl mai yrwan y dechreuodd yr awydd am amaethu "meddyliau y pregethwyr ieuainc. Bûm yn ymddyddan âg un "a fu yn cyd-fyw â'r diweddar Mr. Charles o'r Bala, a dywedai "fod y peth yn pwyso yn dra dwys ar ei feddwl ef, yn enwedig "ar ol i ordeinio ddyfod i'r Corph; galarai yn fawr na ellid cael "rhyw gynllun i ddwyn y pregethwyr yn feddiannol ar fwy o "wybodaeth. A phwy oedd yn fwy zelog am hyn na'r diweddar "ac anwyl Feistr Elias? Yr ydwyf fi yn gwybod am dano fo "fy hun. Yr ydwyf yn cofio mor ffyddlawn ydoedd am yru Mr. "Owen Williams, o Lanrwst i Lundain i'w gymhwyso i fod yn "Athraw Athrofa yn ein plith. Yr ydwyf yn cofio clywed am "dano ryw bryd yn myned trwy Amwythig i Lundain, pan oedd "Mr. O. Williams yno; ac wrth sôn mewn rhyw deulu am ei "athrylith a'i ddysg, dywedai yr ewyllysiai ef iddo aros yn "Llundain, nes llyncu pob diferyn o wybodaeth oedd ynddi. Fe "ddywedwyd hyn mewn rhyw deulu ag yr oedd un ran o hono "yn bleidiol i Fethodistiaeth, a'r rhan arall yn ei herbyn, ac yn "dra diystyrllyd o honynt; a dywedai un o honynt, 'There is a "Welshman's ambition, wanting him to stay in London till he "swallows every drop of knowledge that is there.' Ac wrth "siarad am hyn efo rhywrai wedi hyny yn y Bala, pan oedd y "rhai hyny yn dywedyd mai arwydd o anfoddlonrwydd Duw "i amcan y Corph oedd ei farwolaeth, dywedai yntau, 'O na, "ond ein profi ni y mae Duw, i edrych beth a ddaliwn ni; ein "dyledswydd ni yw chwilio am un arall can gynted ag y "gallom.' Hefyd, y mae pawb yn addef bellach yr angenrheid-"rwydd am ddysg tuag at bregethu yr efengyl. Yr oedd "Indiad du yn pregethu rai o'r nosweithiau olaf yma yn Rose "Place acw; yr oedd ganddo eglwys dan ei ofal yn Philadelphia, "ac yr oedd wedi d'od i bregethu i Loegr, ac i gasglu tipyn tuag "at yr addoldŷ y perthynai iddo. Yr oedd wedi anfon saith "gant o bunnau yno o'i flaen. Oblegid y gaeth-fasnach

"Americanaidd, a'i fod yntau wedi bod yn *slave*, yr oedd yn "hynod o boblogaidd. Yr oedd wedi bod yn pregethu yn "Nghapelau Hamilton yn Llundain, Jay yn Bath, James yn "Birmingham, &c., ac wrth weled fod ganddo fo gystal *recom-"mendation*, fe ddarfu i ninnau ganiatau iddo gael pregethu "acw. Ac yn wir pregeth hynod o gryno a chynnwysfawr "oedd ganddo; ac yn niwedd y bregeth fe roes i ni dipyn o'i "hanes ei hun, hanes ei grefydd, &c. 'Dywedai fod rhyw ŵr "yn America yn cadw caethion, ac ryw fodd fe gafodd ei ferch "ei hargyhoeddi trwy glywed un o'r Cenhadon yn pregethu; ac "yn fuan iawn fe brofodd ei henaid ddyddanwch yr efengyl; ac "ar ol profi cariad Crist ei hun, y peth cyntaf ar ei meddwl "oedd treio ystyried beth a allasai wneyd i ddysgu ereill. Hi "feddyliodd am ddarllen rhan o'r Beibl bob dydd i hen *nurse* "Indiaidd oedd yn ngwasanaeth ei thad, a'r hon oedd wedi ei "magu hi. Cyn hir fe argraffodd Ysbryd Duw ei bethau ar "feddwl yr hen *nurse*, ac wedi hyny yr oedd hithau yn awyddus "am wneyd rhywbeth. Ac yr oedd mab ganddi yn ŵr ifanc, "yn gaethwas ar y blanhigfa, a hwnw a ddaeth yn gyntaf ar ei "meddwl hi, ac ymdrechai â'i holl egni i'w ddysgu a'i oleuo; ond "pa fodd bynnag, bu farw yr hen wreigan cyn canfod dim byd "hynod ar feddwl y bachgen. Ond yn mhen blynyddoedd, "digwyddodd i'r bachgen hwnw fod yn pasio y Tŷ Cenhadol, a "throes i mewn; ac wrth iddo fyned i mewn, fe ddigwyddodd "glywed yr un geiriau ag a arferai ei fam ddywedyd wrtho; ac "fe roddes hyny adgyfodiad i lïaws o ystyriaethau ereill yn ei "feddwl oeddent wedi eu claddu er ys blynyddoedd. Fe weith-"iwyd argraffiadau annileadwy ar ei feddwl; daeth i wrando y "Cenhadon, i ddarllen y Beibl, i weddïo, ac i fyw yn dduwiol. "Un diwrnod yr oedd Cenhadwr yn pasio heibio i'w *hut*, ac "arosai i wrando, a chlywai ryw gaethwas yn cadw dyledswydd, "yn darllen ac yn gweddïo gydâ'r fath wres a grym nes peri "iddo synu; aeth at y meistr, a llwyddodd i'w gael yn rhydd, "a chymmerodd ef drosodd i Philadelphia i'w dŷ ei hun, a "dysgodd ef; agorodd ei ddeall, rhoddodd ddysgeidiaeth iddo,

"gwnaeth bob gwelliant ar a allai arno, a llawenychai yn fawr "wrth weled ei dalent. Yn fuan cafodd ddechreu pregethu "tipyn efo'r bobl dduon, ac yn achlysurol gydâ'r bobl wynion; "yr oedd mwy yn dyfod i wrando arno y naill dro ar ol y llall; "ac y mae ganddo yn awr eglwys lïosog o Indiaid dan ei ofal er "ys blynyddoedd, ac y mae ei lafur yn cael ei fendithio, ac y "mae ganddo feibion yn cael eu parotoi i'r weinidogaeth, ac yn "derbyn dysgeidiaeth; canys y mae eisiau dysgeidiaeth yn awr, "oblegid y mae gwybodaeth yn dyfod yn mlaen yn mysg y "bobl dduon, wrth eu bod hwy yn cyfeillachu â'r bobl wynion; "ac y mae un o'r meibion yma yn ceisio pregethu rhyw lun, *ac* "*efe yw y truan sydd yn ceisio eich cyfarch heno.*' 'Ar ol iddo "dd'od i lawr,' ebe Mr. Rees, 'gofynais iddo, beth yr oeddynt "yn ei ddysgu yn yr Athrofa?' 'Dysgu siarad, darllen, ac "ysgrifenu yr iaith Saesonaeg,' ebe yntau, 'a dysgu *Grammar*, "a dysgu *Philosophy*, a *Mental Philosophy*, gael i ni adnabod "meddwl y creadur ydym ni yn fwriadu ddysgu, a dysgu "Duwinyddiaeth,' &c. 'Yn awr, gyfeillion, chwi a welwch fod "caethion America yn debyg o fyned o'n blaen mewn gwybod-"aeth; ac oni ddylai peth fel yna ein 'sparduno yn mlaen i "wneyd rhywbeth mwy nag a wnaethom i feithrin athrylith "gwŷr ieuainc y Cyfundeb?'

"Yna Mr. Roberts, Amlwch, a ofynai 'am eglurhâd ar y dysgu "pregethu yma; â hyny yr ydym ni yn methu cymmodi yn "dda. Ydych chwi yn eu dysgu i bregethu, dywedwch?' 'Nac "ydym ni,' ebe Mr. Edwards; 'yr ydym ni yn dysgwyl i chwi "eu dysgu i bregethu yn gyntaf, a ninnau a'u dysgwn hwy "mewn pethau ereill.' 'A fydda 'nhw ddim yn traethu ambell "i *lecture* go dda weithiau?' ebe Mr. David Elias. 'Bydd "ganddynt *lectures* weithiau,' ebe Mr. Edwards, 'er mwyn iddynt "fedru darllen, deall, ac ysgrifenu Saesonaeg, nid i'w dysgu i "bregethu; a beth allech chwi gael iddyn' nhw yn well i'w "ddysgu na Saesonaeg?' Yna codai Mr. D. Elias ar ei draed i "siarad am yr angen am ddysgeidiaeth gyffredinol i'r plant "mewn ysgolion dyddiol, ac i wrthwynebu y cronfäau a'r

"athrofeydd a'r cwbl. Yn niwedd ei araeth, gofynai, 'A wnaeth "dim fwy o niwed i achos crefydd yn Europe, o ddyddiau yr "Apostolion hyd yr oes hon, nag athrofeydd i ddysgu pregethu, "a chyflogau mawrion i'r rhai a ddysgir ynddynt am bregethu?'

"Yna Mr. Rees yn arafaidd a ddywedai, fod yn gofyn llawer "iawn o ddysgeidiaeth i allu ateb gofyniad David Elias, i allu "ateb am holl Europe, o ddyddiau yr Apostolion hyd y dydd "hwn. Ac nid oes dim yn y byd, ond grâs Duw, na all meibion "Adda wneyd camddefnydd o hono, boed mor ddaionus ag y b'o "Ac nid ydyw tybiaeth ddisail yn ddigon o rwystr i ni i fyned "yn mlaen efo amcanion daionus, &c. Dywedai Mr. D. Elias "wrthynt am gymmeryd yr oes yma, ynte, os mynent, a cheisiai "brofi oddiwrth Golegau y Pabyddion a'r Eglwysi Sefydledig "trwy Europe a'r byd, nad oedd athrofäau i ddysgu pregethu "yn nghydâ chyflogau mawrion am bregethu, ddim ond cymhell-"iad i ddynion dirâs a phechadurus i ruthro at y gwaith o "bregethu, heb ddim cymhelliad o eiddo Yspryd yr Arglwydd; "a beth ond hyny, yn fwy na phob peth, oedd wedi achosi i'r "Arglwydd mawr ymadael â'r eglwysi? Yna soniai am y "gweithredoedd nerthol a wnaed gan Dduw er dychryn i an-"nuwioldeb, trwy rai oddiwrth y gwŷdd, y nodwydd, a'r wenol, "seiri meini, a seiri coed, a thlodion heb gael dim athrofa. "'Mewn gwirionedd,' ebai Mr. Edwards, 'ni wnaeth Duw ond "ychydig weithredoedd nerthol yn ei eglwys er dyddiau yr "Apostolion hyd yma, heb fod mewn cysylltiad â dysgeidiaeth "ac athrofeydd. Ar ol dyddiau yr Apostolion, can gynted ag y "collwyd y dynion ysbrydoledig o'r eglwysi, canfyddwyd yr "angen am athrofeydd. Pe meddyliech am y Diwygiad "Protestanaidd trwy Luther, yr oedd Luther yn ddysgedig "iawn; a chan gynted ag y cafwyd y Diwygiad ar hwyl, "dechreuodd sefydlu athrofeydd er mwyn ymgeleddu dynion "ieuainc gobeithiol, gan benderfynu y byddai yr achos yn sier o "ymollwng yn eu dwylaw os na fyddent yn gallu cyfarfod y "byd ar ei dir ei hun. Felly y gwnaeth Calvin a Melancthon. "A phe meddyliech am y Diwygiad Methodistaidd, fe anwyd

"hwnw o fewn muriau Athrofa Rhydychain, ac fe'i dygwyd yn "mlaen trwy offerynoldeb dynion dysgedig iawn.' Yna dangosai "Mr. Rees yr angenrheidrwydd am ddysg i amddiffyn Cristion-"ogaeth yn aml, ar adegau isel ar grefydd, yn ngwyneb ymosod-"iadau anffyddwyr, a gelynion y Beibl. 'Yr oedd Lloegr, "ychydig amser yn ol, yn cael ei hanrheithio gan y gelynion hyn, "nes y gwelodd y Brenin mawr yn dda godi dynion fel Paley, "a Butler, a Chalmers, ac fe lanwodd y dynion hyny â'i Ysbryd, "ac yr oeddent hwythau yn ddysgedig iawn. Cyfarfyddasant "âg anffyddiaeth ar ei thir ei hunan, a gorchfygasant hi ar bob "gafael; ac yn awr y mae dadl anffyddiaeth wedi colli yn hollol "o *walks* dysgeidiaeth, ac nid oes ganddynt ond stwffio eu "hegwyddorion dinystriol i'r werin. A beth pe deuai rhywbeth "felly ar Gymru? Pwy a allai gyfarfod cyfeiliornwyr ar eu tir "eu hunain ond dynion dysgedig? Gan hyny, ein dyledswydd "ni, yn ddiammeu, ydyw amaethu tipyn ar feddyliau ein dynion "ieuainc a fwriadwn i'r weinidogaeth. Ni chefais i ddim dysg "fy hun, ac fe fuasai yn well genyf na dim y gallaf feddwl am "dano, pe buaswn yn ddysgedig. Nid rhaid i chwi ddim ofni "iddyn' nhw fyned yn feilchion; oblegid yr ydwyf fi yn siwr "nad oes dim yn tueddu yn fwy tuag at fy ngwneyd i yn "ostyngedig na chymdeithasu â meddyliau y dynion mawr "yna, sydd yn dyweyd pethau na fuasai fy nghalon i byth yn "dychymygu am danynt. Ac wedi fy argyhoeddi o wirionedd "y pethau a nodwyd, yr ydwyf i yn penderfynu, cyhyd ag y "gwelo y Brenin mawr yn dda fy ngadael ar y ddaear, gwneyd "fy ngoreu o blaid dynion ieuainc gobeithiol, er eu gwneyd yn "llawer gwell gydâ gwaith yr Arglwydd na fi fy hun.' Yr oedd "pawb yn hynod siriol tra y llefarai. Ar ol iddo dewi, Captain "Lloyd a godai ar ei draed; yr oedd yn eistedd y tu cefn i mi; "a chan godi ei spectol ar ei dalcen, a dal llyfr yn ei law, "dywedai yn ei ddull *forward* rhag blaen,—'Yr oeddwn i yn "meddwl, syr, wrth eich clywed yn dyweyd am Dr. Chalmers; "yr oedd o yn pregethu ar y gair hwnw, 'Yr ydych yn gweled "eich galwedigaeth, frodyr, nad llawer o rai doethion yn ôl y

"cnawd, nad llawer o rai galluog, nad llawer o rai boneddigion a "alwyd,' &c. Yn rhyw le ar ei bregeth gofynai, I beth mae "dysgeidiaeth yn dda? A ydyw yn anhebgorol angenrheidiol "er iachawdwriaeth? Nac ydyw. Ond y mae gelynion i "achos Duw yn codi yn mhob oes, ac y mae dysgeidiaeth yn "fuddiol iawn i roddi tâw ar y rhai hyny.' Yna Mr. D. Elias a "ofynai,—'Wel, a gadael fod yr holl bethau hyn yn wir, ac mor "ardderchog ag y dywedwch eu bod, pa beth a wnewch chwi o'r "dynion ieuainc yma ar ol iddynt fod am bedair neu bum' "mlynedd yn yr athrofa? Fyddan' nhw ddim yn foddlon i "fyned at alwedigaeth yn y byd er mwyn ennill eu bywiol-"iaeth wed'yn.' Edwards a atebai, 'y brofedigaeth fwyaf, "gyfeillion, i ddynion ieuainc, os bydd rhywbeth ynddyn' nhw, "ydyw cael ysgol—sut y ca'i i ysgol? Yr ydwyf fi yn gwybod "yn dda iawn am hyn trwy brofiad. Fu dim ond un brofedig-"aeth i mi erioed i adael y Methodistiaid. Fe fu un arnaf fi. "Fuo fo ddim profedigaeth i mi wrthod pum' cant o bunnau yn "y flwyddyn, er mwyn aros efo'r Methodistiaid; ond fe fu "gwrthod myned i Cambridge i gael fy nysgu yn rhad, pan nad "oedd genyf yr un olwg am gael dysgeidiaeth trwy un ffordd "arall heb fyned trwy fil o anhawsderau, fe fu hyny yn brofedig-"aeth i mi. Yr ydwyf fi yn siwr na chollais i erioed ddim "haner awr o fy amser i ystyried pa fodd y byddwn byw ar ol "d'od o'r ysgol, ond fe fu cael myned yno, pa sut y cawn, yn "destyn fy myfyrdod ddyddiau a nosweithiau lawer.' Rhyw "un a ddywedai, 'Nid ydym ni ddim llawer ar ol hefo hyny "ychwaith.' Wedi hyny ymdrechent droi pen ar yr ymdrin-"iaeth, a ffurfio rhyw benderfyniad; ac ymwthiai Mr. D. Elias "yn mlaen eilwaith, a gofynai, 'A oedd dim modd gadael hyn "hyd Gyfarfod Misol y Cemmaes, fel y gallai pawb gael "hamdden i ffurfio barn ar y mater?' 'Mae'n debyg gen' i,' "ebe y Cadeirydd, 'fod pawb wedi cael eithaf chwareu teg "bellach i feddwl ac i ffurfio barn, gan eu bod wedi cael cym-"maint o amser i feddwl.' 'Beth dybygech chwi,' ebe Mr. "Ebenezer Davies, 'pe baem ni yn ei adael o hyd boreu 'fory?'

"'Aiff y seiat i gyd felly, ac fe fydd yr eglwysi yn cael eu siomi "wrth fethu cael dim cenadwri oddiyma,' ebe Mr. D. Elias. 'Pa "*harm*,' meddai E. Davies, 'ped âi y seiat i gyd am dro, efo "mater mor bwysig?' Yna rhoddwyd y peth o'r gadair i sylw; "a chodwyd llaw dros ohirio y mater hyd boreu drannoeth, a "thaer annogwyd pawb gan Mr. Roberts, Amlwch, i gymmeryd "y peth dan eu hystyriaeth, a meddwl mai symmudiad pwysig "yn nheyrnas Crist ydoedd, a gweddïo am arweiniad Ysbryd yr "Arglwydd. Darllenwyd y *list*, ac aed ymaith.

"Hanner awr wedi pump, dechreuodd D. Elias, a pregethodd "Edwards a Rees:—Edwards oddiar, 'Efe a gloddiodd, ac a aeth "yn ddwfn.' 'Mae crefydd llawer iawn,' ebe fe, 'yn fwy o "lawer mewn hŷd a llêd, nac mewn dyfnder. Yn I. Yr oedd "eisiau myned yn ddwfn mewn gwybodaeth o bethau yr "efengyl. Arganmolai ddwy ffordd i wneyd hyny. 1. Darllen "llawer ar y Beibl a llyfrau da ereill a roddont oleuni arno. "'Glŷn wrth ddarllen—fel y byddo dy gynnydd yn eglur i "bawb.' Soniai fel y byddai yr hen bobl oeddent yn cael tipyn "efo chrefydd yn darllen, yn darllen llawer iawn, yn enwedig o "weithiau Bunyan, Gurnal, &c. 2. Myfyrio llawer ar yr hyn a "ddarllenid. 'Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn "aros.' Efo hyn yr ydym ni ar ol yn fawr. Gwell o lawer "ganddo ef y dyn a ddarllenai adnod ac a fyfyriai arni, na'r dyn "a ddarllenai ddeng mil heb hyny. Fe fyddai yr hen bobl yn "darllen, ac yn darllen, ac yn myfyrio ar y pethau a ddarllenent, "nes y byddai meddyliau yr hen awduron wedi dyfod yn rhan o "gyfansoddiad eu meddyliau hwythau. II. Mewn teimlad o "bethau yr efengyl. Nid y goleu heb y gwrês, ac nid y gwrês "heb y goleu, ond y ddau yn nghŷd. 1. Myned yn ddwfn "mewn teimlad o argyhoeddiad o bechod. 2. Myned yn ddwfn "mewn gweddïo yn y dirgel. 3. Myned yn ddwfn mewn "gostyngeiddrwydd. Da ragorol. Mr. Rees: 'Mi a groeshoel-"iwyd gydâ Christ: eithr byw ydwyf,' &c. Yr oedd ei bregeth "yn ardderchog.

"Boreu drannoeth, dychwelwyd at bwnc y Gronfa. Er mwyn

"mantais i'r Cyfarfod, ceisient osod gofyniad i gael ei ateb gan "bawb,—A wnawn ni rywbeth? Mr. D. Elias a godai ar ei "draed ar amrantiad, gan ateb, 'Onid ydym ni yn gwneyd, beth "sydd yn eisiau i ni wneyd ychwaneg? Ac os ydych chwi am "wneyd rhywbeth, paham, os ydyw yn achos da, fel yr haerwch "ei fod, na ellid ei gynnal yn ewyllysgar trwy roddion "blynyddol, fel achosion da ereill, megis y Beibl a'r Cenhadon?' "'Ië, ïe,' ebe yr esgob o Amlwch, 'gwrandewch chwi; peidiwch "chwi a dyrysu: yr ydych chwi wedi codi trwy'ch hun, "heddyw, feddyliwn i. Cymmerwch bwyll.' Yna annogai "bawb i gymmeryd eithaf pwyll i ystyried beth oeddent yn ei "wneyd; os ymgymmerent â gwneyd rhywbeth, mai ychwanegu "baich arnynt eu hunain y byddent; ac os na wnaent ddim y "byddai peth felly yn dristwch mawr i'n hanwyl ddau frawd "dieithr, a byddwn ar ol pobl ereill fe ddichon? A Williams a "ddywedai i'r un perwyl, gan bwyso tipyn ar friwo teimladau y "brodyr dieithr. Yna codai Mr. Rees, a dywedai, 'O, na, nid "ein teimladau ni ydyw eich rheol chwi i weithredu, ond eich "cydwybod eich hunain. Ni fyddai yn ddim rheswm i chwi "orfod dweyd, 'Fe wnaethom ni rywbeth yn ein byr-bwylldra, "rhag brifo teimladau rhyw ddau ddyn dieithr oedd wedi dyfod "atom ni ar eu tro. O na, gyfeillion, gwnewch yn ol eich barn "eich hun; nid oes dim eisiau *consultio* ein teimladau ni mewn "un modd; ac os ydych chwi yn dewis yn well, aroswch nes yr "awn ni oddiyma, os ydych chwi yn meddwl y medrwch chwi "wneyd gwell chwareu têg â'ch cydwybodau.' Sicrhaent iddo "nad oedd dim o hyny mewn un modd. Yna elai yn mlaen i "ddangos nad oedd o ddim iddo fo mewn un modd, ond iddynt "hwy eu hunain, ac i'r Corph. Yr oedd ef eisoes dros hanner "cànt oed, ac nid oedd yn dysgwyl dim buddioldeb personol "oddiwrth y symmudiad, ond y boddlonrwydd o geisio gwneyd ei "oreu i ddarparu ar gyfer yr oes a ddêl. Cyfeiriai at gynhaliad "y weinidogaeth, a fuasai dan sylw y dydd o'r blaen, a mawr "lawenychai fod Sir Fôn yn ymgymmeryd mor effro efo'r achos "hwnw. 'Yr oedd y Cadeirydd yma yn dweyd na wnaed dim

"yn y cyfarfod yn Llangwyllog. Do, fe wnaed llawer iawn "yno: peth mawr oedd eistedd uwch ben peth fel yna, i "ddechreu meddwl am dano.' Gobeithiai y deuai hyny i ddiben "daionus, ac y byddai Sir Fôn yn derbyn llawer o les trwyddo. "'Yr ydych chwi yn cwyno fod y teithio yn brin, ac yn "gwanhâu. Pa fodd y gellwch ddysgwyl yn amgen, tra y "gadewch y pregethwyr dros eu penau a'u clustiau yn "nhrafferthion y byd hwn? Dyfod a hwy i'r Bala i gael eu "hordeinio, hwythau, wedi myned adref, fel pe byddent wedi "cael eu hordeinio i ffarmio, neu i gadw *shop*, neu i ddilyn rhyw "alwedigaeth, ac ni welir mo'nynt byth mwy. Nid oes arnaf fi "ddim eisiau i chwi eu cynnal yn hollol, oblegid y mae y corph "a'r meddwl yn gofyn tipyn o *recreation* weithiau mewn "pethau ereill. Ond os gellwch wneyd rhywbeth, gwnewch, "rhag iddynt suddo yn nghanol trafferthion y byd hwn, fel y "gallont astudio pan gartref, a theithio tipyn a phregethu "oddicartref. Fe gaiff y ddau fater yna fod yn wrthddrychau "fy ymdrech o'u plaid tra fyddaf ar y ddaear, sef ymgeleddu "dynion ieuainc gobeithiol i'r weinidogaeth, yn nghŷd â'u "cynnal yn anrhydeddus yn y weinidogaeth.'

"Ymdrechid eilwaith d'od i benderfyniad, a wneid rhywbeth, "ac y caent benderfynu ar y dull eilwaith. Pan barablai "Williams y gair 'rhywbeth,' ychwanegai Elias y geiriau, '*yn* "*ychwaneg;* oblegid yr ydym ni yn gwneyd bob blwyddyn.' "Dywedai Williams y dylem beidio llaesu dwylaw efo phob "gwaith da, ond gwneyd ein goreu.' 'Ië,' ebe Elias, 'nid ydyw "yn iawn, wyddoch chwi, i gondemnio Sir Fôn am ddiffrwyth- "dra, oblegid y mae yn gwneyd yn ol ei gallu; yr ydwyf fi yn "meddwl yn siŵr y gallaf brofi y cesglir yn ein plith ni yn y "wlad, rhwng pob peth, dair mil o bunnau bob blwyddyn.' 'Ië, "ïe,' ebe Mr. Roberts, 'yr ydych chwi yn camgymmeryd y "marc; yr ydych chwi yn saethu i'r Eifl, a'r tŵr ar y Penmaen- "mawr.' Gosodwyd y gofyniad i lawr eilwaith o'r gadair, 'A "wneid rhywbeth yn ychwanegol tuag at gynnal yr Athrofa, a "rhoddi dysg i'n gwŷr ieuainc?' Pawb oedd dros hyny i godi

"ei law. Felly fu; rhai eu *dwy* law. Cododd pawb ond D "Elias, a R. Hughes, Bethel, ac fe allai ychydig yn ychwaneg. "Yna ymholid, Pa fodd? Dywedai Roberts y bu ef yn meddwl "ysgrifenu cylch-lythyrau at fil neu fwy yn y wlad o gyfeillion "yr achos; y buasai hyny yn gynllun da; ond ni wyddai efe "beth a ellid wneyd. Yna ceisient gan ryw un arall ddweyd ei "feddwl. Gofynai Williams a ddeuai Rees ac Edwards i'r wlad, "fel gweision yr achos, tuag Ebrill, i osod y peth o flaen y "cynnulleidfäoedd? Yna gofynai Mr. D. Elias, 'Beth ydych "chwi yn fwriadu wneyd â'r dynion ieuainc ar ol dyfod o'r "ysgol?' Atebai Mr. Roger Evans, 'fod yn ddigon buan i "ystyried hyny; gwyddys fod eisieu llawer iawn o ysgol-"feistriaid yn y wlad.' 'Ië,' ebe D. E., 'ond gallech gael y rhai "hyny o ysgolion yn y wlad yma.' 'I beth y ceisiwn ni hwy "o'r ysgolion sydd yma, tra y mae genym Athrofa yn perthyn "i'n cyfundeb ein hunain, ac nas gellir byth cael lle mwy "manteisiol?' ebe Mr. Evans. 'Ië,' ebe D. E., gan fyned yn "mlaen i ddangos y drwg effeithiau a allai ganlyn y fath sym-"mudiad, &c., pryd yr atebai y Cadeirydd nad oeddem ni i fod "fel plant, âg ofn myned allan yn y nos rhag cyfarfod bwgan: "nid ydyw tybiau disail yn ddigon i'n rhwystro ni i weithredu. "'Wel,' ebe Mr. Roberts, 'pe baem ni, er cyfeillgarwch a chariad "brawdol yn plygu i'r brawd David Elias,'—ar hyn rhwystrwyd "ef gan Mr. Elias, gan ddywedyd, 'Nid oes arnaf fi ddim eisieu i "chwi blygu i mi.' Yna gofynent a fyddai yn foddlon i "gyflwyno rhôdd flynyddol at yr achos; atebai ei fod yn fwy "boddlon ddeng waith i hyny, nag i wneyd cronfa. Rhoddwyd "hyn i sylw y cyfarfod, a chodai pawb ei law. Yna cynnygiai "Mr. Roberts ar iddynt roddi càn punt bob blwyddyn am bum' "mlynedd. Cefnogwyd y cynnygiad yn wresog iawn gan "Prytherch, yr hwn a ddywedai fod yn dra thebyg y byddai "llawer o honynt hwy yn y bedd cyn hyny, ac y gobeithiai y "câi y rhai a fyddant byw yr hyfrydwch o weled llawer o lês "wedi deillio oddiwrthynt; ac os byddent yn gweled yn angen-"rheidiol y caent ychwanegu atynt. Yr oedd llygad yr hen

"greadur yn llawn dagrau. D. Jones, Dwyran, a gefnogai y "peth yn siriol iawn. Yna Mr. Edwards a ddywedai y gwyddai "y gallent gael mwy na chàn punt o Sir Fôn oddiwrth ewyllys- "wyr da yr achos, ond fod yn llawer gwell ganddynt os ceid "hyny o ewyllys da y Cyfarfod Misol. 'Mae yn rhaid eu cael,' "meddai, 'a chan nad ydyw Sir Fôn yn ol i'r un wlad mewn "casgliadau, mae yn ddiammeu genyf na fyddant felly efo hyn.' "'Ië,' meddai Mr. Roberts, 'dywedwch eich meddwl gyfeillion "ar hyn, onide chwi fyddwch yn dweyd fod dau neu dri yn "clebran efo'u gilydd yn y Sêt Fawr yn Nghyfarfod Misol "Bryndu, gan dynu baich afreidiol ar ysgwyddau y wlad.' Wedi "peth siarad pellach, cododd pawb ei law, ond D. Elias, a rhyw "un neu ddau ereill; cododd J. Prytherch a D. Jones, Dwyran, "eu dwy law. Ymddangosai rhan o'r gofyniad yn anorphenol, "a gofynwyd pa un ai £100 rhwng y £35 a roddid yn "flynyddol, ai £100 hebaw hyny, fel y gellid anfon pump os "dewisid o'r wlad yno bob blwyddyn. Atebai D. Jones mai càn "punt heblaw hyny a farnai ef; yr ydym ni wedi cynnal yr "Athrofa yn eithaf crintachlyd, yn ol fy meddwl i, o'i sefydliad "cyntaf.' Cefnogwyd ef gan H. Roberts, Nant, ac E. Davies, "Llanerchymedd, a chododd pawb eu llaw. Gofynai Williams i "Edwards a fyddai hyny yn ddigon i gynnal pump yno bob "blwyddyn, os byddai y wlad yn dewis? Atebai ei fod yn "ormod o lawer. 'O na,' ebe Williams, ni a fynwn eu cynnal "yn anrhydeddus; fe gânt damaid o fara a llymaid o ddŵr, "heblaw 'tatws;' byddai meibion y prophwydi er ys talm, yn "cael eu porthi ar fara a dwfr.' Penderfynent eu talu bob "hanner blwyddyn, £50 bob calanmai, a £50 bob calangauaf. "'Ac yr ydych chwithau,' ebe Williams wrth Edwards, 'i ofalu "am lety iddynt, a bwyd a diod iachus, a llywodraeth dda, a'u "porthi â gwybodaeth ac â deall.' Yr oedd y ddau [Rees "ac Edwards] yn siriol iawn, ac yn teimlo yn ddiolchgar dros "ben.

"Ni allaf ymattal heb ysgrifenu un nodiad o eiddo Prytherch, "pan ymholid a oedd eisieu dysg ai peidio, pa un ai lles ai

"drygioni a ellid ddysgwyl trwyddo,—neidiai ar ei draed, a "chipiai y Beibl, a chodai ef i fynu, a dywedai, 'Dyma beth a "gaed i mi trwy ddysgeidiaeth! Fuaswn i na chwithau yn "gwybod dim am dano, oni buasai fod rhyw ddynion dysgedig "iawn, oeddent yn deall yr Hebraeg a'r Groeg, welwch chwi, wedi "cymmeryd trafferth i'w gyfieithu. Hefyd, fy mrodyr, yr ydwyf "fi yn cofio tro arall, y bu yn dda iawn i ni fel Corph wrth "ddysgeidiaeth Mr. Charles, o'r Bala. Yr oedd rhyw ddynion "maleis-ddrwg wedi ysgrifenu llyfr a elwid y *Looking-Glass*, yr "hwn oedd yn ein diraddio yn rhyfeddol, welwch chwi, fel "Corph; ac yr oeddem ni efo'n gilydd yn Sassiwn y Bala ryw "dro, welwch chwi, yn ceisio ystyried beth a ellid wneyd: a "dyma ni yn gofyn i Mr. Charles, 'Wnewch chwi, Mr. Charles "bach, gymmeryd yr achos mewn llaw, ac ysgrifenu llyfr yn ei "erbyn?' 'Ni wn i ddim yn wir,' ebe yntau, gan godi ei "ysgwyddau, 'os gwnaiff Mr. Jones fy helpu i,'—am Mr. Jones, "Dinbych,—ac yr oedd Jones hefyd yn ddysgedig iawn; ac felly "ysgrifenwyd y llyfr, a chosbwyd y cyhuddwyr, a daeth ein "cymmeriad ninnau i'r làn trwy eu hymdrechiadau hwy; ac y "mae y llyfr yn awr yn meddiant y gŵr mwyaf yn yr Ynys "yma, ac yn cael ei barchu yn fawr ganddo.'"

Mae yn ddrwg genym na chawsom ddim manylion yn nghylch ymweliadau y ddau frawd â Chyfarfodydd Misol y Siroedd ereill. Yr oeddem, pa fodd bynnag, yn bresennol yn y Gymdeithasfa Chwarterol ganlynol i un Bangor, yr hon a gynhelid yn Llanfaircaereinion, Sir Drefaldwyn, Rhagfyr 28, 29, 30, 1847, pryd y Llywyddid drachefn gan Mr. Edwards o'r Bala. Yno rhoddwyd adroddiad gan Mr. Rees ac yntau, am eu hymweliad â'r Cyfarfodydd Misol ac am y derbyniad a gawsent yn yr amrywiol Siroedd. Nid oeddent wedi gallu cael amser cyn y Gymdeithasfa i ymweled â Sir Drefaldwyn, ond yr oeddent wedi cymmeryd mantais ar eu hymweliad y pryd hyny, i alw y brodyr perthynol i'r Cyfarfod Misol yn nghŷd, ac i ddodi yr achos ger eu bron. Dywedent y gallent

felly ymddangos ger bron y Gymdeithasfa fel rhai wedi cyflawni eu gweinidogaeth yn ffyddlawn, can belled ag ymweled â'r holl Gyfarfodydd Misol, ac yr oeddent wedi gosod yr achos yn y modd doethaf a allent hwy ger bron y Siroedd. Ac yr oeddent yn mhob man wedi cael eu derbyn yn groesawus, heb neb yn rhyw gâs iawn wrthynt, er nad oedd pawb mor gefnogol a'u gilydd. Yr oedd y mwyafrif mawr yn yr holl Gyfarfodydd Misol, yn barod i wneuthur rhywbeth yn mhlaid yr hyn y dadleuent drosto, er nad oeddent, oddieithr mewn dau neu dri o honynt, wedi penderfynu yn hollol ar y cynllun a gymmerid ganddynt i weithredu. Wedi gwrando yr adroddiad, ac i amryw sylwadau gael eu gwneyd arno, fe gynnygiwyd ac a gefnogwyd, a chytunwyd yn unfrydol ar y penderfyniad canlynol, yr hwn y dodwyd arnom ni i'w roddi mewn ysgrifen:— "Ein bod fel Cymdeithasfa yn gynnulledig yn Llanfair, yn llawenychu yn y graddau o lwyddiant a fu ar genhadaeth y brodyr a anfonwyd gan Gymdeithasfa Bangor i ymweled â Chyfarfodydd Misol y Siroedd yn achos yr Athrofa; a'n bod yn mawr hyderu yr â y Siroedd yn mlaen yn ymdrechgar gydâ'r amcan cynnygiedig, oddiar ystyriaeth o'r gwir angenrheidrwydd sydd am hyny."

Mae yn ddrwg iawn genym orfod cofnodi i'r ysgogiad hwn, oedd wedi dechreu mor obeithiol, ac yr oedd y fath angen am dano, orphwys ar hyn o bryd, am rai blynyddoedd, oddieithr yn unig yn Sir Feirionydd, fel y gadawwyd ef yn Nghymdeithasfa Llanfair. Fe roddwyd annogaeth ychwanegol, y mae yn wir, yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 15, 1848, i'r Siroedd i fyned yn mlaen gydâg ef, yn y modd a farnent hwy gymhwysaf a mwyaf effeithiol. Ond tra dieffaith a fu yr annogaeth. Fe gasglodd Sir Feirionydd rai cannoedd, y rhai, os ydym yn cofio yn iawn, oeddent ganddynt wrth law i'w cynnorthwyo i chwyddo eu cyfran hwy, pan, yn mhen rhai blynyddoedd, y daeth y Gogledd gydâ'u gilydd allan, dan arweiniad y Parch. Edward Morgan, i wneuthur y Gronfa ag y mae yr Athrofa er ys blynyddoedd lawer bellach yn dibynu arni. Ni ddarfu i ni

erioed ddeall yn hollol pa fodd y methodd y pryd hyn. Mae yn bosibl fod a wnelai y cyfwng arianol dirfawr a gymmerodd le yn Liverpool, yn gystal ag amryw ranau ereill o'r deyrnas, yn y blynyddoedd 1847, 1848,—yn gystal a'r gwasgfaeon a deimlid yn mhlith amaethwyr, ac yn rhanau gwledig y Dywysogaeth, yn gysylltiedig â'r newyn yn yr Iwerddon, a ddygwyddasai ychydig cyn hyny, mae yn bosibl meddwn, fod a wnelai hyny, ryw gymmaint â methiant y casgliad; er yn ddiammeu, mai y prif achos oedd, diofalwch llawer o'r rhai oeddent yn blaenori yn yr eglwysi o berthynas iddo, yn cyfodi oddiar y teimlad hwnw oedd yn ormodol trwy y Siroedd, hyd yn nôd pan na byddai gwrthwynebiad pendant iddo,—"Ni ddaeth yr amser eto."

Y peth nesaf sydd genym odditan law Mr. Rees, ydyw y llythyr canlynol at Mr. Edwards o'r Bala, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo, ni wyddom yn hollol y diwrnod, ond rywbryd o flaen Cymmanfa y Sulgwyn yn Liverpool, 1848.

"Mercher.

"ANWYL GYFAILL,—Ni chawn i ddim llonydd neithiwr, yn "Nghyfarfod y Blaenoriaid, nes i mi addaw ysgrifenu atoch i "hysbysu i chwi fod y cyfeillion yma yn taer ddymuno arnoch "ddyfod yma y Sulgwyn; ac, yn wir, yr ydym yn cymmeryd "yn ganiatäol eich bod yn penderfynu dyfod. Nid oes eto ddim "sicrwydd ond am ychydig o nifer, ac y mae yr amser yn "agoshau. Yr wyf yn gobeithio na phetruswch ddyfod yma, os "yw yn eich gallu trwy ymdrech i ddyfod, er fod yn rhaid i mi "addef fy mod i yn bresennol yn petruso yn nghylch dyfod i'r "Bala y flwyddyn hon.

"Am fy mod yn cymmeryd yn ganiatäol y deuwch, gadawaf "hyny, a hysbysaf i chwi y materion a fyddant dan sylw ddydd "Llun yn y *Society*:—

"1. Cyfarwyddiadau i'r cristion i 'ymarfer ei hun i dduw-"ioldeb.'

"2. Ar 'arfer duwioldeb gartref,' yn enwedig egluro beth "sydd yn gynnwysedig yn y gair hwnw, 'dwyn plant i fynu:' "a chyfarwyddiadau i rïeni tuag at wneuthur hyny. Nid yw

"pob mam a fagodd blant nes dyfod i oedran, wedi dwyn plant i "fynu.

"3. Cyngor i blant a phobl ieuainc. Yr oeddem ni wedi "meddwl am i ryw frawd dieithr draethu gair ar y mater "cyntaf, am o ddeg munud i chwarter awr, ac yna drws agored "i bawb ddyweyd eu meddyliau arno am ychydig amser. Wedi "hyny, rhyw frawd arall i agor yr ail fater, yr un modd mewn "araeth fechan, cyn ymollwng i'r dull rhydd ac ymddyddanol; "ac yr oeddem ni yn mawr ddymuno i chwi ddyweyd gair ar yr "ail fater, Beth sydd gynnwysedig mewn dwyn plant i fynu? "pa fodd y mae gwneuthur hyny? Nid rhaid i'ch traethawd "fod ond pur fyr. Ond pe b'ai hyny yn faich i chwi nes "gorthrymu eich teimladau; peidiwch a gadael i hyny eich "rhwystro i ddyfod yma.

"Cofiwch ni at Mrs. Edwards yn garedig, gan obeithio eich "gweled yn fuan.

"Yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

Fe aeth Mr. Edwards i Liverpool, ae fe aeth Mr. Rees i'r Bala. Y Gymdeithasfa hono, Mehefin 14, 15, 16, oedd yr unig Gymdeithasfa ag y bu Mr. Michael Roberts yn bresennol ynddi wedi ei adferiad am fyr amser i'w iechyd meddyliol, ar ol bod heb fod gydâ'i frodyr mewn Cymdeithasfa er y Bala a thrachefn Pwllheli, yn 1834. Pregethodd yn y Bala yn effeithiol iawn am ddeg ar y gloch y prif ddiwrnod, o flaen Mr. John Jones, Talsarn. Yr oedd yr olwg arno i'w hen wrandaẅwyr braidd megis un wedi codi o blith y meirw. Yn y Gymdeithasfa hono, yn Nghyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, fe wnaed crybwylliad parchus iawn am John Davies, Ysw., o'r Fronheulog gerllaw y Bala, yr hwn a fuasai farw y diwrnod cyn y Gymdeithasfa. Yr oedd Mr. Davies yn Ynad Heddwch, ac efe, os nad ydym yn camgymmeryd, oedd yr Ymneillduwr cyntaf, yn Ngogledd Cymru, a gafodd y dyrchafiad hwnw. Yr oedd efe ar y fainc er tua y flwyddyn 1815. Yr oedd hefyd yn Uchel-Sirydd, Meirionydd, yn 1817, pryd ar un amgylchiad y gwrthododd gymmeryd ei

wneuthur yn Farchog a gwisgo y teitl, Syr. Dioddefodd lawer, am amryw flynyddoedd, fel Ymneillduwr, oddiwrth foneddigion eglwysig ac erlidgar ei wlad, ond fe ymddygodd efe tuag atynt hwy bob amser yn gwbl dawel a dioddefgar a thangnefeddus; fel, flynyddoedd lawer cyn marw, yr oedd wedi ennill eu parchedigaeth agos yn ddieithriad. Yr oedd yn ddiacon yn Nghymdeithas Eglwysig Llandderfel, ac yn ŵr blaenllaw yn Nghyfeisteddfodau y Gymdeithasfa yn y Gogledd, ac yn cymmeryd y dyddordeb mwyaf yn llwyddiant y Cyfundeb yn ei holl ysgogiadau; yr oedd yn arbenig yn gyfaill calon i'r Athrofa yn y Bala, ac yn dwyn mawr zel drosti o'i sefydliad cyntaf. Ar ol ymddyddan yn ei gylch y pryd hwn yn y Gymdeithasfa, fe bennodwyd Mr. Rees a Mr. Hughes (Liverpool), i anfon cyfarchiad at Mrs. Davies, ei weddw, ar ran y frawdoliaeth. Ffrwyth y pennodiad hwnw yw y llythyr dilynol:—

"Llangollen, Gorphenaf 18, 1848.

"MY DEAR MRS. DAVIES,—Gosodwyd arnaf fi, a'm cyd-lafurwr "Mr. Hughes, i drosglwyddo cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn "y Bala â chwi yn eich trallod diweddar. Er fy mod yn "gobeithio fod Mr. Edwards wedi gwneuthur hyny drosom er ys "amser bellach, eto gan fy mod yn meddu gronyn mwy o "seibiant y dyddiau hyn nag arferol, bernais yn ddyledswydd "arnaf anfon gair atoch. Yr ydwyf yn profi fy nghalon yn "rhy ddiffrwyth, a'm tafod yn rhy annysgedig, i allu cyfarwyddo "na chysuro dim ar eich ysbryd hiraethlawn chwi, ag sydd "bellach, ond odid, yn dechreu dyfod i'w *demper*, a throi "oddiwrth y cicaion diflanedig i lawenychu yn Nuw ei Iach-"awdwr.

"Bu'm yn ceisio y boreu heddyw ymholi, pa fodd y buaswn i "yn teimlo, pe buasai fy enaid i yn lle eich enaid chwi. Pa "beth a fuasai fy mhrofiad pe wedi colli cydymaith fy mywyd, "a'm gadael yn weddw ac unig mewn byd ag sydd beunydd yn "myned yn fwy dieithrol i mi, oblegid fod fy hen gyfeillion a'm "cydnabod yn llithro o hono y naill ar ol y llall. Ond 'y galon

"sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun, a'r dieithr ni "bydd gyfranog o'i llawenydd hi.' Ni fedraf fi ddyfalu ond "ychydig pa wersi y mae eich Tad nefol yn eu dysgu i chwi "trwy y tro hwn, nac at ba ffynnonau bywiol o ddyfroedd, y "mae yr Oen yn eich arwain yn y rhan hwnw o ddyffryn Baca "ag y mae efe yn ei ddoeth ragluniaeth, wedi eich galw i'w "deithio yn awr. O bosibl, na buoch chwi eich hunan erioed "yn yfed o honynt o'r blaen; ond yr oedd yr Oen yn "gwybod am danynt—wedi eu darpar yn ei gyfammod grasol, "a'u rhoi i gadw yn nhystiolaethau y gair ar eich cyfer, erbyn "dydd cyfyngder a thrallod. Yfwch, ynte, fy chwaer yn yr "Arglwydd; yfwch nes annghofio eich tlodi, a phob colled "ddaearol.

"Os yw y Duw mawr trwy yr oruchwyliaeth bresennol "yn ysgrifenu pethau chwerwon yn eich erbyn, ac yn gwneyd "i chwi feddiannu camweddau eich ieuenctyd, ysgrifenwch "chwithau yn ôl,—'Yr ydwyf yn cydnabod fy nghamweddau; y "mae yn edifar genyf; maddeu i mi yn ol dy drugaredd.' Neu "os ydyw yn cynnyg ei hunan a'i holl ddaioni i'ch enaid, trwy "yr addewidion grasol sydd wedi dyfod yn awr i *ddate*, peid- "iwch a gadael i'r brofedigaeth, er chwerwed yw, wneyd eich "enaid yn rhy wrthnysig i gymmeryd ei ddiddanu; ond "dyweded eich calon gydâ Dafydd,—'Pâr i mi glywed gorfoledd "a llawenydd, fel y llawenycho yr esgyrn a ddrylliaist.' Ewch, "yn ol eich arfer, i faesydd yr Ysgrythyrau Sanctaidd; mae "yno lawer o gonglau eto heb eu llwyr-fedi; a llawer ysgub o "dywysenau braisg a llawn wedi eu gadael o bwrpas i'r tlawd, "yr amddifad, a'r weddw. Llanwed Duw eich mynwes â hwy; "a phared i'ch ysbryd, ar ol tymhor o hau mewn dagrau, eu "cludo mewn gorfoledd.

"'Ië,' meddwch, 'ond y mae Mr. Davies wedi marw.' Ydyw, "ydyw! y mae efe wedi marw! ond nid cyn rhoi arwyddion, "cofiwch, ei fod yn meddu'r ffydd yr hon a'i dygodd i farnu yn "fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau y ddaear, ac i adnabod "tlodion y byd hwn fel pendefigion y nefoedd; ac i ddewis yn

"hytrach oddef adfyd gydâ hwy na chael mwyniant pechod "dros amser;—nid cyn i ras Duw gario buddugoliaeth amlwg ar "lygredigaeth, a'i wneuthur ef, ag oedd yn naturiol, dybygaf, o "dymher fyrbwyll a phoethlyd, yn ddioddefgar o ysbryd a "hawdd ei drin;—nid cyn ei ddwyn i ymorphwys fel pechadur "ar haeddiant y Gwaredwr;—nid cyn iddo wneyd ei le fel "cristion, yn gynhesach na chyffredin yn mynwes ei gyfeillion "crefyddol, a gweinidogion ei dŷ, bendith a dymuniadau y rhai "a'i hebryngant mewn serchawgrwydd i'r byd mawr. Yn awr "y mae yn gorphwys gydâ'i dadau, a'r cymmeriad crefyddol "a enillodd allan o gyrhaedd pob anaf, wedi ei ddiogelu o dan "seliau y bedd. A chan iddo, fel y gobeithiwn, huno yn yr "Iesu, y peth nesaf sydd i ddygwydd ydyw dihuno yn gyflawn "o'i ddelw, gwisgo anllygredigaeth ac anfarwoldeb, a hyny "mewn trefn i fwynhau y digonolrwydd llawenydd sydd ger "bron Duw, a'r difrifwch sydd ar ei ddeheulaw yn dragywydd. "Bellach gan hyny, fy anwyl Mrs. Davies, A fynech chwi newid "rhywbeth a wnaeth yr Arglwydd? Na, y mae eich enaid yn "dywedyd 'Y mae pob peth yn dda, ac yr wyf finnau yn "foddlon.'

"Da genyf hysbysu i chwi fod y brodyr yn y Bala yn "rhoi arwydd o'u cydymdeimlad â chwi gydâ llawer o serch-"awgrwydd. Gwn y derbyniwch hyny yn siriol. Hwyrach ei "fod yn argoel o garedigrwydd Pen y teulu. Nid oedd llawer "o honynt hwy, y mae yn wir, ond prin yn eich adnabod: ond "y mae Efe yn eich adnabod wrth eich enw: ïe, fe'ch adnabu o'r "blaen, ac a edwyn eich dyddiau presennol o drallod: a dilys "genyf eich bod yn profi hyny trwy fod nerth yn ol y dydd yn "cael ei weinyddu i'ch enaid. Ac 'yn gymmaint a dioddef o "hono Ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon,' nid yn unig gyd-"ymdeimlo â, ond hefyd 'gynnorthwyo y rhai a demtir.' I'w "ofal yr wyf yn gorchymyn eich ysbryd. Amen.

"Dymunai Mr. Hughes i mi ei gofio atoch; mae fy ngwraig, a "minnau yr un wedd, yn eich annerch yn garedig. Yr ydym "hefyd yn cyd-gofio at Mrs. Davies, os yw eto gydâ chwi.

"Clywais fod Mrs. Edwards yn sâl iawn; gobeithiaf ei bod yn
"well erbyn hyn. Pe gwelech Mr. Edwards, byddaf ddiolchgar
"os gadewch iddo wybod fy mod yn cydymdeimlo âg ef ac yn
"cofio ato.

"Yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

Tra yr ydoedd oddicartref y pryd hyn am ychydig seibiant yn Llangollen, y derbyniodd y newydd am farwolaeth ei hen gyfaill a'i hen athraw, y Parch. Thomas Lloyd, Abergele, yr hyn a gymmerodd le Gorphenaf 15, 1848. Ysgrifenodd y llythyr canlynol at y Parch. Emrys Evans, wedi derbyn y newydd:—

"ANWYL GYFAILL,—Derbyniais eich llythyr pan oddicartref,
"fel y gwelwch. Mae yn dda ac yn ddrwg genyf glywed am
"farwolaeth yr hybarch Thomas Llwyd. Yr wyf yn llawenhau
"ei fod ef wedi ei ryddhau o rwymau cystudd a phoenau; ond
"yn teimlo yn drist ein bod ni wedi colli y fath swp o
"ddiniweidrwydd duwiol, gostyngeiddrwydd, ac addfwynder
"efengylaidd, yr addfed ffrwyth cyntaf ag y mae eneidiau gwir
"dduwiolion yn ei flysio mor fawr y dyddiau hyn. Byddai bod
"yn ei gwmni am ychydig amser yn gwellhau fy ysbryd afiach
"yn wastad. Teimlwn ymneillduad o gyfeillach gyffredin i'w
"gyfeillach ef, megis disgyniad o ryw hen fynydd llwm ac
"oerllyd, i lawr i ddyffryn tawel, cynhes, tlws, a ffrwythlawn,
"a'm calon yn cael ei hadfywio a'i hiachâu yn arogl y maes a
"fendithiodd yr Arglwydd. Yr oedd ei sancteiddrwydd yn fy
"attal i fod yn wamal ger ei fron, ac ar yr un pryd ansawdd
"ostyngedig ei feddwl, a diniweidrwydd ei galon, yn gyru yn
"mhell o fy mynwes bob caethiwed ac ofnau. Mi a'i hanrhyd-
"eddwn ef fel tâd; mi a'i hoffwn ef fel yr hoffir plentyn bychan
"di-ddichell; a thra y glynai fy enaid wrtho fel brawd anwyl,
"eto yr oeddwn yn teimlo yn rhyw fodd, fel pe buasai hòni
"brawdoliaeth â'r fath ŵr yn hòni gormod o gydraddoldeb.

"O ŵr Duw! ti a aethost i dragywyddoldeb â dymuniadau
"goreu fy enaid yn dy gylchynu. Yr wyt yn fwy dedwydd

"heddyw nag y gallaf amgyffred, ond nid yn fwy felly nag y "mae fy nghalon yn caru i ti fod.

"O! Abergele! Abergele! fe'i benthyciwyd ef i ti am lawer "o flynyddoedd; ond y mae y benthyg yn awr wedi ei gym-"meryd adref. Mae ysgol Mr. Thomas Llwyd wedi tòri—nid "am wythnosau y cynhauaf, ond—am byth! Hen athraw dy "rai bach sydd wedi marw, ac ni welir ei gyffelyb ar ei ol yn yr "oes hon! Ni waeddai, ni ddyrchafai, ac ni pharai glywed ei "lais yn dy heolydd; ond er hyn, bydd ei fywyd distaw a "sanctaidd yn siarad â thi ar ol hyn. Ac ni ryfeddwn, os efe, "yn mysg pethau ereill, a fydd y pryf nad yw yn marw, "yn nghôf a chydwybodau dy rai anedifeiriol yn nhra-"gywyddoldeb.

"O! ei hen ysgolheigion; er colli rhïeni, nid oeddech chwi "heb dad tra bu byw Thomas Llwyd. Addysgai chwi fel un "cyfrifol i Dduw am ei waith. Edrychai arnoch fel gwrth-"ddrychau neillduol ei ofal, cysegrai amser yn ffyddlon i'ch "gwasanaeth, gan amcanu meithrin eich calonau mewn rhin-"wedd, yn gystal â'ch deall mewn dysgeidiaeth; a phan y delai "eich amser i ben i adael ei ysgol, anfonai chwi allan i'r byd "peryglus fel yr hen Isaac yn anfon Jacob, gydâ llawer o "gyfarwyddiadau tyner a phriodol, a gwir ddymuniad ar i'r "Duw mawr Hollalluog eich bendithio. Ond yn awr y mae "tywysog ieuenctyd llawer o honoch wedi marw; a llawer o "honoch chwithau wedi heneiddio, ac yn prysuro ar ei ol i'r byd "mawr. Nid oes ganddo un mab nac ŵyr i chwi ddangos "caredigrwydd iddynt er ei fwyn; ond dangoswch barch i'w "goffadwriaeth, a charedigrwydd i chwi eich hunain, drwy "feddwl am dano, dilyn ei ffydd, ac ystyried diwedd ei ym-"arweddiad. Amen.

"Yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

Yn ngwasanaeth yr Ordeiniad yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 13, 1848, pryd y neillduwyd y Parchedigion Griffith Davies, Llanerchymedd, Hugh Jones, Caergybi, William Roberts, Caer-

gybi, William Williams, Graianfryn, Môn, Hugh Roberts, Bangor, Robert Hughes, Uwchlaw'r-ffynnon, Edward Price, Birmingham, a John Mills, Llundain,—fe draddodwyd y Cyngor gan Mr. Rees; yr hwn oedd yn nodedig o bwysig a phriodol a sylweddol. Trwy lawer iawn o gymhell, fe lwyddwyd i gael ganddo ei ddarpar i'r Wasg, ac fe ymddangosodd yn y *Traethodydd* am fis Ebrill, 1849, tudal. 141—156, dan yr enwad, "*Cymhwysderau a Gwaith y Weinidogaeth*;" ac fe'i hail gyhoeddwyd yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 324—347. Y mae yn anmhosibl, dybygem ni, i neb ddarllen y Cyngor hwn, gydâ dim ystyriaeth, heb deimlo fod meddwl yr awdwr o hono yn gwbl gysegredig i'r efengyl, ac yn llawn pryder ac eiddigedd rhag iddi, yn ei ddwylaw ef a'i frodyr, golli dim yn y dylanwad mawr oedd wedi bod iddi ar gydwybodau trigolion ein gwlad.

Yr oedd Dr. Edwards, tua y pryd hwn, yn dra awyddus, yn neillduol mewn cysylltiad â'r cyhoeddiad misol bychan a elwid "*Y Geiniogwerth*," i wneuthur ymdrech er diwygio moesau ein cenedl, yn arbenig gydâ golwg ar anniweirdeb; ac yr oedd wedi anfon llythyr at Mr. Rees, yn erfyn ei gynnorthwy yn yr ymdrech hwnw; ac yn atebiad i'r llythyr fe dderbyniodd oddiwrtho y llythyr canlynol:—

"Mawrth 26, 1849.

"ANWYL GYFAILL,—Derbyniais eich llythyr; ac y mae yn "dda genyf am eich bwriadau yn nghylch diwygio ein cenedl, "yn yr hyn ni byddaf finnau yn fyr o ddymuniad a pharod- "rwydd i wneyd a allaf i'ch cynnorthwyo, er nad yw hyny ond "ychydig. Nis gallaf, pa fodd bynnag, ysgrifenu dim erbyn y "tro cyntaf a nodwch. Yr wyf wedi addaw ysgrifenu Rhag- "draeth bychan i'r 'Eglwys o Ddifrif,' ar gais Mr. Gee erbyn "diwedd Ebrill, ac yr wyf heb ei gyflawni. Cymer hwnw hyny "o amser a allaf ei hebgor o hyn i ddiwedd y mis hwnw.

"Yr wyf yn meddwl eich bod chwi wedi eich tori allan i ys- "grifenu; ond y mae genyf amheuaeth am danaf fy hun; yr "wyf yn ei brofi yn waith mor anhawdd. Eto, beth bynnag a "allaf ei wneuthur i'ch cynnorthwyo, mi a'i gwnaf yn barod; a

"dymunaf eich llwydd i wellhau moesau y genedl. Yr wyf "bron yn meddwl y buom yn rhy esgeulus o hyn, ac, yn sicr, "fod yr Argraph-wasg hyd yma, o leiaf hyd yn ddiweddar, heb "gael ei defnyddio yn ddyladwy. Y mae etifeddiaeth dêg o'ch "blaen chwi yn yr ystyr hwn; y mae Gogledd Cymru i raddau "mawr yn eich meddiant, a'i thrigolion yn llygadu atoch am "wybodaeth ac ymborth i'w meddyliau. Hyderaf y cewch "ysbryd ac ymroddiad i'w porthi, yn gymmaint a bod yr 'Arglwydd wedi rhoddi i chwi allu a dawn i wneyd hyny. . . . ". . . . . . Yr oeddwn yn Nghyfarfod y Blaenoriaid, lle yr "ystyrid achos ein Cymmanfa; ac yr oeddem yn gweled fod y "nifer ag sydd wedi addaw dyfod iddi yn llawer rhy fach i'w "chynnal. . . . . . . O'm rhan fy hun, yr wyf yn addef fy mod "yn barnu fod nifer mawr yn arfer dyfod yma; a hwyrach, "trwy newid gronyn ar y dull o gadw y cyfarfod, y gellid "gwneyd ar lai heb ei wneyd yn ddim gwaeth. Ond hyd yma "y mae y bobl yn awyddus am weled eu hathrawon unwaith yn "y flwyddyn yn o lïosog. Ac er y gallech gael rhyw ardal ag y "byddai mwy o'ch angen i bregethu ynddi nag yn Liverpool y "Sabboth hwnw, eto wrth ystyried yr holl gyfarfod, a'r lles o "gynnal gronyn o gydnabyddiaeth â'n gilydd, yr wyf yn "meddwl ei fod o fwy o bwys nag y meddylid ar yr olwg "gyntaf, i chwi daflu yn awr ac yn y man i gyfarfodydd o'r "fath. . . . . . . Os gellwch cyn hir anfon gair y deuwch, bydd "yn llawenydd i ni.

"Yr wyf yn dymuno cofio at Mr. Lewis Jones, a Mr. Parry, "a'ch gwragedd serchog; a da genyf glywed fod rhyw adfywiad "ar grefydd yn y Bala, a manau ereill.

"HENRY REES."

Fe'i hattaliwyd rhag bod yn bresennol yn Nghymdeithasfa y Bala, yn Mehefin y flwyddyn hon (1849), oblegid iddo gael ei wysio i fyned i Lundain, ar achos cyfreithiol poenus iawn. Dygid cŵyn yn mlaen yn erbyn un o ddiaconiaid Capel Jewin Crescent, am eiriau a ddywedasai, neu yn hytrach a

ddarllenasi, yn nglŷn âg achos dysgyblaethol. Yr oedd rhai o ddadleuwyr hyawdlaf a galluocaf y deyrnas, ar y naill law a'r llall, i gymmeryd rhan yn y cynghaws; ac yr oedd Mr. Rees a Mr. Roger Edwards wedi cael eu galw i dystiolaethu, fod yr hyn a wnaethai y diffynydd yn gwbl unol â'n trefniadau ni fel Cyfundeb. Yr oedd yr achos hwn wedi bod yn poeni meddwl Mr. Rees yn ddirfawr er ys amryw wythnosau, ac yr oedd yn awr yn hynod o bryderus ac yn lled drallodus, nid yn unig oblegid y cynghaws, ond wrth ei gael ei hunan mewn amgylchiad mor ddieithrol iddo. Sierhawyd i ni fod ei weddïau ar y pryd, ar yr addoliad teuluaidd yn y tŷ y lletyai ynddo, â rhyw afael ynddynt gydâ'r nefoedd, nad oedd y rhai oeddent bresennol wedi sylwi ar ddim cyffelyb erioed. Teimlent hwy yn hollol hyderus gydâ golwg ar ganlyniad y prawf,—fod yr achos wedi ei benderfynu yn ei weddïau ef. Mynych y clywsom Mr. Roger Edwards yn adrodd am dano ef a Mr. Rees, yn myned gydâ'u gilydd mewn cerbydyn tua Westminster Hall, Mehefin 14eg, prif ddiwrnod y pregethu yn y Bala. Edrychai Mr. Edwards ar ei oriadur, a gwelai ei bod tuag un-ar-ddeg ar y gloch y boreu hwnw; ac meddai wrth Mr. Rees, "Wel, pe buasech chwi yn awr yn Sassiwn y Bala, buasai y pregethwr cyntaf yn yr oedfa ddeg ar y *Green* yn tynu at ddibenu, a chwithau mewn pryder wrth feddwl y byddech yn union bellach yn codi ar ei ôl, i bregethu i'r miloedd o bobl yno. A ydyw hi ddim yn fwy cysurus y munud hwn ar eich meddwl yma nag y buasech yno?" "O nac ydyw," meddai yntau; "mi a wn beth yw pregethu yn Sassiwn y Bala; codi i bregethu yn y teimlad o'm gwendid, a chael fynychaf achos i ddiolch am fy nerthu o wendid; ond ni wn i ddim beth yw myned i ffau llewod y gyfraith yma. Beth fydd cael fy nghroesholi gan y creaduriaid hyfa'n fyw, a minnau heb gael ateb yn Gymraeg! O mi a roiswn lawer am fod yr awr hon ar y *stage* yn *Green* y Bala!" Pa fodd bynnag, erbyn myned i'r llŷs, barnodd yr erlyniwr mai gwell oedd peidio myned yn mlaen gydâ'r cynghaws; ac felly fe'i harbedwyd ef nid yn

unig rhag i'r "llewod" geisio ei larpio, ond rhag sŵn eu rhuad.

Yn lled fuan wedi dychwelyd o Lundain, fe dderbyniodd lythyr oddiwrth Dr. Edwards, mewn cysylltiad yn benaf âg achos poenus iawn, ar y pryd, i deimladau y naill yn gystal a'r llall, er nad oedd yn cyffwrdd dim yn bersonol â hwy. Gan adael allan y cyfan o'r llythyr ag sydd yn cyfeirio at yr achos hwnw, ni a ddodwn y llythyr i mewn yma.

"Liverpool, Mehefin 25, 1849.

"ANWYL GYFAILL,—Derbyniais eich llythyr y boreu hwn, ac "am fy mod yn cychwyn oddicartref y boreu 'foru gydâ'm "gwraig, yr hon sydd yn parhau yn lled wael, meddyliais mai "gwell oedd i mi anfon gair atoch heddyw. . . . . . . . . . . . . .

"Am yr Athrofa nis gwn beth i'w ddyweyd. Am osod yr "ysgol ar ryw dir cyffredin, ac appelio at y wlad am gynhaliaeth, "—nis gwn i ddim faint a ennillech chwi. Gwir fod ein swydd-"ogion yn anwybodus, ac heb wybod ond ychydig am werth "dysg; ond ni chewch chwi neb nemawr gwell na hwythau ar "hyd Cymru yn gyffredin, o leiaf ni chewch chwi ond ychydig "iawn o nifer. Yr ydwyf fi, o'r dechreu, yn awyddus am i "fechgyn a dynion ieuainc, serch na byddo dim golwg ganddynt "ar fod yn bregethwyr, gael dyfod i'r ysgol. Ar gyfrifon felly, "bu'm lawer gwaith yn dymuno, pe buasai yn bosibl, ei symmud "i Gaer neu ryw le cyffelyb. Yr ydwyf yn tybied y gallasai hi "fel hyn lithro yn *Welsh University*, o leiaf yn *University* i'r "*Welsh* drwy Ogledd Cymru, heb i neb feddwl na bwriadu. "Byddai ei symmudiad hefyd yn achlysur têg i ail ystyried "cyflogau yr Athrawon; ond nid wyf yn dyweyd y dylid aros "am hyny. Ofnwyf yn awr fod yn anhawdd codi *fund* at ei "chynnal: eto, pe ba'i y byd yn gwella gronyn, a'r wasgfa "bresennol drosodd, hwyrach y gellid gwneyd rhywbeth.

"Mae yn ddrwg genyf eich bod yn cael gofyn ddwywaith am "ysgrif i'r '*Geiniogwerth*.' Nid am nad oes parodrwydd ynof i'w "chynnorthwyo yr wyf mor hwyrfrydig, ond o herwydd fod fy

"ngallu yn fychan, a'm hamser yn brin. Yr wyf yn cychwyn "yforu i Sir Fôn am rai dyddiau. Ofnwyf yn fawr na châf "ddim llonydd tra byddwyf yno. Byddaf hwyrach yn myned "oddiyno i Drefriw, er mwyn i'r wraig *dreio* y dyfroedd yno. "Rhaid i mi, ar yr un pryd, ddyfod adref at rai o'r Sabbothau, "o herwydd fod prinder yma. Mae Cymmanfaoedd Conwy, "Treffynnon, a Chaer, hefyd i fod,—ac yr wyf wedi lled addaw "myned iddynt oll. Pa faint o amser a gaf i feddwl am "ysgrifenu dim, nis gwn; ond os byddaf yn gallu gwneyd "hanner tudalen, mi a'i hanfonaf i chwi, gellwch fod yn sicr.

"Heblaw hyny, mi a rown lawer am gael bod yn rhydd oddi-"wrth bob llafur am ychydig wythnosau yn awr. Mae pryder "a chynhwrf yr wythnosau diweddaf, yn enwedig achos Llun-"dain, wedi peri llesgedd corphorol. Y mae meddwl am lafurio "gydâ dim yn faich arnaf. Ond ni waeth heb gwyno; fe ddaw "y bedd, a byddaf weithiau yn edrych arno fel yr unig lanerch "dymunol ar y ddaear. Oh! ddyddiau happus fy ieuenctyd, pan "yr edrychwn ar bregethwyr yn berffaith—corph y Methodist-"iaid mor gadarn a'r bryniau. Ond erbyn hyn y mae fy "syniadau am ddynion ac am bethau, ac yn enwedig am danaf "fy hun, wedi newid yn fawr. Cofiwch fi at Mrs. Edwards, Mr. "Parry a'i deulu.

"Yr eiddoch yn garedig, H. REES."

Mae yn bosibl y gall fod cryn nifer o'n darllenwyr heb wybod ond ychydig neu ddim am y "*Geiniogwerth*" y cyfeiria Mr. Rees ati yn y llythyr blaenorol. Cyhoeddiad misol ydoedd, ceiniog y rhifyn, a gyhoeddid dan olygiad Mr. Edwards, yn cael ei gynnorthwyo gan ei gymydog, y Parch. Lewis Jones, o'r Bala; wedi ei fwriadu nid i fod ar ffordd yr un cyhoeddiad arall, eithr fel rhagflaenor gwasanaethgar i gyhoeddiadau ereill, trwy fod ei gynnwysiad yn gyfaddas i gynhyrfu ac ëangu meddyliau y werin yn gyffredinol, i greu ysbryd darllen yn eu mysg, a magu ynddynt chwaeth at lenyddiaeth sylweddol a chrefyddol. Yr oedd yn *geiniogwerth* nodedig o werthfawr, a daeth allan am bump neu chwech o flynyddoedd.

Am y Cymmanfäoedd a noda Mr. Rees yn ei lythyr, cyfarfodydd blynyddol lleol oedd y rhai yn Nghonwy a Chaerlleon; ond yr oedd yr un yn Nhreffynnon yn Gymdeithasfa a gynhelid y pryd hyny yn flynyddol, mewn rhyw Sir neu gilydd, yn mis Gorphenaf neu Awst, ac a elwid yn Gymdeithasfa Ychwanegol, gydâ holl awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol yn perthyn iddi. Parhäwyd i gynnal y Gymdeithasfa hòno, hyd nes y penderfynwyd i Gymdeithasfa Mehefin fyned ar gylch trwy y Siroedd, ac nid bod megis cynt yn sefydlog yn y Bala. Yr oedd y Gymdeithasfa hòno y tro hwn yn cael ei chynnal yn Nhreffynnon, Gorphenaf 23, 24, a 25, 1849, ac yr oedd yn cael ei chynnal mewn amgylchiadau tra annghyffredin. Yr oeddem ni yn bresennol ynddi, ac yn sicr ni buom erioed mewn lle yn hollol yr un fath. Yr oedd yr haint echryslawn, y *Cholera*, y pryd hyny ar ymweliad â'n gwlad, ac yr oedd wedi cyrhaedd Treffynnon rai dyddiau cyn y Gymdeithasfa, ac wedi gwneyd anrhaith mawr yn y lle. Yr oedd dros ugain o'r trigolion wedi eu cludo ymaith mewn ychydig iawn o amser ganddo, ac yr oedd teimladau rhyfedd o gyffro ac arswyd megis wedi meddiannu yr holl boblogaeth. Yr oedd yr un arswyd wedi peri i lawer o frodyr, yn weinidogion a diaconiaid, ymgadw rhag dyfod i'r Gymdeithasfa. Eithr fe ddaeth nifer da, ac yr oedd trigolion y dref yn rhoddi y croesaw mwyaf calonog a siriol i'r dieithriaid, ac yn llenwi y Capel yn mhob gwasanaeth cyhoeddus a gynhelid. Yr ydym yn cofio pan oedd y pregethwyr a'r blaenoriaid yn cyd-gerdded yn gryn lu at y Cyfeisteddfod cyntaf brydnawn dydd Mawrth, fod rhyw wraig dda, ar ein ffordd tua'r Capel yn dywedyd wrth ei chyfeillesau, "Wel, ni allwn gysgu heno, dyma'r *soldiers* wedi dyfod i'r dref." Yn yr oedfa gyhoeddus am chwech ar y gloch prydnawn Mercher, fe drefnwyd fod i'r Parch. John Jones o Wrexham, ddechreu y cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo. Yna fod i Mr. Rees eiriol mewn gweddi gydâ'r Arglwydd ar ran y dref. Yna Mr. Roberts, Amlwch, i bregethu a ninnau, ar y diwedd, i alw sylw y gynnulleidfa, yn ngwyneb presennoldeb yr haint dinystriol yn y lle, at yr

angenrheidrwydd a'r pwysigrwydd o ymgadw oddiwrth feddwdod ac annghymedroldeb. Ac yn sicr yr oedd yn gyfarfod hynod iawn. Yr oedd Mr. Roberts yn pregethu, oddiar Psalm lxxii. 1, gydâ rhyw nerth ac awdurdod a dylanwad, a deimlid gan bawb yn fwy na dynol. Am weddi Mr. Rees dros y dref yr oedd yn gwbl annesgrifiadwy. Ni chlywsom ni ddim cyffelyb erioed. Yr oedd ynddi y fath ddwysder teimlad, y fath ddifrifwch ysbryd, y fath ymostyngiad enaid, y fath ymbil calon, a'r fath hyder plentynaidd yn y drugaredd ddwyfol am arbediad a bywyd, fel yr oeddem yn teimlo yn hollol sicr ei fod wedi cael dyfoda at Dduw ac yn ymaflyd yn ei nerth ef, ac yr attelid y pla. A'r hyn sydd ryfedd iawn ydyw, felly fu. Ni chymmerwyd cymaint ag un wedi hyny yn glâf, ac ni bu cymmaint ag un o'r rhai oeddent gleifion ar y pryd farw o hono. Fe ymadawodd y *Cholera* yn gwbl â'r lle yn mhen ychydig oriau.

Yn mhen tua phythefnos ar ol Cymdeithasfa Treffynnon, fe aeth Mr. Rees i'r Deheudir, i Landeilo Fawr, lle yr oedd Cymdeithasfa yn cael ei chynnal, Awst 8, 9, 10. Yr oedd y Gymdeithasfa hòno mewn rhan yn Gymdeithasfa Gorphoredig, neu Gyffredinol, gan fod achosion y Genhadaeth Dramor yn cael ymdrin â hwynt ynddi, a rhai pethau ereill cydberthynol i Fethodistiaeth Deheudir a Gogledd Cymru. Y mae yn ddrwg genym i ymosodiad brwnt ac annheilwng iawn gael ei wneyd arno gan ryw rai ag yr oedd efe yn synio yn wahanol iddynt hwy am achos pennodol oedd dan sylw yno. Dygwyddodd hyny wedi diwedd y Cyfarfod Ordeinio, sef y cyfarfod am wyth y bore y dydd olaf, sef y diwrnod pregethu, a phan oedd Mr. Rees ar fyned i'r maes i bregethu yn yr oedfa am ddeg. Yr oedd yr ymosodiad hwnw yn un cwbl annhêg a diachos, ac mewn ymadroddion haerllug ac anesgusodol. Eto fe'i galluogwyd ef mewn amynedd i feddiannu ei enaid yn hollol, ac hyd yn nod i beidio cymmeryd arno glywed y traha a ddywedid i'w erbyn. Yr oedd, yn ddiau yn teimlo oddiwrth y fath ymddygiad angharuaidd, ond yr oedd ei synwyr a'i ras yn ei alluogi i

gadw ei deimlad ynddo ac iddo ei hun. Am yr ychydig amser a gafodd i bregethu y boreu hwnw,—ac ychydig iawn ydoedd, canys yr oedd dau wedi pregethu o'i flaen, ac un arall ar eu hol hwythau yn traddodi araeth led faith,—efe a bregethodd yn bwyllog, ac eto yn rymus, nes peri i'r dyrfa ger ei fron deimlo mai dyn Duw ydoedd, wedi ei berffeithio at ei waith mawr. Yr oedd ei ysbryd wedi ei gadw heb anmhariaeth, ac yr oedd yn amlwg wedi ei ddysgu i beidio â'r dyn, ac i ymnerthu yn yr Arglwydd.

Yr oedd yn myned i Aberystwyth at y Sabboth. Y nos Lun canlynol, yr oedd Mr. Roger Edwards, gydâ brawd arall, yn pregethu yno yn y Tabernacl, yr unig Gapel yn y dref ar y pryd gan y Methodistiaid. Pan oedd Mr. Edwards ar ganol pregethu, beth a welai yn y sêdd uchaf oll, ar y gongl chwith i'r Oriel, ond pen Mr. Rees! Nes ei weled yno nis gwyddai ei fod ef yn y dref; a mawr oedd ei syndod wrth ei weled yn y fath eisteddle, yn edrych yn gwbl ddiymhongar, yn nghanol y dynion dieithr iddo ef oeddent o'i amgylch. Pan y gofynai Mr. Edwards iddo, beth oedd wedi ei arwain i ddewis y lle hwnw, y noswaith hono, ei atebiad ydoedd,—"Yr oedd arnaf fi eisieu gwybod pa fodd y mae y llais o'r pulpud yn cael ei glywed, yn nghonglau pellaf ein Capeli mawr." Y mae yn amlwg felly ei fod yn dychwelyd o Gymdeithasfa Llandeilo, yn gyflawnach o ysbryd pregethu nag o un ysbryd arall, ac yn ceisio cymmeryd mantais ar bob cyfleusdra a roddid iddo tuag at ei gymhwyso ei hunan i fyned rhagddo, yn y modd goreu ag y gallai, gydâ yr hyn a wnelsai iddo ei hunan yn orchwyl mawr ei fywyd.

Yr oedd amgylchiadau yr Achos yn Llundain y pryd hwnw, y fath, yn ganlynol i'r ymrysonau annedwydd a gymmerasent le yno, ac yr oeddent erbyn hyny wedi eu gadael heb un Gweinidog sefydlog yn llafurio yn eu plith, ac yn gofalu yn uniongyrchol am danynt, fel yr appeliasant at Mr. Rees, i erfyn arno a ddeuai efe atynt i'w gwasanaethu am amser hwy nag arferol; gan nad oeddent, ar ol cryn ystyriaeth, yn gallu gobeithio y dygid pethau i drefn a thawelwch yno oddieithr iddo gydsynio â'u

cais; a'u bod yn dra hyderus, os deuai, yr adferid heddwch a llwyddiant yno megis cynt. Rhoddes yntau led-addewid iddynt y deuai, os gallai gael cydsyniad cyfeillion Liverpool, ac os byddai hyny yn foddlawn, yn ol y drefn arferol y pryd hyny, gan y Gymdeithasfa. Rywfodd nid oedd pob peth yn hollol mor esmwyth ag arferol yn Liverpool ar y pryd, fel yr oedd y frawdoliaeth yno yn *hollol anfoddlawn* iddo fod yn absennol oddiwrthynt am dri neu bedwar mis, yn ol y cais a wneid; a dichon nad oeddent yn hollol ddïofn rhag y temtid ef, wedi bod yn eu plith am fisoedd felly, i ymsefydlu yno yn hollol. Pa fodd bynnag, fe ddaeth cenhadon o Lundain i Gymdeithasfa Pwllheli, Medi 12, 13, 14, 1849, i osod eu hachos ger bron y frawdoliaeth ac a lwyddasant i sicrhau cydymdeimlad cyffredinol â hwy yn y cais a wneid ganddynt, fel y penderfynwyd gadael Mr. Rees at ei ryddid i fyned i Lundain am yr amser a olygid ganddo ef yn angenrheidiol iddo aros yno. Gan nad allai fyned yno hyd wedi rhai wythnosau ar ol hyny, fe drefnwyd brawd arall i fyned yno am ryw gymmaint yn y cyfamser. Nid ydym yn hollol sicr o'r amser yr aeth efe i fynu i'r Brif-ddinas, ond yr ydym yn tybied iddo fyned cyn diwedd Tachwedd, 1849. Yr ydym yn meddwl mai o Lundain y pryd hwn, yr ysgrifenodd y llythyr canlynol, yr hwn nad oes yr un dyddiad wrtho, at ei anwyl a'i unig ferch, y cyntaf sydd genym o gyfres o lythyrau o werth anmhrisiadwy a anfonwyd ganddo ati hi; ac y mae yn llawenydd dirfawr i ni ein bod yn gallu eu cyflwyno ger bron ein darllenwyr. Y mae y teulu yn dymuno iddynt gael eu cyhoeddi fel yr ysgrifenwyd hwynt ganddo ef, weithiau yn Gymraeg, ac weithiau yn y Saesonaeg, ac yn llithro yn fynych, yn yr un llythyr, o'r naill iaith i'r llall.

"MY DEAREST A.,—I understand by your letter to your "Mother, that the friends are all very kind to you, for which I "hope you feel thankful to them, and to the Lord. There are "thousands of little girls, in this cold and hard weather, without "fire, clothes, nor food; who must beg hard, and wait long at

"the door, for a crumb of bread, whilst you are invited to sit "down before rich tables, and to enjoy not only necessaries but "luxuries. My dear girl, beware of pride. Remember that the "wheel of Providence is turning continually: if you are at the "top now, your turn may come, ere long, to be on the ground, "neglected and forgotten. . . . . . . . . . Shall you be spared? "God only knows. You know well that your Father wishes "you prosperity and comfort, all your days. But I would "remind you not to be 'high-minded, but fear.' I would not "have you to deceive yourself, and to dream that the world is a "Paradise, and life one May-day, fair and fine, where you shall "have nothing to do but to go gracefully. Scatter these foolish "thoughts, my girl, from your mind for ever. Tell yourself,— "'I live on a working planet; I belong to a family that have "been doomed to labour; and I will qualify myself for the "same.' Yes, do this, and God will bless you. For I am glad to "tell you, in conclusion, if you live in a miserable, you do not "live in a hopeless world. No: it is the world where Jesus "Christ was born, where he lived, and where he died. He bore "its curse, and left it with a blessing. He left behind him "means to regenerate it, and fountains of happiness to refresh "its miserable and weary heart. May you be taught to draw "your comfort from those. Amen."

Yr ydym yn tybied fod y llythyr canlynol hefyd at ei ferch, wedi ei ysgrifenu yn lled fuan ar ol yr un uchod, rywbryd yn niwedd 1849, neu cyn agoriad yr ysgol ddechreu 1850:—

"I am happy it is in my power to congratulate you that your "working season is about to commence. I hope you will set "about it with vigour and renewed energy. I wish your mind "would be like the bee, gathering honey from every flower. "Speak little. Hear and read and think much. Enrich your "mind with every useful knowledge; and in after-life, I hope it "will serve you for some good and practical purposes. Resemble "the bee in everything but her sting. Let every work you do

"be as perfect, nice, and clean, as her comb; your words as "sweet as her honey; your good humour like hers, when she is "humming over the flowers of the field; and your activity and "diligence like hers on a fine Summer morning. If vain "thoughts and foolish imaginations bubble out of your corrupt "heart, scatter them away like trash. Habituate yourself to "discipline your mind and to apply it closely, aye, painfully, to "useful subjects. . . . . . . . .

"Dymunwn fy nghofio yn garedig at Miss. R. Os yw wedi "gorphen ei hysgol, gwn y bydd hi yn parhau i amaethu ei "meddwl mewn gwybodaeth fuddiol. O! mor ddymunol a "fyddai genyf cyn myned i'r bedd eich gweled oll wedi ym-'sefydlu yn ffyrdd crefydd, yn gyflawn aelodau eglwysig, ac yn "dangos profion o wir grefydd, trwy gariad at Grist, parch i "rïeni, a pharodrwydd i gymmeryd cyngor gan y rhai sydd yn "eich caru fel eu heneidiau eu hunain, a'r rhai y mae eu heinioes "yn nglŷn wrth eich heinioes chwithau. Yr wyf fi yn myned "i deimlo yn fwy wrth heneiddio, fel pe bawn i yn Dad i holl "blant fy nghyfeillion; a gallaf ddywedyd fel yr Apostol Ioan, "'Mwy llawenydd na hyn nid oes genyf, sef cael clywed bod fy "mhlant yn rhodio mewn gwirionedd.' Read this to my young "friend in ——— with my best love. Yours, in all the "tenderness of a father,

"H. Rees."

Wele lythyr arall at ei ferch, heb yr un dyddiad wrtho, ond a ysgrifenwyd ganddo o Lundain, tua yr un amser:—

"My Dear A.,—You mention something in your last letter "that you are desirous of commemorating the death of our "blessed Saviour, and thus attaining your full membership in "His Church. But it would be well for you to consider why you "desire this. Is it not because you have seen some of your young "companions admitted, or that the mind loves something new, "although it hardly ever enquires into its signification? What "answers could you return to such questions as the following?

"What are your views respecting your state by nature? What "are the effects produced in your mind when you think of that "state? What do you do under those impressions? What "think you of Christ? How do you believe concerning His "Person? What is the nature of His death? Why was His "death necessary for your salvation? If you were to die now, "what would be the ground of your hope in entering into the "presence of God? Do you intend to make the word of Christ "the rule of your temper and conduct, as long as you are on "earth? Is there any person and any work spoken of in the "Bible, which you are glad to think of, when you feel your "mind indisposed to pray, and strongly inclined to vanity and "evil? Who is that Person? What can he do for you?

"Byddaf yn meddwl weithiau y bydd hi yn ddigon buan i bobl "ieuainc ddyfod at yr ordinhâd, pan y byddant tuag ugain oed. "Ond os bydd geneth ieuanc yn ofni Duw, ac yn caru Crist, ac "yn rhoddi ei hunan iddo fel Gwaredwr, mae Iesu Grist yn sicr "o fod yn hoff o weled hòno yn dyfod at ei fwrdd, beth bynnag "a fyddo ei hoedran.

"Mae y rhai a'i ceisiant ef yn fore yn sicr o'i gael ef. Plant "ei bobl yw ei ŵyn ef, pa rai y mae yn eu dwyn yn ei fynwes, "ac yn gorchymyn i'w weision eu porthi â gwybodaeth ac â "deall. O! mor ddiogel y cyfrifwn di, pe gwelwn di yn ei "fynwes ef. Mor ofnadwy, o'r ochr arall, yw meddwl y gellit "fod, fel oen gwirion a digymhorth, yn safn y diafol, y llew "rhuadwy!

"Yr arwydd sicraf o'th fod wedi dy waredu o safn y diafol, ac "yn mynwes Crist, ydyw dy fod yn gweddïo llawer am dy "waredu o feddiant Satan, ac yn rhoi dy hunan bob dydd i "Grist. Pan oeddit yn dechreu cerdded, mi fyddwn i yn dy "osod â'th gefn ar y pared (rhag i ti syrthio), ac yna yn myned "i'r cŵr arall i'r ystafell, yn agor fy mreichiau, ac yn dy wahodd "i redeg i fy mynwes. Felly y mae Iesu Grist yn dy wahodd "i redeg i'w fynwes yntau. Rhed, rhed yno. . . . . . . ."

Yn ngwyneb yr ymdrech y dechreuasid arno, ond oedd erbyn hyn wedi ei roddi heibio i fesur mawr, i ffurfio cronfa tuag at gynhaliaeth yr Athrofa yn y Bala, fe godwyd rhyw deimlad mewn llïaws mawr dros symmud yr Athröfa o'r Bala i ryw le y tybid fyddai yn fwy manteisiol i'r efrydwyr i ddysgu yr iaith Saesonaeg. Yn gymmaint a bod y fath deimlad yn y wlad, ac y dywedid gan rai ei fod yn ffynu yn gyffredinol, fe benderfynwyd yn Nghymdeithasfa Pwllheli i'r achos ddyfod dan sylw yn y Gymdeithasfa ganlynol. Ac felly fe'i cymmerwyd i ystyriaeth yn Nghymdeithasfa Llanrwst, Rhagfyr 27, 28, 1849, ac fe dreuliwyd un Cyfarfod, boreu Rhag. 27, yn gwbl arno. Fe ddywedwyd cryn lawer gan rai am briodoldeb y cyfryw symmudiad, a'r angenrheidrwydd hollol oedd am hyny tuag at i'r athrofa allu sicrhau, yn y modd mwyaf effeithiol, amcan ei sefydliad; tra yr oedd ereill, a'r nifer mwyaf, dybygid, yn gryf am ei gadael lle yr ydoedd a'r lle yr oedd wedi bod mor llwyddiannus. Ond ni wnaeth neb gymmaint a chynnyg, wedi yr holl siarad, fod iddi gael ei symmud. Yr unig benderfyniad y daethpwyd iddo ydoedd,—"Fod diolchgarwch y Gymdeithasfa yn cael ei roddi i Gyfarfod Misol Sir Feirionydd, ac yn neillduol i gyfeillion y Bala, am eu caredigrwydd tuag at, a'u gofal am yr Athrofa er ei sefydliad hyd yn hyn." Gan fod Mr. Rees ar y pryd yn Llundain, nis gallai fod yn bresennol yn y Gymdeithasfa; a chan y dyddordeb mawr a gymmerid ganddo yn yr Athrofa, a'r argyhoeddiad dwfn oedd yn ei feddwl o'r dechreuad y dylasai hi fod mewn rhyw le mwy manteisiol i ddysgu Saesonaeg na'r Bala, yr ydym braidd yn tybied y buasai efe yn gryf dros ei symmud, os gallasai obeithio gwneuthur hyny heb archolli teimladau y cyfeillion yn y Bala, ac yn Sir Feirionydd.

Yr oedd Mr. Rees ychydig cyn hyn wedi ysgrifenu Rhagdraethawd i gyfieithiad i'r Gymraeg o'r "*Church in Earnest*," o waith Mr. James o Birmingham, a gyhoeddasid gan Mr. Gee o Ddinbych; ac yn y rhifyn o'r *Traethodydd* am Ionawr, 1850, *tudal.* 125—134, fe ymddangosodd erthygl, yn fath o adolygiad ar y llyfr a'r rhag-draethawd. Wedi darllen yr erthygl hono,

ac wedi clywed am y penderfyniad y daethid iddo yn Nghymdeithasfa Llanrwst, efe a ysgrifenodd y llythyr canlynol at Mr. Edwards o'r Bala, ryw bryd yn nechreu 1850, tua Ionawr 14, ni a dybiem, neu Ionawr 21:—

"Llundain, Llun Prydnawn.

"ANWYL GYFAILL,—Er nad oes genyf ddim i'w adrodd nac "i'w ofyn, teimlais awydd i anfon gair atoch yn ystod fy arosiad "yn y lle hwn. Mae Mr. Prytherch a minnau yma yn "bresennol; ac yr ydwyf yn ei ddysgwyl ef yn awr bob munud "i'r tŷ lle yr wyf yn ysgrifenu, i gyd-yfed *tea*, cyn myned i'r "*Society*. Mae pob peth yn bur dawel yma ar hyn o bryd, ac "aml un yn d'od i'r eglwys, ond marwaidd ac isel yw'r olwg ar "grefydd. . . . . . .

"Cefais gip-olwg ar y *Traethodydd* yn ddiweddar; a gwelais "eich bod wedi fy adolygu i a'm rhagdraethawd yn bur garedig. "Yr ydwyf yn teimlo yn ddiolchgar i chwi am roi barn mor dda "arnom, er nas gallaf lai na meddwl ei bod yn rhy ffafriol. Mi "a ddymunwn fod yn deilwng o'r fath *opinion*, ac o *opinion* y "fath wŷr ac ysgrifenwyr y *Traethodydd*. Mi a wnaethum fy "ngoreu neithiwr mewn ffordd o gymhell y cyfeillion yn "Grafton Street, i ledaenu y *Drysorfa*, y *Geiniogwerth*, a'r "*Traethodydd*. Ychydig, yr wyf yn ofni, sydd yn cael eu "lledaenu yma.

"Clywais na phenderfynwyd symmud yr Athrofa o'r Bala. "Nid oeddwn i yn caru ymyryd yn y mater, oni buaswn yn "bresennol. Ofni er hyny yr wyf yn barhaus na bydd yr ysgol "ddim mor uchel yn ngolwg llawer a phe buasai mewn lle mwy "Seisnig; oblegid dysgu Saesonaeg yw yr oll y mae llawer yn "dybied yn angenrheidiol, ac y maent yn dychymygu nas gellir "gwneuthur hyny cystal yn y Bala. Clywais ar ol dyfod yma, "fod 6 neu 7 o ddynion ieuainc wedi myned i Scarisbrick at Mr. "Jenkins—a bod dau neu dri o honynt o Sir Feirionydd. A yw "hyny yn wirionedd?

"Ond y mae Mr. Prytherch wedi dyfod: ac y maent yn "dysgwyl am dê. Nis gallaf feddiannu fy hun i ysgrifenu

"ychwaneg. Gofynais i Mr. Prytherch a gawn ei gofio ef atoch. "'O gwnewch, yn y modd mwyaf caredig,' medd efe; 'un o'r "anwyliaid yw efe.' Mae fy ngwraig hefyd yn cofio atoch "chwi, a Mrs. Edwards, a'r holl deulu.

"Yr eiddoch yn garedig, Henry Rees."

Y Mr. Prytherch y cyfeiria ato yn y llythyr blaenorol, oedd yr hen weinidog bywiog a thwymgalon, y Parch. John Prytherch o Fôn, yr hwn, yn unol â chais y cyfeillion yn Llundain, a threfniad Cymdeithasfa Pwllheli, oedd yno, ar y pryd, yn gwasanaethu yr Achos; a'r hwn, yn yr ysbryd heddychol a'i llywodraethai, y serchawgrwydd tymher oedd yn naturiol yn eiddo iddo, a thanbeidrwydd ei zel gydâ phob gwaith da, oedd yn arbenig yn gyfaddas i amgylchiadau yr eglwys yn Llundain, wedi misoedd lawer o derfysg ac ymryson, hynod o annedwydd.

Wele lythyr eto a ysgrifenodd at ei ferch, yn mhen ychydig wythnosau:—

"London, Feb. 26, 1850.

"My dear A.,—. . . . . . . I have been turning about in my "own mind in search of some clear way to convince you of the "necessity and reasonableness of paying great deference to the "opinion and sentiments of your parents and seniors in years. "Depend upon it, age has always a word to say, which it will be "wise in youth to listen to and consider. . . . . . . . . .

"A great writer tells me that the good house wives of this "great city inform him, that there is hardly a good needle-"woman to be found in London. There are plenty of them too, "all fond of high wages, and good things to eat and drink, but "their sewing proves too often, he says, a distracted puckering "and botching. Do not laugh at this; to me it is exceedingly "melancholy. What will become of the world if thriftiness, "and industry, and honesty, are deserting it? For my part, I "would rather the one finger of the tailor paved by the marks "of the needle, than the eight fingers of the *would-be* lady,

"which can do nothing but thump the piano. There is cunning, "my girl, in that black finger of the tailor's, ay, cunning enough, "perhaps, to bring him a livelihood. The blackness of it "is his glory, and not his shame, for it is a proof of industry "and work. . . . . . . .

"Such things are worth your ambition; they are truly noble "things. But of the *would-be* lady, with tender hands, fine clothes, "haughty looks, with no qualification for a world of trouble,— "no idea of being useful, I can only say, Oh! oh! She would "not be a teacher, you may depend upon it,—not she; for she "has none of the spirit of Him who came from heaven, and "opened a little school for fishermen, and put out His Circular, "'Learn of me, for I am meek and lowly in heart.' . . . . . . . .

"Do not build castles in the air. You will find, when you "lose your thread, or your needle, if you ask your mind where "they are, it may frequently answer, and say, 'I do not know "where your hand put them, for I was not at home,—I was in "the castle above, revelling in imaginary pleasures.' Keep your "mind at home; think where you put everything out of your "hand. Some young women have made themselves the objects "of my reverence, because they could tell where everything was "to be found, the moment I asked them."

Onid dedwydd mewn gwirionedd, y ferch ieuanc ag yr oedd ganddi y fath gynghorwr? Yn y llythyrau hyn, am y rhai, yn ddiammeu, nad oedd eu hawdwr yn coledd yr un dychymyg y cawsent byth gyhoeddusrwydd yr Argraph-wasg, y mae yn anmhosibl peidio canfod y tad serchog a gofalus, y Cristion ffyddlawn a manwl, a'r athraw addfwyn a doeth; ac fe'n siomir ni yn annghyffredin, os na bydd y darllenydd yn eu gwerthfawrogi yn fawr.

Arosodd yn Llundain y pryd hwn, lle y bu ei lafur yn hynod o lwyddiannus, hyd dros y Pasg, 1850, a dychwelodd i Liverpool cyn y Sabboth, Ebrill 7. Yr oedd yn bresennol yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug, Ebrill 16, 17, 18. Yr oeddem ninnau

yno, ac yr oeddem yn lletya gydâ'n gilydd. Yr oeddem ni wedi addaw myned i Lundain at y Sabboth, Ebrill 21, gydâ'r bwriad o aros yno hyd ddiwedd y flwyddyn. Er ein bod wedi bod yno am rai misoedd o'r blaen, ac yn adwaen y cyfeillion yn lled dda, eto, oblegid yr ymrysonau annghysurus oeddent wedi bod yno er ein hymweliad blaenorol, yr oeddem yn teimlo yn dra phryderus, fel yr oedd yn dda iawn genym gael y cyfarfyddiad hwn âg ef. Cawsom lawer o ymddyddan â'n gilydd am yr Achos yno, a llawer o awgrymiadau gwerthfawr ganddo o berthynas iddo. Ac yn ystod y naw neu y deng mis yr arosasom yno y pryd hyny, cyn ymsefydlu yn gwbl yno, yn gystal ag yn y blynyddoedd canlynol, ni a gawsom ddigon o brofion ei fod yn adwaen y bobl yn hollol, ac yn deall yn drwyadl y peryglon ag yr oedd yr Achos yn eu plith yn neillduol yn agored iddynt. Yr oedd yn dra gobeithiol, pa fodd bynnag, fod pethau ar y ffordd i wellhau yn gwbl yno yn fuan. "Yr wyf yn gobeithio," meddai, "y bydd i chwi mewn un peth o leiaf fy nilyn i,—mewn ymdrech i roddi terfyn am byth i'r ddau deimlad annedwydd rhwng Dê a Gogledd sydd wedi ei godi yno. Dyna y drwg mawr a wnaeth ———— yno. Ond fe ddarfyddai, yr wyf yn coelio, yn Llundain yn bur fuan, oni b'ai fod rhyw rai yn Nghymru fel yn penderfynu ei gadw yn fyw." Nid rhaid i ni ddywedyd i ni ymdrechu yn hollol at hyny, ac yr ydym yn credu na buom, dan fendith y nefoedd, yn hollol aflwyddiannus.

Ysgrifenwyd y llythyr canlynol ganddo at ei gyfaill hoff, y Parch. William Roberts, Amlwch:—

"Liverpool, Mai 10, 1850.

"Anwyl Frawd,—Gosodwyd arnaf fi yn Nghyfarfod y Blaen-
"oriaid i anfon atoch i ddatgan ein llawenydd yn y gobaith o'ch
"gweled yn ein Cymmanfa y Sulgwyn, ac i hysbysu i chwi
"ein dymuniad, ar i chwi feddwl am roi gair o Gyfarchiad i'r
"ieuenctyd yn y cyfarfod eglwysig y boreu ddydd Llun. Yr
"ydym yn eich gadael yn hollol at eich rhyddid ar ba beth i'w
"ddyweyd. Y mae rhyw ysbryd rhyfeddol o ymgynnull at eu

"gilydd i ganu, areithio, a dadleu, yn mysg y bobl ieuainc; "hwyrach y gwyddoch chwi pa rywogaeth ydyw, ac o ba le y "daeth: yr ydwyf fi, yn fy anwybodaeth yn ei ofni. Bu "yma ryw gantorion rhyfeddol o Sir Gaernarfon, yn yr Wyl "Ddirwestol ddiweddaf. Nid oeddwn i gartref; ond, hyd y "gallaf ddeall, rhyw ganu digon annghymwys i le o addoliad "ydoedd. Ond mi a glywais fod rhai o'r bobl yma mewn rhyw "*gommittee*, yn ystyried, ai nid gwell fuasai anfon am dri ugain "o'r cantorion hyny i ddyfod i ganu i'n Cymmanfa! Yr wyf "yn hyderu fod hyny wedi ei daraw yn ei ben. Ond y mae'r "cryfder, yr ysgafnder, a'r ysbryd sydd yn dangos ei hun mewn "bod yn esgud i lefaru ac i ddigofaint, ac yn ddiog i wrando "cyngor na chyfarwyddyd, yn sicr yn elfenau a barant flinder "i'n heglwysi yn y blynyddoedd sydd yn d'od.

"Nis gwn yn iawn beth a fydd y mater i ymdrin âg ef boreu "Llun. Ond gwn, pe dywedech air yn erbyn y bydolrwydd "hwnw sydd yn gyru dynion i anturiaethau ynfyd mewn amser- "oedd o lwyddiant, ac wedi hyny i dori i fynu mewn *panics*,— "neu, os nad i dori i fynu, eto i ymguro dros flynyddoedd mewn "gofalon, ac i ymnyddu yn bob lliniarau wrth geisio ymrwyfo "yn mlaen mewn amgylchiadau dyrys, nes y mae'r galon yn "trymhau a gelynion crefydd yn cablu—gwn, meddaf, y gallai "gair ar hyn fod yn lles. Cofiwch fi at Mrs. Roberts a'r teulu. "Yr ydym ni yn awr y drws nesaf i Mr. Samuel Davies.

"Yr eiddoch yn garedig, HENRY REES."

Fe ysgrifenwyd y llythyrau canlynol hefyd, ni a dybygem, rywbryd yn ystod y flwyddyn 1850, er nad oes dyddiad wrthynt. Fe gyfeiriwyd y cyntaf, dybygid, at Mrs. Rees, tra ar yr un pryd y mae yn amlwg ei fod wedi ei fwriadu i'r ferch hefyd.

"It would be well to study the elements of a great character. "What are they? Are they pride, vanity, giddiness, obstinacy, "baseness, deceit, disobedience? Never, never will a man of "that disposition be either good or great. Jesus Christ was not "so. Oh! let A—— study His blessed character and rest upon

"His death for salvation, and make it her aim to be of the same "mind, temper, and disposition. The Spirit of our God can "renew her. But He works through them that He works in. I "mean thro' their watchfulness against sin; thro' their efforts to "resist temptation; thro' their prayers for grace; thro' their "avoiding bad books, bad company, and everything that corrupts "the taste and the thoughts of the heart. I would not read "vain things, for my mind is vain and trivial enough already. "I would recommend A. to read nothing, but what has a "tendency to make the heart more pure, the taste more chaste, "and the judgment more correct, firm, and strong."

Wele ran o lythyr arall, a ysgrifenwyd at ei ferch, rywbryd yn 1850:—

"I would not make you melancholy, but I wish I could make "you a thinking reasonable creature, that will look upon the "world, as a Christian and a philosopher look upon it. I wish I 'could persuade you not to indulge in dreams and reveries, but "to be diligent to prepare yourself for the duties of life. I 'would not have you to take your idea of the world from novels "and foolish fictions, which feed the minds of silly girls, until "their false excitements and elations end in melancholy and "depression of spirits. . . . . . . Do not read foolish tales that "can only help you to laugh. I would have you to read some-"thing that will help you *to think*, and strengthen your mind "and reasoning powers."

Y mae genym ran o lythyr a ysgrifenwyd ganddo naill ai yn Haf 1849 neu 1850. Yn y darn llythyr hwn yr ydym wedi cyfarfod â'r arwyddion cyntaf o ryw ludded a llesgedd a deimlid ganddo, a barent iddo ddyheu am orphwysdra a llonyddwch, yr hyn y parhäodd i ddioddef i raddau mwy neu lai oddiwrthynt hyd ddiwedd ei oes. Feallai i'r llythyr gael ei ysgrifenu yn y Bala yn ystod y Gymdeithasfa, 1850, ac wedi bod o hono yn Llanfair, Sir Drefaldwyn, y Sabboth blaenorol. Ond am hyny nid oes dim sicrwydd.

"I am up since four o'clock this morning. Pur flin ydwyf. "Yr oedd genyf daith fawr ddydd Llun o Lanfair i'r Bala, ac un "oedfa ar y ffordd. Ac yr oedd gwaith y Sabboth yn galed— "gorfod sefyll yn y ffenestr y nos, wedi pregethu ddwywaith o'r "blaen. Byddaf weithiau mor ffol a grwgnach, ac yn teimlo fy "hun yn dyheu am lonydd a gollyngdod.

"The country looks beautiful; but man everywhere is like a "withered plant under a blast. To go out of the society of men, "to the society of trees, birds, brooks, and the green fields with "their beautiful flowers, is very agreeable."

Yn y llythyr canlynol yr ydym yn cael enghraifft o'r cymhwysderau digyffelyb braidd oeddent eiddo iddo i ddiddanu rhai mewn amgylchiadau profedigaethus a galarus. Fe'i hysgrifenwyd ganddo at gyfaill iddo, oedd yn flaenor eglwysig, Mr. Edward Owen, Bodrochwyn, ger Abergele, wedi claddu ei wraig:—

"15, Gibson Street, Ebrill 14eg, 1851.

"Anwyl Gyfaill,—Wrth edrych dros fy llythyrau, pa rai "oedd yn gofyn am atebiad, cefais yr eiddoch chwi yn eu mysg "hwy; ac er fy mod wedi eich gweled yn Rhuthyn, ac nad oes "genyf ddim o werth eich sylw i'w anfon atoch, a'i bod bellach "yn faith amser er pan dderbyniais eich llythyr, yr hwn, o "herwydd cydgyfarfyddiad amrywiol achosion, a adewais heb ei "ateb; eto yr wyf heddyw yn cael ar fy meddwl i anfon y "llythyr hwn atoch, yn unig i ofyn pa fodd yr ydych. Am "danaf fi, gwael ydwyf, er pan ddychwelais o Ruthyn. Heb i "mi feddwl, a chyn i mi agor fy llygaid, yr ydwyf yn cael fy "oes wedi darfod; nid oes genyf bellach ond prydnawn byr heb "ei orphen, a hwnw yn debyg o gael ei dreulio mewn nychdod— "mae holl ymadfertheodd corph a meddwl wedi darfod.

"Nis gwn yn iawn pa fodd i alaru ar ol neb 'duwiol' ag sydd "wedi myned i'r bedd. Oblegid yr wyf yn edrych weithiau "arno gydâ rhyw bleser pruddglwyfus yn gymmysgedig âg "ofnau, ac yn teimlo gradd o hiraeth am fod ynddo fy hunan.

"Gwelais y rhïeni weithiau yn rhoi y plant yn eu gwelyau "cyn ymosod ar ryw orchwylion trymion. Erbyn y deffroent "hwy yn y boreu byddai y cwbl drosodd, a'r rhïeni yn barod "i'w croesawu at eu chwaryddiaethau. Y mae gan ein Tad "nefol, wrth bob tebyg, swm o waith caled i'w wneuthur yn y "byd y blynyddoedd hyn. Ond caiff rhai o honom ein rhoi yn "y gwely pridd cyn ei gyflawni ef. A thra y byddwn ni yn "cysgu yn dawel yno, bydd ef yn myned â'i waith yn mlaen— "yn galw yr Iuddewon; yn barnu Babilon; yn dadymchwelyd "hen sefydliadau drygionus, a hyny gydâ rhuthr dychrynadwy. "Drannoeth cawn ninnau godi i fwynhau y nefoedd newydd a'r "ddaear newydd, lle y bydd cyfiawnder yn cartrefu byth. Yn "y rhagorfraint uchod, y mae eich anwyl wraig wedi cael y blaen "arnom ni, a gobeithiaf fod eich cariad ati hi yn gyfryw, a'ch "ymostyngiad i ewyllys Duw yn y tro hwn y fath, fel pe byddai "gair o'r eiddoch yn ddigonol i'w dwyn hi yn ôl i'r byd hwn, "na chai y gair hwnw byth mo'i adrodd. Yr wyf yn foddlawn "i chwi hiraethu, ond nid grwgnach. Y mae galar a hiraeth yn "deimladau ag y gellwch chwi eu troi i ogoniant Duw, a chael "llawer o lesâd i chwi eich hunan trwyddynt. Pan y byddo "eich mynwes yn orlawn o honynt, rhowch arllwysiad iddynt "wrth orsedd gras, mewn cyffes edifeiriol o bob bai, datganiad "o'ch cymmeradwyaeth o ymddygiadau yr Arglwydd tuag atoch, "a'ch penderfyniad i beidio â grwgnach i'w erbyn, yn nghydâ "gweddïau taerion am ei help ef i ddyfod drwy y brofedigaeth "hon yn ogoniant i'w enw ef. Hwyrach eich bod yn barod i "ddywedyd,—'Ië, ond y mae fy ngholled i yn fawr. Y mae fy "ngwraig, mam fy mhlant, yn yr hon yr oedd fy nghalon yn "ymddiried, wedi fy ngadael i ymrwyfo drwy drafferthion y "byd fy hunan.' Y mae hyny yn bod; ac yr wyf yn cydnabod, "nas gwn faint o brofedigaethau ac annghysuron newyddion "sydd wedi dyfod i'ch rhan drwy hyny. Ond gwn y gall Duw "gyflawni pob diffyg; a gwn hefyd y gwna hyny os cewch chwi "ysbryd i nesau ato ef, ymostwng ger ei fron, a chyflwyno eich "hunan, eich plant, eich tŷ, eich ffarm, a'r cyfan i'w nodded ef;

"a gwir ddymuno bod yn fendigedig ganddo a chysegredig i'w "achos.

"Y mae dau gyfeiliornad y dymunwn i chwi eu gochelyd yn "y brofedigaeth hon:—

1. "Dirmygu cerydd yr Arglwydd;—hyny yw, edrych ar y tro "yma fel rhyw ddigwyddiad cyffredin, heb weled llaw Duw "ynddo, a deffro i holi eich hunan pa fodd yr ydych wedi "ymddwyn tuag ati ar hyd eich bywyd. Gadael i'r oruchwyl- "iaeth fyned heibio—ac erbyn y byddo ei heffaith naturiol hi "drosodd, a'ch hiraeth wedi darfod, dyna y cwbl wedi darfod: "a'ch ysbryd yr un fath ag o'r blaen: dim dyfnach adnabydd- "iaeth o ddrwg y galon, dim dychweliad newydd at Dduw, dim "golwg newydd ar Grist, dim mwy o ostyngeiddrwydd, hunan- "ffieiddiad, ysbrydolrwydd, yn eich rhodiad cyffredin gydâ Duw; "na dim mwy o awydd bod yn well dyn, yn well Cristion, yn "well blaenor nag erioed o'r blaen. Gwyddoch fod yr anifail "yn cael poen oddiwrth ei glefydau, ac yn gruddfan o danynt "tra y parhäont; ond wedi cael esmwythâd a gwellhâd, "y mae efe yn annghofio y cyfan. O! y mae dyfod fel "anifeiliaid drwy ein profedigaethau, yn ddirmygu cerydd yr "Arglwydd yn wir! Ond cofiwch yn

2. "Beidio ymollwng pan y'ch argyhoedder ganddo. Y mae "hon yn agwedd bur wahanol i'r llall, eto y mae hi yn llawn "mor beryglus a phechadurus. Tybir yma fod y dyn, nid yn "unig yn cael ei geryddu, ond y cerydd allanol yn dwyn ar- "gyhoeddiad i'w gydwybod yn dufewnol, ac yn dangos iddo "ddyfnion agweddau cyfeiliornus ei ysbryd ger bron Duw. Y "mae hyn yn dda iawn. Ond y drwg yw, ymollwng pan ein "hargyhoedder ganddo, yn lle dychwelyd mewn edifeirwch at ei "draed ef, a cheisio maddeuant a meddyginiaeth trwy waed "Crist. Pe b'ai eich cydwybod yn dywedyd wrthych y dyddiau "hyn,—'Yr wyt ti wedi bod yn rhy ddaearol dy serchiadau, yn "rhy ffurfiol a difywyd yn dy weddïau, yn cymmeryd dy wneyd "yn fugail yn yr eglwys, ac eto yn llafurio ond ychydig am "ddim i borthi praidd Duw;' peidiwch ag ymollwng, anwyl

'frawd, o dan argyhoeddiadau fel hyn. Nesewch at Dduw yn "Nghrist; ac fe gewch achos i'w fendithio am ei geryddon "allanol a thumewnol tra byddoch byw. Ond pe baech chwi "yn dechreu ymollwng, nid oes neb a ŵyr beth fyddai y diwedd. "Yn fuan, fe fagai yr ymollyngdod chwerwder a meddyliau "caled am yr Arglwydd; ac fe allai y cyfan ddiweddu mewn "diffrwythdra, cwsg, caledwch, a dideimladrwydd am flynydd-"oedd. Ond y mae genyf fi obaith yn cyrhaedd agos i sicrwydd, "nad felly y bydd hi gydâ chwi; ond y bydd i'r Arglwydd eich "bendithio yn y tro yma â'ch cyfarfu, a'ch gwneyd yn fendith "i'r eglwys a'r gymmydogaeth yn yr hon yr ydych yn byw.

"Pe byddech chwi yn teimlo eich hun yn myned i feddwl yn "galed am Dduw, ac i ammeu ei gariad atoch, mi dybiwn y "gallech ei glywed ef yn ateb,—'O! fy mhlentyn, yr wyt ti yn "ddrwg dy naws. Mi a gymmerais dy wraig di ymaith i gyffroi "dy galon, ac i ddwyn allan dy gariad di ataf fi yn fwy. A "dyma dithau yn meddwl nad oes genyt ddim i'w wneyd ond "ammeu fy nghariad i. Nage, fy mhlentyn: y neb y mae yr "Arglwydd yn ei garu y mae yn ei geryddu. Dychwel, i ti "brofi fod dy Dad yn fôr o gariad.'

"Yr eiddoch yn ffyddlawn, H. REES."

Ysgrifenwyd y llythyr canlynol ganddo at Mr. Roger Edwards:—

"Gibson Street, Mai 2, 1851.

"ANWYL GYFAILL,—Aethum â'm truth gydâ mi i Langollen, "gan ddysgwyl eich gweled yno a'i adael i'ch gofal. Ond nid "oeddych yn bresennol; a chan na chyfarfyddais âg Edwards "o'r Wyddgrug, rhoddais yr ysgrif i Edwards o'r Bala, ac felly "yn ei feddiant ef y mae yn awr. Mae hyna yn ddigon ar hyna.

"Am aros yn y Wyddgrug y Sabboth ar ol eich Cymmanfa, y "mae rhyw gynlluniau a bwriadau o'r eiddof yn gwneyd "ymrwymo i hyny yn beth anmhosibl. Mae yn debygol y "byddaf yn myned ffordd arall y Sabboth hwnw; ac y mae "amryw leoedd mwy dieithr i mi na'r Wyddgrug.

"Parhewch mewn gweddi, gan ddyfal lynu wrth yr Arglwydd "yn ddiwahân. Mynwn deimlo ein hunain yn byw llai i ni ein "hunain, hyny yw, yn darllen llai, yn astudio llai, yn pregethu "llai, ac yn ysgrifenu llai, i ni ein hunain; ond pa un bynnag "ai myfyrio, pregethu, neu ysgrifenu, eiddo yr Arglwydd a "fyddom ni.

"Dylem weddïo dros Lundain yn y dyddiau hyn. Mae yno "ddynion, fel yn Jerusalem gynt, o bob cenedl dan y nef. O na "thywalltid yr Yspryd megis ag y tywalltwyd ef yno, fel y "dychwelont adref wedi cael mwy nag yr oeddent yn ei geisio.

"Nid wyf yn gweled fawr o obaith i ni allu gwneyd unrhyw "gynllun yn nghylch Ordeinio cyn eich Cymdeithasfa chwi. "Nis gwn pa fodd i gael ein gilydd yn nghyd, yn enwedig gan "fod y rhan fwyaf o honom yn ddynion llwfr a hwyrfrydig.

"Cofiwch ni at Mrs. Edwards.

"Yr eiddoch yn garedig, Henry Rees."

Yr ysgrif y cyfeiria ati yn y llythyr blaenorol, ydyw yr un ar "*Rwymedigaeth Plant i'w Rhïeni*," a gyhoeddwyd yn y *Traethodydd* am Gorphenaf, 1851, tudal. 287—314; ac a ailgyhoeddwyd, yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 317—359. Pregeth oedd yr erthygl yn ei ffurf wreiddiol, a phregeth ardderchog dros ben. Nis gallai ei darllen, ni a dybiem, lai na bod yn fendith fawr i bobl ieuainc ein gwlad yn gyffredinol.

Yn y Gymdeithasfa a gynhaliwyd yn y Wyddgrug, Mehefin 11, 12, 1851, y penderfynwyd ein bod ni i gydsynio â chais cyfeillion Llundain, ac ymsefydlu yno, i gymmeryd gofal am yr Achos yn ein plith ni yn y lle. Yr oedd brodyr o Lundain, ac o Sir Drefaldwyn, yn dadleu eu hochr, fe ddywedid wrthym, yn rymus iawn: ond yr oedd Mr. Rees yn taflu ei holl ddylanwad yn mhlaid Llundain, ac felly y penderfynodd y Gymdeithasfa. Er ein bod ni yn bresennol yn y Gymdeithasfa, barnasom yn well peidio myned i'r cyfarfod yr oedd y cwestiwn hwnw yn cael ei ddadleu ynddo, fel ag i adael pawb, hyd ag y gallem ni, yn fwy rhydd i draethu eu meddyliau arno. Yr oeddym ni ein

hunain, ac ystyried yr holl amgylchiadau, yn teimlo yn analluog i benderfynu pa beth a ddylasem ei wneuthur; ac yr oedd yn dda iawn genym ein bod yn perthyn i Gyfundeb â llŷs ganddo, i un yn y fath gyfyng-gyngor, allu appelio ato. Yn ol y penderfyniad, ni a symmudasom i Lundain cyn diwedd y flwyddyn.

Y pryd hyn yn y Wyddgrug, yn yr oedfa am ddeg, ar ol Mr. Edwards o'r Bala, y clywsom gan Mr. Rees y tro cyntaf, y bregeth hynod iawn oedd ganddo oddiar 1 Cor. v. 5 —"*Cadw trwy Ddinystrio.*" Y mae wedi ei hargraffu yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 67—82; ac y mae yn un o'r rhai rhagoraf, yn ein bryd ni, o'r holl rai rhagorol sydd genym o'i eiddo. Yr oeddem gydâ'n gilydd drachefn, yr wythnos ganlynol, yn Nghymdeithasfa Amlwch, Môn, lle y pregethodd yr un bregeth gyda nerth a dylanwad mawr. Yr oeddem yn cydletya âg ef yma, megis ag yn y Wyddgrug; ac nid bychan y difyrwch oeddem yn gael wrth wrando ar Mr. Roberts ac yntau, yn ymdderian yn ddigrifol ddiniwed â'u gilydd, ac yn ymddangos â'r fath ymddiried y naill yn y llall, fel yr oeddem braidd yn tybied mai prin fod ganddynt un meddwl na theimlad nad ydoedd yn gyd-feddiant hollol rhyngddynt.

Fe hynodid y flwyddyn 1851, gan yr "*Arddangosiad Mawr*" yn Llundain, pryd, fel y gwelsom gyfeiriad yn un o lythyrau Mr. Rees, yr oedd dynion braidd o bob cŵr i'r byd wedi ymgynnull yno. Fe gymmerwyd mantais ar yr adeg hono gan ddyngarwyr Cristionogol, a chan Weinidogion Efengylaidd, i gynnal amrywiol Gymmanfäoedd mawrion, am ddyddiau olynol, yn y Brif Ddinas, er pleidio achosion daionus, a hyrwyddo llwyddiant gwir grefydd dros y byd. Cynhaliwyd Cymmanfa Heddwch: Cymmanfa fawr Ddirwestol; ac yn arbenig Cymmanfa y Cynghrair Efengylaidd. Hon oedd yr hynotaf o'r cwbl. Hi a barhäodd o foreu yr ugeinfed o Awst, hyd hwyr y trydydd o Fedi, am bythefnos cyfan o amser. Yr oedd yno Weinidogion a boneddigion Cristionogol o Loegr, Cymru, Scotland, yr Iwerddon, Ffrainc, Switzerland, Germany, Holland, yr America, Australia, a pharthau ereill y byd, yn perthyn i

tua hanner cant o wahanol enwadau crefyddol, ond oll yn ymddangos fel wedi eu toddi i'w gilydd yn ngariad yr Efengyl. Aeth Mr. Rees i fynu i Lundain, mewn rhan i weled yr Arddangosiad, ond yn benaf i'r Gymmanfa fawr hon, ac yr oedd wrth fodd ei galon ynddi. Yr oedd cael golwg ar gynnifer ag y clywsai gymmaint am danynt, a chlywed llawer o honynt yn siarad, ac yn neillduol canfod yr ysbryd rhagorol a'u llywodraethent oll, yn peri hyfrydwch mawr iddo. Yr oedd y Gymmanfa a'r gymdeithas i'w feddwl ef, yn rhyw ddarlun o "Gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig," ac yn peri iddo hiraethu braidd fwy nag erioed am y nefoedd.

Yn fuan iawn wedi dychwelyd o Lundain, yr oedd yn gorfod cychwyn tua Chaernarfon, i'r Gymdeithasfa a gynhelid yno, Medi 10, 11. Yn y Gymdeithasfa hòno fe neillduwyd y brodyr, Mr. Hugh Jones, Llanerchymedd; Mr. John Charles, Tabernacl; Mr. James Donne, Llangefni; Mr. David Davies, Caernarfon; a Mr. Samuel Roberts, Bangor, i'r holl waith.

Yn lle yr Araeth arferol, ar y fath achlysur, ar *Natur Eglwys*, fe ddodwyd ar Mr. Rees draddodi Araeth ar "*Ddyledswyddau yr Eglwys at ei Gweinidogion;*" yr hyn a wnaeth mewn modd nodedig o ddoeth ac effeithiol. Fe gyhoeddwyd yr Araeth hòno, wedi ei hysgrifenu yn fanwl ganddo ef ei hunan, yn y rhifynau o'r *Drysorfa* am Ionawr a Chwefror, 1852; ac y mae wedi ei hail gyhoeddi yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau, tudal. 415—442. Fe fyddai yn dda iawn genym ni pe cyhoeddid hi eto, yn llyfryn bychan i'w roddi yn llaw pob aelod eglwysig yn Nghymru. Yr ydym yn tybied yr atebai y fath gyhoeddiad ddiben daionus iawn i holl eglwysi ein gwlad.

Wele eto ranau o ddau lythyr o'i eiddo at ei hoffus ferch, a ysgrifenwyd ganddo tua y pryd hwn:—

"Sept., 1851.

"To-day you reached your 16th year,—four years older than "Jesus Christ, when he said to his mother, 'Wist ye not that I "must be about my Father's business.' Compare your mind "with His. Is there not a vast difference? Are not those things

"which were uppermost with him, almost forgotten by you?
"'My Father's business.' . . . . . . O! could you but say to vain
"thoughts, vain companions, and every temptation to read vain
"books,—and to spend any of your time in vain foolish talk,—
"as Jesus Christ said, 'How is it that ye seek me? Wist ye
"not that I must be about my Father's business?'"

Eto tua'r un amser:—"Beware of loud laughter, of affectation,
"of slothful habits. Whatever you have to do, let others be
"able to read mind and good taste in it. I think I can see in
"some people's work, that there was no mind introduced into it
"when it was being done. If it is only putting a few books
"together, or a few articles of furniture in order in a room, or
"even clothes in a box,—no soul, no mind, no taste, can be seen
"in anything they do. Cultivate good habits, good temper, good
"sense; yes,—by the help of Christ, cultivate a good heart."

Ysgrifenwyd y llythyr canlynol ganddo at gyfaill ar farwolaeth ei wraig, yr hon a fuasai yn dioddef gan anhwylder meddyliol am rai blynyddoedd, ond a adferasid ychydig cyn ei symmud i'w hiawn bwyll. Nid oes dyddiad wrth y llythyr, ond bu hi farw Ionawr 12, 1852:—

"ANWYL GYFAILL,—Bu'm yn meddwl ysgrifenu gair atoch
"aml dro, ar ol clywed am farwolaeth Mrs. Jones. Nid am fod
"genyf ddim neillduol i'w ddywedyd, ond yn unig i ddangos fy
"nghydymdeimlad â chwi, yn wyneb ymweliad mor ddisymwth.
"Yr oedd ei hadferiad o'i hanhwyldeb blaenorol, bron fel adgyfod-
"iad o feirw, ac i bawb o'i chyfeillion, ac yn enwedig i chwi a'ch
"plant, yn achos o lawenydd mawr. Ond nid oedd rhagluniaeth
"wedi bwriadu i'r llawenydd hwnw bara yn hir, ac felly fe'i
"terfynwyd trwy ei marwolaeth, yr hon oedd mor annisgwyl-
"iadwy a disymwth â'i hadferiad blaenorol. Nid i fyw ond i
"farw yr oedd y Brenhin mawr yn adferu iddi ei synwyr a'i
"galluoedd; nid i fod o ychwaneg o wasanaeth i chwi a'ch plant
"bach yn y byd hwn, ond i'r diben o wneyd ei hymadawiad o
"hono yn fwy cysurus i chwi a hwythau.

"Yr ydwyf fi yn edrych ar ei hadferiad i'w phwyll cyn ei "hymadawiad, yn ffafr fawr iawn i chwi a hithau. Gallasai fod "wedi marw yn wyllt a dyrys ei meddyliau, yn y gwallgofdŷ, "wedi bod flynyddoedd yn anabl i ymarfer crefydd tuag at "Dduw, serch na thynerwch tuag at ei theulu na'i chyfeillion. "Er na buasai marw felly yn un sail i dybied yn ddrwg am ei "chyflwr, eto fe fuasai yn llawer mwy gofidus i bawb oedd yn "ei charu. Ond yn lle hyny, dysgwyd hi, fel Nebuchodonosor, "i ddyrchafu ei llygaid tua'r nefoedd, a'i gwybodaeth a "ddychwelodd ati—tynerwch priod a mam a ail-flagurai yn ei "mynwes, a'i theimladau crefyddol a chyfeillgar a ymddangos-"ent drachefn,—ei harddwch a'i hoywder a ddychwelodd ati, "a'i hen gyfeillion a'i pherthynasau a'i ceisiasant, yn siriol a "diolchgar;—ïe, bendithiai, fel Nebuchodonosor, y Goruchaf, a "molianmai a gogoneddai yr hwn sydd yn byw byth. Wedi "hyn, cauodd ei llygaid ar y byd.

"Yr ydwyf yn edrych ar flynyddoedd olaf ei hoes, yn debyg i "ddiwrnod tywyll, tymhestlog, ond yn y prydnawn mae'r "ystorm yn gostegu, a'r haul yn gwneyd ei ymddangosiad, ac "yn tywynu yn adfywiol a hyfryd cyn myned o dan y gaerau.

"Bendithiwch yr Arglwydd, fy anwyl gyfaill, am y goleuni a "fu yn yr hwyr. Hyderaf y bydd yr Arglwydd yn bendithio y "tro hwn i chwi a'ch anwyl blant hefyd. I chwi, y mae yn "dwyn ar gôf fod diwedd y daith ddaearol gerllaw. Eich "gwaith mawr chwi, bellach, a ddylai fod—trefnu y tŷ, a "thynu eich traed i'r gwely, ac ymbarotoi i fyned i ffordd yr "holl ddaear. O! am allu marw mewn tangnefedd.

"Y mae i'r dygwyddiad galarus hwn ei amcan hefyd tuag at "eich mab a'ch merch. Cofiwch fi atynt, yn enwedig at John. "Y mae Duw yn dweyd wrtho ef trwy y tro hwn,—'Oni lefi di "arnaf fi, o hyn allan, fy Nhad, Ti yw tywysog fy ieuenctyd.' "Dyma y ddau wedi cael gwers yn foreu ar eu dyddiau, na wiw "ymddiried mewn cysuron daearol. Mae'n debyg eu bod yn "llawen iawn am adferiad eu mam. Ond eicaion ydoedd ei "hiechyd, ei synwyr, ei bywyd a'r cyfan. Cicaion, meddaf, a

"phryf wrth ei wraidd; ac erbyn heddyw, wele y cyfan wedi "gwywo. Wel! felly y caiff J—— a M—— brofi pob peth yn "y bywyd hwn.

"'Mae'r byd yn myned heibio a'i chwant hefyd; ond yr hwn "sydd yn gwneuthur ewyllys Duw sydd yn aros yn dragywydd.' "Bydd gan y rhai hyny ran na ddygir oddiarnynt, pan "ballo rheswm, iechyd, bywyd, a'r cwbl. Safant yn eu rhan "yn niwedd y dyddiau. Clywais i Mr. W., slipio yn bur "ddidrwst i'r nefoedd. Cofiwch fi at Mr. G. a'i deulu, a'r "cyfeillion. . . . . . . . . . ."

Yr oedd awyddfryd mawr yn meddyliau llaweroedd yn ein Cyfundeb, y blynyddoedd hyny, am i ni sefydlu Cenhadaeth yn yr Iwerddon, er ceisio ennill rhai o'n cyd-ddeiliaid pabaidd yno i ffydd yr efengyl. Dadleuid ganddynt ein bod yn llawn mor debyg o fod yn llwyddiannus yno ag yn Llydaw, ac y byddai y maes yn llawer nes atom, ac felly yn fwy uniongyrchol dan ein sylw; ac, yn neillduol, yr oeddent yn dadleu y gallai y Cenhadon a anfonem yno lafurio gydâ'r efengyl heb fod yn agored i'r bygythion a'r rhwystrau, yr oedd ein Cenhadwr yn Llydaw, ar y pryd, yn gorfod cyfarfod â hwynt oddiwrth y llywodraeth wladol yno. Yr oedd y cwestiwn, unwaith ac eilwaith oddiwrth amryw Gyfarfodydd Misol, wedi ei ddwyn i sylw y "*Bwrdd Cenhadol*," fel y gelwid ef. Yn Nghyfarfod y Bwrdd, a gynhaliwyd mewn cysylltiad â Chymmanfa y Sulgwyn yn Liverpool, Mai 29, 1852, fe gymmerwyd yr achos i ystyriaeth helaeth; ac yno, fe gytunwyd ar y penderfyniad canlynol:—"Ein bod yn dymuno i'r Parch. Henry Rees, a'r Parch. David Charles, Trefecca, fyned dros y Gymdeithas, yn nghorph yr Haf, i'r Iwerddon, i wneuthur pob ymchwiliad angenrheidiol, ac i ddwyn adroddiad ar y priodoldeb i ni ffurfio Cenhadaeth yno." Yr oedd Mr. Rees, ar y cyntaf, yn lled hwyrfrydig i gydsynio â chais y frawdoliaeth; ond wedi cryn lawer o gymhell, a gweled y câi, beth bynnag, orphwys yn hollol oddiwrth bob llafur cyhoeddus tra y byddai yno, fe addawodd fyned. Felly ar brydnawn Mercher,

Gorphenaf 7, hwy a adawsant Liverpool, yn yr Agerdd-long, am yr Iwerddon, lle y cyrhaeddasant boreu drannoeth. Yna aethant rhagddynt o gŵr i gŵr o'r wlad, yn neillduol y rhanau mwyaf pabaidd, gan sylwi yn fanwl ar foesau ac arferion y trigolion, a chan alaru wrth weled y wedd druenus oedd arnynt braidd yn mhob man. Wedi gwneyd eu taith, gadawsant yr Iwerddon ar brydnawn Mercher, Gorphenaf 21, a chyrhaeddasant Liverpool y boreu drannoeth. Fe roddwyd adroddiad nodedig o ddyddorol gan Mr. Rees am y daith hon, yn y Gymdeithasfa ganlynol yn Mhwllheli, yr hwn a dderbyniwyd gydâ diolchgarwch gan y frawdoliaeth; ac fe gyhoeddwyd sylwedd yr Adroddiad hwnw yn y *Traethodydd* am Ionawr, 1853, tudal. 85—91. Anfonwyd Adroddiad cyflawn am y daith i'r *Drysorfa;* yr hwn, y mae yn ddrwg genym ddywedyd, a gyhoeddwyd braidd yn aflerw, yn fân ddarnau, fis ar ol mis, o Hydref, 1852, hyd Medi, 1853. Y mae yn resyn mawr na buasai yr holl Adroddiad wedi ei anfon, fel yr oedd Mr. Rees unwaith wedi bwriadu, i'r *Traethodydd*, lle y cawsai ymddangos yn erthygl gyflawn gydâ'i gilydd, a chael dylanwad llawer mwy felly ar feddyliau ei ddarllenwyr, nag a gafodd, yr ydym yn ofni, yn y dull y cyhoeddwyd ef. Yr ydym yn cael ein tueddu i ddodi i mewn yma ychydig eiriau o ddiwedd yr Adroddiad yn y *Drysorfa;*—"Fel hyn y gorphenasom ein taith yn yr Iwerddon, gan geisio gwneyd y goreu o'n hamser, gydâ golwg ar yr amcan neillduol y'n danfonid ni o'i blegid. Gwelsom drueni tu hwnt i ddim a ddychymygasom o'r blaen—codai teimladau tra gofidus yn ein mynwes o ddydd i ddydd wrth yr olwg ar ansawdd y trigolion—llenwid ein hysbryd â thosturi ag oedd i raddau yn boenus; a braidd na orchfygid ein meddwl gan bryderwch ar fod i ryw foddion gael eu defnyddio tuag at oleuo a dyrchafu y genedl, achub y bobl o grafangau y Bwystfil Pabaidd, a'u dwyn i wybodaeth o'r gwirionedd. Tri pheth neillduol a dynai ein sylw yn mhob cŵr o'r wlad oeddynt,—y *Jail*, y *Poorhouse*, a'r *Barracks*—ffrwyth naturiol yr anghenfil Rhufeinig, meddem ni. Pe ceid ond chwareu teg i efengyl bur

yr Iesu ddyfod i gyffyrddiad â meddwl y llïaws, diflanai y rhai hyn yn fuan o'r golwg, yn ol graddau ei dylanwad sancteiddiol arnynt, ac ni 'chlywid mwy sôn am drais yn y wlad, na distryw na dinystr yn ei therfynau; ond gelwid ei magwyrydd yn iachawdwriaeth, a'i phyrth yn foliant.' 'Yr Arglwydd a brysuro hyny yn ei amser.'"

Yr oedd y Parch. John Foulkes wedi penderfynu cyhoeddi Cofiant i'r Parch. Thomas Lloyd, Abergele, yn llyfryn bychan wrtho ei hun, ac yr oedd Mr. Foulkes wedi llwyddo i gael gan Mr. Rees ysgrifenu Rhagdraethawd iddo, yn cynnwys sylwadau ar gymmeriad Mr. Lloyd fel Gweinidog ac fel Ysgolfeistr. Oblegid rhyw reswm neu arall, fe roddes Mr. Foulkes heibio y meddwl am ddwyn allan y *Cofiant* yn llyfryn felly ar wahân, ac fe'i hanfonodd i'w gyhoeddi yn y *Drysorfa*; lle yr ymddangosodd, yn y Rhifynau am Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin, a Gorphenaf, 1853; ac y mae yn Gofiant tra dyddorol. Yr oedd Mr. Rees wedi parotoi y Rhagdraethawd, a chydâ golwg ar yr hyn a ysgrifenasai ar Mr. Lloyd, ac ar Hanes y Daith i'r Iwerddon, fe ysgrifenodd y llythyr canlynol at Mr. Edwards o'r Bala:—

"39, Everton Terrace, 8—, 1852.

*(Nis gallwn benderfynu y dyddiad, ond ei fod yr 8fed o ryw fis tua diwedd*, 1852).

"Dymunwch arnaf anfon hanes ein taith i'r Iwerddon. Ond "ni pharotown i yn fy myw mo hono mewn dim amser erbyn y "tro nesaf. Ond y mae John Foulkes yn digaloni cyhoeddi "hanes Mr. Lloyd, Abergele. A gymmerech chwi hyny o "bortread ag wyf fi wedi dynu o hono ef? Byddai yn dda "genyf iddo gael ymddangos yn y *Traethodydd*. Y mae ef y "deyrnged oreu o barch a fedrwn i dalu, i ŵr a garwn yn fawr. "Nid yw yn dda iawn; ac yr wyf yn hyderu nad yw yn wael "iawn ychwaith. Pa fodd bynnag, y mae yn well na dim a ym-"ddangosodd eto am dano ef, oblegid ni welais i ddim wedi "ymddangos; ac, y mae yn bur debyg, yn well na dim a "ymddengys yr hawg hefyd. . . . . . . . . Mae ynddo hefyd

"gyfeiriad at hanes bywyd Mr. Lloyd, fel pe buasai wedi ei "gyhoeddi, ac yr wyf hefyd yn arfer *y fi*, yn lle *ni*, yn ol dull y "*Trethodydd.* Ond pe byddai gair o hysbysrwydd yn cael ei roi "o'i flaen yn egluro y bwriedid pan oeddid yn ei ysgrifenu, iddo "ymddangos gydâ hanes bywyd ei wrthddrych, mi feddyliwn y "byddai hyny yn ddigon o esgusiad dros wahaniaeth ei *style*, ac "o reswm am y cyfeiriadau at Mr. Lloyd. Byddai ei newid yn "y pethau hyn yn galw am ei ail ysgrifenu drosto. Yr wyf fi "wedi dwbio digon rhwng y llinellau eisoes. Byddai yn dda "genyf i chwi neu Mr. E. o'r Wyddgrug ei weled, i edrych a "fedrwch chwi ei ddeall heb ei ail ysgrifenu. Mae yn ei ddi-"wedd air byr am ereill o hen bregethwyr Sir Ddinbych. Mae "yn traethu tipyn ar werth addysg a phynciau cyffredin ereill. "Yr wyf yn dyweyd hyn fel y galloch farnu yn well a all e gael "ymddangos ai peidio. Byddai yn dda genyf fod o fwy o help "i'r *Traethodydd.* Ond y mae ysgrifenu llawer, y mae arnaf "ofn, yn beth nad wyf wedi fy ngalw iddo, nac yn alluog arno. "Nid oes genyf ddim a allaf ei gymhell i chwi yn fwy calonog "na'r traethawd hwn."

Y mae gostyngeiddrwydd yr awdwr, yn y llythyr blaenorol, mewn gwirionedd yn ein synu ni. Nid rhaid i ni ddywedyd i'r erthygl gael ei derbyn gan Dr. Edwards gydâ diolchgarwch calon; ac wedi ychydig gyfnewidiadau, i gyfarfod ffurf y *Traethodydd*, fe'i cyhoeddwyd yn y rhifyn am Ebrill, 1853, tudal. 231 --260; ac y mae yn ddiammeu yn un o'r erthyglau mwyaf dyddorol ac addysgiadol a ymddangosodd ynddo erioed.

Yr oedd yn nodedig o bryderus yn nghylch ieuenctyd ein cenedl, ac yn neillduol ieuenctyd ein heglwysi, ac yn arswydo drwyddo rhag iddynt mewn un modd gael eu llithio oddiwrth symledd yr efengyl o ran eu syniadau, ac oddiwrth ei phurdeb hi o ran eu hymarweddiad: ac yn ganlynol yr oedd bob amser yn barod, yn nghanol ei holl orchwylion ereill, i gydsynio â phob cais a wneid arno i'w cynnorthwyo yn mhob modd ag y gallai yn y cyfarfodydd a gynhelid ganddynt yn eu plith eu

hunain er cynnydd eu diwylliant meddyliol. Traddododd felly iddynt, o bryd i bryd, amryw Annerchiadau gwerthfawr, y rhai nas gallent lai na bod o les neillduol i'r rhai a'u gwrandawent; ac y mae yn resyn mawr na buasent oll ar gael, er budd ieuenctyd ac ereill am oesoedd. Yr ydym yn cael un o'r Annerchiadau hyny, a draddodwyd ganddo yn niwedd y flwyddyn 1852, i Aelodau Cymdeithas Gwŷr Ieuainc, Liverpool, wedi ei gyhoeddi yn *Y Methodist* am Mawrth, 1853, tudal. 57—64. Cyhoeddiad misol bychan, ond da ragorol oedd *Y Methodist*, yn dyfod allan ar y cyntaf, am ddwy flynedd yn Ninbych, dan olygiad y Parch. Lewis Jones, Bala, ac wedi hyny yn Llanidloes am dair blynedd, dan olygiad y Parch. Edward Morgan. Y mae y Cyfarchiad hwn o eiddo Mr. Rees, ar y geiriau,—"Y gwŷr ieuainc yr un ffunud cynghora i fod yn sobr"—mor ragorol, ac mor gyfaddas i amgylchiadau ieuenctyd pob oes a gwlad, fel yr ydym yn gobeithio yn fawr y gallwn ei ddodi i mewn yn ein Hattodiad, gydâg amryw bethau ereill o eiddo ei awdwr, ag yr ydym ni yn teimlo ei bod yn resyn dirfawr na byddent yn nghyraedd miloedd ein cenedl.

Er nad ydym wedi gwneuthur cyfeiriad neillduol at ei deithiau a'i lafur y blynyddoedd diweddaf hyn mewn cysylltiad â'n Cymdeithasfäoedd, eto nid oedd odid Gymdeithasfa yn y Gogledd na byddai efe yn bresennol ynddi, ac yn cymmeryd rhan arbenig yn ei chynnadleddau neillduol, yn gystal ag yn yr oedfäon cyhoeddus. Yr oedd Cymdeithasfäoedd y flwyddyn 1853 yn rhai pwysicach nag arferol, oblegid y sylw a gymmerid ynddynt ar yr angenrheidrwydd am ryw drefn newydd i dderbyn rhai i'r Weinidogaeth yn ein plith fel Cyfundeb, ac i ddarpar rhyw foddion neillduol i gynnal y rhai a gymmeradwyid fel ymgeiswyr am dani, tra yn derbyn eu haddysg yn yr Athrofa. Yr oedd y Gymdeithasfa gyntaf am 1853 yn Nolgelleu, Mawrth 23, 24, 25; ond yr oedd Cyfeisteddfod lïosog wedi ei bennodi gan Gymdeithasfa Dinbych, Rhag. 30, 1852, i gyfarfod yn y Bala, Mawrth 22, i rag-ystyried, ac i geisio ffurfio rhyw gynllun i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa, gydâ golwg ar

y cwestiynau neillduol oeddent i ddyfod dan ei sylw. Yr oedd Mr. Rees yn teimlo yn ddwys iawn o berthynas i'r rhai hyny, ac felly yr oedd yn cymmeryd rhan arbenig yn yr ymdriniaeth; ac efe oedd â'r llaw benaf yn ffurfiad y penderfyniadau, y rhai, wedi oriau lawer o ymddyddan ac ymgynghori, y daeth y Cyfeisteddfod yn y Bala yn gwbl unfrydol iddynt. Cyflwynwyd hwynt i'r Gymdeithasfa yn Nolgelleu, lle yr oedd y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, yn llywyddu: ac wedi llawer o ymddyddan, cytunwyd yn unfrydol,—eu bod i'w cyflwyno i sylw ac ystyriaeth yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, a bod golygiadau y Siroedd arnynt i gael eu dwyn i'r Gymdeithasfa ganlynol yn Machynlleth.

Yn y Gymdeithasfa yn Machynlleth, Mehefin 8, 9, 10, a'r diweddar Barch. Moses Parry yn y gadair, fe ddaeth y penderfyniadau dan sylw drachefn, a chafwyd fod yr holl Gyfarfodydd Misol yn eu cymmeradwyo; ac, wedi cryn lawer o ymddyddan arnynt, fe'u derbyniwyd yn unfrydol gan yr holl frawdoliaeth. Yn gymmaint a'u bod yn cynnwys rhai cyfnewidiadau lled bwysig, ac er eu cael i orwedd yn esmwyth ar yr eglwysi yn gyffredinol, ac er cadw yn ofalus at yr arferiad gyffredin yn ein plith gydâ phethau o'r fath, daethant dan sylw drachefn, am y drydedd waith, yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi 5, 6, 7, 1853, y Parch. Cadwaladr Williams yn llywyddu, a chymmeradwywyd hwynt yno yn gwbl unfrydol, gydâg ychwanegiad o'r geiriau, "*fel rheol gyffredin,*" at yr ail reol, yr hon, heb hyny, a ymddangosai i'r brodyr yn gyffredin yn hytrach yn rhy gaeth. Gan fod y Rheolau hyn yn arbenig yn gynnyrch meddwl Mr. Rees, a bod y derbyniad o honynt gan y Gymdeithasfa yn ddechreuad cyfnod newydd yn ein trefn i dderbyn pregethwyr i'r Weinidogaeth yn ein plith fel Cyfundeb, yr ydym yn tueddu i'w dodi i mewn yma, yn y wedd y cymmeradwywyd hwynt gan y Gymdeithasfa yn Mangor,—yr un wedd, yn wir, oddieithr yr ychwanegiad a nodwyd, ag oedd arnynt pan y cyflwynwyd hwynt i'r Gymdeithasfa yn Nolgelleu, oddiwrth y Cyfeisteddfod a gynnaliesid yn y Bala. Wele hwynt:—

1. "Fod y Cyfeisteddfod hwn yn credu yn ddilys fod ansawdd yr oes hon, a'n cyflwr ninnau fel Cyfundeb, yn galw yn uchel am fwy o sylw ar Weinidogaeth yr Efengyl, a bod gwir angenrheidrwydd am sefydlu rhyw foddion yn ychwanegol i'w chadw mewn bri ac effeithiolrwydd yn ein mysg.

2. "Fod y Cyfeisteddfod hwn, gan hyny, yn barnu yn ddiysgog y dylai pob ymgeiswyr gobeithiol am y Weinidogaeth gael eu hegwyddori yn briodol i'r gwaith, ac yn cynnyg ar fod y Gymdeithasfa yn penderfynu, fel rheol gyffredin, na dderbynia neb rhagllaw i fod yn Bregethwyr i'r holl Gorph, ond a fyddo wedi bod yn yr Athrofa am dymhor, oddieithr eu bod wedi cael manteision addysg ryw ffordd arall; a bod arholiad i fod arnynt mewn Cyfeisteddfod priodol o barth i nerth eu galluoedd, eu llafur am, a'u cyrhaeddiad mewn gwybodaeth, cyn eu cyflwyno i sylw y Gymdeithasfa.

3. "Fod y Cyfeisteddfod hwn yn golygu fod rhyw ddarpariaeth at gynnal y dynion ieuainc a anfonir i'r Athrofa yn anhebgorol angenrheidiol. Ac i'r diben, cynnygir,—

(1.) "Fod pob Sir i gyfranu yn ychwanegol i'r perwyl hwn, hanner y swm a roddir ganddynt yn awr at yr Athrofa, a bod y swm ychwanegol hwn i gael ei dalu o arian yr eisteddleoedd, neu ryw ffordd arall, fel y barner yn oreu gan y Cyfarfodydd Misol.

(2.) "Fod y Siroedd i ddewis personau i fod yn Gyfeisteddfod parhaus i arolygu holl achosion yr Athrofa, a bod y Cyfeisteddfod hwnw i wneuthur Arholiad blynyddol, ac i gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn o ansawdd a gweithrediadau yr Athrofa.

(3.) "Fod yr Efrydwyr hyny a fernir gan y Cyfeisteddfod yn meddu ar gymhwysderau i dderbyn addysg, ac oblegid hyny yn haeddiannol o gynnorthwy, i gael £10 yn y flwyddyn bob un am dair blynedd; ond nad oes neb i dderbyn y cynnorthwy hwn heb fod cyn hyny yn yr Athrofa am hanner blwyddyn o leiaf.

Yn Nghymdeithasfa Machynlleth, fe ychwanegwyd y penderfyniad canlynol, yr hwn a gadarnhäwyd drachefn yn Mangor:—

(4.) "Fod Richard Davies, Ysw., Borth, i fod yn Drysorydd y *Fund* i gynnal pregethwyr ieuainc yn yr Athrofa; a bod y

taliad cyntaf o'r ychwanegiad i'w anfon iddo ef o'r Siroedd, erbyn Ionawr 5ed, 1854."

Gan nad oedd y penderfyniadau y daethpwyd iddynt gydâ golwg ar yr Athrofa yn perthyn ond yn unig i'r Gogledd, rhoddwyd hwynt mewn gweithrediad yn ddioed; eithr gan fod y penderfyniadau ereill gydâ golwg ar dderbyniad rhai i'r Weinidogaeth, yn cyffwrdd â threfn ag oedd yn flaenorol yn perthyn i'r holl Gyfundeb, fe farnwyd mai gwell oedi peidio a'u rhoddi mewn gweithrediad nes cael syniad ein brodyr yn y Deheudir o berthynas iddynt, fel y gallem ysgogi a myned rhagom gydâ'n gilydd. Yn y cyfamser, yr oedd y teimlad yn cynnyddu yn gryf yn y Gogledd, y dylai *derbyniad* pregethwr i fod yn *aelod o'r Gymdeithasfa* fod hefyd yn neillduad arno at yr holl waith; ac felly yn Nghymdeithasfa Llanerchymedd, Mawrth 29, 30, 31, 1854, lle yr oedd y diweddar Barch. David Jones, Caernarfon, yn llywyddu, fe enwyd nifer o frodyr i ffurfio cynllun trwy yr hwn y gellid dwyn hyny oddiamgylch, ac ar yr un pryd i sicrhau, can belled ag y gallai cynllun wneyd, yr effeithiolrwydd hwnw yn y Weinidogaeth yn ein plith, ag y penderfynasid yn Nghymdeithasfäoedd y flwyddyn flaenorol ymdrechu ymgyrhaedd am dano. Dymunwyd hefyd ar i'r amrywiol Gyfarfodydd Misol aros heb gynnyg pregethwyr ieuainc i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa ar ol hyny, hyd nes y byddai i'r brodyr a bennodasid ddwyn yn mlaen y rheolau a gynnygid ganddynt, ac i'r Gymdeithasfa eu hadolygu a'u cadarnhau. Yn unol â'r penderfyniad yn Llanerchymedd, fe ddygwyd y cynllun canlynol gan y brodyr a bennodasid i hyny i Gymdeithasfa Caerlleon, Mawrth 13, 14, 15, 1855; yr hwn, yn nghyd â'u rhesymau am dano, a ddodwn i mewn yma, a hyny yn arbenig oblegid y llaw neillduol oedd gan Mr. Rees, gydâ Mr. Roberts, Amlwch, Mr. Hughes, Liverpool, Mr. Edwards o'r Bala, Mr. Jones, Caernarfon, Mr. Hughes, Cefn (Abergele wedi hyny), Mr. Humphreys o'r Dyffryn, a rhai brodyr ereill, fe ddichon, yn y ffurfiad o hono.

"Yn ol y drefn a arferir hyd yma gan y Methodistiaid Calvinaidd yn Nghymru, y mae y derbyniad a wneir ar bregethwr

fel aelod o'r Gymdeithasfa, neu bregethwr i'r holl Gyfundeb, a'i ordeiniad yn Weinidog, yn ddau beth gwahanol, ac nid yw yr olaf yn beth a olygir o angenrheidrwydd i ganlyn y cyntaf. Ond fe dybygid fod y syniad yn dyfod yn lled gyffredinol yn awr mai buddiol fyddai newid neu wella y dull presennol. Mae yr ystyriaethau canlynol, yn mysg ereill, yn galw am hyny,—

1. "Y mae bod pregethwyr yn sefyll yn hollol ar yr un tir â gweinidogion, o ran rhyddid i deithio ar hyd y gwledydd, pregethu yn ein cyfarfodydd mwyaf cyhoeddus, a derbyn yr un gydnabyddiaeth am eu llafur, ac eto trwy eu holl fywyd heb eu hordeinio yn weinidogion, a'u hawdurdodi i weinyddu y Sacramentau, yn ymddangos yn rhywbeth annghyson ynddo ei hun, ac yn beth nad oes, ar a wyddom, esiampl o hono mewn un hanesyddiaeth neu gyfansoddiad eglwysig ond yr eiddom ni.

2. "Yr amgylchiad neillduol o sylfaeniad y Corph o Fethodistiaid yn Nghymru gan Glerigwyr o Eglwys Loegr, a gweinyddiad y Sacramentau ar y dechreu gan y cyfryw rai yn unig, a barodd nad oedd ein pregethwyr ar eu derbyniad i'r Gymdeithasfa i wasanaethu y Cyfundeb yn gyffredinol, yn cael eu hordeinio i holl waith y weinidogaeth. Gan fod yr amgylchiadau yn wahanol yn ein mysg er ys llawer o flynyddoedd bellach, mae hyny yn galw am drefniadau gwahanol.

3. "Yn mlynyddau cyntaf yr ordeiniadau, yr oedd yr ordeinio yn cael ei gyfyngu i nifer fechan o bregethwyr dewisedig; ond erbyn hyn mae yr ordeinio wedi myned mor fynych a chyffredin, nes y mae pregethwyr, rai a dderbyniwyd er ys cryn flynyddoedd i'r Gymdeithasfa, yn myned i edrych ar eu hanordeiniad megis annghymmeradwyaeth o honynt, neu fath o warthrudd ar eu nodweddiad, ac felly, yn nghyd â'u cyfeillion, yn teimlo yn anesmwyth o'r herwydd.

4. "Mae y dull presennol yn achlysuro, nid yn anfynych, ordeiniad pregethwyr yn eu hen ddyddiau i gyfrifoldeb a llafur chwanegol, i'r hyn yr oeddent yn mhob modd yn llawer mwy cymhwys ugain neu ddeg ar hugain o flynyddoedd yn gynarach, ac yn peri hefyd fod pregethwyr mewn

rhai Siroedd, lle na olygir fod cymmaint o angen am weinidogion, yn cael eu gadael yn hir heb eu hordeinio, tra bydd, hwyrach, frodyr llai eu talentau yn cael eu hordeinio mewn Siroedd ereill.

5. "Os bernir fod brawd yn meddu pob cymhwysder i gael ei dderbyn i'r Gymdeithasfa fel pregethwr i'r holl Gorph, gellir barnu ei fod yr un mor gymhwys i gael ar unwaith ei ordeinio yn weinidog yr efengyl.

"Cynnygir, gan hyny, ar fod y derbyniad a'r ordeiniad yn gyd-fynedol, sef, fod pregethwr wrth gael ei dderbyn i'r Gymdeithasfa, yn cael ar yr un pryd ei ordeinio i holl waith y weinidogaeth.

"Tuag at ddwyn hyn yn mlaen, cynnygir yn

1. "Fod i'r Siroedd gadw yn fanwl at y rheolau a elwir yn 'Ddeddf y ddwy flynedd,' y rhai a ofynant am i bob ymgeisydd am y weinidogaeth fod am ddwy flynedd ar brawf cyn y bydd yn rhydd i gael ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol fel pregethwr; a bod ymchwiliad manwl i gael ei wneuthur am ei grefydd, ei ddoniau, ei wybodaeth, a'i ddoethineb, &c., cyn rhoddi gollyngdod iddo o gylch ei ymgeisiaeth.

2. "Fod yn ofynol i un, ar ol dyfod o gylch y ddwy flynedd, i'r Cyfarfod Misol, fod am dair blynedd, o leiaf, yn bregethwr derbyniedig i'r holl Sir cyn y bydd rhyddid i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w ordeinio; ac, er ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol, os ar ol hyny o brawf chwanegol arno, na bydd boddlonrwydd cyffredinol gan frodyr ei Sir yn nghylch ei gymhwysder, ei fod i aros heb ei gynnyg i'r Gymdeithasfa.

3. "Fod rhyddid i bregethwr, tra heb ei ordeinio, fyned, ar gymmeradwyaeth ac anfoniad ei Gyfarfod Misol, yn achlysurol ar daith i bregethu i Siroedd ereill, er mantais iddynt hwythau ddyfod yn hysbys o hono.

4. "Fod arholiad neillduol yn cael ei wneuthur, yn ol y rheolau y penderfynwyd arnynt yn Nghymdeithasfäoedd Dolgelleu, Machynlleth, a Bangor, yn 1853, trwy ryw lwybr a drefner gan y Gymdeithasfa, o barth i nerth galluoedd, cyr-

haeddiad mewn gwybodaeth, a llafur gweinidogaethol y neb a gynnygier i'w ordeinio.

5. "Nad yw y rheolau hyn i effeithio dim ar y pregethwyr a dderbyniwyd eisoes i'r Gymdeithasfa, y rhai fyddant yn agored i'w cyflwyno fel o'r blaen."

Cytunwyd yn Nghaerlleon fod i'r cynllun uchod gael ei argraffu, a'i gyflwyno i sylw yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, gydâ dymuniad ar iddo gael ganddynt oll yr ystyriaeth fwyaf pwyllog, a bod iddynt ddwyn eu golygiadau arno i'r Gymdeithasfa ganlynol. A chan y deallid fod ysgogiad yn yr un cyfeiriad wedi dechreu hefyd yn y Deheudir, penderfynwyd ei anfon i sylw y brodyr yno yn eu Cymdeithasfa, er gwybod eu meddyliau o berthynas iddo, ac na phenderfynid yn hollol arno ond mewn cydsyniad â hwynt, gan mai dymunol i ni fel Cyfundeb, yn nau pen y dalaeth, gerdded wrth yr un reol a synied yr un peth.

Yn unol â'r penderfyniad diweddaf, fe anfonwyd y cynllun i Gymdeithasfa y Deheudir, a gynhaliwyd yn Aberystwyth, Ebrill 24, 25, 26, 1855,—y Parch. Evan Harris yn llywyddu,—lle y penderfynwyd fel y canlyn :—" Fod y Gymdeithasfa hon yn dymuno galw sylw y gwahanol Gyfarfodydd Misol at y drefn a arferir yn bresennol yn ein Cyfundeb o dderbyn ymgeiswyr i'r weinidogaeth, ac at y cynnygiadau gydâ golwg ar ddiwygiad yn hyny a geir yn Nghylchlythyr diweddaf Cymdeithasfa y Gogledd, ac ar fod i bob Sir anfon ei golygiadau i Gymdeithasfa Awst nesaf."

Pan y daeth Cymdeithasfa Awst (7, 8, 9), yr hon a gynhaliwyd yn Nghaerfyrddin, a'r Parch. Edward Jones, Aberystwyth, yn llywyddu, ar ol darllen golygiadau yr amrywiol Siroedd o berthynas i'r cynllun, y cwbl a wnaed gyda golwg arno oedd, "Penderfynu, o herwydd y pwysigrwydd a berthyn i'r symmudiad hwn, fod Cyfarfod o Weinidogion a Blaenoriaid i gael ei gynnal yn Nghaerfyrddin, ar ddydd Mercher, y 19eg o fis Mawrth nesaf, i ddwys ystyried golygiadau y Siroedd. Fod Gweinidog a Blaenor o bob Sir i fod yn bresennol; a bod

iddynt roddi adroddiad o'r cyfryw gyfarfod yn y Gymdeithasfa Chwarterol gyntaf ar ol hyny."

Yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 12, 13, 14, 1855, a Mr. Rees yn llywyddu, fe gafwyd adroddiad o olygiadau yr amrywiol Gyfarfodydd Misol o berthynas i'r achos a anfonasid i'w sylw oddiwrth y Gymdeithasfa flaenorol yn Nghaerlleon, yn nghylch "Derbyn ac Ordeinio Pregethwyr," a chafwyd eu bod oll yn unfrydol yn ei gymmeradwyo; ond, yn gymmaint a bod yr un cynllun i'w ddwyn i sylw Cymdeithasfa y Deheudir yn mis Awst, fe farnwyd mai gwell oedd oedi gwneuthur penderfyniad gorphenol arno hyd y Gymdeithasfa ganlynol. Yr oedd y Gymdeithasfa ganlynol yn cael ei chynnal yn Mhwllheli, Medi 12, 13, 14, 1855, a Mr. Rees eto yn llywyddu. Yno, pan y daeth yr achos drachefn i sylw, wedi deall fod Cymdeithasfa y Deheu wedi gohirio yr ystyriaeth arno hyd fis Mawrth yn y flwyddyn ganlynol, fe gydolygwyd, er fod holl Siroedd y Gogledd wedi cymmeradwyo y cynllun, eto mai dymunol, er mwyn cadw undeb a chydweithrediad, i ni fel Cymdeithasfa oedi gwneuthur un penderfyniad arno, nes cael golygiadau ein brodyr o'r Deheu o berthynas iddo.

Fe gyfarfu brodyr y Deheudir a'u gilydd yn Nghaerfyrddin, Mawrth 18, 1856, i ymdrin â'r achos; ac fe ddygwyd eu penderfyniadau i'r Gymdeithasfa yn Nghaerdydd, yr hon oedd yn cael ei chynnal, y dyddiau canlynol, Mawrth 20, 21. Yr oedd y penderfyniadau, tra yn cymmeryd cylch eangach na'r rhai a gymmeradwyasid yn y Gogledd, eto yn cytuno yn hollol â'r rhai hyny, ac yn defnyddio yn hollol yr un geiriau ar y cwestiwn o "Dderbyniad ac Ordeiniad Pregethwyr." Ni chafwyd amser yn Nghaerdydd i ystyried yr holl benderfyniadau, ac felly fe ohiriwyd yr ymdriniaeth â hwynt hyd y Gymdeithasfa ganlynol, yr hon oedd i'w chynnal yn Aberhonddu, Mai 28, 29. Ryw fodd, nid ydym yn gwybod paham, ni bu dim sylw ar y mater yn Aberhonddu, na thrachefn yn Nghymdeithasfa Aberteifi, Awst 6, 7; fel yr oedd rhai yn y Gogledd yn dechreu ofni, y byddai i'r hyn a deimlid ganddynt hwy yn beth mor bwysig, a

pheth yr oedd y fath addfedrwydd iddo trwy yr holl Siroedd, gael ei attal o ddiffyg cyd-weithrediad y Deheu. Felly yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi 9, 10, 11, 1856, Mr. Hughes, Liverpool, yn llywyddu, fe ddygwyd yr achos drachefn i sylw. Dywedid fod yn Sir Gaernarfon, ac mewn amryw Siroedd ereill, frodyr ieuainc, y buasid yn awr neu cyn hyn, wedi eu cynnyg i'w derbyn i'r Gymdeithasfa, oni buasai dysgwyliad am i'r Gymdeithasfa ddyfod i benderfyniad ar y cynnygiad a ddygasid i mewn er mis Mawrth, 1855, yn nghylch "Derbyn ac Ordeinio Pregethwyr," ac a gymmeradwyasid gan Gyfarfodydd Misol y Gogledd yn unfryd. Yr oeddid wedi aros wrth Gymdeithasfa y Deheudir, gan ddysgwyl y gellid cyd-weithredu yn yr achos, ond yr oedd y brodyr yno wedi gohirio y mater hyd yn hyn. Wedi llawer o siarad yn y cyfeiriad yna, fe benderfynwyd,—"Ein bod er mwyn myned yn mlaen yn frawdol, a chadw yn gryf a chynhes yr undeb rhwng y ddwy dalaeth, yn taer ddymuno ar i'n brodyr yn y Deheubarth gymmeryd y pwnc o 'Dderbyn ac Ordeinio Pregethwyr' dan eu hystyriaeth, a dyfod i benderfyniad arno, os yn bosibl, yn eu Cymdeithasfa nesaf."

Yr oedd "Cymdeithasfa nesaf" y Deheu yn y Brynmawr, Medi 30, a Hydref 1, 2, 1856. Yno fe fu ymdriniaeth helaeth a manwl ar y penderfyniadau y cytunasid arnynt yn Nghaerfyrddin, ac a gyflwynasid i sylw y Gymdeithasfa yn Nghaerdydd, y Mawrth blaenorol; ac fe'u cymmeradwywyd yn unfrydol gan yr holl frawdoliaeth yn y Brynmawr, fel y daethant, ar ol hyny, yn Rheolau sefydlog Derbyniad i'r Weinidogaeth yn y Deheudir. Yr oedd Cymdeithasfa ganlynol y Gogledd yn cael ei chynnal yn y Wyddgrug, Rhagfyr 9, 10, 11, 1856, y Parch. John Hughes, Liverpool, yn llywyddu. Dyma y Gymdeithasfa ddiweddaf i'r Parch. John Jones, Talsarn, fod yn bresennol ynddi; ac yr oedd Mr. Hughes, er yn llywyddu yn amrywiol gyfarfodydd neillduol y Gymdeithasfa, eto yn rhy wael i allu cymmeryd un ran yn y gwasanaeth cyhoeddus. Fe hysbyswyd yn y Gymdeithasfa hon am benderfyniad Cymdeithasfa y Deheudir, yn Brynmawr, gydâ golwg ar "Dderbyn-

iad ac Ordeiniad Pregethwyr;" ac fe ddatganwyd llawenydd mawr fod y brodyr yno mor unfrydol i gyd-gychwyn â'r Gogledd yn y cyfnewidiad a fwriedid wneyd, a'r hwn, fel yr hyderid, a fyddai yn welliant gwirioneddol ar yr hen drefn. Ac wedi galw sylw at yr Arholiad neillduol y penderfynasid arno, yn y Dê a'r Gogledd, yr oedd pob un a neillduid rhagllaw i fyned tano, a bod yn llwyddiannus ynddo, cyn y gellid ei Ordeinio a'i Dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa,—fe bennodwyd Mr. Rees a Mr. Hughes, Mr. David Jones, Caernarfon, ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa i gyd-ymgynghori yn nghylch y cyfryw Arholiad, a dwyn rhyw gynnygion gydâ golwg arno i'r Gymdeithasfa nesaf. Yr oedd y Gymdeithasfa hòno yn cael ei chynnal yn Nolgelleu, Mawrth 31, ac Ebrill 1, 2, 1857, a Mr. Rees yn llywyddu, pryd y cyflwynwyd y cynllun y cytunasid arno gan y brodyr a bennodasid i hyny, i sylw y Gymdeithasfa. Yn Nghymdeithasfa Llangefni, Mehefin 3, 4, 5, 1857, y Parch. David Jones, Caernarfon, yn llywyddu, fe ddarllenwyd drachefn y cynllun a gyflwynasid i Gymdeithasfa Dolgelleu, yr hwn gydâg ychydig ychwanegiad a gymmeradwywyd yn unfrydol, a phenderfynwyd iddo gael ei anfon i Gymdeithasfa y Deheudir, gydâ dymuniad ar i'r brodyr yno ei gymmeryd dan sylw, fel y gellid cael eu golygiadau arno erbyn Cymdeithasfa mis Medi, ac yr elid yn mlaen yn yr achos trwy undeb a chyd-weithrediad yr holl Gyfundeb. Fe ddygwyd yr achos, a'r cynllun a ddanfonasid o'r Gogledd gydâ golwg arno, i sylw Cymdeithasfa y Deheudir, yn Mhontfaen, Sir Forganwg, Awst 4, 5, 6, 1857; pryd y cytunwyd yn hollol âg ef, gydâg ychydig ychwanegiadau a fernid ganddynt hwy yn angenrheidiol, y rhai y dymunent hwythau eu cyflwyno i sylw y Gymdeithasfa nesaf yn y Gogledd. Yn y Gymdeithasfa hon yn Mhontfaen, bu arholiad ar Mr. David Saunders, Morganwg (Dr. Saunders yn awr), yn ol y rheol newydd o dderbyn i'r Gymdeithasfa, a neillduad at waith cyflawn y weinidogaeth. Cytunwyd, yn unfrydol, ar iddo gael ei dderbyn a'i ordeinio yn y Gymdeithasfa hòno. Nid oedd yr Arholiad arno ef mewn ysgrifen, oblegid nid oedd hyny eto

wedi ei gwbl benderfynu,—ond ar air ac ar dafod; eithr yr oedd yn fanwl a helaeth, yn ol galluoedd a syniadau y rhai a gymmerent ran arbenig ynddo; a'i atebion yntau yn rhoddi boddlonrwydd neillduol i'r frawdoliaeth yn gyffredinol. Ac yn y cyfarfod am 8 boreu Iau, Awst 6, fe'i hordeiniwyd ef i'r holl waith, gydâ Mr. Thomas Levi, a phedwar neu bump o frodyr ereill, y rhai oeddent o'r blaen wedi eu derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa, yn ol yr hen drefn. Dr. Saunders, gan hyny, oedd y cyntaf yn ein Cyfundeb a dderbyniwyd yn *aelod o'r Gymdeithasfa* yn gyfamserol â'i *Ordeiniad fel Gweinidog*, ac yn gysylltiedig â'r Arholiad Cymdeithasfäol, sydd yn awr yn drefn sefydlog yn ein plith.

Fe ddygwyd y cynllun gydâ golwg ar yr Arholiad drachefn i sylw yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 8, 9, 10, 1857, y Parch. David Jones yn llywyddu. Hon oedd y Gymdeithasfa gyntaf wedi marwolaeth y Parch. John Jones, Talsarn; ac yr oedd y golled hòno yn tynu meddwl y brodyr braidd yn gwbl ati ei hun, fel nad hawdd oedd eu cael at odid ddim arall. Pa fodd bynnag, fe ddaeth cynllun yr Arholiad drachefn i sylw, a phenderfynwyd yn unfrydol ei fod i'w gymmeradwyo, gydâ yr ychwanegiadau a wnelsid ato yn Nghymdeithasfa y Deheudir. Pennodwyd hefyd y Parchedigion H. Rees, L. Edwards, ac O. Thomas, i fod yn arholwyr ar y rhai a gyflwynid i'w derbyn i'r Gymdeithasfa y tro canlynol.

Nid ydym yn gweled yn angenrheidiol dodi y cynllun, yn y ffurf oedd arno y pryd hyny, i mewn yma, gan ei fod yn gwbl yr un peth a'r un sydd yn awr, ac er ys blynyddoedd bellach, yn arferedig yn ein plith, ond yn unig ei fod y pryd hwnw yn cael ei gynnal yn gysylltiedig â'r Gymdeithasfa y byddai yr Ordeinio ynddi, am ddiwrnod cyfan blaenorol iddi; ac ar bersonau a fyddent wedi eu dewis eisoes i'w hordeinio, gan y gwahanol Gyfarfodydd Misol y perthynent iddynt. Fe welwyd, yn lled fuan, fod eisiau rhyw gyfnewidiad ar hyny, gan y gallai brodyr, a fuasent wedi eu dewis yn rheolaidd gan y Cyfarfodydd Misol, fethu myned trwy yr Arholiad, ac felly deimlo yn fwy

profedigaethus braidd, oblegid eu gwrthod gan yr Arholwyr, na phe buasent heb eu dewis erioed. Ac o'r tu arall, fe deimlid fod rhywbeth yn y fath drefn braidd yn anfanteisiol i'r Arholwyr, a thuedd ynddi i wneuthur yr Arholiad yn llai manwl, os nad yn fwy arwynebol, nag y buasai yn ddymunol iddo fod; a pheri iddynt, yn eu tynerwch tuag at yr ymgeiswyr, adael i ambell un fyned trwy y porth, yn fwy o ras o'u tu hwy, nag o weithredoedd o'i du ef. Er cyfarfod hyn, fe wnaed y cyfnewidiad i'r dull presennol yn ein plith, sef bod yr Arholiad yn beth cwbl ar wahan oddiwrth yr Ordeiniad; yn beth y rhaid i'r pregethwr fod wedi myned yn llwyddiannus drwyddo cyn ag y bydd ar dir ag y gellir ei ddewis i'w ordeinio; ac eto nad ydyw mewn un modd yn sierhau ei ordeiniad; fod yn bosibl, yn wir, iddo fod wedi myned trwy yr Arholiad yn y modd mwyaf llwyddiannus, ac eto cael ei adael heb ei ordeinio byth. Y mae yr Arholiad, hyd ag yr ydym ni yn deall, yn y drefn a'r dull y dygir ef yn mlaen yn bresennol, yn gorwedd yn esmwyth ar deimladau yr holl Gyfundeb; ac er ys rhai blynyddoedd bellach, nid oes ond un Arholiad, o ran amser, testynau, ac Arholwyr,—mewn lle neillduol y pennoder arno, yn y Deheu ac yn y Gogledd, bob blwyddyn.

Fe'n harweiniwyd i roddi yr adroddiad hwn o weithrediadau ein Cymdeithasfäoedd gydâ golwg ar y cwestiwn o Dderbyn ac Ordeinio Pregethwyr, yn Nghofiant Mr. Rees, oblegid y dyddordeb mawr a gymmerid ganddo ef ynddo, a'r rhan arbenig oedd ganddo yn nygiad y cyfnewidiad pwysig hwn oddiamgylch; yn gystal ag oddiar yr ystyriaeth nad oes bosibl i ni wneyd tegwch hollol â'i hanes ef, heb ddwyn i mewn gryn lawer o hanes y Cyfundeb y perthynai iddo, ac i'r hwn yr ydoedd yn brif arweinydd; gan fod hanes y naill wedi ei gymhlethu, i fesur mawr, â hanes y llall. Eithr trwy ddilyn hanes y cwestiwn, hyd y pryd y penderfynwyd ef yn gwbl, yr ydym wedi ymestyn rai blynyddoedd tu hwnt i'r amser a gyrhaeddasid genym yn ei fywyd ef, pan y daeth gyntaf i sylw, at yr hwn yr ydym yn yn awr yn dychwelyd.

Wele lythyr prydferth a nodedig o werthfawr o'i eiddo at Mr. Edwards o'r Bala:—

"39, Everton Terrace, Ebrill 26, 1853.

"ANWYL GYFAILL,—Derbyniais eich llythyr y boreu hwn, a "meddyliais mai y peth cyntaf a wnawn oedd anfon gair yn ol "atoch. Ond yr wyf yn teimlo fy meddwl yn hynod o am- "ddifad o ddim i'w ysgrifenu. A phe gofynid i mi ar ba neges "neu i ba ddiben yr wyf yn ysgrifenu, prin y medrwn roi "atebiad i'r gofyniad. Ar yr un pryd, yr wyf yn meddwl y "gallem fod o fwy o help i'n gilydd nag ydym trwy ysgrifenu "mwy y naill at y llall. Yr ydwyf fi bron wedi syrthio i "feddwl mai rhai go annghymdeithasgar ydyw y Methodistiaid "Calvinaidd. Ychydig o ymddiddanion dyddorol fydd yn "pasio rhyngddynt pan yn nghyd, ac am garu ac adeiladu eu "gilydd trwy lythyrau, nid ydynt bron erioed wedi meddwl am "dano, nac yn medru arno. Pan y darllenaf John Foster, a "Jane Taylor, ac ereill, yr ydwyf yn gweled fod gan y dynion "hyn ryw gyfeillion neillduol a mynwesol, a bod y fath gyfeill- "ach ddeallus a chrefyddol rhyngddynt â'r cyfryw, yn cael ei "chario yn mlaen yn barhaus, ag oedd nid yn unig yn adeilad- "aeth mewn gwybodaeth, cariad, a chysur, i'r pleidiau eu "hunain, ond hefyd yn werth ei chyhoeddi i'r byd ar ol eu "marwolaeth.

"O! y fath greadur ysblenydd yw ysbryd athrylithgar, yn "enwedig os bydd wedi ei eangu trwy amaethiad, a'i fywhau "gan grefydd; o'r ochr arall, y fath grebach rheidus heb hyny. "Mae yn sicr i chwi fod llawer o honom a'n meddyliau wedi "crebachu yn ddirfawr, trwy eu bod yn wastad yn y pulpud, a "bron byth yn y *study*. Fel hen yspwng sychlyd,—y mae "arnom eisiau ein mwydo yn fwy trwy fyfyrfod a gweddi, fel y "b'o i ni chwyddo i dipyn mwy o faint, ac y byddo tipyn "ychwaneg yn diferu oddiwrthym wrth gael ein gwasgu yn y "cylchoedd cyhoeddus a'n cyflawniadau crefyddol; ïe, a'n "gwneyd yn ddigon tyner a llawn o'r ysbryd i'n defnyddio i "wlychu gwefusau sychion y Gwaredwr bendigedig, pan y

"cyfarfyddom âg ef megis ar y groes, yn neb o'i ganlynwyr "profedigaethus. O'm rhan fy hunan, yr ydwyf yn sicr y gallaf "gydymdeimlo â Foster, pan y dywedai,—'I despise mediocrity, "I wish to kindle with the ardour of genius. I am mortified "almost to death, to feel my mind so contracted and its energies "so feeble or so torpid.' Ond gan fod amaethiad fy meddwl "wedi ei esgeuluso yn fy ieuenctyd, a bod fy nghorph, bellach, "yn diffygio o dan ychydig lafur, yr ydwyf wedi anobeithio "gwneyd dim gorchestion mwyach yn y bywyd yma, ac yn "ceisio gweddïo (bu'm felly y boreu heddyw), am i'r Arglwydd "farweddio pob ysfa ffôl yn fy meddwl, hyd yn nod am wybod-"aeth, ond yn unig y wybodaeth ysbrydol o Grist. . . . . . . . .

"Ond yr wyf wedi myned yn mhell oddiwrth ystyr eich "llythyr chwi. I ba ddiben y mae R. Roberts wedi myned i'r "Rhyl? Bydd yn llawen genyf glywed, os yw Sir Ddinbych "wedi ei sefydlu ef yno fel gweinidog, ac yn bwriadu ei gynnal "ef yn y gwaith, modd y caffo ei holl amser i amaethu ei feddwl, "ac i bregethu y gair, ac i ymgeleddu yr eglwysi yn y cym-"mydogaethau hyny. Gresyn nad allem gael rhyw nifer o "ddynion cymhwys yn mhob Sir i'r cyflwr hwn; a dwbl resyn "os na ofelir am ardrethion yr eisteddleoedd a'u defnyddio yn "y modd goreu i ddibenion o'r fath yma.

"Pa beth ydych yn ei glywed o gwynion am aneffeithiol-"rwydd yr Athrofa, nis gwn. Ni ddygwyddodd i mi, am a "ydwyf yn gofio, glywed dim erioed. Mae yn ddrwg genyf os "ydyw eich meddwl yn cael ei boeni. Mae eisiau edrych ac "ystyried pa fath ddynion ydyw y dynion sydd yn siarad: a "ydynt yn werth gwneyd sylw arnynt. Os nad ydynt, peidio "cymmeryd arnom eu clywed yw y goreu. Ond os oes dynion "call, pwysig, a diragfarn yn achwyn, y mae yn deilwng "ymofyn, pa bethau sydd yn eu blino, a pha beth sydd gan-"ddynt i'w gynnyg mewn ffordd o wellhâd.

"Yr ydwyf fi wedi fy argyhoeddi er's talm na chodir dim "newydd i fynu yn mysg dynion heb wrthwynebiad. Nid y "Cymry, ac nid y Methodistiaid yn unig, sydd felly, ond y mae

"y peth yn perthyn i'r natur ddynol. A braint a dyledswydd "diwygwyr yw parhau yn eu hymdrech gydâg amcanion daionus "er pob gwrthwynebiad, a hyny yn dringar wrth ragfarn "cydwybodol yr anwybodus, ïe, ac yn ddioddefgar hyd yn nod o "dan ddrygliw ac enllib y cenfigenus a'r pwdr ei egwyddorion. "Peidiwch a rhoi eich calon i lawr. Fe fydd deng mlynedd "wedi cyfnewid llawer ar syniadau y Methodistiaid o barth i'r "Athrofa. Nid annhebyg ydyw y bydd ein penderfyniadau yn "y Bala, a pha rai a basiwyd yn Nolgelleu, yn cael eu gwrthod "yn y Cyfarfodydd Misol. Os dygwydd hyny, ni ddylem ei "gymmeryd yn chwith, ond ail ymosod yn amyneddgar i geisio "ennill ein brodyr.

"Wrth ddywedyd fel hyn, y mae yn rhaid i mi gydnabod nad "wyf yn *actio* yn y modd hwn yn aml. Byddaf o leiaf, yn aml "dan demtasiwn i daflu pob peth i fynu. Yr wyf yn llwyr "benderfynol yn fy meddwl y dyddiau hyn, beth bynnag fydd "ar droed eleni yn y Bwrdd Cenhadol yn y dref hon, na wnaf fi "ymyryd, ond gadael yr holl achosion yn nwylaw y brodyr "dieithr. Ond, weithiau, wedi gwneuthur penderfyniadau o'r "fath, bydd fy nheimladau yn fy hyrddio yn mlaen. Wrth "weled y bobl mor ffôl a gwneyd yr hyn a fydd yn fy ngolwg i "yn gwbl chwithig, ac felly, wrth gwrs, yn groes i'r hyn sydd "ddoeth, a da, ac uniawn,—pwy a all beidio a siarad yr amser "hwnw? Wel, dowch yma y Sulgwyn nesaf, ac yr wyf yn "hyderu y cewch chwi weled y medraf innau dewi. . . . . . . . .

"Diolch i chwi am eich traethawd yn y '*Traethodydd*.' Yr wyf wedi ei ddarllen, ond yr wyf yn teimlo y bydd raid i mi "ei astudio.

"Cofiwch fi yn garedig at Mrs. Edwards. Mae fy nheulu yn "dymuno cofio atoch, ac Annie yn neillduol yn cyflwyno ei "diolchgarwch i Mrs. Edwards am ei hanrheg i'r arddangosfa.

"Ydwyf, anwyl gyfaill, yr eiddoch yn ddiffuant,

"HENRY REES."

Yr oedd Dr. Edwards y pryd hwn yn teimlo yn dra digalon gydâ golwg ar yr Athrofa, wrth weled yr hwyrfrydigrwydd mawr oedd yn y Siroedd i wneuthur unrhyw ymdrech tuag at ei chynnal yn deilwng, a'r dull cardotaidd a arferid mewn rhai manau, wrth osod ei hachos ger bron y cynnulleidfäoedd pan wneid y casgliadau tuag ati. Ac yn enwedig yr oedd yn teimlo wrth glywed am siarad rhyw rai o berthynas iddi, gydâ golwg ar effeithiolrwydd yr addysg a weinyddid ynddi. Dan y teimladau hyny yr oedd yn awr wedi ysgrifenu at Mr. Rees, y llythyr yr oedd y llythyr a ddyfynasom yn atebiad iddo. Yr oedd y naill a'r llall wedi bod, flynyddoedd cyn hyn, gydâ'u gilydd yn ymweled â'r amrywiol Gyfarfodydd Misol, ac yn ceisio eu perswadio i wneuthur rhywbeth effeithiol yn mhlaid y Sefydliad; ac yr oedd y derbyniad croesawgar a roddwyd iddynt yn mhob man, wedi creu dysgwyliadau yn eu meddyliau hwy, ac yn meddyliau cyfeillion yr Athrofa braidd yn gyffredinol, y gwnelsid rhywbeth yn ddioed. Ond fel yr adroddasom eisoes, oblegid rhyw amgylchiadau, fe siomwyd y dysgwyliadau hyny agos yn gwbl, ac fe adaŵwyd yr Athrofa braidd yn hollol megis cynt. Nid oedd ryfedd, gan hyny, i'r Prif-athraw a'r Llywydd deimlo i fesur yn ddigalon. Eithr yr oedd teimlad newydd wedi dechreu eisoes yn y wlad yn ei phlaid: ac fe brofodd yr amrywiol Gyfarfodydd Misol, a'r Cymdeithasfäoedd canlynol yn 1853, fel y gwelsom eisoes, nad oedd dim sail i ofnau Mr. Rees y byddai i'r penderfyniadau y daethid iddynt yn y Bala, ac a gymmeradwyasid gan y Gymdeithasfa yn Nolgellen, gael eu gwrthod ganddynt.

Y traethawd yn y "*Traethodydd*," y cyfeiria ato, ydyw yr un ar "*Athroniaeth Kant*," a geir yn y rhifynau am Ionawr ac Ebrill, 1853. Yr oedd Mr. Rees wedi trafferthu cryn lawer gydâ'r traethawd hwnw. Yr ydym yn cofio ymddyddan âg ef yn Nghymdeithasfa Bangor am dano. Dywedai ei fod yn ofni nad oedd ond ychydig iawn o'r Cymry a allent wneyd nemawr ddefnydd o hono. "Nid oeddwn i beth bynnag," meddai, "yn gallu myned i mewn i'w ystyr i ddim boddlonrwydd i mi fy

hunan. Yn wir, yr oeddwn wrth ddarllen y rhan fwyaf o hono yn meddwl am yr hen bennill:—

'Gwawria, gwawria, hyfryd foreu,
Ar ddiderfyn fagddu fawr;'"

A thoc, wedi bod gydâg anhawsderau dirfawr i mi y mae yn dywedyd nad oedd yn gweled ynddynt ddim anhawsder, ac nad ydoedd eto wedi cyrhaedd maesydd y deall a'r rheswm, a'r pethau gwir anhawdd;—"Wel, wel," meddwn wrthyf fy hun: 'Os yw y goleuni sydd ynot yn dywyllwch, pa faint a fydd y tywyllwch!'"

Yr *Arddangosfa*, y cyfeiria ati yn y llythyr, ydoedd y *Bazaar*, ag yr oedd y chwiorydd ieuainc mewn cysylltiad â'r cynnulleidfäoedd Cymreig yn Liverpool wedi bwriadu ei gynnal, yn nechreu Mai y flwyddyn hono, er mwyn cynnorthwyo y Capel Saesonig, y pryd hyny yn Windsor Street; y *Bazaar* cyntaf erioed, fe allai, yn mhlith y Cymry. Yr oedd Mr. Rees yn dra chefnogol i'r amcan oedd ganddynt mewn golwg, er nad oedd yn gwbl ddibryder rhag i ddim gael ei dynu i mewn i'w gweithrediadau, annghydweddol ag ysbryd y grefydd a broffesid ganddynt, ac yr oedd yr ysgogiad yn dal cysylltiad uniongyrchol â hi. Yr oedd ganddo bregeth hynod iawn, a draddododd y pryd hyn yn amrywiol Gapeli y dref, oddiar Coloss. iii. 17; yr hon a alwyd gan y bobl ieuainc yn "Bregeth y *Bazaar*;" gan fel y teimlent ei bod wedi ei bwriadu yn arbenig ganddo, i gyfarfod eu hanghenion hwy ar y pryd. Bu y *Bazaar* yn dra llwyddiannus, a dygwyd ef oddiamgylch heb ofid neillduol i neb.

Yr oedd y flwyddyn hon (1853), yn flwyddyn o lafur mawr iddo. Yr ydym yn ei gael yn Nghymdeithasfäoedd Dolgelleu, Machynlleth, y Gaerwen, Bangor, a Threffynnon; ac mewn Cyfarfodydd Pregethu yn yr Amwythig, Caerwys, y Wyddgrug, y Groes, Amlwch, Llansilyn, Tregeiriog; heblaw oedfäon neillduol mewn llaweroedd o leoedd ereill; yn ychwanegol at ei lafur cyson a difwlch ar y Sabbothau, ac yn Nghyfarfodydd yr wythnos, yn Liverpool. Nid oedd yn arbed dim arno ei hunan, ac yr

oedd yn cael cymhorth neillduol ar hyd y flwyddyn, o ran corph ac ysbryd, yn y gwaith mawr yr oedd mor ymroddedig iddo.

Nid oes genym ond un llythyr byr iddo eto o fewn y flwyddyn hon, a ysgrifenwyd ganddo at y Parch. John Pugh, B.A., yn awr o Dreffynnon, ond y pryd hyny o'r Drefnewydd:—

"Liverpool, Everton Terrace, Hyd. 14, 1853.

"ANWYL GYFAILL,—Ar fy nychweliad o Lanarmon, Dyffryn "Ceiriog, heddyw y prydnawn, rhoddwyd eich llythyr yn fy "llaw, yr hwn sydd yn fy ngwahodd i Gyfarfod Misol y Dref- "newydd. Y mae yn rhaid i mi bellach ddysgu dyweyd *No;* "y mae *Yes* bron a'm nychu. Yr wyf wedi *ildio* i daerineb "cyfeillion agos drwy'r hâf, ac 'y mae yn rhaid i mi bellach aros "gartref yn fwy. Buasai yn dda genyf allu cydsynio â chais y "cyfeillion yna, ond nid oes dim gobaith.

"Gobeithiaf eich bod yn iach, ac yn llwyddo yn eich enaid ac "yn eich llafur cenhadol. Cofiwch fi yn garedig at gyfeillion y "Drefnewydd. Bydded i'r ieuenctyd ymsefydlu yn ffordd "crefydd, a chael eu parotoi i ddefnyddioldeb yn eu hoes; a'r "hen bobl addfedu i'r fuchedd dragwyddol. Amen.

"Yr eiddoch, anwyl frawd, yn ddiffuant, HENRY REES."

Yr ydym yn ei gael eto, yn ystod y flwyddyn 1854, yr un mor ymroddedig i lafur, a'r un mor ddiarbed o hono ei hunan. Yr oedd yn bresennol, yn ystod y flwyddyn, yn holl Gymdeithasfäoedd y Gogledd, yn gystal ag mewn llaweroedd o Gyfarfodydd Pregethu, a Chyfarfodydd Misol, yn yr amrywiol Siroedd: ac yn pregethu yn y cyffredin ddwywaith, ac yn fynych deirgwaith, ynddynt.

Yr oedd y Gymdeithasfa y cyfeiriasom eisoes ati yn Llanerchymedd, yn yr hon y bu ymdriniaeth yn nghylch cael cynllun newydd i Dderbyn ac Ordeinio Gweinidogion, yn cael ei chynnal Mawrth 29, 30, 31, 1854. Hon oedd y Gymdeithasfa Chwarterol gyntaf yn Môn, ac yr oedd yn Gymdeithasfa nodedig o lewyrchus, yn enwedig pregeth Mr. John Jones, Talsarn, y prydnawn cyntaf,

Mawrth 30, a phregethau Mr. Rees y boreu a'r hwyr yr ail ddydd. Arosodd Mr. Rees yn Llanerchymedd dros y Sabboth, a phregethodd yno ddwywaith. Ei destynau yn y Gymdeithasfa oeddent, y boreu, Pregethwr xi. 8, a'r hwyr, Heb. xii. 15; ac ar y Sabboth, Esaiah xlii. 21 a Heb. x. 22. Ar y Sadwrn, Ebrill 1, fe ysgrifenodd at Mrs. Rees; ac wedi crybwyll am farwolaeth Mr. Lewis Jones o'r Bala, a rhyw bethau ereill, fe ychwanega, "Is A——, at work? The more I see of the world, the more I am convinced that a woman in order to be respected must be capable of governing her temper and her tongue, must know practically the duties of her station, and faithfully perform them. Keenness must be in her eye; mildness and wisdom in her tongue: quickness in her feet; cunning and industry in her fingers; humility, fear, and the love of God must be in her soul. But I cannot see that she must be a politician, and forward to give her opinion on Kings and nations and wars. She may excuse her own ignorance of such matters by saying,—

'I was not born for courts and great affairs;
I pay my way, believe, and say my prayers.'

"Above all, if a young woman would avoid being ridiculous, she must be on her guard against affectation. I should say, do not look, talk, walk, laugh affectedly; beware of being witty above everything, at least of aiming at being so. Real wit is a thing that comes naturally; if you go to fetch it you spoil it. It is too worthless a thing to be the object of an effort, and the effort will never be successful. Bring out your own witty observation in company, with an affected ha, ha, after it, and you destroy not the wit,—which it would be a very happy thing indeed if you did,—but yourself, in the estimation of all the wise about you."

Aeth o Lanerchymedd i Dreffynnon at y nos Lun, Ebrill 3, ac oddiyno i Agoriad Capel Rhosesmor ddydd Mawrth, lle y pregethodd ddwywaith, ac adref i Liverpool y Mercher canlynol. Yr wythnos ganlynol aeth i Birmingham, at nos Fercher, Ebrill 12, ar

ei ffordd i Lundain, at y Croglith a'r Pasg, Ebrill 14, 16, 17; ac arhosodd yno dros y Sabboth canlynol, a thros y dydd Mercher, Ebrill 26, yr hwn oedd yn ddiwrnod wedi ei neillduo gan y Llywodraeth i ympryd a gweddi. Pregethodd yn Jewin Crescent yn effeithiol iawn y noswaith hòno, oddiar Esaiah xiv. 32; a dychwelodd adref drannoeth. Yr oedd yn lletya y pryd hwn yn Llundain gydâ Mr. Griffith Davies, F.R.S., 25, Duncan Terrace, Islington, yr un tŷ ag y lletyem ninnau ynddo; ac er fod rhyw amgylchiadau neillduol yn peri iddo deimlo yn hytrach yn bryderus, eto yr oedd yn nodedig o siriol, a'i fryd yn gwbl ar y gwaith pwysig ag oedd wedi gymmeryd iddo ei hunan yn orchwyl mawr ei fywyd. Y pryd hyn y cyfarfyddodd gyntaf, yn mhlith ein llyfrau ni, â rhai o ysgrifeniadau Pascal, ac â rhai cyfrolau o bregethau Dr. Arnold, a Julius Charles Hare; ac nid oedd boddloni arno heb fyned i chwilio am danynt iddo ei hunan cyn dychwelyd adref. Pan y daeth i Lundain, yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyny, un o'r pethau cyntaf a ddywedodd wrthym ydoedd,—"Y mae arnaf fi eisiau i chwi ddyfod gydâ mi ryw ddiwrnod, i edrych a allaf fi gael rhywbeth eto o waith Hare. Y mae efe yn un da iawn. Ac, yn wir, y mae rhyw *idea* yn mhob un o bregethau Arnold. Ond nid ydyw e ddim yn hollol mor efengylaidd, nac yn llawn mor *intellectual* â Hare." Ni a aethom ryw ddiwrnod ar yr ymchwil; ac yr oedd fel un wedi cael ysglyfaeth lawer, pan y llwyddasom i'w cael, a hyny, y diwrnod hwnw, am bris isel iawn.

Yr ydym yn cael y llythyr canlynol o'i eiddo at Dr. Edwards, yn nechreu y flwyddyn hon:—

"39, Everton Terrace, Ionawr 2, 1854.

ANWYL GYFAILL,—Pe buasai genyf ryw esgus buaswn wedi "ysgrifenu atoch rai gweithiau yn ddiweddar, ond yr oedd "diffyg testyn o leiaf yn gwasanaethu fel esgus dros fy an-"mharodrwydd i ymaflyd yn y gorchwyl. Y mae amryw "bethau wedi dygwydd er pan welais chwi, ag y bum lawer "gwaith yn dymuno cael gair â chwi yn eu cylch. Buoch ar

"daith trwy y Cyfandir, ond ni chawsom ddim o'i hanes. "Dysgwyliais lawer weled ysgrif faith yn y *Traethodydd*, wedi "ei theitlo,—'*Taith ar y Cyfandir*,' ond ni welais ac ni chlyw- "ais air hyd yn hyn. Yr ydwyf bellach hefyd, er ys rhai "wythnosau, yn petruso anfon atoch, oblegid nad wyf yn "gwybod yn sicr pa fodd i'ch cyfarch, wrth lwybreiddio fy "llythyr atoch. Mae y chwedl wedi dyfod i'm clustiau eich bod "yn D.D., a'ch bod wedi derbyn yr anrhydedd hwn o'r America. "Clywais rai yn dyweyd eich bod yn ymwrthod âg ef, ac ereill "yn gobeithio na wnaech; ond nid wyf wedi cael sicrwydd gan "neb pa fodd y mae pethau yn bod. Nis gwn paham y "gwrthodech ryw arwydd fel hyn o barch; ac a ellwch chwi "wneyd hyny heb ddangos dirmyg ar garedigrwydd, nis gwn. "Gallai dygwyddiad fel hyn, o bosibl, ddechreu codi tipyn ar "syniadau yr hèn Gymry, a symbylu ein gŵyr ieuainc i lafurio. "Pa fodd bynnag, mi a gyfarwyddaf y llinell hon atoch fel "arferol: caf wybod, ryw bryd, eich teimladau a'ch bwriad yn "yr achos hwn.

"Beth yw eich barn o barth i'r ysgogiad yn nghylch symmud- "iad yr Athrofa? Bydd ein cyfeillion yn Sir Feirionydd yn "gwrthwynebu, y mae yn debyg. Ond os byddai ei symmud yn "lles i'r Athrofa, fe ddylai hyny *orbwyso*, hyd yn nôd yn Sir "Feirionydd ei hunan. Bu'm i yn meddwl lawer gwaith y "buasai yn fantais fawr i chwi fod mewn rhyw dref yn Lloegr, "er mwyn ysgol eich plant, yn enwedig eich merched; ond "chwychwi a ŵyr oreu am hyny. Pa fodd bynnag, y mae yn "debyg y bydd y gwŷr a nodwyd i wneyd ymofyniad am y "priodoldeb o symmud yr Athrofa o gwbl, ac yn nghylch y lle, "a'r draul, a'r cyffelyb bethau, yn lled hir cyn dyfod a'u hysbys- "iad i mewn; ac wedi hyny, ond odid na bydd yr *Hen Gorph* "yn o hir yn ysgwyd ei ben, ac yn petruso, cyn dyfod i ben- "derfyniad. . . . . . . . . . . .

"Clywais yn Mangor fod ymyryd ein Cyfarfod Misol ni yn "achos y dynion ieuainc oedd gydâ chwi, wedi peri blinder yn "Sir Feirionydd. O'm rhan fy hun, nid oeddwn yn gweled fod

"genym le nac achos i ymyryd o gwbl, pe amgen, buaswn wedi "dyweyd rhywbeth am hyny yn Machynlleth; ac nid oeddwn "yn gwybod fod gan eglwys Bedford ryw lawer o adnabydd-"iaeth o honynt ychwaith. A chan eu bod wedi ymadael o "Liverpool, prin yr oeddwn yn gweled, a phrin yr wyf yn "gweled eto, fod galwad arnom ni i ddywedyd dim. Eithr yr "oedd rhyw rai ereill yn gweled dipyn yn wahanol. Ond y "mae hyny drosodd, yr wyf yn hyderu, ac yn rhy ddiwerth i'w "ail godi. Cofiwch ni yma at Mrs. Edwards. Pan ddygwydd i "chwi feddwl hefyd, bydd yn dda genyf gael fy nghofio at Mr. "a Mrs. Roberts, Tremynfa. Mewn brys a ffwdan,

"Ydwyf, anwyl gyfaill, yr eiddoch yn serchus, H. REES."

Yr oedd cryn deimlad er ys peth amser mewn rhai Siroedd, ac mewn rhan, fe allai, yn holl Siroedd y Gogledd, oddieithr Meirionydd, yn nghylch lle yr Athrofa, ac am ei symmud o'r Bala i ryw le mwy manteisiol i'r efrydwyr gael ymarfer â phregethu yn yr iaith Saesonaeg. Teimlid fod yn hawdd, mewn cymhariaeth, ei symmud y pryd hyny, gan nad oedd yn y Bala yr un adeilad neillduol wedi ei chodi ar ei chyfer, ond fod cyfeillion y Bala yn rhoddi yn rhad at ei gwasanaeth y tŷ yr ydoedd yn cael ei chynnal ynddo. A chan fod cryn lawer o siarad am yr angenrheidrwydd o gael lle helaethach a mwy cysurus iddi, yr oedd y rhai oeddent am ei symmud o'r Bala yn gweled mai dyna yr amser goreu i wneyd ymdrech am hyny. Ac yn y Gymdeithasfa Chwarterol a gynhaliwyd yn Nhre-ffynnon, Rhagfyr 6, 7, 8, 1853, fe gafwyd cenadwriaethau o Gyfarfod Misol Môn, Cyfarfod Misol Fflint, Cyfarfod Misol Manchester, Cyfarfod y Dirprwywyr a bennodasid mewn Cym-deithasfa flaenorol i benderfynu yn nghylch trosglwyddiad y Capelau a'r Eglwysi yn Nghaerlleon a'r gymmydogaeth, a berthynent i'r diweddar Barch. Philip Oliver, fel eiddo ac i undeb â ni,—"yn dymuno ar i'r Gymdeithasfa gymmeryd dan sylw y priodoldeb o symmud yr Athrofa i ryw le i gyffiniau Lloegr er gwell mantais i'r pregethwyr ieuainc a fyddont ynddi,

yn neillduol gydâ golwg ar yr iaith Saesonaeg." Bu ymdriniaeth helaeth ar y cwestiwn yn y Gymdeithasfa hòno yn Nhreffynnon, yr hwn a derfynodd mewn nodi Mr. Ebenezer Cooper, Llangollen; Mr. William Williams, Dolgelleu; Mr. David Davies, Mount Gardens, a Mr. David Roberts, Hope Street, Liverpool; a Mr. Richard Davies, Borth; i fod yn Gyfeisteddfod i ystyried yr achos yn drwyadl,—a oedd tebygolrwydd y byddai y cyfryw symmudiad yn llesol i'r Ysgol? i ba le y symmudid hi? beth a fyddai y draul, &c.? a dwyn eu hadroddiad, can gynted ag y gallent, i'r Gymdeithasfa.

Yn y Gymdeithasfa Chwarterol ganlynol, a gynhaliwyd yn Llanerchymedd, y cyfeiriasom ati eisoes, y Parch. David Jones, Caernarfon, yn llywyddu, fe fu sylw drachefn ar y cwestiwn ac ar y penderfyniad a wnaethid yn Nghymdeithasfa Treffynnon, yn pennodi brodyr i gymmeryd yr achos i'w hystyriaeth. Fe ddarllenwyd llythyr hefyd yno oddiwrth dri o'r brodyr a enwasid, yn hysbysu nad oeddent hwy wedi myned yn mlaen gydâ'r ymchwiliadau yn nghylch lle yr Athrofa, o herwydd eu bod wedi clywed am wrthdystiad cryf y cyfeillion yn Nghyfarfod Misol Sir Feirionydd, yn erbyn iddynt weithredu yn yr achos, &c. Adroddodd amryw frodyr o Sir Feirionydd eu golygiadau ar y mater, gan ddadleu yn gryf yn erbyn symmud yr Athrofa, ac yn erbyn gwneuthur unrhyw ymchwiliad gydâ golwg ar hyny. Eithr, wedi hir siarad a dadleu, fe benderfynwyd yn unfryd,—"Fod y Gymdeithasfa yn dymuno ar i'r brodyr a enwyd yn y Gymdeithasfa flaenorol fyned yn mlaen gydâ yr hyn a arddodwyd arnynt fel Cyfeisteddfod, i ymchwilio yn nghylch lle yr Athrofa, a bod rhyddid i Sir Feirionydd ychwanegu unrhyw ddau frawd, a ddewisid ganddynt, o'u plith eu hunain atynt." Yn ganlynol i'r ail bennodiad hwnw, hwy a aethant rhagddynt, i wneuthur pob ymchwil ag a allent i'r achos; ac a ddygasant eu hadroddiad i Gyfeisteddfod perthynol i'r Athrofa a gynhelid mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Caernarfon, Medi 12, 13, 14, 1854, lle yr oedd Mr. Rees yn llywyddu; yr hwn benderfyniad, wedi ei gymmeradwyo gan Gyfeisteddfod

yr Athrofa, a gyflwynwyd i ac a gadarnhawyd gan y Gymdeithasfa:—"Nad oedd y brodyr a bennodasid yn gweled, wedi cymmeryd pob peth i ystyriaeth, y gellid heb wneuthur fe allai mwy o niwed nag o les i'r Athrofa, ei symmud ar hyn o bryd o'r Bala." Ac felly y terfynodd yr ymgais am hyny y pryd hwnw. Yr oedd Mr. Rees yn teimlo yn gryf iawn nad y Bala oedd y lle yn yr hwn y dylasai yr Athrofa fod; ond yr oedd yr un pryd yn gweled mai cyfeillion y Bala a Sir Feirionydd yn unig, oddieithr Sir Fôn, oeddent wedi gwneuthur dim yn effeithiol tuag at ei chynhaliaeth, heblaw trwy gasgliadau blynyddol; ac felly yr oedd yn teimlo mai gwell oedi y cwestiwn gydâ golwg ar ei lle, hyd nes y penderfynid ar ac y llwyddid i gael darpariaeth briodol tuag at gynhaliaeth anrhydeddus iddi.

Nid oes angenrheidrwydd am i ni fyned yn fanwl i amgylchiad y ddau frawd ieuanc ag y cyfeiria Mr. Rees, yn niwedd ei lythyr atynt. Digon i ni yw dywedyd eu bod ill dau wedi eu dwyn i fynu yn Mangor, ac o'u mebyd yn aelodau o'r eglwys yno, yn gwbl adnabyddus i'r holl eglwys, ac â'r cymmeriad goreu iddynt gan bawb. Symmudasant eu dau i Liverpool, lle y buant am amryw flynyddoedd yn aelodau o'r eglwys yn Bedford Street, ac yn gymmeradwy iawn yno fel gwŷr ieuainc nodedig o lafurus am wybodaeth, hynod o ddichlynaidd eu hymarweddiad, a thra ymroddedig i wasanaeth crefydd. Symmudasant drachefn o Liverpool i Lundain, gan wneuthur eu cartref crefyddol yn Jewin Crescent. Wedi rhai misoedd o arosiad yno fe ballodd iechyd un o honynt, fel y bu gorfod arno ddychwelyd i Gymru, i'w le genedigol yn Mangor, ac yn mhen amser penderfynodd fyned i'r Athrofa i'r Bala, lle y buasai o'r blaen cyn myned i Liverpool. Nid hir ar ol hyny, fe benderfynodd ei gyfaill, fyned yntau hefyd i'r Bala, a hyny trwy ganiatad pendant Bwrdd y Gymdeithasfa yn Mhwllheli, Medi 9, 10, 1852. Wedi bod am rai misoedd yn yr Athrofa, fe'u cymhellid gan gyfeillion yn y Bala, ac yn enwedig gan yr athrawon, Mr. Edwards a Mr. Parry, i ymroddi i'r weinidogaeth, â'r hyn y cydsyniasant. Ac, yn gymmaint ag nad oeddent wedi bod ond

am rai misoedd yn y Bala, fe ddarfu i'r swyddogion eglwysig yno anfon i Fangor, er cael tystiolaeth y cyfeillion yno o berthynas iddynt. Ac wedi yr ymddyddan arferol â hwynt, yn ol y drefn y pryd hyny, yn yr eglwys yn y Bala, ac wedi hyny yn y Cyfarfod Misol, yn Sir Feirionydd, fe roddwyd caniatâd iddynt i ddechreu pregethu. Gweithredwyd yn gwbl gydâ hwynt fel ag y gweithredasid mewn amgylchiadau cyffelyb o'r blaen. Yn y Gymdeithasfa yn Machynlleth, Mehefin 8, 9, 10, 1853, fe hysbyswyd yn nghyfarfod y Bwrdd, fod yr eglwys yn Mangor yn trosglwyddo dau ŵr ieuainc oddiyno, y rhai oeddent ar y pryd yn yr Athrofa, i ofal yr eglwys yn y Bala, fel ymgeiswyr am y weinidogaeth. Nid oeddem ni yn dygwydd bod yn Machynlleth, ac nid ydym yn cofio i ni erioed glywed paham y gwnaed y fath hysbysiad yno, ac nid ydym yn deall fod dim mwy wedi ei wneyd yno na rhoddi yr hysbysiad hwnw. Y mae yn ymddangos, pa fodd bynnag, fod rhai o'r cyfeillion yn Liverpool yn teimlo y dylasent hwy,—yr eglwys yn Bedford Street a'r Cyfarfod Misol,—gael ymgynghori â hwynt yn nghylch y gwŷr ieuainc cyn rhoddi caniatad iddynt ddechreu pregethu, yn gymmaint a'u bod am flynyddoedd yn aelodau yn Liverpool ar ol gadael Bangor. Yr oedd un brawd yn Liverpool y pryd hyny, yn lled hoff o ymyraeth â, ac o feirniadu gweithrediadau ein Cymdeithasfäoedd, yn benderfynol i ddwyn yr achos hwn drachefn i sylw y Gymdeithasfa; ac fe lwyddodd i gael gan y Cyfarfod Misol anfon, yn y ffurf o lythyr y genadwri ganlynol at y Gymdeithasfa yn Mangor, Medi 5, 6, 7, 1853, pryd yr oedd y Parch. Cadwaladr Williams yn llywyddu:—

"Anwyl Frodyr,—Yr ydym yn cymmeryd y rhyddid i'ch anerch ar fyr eiriau, gydâ golwg ar dderbyniad gwŷr ieuainc i Athrofa y Bala, ac ymgynnygiad y rhai a fyddont yno at waith y weinidogaeth. Tra nas gallwn edrych ond gydâ y boddhâd mwyaf ar awyddfryd ieuenctyd ein heglwysi i gyrhaedd dysgeidiaeth, ac i gymmeryd mantais o'r cynnorthwyon a ymgynnygient iddynt yn yr Athrofa, yr ydym yn barnu y dylid rhoi ar ddeall i'r holl eglwysi nad yw yn oddefol i neb fyned

iddi ond a gyflwynir i'r Athrawon yn unol â'r rheolau gosodedig. Yr ydym hefyd yn ei ystyried o bwys tra mawr na byddo i unrhyw eglwys na Chyfarfod Misol ysgogi gydâ golwg ar godi neb o'r ysgolheigion i waith y weinidogaeth, heb yn gyntaf wneuthur ymgynghoriad manwl â'r eglwysi y bu y cyfryw rai yn aelodau o honynt ddiweddaf cyn myned yno, a'r rhai y gellir tybied sydd fwyaf cymhwys i roddi barn yn mherthynas i'w cymhwysderau at y gwaith, cyn belled, o leiaf, ag y mae a wnelo duwioldeb personol a hyny."

Parodd derbyniad y genadwri hon gryn deimlad, ac heb fod y mwyaf cysurus, yn meddyliau amryw yn Nghyfeisteddfod y Gymdeithasfa. Yr oedd brawd neu ddau, adnabyddus fel heb fod yn bleidiol iawn i'r Athrofa, yn ymddangos fel yn tueddu i gymmeryd mantais oddiwrth y genadwri i ymosod arni yno. Ond wedi ymholi i amgylchiadau y genadwri, cafwyd nad oedd un gweithrediad afreolaidd wedi cymmeryd lle gydâ golwg ar wŷr ieuainc yn yr Athrofa. A chydâ golwg ar y rhai y gwybyddid y cyfeirid atynt yn y genadwri, yn ol geiriad y genadwri ei hunan, fe gafwyd allan, os oedd gan ryw rai le i gwyno, mai gan gyfeillion Llundain yr oedd hyny, yn gymmaint ag *mai yno yr oedd y gwŷr ieuainc wedi bod yn aelodau,* er ys amryw fisoedd, os nad blynyddoedd, cyn eu mynediad i'r Athrofa. Wedi cryn lawer o siarad, fe gytunwyd, er mwyn eglurdeb priodol o bob tu rhagllaw, ar i benderfyniad gael ei ffurfio a'i gyflwyno i'r Gymdeithasfa drannoeth, gydâ golwg ar y rhai a fyddont yn yr Athrofa yn ymgeiswyr am y weinidogaeth. Ystyr y penderfyniad y daethpwyd iddo oedd,—"Fod y Gymdeithasfa yn dymuno bod yn anogaethol i'r Athrawon yn y Bala arfer pob rhyddid i brofi dynion ieuainc ag a fyddont dan eu gofal o bryd i bryd, fel ymgeiswyr am y weinidogaeth, a hyny yn mhob dull ag y barnont hwy yn ddoeth; ond nad oes neb i'w alw yn bregethwr, yn ystod yr amser y byddo yn yr Athrofa, oddieithr fod addfedrwydd i hyny yn Nghyfarfod Misol y Sir y perthyna iddo." Fel y dywed Mr. Rees yn ei lythyr, yr oedd rhai cyfeillion yn Sir Feirionydd yn teimlo yn ddwys iawn

oblegid yr ymyriad hwn â'u gweithrediadau hwynt gan gyfeillion Liverpool, ac yn neillduol oblegid yr appêl at y Gymdeithasfa, heb roddi un rhybudd am hyny iddynt hwy. Yr oedd yr Athrawon yn y Bala, yn enwedig y Prif-athraw, yn teimlo felly; ac amcan Mr. Rees yn y llythyr a ddyfynwyd genym oedd lleddfu eu teimladau a cheisio symmud ymaith bob anesmwythder.

Wele lythyr eto o'i eiddo at Dr. Edwards, pan ydoedd mewn trallod dwfn wedi colli un o'i ferched:

"Everton Terrace, Chwefror 3, 1854.

"FY MRAWD A'M CYDYMAITH MEWN CYSTUDD,—Daeth y
"newydd am farwolaeth eich merch i'm clustiau yn annisgwyl-
"iadwy, ac effeithiodd ar fy meddwl yn drwm, oblegid yr wyf
"yn casglu y rhaid ei fod wedi dygwydd yn bur ddisymwth,
"o herwydd nad oeddech yn sôn dim am ei hafiechyd yn eich
"llythyr ataf. Nid wyf yn gallu dirnad pa fodd y buaswn yn
"teimlo heddyw, pe buasai fy enaid i yn lle eich enaid chwi. Y
"mae arnaf ofn cynnyg at geisio eich cysuro chwi a'ch anwyl
"wraig, rhag na byddaf ond megis un yn canu caniadau i galon
"drist; a thrwy siarad heb y tynerwch priodol, bod fel un yn
"cellwair â rhai dolurus a chystuddiedig eu calonau. Eto nis
"gallaf wadu nad wyf yn cyd-ddioddef â chwi eich dau: ac mi
"ddychymygwn, pe cyfarfyddwn â chwi, y byddai tynerwch fy
"nghalon a'm cydymdeimlad yn ffrydio allan trwy fy llais, fy
"llygaid, a'm llaw wrth wasgu eich dwylaw chwi,—a hyny yn
"mhell cyn i'm tafod ddechreu llefaru.

"Mae y dyddiau hyn wedi bod yn ddyddiau profedigaethus
"arnaf fi fy hunan: ac yn fy mhryder ac amlder fy meddyliau
"o'm mewn, nid wyf yn cael dim tawelwch na noddfa, ond hyny
"ydwyf yn gael trwy orchymyn fy hunan a'm holl achosion i
"law Duw. Y mae credu fod holl amgylchiadau amser yn cael
"eu trefnu a'u llywio gan anfeidrol ddaioni, mewn anfeidrol
"ddoethineb,—a chael fy hunan ambell funud yn ymostwng i'r
"Llywodraethwr mawr, yn dwyn tawelwch mawr i fy mynwes.

"Ond y mae yr ystorm yn codi drachefn,—a thrachefn y mae "ymddarostwng i Dduw yn dwyn tangnefedd. Yr ydwyf yn "gobeithio fod y Duw, yr hwn sydd yn Ddyddanydd y rhai "gorthrymedig, yn eich diddanu chwi a'ch anwyl briod yn yr "amgylchiad hwn. O! gadewch eich plentyn i orphwys gydâ "Duw. Er maint y mae natur yn ei frefu, yr ydwyf yn coelio "y deuwch chwi eich dau yn fuan i deimlo yn debyg i'r Dr. "Mc'All ar farwolaeth ei ferch, pan y dywedai,—'Pe b'ai gair "yn alluog i'w dwyn hi yn ol i'r byd hwn, ni cha'i y gair hwnw "mo'i ddywedyd.'

"Y mae genyf fi ddwy ferch fechan yn y pridd. Y mae yn "wir iddynt fyned yno yn fabanod; ni chàdd y serchiadau ddim "amser i ymblethu â hwy. Ond yr wyf yn meddwl pe cawn "gynnyg ar eu hadferiad i fywyd, a'u gwneyd mor dyner ac "anwyl yn fy ngolwg ag ydyw yr un sydd genyf, y dewiswn, "heb funud o betrusder, eu gadael lle y maent. O! am berffaith "ymostyngiad i ewyllys Duw. . . . . . . . .

"Yr oedd yn dda genyf glywed gan Mr. Roberts ei fod wedi "anfon gair atoch yn nghylch achos y ddau ŵr ieuainc, a'i fod "yntau wedi cael llythyr caredig oddiwrthych chwithau yn ôl. "Yr wyf yn gobeithio y gwna gair o eglurhad o bob ochr "symmud pob anesmwythyd. Nid rhwng Liverpool a'r Bala yr "oedd y mater, ond rhwng Liverpool a Bangor, am na chawsai "Liverpool ryw lais yn eu hachos yn gystal a Bangor, gan eu "bod wedi bod yma cyhyd. Mae yn gofus genyf i chwi a Mr. "O. Thomas sôn wrthyf am y mater, ond ni wyddwn i pa beth "i'w wneyd; ac y mae yn rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn yn "cydweled â'r brodyr yma o barth i'r ymyryd. Ond pob peth "yn dda—heddwch a brawdoliaeth wedi eu sierhau. Yr wyf "yn addef i mi ddysgwyl yn bryderus am lythyr oddiwrthych, "ac yr oeddwn wedi penderfynu mai yr archoll oedd eich "teimladau wedi gael yn yr achos yma, oedd yn peri nad "oeddech yn ysgrifenu. Y mae genyf ryw druth bron yn "barod i'r *Traethodydd* ryw dro, pan y byddwch yn brin o "ddefnyddiau.

"Gydâ chôf serchus at Mrs. Edwards, yn yr hyn y mae fy "ngwraig a'm merch yn cyduno, y gorphwys eich gwael gyfaill,

"HENRY REES."

Y "*truth*" y sonia yr awdwr yma am dano, fel "bron yn barod i'r *Traethodydd*," oedd yr erthygl ardderchog ar "*Gyflawnder y Duwdod*," a gyhoeddwyd yn y rhifyn am Ebrill, 1854, tudal. 129—142; ac a ail gyhoeddwyd yn y gyfrol gyntaf o'i Bregethau, tudal. 7—26. Y mae yn hollol deilwng o'r lle anrhydeddus a roddir iddi yn y cyfrolau o'i Bregethau, a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth.

Nid oes genym yr un llythyr yn ychwaneg o'i eiddo at neb am y flwyddyn 1854, na dim, ond a adroddwyd genym eisoes, am ei deithiau i'r gwahanol Gymdeithasfäoedd a Chyfarfodydd Pregethu y bu ynddynt yn ystod y flwyddyn. Dichon, pa fodd bynnag, na bydd yn annyddorol i'r darllenydd gael cyfleusdra i weled y sylwadau a wnaed gan y diweddar Barch. Edward Morgan, ar ei bregeth ar y Maes, am ddeg ar y gloch, yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 14, y flwyddyn hon. Yr oedd Mr. Morgan ei hunan yn analluog gan wendid ei iechyd, ac yn enwedig gan ddiffyg llais, i wneuthur dim ond gwrando yn y Gymdeithasfa hòno. Yr oedd er hyny yn gallu bod yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd yn neillduol a chyhoeddus, ac fe ysgrifenodd erthygl ar y Gymdeithasfa a'i Phregethwyr, i'r "*Methodist,*" am Tachwedd, 1854, o'r hon y mae yr hyn a ganlyn yn ddyfyniad. Testyn Mr. Rees oedd Psalm xc. 12. Yr oedd yr hen frawd, y Parch. Evan Harris, wedi pregethu o'i flaen, ac yna medd yr erthygl,—

"Ar ol yr hen ŵr, cododd un a restrir yn mysg tywysogion pregethwyr Cymru, un sydd er's dros ugain mlynedd bellach wedi cyrhaedd pen y pinacl, ac, yn groes i'r rheol gyffredin, wedi ei gadw hefyd, a thebygol ydyw mai ei gadw a wna bellach, oblegid ni choronwyd ef nes iddo yn gyfreithlon enill y gamp. Dychymygwn fy mod yn gweled pob peth yn ei ymddangosiad yn fanteisiol iddo fel areithiwr; ond yn hyny mae

yn hawdd i'r meddwl gael ei gamarwain yn ddiarwybod iddo ei hun; wedi i un ddyfod yn feistr y gynnulleidfa, yr ydym yn tybied ein bod yn gweled gwasanaethgarwch pob peth a berthyn iddo i hyny.

> "'Roedd hyd yn nod ei *attal-d'wedyd*
> Yn gyfwng o hyawdledd cu.'

"Ond lledrith meddyliol ydyw hyn. Ond os ydyw bod yn dal, teneu, a llwydaidd yn fantais i'r areithiwr, yr oedd y fantais gan y pregethwr. Ni bu yr un dyn bychan erioed yn perthyn i'r dosbarth uchaf o areithwyr. Nid dim byd ydyw i ddyn mewn ystyr naturiol fedru gweled dros benau ei gymmydogion; ac fe deimlir yn gyffredinol yn y dyddiau hyn, nad ydyw rhyw lawer o gîg a gwaed nemawr o gymmeradwyaeth i swyddogion teyrnas nefoedd. Yr oedd galluoedd meddyliol y pregethwr wedi eu cyfaddasu a'u cyd-bwyso yn fanteisiol i'w boblogrwydd, heb fod yr un o honynt wedi gordyfu fel ag i grebachu y lleill. Yr oedd ganddo ddigon o'r ymresymwr i beri i bawb deimlo mai ar y graig ac nid ar dywod yr oedd yn adeiladu, a digon o'r bardd i wisgo pob peth â phrydferthwch, a digon o naws y Cristion i ireiddio y cyfan, fel ag i attal i'r ymresymu fod yn sychlyd, ac i'r darluniadau fod yn ddiamcan ac yn ffrostieithol. Ond os oedd y bregeth hon yn esiampl o'i rai cyffredin, yr oedd yn eglur mai yn ei allu i ddarlunio y mae cuddiad ei gryfder; ond yn hyn yr ydoedd cyn belled ag ydyw y dwyrain oddiwrth y gorllewin oddiwrth y dull iselwael hwnw a welir yn rhy aml yn y pulpud, er ei fod yn llawer mwy gweddus i'r chwareudŷ nag i'r addoldŷ, o geisio personoli gwahanol gymeriadau, a gwneuthur y bregeth yn fath o chwareuyddiaeth grefyddol *(sacred drama*, neu yn fynych yn *comedy)*, ac alltudio o'r gynnulleidfa drwy hyny bob ysbryd teilwng i wasanaeth y cysegr, a pheri i un adgofio am yr hen fynachod oedd yn crwydro drwy Ewrop cyn y diwygiad Protestanaidd, i *actio* pethau cyffelyb ger bron y bobl. Yr oedd y darluniau yn berffaith, mor fanwl fel nad oedd yr un linell yn

eisieu i'w gorphen. Buasai eu manylwch a'u symlrwydd yn eu gwneyd yn wrthun yn llaw neb ond un o feistriaid y gynnulleidfa. Ond yr un peth ag a ddangosai ffolineb dyn llai, oedd yn dangos mawredd a medr y pregethwr. Mor syml, mor naturiol, mor berffaith oedd y darluniad a roddodd o ddyn yn gadael y ddaear! Yr oedd y gynnulleidfa yn ei weled yn codi gydâ thrafferth o'r hen gadair freichiau yn y gongl, yna yn troi i edrych arni, yn syllu drachefn ar yr hen gloc, ac yn taflyd ei olwg o amgylch y tŷ, gan ffarwelio yn ddistaw yn ei feddwl â'r cwbl; yna yn dringo y grisiau yn araf, gan deimlo ar bob un o honynt na rodiai y ffordd hon drachefn; yna yn gorwedd ar ei wely i farw; amser a'i bethau yn cilio yn brysur o'i olwg, fel y mae y tir yn cael ei golli yn raddol gan y morwr wrth gychwyn i'w fordaith bell; rhyndod glyn cysgod angau yn ymweithio drwy ei holl natur; yr enaid yn tremio i edrych beth oedd yn mlaen, ond gan faint y tywyllwch yn methu gweled; dychryn y dychryniadau yn ymaflyd ynddo, ac yn y tywyllwch yn rhoddi llam i'r wlad ddieithr, o gyffiniau yr hon nad oes neb yn dychwelyd. O fel y treiddiai cwestiwn y pregethwr trwy fynwesau y gynnulleidfa,—'Pa faint a dâl heddwch â Duw yn y fath amgylchiad?' Yr oedd yno rai yn diolch yn uchel fod yr heddwch hwn i'w gael, ac nid oedd ond ychydig, os neb, yno, nad oedd hyn yn deimlad yn eu calon. Wrth ddychwelyd,— Wel, meddwn, nid gwir a glywais; nid yw holl bregethwyr cymmanfa ddim wedi myned i'r nefoedd."

Ac y mae yn ddiammeu genym fod pawb sydd yn cofio y Gymdeithasfa hono yn Nghaernarfon, y rhai nid ydynt erbyn hyn, mewn cymhariaeth, ond ychydig nifer, yn gwbl barod i ddwyn tystiolaeth unfrydol i gywirdeb y darluniad uchod, ac i'r effeithiau llesmeiriol a gâi y bregeth, y cyfeirir ati, ar eu teimladau.

DIWEDD Y GYFROL GYNTAF.

LIBRARY
15 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO



KET

RY

UNIVERSITY OF TORONTO
VELUT ARBOR ÆVO

BX
9225
R44T46
1890
CYF. 1
C.1
ROBA

7 107009316058